VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG



# R R M R A

# A R A 2017/18

**MEDI 2018**

Cymunedau Cryf â Dyfodol Disglair

:

01446700101

improvements@valeofglamorgan.gov.uk

, M , S H
H . . 4RU

## Cynnwys


1. CYFLWYNIAD ....................................................................................5
1.1 PWRPAS YR ADRODDIAD HWN .......................................................5
1.2 TROSOLWG O BERFFORMIAD ........................................................8
1.3 CYFRANIAD EIN CYNLLUN CORFFORAETHOL (AMCANION LLAWN) AT Y GOFYNION CENEDLAETHOL ..........................................................12
2. STATWS CYFFREDINOL Y CYNLLUN CORFFORAETHOL (AMCANION LLESIANT) ...............................................................................14
3. BEO DDIOGEL A CHYNHWYSOL DATGANIAD SEFYLLFA ......................... 16
3.1 CIPLUN O BERFFORMIAD Y CANLYNIAD ...........................................20
EIN CYNNYDD YN FANWL
3.2 AMCAN 1: LLEIHAU TLODI AC YNYSU CYMDEITHASOL ............................21
3.3 AMCAN 2: CYNNIG TAI O SAFON A CHYMUNEDAU DIOGEL ......................23
EIN CYFLAWNIADAU
3.4 AMCAN 1: EIN CYFLAWNIADAU ......................................................... 26
3.5 AMCAN 2: EIN CYFLAWNIADAU ......................................................... 30
EIN HERIAU A'N RISGIAU
3.6 AMCAN 1: EIN HERIAU ..................................................................... 32
3.7 AMCAN 2: EIN HERIAU ..................................................................... 33
3.8 AMCAN 1: RISGIAU I'N GWASANAETHAU NI ...................................... 34
3.9 AMCAN 2: RISGIAU I'N GWASANAETHAU NI ...................................... 37
4. BRO SY'N GYFRIFOL YN AMGYLCHEDDOL AC YN FFYNNU ..................... 41
4.1 CIPLUN O BERFFORMIAD Y CANLYNIAD ...........................................47
EIN CYNNYDD YN FANWL
4.2 AMCAB 3: HYBU ADFYWIO, TWF ECONOMAIDD A CHYFLOGAETH .............47
4.3 AMCAN 4: HYBU DATBLYGU CYNALIADWY AC AMDDIFFYN EIN HAMGYLCHEDD ..........................................................................49
EIN CYFLANIADAU
4.4 AMCAN 3: EIN CYFLAWNIADAU ........................................................53
4.5 AMCAN 4: EIN CYFLAWNIADAU ........................................................56
EIN HERIAU A'N RISGIAU
4.6 AMCAN 3: EIN HERIAU ....................................................................59
4.7 AMCAN 4: EIN HERIAU ....................................................................60
4.8 AMCAN 3: RISGIAU I'N GWASANAETHAU NI .......................................61
4.9 AMCAN 4: RISGIAU I'N CWASANAETHAU NI .......................................63
**5. BRO UCHELGEISOL A BYWIOG O RAN DIWYLLIANT ..............................67**
**5.1 CIPLUN O BERFFORMIAD Y CANLYNIAD ...........................................72**
**EIN CYNNYDD YN FANWL**
**5.2 AMCAN 5: CODI SAFONAU LLWYDDIANT CYFFREDINOL ...........................73**
**5.3 AMCAN 6: GWERTHFAWROGI DIWYLLIANT AC AMRYWIAETH ......................77**
**EIN CYFLAWNIADAU**
**5.4 AMCAN 5: EIN CYFLAWNIADAU ........................................................79**
**5.5 AMCAN 6: EIN CYFLAWNIADAU ........................................................84**
**EIN HERIAU A'N RISGIAU**
**5.6 AMCAN 5: EIN HERIAU ....................................................................88**
**5.7 AMCAN 6: EIN HERIAU ....................................................................89**
**5.8 AMCAN 5: RISGIAU I'N GWASANAETHAU NI .......................................90**
**5.9 AMCAN 6: RISGIAU I'N GWASANAETHAU NI .......................................93**

6. BRO IACH AC ACTIF ……………………………………………………………………..96
6.1 CIPOLWG AR BERFFORMIAD …………………………………………………………98
EIN CYNNYDD YN FANWL
6.2 AMCAN 7: ANNOG A HYRWYDDO FFYRDD O FYW ACTIF AC IACH …………. 99
6.3 AMCAN 8: DIOGELU POBL SY'N AGORED I NIWED A HYRWYDDO BYW'N ANNIBYNNOL …………………………………………………………………………102
EIN CYFLAWNIADAU
6.4 AMCAN 7: EIN CYFLAWNIADAU ………………………………………………..…105
6.5 AMCAN 8: EIN CYFLAWNIADAU ……………………………………………….….109
EIN HERIAU A RISGIAU
6.6 AMCAN 7: EIN HERIAU ……………………………………………………………...…114
6.7 AMCAN 8: EIN HERIAU ……………………………………………………………..…115
6.8 AMCAN 7: RISGIAU GWASANAETH ………………………………………………..117
6.9 AMCAN 8: RISGIAU GWASANAETH ……………………………………………..…119
7. LECHYD CORFFORAETHOL (CYNLLUNIO INTEGREDIG) ……………….…….125
7.1 CIPOLWG AR BERFFORMIAD ……………………………………………………...130
EIN CYNNYDD YN FANWL
7.2 AIL-LUNIO GWASANAETHAU A CHYNLLUNIO INTEGREDIG ………………..…..131
7.3 IECHYD CORFFORAETHOL: RHEOLI EIN HADNODDAU …………………….. 133
7.3.1 POBL: EIN CYFLAWNIADAU …………………………………………………133
7.3.2 POBL: EIN HERIAU ……………………………………………………………135
7.3.3 CWSMERIAID: EIN CYFLAWNIADAU ………..………………………….....136
7.3.4 CWSMERIAID: EIN HERIAU ………………………………………………… 140
7.3.5 CYLLID: EIN CYFLAWNIADAU ……………………………………………... 143
7.3.6 CYLLID: EIN HERIAU ………………………………………………………… 144
7.3.7 ASEDAU: EIN CYFLAWNIADAU ……………………………………………... 146
7.3.8 ASEDAU: EIN HERIAU ………………………………………………………… 147
7.3.9 BRO DDIGIDOL (TGCh): EIN CYFLAWNIADAU ……………………………. 147
7.3.10 BRO DDIGIDOL (TGCh): EIN HERIAU ……………………………………….. 149
7.3.11 IECHYD CORFFORAETHOL: CYDWEITHIO: EIN CYFLAWNIADAU …….. 149
7.3.12 IECHYD CORFFORAETHOL: CYDWEITHIO: EIN HERIAU ……………..… 151
8. RISG CORFFORAETHOL ……………………………………………………….… 152
8.1 RISGIAU IECHYD CORFFORAETHOL …………………………………………….. 155
9. BETH A DDYWEDODD EIN HARCHWILWYR AMDANOM ……………………… 156
10. PERFFORMIAD DIWEDD BLWYDDYN BRO MORGANNWG 2017/18: DANGOSYDDION CENEDLAETHOL …………………………………………….. 157
10.1 SAFLE PERFFORMIAD YN OL AWDURDOD LLEOL AR GYFER MESURAU ATEBOLRWYDD CYHOEDDUS 2017/18 ……………………………………………160
10.2 PERFFORMIAD O'I GYMHARU A CHYMRU A RHANBARTH DE-DDWYRAIN CYMRU ……………………………………..………………………… .161
10.3 TROSOLWG PERFFORMIAD DANGOSYDDION PAM AR GYFER 2017/18 …………………………………………………………………………………….… 163
10.4 SYLWADAU AR DDANGOSYDDION PERFFORMIAD CHWARTERL ISAF …………………………………………………………………………………….… 166
10.5 DANGOSYDDION PERFFORMIAD CENEDLAETHOL YCHWANEGOL: MESURAU STATUDOL Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL ……………… 167

ATODIAD A: EITHRIADAU PERFFORMIAD ………………………………………… 169

ATODIAD B: CAMAU GWEITHREDU'R CYNLLUN GWASANAETH A DANGOSYDDION PERFFORMIAD ……………………………………………………... 197

ATODIAD C: CYNNYDD O RAN EIN HADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL 2017/18 A THRACIWR GWEITHGOR DIRNAD ....................................................................... 402

RHESTR TERMAU ........................................................................................................ 408

# 1. CYFLWYNIAD

## 1.1 PWRPAS YR ADRODDIAD HWN

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (MLlL) a Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 (DLlCD) yn gosod dyletswyddau penodol ar y Cyngor mewn perthynas â gosod amcanion a dyletswyddau adrodd. O dan DLlCD, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei Amcanion Llesiant blynyddol erbyn 31 Mawrth ac adolygu'r rhain yn flynyddol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol. O dan MLlL, mae'n ofynnol i ni hefyd gyhoeddi dwy ddogfen bob blwyddyn: y gyntaf yw Cynllun Gwella sy'n edrych ymlaen, yn nodi ein blaenoriaethau gwella (a elwir yn Amcanion Gwella) ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod; ac mae'r ail yn adroddiad blynyddol i fyfyrio'n ôl ar berfformiad y Cynllun hwnnw.

Mewn blynyddoedd blaenorol, mae Amcanion Gwella'r Cyngor wedi cynnwys nifer fechan o feysydd ffocws blaenoriaeth lle nodwyd bod angen gwelliant sylweddol. Hysbyswyd y rhain bob amser gan flaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol a Hunanasesiad blynyddol y Cyngor. Drwy symud tuag at fodel cynllunio mwy integredig, ein blaenoriaethau gwella nawr yw'r un blaenoriaethau a amlinellir yn ein Cynllun Corfforaethol ac felly nid ydynt bellach yn eistedd ar eu pennau eu hunain. Bu ein ffocws ar osod ein Canlyniadau a'n Amcanion Llesiant a amlinellir yng Nghynllun Corfforaethol 2016-20, fel ein bod yn gwneud y gorau o'n cyfraniad at Nodau Llesiant y DLlCD tra'n cymharu hyn â'n prosesau cynllunio corfforaethol. Dengys hyn nid yn unig ein cyfraniad at y Nodau Llesiant ond hefyd mae’n cynrychioli ehangder y gweithgareddau rydym yn ymgymryd â hwy fel Cyngor a thrwy integreiddio 'pum ffordd o weithio' y Ddeddf yn ein fframwaith cynllunio. Mae'r dull hwn yn unol â chanllawiau gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn unol â'r dull integredig hwn o gynllunio ac adrodd, cymeradwyodd y Cabinet (3 Ebrill 2017) Amcanion Llesiant y Cynllun Corfforaethol fel Amcanion Gwella'r Cyngor at ddibenion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

Yn unol â'n dyletswyddau o dan DLlCD, rydym wedi ymrwymo i adolygu’r Amcanion Llesiant yn flynyddol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Wrth ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol, yr oeddem yn ymwybodol o ganfyddiadau newydd yr Asesiad Llesiant a oedd yn cael ei wneud i hysbysu Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg (BGC). Yn ogystal, trwy hunanasesiad blynyddol y Cyngor ym mis Rhagfyr 2017, defnyddiwyd Cynllun Llesiant drafft y BGC hefyd fel cyfle i adolygu perthnasedd ein blaenoriaethau Llesiant er mwyn inni allu parhau i adlewyrchu'r blaenoriaethau pwysicaf ar gyfer Bro Morgannwg. Drwy'r gwaith hwn, rydym yn sicr bod ein Amcanion Llesiant yn briodol ac yn parhau i fod yn berthnasol i'r blaenoriaethau a amlinellir yng Nghynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 2017-2023 ac y byddant yn ategu gwaith y BGC wrth symud ymlaen. Ein Amcanion Llesiant a Gwella ar gyfer 2017/18 yw:

Amcan 1: Lleihau tlodi ac allgáu cymdeithasol
Amcan 2: Darparu cartrefi gweddus a chymunedau diogel
Amcan 3: Hyrwyddo adfywio, twf economaidd a chyflogaeth
Amcan 4: Hyrwyddo datblygiad cynaliadwy a diogelu ein hamgylchedd
Amcan 5: Codi safonau cyflawniad cyffredinol
Amcan 6: Gwerthfawrogi diwylliant ac amrywiaeth
Amcan 8: Diogelu pobl sy'n agored i niwed a hyrwyddo byw'n annibynnol

Mae'r Adolygiad Blynyddol o Berfformiad 2017/18 (Cynllun Gwella Rhan 2) yn edrych yn ôl ar ba mor dda y gwnaethom o ran cyflenwi ein blaenoriaethau gwella (Amcanion Llesiant) fel y nodir yn Amcanion Llesiant a Chynllun Gwella Bro Morgannwg Rhan 1 2017/18, a bwriedir iddo gydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol o dan DLlCD a'r MLlL, yn ogystal â darparu asesiad o'n perfformiad ar gyfer ein dinasyddion.

Roedd 2017/18 yn ail flwyddyn lawn ein Cynllun Corfforaethol, sy'n nodi'n glir ein huchelgais fawr ar gyfer Bro Morgannwg. Datblygwyd y Cynllun mewn partneriaeth â thrigolion lleol, partneriaid allweddol a rhanddeiliaid, ac rydym am wneud y Fro yn lle gwych i fyw, lle gwych i wneud busnes a lle gwych i wneud gwahaniaeth – a hynny gyda chefnogaeth gan y Cyngor sy'n rhoi gwerth da am arian. Mae'r adroddiad hwn yn darparu adolygiad cynhwysfawr o berfformiad y flwyddyn flaenorol yn ôl Canlyniadau ac Amcanion Llesiant fel y maent yn alinio â'n Cynllun Corfforaethol 2016-20, ac yn ymgorffori ein gofynion adrodd statudol gan gynnwys; amlinellu cyfraniad cyffredinol y Cyngor at y nodau Llesiant cenedlaethol; cymhariaeth o'n perfformiad trwy ddefnyddio data meincnodi cenedlaethol; cynnydd yn erbyn ein cydweithredu strategol; yr hyn y mae ein harchwilwyr yn ei ddweud amdanom ni; sut yr ydym wedi defnyddio ein hadnoddau a sut yr ydym wedi ymgysylltu â'n trigolion. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi cyfle i gychwyn ar y broses o adolygu ein Hamcanion Llesiant (Gwella) er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol yn unol â gofynion deddfwriaeth. Bydd Cadarnhad o'n Hamcanion Llesiant (Gwella) ar gyfer 2019/20 yn cael ei amlinellu yng Nghynllun Cyflenwi Blynyddol Cynllun Corfforaethol y Cyngor (a Chynllun Gwella Rhan 1), a gyhoeddir erbyn Mehefin 2019.

Yn gyffredinol, rydym wedi gwneud cynnydd cadarn o ran cyflenwi ein blaenoriaethau ar gyfer 2017/18 fel yr amlinellwyd yn Amcanion Llesiant y Cynllun Corfforaethol (Gwella), gan roi statws perfformiad cyffredinol (neu COG) o OREN. Ar y cyd, rydym wedi cyflenwi'r mwyafrif o'n gweithgareddau arfaethedig ar gyfer y flwyddyn, sy'n cyfrannu at gyflawni ein blaenoriaethau Llesiant Corfforaethol a llesiant dinasyddion Bro Morgannwg. Fodd bynnag, mae'r rhain yn parhau i fod yn flaenoriaethau strategol hirdymor i'r Cyngor, ac mae'r llwyddiant a gyflawnwyd yn 2017/18 yn cynrychioli cychwyn yr hyn a fydd yn rhaglen hir o fentrau a anelir at weithio tuag at adeiladu cymunedau cryf gyda dyfodol disglair, gweledigaeth hirdymor y Cyngor.

Cafodd 3 allan o 4 Canlyniad Llesiant y Cynllun Corfforaethol (Bro Gynhwysol a Diogel, Bro sy'n Gyfrifol yn Amgylcheddol ac yn Ffynnu, a Bro Uchelgeisiol a Bywiog o ran Diwylliant) statws perfformiad Oren yn gyffredinol, a rhoddwyd Statws gwyrdd i'r un terfynol (Bro Iach ac Actif). Priodolwyd statws perfformiad gwyrdd i 2 (Gwerthfawrogi diwylliant ac amrywiaeth ac Annog a hyrwyddo ffyrdd o fyw Iach ac Actif) allan o 8 Amcan Llesiant y Cynllun Corfforaethol (Gwella) i adlewyrchu'r cynnydd ardderchog a wnaed gyda chyflwyno gweithgareddau cynlluniedig sy'n ymwneud â blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol aliniedig. Gwnaed cynnydd cryf yn y 6 Amcan Llesiant (Gwella) sy'n weddill, gan arwain at ddyrannu statws perfformiad Oren ar ddiwedd y flwyddyn. O ran Iechyd Corfforaethol, rydym yn parhau i wneud cynnydd rhagorol yng nghyd-destun cefnogi gwasanaethau'r Cyngor wrth weithredu ei flaenoriaethau Cynllun Corfforaethol neu Amcanion Llesiant (Gwella), ac adlewyrchir hyn yn y statws perfformiad Gwyrdd a gyflawnwyd ddiwedd y flwyddyn.

Mae'n bwysig adolygu ein cynnydd ac adrodd i aelodau etholedig a'r cyhoedd am welliannau a gyflawnwyd a lle y gallwn wneud yn well. Cyflwynir ein Hamcanion Llesiant (Gwella) trwy Gynlluniau Gwasanaeth, sy'n manylu ar y camau gweithredu a'r mesurau, yr adnoddau, yr amserlenni a'r atebolrwydd perthnasol ar gyfer eu cyflenwi. Caiff cynnydd wrth gyflenwi ein blaenoriaethau corfforaethol ei archwilio'n chwarterol gan aelodau etholedig a chyhoeddir ein hadroddiadau ar-lein yn www.bromorgannwg.gov.uk. Yn unol â threfniadau monitro perfformiad corfforaethol, adroddir am gynnydd yn erbyn ein Hamcanion Llesiant (Gwella) bob chwarter i'r Tîm Rheoli Corfforaethol ac i aelodau etholedig trwy'r Pwyllgorau Craffu a'r Cabinet, lle mae meysydd sy'n tanberfformio yn cael eu herio ac y cytunir ar gamau adferol fel y bo'n briodol. Yn ychwanegol at hyn, penodwyd Cyfarwyddwr Noddi i bob un o 4 Canlyniad Llesiant y Cynllun Corfforaethol, sy'n gyfrifol am sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud wrth gyflenwi ein gweithgareddau cynlluniedig yn unol â'n blaenoriaethau corfforaethol am y flwyddyn, gan gyfrannu tuag at gyflawni pob Canlyniad Llesiant.

Fel pob cyngor arall yng Nghymru, mae Cyngor Bro Morgannwg yn parhau i wynebu amseroedd ariannol heriol. Er gwaethaf gwneud arbedion o tua £50 miliwn dros y saith mlynedd ddiwethaf, mae angen i ni barhau i wneud arbedion sylweddol pellach (oddeutu £17 miliwn) dros y tair blynedd nesaf, tra'n cyflenwi agenda gwelliant a diwygio llywodraeth leol uchelgeisiol. Rydym yn ymateb yn rhagweithiol i'r heriau hyn trwy gydweithio â'n partneriaid a rhanddeiliaid allweddol eraill trwy'r

rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau i sicrhau ein bod yn gallu lliniaru effaith toriadau ar drigolion a defnyddwyr gwasanaeth a chynnal y gwasanaethau hynny sy'n bwysig i ddinasyddion Bro Morgannwg.

Er gwaethaf yr heriau hyn, rydym wedi gosod targedau heriol i ni ein hunain ar gyfer gwelliant, gan adlewyrchu ein hymrwymiad i wella'n barhaus y gwasanaethau a ddarparwn i ddinasyddion Bro Morgannwg. Ar yr un pryd, mae'r Cyngor hefyd yn ymwybodol o'r pwysau ariannol a galw sylweddol am wasanaethau y mae'n eu hwynebu, a gosodwyd y targedau a cherrig milltir allweddol ar gyfer ein Hamcanion Llesiant (Gwella) o fewn y cyd-destun hwn. Golyga hyn mewn rhai meysydd, er enghraifft; bydd yn gyflawniad cynnal lefelau perfformiad presennol wrth amsugno gostyngiadau mewn cyllid a rheoli’r galw cynyddol am wasanaethau, neu'r ddau. Ystyriwyd y materion hyn yn ystod her fewnol o’n hamcanion a'n targedau Llesiant (Gwella).

Os oes gennych unrhyw sylwadau ar ôl darllen y cynllun hwn, rhowch wybod i ni drwy gysylltu:
Llythyrau i: Perfformiad a Datblygiad, Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri, CF63 4RU
E-bost: gwelliannau@bromorgannwg.gov.uk
Ffôn: 01446 700 101

Mae nifer o fecanweithiau ar waith i drigolion ddylanwadu ar wneud penderfyniadau yn y Cyngor. Gallwch gymryd rhan trwy ymuno â ‘Barn y Fro’ ein panel dinasyddion a chymryd rhan mewn ymgynghoriadau sy'n cael eu cynnal gan y Cyngor, a'i bartneriaid, y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Cwblhewch y ffurflen ar-lein fer. Mae ein Pwyllgorau Craffu yn agored i'r cyhoedd ac yn rhoi cyfle i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Cyngor. Gallwch ofyn am i faes gwasanaeth neu fater gael ei ystyried gan Bwyllgor Craffu trwy gwblhau ffurflen ystyriaeth ar gyfer adolygu. Gallwch hefyd gynnig Amcanion Llesiant (Gwella) newydd i'r Cyngor trwy'r manylion cyswllt a ddarperir uchod.

## 1.2 TROSOLWG O BERFFORMIAD

Rydym yn parhau i weithredu yn yr amserau mwyaf heriol y gall unrhyw un mewn llywodraeth leol eu cofio. Er gwaethaf hyn, dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweithio'n ddiwyro i gryfhau a datblygu nodweddion unigryw Bro Morgannwg a gwella ei statws fel lle mae pobl yn ymfalchïo i fyw ynddo, lle mae buddsoddwyr a busnesau yn awyddus i ymrwymo, lle mae'r rheiny sy'n agored i niwed yn cael eu cefnogi'n briodol, a lle mae ymwelwyr yn mwynhau profiad cadarnhaol a chroesawgar. Gwnaethom hyn i gyd tra hefyd yn gosod un o'r codiadau treth y cyngor isaf o holl awdurdodau lleol Cymru am y flwyddyn a chynhyrchu dros £2 miliwn o arbedion effeithlonrwydd. Yn ystod yr amser hwn, gwnaethom hefyd barhau i ddarparu gwasanaethau lleol gwerthfawr ar draws y ddinas, gan gynnwys casglu gwastraff a glanhau strydoedd, parciau, meysydd chwarae a gwasanaethau hamdden, yn ogystal â darparu digwyddiadau, cefnogi twristiaeth a hyrwyddo cyfleoedd datblygu economaidd.

Bob blwyddyn, mae'r Uned Ddata Llywodraeth Leol (Data Cymru erbyn hyn) yn cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad awdurdodau lleol ar ystod o wasanaethau, gan amlygu meysydd lle bu newidiadau nodedig yn lefel gyffredinol y perfformiad. Gwna hyn hi'n bosibl cymharu perfformiad y 22 awdurdod lleol yng Nghymru ar draws y gwasanaethau hynny. At ei gilydd, rydym yn gyffredinol yn perfformio'n dda mewn dangosyddion perfformiad ar draws pob maes gwasanaeth. Am y pedair blynedd diwethaf, ni yw'r Gyngor sydd wedi perfformio orau yng Nghymru mewn perthynas â'r set o ddangosyddion cenedlaethol. Ar hyn o bryd, mae 10 allan o 20 o ddangosyddion (50%) yn y chwartel uchaf o berfformwyr yng Nghymru. Roedd y rhain mewn meysydd megis atal digartrefedd, safonau glanweithdra priffyrdd, ein hymateb i ddigwyddiadau o dipio anghyfreithlon, cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, cyrhaeddiad disgyblion ar lefel TGAU, pobl ifanc nad yw'n hysbys a ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd a ysgolion uwchradd a chyflymder penderfynu ceisiadau cynllunio. Ar y cyfan, perfformiodd y Fro yn well na chyfartaledd Cymru ym mhob un ond 2 ddangosydd (90%). O'i gymharu ag awdurdodau lleol De Ddwyrain Cymru, roedd 67% (12) o'n mesurau hefyd yn perfformio'n well na'r cyfartaledd ar gyfer y grŵp teulu hwn. Serch hynny, rydym hefyd yn cydnabod y gellir gwneud gwelliannau i'r meysydd hynny lle'r ydym yn perfformio yn y chwarteli isaf i'r gwaelod o'i gymharu â gweddill Cymru. Mae'r meysydd hyn yn ymwneud â chyflwr ein ffyrdd a chyfranogiad mewn ailgylchu gwastraff.

Ar y cyfan, mae ein perfformiad ariannol yn parhau'n gryf, a gallwn fynd i'r flwyddyn ariannol nesaf yn hyderus yn ein gallu i fuddsoddi yn ein blaenoriaethau allweddol. Cefnogwyd hyn gan newidiadau arloesol i'r ffordd yr ydym yn gweithio a sut rydym yn darparu gwasanaethau. Rydym hefyd wedi parhau i gyflenwi ein rhaglen trawsnewid gwasanaethau (Ail-lunio Gwasanaethau), sy'n golygu, er ein bod yn wynebu'r posibilrwydd o ostyngiadau pellach mewn cyllid gan y llywodraeth dros y flwyddyn i ddod, ein bod yn cadw ein gallu i fuddsoddi mewn gwasanaethau gwerthfawr sy'n bwysig i bobl leol. Ers 2010, mae'r Cyngor wedi arbed tua £50 miliwn.

Ni allwn weithredu'n effeithiol ar ein pennau ein hunain, ac mae eleni unwaith eto wedi dangos gwerth gweithio mewn partneriaeth. Yn ogystal â'n cydweithredu strategol allweddol, mae'r gwahanol brojectau sy'n cael eu cynnal fel rhan o'n rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau yn sicrhau arbedion effeithlonrwydd ac yn cyfrannu at gynaliadwyedd gwasanaethau gwerthfawr i'n trigolion. Mae'r ffordd hon o weithio hefyd yn helpu ein gwneud yn fwy gwydn ac yn ein galluogi i ddefnyddio sgiliau a chymwysterau newydd a fyddai fel arall allan o'n cyrraedd. Rydym wedi gweld y budd ar draws nifer o feysydd gwahanol o'n busnes, fel y gwnaeth ein cwsmeriaid.

Rydym yn parhau i flaenoriaethu pobl, gan ein bod yn credu'n gryf bod buddsoddiad yn ein gweithwyr yn allweddol i gyflenwi ein blaenoriaethau corfforaethol a sicrhau cymunedau cryf gyda dyfodol disglair i ddinasyddion Bro Morgannwg. Trwy ein prosesau cynllunio gweithlu a chyfranogiad staff sefydledig, rydym yn parhau i gynnal gweithlu hynod fedrus a gwydn sy'n ymatebol i'r amgylchedd sy'n newid yn gyson. Yn yr arolwg staff diweddaraf a gynhaliwyd yn ystod hydref 2017 ymatebodd 72% o staff yn gadarnhaol o'i gymharu â 71% y llynedd. Roedd y ffaith bod y graddau ymateb cadarnhaol yn yr arolwg yn uwch mewn 15 allan o'r 20 o ddisgwyliadau'r Siarter Staff nag yr

oeddent yn 2016 yn ganlyniad arbennig o ddymunol. Mae hwn yn ganlyniad calonogol o ystyried maint y newid ar draws y Cyngor yn ystod y flwyddyn a'r ymateb parhaus i ofynion cyllidebol a gwasanaeth. Wrth symud ymlaen, maes allweddol o ffocws a her fydd cadw'r un lefel o ymgysylltiad â'n gweithwyr ac undebau llafur i barhau â'r momentwm cadarnhaol a gyflawnwyd hyd yn hyn ar ôl lansio'r Siarter Staff, wrth i agenda trawsnewid y Cyngor barhau i ymateb i heriau allanol parhaus a rhai sy'n dod i'r amlwg fel lleihau cyllidebau a'r Mesur Llywodraeth Leol.

Mae ymgysylltu â dinasyddion yn un o werthoedd craidd y Cyngor yn ei Gynllun Corfforaethol ac rydym yn parhau i annog ein trigolion a'n cwsmeriaid i rannu eu barn a'u profiadau o'n gwasanaethau gan ei fod yn hyrwyddo ymgysylltiad, yn rhoi syniad inni o sut rydym yn perfformio o'u persbectif hwy, yn siapio ein blaenoriaethau ac yn gwella ein dull o ddatblygu gwasanaethau yn y Cyngor. Bydd yr Arolwg Barn y Cyhoedd nesaf ar ddechrau 2019. Fodd bynnag, bu'r canfyddiadau a gafwyd o wahanol weithgareddau ymgynghori a gynhaliwyd ar draws holl wasanaethau'r cyngor yn ystod 2017/18 yn gadarnhaol ar y cyfan, ac at ei gilydd maent yn dangos lefelau boddhad da gyda gwasanaethau'r Cyngor.

Gwnaed cynnydd sylweddol yn ystod y flwyddyn fel rhan o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCR) neu'r Fargen Ddinesig, sy'n ceisio cynyddu twf economaidd ar draws y rhanbarth. O bwys neilltuol, mae'r canlynol: cytundeb gwerth £379 miliwn o fuddsoddiad i gefnogi datblygiad clwstwr diwydiant lled-ddargludyddion cyfansawdd yn ne-ddwyrain Cymru; sicrhau cefnogaeth mewn egwyddor i ailddatblygu gwerth £180 miliwn o brif hyb trafnidiaeth Caerdydd gyda £40 miliwn o arian y Fargen Ddinesig; creu tair rhaglen ddatblygu sy'n cefnogi themâu strategol allweddol tai, sgiliau a chysylltedd digidol yn y CCR a chreu byrddau CCR cefnogol ar gyfer y Bartneriaeth Twf Economaidd, y Cyngor Busnes, y Bartneriaeth Sgiliau a'r Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol. Disgwylir i'r projectau hyn ysgogi buddsoddiad sylweddol yn y sector preifat dros y pum mlynedd nesaf a chreu miloedd o swyddi uwch-dechnoleg yn y rhanbarth. Yn gyffredinol, nod y Fargen Ddinesig yw gwella cynhyrchiant; ymdrin â diweithdra; buddsoddi mewn seilwaith ffisegol a digidol; darparu cefnogaeth i fusnes; a sicrhau bod unrhyw fuddion economaidd yn cael eu profi ar draws y rhanbarth. O berthnasedd arbennig i'r Fro, mae'r angen i hyrwyddo'r Maes Awyr a Sain Tathan fel canolfannau ar gyfer twf economaidd a chreu swyddi, gwella mynediad strategol i'r Fro ac adfywiad parhaus â chymhorthdal y Barri. Rydym yn parhau i sicrhau bod buddiannau Bro Morgannwg yn cael eu hyrwyddo fel rhan o'r gwaith parhaus ar Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Parhawn i fod yn ymrwymedig i gefnogi a datblygu ein heconomi ymwelwyr fel blaenoriaeth allweddol i'r cyngor. Mae Bro Morgannwg yn parhau i ffynnu fel cyrchfan ymwelwyr llwyddiannus. Dangosodd yr arolwg STEAM diweddaraf (2017) bod niferoedd ymwelwyr i'r Fro wedi cynyddu o 3.97 miliwn i 4.16 miliwn yn 2017. Mae hyn yn gynnydd o 4.8% ar y flwyddyn flaenorol, gan olygu bod cyfanswm effaith economaidd twristiaeth yn y Fro wedi cynyddu 4.2% i £236.81 miliwn yn ystod 2017. Mae'r perfformiad calonogol hwn yn ein galluogi i wireddu ein nodau corfforaethol yn ogystal â'n gweledigaeth fel y nodir yn ein Cynllun Rheoli Cyrchfan (DMP).

Yn unol â'n hymrwymiad i wneud y Fro yn lanach ac yn wyrddach, llwyddasom i gadw ein 7 gwobr Baner Werdd a chyflawnwyd 8 gwobr Gymunedol y Faner Werdd arall yn ystod y flwyddyn (i fyny o 3 yn y flwyddyn flaenorol). Mae'r gwobrau hyn yn cydnabod y parciau a'r mannau gwyrdd o ansawdd da sydd ar gael i drigolion y Fro eu mwynhau trwy gydol y flwyddyn. Cyflawnwyd safonau uchel ein mannau gwyrdd yn y bartneriaeth gyda chymunedau a grwpiau gwirfoddol. Yn yr un modd, enillodd 6 o'n traethau wobrau sy'n gwarantu amgylchedd glân, diogel a deniadol a gynhelir yn dda i'r ymwelwyr. Mae safonau glendid ein priffyrdd a'n strydoedd yn parhau i fod yn uchel ac rydym wedi bod yn rhagweithiol wrth ddelio â phob achos o dipio anghyfreithlon. Parheir i wneud cynnydd da wrth ailfodelu ein seilwaith rheoli gwastraff fel y gallwn barhau i gwrdd â thargedau statudol cyfredol ac i'r dyfodol.

Mewn ymateb i'r galw cynyddol am ein gwasanaethau gofal cymdeithasol, rydym yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid iechyd a'r sector gwirfoddol a'r trydydd sector i ymuno ac integreiddio'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym hefyd yn gweithio tuag at gyfuno ein cyllidebau â phartneriaid iechyd. Nod ein dull yw galluogi pobl i aros yn iach; gan alluogi pobl i aros gartref a

galluogi pobl i ddychwelyd gartref ynghynt o'r ysbyty. Yn ystod y flwyddyn, mae mentrau llwyddiannus wedi cynnwys rhai a anelwyd at gynyddu lefelau gweithgaredd corfforol ymhlith trigolion y Fro a chynorthwyo unigolion i fabwysiadu ffyrdd o fyw iach ac ymddygiadau iach, er enghraifft mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau. Un o'r mentrau mwyaf arloesol eleni oedd y peilot 'Eich Dewis' sy'n cynnig ffordd newydd o ddarparu gofal a chefnogaeth i bobl i'w galluogi i aros yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Dyma'r cyntaf o'i fath yng Nghymru lle mae'r ffocws ar gael partneriaeth gyfartal rhwng y sawl sy'n derbyn gofal, yr Asiantaeth Gofal a'r Gweithiwr Cymdeithasol. Mae'r dull chwyldroadol hwn wedi bod ar y rhestr fer ar gyfer gwobr gofal cymdeithasol genedlaethol o dan y categori 'Gwasanaethau dan arweiniad y Dinesydd' dan Wobrau Gofal Cymdeithasol Cymru.

Er gwaethaf y ffaith mai ni yw’r awdurdod a gyllidir isaf yng Nghymru, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i barhau â'i fuddsoddiad mewn ysgolion a'n hamgylcheddau dysgu, a thrwy wella'r rhagolygon ar gyfer ein plant, pobl ifanc ac oedolion, sef llwyddiant y Fro yn y dyfodol. Dengys ein llwyddiannau hyd yn hyn, er gwaethaf y lefel gymharol isel o arian, ein bod yn cyflawni gwerth am arian wrth ddarparu ein gwasanaethau. Mae Cymuned Ddysgu Llanilltud Fawr a agorodd eleni eisoes wedi cael effaith gadarnhaol ar lesiant plant ac wedi ymdrin â'r capasiti dros ben yn Ysgol Llanilltud Fawr gyda lleihad mewn lleoedd ysgol i 1050. Mae dwy ysgol uwchradd newydd, Ysgol Uwchradd Whitmore ac Ysgol Uwchradd Pencoedtre ar y trywydd iawn i agor o fis Medi 2018, gan drawsnewid darpariaeth addysg yn y Barri. Nid yw’r rhain ond ychydig o’r gwelliannau a wnaed i'n hamgylcheddau dysgu fel rhan o Ad-drefnu Ysgolion a'r Rhaglen Buddsoddi a Rhaglen Ysgolion yr 21$^{ain}$ Ganrif.

Mewn llawer ond nid ym mhob maes, mae cyflawniadau disgyblion Bro Morgannwg yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol. Yn ystod 2016/17, bu dirywiad mewn cyrhaeddiad addysgol a chynnydd mewn nifer o gyfnodau allweddol, er y bu'n perfformiad yn y rhain ymhlith yr uchaf yng Nghonsortiwm Canolbarth y De ac yn uwch na chyfartaledd Cymru. Er gwaethaf ein perfformiad cryf, rydym yn cydnabod bod y canlyniadau i blant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn dal i fod y tu ôl i'w cyfoedion ac rydym yn cymryd camau pendant i ymdrin â hyn fel blaenoriaeth allweddol. Nid oes unrhyw ysgolion mewn categori dilynol statudol (Gwelliant Sylweddol neu Fesurau Arbennig) a dim ond un ysgol sy’n parhau i fod yng nghategori dilynol Estyn o Adolygiad Estyn. Parha’r cyfraddau absenoldeb ysgolion i ysgolion uwchradd a chynradd ymhlith y perfformwyr chwartel uchaf yng Nghymru. Drwy ddull cydlynol, rydym wedi sicrhau bod dros 90% o'n pobl ifanc (16-18) yn parhau mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Rydym yn parhau i rymuso dinasyddion a'u cymunedau i nodi anghenion lleol ac rydym wedi eu cynorthwyo i gael gafael ar arian ac i gyflenwi gwahanol gynlluniau yn unol â gweledigaeth y Cyngor o adeiladu cymunedau cryf gyda dyfodol disglair. Yn ystod y flwyddyn, mae mentrau megis Cymunedau Gwledig Creadigol, Cymunedau yn Gyntaf, Cymunedau ar Waith, Teuluoedd yn Gyntaf a Chronfa Cymunedau Cryf y Cyngor i gyd wedi cyfrannu at wella llesiant y trigolion trwy welliannau amgylcheddol yn ogystal â gwelliannau eraill yn y cymunedau a dargedir. Yn unol â'r agenda ail-lunio, mae meithrin gallu cymunedol yn parhau i fod yn faes ffocws i'r Cyngor wrth symud ymlaen, er mwyn sicrhau bod gan gymunedau'r Fro yr offer priodol i gyfranogi a manteisio ar unrhyw gyfleoedd, gan gynnwys cyllid.

Eleni, cyflawnodd y Cyngor gydymffurfiad â Safon Ansawdd Tai Cymru sydd wedi sicrhau bod anheddau o ansawdd da ac yn addas ar gyfer anghenion ei denantiaid. Gyda diwedd y rhaglen fuddsoddi fawr hon erbyn hyn, mae wedi dod â chartrefi'r Cyngor i fyny at y safonau modern sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth ac mae'r Cyngor bellach wedi mynd i 'Gam Cynnal a Chadw' y safon, lle bydd eiddo'n parhau i dderbyn buddsoddiad i'w cynnal wrth i gydrannau gyrraedd diwedd eu bywyd economaidd. Rydym yn parhau i ddatblygu ein rhaglen datblygu tai ar ôl adeiladu'r 3 chartref cyntaf yn y Barri eleni. Mae 39 eiddo arall yn cael eu cynllunio yn ystod 2018/19. Hefyd archwilir safleoedd ychwanegol ar gyfer rhaglenni adeiladu yn y dyfodol, i sicrhau bod y rhaglen waith hon yn parhau i ddarparu tai cymdeithasol o safon ym Mro Morgannwg.

Bob blwyddyn mae ein Harchwilwyr Allanol (Swyddfa Archwilio Cymru) yn cynhyrchu adroddiad blynyddol sy'n crynhoi'r gwaith archwilio a wnaed yn ystod y flwyddyn. Roedd ein hadroddiad ar


gyfer cyfnod 2017/18 yn gyffredinol gadarnhaol, a daeth i'r casgliad cyffredinol bod y Cyngor yn bodloni ei ofynion mewn perthynas â gwelliant parhaus. Amlygodd hefyd fod y Cyngor: yn cydymffurfio â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adrodd ariannol a defnyddio adnoddau; cydymffurfio â'i ddyletswyddau gwella ac adrodd statudol; a bod ganddo drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau. Gwnaed nifer o gynigion ar gyfer gwella hefyd, gan ganolbwyntio'n benodol ar gryfhau trefniadau craffu o fewn y Cyngor i'n galluogi i ymateb i heriau yn y dyfodol a chael mwy o effaith, ac mae gwaith ar y gweill i fynd i'r afael â'r rhain.

Yn ystod y flwyddyn i ddod, byddwn yn parhau i weithio gyda'n holl bartneriaid i adeiladu ar ein llwyddiannau i wella'r Fro ymhellach a gwella bywydau'r bobl yr ydym yn eu gwasanaethu. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod yr heriau sylweddol sy'n wynebu'r Cyngor yn deillio o leihau cyllidebau mewn termau real, y cynnydd mewn galw am wasanaethau a chyflwyno gwahanol gyfrifoldebau a dyletswyddau newydd; yn y cyfamser, mae nifer gynyddol o bethau y mae angen i'r Cyngor eu gwneud er mwyn cyflenwi ei pwrpas. Yn unol â'n dull trawsnewidiol, ein dull dros y blynyddoedd nesaf fydd parhau i ganolbwyntio mwy ar atal a dylanwadu ar ein trigolion mewn ffyrdd sy'n helpu i wella eu bywydau, ac atal, lleihau neu oedi'r galw am wasanaethau cyhoeddus cyfyngedig. Credwn ein bod mewn sefyllfa dda i barhau â'r gwaith hwn ar y cyd â'n partneriaid a'n cymunedau lleol i adeiladu ar ein gweledigaeth o gymunedau cryf gyda dyfodol disglair.

## 1.3 CYFRANIAD EIN CYNLLUN CORFFORAETHOL (AMCANION LLAWN) AT Y GOFYNION CENEDLAETHOL[1]

Strwythurwyd ein Cynllun Corfforaethol o amgylch Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 trwy ddatblygu pedwar Canlyniad Llesiant ac wyth o Amcanion Llesiant. Mae hyn yn ffurfio fframwaith y Cynllun Corfforaethol y gellir ei alinio mewn ffordd drawsbynciol i Nodau Llesiant y Ddeddf. Mae ein Hamcanion Llesiant yn adlewyrchu'r hyn y mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflenwi ac yn ymdrin â materion y dydd heddiw yn ogystal â sicrhau buddion hirdymor. Wrth gyflenwi'r amcanion hyn, rydym yn cyfrannu at y saith Nod Llesiant tra'n sicrhau bod anghenion dinasyddion y Fro o bob oed a chenedlaethau'r dyfodol yn flaenllaw o ran cyflenwi gwasanaethau. Mae'r darlun isod yn drosolwg o sut mae ein perfformiad mewn perthynas â Chanlyniadau ac Amcanion Llesiant y Cynllun Corfforaethol yn cyfrannu at gyflenwi'r nodau Llesiant cenedlaethol sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf.

Yn gyffredinol, rydym wedi dod i'r casgliad bod y cynnydd cryf a wnaed wrth gyflenwi ein blaenoriaethau blwyddyn 2 fel yr amlinellir yn y Cynllun Corfforaethol 2016-20, wedi cyfrannu'n gadarnhaol at Nodau Llesiant cenedlaethol Cymru. Mae ein cyflawniadau hyd yn hyn yn dangos ein hymrwymiad i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ein dinasyddion a hyrwyddo egwyddorion datblygu cynaliadwy yn ein holl weithgareddau. Fodd bynnag, mae'r rhain yn parhau i fod yn flaenoriaethau strategol hirdymor i'r Cyngor, ac mae'r llwyddiant a gyflawnwyd yn 2017/18 yn cynrychioli cychwyn ar hyn a fydd yn rhaglen hir o fentrau a anelir at weithio tuag at adeiladu cymunedau cryf gyda dyfodol disglair, sef gweledigaeth hirdymor y Cyngor.




[1] Mae'r siart uchod yn darparu asesiad darluniadol o'r modd yr ydym yn cyfrannu at nodau llesiant. Mae statws COG pob nod wedi'i seilio ar ein statws COG cyffredinol yn erbyn y Cynllun Corfforaethol.

| | Amcan 1: Lleihau tlodi ac allgáu cymdeithasol | Amcan 2: Darparu cartrefi gweddus a chymunedau diogel | Amcan 3: Hyrwyddo adfywio, twf economaidd a chyflogaeth | Amcan 4: Hyrwyddo datblygiad cynaliadwy a diogelu ein hamgylchedd | Amcan 5: Codi safonau cyflawniad cyffredinol | Amcan 6: Gwerthfawrogi diwylliant ac amrywiaeth | Amcan 7: Annog a hyrwyddo ffyrdd o fyw Iach ac Actif | Amcan 8: Diogelu pobl sy'n agored i niwed a hyrwyddo byw'n annibynnol | Statws COG cyffredinol ar gyfer y Nod Llesiant |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| |   | |   | |   | |   | | |
| Cymru lewyrchus | O | O | O | O | O | | | | O |
| Cymru gydnerth | | | | O | | | | | O |
| Cymru iachach | O | O | O | O | | G | G | O | O |
| Cymru sy'n fwy cyfartal | O | O | O | | O | G | G | O | O |
| Cymru o gymunedau cydlynus | O | O | O | O | | G | G | O | O |
| Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg | | | O | | O | G | G | | G |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | | O | O | O | | | | | O |
| Statws COG amcanion cyffredinol | O | O | O | O | O | G | G | O | |
| Cyfeiriad Teithio | ↓ | ↔ | ↓ | ↔ | ↔ | ↔ | ↑ | ↔ | |
| Canlyniad COG cyffredinol | Oren | | Oren | | Oren | | Gwyrdd | | |
| Cynllun Corfforaethol | Oren | | | | | | | | |

# 2. STATWS CYFFREDINOL Y CYNLLUN CORFFORAETHOL (AMCANION LLESIANT)

## Ein statws COG cyffredinol i'r Cynllun Corfforaethol 2017/18 yw OREN

Cyflwynir isod grynodeb o'n perfformiad mewn perthynas â phob un o'r Canlyniadau Llesiant a amlinellir yn ein Cynllun Corfforaethol. Yn erbyn pob un o'r Amcanion Llesiant, rhoddir Statws COG a Chyfeiriad Teithio cyffredinol, yn ogystal â statws COG cyffredinol a Chyfeiriad Teithio ar gyfer y Canlyniad drwyddo draw. Mae'r Cyfeiriad Teithio yn rhoi syniad o gyfeiriad y perfformiad o'i gymharu â'r chwarter blaenorol. Er enghraifft, lle mae ein statws COG (perfformiad) wedi gwella, fe'i nodir gan ↑, lle mae ein statws COG wedi aros yr un fath o'i gymharu â'r chwarter blaenorol, caiff ei ddangos gan ↔ a lle mae ein statws COG wedi dirywio, caiff ei ddangos gan ↓

Ar ddiwedd y flwyddyn, rhoddwyd statws COG cyffredinol OREN i 3 allan o 4 Canlyniad Llesiant y Cynllun Corfforaethol sy'n adlewyrchu'r cynnydd cryf a wnaed wrth gyflenwi blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2017/18. Llwyddodd y pedwerydd Canlyniad Llesiant (Bro Iach ac Actif) i ennill statws GWYRDD.




| Amcan Cyffredinol | COG | Cyfeiriad Teithio[2] |
|---|---|---|
| Amcan 1 | O | ↓ |
| Amcan 2 | O | ↔ |
| Canlyniad cyffredinol | O | ↔ |




| Amcan cyffredinol | COG | Cyfeiriad Teithio |
|---|---|---|
| Amcan 3 | O | ↓ |
| Amcan 4 | O | ↔ |
| Canlyniad cyffredinol | O | ↔ |




| Amcan cyffredinol | COG | Cyfeiriad Teithio |
|---|---|---|
| Amcan 5 | O | ↔ |
| Amcan 6 | G | ↔ |
| Canlyniad cyffredinol | O | ↔ |




| Amcan cyffredinol | COG | Cyfeiriad Teithio |
|---|---|---|
| Amcan 7 | G | ↑ |
| Amcan 8 | O | ↔ |
| Canlyniad cyffredinol | G | ↑ |

Mae ein gweithgareddau cynllunio integredig yn canolbwyntio ar gynllunio corfforaethol, caffael, cynllunio gweithlu, cynllunio ariannol, rheoli perfformiad, rheoli risg a rheoli asedau sy'n gweithredu fel galluogwyr ar gyfer cyflenwi'r Cynllun Corfforaethol. Trwy wella ein prosesau cynllunio integredig, rydym wedi cryfhau ein dull o lywodraethu corfforaethol. Mae'r nod a ddangosir isod yn giplun o'r ffordd yr ydym yn perfformio mewn perthynas ag agweddau allweddol ar ein gweithgareddau Cynllunio Integredig.

[2] Mae cyfeiriad teithio'n cymharu ein sefyllfa statws COG diwedd blwyddyn ar gyfer pob Amcan a Chanlyniad gyda sefyllfa statws COG ar gyfer y chwarter blaenorol (chwarter 3). Nid yw'n bosibl cymharu ein perfformiad statws COG ar gyfer 2017/18 gyda'r perfformiad diwedd blwyddyn diwethaf (2016/17) gan na chyflwynwyd yr arddull adrodd perfformiad newydd hon tan 2017/18.

CYNGOR BRO MORGANNWG
UCHELGAIS AGORED
CYDWEITHIO BALCHDER

| Canlyniad cyffredinol | COG | Cyfeiriad Teithio |
|---|---|---|
| | G | ↑ |

**Ein statws COG (coch/oren/gwyrdd) cyffredinol ar gyfer 'Bro Ddiogel a Chynhwysol' yw OREN**

## 3.0 DATGANIAD SEFYLLFA

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn parhau i weithio i sicrhau bod gan ei ddinasyddion ansawdd bywyd da, a'u bod yn teimlo'n rhan o'r gymuned leol er gwaethaf yr heriau digynsail a'r gostyngiadau parhaus i gyllid flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Yn ystod 2017–18, blwyddyn dau o'n Cynllun Corfforaethol pedair blynedd, gwnaethom gynnydd da wrth gyflawni blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol mewn perthynas â Chanlyniad Llesiant 1, 'Bro Ddiogel a Chynhwysol', a'r amcanion sydd wedi'u halinio ag ef: 'Lleihau tlodi ac ynysu cymdeithasol' a 'Chynnig tai o safon a chymunedau diogel'. Mae'r gweithgarwch trwyadl mae'r cyngor wedi ymgymryd ag ef i ategu'r gwaith o gyflawni'r canlyniad hwn wedi cyfrannu at statws oren cyffredinol ar gyfer y canlyniad ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae'r 'Ciplun o Berfformiad y Canlyniad' yn dangos i'r rhan fwyaf (80%) o'r 50 o gamau gweithredu'r Cynllun Corfforaethol a oedd wedi'u halinio â'r canlyniad hwn gael eu cwblhau yn ystod 2017–18, ac felly rydym ar y trywydd iawn i gyflawni ein perfformiad erbyn 2020. Rhoddwyd categori oren i'r perfformiad cyffredinol ar gyfer y camau gweithredu corfforaethol sydd wedi'u halinio â Chanlyniad 1 i gydnabod y ffaith fod rhagor o waith i'w wneud, er bod llawer wedi cael ei wneud yn ystod y flwyddyn, i sicrhau ein bod yn cyflawni ein holl nodau erbyn diwedd tymor y Cynllun Corfforaethol. I ddadansoddi'r perfformiad hwn ymhellach, cafodd 83% o'r camau gweithredu a briodolwyd i Amcan 1 a 78% o'r camau gweithredu a briodolwyd i Amcan 2 eu cwblhau'n llawn yn ystod y flwyddyn.

Rhoddwyd statws coch i ddeg o 50 (20%) o gamau gweithredu ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r prif feysydd o laesu dwylo'n cynnwys hyrwyddo gwasanaethau ar-lein a hygyrchedd gwasanaethau digidol, ehangu ein Canolfan Gyswllt Cwsmeriaid i gynnwys ymholiadau i'r Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir gan drigolion Caerdydd, a'r gwaith o ddatblygu strategaeth ar gyfer tai y mae'r cyngor yn berchen arnynt Rydym hefyd wedi dod ar draws rhai heriau mewn perthynas â mynd â'r gwaith o adeiladu 14 o dai cyngor newydd yn ei flaen o dan Raglen Datblygu Tai'r Cyngor ac adolygu'r model cyflawni ar gyfer tai gwarchod. Mae'r blaenoriaethau hyn wedi cael eu symud ymlaen i'n rhaglen gwaith ar gyfer 2018–19.

O ran y dangosyddion perfformiad sy'n gysylltiedig â'r canlyniad hwn, rhoddwyd statws gwyrdd i 14 o 25 (56%) o fesurau, a oedd yn golygu eu bod naill ai'n bodloni'r targed ar ddiwedd y flwyddyn neu'n rhagori arno. Rhoddwyd naill ai statws perfformiad oren (20%) neu goch (24%) i weddill y mesurau, a oedd yn rhoi statws oren ar gyfer y mesurau yn gyffredinol. Nid oedd yn bosibl rhoi statws COG ar gyfer wyth dangosydd, naill ai oherwydd eu bod yn newydd a bod perfformiad gwaelodlin wrthi'n cael ei sefydlu ar gyfer y flwyddyn, neu gan na fu'n bosibl gosod targed ar gyfer y flwyddyn. Roedd y mesurau na wnaethant gyrraedd y targed yn ymwneud â'r cyfraddau llwyddiant ar gyrsiau achrededig ar gyfer dysgwyr â blaenoriaeth, nifer yr unigolion sy'n derbyn Credyd

Cynhwysol, a nifer y teuluoedd digartref ar gyfer pob 1,000 o'r boblogaeth. Rydym hefyd wedi colli ein targed mewn perthynas â'r ganran o ddefnyddwyr y Gwasanaeth Cefnogi Pobl sy'n cadarnhau bod y gwasanaeth maent wedi'i dderbyn wedi'u cynorthwyo i gynnal eu hannibyniaeth a'u bod yn fodlon ar y cymorth sydd wedi cael ei ddarparu ar eu cyfer. Mae angen rhagor o waith yn ystod 2018–19 i sicrhau y gwneir gwelliannau i'r amser a gymerir i brosesu grant cyfleusterau i'r anabl a'r bodlonrwydd cwsmeriaid dilynol. Hefyd mae angen inni sicrhau bod adeiladau gwag yn y sector preifat yn dechrau cael eu defnyddio yn gynt yn ystod y flwyddyn, a bod ein tenantiaid yn fodlon ar ganlyniadau cwynion am ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Trwy gydol 2017–18, roedd yn bosibl inni ddathlu nifer o lwyddiannau allweddol mewn perthynas â 'lleihau tlodi ac ynysu cymdeithasol'. Er enghraifft, mae'r gwaith o amgylch 'Cael y Fro Ar-lein' bellach wedi cael ei lawn sefydlu ac mae sesiynau galw heibio digidol yn cael eu cynnal ledled y Fro, gyda 167 o ddysgwyr wedi derbyn 860 awr o hyfforddiant yn ystod y flwyddyn. Ar ddiwedd y flwyddyn, roeddem wedi penodi 14 hyrwyddwr digidol gwirfoddol. Cafwyd adborth cadarnhaol gan 120 o gleientiaid ar y cymorth a roddwyd. Yn gyffredinol, dywedodd 100% eu bod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio cyfrifiadur, dywedodd 100% eu bod wedi cynyddu eu sgiliau TG sylfaenol, dywedodd 75% eu bod bellach yn defnyddio'r rhyngrwyd yn rheolaidd, a dywedodd 100 fod y prosiect naill ai'n dda neu'n rhagorol. Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru diwethaf (2016–17), mae bellach gan 88% o drigolion Bro Morgannwg fynediad at y rhyngrwyd gartref, gan ragori ar gyfartaledd Cymru o 84%. Mae ystadegau o'n sesiynau galw heibio'n dangos bod y rhan fwyaf o'r mynychwyr yn 50 mlwydd oed neu'n hŷn a bod bron hanner yn byw mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

Mae'r cyngor wedi sefydlu gweithgor mewn cydweithrediad â darparwyr tai cymdeithasol i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon ynghylch Credyd Cynhwysol, ac i'n galluogi i barhau i ddarparu gwasanaeth rhagorol ar gyfer ein tenantiaid a'n preswylwyr wrth sicrhau ein bod yn cynnal tenantiaethau. Mae'r gwaith a wnaed yn y maes hwn yn ystod 2017–18 hefyd wedi caniatáu i ni sicrhau cyfanswm o £188,211 o incwm ychwanegol ar gyfer tenantiaid trwy fudd-daliadau lles ychwanegol, biliau llai a grantiau. Ar ddiwedd y flwyddyn 2017–18, roedd 632 o drigolion yn y Fro yn derbyn Credyd Cynhwysol. Rhoddwyd cyngor ariannol yn rhagweithiol ar gyfer 590 o achosion yn ystod y flwyddyn, ac, o'r rhain, daeth trefniadau tenantiaeth i ben mewn 19 o achosion, gan roi cyfradd cynnal tenantiaeth o 97%. O ystyried y costau uchel iawn sy'n gysylltiedig â thenantiaethau'n methu, gan gynnwys colli rhent a chostau atgyweirio, yn ogystal â chostau ymdrin â digartrefedd, mae'r buddsoddiad yn y Gwasanaeth Cyngor Ariannol yn parhau i gynhyrchu arbedion ariannol sylweddol ar gyfer y cyngor, wrth atal digartrefedd ar yr un pryd.

Mae ein Tîm Cymunedau Gwledig Creadigol wedi gweithio gydag ardaloedd gwledig trwy rymuso dinasyddion i nodi anghenion eu cymuned leol a'u cynorthwyo i gyflawni'r amryw gynlluniau sy'n ceisio lleihau tlodi gwledig. Er enghraifft, bu i Gymdeithas Tai Newydd, mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, dderbyn cyllid i beilota amrediad o weithgareddau llesiant yn y Fro wledig yn ystod 2017–18. Roedd gweithgareddau'n cynnwys sesiynau coginio 'Tadau yn Unig', sesiynau ffitrwydd holistig ar gyfer merched yn unig, gweithgareddau ymgysylltu gydag ysgolion i gefnogi Rhaglenni Cyfoethogi Ysgolion, a gwasanaeth cofleidiol yn ogystal sy'n darparu sgiliau digidol a chyflogadwyedd. I ddechrau, roedd y rhaglen beilot yn targedu tenantiaid Cymdeithas Tai Newydd, yn ogystal â chymunedau Sain Tathan, Llan-faes a Llanilltud Fawr, oherwydd y nifer uwch o dai cymdeithasol yn yr ardaloedd hyn. Mae'r cynlluniau hyn hefyd wedi sicrhau bod dinasyddion yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn fwy yn eu cymuned. Yn gyffredinol, yn ystod 2017–18 bu inni gynorthwyo cymunedau yn y Fro i ddatblygu cynigion am gyllid gan y Gronfa Datblygu Gwledig, a chytunwyd mewn egwyddor ar brosiectau gwerth £2.6 miliwn.

Yn ystod 2018, daeth rhaglen Cymunedau yn Gyntaf y Barri i ben. Rhaglen a gefnogwyd gan Lywodraeth Cymru oedd hon sydd wedi helpu dros 280 o bobl i gael swydd ac wedi cefnogi 633 o bobl ifanc wrth iddynt symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd ers iddi ddechrau yn 2013. Mae'r cynllun hefyd wedi cynorthwyo pobl ifanc ar y Rhaglen Bontio i wneud 1,424 awr o waith gwirfoddol,

ac wedi helpu 2,668 o unigolion i gael mynediad at ein prosiectau iechyd a llesiant. Er i'r holl brosiectau Cymunedau yn Gyntaf ddod i ben ar ddiwedd mis Mawrth 2018, bydd rhai o'r rhain bellach yn parhau y tu hwnt i'r dyddiad hwn ar ffurf wahanol. Er enghraifft, mae'r prosiectau ffyniant wedi cael eu trosglwyddo i'r rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy newydd, ac mae'r staff sy'n cael eu cyflogi gan y ffrwd gyllid honno wedi ymuno â'r tîm Cymunedau am Waith i gyflwyno dull 'un-tîm' i ddarparu cymorth cyflogadwyedd ar gyfer cyfranogwyr, partneriaid a rhanddeiliaid ledled y Fro (yn hytrach nag ar gyfer ardal y Barri yn unig). Er bod y cynlluniau dysgu ac iechyd hefyd wedi dod i ben, mae'r Gronfa Waddol yn parhau i gefnogi gwaith ar 'bontio' rhwng ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd, gan fod y ddarpariaeth hon bellach wedi cael ei throsglwyddo i dîm 'Llesiant mewn Ysgolion' newydd y Fro, prosiect sy'n cael ei ariannu gan Gronfa Waddol Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Chyngor Bro Morgannwg. Mae rhywfaint o ddarpariaeth iechyd berthnasol wedi parhau ar ffurf cymorth llesiant ar gyfer ceiswyr gwaith sy'n ceisio cymorth i drechu rhwystrau iechyd meddwl lefel isel.

Yn ystod blwyddyn dau'r Cynllun Corfforaethol, rydym hefyd wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth ‘gynnig tai o safon a chymunedau diogel'. Ar ddiwedd mis Mawrth 2018, bu i'r cyngor gyflawni cydymffurfiaeth â Safon Ansawdd Tai Cymru, sydd wedi sicrhau bod ein hanheddau o ansawdd da ac yn addas ar gyfer anghenion preswylwyr heddiw ac yn y dyfodol. O ganlyniad i gwblhau'r rhaglen fuddsoddi fawr hon, mae tai'r cyngor bellach yn bodloni'r safonau modern sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth, ac mae'r cyngor bellach wedi dechrau ar 'Gyfnod Cynnal a Chadw' y safon, lle bydd adeiladau'n parhau i dderbyn buddsoddiadau er mwyn eu cynnal a'u cadw wrth i oes economaidd y gwahanol gydrannau ddod i ben. Felly, bydd tai y mae'r cyngor yn berchen arnynt yn parhau i dderbyn gwasanaeth nwy blynyddol ac archwiliad trydanol bob pum mlynedd. Yn ogystal, bydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi'n cael eu newydd pan fyddant yn cyrraedd yr oedran a bennir ac mewn cyflwr gwael. Bu i tua 350 o denantiaid wrthod caniatáu gwaith mewnol ar eu tai, a bydd y ceginau a'r ystafelloedd ymolchi hyn yn cael eu moderneiddio naill ai pan fydd y tenantiaid yn newid eu meddwl neu pan fydd y tai yn dod yn rhan o'r ffrwd waith 'Newid Tenantiaeth'.

Mae’r cyngor hefyd yn bwrw ymlaen â'i raglen datblygu tai, gyda'r tri thŷ cyntaf wedi cael eu hadeiladu yn y Barri, a chynlluniau ar gyfer dechrau ar 39 tŷ arall yn ystod 2018–19. Mae safleoedd ychwanegol hefyd yn cael eu harchwilio ar gyfer rhaglenni adeiladu yn y dyfodol i sicrhau bod y rhaglen waith hon yn parhau i ddarparu tai cymdeithasol o ansawdd ym Mro Morgannwg. Bydd y datblygiadau newydd hyn yn darparu cartrefi ar gyfer y rhai sydd mewn angen gwirioneddol, sydd mewn rhai achosion wedi bod yn aros am amser maith am lety priodol, a bydd darparu'r cartrefi newydd hyn yn gwneud gwahaniaeth sylweddol iawn i fywydau'r preswylwyr hyn. Mae rhestr tai hygyrch y cyngor wedi cael ei hadolygu a bydd y teuluoedd sydd yn yr angen mwyaf – er enghraifft, teuluoedd sy'n cynnwys oedolion a phlant ag anableddau – yn derbyn blaenoriaeth.

Yn unol â'n hymrwymiad i 'ddarparu llety priodol a gwasanaethau cymorth ar gyfer grwpiau agored i niwed penodol', bu i'r cyngor ddatblygu a chyflawni prosiect llety â chymorth dwy uned mewn partneriaeth â Gwasanaethau Plant. Bydd y cyfleuster hwn yn darparu llety dros dro â lefelau uchel o gymorth ar gyfer y rhai agored i niwed sy'n gadael gofal sydd ag anghenion cymhleth na ellid eu diwallu mewn cynllun tai â chymorth traddodiadol. Mewn ymateb i'r galw uwch am lety ar gyfer pobl o dan 35 mlwydd oed, rydym yn ailfodelu mathau o stoc a nodir mewn ardaloedd penodol i alluogi darparu llety ystafell â chymorth i ddinasyddion ei rentu o dan ddiwygiadau i Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Bydd creu llety a rennir sy'n cynnig gwely sengl yn helpu i fodloni'r galw hwn. Yn ogystal, mae Rhaglen Adeiladu Tai Newydd y cyngor yn cael ei defnyddio i fodloni'r galw hwn trwy ddarparu llety sy'n cynnwys unedau llai.

Rydym wedi gweithredu amrediad o fentrau i 'hwyluso llety newydd a gwella ansawdd llety i'w rentu yn y sector preifat'. Er enghraifft, yn ystod 2017–18, penodwyd Swyddog Tai Gwag a Benthyciadau, a ffurfiwyd Gweithgor Tai Gwag trawsadrannol, sy'n cynnwys Adfywio a Chynllunio, Tai, y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir a Threth Gyngor, i geisio lleihau nifer yr adeiladau gwag. Yn ogystal â hyn, mae gwefan y cyngor wedi cael ei diweddaru ac mae Llyfryn Cartrefi Gwag wedi cael ei greu i gynorthwyo

perchnogion tai gwag. Bydd y dull mwy rhagweithiol hwn yn helpu i wella ein perfformiad yn y maes hwn yn y dyfodol. Rydym hefyd yn parhau i ganolbwyntio ar y gwaith o reoli tai gwag mewn perthynas â'r stoc tai cyngor, a chyflawni effeithlonrwydd gwell trwy leihau'r amser mae'n ei gymryd i ailosod adeiladau. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd yn cymryd 19 diwrnod ar gyfartaledd i ailosod adeilad gwag, o gymharu â 28 diwrnod y llynedd. Mae gwybodaeth feincnodi ar gyfer y maes gwaith hwn yn rhoi ein perfformiad yn y chwartel uchaf o gymharu â sefydliadau tai ledled Cymru a Lloegr. Mae gosod rhagor o dai yn ddi-dor yn ein galluogi i gael yr incwm uchaf posibl o rentu, tra bo tenantiaid yn gallu symud i mewn i'w cartrefi newydd yn gynt.

Mae 225 o unedau tai fforddiadwy wedi cael eu darparu yn ystod 2017–18, sy'n rhagori ar ein targed a bennwyd ar gyfer y flwyddyn. Trwy ddatblygu'r tai newydd hyn, daethpwyd o hyd i ddatrysiad tai cynaliadwy a fforddiadwy ar gyfer 225 o gartrefi a oedd angen tai. Fodd bynnag, mae'r nifer sy'n cael eu darparu yn dibynnu i raddau helaeth ar argaeledd cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer safleoedd tai cymdeithasol a nifer y safleoedd sy'n cael eu datblygu gan ddatblygwyr preifat, y dyddiad y mae'r adeiladau'n cael eu hadeiladau, a ph'un a yw'r cynlluniau'n ariannol ddichonadwy i ddarparu'r nifer gofynnol o dai fforddiadwy yn unol â'r canllawiau cynllunio atodol.

Mae'r Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir yn cynnwys ardaloedd cyngor Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Bro Morgannwg ac mae'n gwasanaethu dros 600,000 o drigolion a 10,000 o fusnesau. Ers iddo gael ei greu yn 2015, mae'r gwasanaeth wedi darparu cydnerthedd wrth ddiwallu anghenion y Fro mewn perthynas ag amddiffyn y cyhoedd, yn ogystal â chyfrannu at y gwaith o ddiogelu eu hiechyd, eu diogelwch a'u llesiant economaidd. Yn ystod 2017-18, mae'r Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir wedi darparu amrediad amrywiol o wasanaethau ar gyfer busnesau, defnyddwyr a phreswylwyr i wella iechyd a llesiant, ac mae'r thema 'diogelu'r rhai sy'n agored i niwed' wedi parhau i fod yn ganolog i'w weithgareddau. Trwy raglen o weithgareddau sy'n cynnwys codi ymwybyddiaeth a gorfodi, mae'r Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir wedi parhau i sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag sylweddau a chynhyrchion niweidiol; bod pobl hŷn a phobl sy'n agored i niwed yn cael eu hamddiffyn rhag unigolion diegwyddor; bod masnachwyr a gweithgareddau benthyca arian anghyfreithlon ledled Cymru yn cael eu herio mewn modd cadarn; a bod pobl sy'n agored i niwed yn peidio â chael eu cam-fanteisio arnynt, eu caethiwo neu eu masnachu. Yn ystod y flwyddyn, bu i Dîm Diogelu'r Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir dderbyn neu ymdrin â 542 o achosion, ymholiadau ac atgyfeiriadau. Ymgysylltwyd â 763 o bobl trwy addysg a gweithgareddau hyfforddiant ymwybyddiaeth mewn perthynas â chynlluniau twyllo a throsedd ar y stepen drws, a bu i 80 o bobl a oedd wedi dioddef o ganlyniad i drosedd ar y stepen drws a chynlluniau twyllo dderbyn cymorth. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys 169 ymweliad â defnyddwyr. Yn ogystal â hyn, cafodd 24 o flocwyr galwadau eu gosod, a gwnaed chwe ymateb brys i breswylwyr a oedd yn pryderu neu'n cael eu dychrynu, lle'r oedd masnachwyr yn bresennol yn eu cartrefi neu wedi trefnu dod yn ôl. Trwy ein gwaith rhagweithiol gyda sefydliadau bwyd, roedd dros 95% (1,141 o 1,196) ohonynt yn cydymffurfio'n fras â safonau hylendid bwyd, o gymharu â 91% y llynedd, drwch blewyn yn brin o berfformiad chwartel uchel.

Mae'r cyngor wedi wynebu llawer o heriau yn ystod y flwyddyn. Er enghraifft, rydym wedi derbyn rhagor o achosion cymhleth ar gyfer grantiau cyfleusterau i'r anabl, sydd wedi arwain at gynnydd yn yr amser mae'n ei gymryd i brosesu grant o 167 diwrnod yn 2016–17 i 188 diwrnod yn 2017–18. Mae newidiadau i fethodoleg gyhoeddedig Llywodraeth Cymru yn y flwyddyn ddiwethaf hefyd wedi ychwanegu at y cyfnod sy'n cael ei fesur ac wedi arwain at berfformiad gwaeth. Fodd bynnag, mae prosesau'n cael eu hadolygu i sicrhau bod yr amser cyffredinol ar gyfer darparu grant yn gwella ar gyfartaledd yn 2018–19. O gymharu â gweddill Cymru, rydym wedi perfformio'n well na'r cyfartaledd (213 diwrnod), ac rydym yn y chwartel canol uchaf.

Yn ystod 2017–18, nodwyd y byddai'n bosibl gwella ein mesurau rheoli cyfredol ar gyfer rheoli cydymffurfiaeth adeiladau ac, yn benodol, 'data cydymffurfio' ar gyfer ein stoc adeiladau corfforaethol. Mewn ymateb, rydym wedi ailstrwythuro ein Tîm Cydymffurfiaeth Gorfforaethol i reoli data cydymffurfio'n well. Mae tri aelod newydd wedi cael eu penodi i'r tîm, ac wedi cael eu

hyfforddi mewn defnyddio ein cronfa ddata rheoli asedau, sy'n offeryn hanfodol ar gyfer cofnodi a monitro cydymffurfiaeth. Mae'r tîm wedi nodi 2,656 o asedau i'w harchwilio ac maent eisoes ymweld â'r rhan fwyaf o'r adeiladau cyhoeddus yn ystod y flwyddyn a'u harchwilio. Wrth reswm, mae heriau wedi codi yn ystod y gwaith hwn o ganlyniad i'r anallu i redeg adroddiadau cydymffurfiaeth ac anawsterau wrth gael mynediad at adeiladau wedi'u prydlesu a chanolfannau cymunedol. Bydd rhagor o archwiliadau a gwaith yn parhau i gael eu cynnal yn ystod 2018–19 i sicrhau bod ein hadeiladau corfforaethol yn ddiogel ac yn addas i'r diben.

Er ei bod yn wir fod gwaith cydweithiol yn ffordd fwy effeithlon ac effeithiol o weithio, mae hefyd yn arwain at heriau. Er enghraifft, ar hyn o bryd mae diffyg data ystyrlon a chydgysylltiedig ar gael ar draws asiantaethau ar gam-drin domestig. I unioni'r broblem hon, bydd y Tîm Diogelwch Cymunedol yn gweithio gyda phartneriaid yn ystod 2018–19 i wella'r ffordd mae data'n cael ei gasglu, a fydd yn rhoi dealltwriaeth well o'r angen yn y maes. Bydd y gwaith hwn yn helpu i lywio dull mwy strategol gyda'n partneriaid ar gyfer y ffordd rydym yn ymdrin â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a fydd hefyd yn cynnwys cyflwyno'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV).

Bydd y gostyngiad yn y cyllid ar gyfer y Gwasanaeth Datrysiadau Tai yn dilyn cyhoeddi cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017–18 yn rhoi pwysau ychwanegol ar y cyflenwad o lety dros dro, yn enwedig yn y sector preifat. Hyd yn hyn, mae'r grant wedi helpu i liniaru'r newidiadau a fu o ganlyniad i Ddeddf Tai (Cymru) 2014, a disgwylir y bydd yr amser a dreulir mewn llety dros dro yn cynyddu o ganlyniad i'r cyfleoedd i symud i lety yn y sector preifat gael eu cyfyngu, a fyddai'n cynyddu'r defnydd o lety gwely a brecwast. Nid yn unig y bydd hyn yn cael effaith andwyol ar gleientiaid, yn enwedig teuluoedd, o ganlyniad i'r ansefydlogrwydd y byddai byw mewn llety gwely a brecwast am gyfnod hir yn ei beri iddynt, ond bydd hefyd yn cael effaith ar gyllideb y cyngor oherwydd y costau uchel. Mae adolygiad o Wasanaeth Tai'r Gronfa Gyffredinol wedi cael ei gynnal ac mae'r gwaith hwn yn cael ei ddefnyddio i helpu i reoli'r gostyngiad i'r cyllid yn y dyfodol.

Rydym bellach yn nhrydedd flwyddyn ein Cynllun Corfforaethol (2018–19) ac rydym yn parhau i ymateb yn rhagweithiol i'n heriau uniongyrchol wrth edrych tua'r dyfodol. Rydym yn cydnabod bod yr heriau hyn yn sylweddol, ond rydym wedi gwneud cynnydd rhagorol dros y blynyddoedd diwethaf, ac yn parhau i ganolbwyntio ar ein nodau a'n canlyniadau arfaethedig ar gyfer dinasyddion, gyda chamau gweithredu diffiniedig ar gyfer y ffordd rydym yn cyflawni'r rhain. Rydym yn credu y bydd gweithio'n agos gyda'r cyhoedd, ein partneriaid a rhanddeiliaid allweddol yn ein rhoi yn y sefyllfa orau i drechu ein heriau i sicrhau ein bod yn darparu ansawdd bywyd da a chymuned ddiogel ar gyfer dinasyddion Bro Morgannwg.

## 3.1 CIPLUN O BERFFORMIAD Y CANLYNIAD

**CAMAU GWEITHREDU**

Mae ein perfformiad ar y trywydd iawn yn erbyn camau gweithredu'r Cynllun Corfforaethol, gan roi statws COG cyffredinol o **OREN** inni ar gyfer y canlyniad hwn.

**Camau Gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth**
**Amcan 1: Lleihau tlodi ac ynysu cymdeithasol**

**MESURAU PERFFORMIAD**

Mae ein perfformiad ar y trywydd yn erbyn y mesurau perfformiad, gan roi statws COG cyffredinol o **OREN** inni ar gyfer y canlyniad hwn.

**Mesurau Perfformiad**
**Amcan 1: Lleihau tlodi ac ynysu cymdeithasol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 15 (G) | 0 (O) | 3 (C) | Dd/B[3] | Cyfanswm |
| | | | 0 | 18 |

| Amcan 2: Cynnig tai o safon a chymunedau diogel | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 25 (G) | 0 (O) | 7 (C) | Dd/B | Cyfanswm |
| | | | 0 | 32 |
| **Cyfanswm ar gyfer y canlyniad** | | | | |
| 40 (G) | 0 (O) | 10 (C) | Dd/B | Cyfanswm 50 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 9 (G) | 2 (O) | 2 (C) | Dd/b | Cyfanswm |
| | | | 3 | 16 |

| Amcan 2: Cynnig tai o safon a chymunedau diogel | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5 (G) | 3 (O) | 4 (C) | Dd/B | Cyfanswm |
| | | | 5 | 17 |
| **Cyfanswm ar gyfer y canlyniad** | | | | |
| 14 (G) | 5 (O) | 6 (C) | Dd/B 8 | Cyfanswm 33 |

Gellir gweld gwybodaeth fanwl am yr holl eithriadau perfformiad mewn perthynas â Chanlyniad Llesiant 1 yn Atodiad A.

# EIN CYNNYDD YN FANWL

## 3.2 AMCAN 1: LLEIHAU TLODI AC YNYSU CYMDEITHASOL

Yn ystod 2017–18, buom yn canolbwyntio ar y camau gweithredu canlynol i fynd i'r afael ag Amcan Llesiant 1:

| Camau Gweithredu'r Cynllun Corfforaethol | Cam Gweithredu | | Lle rydym arni o gymharu â statws y chwarter blaenorol |
|---|---|---|---|
| | Camau Gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Statws y Cam Gweithredu | |
| **IS001:** Datblygu a gweithredu Strategaeth Cynhwysiant Digidol i gynyddu mynediad at dechnoleg ddigidol a gwella sgiliau digidol. (2018–19) | 7 | O | ↔ |
| **IS002:** Gweithio gyda phartneriaid i weithredu'r Strategaeth Cynhwysiant Digidol. | 2 | G | ↔ |

Mae Dd/B yn golygu ddim yn berthnasol. Mae hyn yn cael ei ddefnyddio lle nad oes targed wedi cael ei osod naill ai oherwydd ei fod yn fesur newydd (rydym wrthi'n sefydlu gwaelodlin) neu gan nad yw'n bosibl gosod targed ar gyfer y mesur. O ganlyniad, ni ellir rhoi statws COG gan nad ydym yn gallu cymharu ein perfformiad â tharged.

| Camau Gweithredu'r Cynllun Corfforaethol | Cam Gweithredu | | Lle rydym arni o gymharu â statws y chwarter blaenorol |
|---|---|---|---|
| | Camau Gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Statws y Cam Gweithredu | |
| **IS003:** Darparu gwybodaeth a chymorth ar gyfer preswylwyr sydd wedi cael eu heffeithio gan ddiwygiadau lles a chodi ymwybyddiaeth staff a phartneriaid o effaith y newidiadau. (2017–18) | 3 | G | ↔ |
| **IS004:** Gweithio trwy'r bartneriaeth Cymunedau Gwledig Creadigol i gynnwys y gymuned leol yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau gyda'r nod o leihau tlodi gwledig. (2019–20) | 2 | G | ↔ |
| **IS005:** Gweithredu amrediad o brosiectau i fynd i'r afael â thlodi trwy'r Cynllun Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yn y Barri. (2016–17) | 2 | G | ↔ |
| **IS006:** Alinio'r gweithgareddau perthnasol sy'n gysylltiedig â rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Cymunedau yn Gyntaf a Chefnogi Pobl i amlhau cyfleoedd ar draws yr holl raglenni. | 2 | G | ↔ |

Gellir gweld gwybodaeth fanwl am holl gamau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth sy'n cyfrannu at yr amcan llesiant hwn yn **Atodiad B**.

Bu i'r mesurau canlynol helpu i ddangos ein cynnydd tuag at gyflawni Amcan Llesiant 1:

| Mesurau Perfformiad Corfforaethol (MPCau) | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol a Chyfeirnod y Dangosydd Perfformiad | Dangosydd | Perfformiad 2016–17 | Targed 2017–18 | Perfformiad 2017–18 | Cyfartaledd Cymru 2017–18 | Statws Perfformiad[4] | Lle Rydym Arni (o gymharu â'r flwyddyn flaenorol) |
| **IS001: Datblygu a gweithredu Strategaeth Cynhwysiant Digidol i gynyddu mynediad at dechnoleg ddigidol a gwella sgiliau digidol.** | | | | | | | |
| MPC/100 | Canran y rhai sy'n defnyddio'r Gwasanaeth Hyrwyddwyr Digidol sy'n dweud eu bod yn teimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio TGCh o ddydd i ddydd | 44% | 70% | 100% | Dd/B | ☺ | ↑ |

[4] Statws perfformiad: mae perfformiad ar darged neu'n rhagori arno ☺; mae perfformiad o fewn 10% i'r targed 😐; collwyd y targed o fwy na 10% ☹. Mae lle rydym arni yn cymharu perfformiad 2017–18 â pherfformiad y flwyddyn flaenorol (2016–17) ar gyfer yr holl fesurau lleol. Mae saeth i fyny yn dangos perfformiad gwell na'r flwyddyn flaenorol, tra bo saeth i lawr yn dangos perfformiad gwaeth na'r flwyddyn flaenorol. Mae mesurau cenedlaethol wedi cael eu cymharu â pherfformiad cyfartalog Cymru ar gyfer 2017–18 lle mae hwn ar gael. Mae saeth i fyny yn dangos bod perfformiad y Fro yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, tra bo saeth i lawr yn dangos bod perfformiad y Fro yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

| Mesurau Perfformiad Corfforaethol (MPCau) | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol a Chyfeirnod y Dangosydd Perfformiad | Dangosydd | Perfformiad 2016–17 | Targed 2017–18 | Perfformiad 2017–18 | Cyfartaledd Cymru 2017–18 | Statws Perfformiad[2] | Lle Rydym Arni (o gymharu â'r flwyddyn flaenorol) |
| **IS002: Gweithio gyda phartneriaid i weithredu'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol a galluogi trigolion sydd â hanes cyflogaeth ysbeidiol i drechu rhwystrau i gynhwysiant ariannol a gwella mynediad at wasanaethau, cyngor a chymorth.** | | | | | | | |
| MPC/105 | Nifer y tenantiaethau a gynhaliwyd o ganlyniad i'r Gwasanaeth Cyngor Ariannol / cymorth gan y cyngor | 227 | 200 | 527 | Dd/B | ☺ | ↑ |
| **IS003: Darparu gwybodaeth a chymorth ar gyfer trigolion sydd wedi cael eu heffeithio gan ddiwygiadau lles a chodi ymwybyddiaeth staff a phartneriaid o effaith y newidiadau.** | | | | | | | |
| MPC/106 | Cynnydd yn y ganran o denantiaid sydd â mynediad at gyfrif banc / undeb credyd o ganlyniad i ymyrraeth/cymorth gan y Tîm Cyngor Ariannol | 100% | 100% | 100% | Dd/B | ☺ | ↔ |
| **IS006: Alinio'r gweithgareddau perthnasol sy'n gysylltiedig â rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Cymunedau yn Gyntaf a Chefnogi Pobl i amlhau cyfleoedd ar draws yr holl raglenni.** | | | | | | | |
| MPC/104 | Y ganran o blant Dechrau'r Deg sy'n cyflawni o leiaf y canlyniadau disgwyliedig (Canlyniad 5 neu fwy) ar gyfer y Cyfnod Sylfaen | 88.31% | 60% | 85.04% | Dd/B | ☺ | ↓ |
| MPC/111 | Y ganran o blant sy'n gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg sy'n derbyn cynnig o ofal plant | 89.4% | 80% | 84.38% | Dd/B | ☺ | ↑ |
| MPC/170 | Y ganran o ddefnyddwyr sy'n dweud eu bod yn fodlon ar wasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf maent wedi cael mynediad ato | 97% | 85% | 98.23% | Dd/B | ☺ | ↑ |

Gellir gweld gwybodaeth fanwl am yr holl ddangosyddion perfformiad sy'n cyfrannu at yr amcan llesiant hwn yn [Atodiad B].

## 3.3 AMCAN 2: CYNNIG TAI O SAFON A CHYMUNEDAU DIOGEL

Yn ystod 2017–18, buom yn canolbwyntio ar y camau gweithredu canlynol i fynd i'r afael ag Amcan Llesiant 2:

| Camau Gweithredu'r Cynllun Corfforaethol | Cam Gweithredu | | Lle rydym arni o gymharu â'r chwarter blaenorol |
|---|---|---|---|
| | Camau Gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Statws y Cam Gweithredu | |
| **IS007:** Cwblhau'r gwaith o gyflawni'r Rhaglen Gwella Tai Cyngor erbyn 2017. (2016–17) | 9 | O | ↔ |

| Camau Gweithredu'r Cynllun Corfforaethol | Cam Gweithredu | | Lle rydym arni o gymharu â'r chwarter blaenorol |
|---|---|---|---|
| | Camau Gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Statws y Cam Gweithredu | |
| **IS008:** Gweithio gyda phartneriaid i gyflwyno rhaglen adeiladu tai cyngor newydd. (2016–17) | 1 | C | ↔ |
| **IS009:** Darparu llety priodol a gwasanaethau cymorth ar gyfer grwpiau agored i niwed penodol. (2019–20) | 6 | O | ↓ |
| **IS010:** Gweithredu amrediad o fentrau i hwyluso llety newydd a gwella ansawdd llety i'w rentu yn y sector preifat. (2019–20) | 2 | G | ↔ |
| **IS011:** Cynyddu nifer y tai cynaliadwy, fforddiadwy. (2019–20) | 5 | G | ↑ |
| **IS012:** Cyflwyno system ymateb yn gyflym i amddiffyn pobl agored i niwed rhag gweithgareddau masnachwyr twyllodrus. (2016–17) | 2 | O | ↔ |
| **IS013:** Gweithio gyda'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu i beilota dull newydd ar gyfer cefnogi dioddefwyr trais domestig. (2016–17) | 1 | G | ↔ |
| **IS014:** Atal a mynd i'r afael ag achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys gweithredu dulliau cyfiawnder adferol ar gyfer pobl ifanc. (2019–20) | 3 | G | ↔ |
| **IS015:** Cwblhau Cynllun Ardal Adnewyddu Castleland i wella safon tai a'r amgylchedd lleol. (2016–17) | 2 | O | ↓ |
| **IS016:** Gweithio gyda phartneriaid i weithredu Strategaeth Diogelwch Cymunedol newydd. (2016–17) | 1 | G | ↔ |

Gellir gweld gwybodaeth fanwl am holl gamau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth sy'n cyfrannu at yr amcan llesiant hwn yn **Atodiad B**.

Bu i'r mesurau canlynol helpu i ddangos ein cynnydd tuag at gyflawni Amcan Llesiant 2:

| Mesurau Perfformiad Corfforaethol | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol (Cyf) | Dangosydd | Perfformiad 2016–17 | Targed 2017–18 | Perfformiad 2017–18 | Cyfartaledd Cymru 2017–18 | Statws Perfformiad | Lle Rydym Arni (o gymharu â'r flwyddyn flaenorol) |
| **IS007: Cwblhau'r gwaith o gyflawni'r Rhaglen Gwella Tai Cyngor erbyn 2017.** | | | | | | | |
| MPC/009 | Y ganran o stoc tai lle mae gwaith sy'n bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru wedi cael ei gwblhau | 86.38% | 100% | 99.04% | Dd/B | 😐 | ↑ |

| Mesurau Perfformiad Corfforaethol | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol (Cyf)** | **Dangosydd** | **Perfformiad 2016–17** | **Targed 2017–18** | **Perfformiad 2017–18** | **Cyfartaledd Cymru 2017–18** | **Statws Perfformiad** | **Lle Rydym Arni (o gymharu â'r flwyddyn flaenorol)** |
| MPC/119 | Y ganran o dai cymdeithasol sy'n cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru | 73.7% | 100% | 100% | Dd/B | ☺ | ↑ |
| **IS009: Darparu llety priodol a gwasanaethau cymorth ar gyfer grwpiau agored i niwed penodol.** | | | | | | | |
| MPC/027 (Mesur Atebolrwydd Cyhoeddus/015) | Nifer cyfartalog o ddiwrnodau calendr a gymerwyd i brosesu grant cyfleusterau i'r anabl | 166.51 diwrnod | 176 diwrnod | 188.15 diwrnod | Dd/B | 😐 | ↓ |
| **IS010: Gweithredu amrediad o fentrau i hwyluso llety newydd a gwella ansawdd llety i'w rentu yn y sector preifat.** | | | | | | | |
| MPC/064 (Mesur Atebolrwydd Cyhoeddus/013) | Y ganran o adeiladau gwag yn y sector preifat a ddechreuodd gael eu defnyddio unwaith eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i gamau uniongyrchol gan yr awdurdod lleol | 13.79% | 14% | 7.56% | 5.2% | ☺ | ↑ |
| Mesur Atebolrwydd Cyhoeddus /014 | Nifer yr anheddau ychwanegol a grëwyd o ganlyniad i ddechrau defnyddio tai gwag unwaith eto | Dd/B | Dd/B | 6 | Dd/B | Dd/B | Dd/B |
| **IS011: Cynyddu nifer y tai cynaliadwy, fforddiadwy.** | | | | | | | |
| MPC/024 | Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran o'r holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn | 58 | Dd/B | Dim data ar gael [5] | Dd/B | Dd/B | Dd/B |
| **IS013: Gweithio gyda'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu i beilota dull newydd ar gyfer cefnogi dioddefwyr trais domestig.** | | | | | | | |
| MPC/124 | Y ganran o ddioddefwyr cam-drin domestig sy'n dweud eu bod yn teimlo'n fwy diogel o ganlyniad i'w gwneud yn fwy anodd eu targedu | 100% | 80% | 100% | Dd/B | ☺ | ↔ |
| **IS014: Atal a mynd i'r afael ag achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys gweithredu dulliau cyfiawnder adferol ar gyfer pobl ifanc.** | | | | | | | |
| MPC/030 | Y ganran o denantiaid a oedd yn fodlon ar ganlyniad cwyn am ymddygiad gwrthgymdeithasol (HouseMark) | Dd/B | 60% | 33.33% | Dd/B | [6] ☹ | Dd/B |

Mae'r dangosydd perfformiad hwn yn cael ei lenwi ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar ddatganiadau tai gan y cyngor yn ogystal â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Bu i'r cyngor ddarparu 225 uned tai fforddiadwy yn ystod y flwyddyn. Ar hyn o bryd, nid oes data ar gael ar gyfer 2017–18.

[6] Er gwaethaf y ffaith fod camau priodol wedi cael eu cymryd i fynd i'r afael â chŵyn am sŵn a wnaed gan nifer o denantiaid, bu i nifer o denantiaid barhau i fod yn anfodlon ar y canlyniad, ac mae hyn wedi effeithio ar lefelau bodlonrwydd yn sylweddol.

| Mesurau Perfformiad Corfforaethol | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol (Cyf) | Dangosydd | Perfformiad 2016–17 | Targed 2017–18 | Perfformiad 2017–18 | Cyfartaledd Cymru 2017–18 | Statws Perfformiad | Lle Rydym Arni (o gymharu â'r flwyddyn flaenorol) |
| **IS016: Gweithio gyda phartneriaid i weithredu Strategaeth Diogelwch Cymunedol newydd.** | | | | | | | |
| MPC/232 | Y gostyngiad canrannol i nifer yr achosion o drais domestig a gofnodwyd | Dd/B | Dim data ar gael | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B |

Gellir gweld gwybodaeth fanwl am yr holl ddangosyddion perfformiad sy'n cyfrannu at yr amcan llesiant hwn yn Atodiad B.

# EIN CYFLAWNIADAU

## 3.4 AMCAN 1: EIN CYFLAWNIADAU

Yn ystod 2017–18, rydym **wedi cynyddu mynediad at dechnoleg ddigidol a gwella sgiliau digidol** trwy weithredu ein Strategaeth Cynhwysiant Digidol. Mae'r perfformiad yn dangos bod pob un (100%) o'r 120 o gleientiaid a ddefnyddiodd ein Gwasanaeth Hyrwyddwyr Digidol wedi dweud bod eu sgiliau TG sylfaenol wedi gwella, eu bod yn teimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio cyfrifiadur/dyfais ddigidol, a bod y prosiect yn dda iawn neu'n rhagorol. Mae'r perfformiad hwn yn well na'n ffigur ni yn 2016–17 (44%) ac yn rhagori ar ein targed o 70%.



Mae ein Tîm Buddsoddi Cymunedol wedi cynnal 34 digwyddiad cymunedol yn y flwyddyn ddiwethaf i **wella ein hymgysylltiad â thenantiaid**, i wella manteision ar gyfer ardaloedd lleol ac i gynnwys tenantiaid. Mae'r rhain wedi cynnwys digwyddiadau teulu, prosiectau mannau gwyrdd ac amnestau sgip i fynd i'r afael â phroblemau mewn perthynas â thipio anghyfreithlon.

Rydym wedi parhau i hyrwyddo ein **Strategaeth Cynhwysiant Ariannol** trwy gydol 2017–18 ac wedi cynorthwyo 58 teulu yn y Fro i gael soffa newydd gan Steinhoff UK fel rhan o'n 'cynllun soffa'. Mae ein cynghorwyr hefyd wedi cynorthwyo tenantiaid sy'n profi caledi i sicrhau 33 dyfais gegin, gan gynnwys cwcerau, peiriannau golchi dillad a rhewgell-rewgistiau.



Bu i nifer y tanysgrifwyr i wasanaeth cylchlythyr y cyngor, '**Cysyllt UnFro**', gynyddu i 50,119 yn 2017–18. Mae hyn yn uwch na'n targed ni o 42,000 a gwelliant o 11% o gymharu â'n perfformiad ni yn 2016–17  Mae gweithgor wedi cael ei sefydlu i nodi cyfleoedd i gynyddu nifer y tanysgrifwyr ymhellach ac i fanteisio ar unrhyw gyfleoedd i wella ymgysylltiad, sbarduno newid  sianeli a chynhyrchu incwm.

Yn ystod 2017–18, bu inni gefnogi 223 o denantiaid i gymryd rhan mewn hyfforddiant – o'r rhain, enillodd 146 gymhwyster cydnabyddedig. Yn ogystal â hyn, mae ein **Tîm Buddsoddi Cymunedol** wedi cefnogi 18 tenant i gwblhau lleoliadau profiad gwaith er mwyn ennill profiad hanfodol a'u cynorthwyo wrth geisio swyddi. Rydym yn bwriadu adeiladu ar hyn ymhellach yn ystod 2018–19 trwy ddatblygu rhagor o leoliadau profiad gwaith



er mwyn cynyddu amrywiaeth y lleoliadau gwaith a gynigir ac i ddenu amrediad ehangach o denantiaid i gymryd rhan.

Cafodd **cylchoedd chwarae Dechrau'n Deg Robin Goch a Buwch Goch Gota** eu 'cymeradwyo'n fawr' yn ddiweddar gan Gymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru yn dilyn arolygiad 'Ansawdd i Bawb' trwyadl. Mae'r cylchoedd chwarae hyn, a leolir yn y Barri, yn darparu gofal plant o ansawdd ar gyfer plant dwy a thair blwydd oed o fewn dalgylch Dechrau'n Deg ac mae'n ofynnol iddynt fynd trwy broses arolygu drwyadl bob blwyddyn. Dyfarnwyd y radd uchaf i'r ddau gylch chwarae a gwnaethant dderbyn canmoliaeth gan arolygwyr ynghylch y berthynas dda ag ysgolion lleol, clymau agosrwydd cynnes gyda'r plant a'r bwydlenni byrbryd iachus. Mae'r arolygiad blynyddol wedi gweld y grŵp Buwch Goch Gota dderbyn y radd uchaf am dair blynedd yn olynol, gyda'r adroddiad cyfredol yn tynnu sylw at eu hymrwymiad parhaus i ansawdd, gan nodi bod 'staff yn parhau i fod yn frwdfrydig iawn, yn brofiadol a chanddynt gymwysterau da'.



Mae **Teuluoedd yn Gyntaf** yn parhau i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau o ansawdd sy'n cael eu rheoli'n dda, sy'n parhau i ddarparu cymorth ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd a'r staff sy'n gweitho gyda nhw. Dywedodd 98% o ddefnyddwyr Teuluoedd yn Gyntaf eu bod yn fodlon ar y gwasanaethau a ddarparwyd ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd yn ystod 2017–18. Mae hyn yn well byth na'r 97% a oedd yn fodlon y llynedd.

Daethom â'r prosiectau **Cymunedau yn Gyntaf** a oedd ar ôl i ben yn llwyddiannus yn ystod 2017–18, a chynnal digwyddiad dathlu poblogaidd ym mis Mawrth 2018. Mae dwy ffynhonnell gyllid wedi cael eu sicrhau yn lle Cymunedau yn Gyntaf (y Gronfa Waddol a Chymunedau am Waith a Mwy) ar gyfer 2018–19 ymlaen. Mae'r ail gronfa yn estyn y rhaglen Cymunedau am Waith y tu allan i ardal glwstwr Cymunedau yn Gyntaf y Barri, gan ddod â chymorth cyflogadwyedd i ardaloedd gwledig y Fro. Mae'r rhaglen lwyddiannus ac uchel ei pharch ar gyfer cefnogi pobl ifanc wrth iddynt symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn parhau am flwyddyn arall o dan gyllid y 'Gronfa Waddol'.

Gwnaethom gefnogi naw tenant wrth iddynt fynychu gwersyllfa gyflogaeth hyfforddiant dwys breswyl mewn partneriaeth â Forces Fitness. Cwblhaodd y tenantiaid, a oedd rhwng 19 a 27 mlwydd oed, rhaglen dridiau a oedd yn canolbwyntio ar hyder ac adeiladu timau, a lluniodd pob un ohonynt CV proffesiynol fel rhan o'r cwrs. Bydd y tenantiaid hyn yn parhau i dderbyn cymorth yn ystod 2017–18. Mae 30 tenant arall wedi derbyn cymorth i gael swyddi o ganlyniad i'r **Strategaeth Buddsoddi Cymunedol**, gyda 33% yn parhau i fod mewn cyflogaeth am fwy na chwe mis.



Yn ystod hanner tymor 2018 ym mis Chwefror, bu i dîm Cymunedau yn Gyntaf y cyngor ariannu taith deulu i Erddi Dyffryn ym Mro Morgannwg. Aeth cyfanswm o 68 o gyfranogwyr rhwng dwy flwydd oed a 67 mlwydd oed ar y dydd i ffwrdd. Roedd te, coffi a sgwosh ar gael wrth gyrraedd a chynigiwyd amrediad o weithgareddau, gan gynnwys helfa drysor o gwmpas y gerddi a mynediad agored i Dŷ Dyffryn. Ar gyfer llawer o'r teuluoedd, dyma oedd y tro cyntaf iddynt archwilio'r tiroedd mewn lleoliad mor hardd, sydd mor agos i'r Barri. Eglurodd llawer o'r teuluoedd nad oeddent yn gallu fforddio'r ffi fynediad i'r gerddi cyn i Gymunedau yn Gyntaf y Barri gynnig y cyfle hwn iddynt. Trwy dderbyn yr arian ar gyfer y daith hon, roedd teuluoedd yn gallu cael profiad antur newydd o'r celfyddydau a diwylliant gydag aelodau eraill o'u cymuned.

Mae'r Tîm Incwm wedi parhau i hyrwyddo cynllun **HelpU Dŵr Cymru** ar gyfer cartrefi incwm isel, er mwyn lleihau taliadau dŵr a charthffosiaeth. Rydym wedi prosesu 487 cais yn ystod y flwyddyn ariannol hon a oedd yn rhoi'r hawl i denantiaid gael ad-daliad, wedi clirio balansau a oedd yn ddyledus, neu wedi cynhyrchu credyd sydd wedi cael



ei ad-dalu i'r tenantiaid. Bydd y taliad parhaus mae'r preswylydd yn ei dalu yn parhau i fod yn llai nes bod eu hamgylchiadau'n newid, a fydd o ganlyniad yn helpu'r tenantiaid i gynnal eu taliadau yn y dyfodol.

Yn ystod 2017–18, gwnaeth 233 o 274 o blant gyflawni'r canlyniadau disgwyliedig (Canlynad 5 neu fwy) ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, gan ragori ar y targed o 60% a osodwyd ar gyfer y flwyddyn.

Mae cymorth yn parhau i gael ei gynnig gan ein tîm Datblygu Economaidd ar gyfer cymunedau sy'n dymuno gwneud cais am gyllid, ac mae **mapio cymunedol** wedi dod i'r amlwg fel ffactor allweddol i lwyddiant ceisiadau am gyllid, gyda'r Fro yn rhedeg mwy o brosiectau'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig y pen nag unrhyw ardal arall yng Nghymru. Yn ystod 2017–18, gwnaethom gefnogi'r gymuned i sicrhau cyllid gwerth £2,141,281 gan Lywodraeth Cymru hyd at y cam cymeradwyo mynegiannau o ddiddordeb.



Yn ystod y flwyddyn, mae cynghorwyr ariannol o fewn y Tîm Tai wedi helpu dros 800 tenant ac wedi **sicrhau dros £300,000 o fuddion ariannol** ar eu rhan. Mae hyn yn cynnwys budd-daliadau ôl-ddyddiedig a budd-daliadau lles ychwanegol, e.e. Taliadau Annibyniaeth Bersonol, taliadau dŵr llai, a rhoddion gan sefydliadau gwirfoddol/elusennol. Mae hyn wedi gwella sicrwydd ariannol pobl ac wedi sicrhau eu bod wedi llwyddo i gynnal eu tenantiaethau.

Cynhaliwyd 527 (97%) o denantiaethau yn ystod 2017–18 o ganlyniad i'n Gwasanaeth Cyngor Ariannol, sy'n well na'r 227 o denantiaethau a gynhaliwyd yn y flwyddyn flaenorol. O ystyried y costau uchel iawn sy'n gysylltiedig â thenantiaethau'n methu, gan gynnwys colli rhent a chostau atgyweirio, yn ogystal â chostau ymdrin â digartrefedd, mae'r buddsoddiad yn y Gwasanaeth Cyngor Ariannol yn parhau i gynhyrchu arbedion ariannol sylweddol.

Mae **Credyd Cynhwysol** yn cael ei gyflwyno yn y Fro o fis Hydref 2018 a bu i'r gwaith o baratoi ar gyfer hyn ddechrau gyflymu yn ystod 2017–18. Mae gweithgorau wedi cael eu sefydlu i sicrhau bod tenantiaid yn barod ac mae sefydliadau'n gweithio gyda'i gilydd i geisio sicrhau bod unrhyw effeithiau andwyol yn cael eu lleihau cymaint â phosibl. Mae canlyniadau'r gwaith hwn hyd yn hyn yn cynnwys ymgyrch gyhoeddusrwydd ar y cyd i godi ymwybyddiaeth ymhlith tenantiaid, mecanweithiau gwell ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng partneriaid, hyfforddiant ar y cyd, a chymorth cydgysylltiedig i gael cyngor ariannol a mynd ar-lein.



Rhoddwyd cymorth i 100% o denantiaid gan gynghorwyr ariannol mewn perthynas â phwysigrwydd bod â chyfrif banc a'r arbedion y gallai hyn eu rhoi o ran siopa ar-lein am wasanaethau â phrisiau mwy cystadleuol. Lle nodwyd nad oedd gan denantiaid gyfrif banc, cawsant gymorth gan gynghorwyr, a oedd yn rhoi gwybodaeth am gyfrifon banc sylfaenol ac yn cyfeirio tenantiaid at amryw fanciau stryd fawr lle y gallent agor cyfrif banc, gan sicrhau hefyd fod tenantiaid wedi'u paratoi'n well ar gyfer cyflwyno Credyd Cynhwysol.



O ganlyniad i'r fenter mapio cymunedol, mae cynllun '**Gweithgareddau Rhieni a Phlant Gyda'i Gilydd**' yn cael ei beilota mewn lleoliadau cymunedol yn Sain Tathan, Gwenfô, y Rhws ac Ystradowen. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys plant oedran ysgol yn cymryd rhan mewn 'diwrnodau gweithgareddau' gyda'u rhieni neu warcheidwaid neu ochr yn ochr â nhw. Darperir amrediad o weithgareddau, gan gynnwys crefftau, dosbarthiadau iaith, sgiliau syrcas, dysgu yn yr awr agored,

coginio, a ffitrwydd a llesiant.

Yn dilyn datblygu rhaglen mapio cymunedol i nodi'n glir anghenion cymunedau gwledig yn y Fro, mae pedwar ymarfer wedi cael eu cwblhau'n llwyddiannus yn Sain Tathan, Gwenfô, y Rhws ac Ystradowen. Mae'r dull mapio wedi cael ei brif ffrydio gan yr adran gynllunio mewn perthynas â dyrannu agweddau ar gyllid Adran 106. Mae wedi profi ei hun yn ddull amhrisiadwy wrth dargedu cyllid lle mae'r angen mwyaf yn seiliedig ar dystiolaeth glir gan gymunedau lleol. Mae hefyd yn gweld cymunedau yn gyrru prosiectau eu hunain, ac mae'r gwaith canlyniadol yn profi'n llwyddiannus iawn wrth gefnogi ceisiadau am gyllid grant allanol megis y **Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig**, sy'n cael ei gweinyddu gan Lywodraeth Cymru.



Yn ystod y flwyddyn diwethaf, mae **Cymunedau yn Gyntaf y Barri** wedi gweithio'n agos gyda grŵp cymunedol a fynegodd ddymuniad i redeg canolfan gymunedol leol. Gyda chymorth Cymunedau yn Gyntaf y Barri, eleni bu iddynt ymgymryd â'r gwaith o lywodraethu a rheoli'r ganolfan, gan gynnwys yr holl weithgareddau a chyfrifoldebau ariannol. Wedyn gwnaeth Cymunedau yn Gyntaf y Barri eu cynorthwyo i ymgynghori â'r gymuned leol i roi syniadau i'r pwyllgor newydd, yn ogystal â rhoi arweiniad iddynt ynghylch sut i wireddu'r syniadau hyn. Wrth weithio mewn partneriaeth am ychydig o fisoedd yn unig, mae'r ganolfan wedi cyflawni'r canlynol:

- Mewn partneriaeth â Chymunedau yn Gyntaf y Barri, gwnaethant gynnal digwyddiad ymgysylltu/ymgynghori â'r gymuned (â thema Nos Galan Gaeaf) lle roeddent yn gallu casglu safbwyntiau gan y gymuned leol ynghylch yr hyn yr hoffai'r gymuned ei weld yn cael ei ddarparu yn y ganolfan.
- Gwnaeth aelodau o'r pwyllgor a gwirfoddolwyr gwblhau hyfforddiant achrededig bwyd cymunedol a maeth y GIG, sef 'Sgiliau Maeth ar gyfer Bywyd', fel roeddent yn gallu lledaenu negeseuon ynghylch bwyta'n iach wrth weini bwyd yn eu caffi newydd. Roedd hyn hefyd yn eu galluogi i hwyluso mathau penodol o hyfforddiant o fewn y ganolfan ar gyfer y cyhoedd, gan gynnwys rhaglenni megis 'Bywd Doeth am Oes' a 'Rhoi Cynnig ar Goginio'.
- Bu i aelodau o'r pwyllgor a gwirfoddolwyr gwblhau hyfforddiant hylendid bwyd ar gyfer y rhai sy'n ymwneud â pharatoi bwyd a'r prosiectau uchod.
- Yn dilyn argymhellion a gasglwyd yn ystod y digwyddiad ymgynghori, gwnaethant gynnal digwyddiad ffilm llwyddiannus mewn partneriaeth â Chymunedau yn Gyntaf y Barri ac 'Into Film', a gynhaliodd weithdy animeiddio.

Byddant yn cwblhau amrediad o hyfforddiant iechyd meddwl yn ystod y misoedd nesaf. Ar ôl gweithio gyda'r grŵp am chwe mis yn unig, maent bellach mewn sefyllfa lle mae ganddynt y sgiliau, yr hyder a'r hyfforddiant i redeg y ganolfan yn annibynnol. Yn ogystal, maent wedi ailwampio canolfan a oedd yn allgáu'r gymuned leol a'i throi yn ganolfan ffyniannus, lwyddiannus sydd wedi creu ei ffrwd gyllid gynaliadwy ei hun at ddibenion gwella'r gymuned.

Mae'r Fro wedi cyflawni cyfradd lwyddo o 94% a'r **perfformiad gorau o'r holl ddarparwyr dysgu** yn y rhanbarth. Gwnaed hyn trwy ddulliau cyflawni wedi'u cynllunio'n dda a chasglu data da. Mae Gwasanaeth Dysgu Oedolion y Fro yn ymgynghori â rhanddeiliaid lleol i sicrhau bod y cwricwlwm a gynigir yn diwallu anghenion y grwpiau â blaenoriaeth a nodir. Mae'r rhanddeiliaid yn cynnwys: Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Cymunedau am Waith, Biwro Gwirfoddolwyr y Fro, Swyddog/Fforwm Pobl Hŷn, Gyrfa Cymru, Coleg Caerdydd a'r Fro, Dysgu Oedolion yn y Gymuned yng Nghymru, Canolfan Byd Gwaith, Atal y Fro (lloches i fenywod), a'r prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE). Dywedodd 97.2% o ddysgwyr a samplwyd yn Arolwg Dysgwyr 2018 fod eu cwrs ar y cyfan yn dda iawn neu'n eithaf da.



## 3.5 AMCAN 2: EIN CYFLAWNIADAU



Mae'r holl uwchraddiadau i dai bellach wedi cael eu cwblhau er mwyn bodloni **Safon Ansawdd Tai Cymru**, gan sicrhau bod anheddau o ansawdd da ac yn addas ar gyfer preswylwyr heddiw a'r dyfodol. Yn ystod y rhaglen, bu i'r cyngor uwchraddio 3,876 o dai yn y Fro, ac er bod y rhaglen wedi dod i ben, y prif ffocws bellach fydd ar gynnal y safon a gwella'r cyfleusterau i fodloni'r safonau cymdeithasol a'r disgwyliadau cyfredol.

Mae nifer y diwrnodau gwaith mae'n cymryd i osod adeilad gwag wedi parhau i wella – o 28 diwrnod yn 2016–17 i 19 diwrnod yn 2017–18. Mae'r gwelliant hwn i'r cyfnod trosiannol wedi caniatáu tenantiaid i symud i mewn i'w cartrefi newydd yn gynt. Mae gwybodaeth feincnodi yn rhoi perfformiad y **Fro yn chwartel uchaf sefydliadau tai ledled Cymru a Lloegr** ar ddiwedd y flwyddyn.

Yn unol ag ymrwymiad y cyngor i hyrwyddo adfywio, mae perchnogion adeiladau ledled Bro Morgannwg bellach yn gallu gwneud gwelliannau a chyweiriadau hanfodol er mwyn dechrau defnyddio adeiladau unwaith eto. Mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, mae'r **Fro yn cynnig benthyciadau di-log** i helpu perchnogion tai i wneud hyn, wrth wella amgylchoedd y cyhoedd ar yr un pryd, gan leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, fandaliaeth a thipio anghyfreithlon.



**Cafodd adeiladwr twyllodrus ei erlyn yn llwyddiannus** am gyfres o droseddau safonau masnach yn dilyn ymchwiliad gan swyddogion y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir. Dedfrydwyd y diffynnydd i 22 mis yn y carchar ar ôl pledio'n euog i 15 trosedd o dan Reoliadau Diogelu Defnyddwyr rhag Masnachu Annheg 2008. Roedd troseddau wedi cael eu cyflawni yn erbyn wyth parti yn y Fro, gan gynnwys twyllo pobl i roi arian iddo am ddeunyddiau na wnaeth eu prynu, methu â rhoi hawliau canslo i gwsmeriaid, a hyd yn oed dechrau gwaith ar gyfer rhai cwsmeriaid heb ganiatâd. Gorchmynnwyd y diffynnydd i dalu tua £2,000 o iawndal i'r dioddefwyr a £2,000 o gostau erlyn. Codwyd gordal dioddefwyr o £140 arno hefyd, a chafodd ei wahardd rhag bod yn gyfarwyddwr cwmni am bum mlynedd.

Dywedodd 100% o bobl a dderbyniodd **grant cyfleusterau i'r anabl** yn ystod 2017–18 fod y cymorth yn gwneud iddynt deimlo'n fwy diogel a mwy annibynnol yn eu cartref eu hunain.



Castleland oedd trydydd prosiect Ardal Adnewyddu Bro Morgannwg, ac mae wedi cael ei nodi gan y cyngor fel **cynllun i wrthdroi dirywiad canol tref y Barri** (Holton Road) a'r ardal breswyl o'i chwmpas. Yn ystod 2017–18, nododd Tîm yr Ardal Adnewyddu fod rhes o wyth adeilad tri llawr yn dangos diffygion adeiladu difrifol a oedd yn amharu ar y gwaith i wella gwedd yr ardal. Dangosodd arolwg o'r strwythur y byddai'n ofynnol cau busnesau ac adleoli preswylwyr pan oedd gwaith i unioni'r broblem yn cael ei wneud. Roedd Tîm yr Ardal Adnewyddu'n gallu nodi ateb arall, gan sicrhau y gwnaed yr atgyweiriadau am y gost isaf posibl a chyda'r aflonyddwch lleiaf, wrth ganiatáu i gynllun dilynol o waith i wella gwedd yr ardal gael ei gynnal.

Gwnaed 61 cartref yn fwy anodd eu targedu yn 2017–18 o gymharu â 66 yn 2016–17, a dywedodd 100% o ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig eu bod yn **teimlo'n fwy diogel o ganlyniad i'r gwasanaethau i'w gwneud yn fwy anodd eu targedu** a ddarparwyd gennym. Mae gwneud cartrefi'n fwy anodd eu targedu yn cynnwys darparu mesurau diogelwch cartref ar gyfer dioddefwyr camdriniaeth ddomestig, yn ogystal â chyngor ar gynllunio diogelwch, sydd mewn llawer o achosion yn rhoi'r hyder iddynt aros yn eu cartref eu hunain.



Yn ystod 2017–18, gwnaeth y ganran o'r holl gartrefi lle y **llwyddodd camau cadarnhaol i atal digartrefedd** godi o 69% yn 2016–17 i 72%. Mae'r llwyddiant hwn wedi cael ei ategu gan y gwasanaethau cymorth ychwanegol megis Gwalia, Gofal a Shelter Cymru a gafodd eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn.

---

Cynhaliwyd y **sioe ar daith gyntaf i godi ymwybyddiaeth ynghylch diogelu** yn Llanilltud Fawr ym mis Medi 2017. Roedd grwpiau preswylwyr yn gallu ennill ymwybyddiaeth o faterion megis trosedd ar y stepen drws a chynlluniau marchnata twyllodrus torfol. Cynhaliwyd ail ddigwyddiad ym Mro Morgannwg wedyn ym mis Hydref 2017, ac roedd hyn yn ffordd wych o dynnu sylw pobl a oedd yn mynd heibio, gyda negeseuon ynghylch cynlluniau twyllo o fewn cerbyd sŵn y cyngor a'r tu allan iddo. Siaradodd y tîm â dros 150 o bobl yn ystod y dydd a rhoi sticeri dim galw diwahoddiad, cardiau cydio â negeseuon allweddol a manylion cyswllt ar gyfer y dyfodol.

---

Daeth prosiect **Ardal Adnewyddu Castleland** i ben ar 31 Mawrth 2017. Dros y cyfnod o saith mlynedd roedd y rhaglen yn rhedeg amdano, bu i'r cyngor fuddsoddi £9,553,247. Mae rhai cyflawniadau'n cynnwys y canlynol: gwnaeth 1,225 o gartrefi gymryd rhan mewn prosiect i wella gwedd anheddau preswyl; gwnaed gwelliannau i Holton Road, gan gynnwys Ysgol Gynradd Holton Road, a buddsoddwyd £2.5 miliwn i 487 o dai i osod mesurau effeithlonrwydd ynni, gan gynnwys ynysiad, gwres canolog a systemau dŵr poeth.




---

Rydym wedi parhau â'r gwelliannau a wnaed yn wreiddiol i **Erddi Gladstone** yn 2016–17 trwy uwchraddio llwybrau a phwyntiau mynediad, plannu coed ac uwchraddio'r pwll. Mae hyn wedi gwella golwg y gerddi'n sylweddol, gan ddarparu ardal ddiogel i'r gymuned ei mwynhau.

---



Yn ystod 2017–18, datblygwyd prosiect llety â chymorth dwy uned mewn partneriaeth â Gwasanaethau Plant i **ddarparu tai dros dro â lefelau uchel o gymorth ar gyfer y rhai agored i niwed sy'n gadael gofal ac sydd ag anghenion cymhleth iawn** na ellid eu diwallu mewn cynllun tai â chymorth traddodiadol.

---

Sefydlwyd **Cynllun Cam-drin Domestig Gwasgaredig** llwyddiannus mewn partneriaeth ag Atal y Fro a Chymdeithas Tai Newydd i roi llety a chymorth i ddioddefwyr cam-drin domestig yn y gymuned mewn tai sydd wedi cael eu gwneud yn anodd eu targedu. Roedd y gwasanaeth hwn yn cael ei dargedu at gleientiaid nad oedd yn briodol iddynt ddefnyddio noddfeydd traddodiadol oherwydd eu hanghenion arbennig – er enghraifft, dynion, pobl hŷn, a chleientiaid lesbiaidd, hoyw a thrawsrywiol. Gwnaeth y cynllun hefyd gyrraedd y rhestr fer ar gyfer Dyfarniad Tai y DU o dan y categori cydraddoldeb ac amrywiaeth.

---



Mae Cydlynydd Porth newydd wedi cael ei benodi i'r Tîm Cefnogi Pobl, ac mae wedi cynnal ymgynghoriad â defnyddwyr gwasanaeth a darparwyr cymorth i lywio'r gwaith o ddatblygu **Gwasanaeth Porth** ar gyfer yr holl wasanaethau cymorth ym Mro Morgannwg. Bydd hyn yn sicrhau y bydd cleientiaid yn cael eu blaenoriaethu ac yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth mwyaf priodol i'w hanghenion.

---

Ym mis Hydref 2017, gwnaeth dros 100 o ddynion newid eu hesgidiau am sodlau uchel a cherdded milltir ar draws Canol Dinas Caerdydd er mwyn cefnogi cael gwared ar **drais domestig yn erbyn menywod gan ddynion**. Cafodd y daith gerdded ei chefnogi gan Gyngor Bro Morgannwg, Cyngor



Caerdydd a Chymdeithas Tai Cadwyn er mwyn cydnabod Diwrnod Rhuban Gwyn.

Cytunodd y **Bartneriaeth Bro Fwy Diogel** ym mis Mehefin 2018 yr hoffent Strategaeth Diogelwch Cymunedol drosfwaol o 2019 i fapio'r holl waith rhanbarthol ac i ystyried materion a blaenoriaethau lleol. O ganlyniad, mae strategaeth newydd ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol wedi cael ei datblygu rhwng Cyngor Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Chyngor Bro Morgannwg, a fydd yn cael ei chyhoeddi ym mis Gorffennaf 2018.



Ym mis Gorffennaf 2017, gwnaeth cynghorwyr lleol a thimau hamdden a diogelwch cymunedol Cyngor Bro Morgannwg ymweld â'r Rhws, gyda gwylwyr y glannau a swyddogion yr heddlu, fel rhan o ymdrech i weithio gyda thrigolion lleol i **fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a oedd yn gysylltiedig â phobl ifanc** yn ymgasglu ar bwys y lagwnau a pheri adlonyddwch. Daeth tua 50 o drigolion lleol i'r digwyddiad ymgysylltu cymunedol yn Nhrwyn y Rhws, lle y cawsant y cyfle i drafod unrhyw faterion neu broblemau a allai fod ganddynt â’r awdurdodau. Gan weithio gyda'r gymuned, roedd y cyngor yn gallu nodi camau gweithredu ar gyfer y dyfodol a fyddai'n ystyrlon i'r gymuned wrth geisio sicrhau ar yr un pryd fod pobl ifanc yn yr ardal yn ddiogel. Yn ystod y digwyddiad hwn, gwnaeth ein tîm Diogelwch Cymunedol hefyd ddarparu gwybodaeth am asesiadau diweddar o gyflymderau traffig yn Nhrwyn y Rhws, a rhoi cyngor ynghylch sefydlu Cynllun Gwarchod Cymdogaeth.

Mae diogelu'r rhai sy'n agored i niwed yn thema ganolog i lawer o'r gweithgareddau a gynhelir gan **Wasanaethau Rheoliadol a Rennir**. Yn ystod y flwyddyn, bu i Dîm Diogelu'r Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir dderbyn neu ymdrin â 542 o achosion, ymholiadau ac atgyfeiriadau. Ymgysylltwyd â 763 o bobl trwy addysg a gweithgareddau hyfforddiant ymwybyddiaeth mewn perthynas â chynlluniau twyllo a throsedd ar y stepen drws, a bu i 80 o bobl a oedd wedi dioddef o ganlyniad i drosedd ar y stepen drws a chynlluniau twyllo dderbyn cymorth. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys 169 ymweliad â defnyddwyr. Yn ogystal â hyn, cafodd 24 o flocwyr galwadau eu gosod, a gwnaed chwe ymateb brys i breswylwyr a oedd yn pryderu neu'n cael eu dychrynu, lle roedd masnachwyr yn bresennol yn eu cartrefi neu wedi trefnu dod yn ôl.

## EIN HERIAU A'N RISGIAU

## 3.6 AMCAN 1: EIN HERIAU



Mae **cynhwysiant digidol** yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer y cyngor, ac er bod cynnydd wedi cael ei wneud mewn perthynas â hyrwyddo gwasanaethau ar-lein – er enghraifft, penodi hyrwyddwyr digidol gwirfoddol a llwyddiant ‘Cael y Fro Ar-lein’ – mae angen gwneud my i hyrwyddo cynhwysiant digidol ar draws grwpiau targedig. Disgwylir rhagor o gynnydd yn ystod 2018–19 yn dilyn y cyngor yn mabwysiadu Strategaeth Ddigidol newydd.



Mae'r ffaith fod **ynysu ariannol** yn broblem y mae angen ei hystyried o ddifrif a chymryd camau yn ei chylch wedi cael ei chydnabod ers amser maith. Mae'r dirywiad economaidd a'r wasgfa gredyd ganlyniadol, ynghyd â chyfres o ddiwygiadau lles, yn golygu bod ynysu ariannol wedi dod yn broblem anodd iawn ei threchu yn yr hinsawdd economaidd gyfredol hon. Mae Strategaeth Cynhwysiant Ariannol y cyngor, sy'n dod i ben yn 2018, hefyd yn gweld y Grŵp Cynhwysiant Ariannol yn dod i ben hefyd. I sicrhau ein bod yn parhau i weithio tuag at leihau tlodi a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag amddifadedd, mae gwaith yn cael ei wneud gyda phartneriaid ar hyn o bryd i benderfynu ar y strwythurau a'r mecanweithiau mwyaf priodol i'w defnyddio i gyflawni ein

hamcanion a'r camau a amlinellir yn ein Cynllun Gweithredu. Trwy'r Cynllun Llesiant, bydd llawer o agweddau ar ei waith yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r cyngor, gyda grwpiau gorchwyl a gorffen yn cael eu sefydlu i fynd i'r afael â phroblemau penodol.

Er bod Llywodraeth y DU wedi gwarantu holl gyllid y Cynllun Datblygu Gwledig sydd wedi cael ei glustnodi hyd 2020, **mae ansicrwydd yn parhau i fod ynghylch lefelau'r cyllid ar ôl 2020**. Mae'n bosibl y bydd hyn yn cael effaith ar gydnerthedd Cymunedau Gwledig Creadigol ar ôl Brexit. Mae unrhyw gyllid a fydd yn cael ei ddyrannu yn y dyfodol yn lle cyllid datblygu economaidd neu gyllid gwledig yn parhau i fod yn aneglur, a bydd yn cael ei ddylanwadu'n drwm gan bolisi San Steffan.

## 3.7 AMCAN 2: EIN HERIAU



Bu oediadau i ddechrau'r gwaith ar y safle i adeiladu 11 o'r 14 o dai cyngor newydd o dan Raglen Datblygu Tai'r cyngor. Roedd hyn o ganlyniad i anawsterau wrth ddod o hyd i gontractwyr trwy broses gystadleuol. Mae tendrau bellach wedi cael eu derbyn ar gyfer yr 11 adeilad a oedd ar ôl yn Holm View, gydag amser adeiladu disgwyliedig o 60 wythnos.

Mae wedi cymryd yn hwy na'r disgwyl i weithredu porth cwsmeriaid sy'n caniatáu i denantiaid weld eu cyfrif rhent a chael mynediad i wybodaeth am wasanaethau tai ar-lein. Cafodd yr oedi hwn ei beri yn bennaf gan yr amser a gymerwyd i dderbyn sicrwydd mewn perthynas ag agweddau ar ddiogelwch TG y datrysiad meddalwedd. Mae angen llawer o waith o hyd, ond disgwylir y bydd y porth cwsmeriaid yn mynd yn fyw o fewn y chwe mis nesaf.



Mae'r ffaith i Lywodraeth Cymru adolygu'r diffiniad o'r amser cyfartalog mae'n ei gymryd i brosesu **grant cyfleusterau i'r anabl** ran o'r ffordd trwy'r flwyddyn wedi effeithio ar ein perfformiad cyffredinol ar gyfer 2017–18. Yn flaenorol, roedd yr amser a oedd yn cael ei gofnodi'n dechrau ar adeg atgyfeirio i'r Tîm Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Mae hyn wedi cael ei newid, gydag amseroedd bellach yn cael eu cofnodi o adeg y cysylltiad cyntaf â'r cyngor, a allai fod trwy'r Ganolfan Gyswllt (C1V). Mae angen asesu anghenion cleientiaid ac weithiau mae'r broses hon yn cymryd cryn amser cyn atgyfeirio'r cais i'r tîm Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, oherwydd mae'n bosibl y bydd hyn yn cynnwys archwilio datrysiadau eraill megis pecynnau gofal cyn atgyfeirio'r achos yn y pen draw i'r tîm Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Mae ein perfformiad wedi gostwng o 167 diwrnod i 188 diwrnod yn 2017–18. Mae prosesau'n parhau i gael eu hadolygu mewn ymdrech i leihau'r amseroedd cyflawni cyfartalog.

Bydd y **gronfa ddigartrefedd drosiannol** sy'n cael ei darparu gan Lywodraeth Cymru yn dod i ben ym mis Mawrth 2018, ond bydd rhai swyddi hanfodol o fewn y Gwasanaeth Datrysiadau ac Opsiynau Tai yn parhau i gael eu cyllido trwy'r arian hwn. Wrth edrych ymlaen, mae'r gwasanaeth hwn wedi cael ei nodi fel pwysau cost ar gyfer 2018–19, lle bydd angen cyllid ychwanegol er mwyn cynnal y lefel gyfredol o atal digartrefedd yn unol â Deddf Tai (Cymru) 2014.

Yn ystod 2017–18, gwnaethom nodi y byddai'n bosibl gwella ein mesurau rheoli cyfredol ar gyfer **rheoli cydymffurfiaeth adeiladau** ac, yn benodol, 'data cydymffurfio' ar gyfer ein stoc adeiladau corfforaethol. Mewn ymateb, gwnaethom ailstrwythuro ein Tîm Cydymffurfiaeth Gorfforaethol i reoli data cydymffurfio'n well.



Cafodd tri aelod tîm newydd eu penodi a'u hyfforddi mewn defnyddio ein cronfa ddata rheoli asedau mewnol. Mae 2,656 o asedau wedi cael eu nodi gyda'r rhan fwyaf o adeiladau cyhoeddus eisoes wedi cael ymweliad gan y Tîm Cydymffurfiaeth. Mae heriau wedi codi yn ystod y gwaith hwn o ganlyniad i'r anallu i redeg adroddiadau cydymffurfiaeth ac anawsterau wrth gael mynediad at adeiladau wedi'u prydlesu a chanolfannau cymunedol. Bydd gwaith yn parhau i fynd yn ei flaen yn 2018–19 i sicrhau bod ein hadeiladau corfforaethol yn ddiogel ac yn addas i'r diben.

## 3.8 AMCAN 1: RISGIAU I'N GWASANAETHAU NI

Mae risgiau i'n gwasanaethau ni a nodwyd trwy ein cynlluniau gwasanaeth wedi cael eu halinio â chanlyniad llesiant ac amcan cysylltiedig. Mae wyth risg wedi eu halinio ag Amcan 1: Lleihau tlodi ac ynysu cymdeithasol. Gellir grwpio'r wyth risg hyn yn unol â phedair thema sy'n gysylltiedig â chyflawni'r Cynllun Corfforaethol. Mae grwpio'r risgiau yn unol â'r themâu hyn yn ein galluogi i ddeall risg yn well ac i werthuso'r effaith y gallai agweddau lluosog ar risg ei chael ar ein gallu i gyflawni agweddau allweddol y Cynllun Corfforaethol, yn ogystal ag i nodi unrhyw ryngberthynas rhwng y risgiau sydd wedi cael eu halinio â themâu. Mae'r pedair thema sy'n gysylltiedig â'r amcan hwn fel a chanlyn:

- Lleihau tlodi a diwallu anghenion ein dinasyddion mwyaf agored i niwed
- Rheoli adnoddau'n effeithiol i gynnal darpariaeth gwasanaeth
- Lleihau ynysu cymdeithasol a digidol
- Lleihau anghydraddoldebau iechyd a llesiant

Os nad yw'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r themâu hyn yn derbyn sylw mewn modd effeithiol, gallent gael effaith andwyol ar y gwaith o gyflawni ein Cynllun Corfforaethol, felly mae mecanweithiau ar waith ar gyfer adolygu a monitro yn rheolaidd i sicrhau ein bod yn gallu eu rheoli mewn modd effeithiol. Gan fod natur y risgiau sy'n gysylltiedig â'r amcan hwn yn drawstoriadol, mae'n bosibl y byddant hefyd yn cael effaith ar agweddau eraill ar gyflawni'r Cynllun Corfforaethol.

Mae'r map gwres cyffredinol isod yn dangos bod y prif risgiau sy'n gysylltiedig â'r canlyniad hwn o fewn rhan ganolig y cwadrant. Yn yr un modd ag yn ystod 2017–18, cafodd un risg sgôr uchel, un risg sgôr ganolig/uchel, a chafodd y chwe risg eraill sgôr ganolig.


Mae cystadlu dros yr adnoddau prin o fewn y cyngor a photensial hynny i effeithio ar ein gallu i ddarparu gwasanaethau anstatudol wedi cael ei nodi fel risg ganolig/uchel mewn perthynas â'r amcan hwn. Gan fod y gwasanaethau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r amcan hwn yn bennaf yn anstatudol, dyma faes sy'n fwy agored i effaith cyfyngiadau cyllidebol. Mae'r risg hon wedi'i halinio'n agos â risg arall sydd wedi cael sgôr uchel ar y matrics sy'n ymwneud â'r effaith bosibl mae colli/lleihau grantiau allanol yn ei chael ar ein gallu i gynllunio ar gyfer y dyfodol mewn perthynas â'n cynlluniau cymunedol. Er enghraifft, mae'r cyngor wedi colli cyllid grant yn ddiweddar ar gyfer Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (ROWIP), a fydd yn cael sgil effaith ar ariannu'r gwaith o gynnal hawliau tramwy yn gymaint ag na fyddwn yn gallu ystyried gwneud gwaith gwella mawr bob blwyddyn yn y dyfodol. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i edrych am ddarparwyr cyllid allanol ac arian Adran 106 i weithredu unrhyw brosiectau gwella newydd pan neu os bydd cyllid ar gael. Rydym hefyd yn gweithio gyda gwirfoddolwyr ROWIP ac unigolion i gynnal y rhwydwaith o hawliau tramwy cyhoeddus.

Bydd cyllidebau llai yn cael effaith ar ein gallu i gynllunio'n effeithiol ar gyfer y tymor canolig a'r tymor hwy, a allai o bosibl beryglu dichonoldeb a llwyddiant posibl unrhyw gynlluniau cymunedol yn y dyfodol, yn enwedig mewn ardaloedd adfywio sydd â lefelau uchel o ddiweithdra. Gallai'r ansicrwydd a'r anallu i reoli'r newid hwn gael effaith andwyol ar y gwaith o sefydlu cyfleoedd cyflogaeth mwy cynaliadwy yn y tymor hwy, ac yn y pen draw cyfyngu ein gallu i leihau tlodi yn unol â'r amcan hwn. Mae effaith colli grantiau allanol wedi parhau i fod yn uchel trwy gydol 2017–18, ac

wrth i gynlluniau Cymunedau yn Gyntaf a Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid ddod i ben, ni fydd cynlluniau i gymryd eu lle'n cael eu llawn wireddu tan 2018–19. Bydd dwy raglen newydd yn cael eu sefydlu yn lle rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, sef Cymunedau am Waith a Mwy a'r Gronfa Waddol. Er i'r holl brosiectau Cymunedau yn Gyntaf ddod i ben ar ddiwedd mis Mawrth 2018, bydd rhai o'r prosiectau hyn yn cael eu parhau o dan ddwy o'r rhaglenni sy'n cael eu sefydlu yn eu lle, gan eu bod yn cyd-fynd yn briodol â chylch gwaith y rhaglenni newydd. Er enghraifft, mae'r prosiectau ffyniant blaenorol a ariannwyd gan gronfa Cymunedau yn Gyntaf wedi cael eu trosglwyddo i'r rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy newydd i ddarparu cymorth cyflogadwyedd ar gyfer cyfranogwyr, partneriaid a rhanddeiliaid ledled y Fro yn hytrach nag ar gyfer ardal y Barri yn unig. Er bod themâu dysgu ac iechyd y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wedi dod i ben, mae'r Gronfa Waddol newydd yn parhau i gefnogi gwaith ar bontio rhwng ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd, gan fod y ddarpariaeth hon bellach wedi cael ei throsglwyddo i dîm 'Llesiant mewn Ysgolion' newydd y Fro, prosiect sy'n cael ei ariannu gan y Gronfa Waddol, Teuluoedd yn Gyntaf a Chyngor Bro Morgannwg. Bydd rhaglen yn lle rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid a adwaenir fel Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio hefyd yn cael ei chyflawni gan y cyngor trwy gyllid gan Lywodraeth Cymru, a bydd yn dechrau yn 2018–19. Byddwn yn parhau i gynnal trafodaethau â Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd mewn perthynas â llywodraethu yn y dyfodol, y broses ymgeisio a'r dull asesu ar gyfer datblygu a chyflawni prosiectau yn y dyfodol trwy'r rhaglen sydd wedi cymryd lle Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, sef rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio 2018–19 – 2020–21. Mae cynllun rhanbarthol wedi cael ei ddatblygu ar gyfer rhanbarth de-ddwyrain Cymru sy'n cynnwys blaenoriaethau adfywio ar gyfer Bro Morgannwg. Disgwylir y bydd y cynllun rhanbarthol hwn yn cael ei gymeradwyo gan fwrdd y rhaglen Bargen Ddinesig yn ystod ail chwarter 2018–19. Pan fydd y cynllun rhanbarthol wedi cael ei gymeradwyo, byddwn mewn sefyllfa i gyflwyno ceisiadau am gyllid gan y rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio ar gyfer y prosiectau adfywio yn y Barri, fel yr amlinellir yn y cynllun. Yn ystod y cyfnod interim hwn, rydym wedi parhau i gefnogi prosiectau adfywio ychwanegol (Llif Prosiectau) ac, yn ystod 2017–18, gwnaethom lwyddo i ennill grantiau mewn perthynas â throsi'r ganolfan sgiliau blaenorol yn BSC2 ac adfywio adeiladau masnachol Holton Road fel rhan o grantiau adnewyddu, a bydd y gwaith o weithredu'r prosiect hwn yn parhau yn 2018–19. Mae hyn wedi sicrhau ein bod yn gallu parhau i gyflawni prosiectau adfywio yn y Fro yn ystod y cyfnod trosiannol hwn.

Drwy gydol 2018–19, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar roi mecanweithiau priodol ar waith i sicrhau bod trosglwyddiad esmwyth i'r rhaglenni grant newydd hyn wrth sicrhau bod canlyniadau ar gyfer ein dinasyddion yn parhau. Fodd bynnag, mae'n annhebyg y bydd y wasgfa barhaus ar gyllid a chymorth grant llywodraeth leol yn newid yn y flwyddyn ariannol nesaf, ac felly mae'r risg hon yn parhau i fod yn gymharol uchel yn y tymor byr.

Mae map gwres isod sy'n plotio'r sgoriau risg gweddilliol ar gyfer pob un o'r risgiau gwasanaeth hyn ar gyfer cyfnod 2017–18, i roi enghraifft o'r grwpiau risg ar fap gwres ar gyfer yr amcan hwn.




| Cyfeirnod Risg | Disgrifiad o'r Risg | Lle Rydym Arni | Lle Disgwylir y Byddwn Arni |
|---|---|---|---|
| **Lleihau tlodi a diwallu anghenion ein dinasyddion mwyaf agored i niwed** | | | |
| 1 | Colli/lleihau grantiau allanol yn cael effaith negyddol ar y gallu i gynllunio ymlaen llaw yn effeithiol mewn perthynas â chynlluniau cymunedol ledled y Fro, a allai gael effaith negyddol ar gyflogaeth gynaliadwy (Adfywio a Chynllunio) | ↔ | ↔ |
| 2 | Dirywiad yn yr economi yn cael effaith ar gyfleoedd cyflogaeth (Adfywio a Chynllunio) | ↔ | ↔ |
| 3 | Effaith newidiadau diwygiadau lles (Arian ac Eiddo) | ↔ | ↔ |
| 4 | Rhent dyledus ar gyfer tai mae'r cyngor yn berchen arnynt o ganlyniad i gyflwyno Credyd Cynhwysol (Gwasanaethau Tai ac Adeiladau) | ↔ | ↔ |
| 5 | Y capasiti a'r gallu i ddiwallu anghenion ein dinasyddion mwyaf agored i niwed ar adeg pan fydd adnoddau'n lleihau (Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc) | ↔ | ↔ |
| **Rheoli adnoddau'n effeithiol i gynnal darpariaeth gwasanaeth** | | | |
| 6 | Gallai cystadlu dros adnoddau prin o fewn y cyngor arwain at wasanaethau anstatudol fod mewn risg uwch o golli adnoddau (Adfywio a Chynllunio) | ↔ | ↔ |
| **Lleihau ynysu cymdeithasol a digidol** | | | |

| Cyfeirnod Risg | Disgrifiad o'r Risg | Lle Rydym Arni | Lle Disgwylir y Byddwn Arni |
|---|---|---|---|
| 7 | Nid yw cwsmeriaid yn gallu ymgysylltu â'r cyngor yn effeithiol o ganlyniad i ynysu digidol (Perfformiad a Datblygiad) | | |
| **Lleihau anghydraddoldebau iechyd a llesiant** | | | |
| 8 | Effeithiau ar iechyd tenantiaid a phreswylwyr sy'n gysylltiedig â phwysau ariannol o ganlyniad i gyflwyno Credyd Cynhwysol (Gwasanaethau Tai ac Adeiladau) | | |

## 3.9 AMCAN 2: RISGIAU I'N GWASANAETHAU NI

Mae risgiau i'n gwasanaethau ni a nodwyd trwy ein cynlluniau gwasanaeth wedi cael eu halinio â chanlyniad llesiant ac amcan cysylltiedig. Mae 13 risg wedi eu cysylltu ag Amcan 2: Cynnig tai o safon a chymunedau diogel. Gellir grwpio'r 13 risg hyn yn unol â phedair thema sy'n gysylltiedig â chyflawni'r Cynllun Corfforaethol. Mae grwpio'r risgiau yn unol â'r themâu hyn yn ein galluogi i ddeall risg yn well ac i werthuso'r effaith y gallai agweddau lluosog ar risg ei chael ar ein gallu i gyflawni agweddau allweddol y Cynllun Corfforaethol, yn ogystal ag i nodi unrhyw ryngberthynas rhwng y risgiau sydd wedi cael eu halinio â themâu. Mae'r pedair thema sy'n gysylltiedig â'r amcan hwn fel a chanlyn:

- Diwallu anghenion tai yn effeithiol a chefnogi ein dinasyddion mwyaf agored i niwed
- Darparu tai fforddiadwy o ansawdd da
- Lleihau digartrefedd
- Atal ymddygiad gwrthgymdeithasol a hyrwyddo cymunedau mwy diogel

Os nad yw'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r themâu hyn yn derbyn sylw mewn modd effeithiol, gallent gael effaith andwyol ar y gwaith o gyflawni ein Cynllun Corfforaethol. Felly, rydym wedi rhoi prosesau cadarn ar waith i sicrhau ein bod yn adolygu ac yn monitro'r risgiau hyn yn rheolaidd fel ein bod yn gallu eu rheoli mewn modd effeithiol. Gan fod natur y risgiau sy'n gysylltiedig â'r amcan hwn yn drawstoriadol, mae'n bosibl y byddant hefyd yn cael effaith ar agweddau eraill ar gyflawni'r Cynllun Corfforaethol. Er bod elfennau o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn cael eu hadlewyrchu yn yr amcan hwn, maent hefyd yn berthnasol i Amcan 8: Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed a hyrwyddo byw'n annibynnol fel rhan o Ganlyniad 4: Bro Weithgar ac Iach gan fod y Rhaglen Cefnogi Pobl ran allweddol i'w chwarae wrth gynorthwyo pobl i fod yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

At ei gilydd, mae'r map gwres isod yn dangos bod y risgiau wedi'u dosbarthu'n gyfartal ar draws rhannau canolig i ganolig/uchel y cwadrant. Ar ddiwedd y flwyddyn 2017–18, ni roddwyd sgôr uchel i unrhyw risgiau perthnasol i'r amcan hwn, rhoddwyd sgôr ganolig/uchel i bedwar ohonynt a sgor ganolig i wyth ohonynt, ac un yn unig a gafodd sgôr isel. Roedd y risgiau canolig/uchel a nodwyd yn ymwneud â’r canlynol:

- Effaith y gostyngiadau i gyllid trosiannol ar gyfer y Gwasanaeth Datrysiadau Tai gan Lywodraeth Cymru a'r pwysau ychwanegol mae hyn yn eu rhoi ar y cyflenwad o dai dros dro
- Argaeledd tai priodol o ansawdd da yn y sector preifat a'i effaith ar ein gallu i gyflawni ein dyletswydd mewn perthynas â darparu tai
- Cynnydd yn nifer yr achosion o ddigartref a derbyniadau o ganlyniad i newidiadau i ddeddfwriaeth/polisi megis Deddf Tai (Cymru) 2014 a diwygiadau lles
- Natur tymor byr y gyllideb diogelwch cymunedol a'r effaith mae hyn yn ei chael ar y gallu i ddatblygu a chynnal mentrau diogelwch cymunedol

Mewn perthynas â'r risg y bydd cyllid trosiannol ar gyfer y Gwasanaeth Datrysiadau Tai yn gostwng, yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd y cyllid trosiannol ar gyfer y Gwasanaeth Datrysiadau Tai yn parhau yn ystod 2018–19. Hyd yn hyn, mae'r grant wedi cynorthwyo ac wedi helpu i liniaru newidiadau a fu o ganlyniad i Ddeddf Tai (Cymru) 2014, trwy recriwtio staff ychwanegol ac ariannu bondiau, rhent ymlaen llaw a thaliadau atal digartrefedd. Fodd bynnag, er bod y newidiadau a gyflwynwyd o fewn y Ddeddf wedi cael effaith gadarnhaol ar atal digartrefedd, maent wedi cynyddu'r amser mae ymgeiswyr sengl yn ei dreulio mewn llety dros dro, o ganlyniad i'r diffyg cyfleoedd i symud i'r sector preifat, a gallai hyn gynyddu'r defnydd o lety gwely a brecwast. Er bod y cyllid wedi cael ei sicrhau ar gyfer 2018–19, mae natur gyfnewidiol y cyllid a'r gyllideb yn golygu y bydd y risg hon yn parhau i fod yn statws risg ganolig/uchel.

Er bod y cyngor wedi cwblhau'r gwaith o uwchraddio tai'n llwyddiannus mewn perthynas â Safon Ansawdd Tai Cymru, mae'r galw am dai priodol o ansawdd da yn y sector yn parhau i fod yn uchel. Gan fod stoc tai'r cyngor ei hun yn gyfyngedig, rydym yn dibynnu ar rentu yn y sector preifat yn fwyfwy er mwyn darparu tai ar gyfer unigolion a theuluoedd sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Er mai bach yw'r effaith mae hyn wedi ei chael ar sicrhau argaeledd tai priodol o ansawdd da i'w rhentu yn y sector preifat hyd yn hyn, gallai effeithio ar ein gallu i gyflawni ein dyletswydd mewn perthynas â digartrefedd yn y dyfodol. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, rydym wedi rhoi nifer o fesurau ar waith, a gafodd eu cychwyn trwy benodi Swyddog Tai Gwag a Benthyciadau, sy'n gweithio ochr yn ochr â gweithgor trawsadrannol i geisio cyfleoedd i leihau nifer y tai gwag trwy roi mynediad at fenthyciadau gwella tai i landlordiaid i wella eu hadeiladau fel eu bod yn gallu cael eu gosod i denantiaid posibl. Mae hyn wedi cael effaith ddilynol ar ddarparu tai o ansawdd da yn y sector preifat ac ar atal digartrefedd.


Mae'r risg o ddigartrefedd yn parhau i fod yn ganolig/uchel ar gyfer y cyngor mewn perthynas ag achosion a derbyniadau o ganlyniad i newidiadau i ddeddfwriaeth/polisi sy'n gysylltiedig â Deddf Tai (Cymru) 2014 a diwygiadau lles. Yn ystod 2017–18, cynyddodd y gyfradd o ddigartrefedd ar gyfer pob 1,000 o'r boblogaeth i 3.24 bob 1,000 o 2.28 bob 1,000 yn y flwyddyn flaenorol (2016–17). Fel y nodwyd gan y risg, mae llawer o hyn wedi cael ei yrru gan newidiadau i'r dirwedd ddeddfwriaethol. Mewn rhai achosion, nid oedd modd osgoi'r canlyniadau, gan na allai'r digartrefedd fod wedi cael ei atal gan y Tîm Datrysiadau Tai. Er hyn, mae'r Gwasanaeth Tai yn parhau i weithio'n llwyddiannus mewn modd integredig ar draws amrediad o adrannau/gwasanaethau i atal unigolion a theuluoedd rhag bod yn ddigartref. Er enghraifft, yn ystod 2017–18 cafodd 72.46% o gartrefi eu cefnogi yn llwyddiannus trwy ymyriadau y bu iddynt atal digartrefedd yn llwyddiannus. Mae'r gyfradd llwyddiant uchel wedi cael ei hategu gan y gwasanaethau cymorth ychwanegol sydd wedi cael eu cyflwyno i'r tîm, sydd bellach yn cynnwys Gwalia, Gofal a Shelter Cymru. Mae hyn wedi ein galluogi i ddefnyddio dull mwy integredig a chyfannol o lawer ynghylch sut y gellir targedu'r gwaith o atal digartrefedd yn effeithiol trwy fanteisio ar arbenigedd a chapasiti sefydliadau partner eraill. Er bod cynnydd da wedi cael ei wneud mewn perthynas ag atal digartrefedd dros y flwyddyn ddiwethaf hon, rhagwelir y bydd y risg hon yn parhau i fod yn ganolig/uchel yn y tymor canolig wrth i effeithiau newid deddfwriaethol barhau i gael effaith ar y ffordd rydym yn mynd i'r afael â digartrefedd ym Mro Morgannwg.

Bydd natur tymor byr cyllidebau diogelwch cymunedol yn parhau i fod yn risg ganolig/uchel, wrth i gyllid grant sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau diogelwch cymunedol gael eu cytuno a'u dyrannu'n flynyddol. Mae'r risg hon wedi cael ei gwaethygu ymhellach gan fod ansicrwydd o hyd yn gysylltiedig â'r gwaith o weithredu argymhellion sy'n dod o adolygiad Llywodraeth Cymru o ddiogelwch cymunedol yng Nghymru. O ganlyniad, mae cynllunio ymlaen llaw a datblygu ein Strategaeth Diogelwch Cymunedol pwrpasol wedi bod yn anodd pan nad yw'n glir beth fydd y weledigaeth genedlaethol ar gyfer y dyfodol a beth fydd natur y cyllid cysylltiedig. Er mwyn lliniaru hyn, rydym yn parhau i sicrhau ein bod yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru yn rheolaidd i achub y blaen ar unrhyw broblemau sy'n dod i'r amlwg neu ddatblygiadau polisi wrth iddynt godi. Er bod y rheolaeth sydd gennym dros ein gallu i gynllunio ymlaen llaw os bydd grantiau'n cael eu lleihau neu eu tynnu yn gyfyngedig, rydym wedi rhoi strategaethau ymadael ar waith i sicrhau bod y gwaith o

ddod â phrosiectau i ben yn cael ei reoli a'i werthuso'n effeithiol, os nad yw prosiectau'n parhau ym mlynyddoedd y dyfodol.

Er y risgiau canolig/uchel hyn, ar y cyfan mae'r risgiau sydd wedi cael eu halinio â'r amcan hwn yn cael eu rheoli'n effeithio gan set dda o fesurau rheoli cyfredol. Mae'r mesurau rheoli hyn yn sicrhau ein bod yn gallu monitro a rheoli'r lefelau risg i sicrhau eu bod yn dderbyniol. Ar gyfer y risgiau hynny sy'n fwy anodd eu rheoli, mae'r adrannau gwasanaeth sy'n gyfrifol am y risgiau hyn yn parhau i fod yn ymrwymedig i ymchwilio ymhellach i ffyrdd o reoli eu heffeithiau.

Mae map gwres isod sy'n plotio'r sgoriau risg gweddilliol ar gyfer pob un o'r risgiau gwasanaeth hyn ar gyfer cyfnod 2017–18 i roi enghraifft o'r grwpiau risg ar fap gwres ar gyfer yr amcan hwn.




| Cyfeirnod Risg | Disgrifiad o'r Risg | Lle Rydym Arni | Lle Disgwylir y Byddwn Arni |
|---|---|---|---|
| **Diwallu anghenion tai a chefnogi ein dinasyddion mwyaf agored i niwed mewn modd effeithiol** | | | |
| 1 | Mae'r gostyngiad i gyllideb y Gronfa Tai Cyngor yn effeithio ar y gwaith o atal digartrefedd a darparu gwasanaethau datrysiadau tai ac yn y pen draw ar gyflawni'r blaenoriaethau a amlinellir yn y Strategaeth Tai (Gwasanaethau Tai ac Adeiladau) | ↔ | ↑ |
| 2 | Gostyngiad i Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl (Gwasanaethau Tai ac Adeiladau) | ↔ | ↑ |
| 3 | Darparwr cymorth yn methu'n ariannol (Cefnogi Pobl) (Gwasanaethau Tai ac Adeiladau) | ↔ | ↔ |

| Cyfeirnod Risg | Disgrifiad o'r Risg | Lle Rydym Arni | Lle Disgwylir y Byddwn Arni |
|---|---|---|---|
| 4 | Mae polisïau rhent cenedlaethol yn cael effaith andwyol ar gyllideb sylfaenol y Cyfrif Refeniw Tai (Gwasanaethau Tai ac Adeiladau) |  |  |
| 5 | Dichonoldeb cynlluniau tai â chymorth ar gyfer pobl o dan 35 a phobl hŷn, a llety aml-breswylydd â mannau cymunedol (Gwasanaethau Tai ac Adeiladau) |  |  |
| **Darparu tai fforddiadwy o ansawdd da** | | | |
| 6 | Mae'r gostyniad yn y cyllid ar gyfer y Gwasanaeth Datrysiadau Tai gan Lywodraeth Cymru yn rhoi pwysau ychwanegol ar y cyflenwad o dai dros dro (Gwasanaethau Tai ac Adeiladau) |  |  |
| 7 | Gostyngiad yn y Grant Tai Cymdeithasol (Gwasanaethau Tai ac Adeiladau) |  |  |
| 8 | Argaeledd tai priodol o ansawdd da yn y sector preifat a'i effaith ar ein gallu i gyflawni ein dyletswydd mewn perthynas â digartrefedd (Gwasanaethau Tai ac Adeiladau) |  |  |
| 9 | Anallu i fodloni Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2020 fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (Gwasanaethau Tai ac Adeiladau) |  |  |
| **Lleihau digartrefedd** | | | |
| 10 | Cynydd yn nifer yr achosion o ddigartrefedd a derbyniadau o ganlyniad i newidiadau i ddeddfwriaeth/polisi, h.y. Deddf Tai (Cymru) 2014 a diwygiadau lles (Gwasanaethau Tai ac Adeiladau) |  |  |
| 11 | Cynnydd yn y cyfraddau troi allan ar draws y sector tai cymdeithasol yn arwain at gynnydd yn nifer yr achosion o ddigartrefedd o ganlyniad i Gredyd Cynhwysol (Gwasanaethau Tai ac Adeiladau) |  |  |
| **Atal ymddygiad gwrthgymdeithasol a hyrwyddo cymunedau mwy diogel** | | | |
| 12 | Natur tymor byr cyllidebau diogelwch cymunedol a'r effaith mae hyn yn ei chael ar y gallu i ddatblygu a chynnal mentrau diogelwch cymunedol (Gwasanaethau Tai ac Adeiladau) |  |  |
| 13 | Cynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsedd ieuenctid ac aflonyddu oherwydd diffyg cyfleoedd cyffredinol ar gyfer ymgysylltu (Cyflawniad i Bawb) |  |  |

**Ein statws COG (coch/oren/gwyrdd) cyffredinol ar gyfer 'Bro sy'n Gyfrifol yn Amgylcheddol ac yn Ffynnu' yw OREN**

## 4.0 DATGANIAD SEFYLLFA

Er gwaethaf heriau digynsail a'r gostyngiadau parhaus i'r cyllid mae cynghorau'n eu derbyn flwyddyn ar ôl blwyddyn, rydym yn parhau i weithio tuag at sicrhau bod gan Fro Morgannwg economi gref a chynaliadwy, a bod yr amgylchedd lleol yn cael ei ddiogelu ar gyfer cenedlaethau heddiw ac yn y dyfodol.

Yn ystod 2017–18, blwyddyn dau o'n Cynllun Corfforaethol pedair blynedd, gwnaethom gynnydd da wrth gyflawni blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol mewn perthynas â Chanlyniad Llesiant 2, 'Bro sy'n Gyfrifol yn Amgylcheddol ac yn Ffynnu', a'r amcanion sydd wedi'u halinio ag ef: 'Hybu adfywio, twf economaidd a chyflogaeth' a 'Hybu datblygu cynaliadwy ac amddiffyn ein hamgylchedd'. Mae'r gweithgarwch mae'r cyngor wedi ymgymryd ag ef i ategu'r gwaith o gyflawni'r canlyniad hwn wedi cyfrannu at statws oren cyffredinol ar gyfer y canlyniad ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae'r 'Ciplun o Berfformiad y Canlyniad' yn dangos i'r rhan fwyaf (85%) o'r 61 o gamau gweithredu'r Cynllun Corfforaethol a oedd wedi'u halinio â'r canlyniad hwn gael eu cwblhau yn ystod 2017–18 lle roedd statws COG yn berthnasol, ac felly rydym ar y trywydd iawn i gyflawni ein perfformiad cyffredinol erbyn 2020. Rhoddwyd categori oren i'r perfformiad cyffredinol ar gyfer y camau gweithredu corfforaethol sydd wedi'u halinio â'r canlyniad hwn, sy'n cydnabod bod rhagor o waith i'w wneud, er bod cynnydd da wedi'i wneud yn ystod 2017–18, i sicrhau ein bod yn cyflawni holl nodau ein Cynllun Corfforaethol. O ran yr amcanion penodol, cafodd 85% o'r camau gweithredu a briodolwyd i Amcan 3 ac 85% o'r camau gweithredu a briodolwyd i Amcan 4 eu cwblhau'n llawn yn ystod y flwyddyn, gan ddangos dosbarthiad eithaf cyfartal ar draws y canlyniad yn ei gyfanrwydd.

Rhoddwyd statws coch i bump o 61 o gamau gweithredu ar ddiwedd y flwyddyn lle roedd statws COG yn berthnasol. Roedd y prif feysydd o laesu dwylo'n ymwneud â'r canlynol: yr oedi wrth fabwysiadu fframwaith Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan; gweithredu strategaeth i gynyddu nifer y cyflogeion 16–24 mlwydd oed ar draws y gweithlu ehangach; a datblygu amryw ganllawiau cynllunio atodol. Bu inni hefyd brofi rhywfaint o oedi wrth gwblhau'r gwaith i wella mannau agored yng Ngogledd Penarth ac wrth gwblhau gwelliannau i'r mynediad ar Bont Murch (Dinas Powys).

Mae camau gweithredu eraill a fydd yn cael eu symud ymlaen i 2018–19 yn cynnwys adolygiad o gyfleusterau cyhoeddus, gweithredu arbedion ar gerbydau, gweithio tuag at ein nod o gyflawni ein hymrwymiadau o dan Gynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon, adolygu trefniadau parcio sifil, datblygu amryw astudiaethau dichonoldeb, ac adolygu'r polisi ar gyfer adnewyddu trwyddedau tacsi. Rydym hefyd yn gweithio'n galed i fynd â'r gwaith o ddatblygu gorsaf trosglwyddo gwastraff yn ei flaen, sydd wedi cael ei gytuno mewn egwyddor ac mae'n debygol y bydd yn parhau fel prosiect am y ddwy flynedd nesaf.

O ran y dangosyddion perfformiad, rhoddwyd statws gwyrdd i 25 o 31 (80%) o fesurau, ac felly roeddem naill ai'n bodloni'r targed ar ddiwedd y flwyddyn neu'n rhagori arno. Rhoddwyd naill ai statws oren (7%) neu statws coch (13%) i'r 20% a oedd ar ôl, gan roi statws oren ar gyfer y canlyniad yn gyffredinol. Nid oedd yn bosibl rhoi statws COG ar gyfer deg dangosydd, naill ai oherwydd eu bod yn newydd a bod perfformiad gwaelodlin wrthi'n cael ei sefydlu ar gyfer y flwyddyn, neu gan na fu'n bosibl gosod targed ar gyfer y flwyddyn.

Trwy gydol 2017–18, roedd yn bosibl inni ddathlu nifer o lwyddiannau allweddol mewn perthynas â dod yn Fro sy'n Gyfrifol yn Amgylcheddol ac yn Ffynnu – er enghraifft, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o dan Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, sy'n ceisio cynyddu twf economaidd ar draws y rhanbarth. Dyma rai llwyddiannau sy'n haeddu sylw penodol: cytuno ar fuddsoddiadau gwerth £379 miliwn i gefnogi'r gwaith o ddatblygu clwstwr lled-ddargludyddion yn ne-ddwyrain Cymru; sicrhau cefnogaeth mewn egwyddor ar gyfer ailddatblygiad gwerth £180 miliwn o brif ganolfan drafnidiaeth Caerdydd, gyda £40 miliwn o gyllid y Fargen Ddinesig; creu tair rhaglen ddatblygu sy'n cefnogi themâu strategol, sef tai, sgiliau a chysylltedd digidol, o fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd; a chreu byrddau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ategol ar gyfer Partneriaeth Twf Economaidd, Cyngor Busnes, Partneriaeth Sgiliau a'r Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol. Nod cyffredinol y Fargen Ddinesig yw gwella cynhyrchiant, mynd i'r afael â diweithdra, buddsoddi mewn seilwaith ffisegol a digidol, darparu cymorth ar gyfer busnesau, a sicrhau bod unrhyw fanteision economaidd yn cael eu rhannu ar draws y rhanbarth.

Un peth sy'n enwedig o berthnasol i'r Fro o dan y Fargen Ddinesig y soniwyd amdani uchod yw'r angen i hyrwyddo'r maes awyr a Sain Tathan fel canolfannau ar gyfer twf economaidd a chreu swyddi, gan wella mynediad strategol i'r Fro a'r gwaith cymorthdaledig o adfywio'r Barri. Cafodd Parc Busnes Awyrofod Sain Tathan ei ddewis fel safle gweithgynhyrchu gan Aston Martin ar gyfer cynhyrchu ceir moethus, sy'n alinio'n berffaith ag Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan. Mae'r buddsoddiad eisoes wedi arwain at swyddi ar gyfer 100 o staff, y mae hanner ohonynt o dan hyfforddiant, a rhagwelir y bydd y llinell cynhyrchu ceir yn llawn weithredol erbyn 2019, pan fydd o leiaf 750 o swyddi wedi cael eu creu. Ni fyddai'n bosibl rhagori ar y cyflawniad hwn fel arwydd o'r hyder a roddir ym Mro Morgannwg fel lle i sefydlu busnes. Mae hefyd yn cyfiawnhau'r gwaith mae'r cyngor wedi'i gynnal gyda Llywodraeth Cymru i wella'r seilwaith priffyrdd sy'n gwasanaethu Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan. Yn ogystal â'r buddsoddi yn yr uwch-sied awyrennau, bydd Sain Tathan hefyd yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer y diwydiant. Mae hyn yn golygu nad buddsoddi mewn gweithgynhyrchu yn unig yw hwn, ond buddsoddi yn y gweithlu lleol hefyd ac yn y gwaith i adfywio Bro Morgannwg yn ei chyfanrwydd. Byddwn yn parhau i sicrhau bod buddiannau Bro Morgannwg yn cael eu hyrwyddo fel rhan o'r gwaith parhaus ar Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Yn unol â'n hymrwymiad i hyrwyddo datblygu cynaliadwy, cafodd y Cynllun Datblygu Lleol ei fabwysiadu'n swyddogol ym mis Mehefin 2017. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys y cynllun datblygu ar gyfer yr awdurdod ac yn darparu'r fframwaith polisi strategol a manwl ar gyfer Bro Morgannwg. Mae'r cynllun yn darparu sicrwydd ar gyfer buddsoddwyr, ac o ganlyniad yn gwneud buddsoddi yn ar ardal yn fwy tebygol, tra amcangyfrifir y bydd y gwaith i ddatblygu'r tir a ddyrannwyd at ddibenion cyflogaeth yn creu rhwng 7,610 a 10,610 o swyddi posibl yn ystod cyfnod y cynllun. Trwy gydol y flwyddyn, mae'r cyngor wedi cymeradwyo sawl cais cynllunio mawr ac wedi darparu amryw Ganllawiau Cynllunio Atodol o dan y fframwaith. Fodd bynnag, cydnabyddir nad yw Canllawiau Cynllunio Atodol megis y rhai ar gyfer Safonau Parcio a'r rhai ar gyfer Ynni Adnewyddadwy wedi cael eu terfynu hyd yn hyn, ac mae'r rhain yn derbyn sylw yn ystod 2018.

Yn ystod 2017–18, gwnaethom weithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflawni cyfres o brosiectau pan oeddem yn aros am raglen i gymryd lle rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yn 2018–19. Bu i ddau brosiect yn y Barri lwyddo i ennill grantiau: grant i drosi'r ganolfan sgiliau flaenorol yn Ganolfan Gwasanaethau Busnes (BSC 2), gan ddarparu unedau ar gyfer mentrau busnes bach a chanolig, a

grant i adnewyddu adeiladau masnachol Holton Road. Cafodd y ddau grant eu tynnu i lawr (yn llawn) yn unol â dyddiadau cau Llywodraeth Cymru, a fydd yn ein galluogi i gynnal rhagor o brosiectau adnewyddu o fewn y rhanbarth yn ystod 2018–19. Rydym hefyd wedi parhau i gyflawni'r Fframwaith Canol Trefi yn llwyddiannus a gweithredu amryw brosiectau adfywio ledled Bro Morgannwg. Mewn perthynas â'r mentrau hyn, rydym wedi bod yn rhagweithiol wrth gynnwys trigolion yn y gwaith o ddatblygu a chyflawni gwelliannau i'r gymuned.

Er mwyn bodloni'r gofynion deddfwriaethol a darparu adnodd gwybodaeth cynhwysfawr ar gyfer trigolion ac ymwelwyr er mwyn iddynt deithio o gwmpas y Fro mewn modd effeithlon a diogel, gwnaethom ymgynghori â'r cyhoedd ar gyfres o Fapiau Rhwydwaith Integredig a Mapiau Llwybrau Cyfredol yn ystod 2017. Mae'r broses hon hefyd wedi ategu ein hymdrechion i wella'r seilwaith cerdded a beicio yn flynyddol yn unol â Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Mae'r Mapiau Rhwydwaith Integredig yn amlinellu ein dyheadau ar gyfer gwella llwybrau teithio llesol ledled y sir dros y 15 mlynedd nesaf, ac mae'r rhain a'r Mapiau Llwybrau Cyfredol bellach wedi cael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Yn ystod 2017-18, gwariwyd £457,018 ar gynlluniau a oedd yn defnyddio cyfraniadau Adran 106 i ategu gwelliannau i deithio llesol a/neu drafnidiaeth gynaliadwy. Mae enghreifftiau o'r gwelliannau a wnaed yn cynnwys: y cynllun llwybr troed / llwybr beiciau ym Mharc Cosmeston i gysylltu Dinas Powys â Phenarth; gwelliannau i reoli traffig yn y Stryd Fawr / Broad Street yn y Barri a llwybr troed; gweithredu Cyfnod 5 o gynllun llwybr beiciau ym Maes Parcio Ffordd yr Harbwr, gan wella symudiadau cerddwyr ar hyd Hen Ffordd yr Harbwr, Gwenfô, a Ffordd Treharne, y Barri, yn ogystal â gwella symudiadau cerddwyr, trafnidiaeth gyhoeddus, beicwyr a cherbydau i Ynys y Barri; y llwybr beiciau / llwybr troed ar Ffordd y Mileniwm y Barri; hawliau tramwy cyhoeddus gwell ar Redwood Close; gwelliannau i lwybrau troed yn y Bont-faen; a darparu standiau beiciau ar gyfer Ysgol Gynradd Llandochau. Yn ystod y flwyddyn, llwyddwyd i sicrhau £1.5 miliwn arall o gyllid ar gyfer trafnidiaeth gynaliadwy o dan Adran 106, a fydd yn cael ei ddefnyddio'n bennaf i weithredu cynlluniau teithio llesol.

Mae twristiaeth yn hanfodol i'r cyngor ac rydym wedi ymrwymo i gefnogi a datblygu ein heconomi ymwelwyr. Mae Bro Morgannwg yn parhau i ffynnu fel cyrchfan llwyddiannus i ymwelwyr flwyddyn ar ôl flwyddyn, fel y gwelwyd yn yr arolwg STEAM diweddaraf (2017), a oedd yn dangos bod niferoedd o ymwelwyr i'r Fro wedi cynyddu o 3.97 miliwn yn 2016 i 4.16 miliwn yn 2017. Mae hyn yn gynnydd o 4.8% ers y flwyddyn flaenorol, sy'n golygu bod cyfanswm yr effaith economaidd mae twristiaeth yn ei chael ar y Fro wedi cynyddu o 4.2% i £236.81 miliwn yn ystod 2017. Mae'r perfformiad calonogol hwn yn ein galluogi i wireddu ein nodau corfforaethol yn ogystal â'r weledigaeth sy'n cael ei hamlinellu yn ein Cynllun Rheoli Cyrchfannau.

Mae twristiaeth yn cyfrannu £221.6 miliwn at yr economi leol ac mae twf uwch mewn twristiaeth yn cefnogi twf economaidd uwch a chyfleoedd cyflogaeth gwell. Mae ein Cynllun Rheoli Cyrchfannau (a gafodd ei gymeradwyo gan y Cabinet ym mis Ebrill 2018) yn cydnabod bod estyn y tymor twristiaeth y tu hwnt i wyliau traddodiadol yr haf yn flaenoriaeth allweddol, ac y bydd yn hyrwyddo amgylchedd economaidd mwy sefydlog a chynaliadwy. I'r perwyl hwn, mae Bro Morgannwg yn cynnig digwyddiadau cyffrous ac amrywiol trwy gydol y flwyddyn, o'r 'Isle of Fire' arobryn i sinemâu awyr agored, gwyliau bwyd stryd a gwyliau cerddoriaeth fyw, arddangosfeydd trafnidiaeth a thriathlonau, ac rydym yn parhau i dderbyn adborth cadarnhaol gan drigolion ac ymwelwyr. Er enghraifft, yn ôl Arolwg Bodlonrwydd Cwsmeriaid Ynys y Barri ar gyfer haf 2017, byddai 96% o ymwelwyr ag Ynys y Barri ddychwelyd i'r cyrchfan, a byddai 91% yn argymell Ynys y Barri fel cyrchfan i'w ffrindiau a'u teulu.

Yn ystod 2017–18, gwnaethom gaffael wyth cerbyd gwastraff 16 tunnell a phedwar cerbyd 26 tunnell o'r Gronfa Disodli Gweladwy yn unol â safonau amgylcheddol cyfredol yr UE; mae'r offer

gweithredu cywir wedi cael eu gosod ar yr holl gerbydau i fodloni anghenion yr adran. Bydd y cerbydau'n helpu i gyflawni gwasanaethau gwastraff yn fwy effeithlon ac yn cynorthwyo gyda'n nodau cynaliadwyedd, yn ogystal â'n caniatáu i gyflawni ein targedau ar gyfer arbed arian yn y blynyddoedd nesaf. Mae nifer y cerbydau y mae'r cyngor yn eu prydlesu ac yn berchen arnynt yn parhau i gael ei leihau, ac mae ceisiadau am gerbydau a pheiriannau'n cael eu hadolygu ar adeg y prynu yn unol ag anghenion yr adran. Yn ogystal, bydd amserlen disodli cerbydau gynhwysfawr yn cael ei datblygu yn ystod blwyddyn ariannol 2018–19 yn unol â'r Cynllun Prynu Cerbydau pum mlynedd. Rydym hefyd wedi gweld allbynnau cadarnhaol mewn perthynas â'r systemau tracio sy'n cael eu gosod ar bob cerbyd y cyngor. Roedd y ddyfais hon yn amhrisiadwy yn ddiweddar pan oedd y system yn caniatáu i'r holl gerbydau 4×4 gael eu lleoli a'u rhannu er mwyn eu defnyddio yn rhan o weithdrefn gynllunio frys yn ystod achos o eira. Dangosodd adroddiad ar y defnydd o'r cerbydau hyn yn ystod tywydd garw pa mor effeithiol roedd y cerbydau hyn yn cael eu defnyddio heb yr angen i logi cerbydau o ffynonellau allanol.

Rydym wedi cymryd camau breision tuag at ddatblygu Strategaeth Lleihau Gwastraff ac ailfodelu ein seilwaith rheoli gwastraff yn ystod 2017–18, gan ein galluogi i gyflawni ein nod i gynyddu ein cyfraniad at ailgylchu ymhellach, lleihau twf gwastraff trefol, a bodloni safonau statudol cenedlaethol. Ar 19 Chwefror 2018, gwnaeth y Cabinet gymeradwyo gweithredu gwasanaeth ailgylchu lle y didolir gwastraff cyn ei gasglu, yn ddarostyngedig i gyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru a chasglu safbwyntiau trigolion ar y 'glasbrint casgliadau' – hynny yw, y mathau o gynwysyddion a fyddai'n well gan gartrefi i'w galluogi i gymryd rhan yn effeithiol. Cafodd gwaith i ddatblygu Strategaeth Gwastraff Trefol saith mlynedd newydd i adlewyrchu newidiadau i'r ffordd mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu, ac i gyflawni targedau ailgylchu statudol hyd at 2024–25, ei gymeradwy yn ystod y flwyddyn hefyd. Ar 2 Gorffennaf 2018, cafodd y Cabinet ei hysbysu am ganlyniadau'r ymarfer ymgynghori cyhoeddus a'r cais am gyllid cyfalaf a gafodd ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru fel rhan o'r rhaglen newid gydweithredol, ac ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roeddem yn aros am benderfyniad mewn perthynas â chyllid fel ein bod yn gallu gwneud rhagor o gynnydd ar y gwaith hwn yn ystod 2018–19. Mae mentrau cyfredol megis y Prosiect Gwyrdd, cyfleuster trin gwastraff gweddilliol sy'n gwasanaethu partneriaeth sy'n cynnwys pum awdurdod lleol, yn parhau i wneud arbedion, wrth ein galluogi i fodloni ein targed ar gyfer dargyfeirio ac ailgylchu gwastraff. Mae'r prosiect yn arbed tua £1 miliwn y flwyddyn. Mae'r prosiect wedi cynorthwyo’r cyngor i gyflawni cyfradd ailgylchu o 63%, sy'n rhagori ar y targed statudol o 58%. Yn ogystal, trwy ein partneriaeth gyda Chyngor Dinas Caerdydd, rydym yn cyflawni gwelliannau i driniaethau wastraff organig i sicrhau gwasanaeth rheoli gwastraff cynaliadwy mewn ymateb i'r heriau sy'n wynebu Cymru mewn perthynas â'r amgylchedd a lleihau carbon. Bydd y trefniant hwn yn cyfrannu ymhellach at wella ein perfformiad wrth ailgylchu a chompostio.

Yn unol â'n hymrwymiad o dan y canlyniad hwn, rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid i greu amgylchedd glanach a gwyrddach er mwyn gwella llesiant dinasyddion y Fro a'r rhai sy'n ymweld â hi. Mae glendid strydoedd yn parhau i fod yn uchel ar 71%, fel y mae safonau glendid priffyrdd (99.5%), sef y safle cyntaf yng Nghymru yn ystod 2017–18. Mae'r holl achosion a adroddwyd o dipio anghyfreithlon yn cael eu clirio o fewn pum diwrnod gwaith, sydd hefyd yn ein rhoi yn y safle cyntaf yng Nghymru. Yn ystod y flwyddyn, bu i chwech o'n traethau ennill gwobrau, a oedd yn gwarantu amgylchedd glân, deniadol ac wedi'i reoli'n dda ar gyfer ymwelwyr. Rydym hefyd yn gweithio'n agosach gyda'n cymunedau i wneud gwelliannau amgylcheddol i barciau, ardaloedd chwarae, rhandiroedd a safleoedd hamdden awyr agored. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae saith o'n parciau wedi cadw'r Faner Werdd ddymunol gan brif elusen amgylcheddol Cymru, Cadwch Gymru’n Daclus, gan ragori ar ein targed o chwech. Mae statws y Faner Werdd yn arwydd o ragoriaeth sy'n cydnabod y parciau a'r mannau gwyrdd gorau yn y wlad. Mae'r Fro hefyd wedi derbyn wyth Gwobr Gymunedol y Faner Werdd yn ystod y flwyddyn, pump mwy na'r flwyddyn flaenorol, gan gydnabod ansawdd uchel y mannau gwyrdd yn y Fro sy'n cael eu rheoli gan grwpiau gwirfoddol, sy'n parhau i ddarparu lle diogel i drigolion o bob oedran ddod at ei gilydd i gymdeithasu a dysgu. Trwy ein gwaith monitro a gorfodi rhagweithiol yn ystod y flwyddyn, mae lefelau ansawdd aer yn gwella, gyda'r lefelau o

lygredd nitrogen deuocsid sy'n cael eu cofnodi wedi lleihau i 5.0 µg $m^{-3}$, o gymharu â 5.2 µg $m^{-3}$ yn y flwyddyn flaenorol.

Er y cyllid cyfyngedig, rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i wella ein priffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus, ac rydym wedi llwyddo i wneud gwelliannau, er enghraifft, i droedffyrdd, llwybrau beiciau, llwybrau troed a goleuadau, i wella symudedd diogel cerddwyr a defnyddwyr ffyrdd. Mae ein menter lwyddiannus iawn Trwsio Twll wedi cael ei chwblhau ac mae wedi ymweld â'r holl wardiau yn y Fro i fynd i'r afael â diffygion ar y ffyrdd yr adroddwyd amdanynt gan y gwahanol gymunedau.
Mae'r gwaith hwn wedi cyfrannu at leihau'r hawliadau yswiriant a wnaed yn erbyn y cyngor gan gerddwyr a defnyddwyr ffyrdd mewn perthynas â digwyddiadau ar y priffyrdd. Yn 2016–17, cafodd 64 hawliad eu setlo mewn perthynas â difrod i gerbydau a hawliadau anaf personol o ganlyniad i dyllau yn y ffordd. Yn 2017–18, mae'r ffigur hwn wedi gostwng i 20 hawliad gyda chyfanswm o £33,653 o setliadau. Mae hyn yn welliant sylweddol ac un y gellir ei briodoli i'r cynnydd yn nifer yr Arolygwyr Priffyrdd (o un i bedwar) sy'n arolygu priffyrdd y Fro yn rhagweithiol ac yn nodi tyllau i'w llenwi.

Rydym yn parhau i gyflawni ein hymrwymiadau o dan Gynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon a derbyniwyd ardystiad yn gynnar yn 2018–19. Rydym wedi parhau i fuddsoddi mewn goleuadau stryd ac ar hyn o bryd rydym yn gweithio tuag at raglen trosglwyddo i LED, a fydd yn gweld yr holl oleuadau mewn ardaloedd preswyl yn cael eu trosglwyddo i LED. Er gwaethaf oedi bach wrth sicrhau contractwyr i gwblhau gweddill y gwaith, hyd yn hyn mae tua 34% o oleuadau stryd y cyngor wedi cael eu trosglwyddo, a disgwylir y bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau erbyn haf 2018, gan ein helpu i gyflawni ein hymrwymiadau i leihau carbon a lleihau ein biliau ynni ymhellach.

Mae'r cyngor wedi wynebu nifer o heriau yn ystod 2017–18. Er enghraifft, mae ein hymdrechion i gwblhau'r astudiaeth ddichonoldeb sy'n ceisio trefnu i fysiau fynd dros Forglawdd Bae Caerdydd, gan gynnwys ystyried cyfleuster parcio a theithio ym Mharc Cosmeston ymhellach, wedi cael eu hoedi. Cafodd y gwaith arfaethedig ar ddichonoldeb ei oedi i adlewyrchu ceisiadau gan Gyngor Cymuned Dinas Powys i ehangu cwmpas yr astudiaeth i gynnwys ystyried llwybrau amgen ar gyfer rhan ddeheuol ffordd osgoi arfaethedig. Cafodd adroddiad ei baratoi a'i gyflwyno i'r Cabinet ar ddiwedd y flwyddyn i geisio cymeradwyaeth i ehangu cwmpas gwaith sy'n cael ei wneud yn Ninas Powys ar hyn o bryd mewn perthynas ag Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG). Ers hynny, mae cynnig wedi cael ei wneud i Lywodraeth Cymru i gwblhau'r gwaith o ddylunio cynllun beiciau Biglis i Ddinas Powys trwy'r rhaglen Teithio Llesol, a bydd y gwaith hwn yn parhau yn ystod 2018–19, mewn cydweithrediad â Chyngor Dinas Caerdydd.

Yn ystod 2017–18, roedd Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth yn wynebu heriau sylweddol wrth weithredu'r newidiadau a oedd yn gysylltiedig â thrawsnewid busnes y gwasanaeth er mwyn gwneud cyfanswm o £525k o arbedion. Roedd yr arbedion yn gysylltiedig â symud y busnes i fodel Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth. Daeth yr ymgynghoriad ar symud i'r model hwn i ben ar 31 Gorffennaf 2017, a chafodd y model terfynol ei gymeradwyo a'i weithredu o 23 Tachwedd 2017. Cafodd y rheolwyr gweithredol eu penodi i'w swyddi newydd ar 1 Ionawr 2018 a daeth y gwasanaeth newydd yn weithredol o 1 Ebrill 2018. Fodd bynnag, roedd cymhlethdod y prosiect a'r amser a gymerwyd i weithredu'r model gwasanaeth newydd yn golygu na chafodd yr holl arbedion eu gwneud fel y disgwylid yn ystod y flwyddyn. Disgwylir y bydd yr arbedion hyn bellach yn cael eu gwneud yn ystod 2018–19.

Fel awdurdod, rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i gyflawni ein harbedion a chydbwyso ein cyllideb, er gwaethaf yr anawsterau a'r ansicrwydd roeddem yn eu hwynebu yn dilyn y bleidlais i adael yr Undeb Ewropeaidd (yr UE), ac rydym wedi ymateb yn gadarnhaol i'r galw ar wasanaethau a'r pwysau cost trwy gymryd camau i ailstrwythuro ein gwasanaethau, manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i greu incwm, a gweithio mewn modd mwy cydweithiol yn lleol, yn rhanbarthol ac yn

genedlaethol. Fodd bynnag, er ein bod yn rhoi cynlluniau realistig ar waith i sicrhau ein bod mewn sefyllfa i gyflawni ein blaenoriaethau ac arbedion, mae'n glir y bydd yn rhaid inni liniaru yn erbyn yr ansicrwydd parhaus mewn perthynas â threfniadau cyllido allanol (wedi'u gwaethygu gan Brydain yn gadael yr UE) a pharhau i sicrhau cyllid llif prosiectau i ddatblygu a chyflawni prosiectau adfywio allweddol sy'n adlewyrchu anghenion a chyfleoedd lleol.

Mae gwaith i gwblhau'r Cynllun Cynnal Priffyrdd tair blynedd o fewn y gyllideb a ddyrannwyd a'r blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol hon wedi cael ei gwblhau i raddau helaeth. Fodd bynnag, mae her allweddol yn parhau i fod ar gyfer y cyngor yn y dyfodol mewn perthynas â chynnal a gwella cyflwr ein rhwydwaith priffyrdd. Mae rhwydwaith ffyrdd y Fro yn ased sy'n parhau i ddirywio ac sydd angen buddsoddiadau parhaus a sylweddol o fwy na £2 miliwn y flwyddyn er mwyn cynnal cyflwr cyson. Ers i Fenter Benthyca Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru ddod i ben yn 2015, mae buddsoddiadau cyfalaf yn asedau priffyrdd y Fro wedi gostwng i ryw 50% o'r hyn sydd angen i gynnal cyflwr cyson. O ganlyniad, mae cyflwr cyffredinol y rhwydwaith priffyrdd at ei gilydd wedi dirywio nes ei fod islaw'r cyflwr gwell a chyson a gyflawnwyd yn ystod blynyddoedd buddsoddiadau cyfalaf trwy'r Fenter Benthyca Llywodraeth Leol. Mae'r sefyllfa hon wedi cael ei gwaethygu ymhellach gan y cynnydd cyffredinol yn nifer y cerbydau mae pob categori o ffordd yn eu profi. Trwy system dair blynedd y cyngor ar gyfer blaenoriaethu rhoi arwyneb newydd ar ffyrdd cerbydau, sy'n cael ei hadolygu bob blwyddyn ar y cyd â'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd, rydym yn gweithio i gynyddu ein gallu i gynnal y rhwydwaith priffyrdd lleol cymaint ag y bo modd, gan sicrhau bod y ffyrdd sydd angen y gwaith mwyaf brys yn cael eu blaenoriaethu ac yn derbyn sylw. Yn ogystal, rydym yn parhau i ystyried triniaethau arwyneb arloesol i wella ac i amddiffyn yr asedau priffyrdd, yn ogystal ag estyn oes y gwaith cyfalaf sydd wedi cael ei fuddsoddi yn y rhwydwaith ffyrdd yn flaenorol.

Er gwaethaf ein gwelliannau parhaus i ganol trefi fel rhan o'r fframwaith rydym wedi'i fabwysiadu, mae cynnal eu bywiogrwydd yn wyneb sefyllfa genedlaethol anodd ar gyfer canolfannau adwerthu a busnesau'n parhau i fod yn her. Bu i'r gyfradd gyfartalog o unedau gwag yng nghanol y prif drefi yn y Fro ostwng i 8.8%, o gymharu â 8.3% yn y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, o gymharu â’r gyfradd gyfartalog o unedau gwag mewn canol trefi ar gyfer y DU o 14%, cyfartaledd Cymru o 12.5% ac enghreifftiau eraill, megis Canol Dinas Caerdydd (16%) a Chasnewydd (29%), mae ein perfformiad yn parhau i fod yn gadarnhaol. Mae perfformiad mewn perthynas â chyfraddau o unedau gwag yn parhau i godi a gostwng trwy gydol y flwyddyn, a gallai gael ei effeithio hyd yn oed gan nifer fach o unedau gwag newydd yn y tymor byr, yn ogystal â pherfformiad economaidd cenedlaethol, ac rydym yn parhau i fonitro'r sefyllfa hon yn barhaus.

Rydym bellach yn nhrydedd flwyddyn ein Cynllun Corfforaethol (2018–19) ac rydym yn parhau i ymateb yn rhagweithiol i'n heriau uniongyrchol wrth edrych tua'r dyfodol ar yr un pryd. Rydym yn cydnabod bod yr heriau hyn yn sylweddol, ond rydym wedi gwneud cynnydd rhagorol dros y blynyddoedd diwethaf, ac yn parhau i ganolbwyntio ar ein nodau a'n canlyniadau arfaethedig ar gyfer dinasyddion, gyda chamau gweithredu diffiniedig ar gyfer y ffordd rydym yn cyflawni'r rhain. Rydym yn credu y bydd gweithio'n agos gyda'r cyhoedd, ein partneriaid a rhanddeiliaid allweddol yn ein rhoi yn y sefyllfa orau i drechu'r heriau mae ein gwasanaethau'n eu hwynebu, ac i wneud cyfraniad llwyddiannus at y gwaith o gyflawni Bro sy’n Gyfrifol yn Amgylcheddol ac yn Ffynnu.

# EIN CYNNYDD YN FANWL

## 4.1 CIPLUN O BERFFORMIAD Y CANLYNIAD

**CAMAU GWEITHREDU**
Mae ein perfformiad ar y trywydd iawn yn erbyn camau gweithredu'r Cynllun Corfforaethol, gan roi statws COG cyffredinol o **OREN** inni ar gyfer y canlyniad hwn.

**Camau Gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth Amcan 3: Hybu adfywio, twf economaidd a chyflogaeth**

| | | | Dd/B | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 17 (G) | 0 (O) | 3 (C) | 2 | 22 |

**Amcan 4: Hybu datblygu cynaliadwy ac amddiffyn ein hamgylchedd**

| | | | Dd/B | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 35 (G) | 0 (O) | 6 (C) | 3 | 44 |

**Cyfanswm ar gyfer y canlyniad**

| | | | Dd/B | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 52 (G) | 0 (O) | 9 (C) | 5 | 66 |

**MESURAU PERFFORMIAD**
Mae ein perfformiad ar y trywydd iawn yn erbyn y mesurau perfformiad, gan roi statws COG cyffredinol o **OREN** inni ar gyfer y canlyniad hwn.

**Mesurau Perfformiad Amcan 3: Hybu adfywio, twf economaidd a chyflogaeth**

| | | | [7] Dd/B | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 4 (G) | 0 (O) | 1 (C) | 6 | 11 |

**Amcan 4: Hybu datblygu cynaliadwy ac amddiffyn ein hamgylchedd**

| | | | Dd/B | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 21 (G) | 2 (O) | 3 (C) | 4 | 30 |

**Cyfanswm ar gyfer y canlyniad**

| | | | Dd/B | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 25 (G) | 2 (O) | 4 (C) | 10 | 41 |

Gellir gweld gwybodaeth fanwl am yr holl eithriadau perfformiad mewn perthynas â Chanlyniad Llesiant 2 yn **Atodiad A**.

## 4.2 AMCAN 3: HYBU ADFYWIO, TWF ECONOMAIDD A CHYFLOGAETH

Yn ystod 2017–18, buom yn canolbwyntio ar y camau gweithredu canlynol i fynd i'r afael ag Amcan Llesiant 3:

[7] Mae Dd/B yn golygu ddim yn berthnasol. Mae hyn yn cael ei ddefnyddio lle nad oes targed wedi cael ei osod naill ai oherwydd ei fod yn fesur newydd (rydym wrthi'n sefydlu gwaelodlin) neu gan nad yw'n bosibl gosod targed ar gyfer y mesur. O ganlyniad, ni ellir rhoi statws COG gan nad ydym yn gallu cymharu ein perfformiad â tharged.

| Camau Gweithredu'r Cynllun Corfforaethol | Cam Gweithredu | | Lle rydym arni o gymharu â statws y chwarter blaenorol |
|---|---|---|---|
| | Camau Gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Statws y Cam Gweithredu | |
| **ER1:** Cynyddu twf economaidd, mewnfuddsoddi a chyfleoedd cyflogaeth cymaint ag y bo modd ledled y Brifddinas-ranbarth ac Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan. (2019–20) | 4 | O | ↓ |
| **ER2:** Datblygu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a hyfforddiant trwy ddatblygiadau newydd, cynlluniau adfywio a rheoli asedau'r cyngor. (2019–20) | 3 | O | ↓ |
| **ER3:** Gweithredu rhaglen gynhwysfawr o adfywio ledled y Fro, gan gynnwys:<br>• Y Strategaeth Datblygu Lleol Gwledig<br>• Y Fframwaith Canol Trefi<br>• Rhodfa Penarth<br>• Glan y Dŵr yn y Barri, gan gynnwys Ffordd Gyswllt Ynys y Barri<br>• Cysylltiadau rhwng Porthladd Penarth a chanol y dref (2019–20) | 8 | G | ↔ |
| **ER4:** Cyflawni cynlluniau gwella trafnidiaeth sy'n gysylltiedig â Metro Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, gan gynnwys mesurau blaenoriaeth i fysiau ar Port Road a Heol Caerdydd. (2018–19) | 3 | G | ↔ |
| **ER5:** Gweithredu Mapiau Rhwydwaith Integredig a Mapiau Teithio Llesol i ddarparu adnodd gwybodaeth cynhwysfawr ar gyfer trigolion ac ymwelwyr er mwyn iddynt deithio mewn modd effeithlon a diogel. (2018–19) | 1 | G | ↔ |
| **ER6:** Cefnogi busnesau lleol a chynyddu nifer yr ymwelwyr â'r Fro trwy weithredu Cynllun Rheoli Cyrchfannau i Dwristiaid a rhaglen flynyddol o ddigwyddiadau a gwyliau. (2019–20) | 3 | G | ↔ |

Gellir gweld gwybodaeth fanwl am yr holl ddangosyddion perfformiad sy'n cyfrannu at yr amcan llesiant hwn yn **Atodiad B**.

Bu i'r mesurau canlynol helpu i ddangos ein cynnydd tuag at gyflawni Amcan Llesiant 3:

| Mesurau Perfformiad Corfforaethol | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol (Cyf) | Dangosydd | Perfformiad 2016–17 | Targed 2017–18 | Perfformiad 2017–18 | Cyfartaledd Cymru 2017–18 | Statws Perfformiad[8] | Lle Rydym Arni (o gymharu â'r flwyddyn flaenorol) |
| **ER1: Cynyddu twf economaidd, mewnfuddsoddi a chyfleoedd cyflogaeth cymaint ag y bo modd ledled y Brifddinas-Ranbarth ac Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan.** | | | | | | | |
| MPC/139 | Canran y bobl mewn cyflogaeth | 74.4% | Dd/B | 74.1% | 72.7% | ☺ | ↑ |
| **ER3: Gweithredu rhaglen gynhwysfawr o adfywio ledled y Fro, gan gynnwys:<br>• Y Strategaeth Datblygu Gwledig Lleol<br>• Y Fframwaith Canol Trefi<br>• Rhodfa Penarth<br>• Glan y Dŵr yn y Barri, gan gynnwys Ffordd Gyswllt Ynys y Barri<br>• Cysylltiadau rhwng Porthladd Penarth a chanol y dref** | | | | | | | |
| MPC/078: | Y gyfradd gyfartalog o unedau gwag yng nghanol prif drefi'r Fro | 8.2 | 6.3 | 8.83 | 12.5 | [9] ☺ | ↓ |
| MPC/081: | Nifer y grwpiau cymunedol sy'n derbyn cymorth i gynyddu capasiti | 78 | 70 | 117 | Dd/B | ☺ | ↑ |
| **ER6: Cefnogi busnesau lleol a chynyddu nifer yr ymwelwyr â'r Fro trwy weithredu'r Cynllun Rheoli Cyrchfannau i Dwristiaid a rhaglen flynyddol o ddigwyddiadau a gwyliau.** | | | | | | | |
| MPC/087 | Cyfanswm yr ymwelwyr â Bro Morgannwg at ddibenion twristiaeth (fel y'u mesurwyd gan arolwg STEAM) | 3,962,000 | 3,800,000 | 3,970,000 | Dd/B | ☺ | ↑ |
| MPC/145: | Nifer yr ymwelwyr â digwyddiadau cyfres Penwythnosau Ynys y Barri | 28,000 | 37,000 | 48,000 | Dd/B | ☺ | ↑ |

## 4.3 AMCAN 4: HYBU DATBLYGU CYNALIADWY AC AMDDIFFYN EIN HAMGYLCHEDD

Yn ystod 2017–18, buom yn canolbwyntio ar y camau gweithredu canlynol i fynd i'r afael ag Amcan Llesiant 4:

[8] Statws perfformiad: mae perfformiad ar darged neu'n rhagori arno ☺; mae perfformiad o fewn 10% i'r targed 😐; collwyd y targed o fwy na 10% ☹. Mae lle rydym arni yn cymharu perfformiad 2017–18 â pherfformiad y flwyddyn flaenorol (2016–17) ar gyfer yr holl fesurau lleol. Mae saeth i fyny yn dangos perfformiad gwell na'r flwyddyn flaenorol, tra bo saeth i lawr yn dangos perfformiad gwaeth na'r flwyddyn flaenorol. Mae mesurau cenedlaethol wedi cael eu cymharu â pherfformiad cyfartalog Cymru ar gyfer 2017–18 lle mae hwn ar gael. Mae saeth i fyny yn dangos bod perfformiad y Fro yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, tra bo saeth i lawr yn dangos bod perfformiad y Fro yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

[9] Mae'r gyfradd gyfartalog o unedau gwag o 8.83% yn ganlyniad sy'n peri siom, ond mae ystadegau cyhoeddedig yn dangos bod hon yn parhau i fod yn is o lawer na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru o 12.5%. Mae'r cyngor yn gwella ei ddeialog â masnachwyr a bydd mentrau newydd yn cael eu hystyried dros y blynyddoedd nesaf.

| Camau Gweithredu'r Cynllun Corfforaethol | Cam Gweithredu | | Lle rydym arni o gymharu â'r chwarter blaenorol |
|---|---|---|---|
| | Camau Gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Statws y Cam Gweithredu | |
| **ER7:** Mabwysiadu a gweithredu'r Cynllun Datblygu Lleol fel fframwaith ar gyfer datblygu Bro Morgannwg mewn modd cynaliadwy. (2016–17) | 5 | O | ↓ |
| **ER8:** Datblygu a mabwysiadu Ardoll Seilwaith Cymunedol sy'n defnyddio cyfraniadau datblygwyr i wella cyfleusterau cymunedol. (2016–17) | 1 | G | ↔ |
| **ER9:** Gweithredu Cynllun Trafnidiaeth Leol i wella hygyrchedd, diogelwch ar y ffyrdd ac ansawdd aer ac i leihau tagfeydd. (2019–20) | 7 | O | ↓ |
| **ER10:** Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i wneud gwelliannau i Lôn Pum Milltir. (2018–19) | 3 | G | ↔ |
| **ER11:** Cwblhau Llwybr 88 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol i hybu teithio llesol a ffyrdd mwy iach o fyw, a lleihau teithio diangen mewn cerbydau, tagfeydd ar y ffyrdd a llygredd. (2017–18) | 1 | G | ↔ |
| **ER12:** Gwella mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer pobl 16–18 mlwydd oed a thros 60 mlwydd oed trwy hyrwyddo a chynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar Gynlluniau Teithio Rhatach Llywodraeth Cymru. (2018–19) | 1 | G | ↔ |
| **ER13:** Cyflawni dull cydgysylltiedig ar gyfer rheoli Ynys y Barri. (2018–19) | 3 | G | ↔ |
| **ER14:** Gweithio gyda phartneriaid i barhau â'r gwaith o adfywio Ynys y Barri a hyrwyddo datblygiad tir yn Nells Point at ddibenion twristiaeth a hamdden. (2018–19) | 2 | G | ↔ |
| **ER15:** Adolygu a gweithredu Cynllun Rheoli Carbon a thargedau'r cyngor i leihau allyriadau o adeiladau'r cyngor, goleuadau stryd a cherbydau'r cyngor. (2017–18) | 6 | O | ↔ |
| **ER16:** Datblygu a gweithredu Strategaeth Lleihau Gwastraff ac ailfodelu ein seilwaith rheoli gwastraff i gynyddu ein cyfraniad at ailgylchu, lleihau twf gwastraff trefol a bodloni'r targedau cenedlaethol. (2018–19) | 9 | O | ↑ |

| Camau Gweithredu'r Cynllun Corfforaethol | Cam Gweithredu | | Lle rydym arni o gymharu â'r chwarter blaenorol |
|---|---|---|---|
| | Camau Gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Statws y Cam Gweithredu | |
| **ER17:** Gwerthfawrogi bioamrywiaeth a gwella a chreu cynefinoedd ar gyfer rhywogaethau pwysig. (2019–20) | 2 | G | ↔ |
| **ER18:** Lleihau risg ac effeithiau llifogydd ac erydu arfordirol trwy Gynllun Rheoli Llifogydd effeithiol, mesurau lleihau perygl llifogydd a Chynllun Rheoli Traethlin. (2017–18) | 2 | G | ↑ |
| **ER19:** Cyflawni pedair Gwobr Traeth Genedlaethol i gydnabod safonau glendid uchel, cyfleusterau da ac atyniad ein traethau. (2018–19) | 2 | G | ↔ |

Gellir gweld gwybodaeth fanwl am holl gamau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth sy'n cyfrannu at yr amcan llesiant hwn yn **Atodiad B**.

Bu i'r mesurau canlynol helpu i ddangos ein cynnydd tuag at gyflawni Amcan Llesiant 4:

| Mesurau Perfformiad Corfforaethol | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol (Cyf) | Dangosydd | Perfformiad 2016–17 | Targed 2017–18 | Perfformiad 2017–18 | Cyfartaledd Cymru 2017–18 | Statws Perfformiad | Lle Rydym Arni (o gymharu â'r flwyddyn flaenorol) |
| **ER7: Mabwysiadu a gweithredu'r Cynllun Datblygu Lleol fel fframwaith ar gyfer datblygu Bro Morgannwg mewn modd cynaliadwy** | | | | | | | |
| MPC/163 | Nifer y cynlluniau cymunedol unigol sy'n elwa ar gyfraniadau ariannol datblygwyr (Adran 106). | Dd/B | 10 | 23 | Dd/B | ☺ | Dd/B |
| **ER9: Gweithredu Cynllun Trafnidiaeth Leol i wella hygyrchedd, diogelwch ar y ffyrdd ac ansawdd aer a lleihau tagfeydd** | | | | | | | |
| MPC/161 | Gwerth y buddsoddiadau sy'n cael eu hysgogi yn y cyngor sy'n cael eu neilltuo i gynlluniau gwella trafnidiaeth. | Dim data ar gael | £500,000 | £537,739.00 | Dd/B | ☺ | Dd/B |
| MPC/252 | Canran y prif ffyrdd (A) a'r ffyrdd (B) ac (C) nad ydynt yn brif ffyrdd sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol. | 8.5% | 8.55% | 8.21% | Dd/B | ☺ | ↑ |
| Mesur Atebolrwydd Cyhoeddus / 021 | Canran y prif ffyrdd B sy'n parhau i fod mewn cyflwr gwael yn gyffredinol. | 4.2% | 4.2% | 4.2% | 4.3% | ☺ | ↑ |
| Mesur Atebolrwydd Cyhoeddus / 022 | Canran y ffyrdd C nad ydynt yn brif ffyrdd sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol. | 11.2% | 11.2% | 10.5% | 14.1% | ☺ | ↑ |

| Mesurau Perfformiad Corfforaethol | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol (Cyf)** | **Dangosydd** | **Perfformiad 2016–17** | **Targed 2017–18** | **Perfformiad 2017–18** | **Cyfartaledd Cymru 2017–18** | **Statws Perfformiad** | **Lle Rydym Arni (o gymharu â'r flwyddyn flaenorol)** |
| **ER12: Gwella mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer pobl 16–18 mlwydd oed a thros 60 mlwydd oed trwy hyrwyddo a chynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar Gynlluniau Teithio Rhatach Llywodraeth Cymru** | | | | | | | |
| MPC/155 | Bodlonrwydd ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys a) hygyrchedd a b) diogelwch ar y ffyrdd. | a) 90.2%, b) 56.1% | 70% | a) 80.38% b) 52% | Dd/B | ☺ | Dd/B |
| MPC/017 | Canran yr oedolion dros 60 mlwydd oed sydd â thocyn bws rhatach. | 84.44% | 83% | 83.29% | Dd/B | ☺ | ↓ |
| **ER14: Gweithio gyda phartneriaid i barhau i adfywio Ynys y Barri a hyrwyddo datblygiad tir yn Nells Point at ddibenion twristiaeth a hamdden** | | | | | | | |
| MPC/158 | Bodlonrwydd y cyhoedd ar y cyfleusterau ar Ynys y Barri lle y cawsant radd 'Da' neu 'Ragorol'. | Dd/B | 86% | 95.19% | Dd/B | ☺ | Dd/B |
| **ER15: Adolygu a gweithredu Cynllun Rheoli Carbon a thargedau'r cyngor i leihau allyriadau o adeiladau'r cyngor, goleuadau stryd a cherbydau'r cyngor** | | | | | | | |
| MPC/149 (WO2/M008): | Ansawdd yr aer rydym yn ei anadlu: lefelau o lygredd nitrogen deuocsid yn yr aer. | $5.2\ \mu g\ m^{-3}$ | Dd/B | $5.0\ \mu g\ m^{-3}$ | Dd/B | Dd/B | Dd/B |
| MPC/151 | Cynnydd canrannol yn nifer y milltiroedd a wnaed gan fflyd ceir a rennir y cyngor. | Dd/B | 9.95% | 11.7% | Dd/B | ☺ | Dd/B |
| MPC/152 | Y gostyngiad canrannol yn nifer y prif adeiladau gweinyddol mae'r cyngor yn gweithredu ohonynt. | 0% | 10% | 16.67% | Dd/B | ☺ | ↑ |
| MPC/153 | Y newid canrannol (gostyngiad) mewn allyriadau carbon deuocsid mewn adeiladau cyhoeddus annomestig. | -1.96% | 3% | 5.2% | Dd/B | ☺ | ↑ |
| MPC/154 | Canran goleuadau'r cyngor sy'n LED. | 33% | 33.65% | 65% | Dd/B | [10] ☹ | ↑ |
| MPC/006 | Y newid canrannol i sgôr gyfartalog y Dystysgrif Ynni i'w Harddangos o fewn adeiladau cyhoeddus yr awdurdod lleol dros 1,000 metr sgwâr. | 4.3% | 0.5% | 3% | Dd/B | [11] ☹ | ↓ |


[10] Yn dilyn proses dendro drwyadl, mae Urbis Screder Ltd wedi cael ei gontractio i gyflenwi llusernau LED ar gyfer gwaith sydd wedi'i gymeradwyo i uwchraddio'r holl lusernau domestig i rai LED. Bellach dylai'r gwaith hwn fod wedi'i gwblhau erbyn diwedd yr haf.

[11] Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth y cyngor ymrwymo i raglen ReFit (gwella effeithlonrwydd ynni), a fydd yn effeithio ymhellach ar ein perfformiad mewn perthynas â lleihau allyriadau o weithgareddau'r cyngor. Mae gwaith bellach wedi dechrau ar nifer o fentrau yn ystod 2018.

| Mesurau Perfformiad Corfforaethol | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol (Cyf)** | **Dangosydd** | **Perfformiad 2016–17** | **Targed 2017–18** | **Perfformiad 2017–18** | **Cyfartaledd Cymru 2017–18** | **Statws Perfformiad** | **Lle Rydym Arni (o gymharu â'r flwyddyn flaenorol)** |
| **ER16: Datblygu a gweithredu Strategaeth Lleihau Gwastraff ac ailfodelu ein seilwaith rheoli gwastraff i gynyddu ein cyfraniad at ailgylchu, lleihau twf gwastraff trefol a bodloni'r targedau cenedlaethol** | | | | | | | |
| Mesur Atebolrwydd Cyhoeddus / 030 | Canran y gwastraff trefol a gafodd ei gasglu gan awdurdodau lleol a'i baratoi i'w ailddefnyddio a/neu ei ailgylchu, gan gynnwys gwastraffau bio sy'n cael eu gwahanu cyn eu casglu ac sy'n cael eu compostio neu eu trin mewn modd biolegol arall. | 65.3% | 65% | 63.21% | Dd/B | 😐 | ↓ |
| Mesur Atebolrwydd Cyhoeddus / 031 | Canran y gwastraff trefol a gafodd ei gasglu gan awdurdodau lleol a'i anfon i safleoedd tirlenwi. | 0.99% | 1% | 0.95% | Dd/B | 😊 | ↑ |
| MPC/013 | Y Mynegai Glendid. | 76.43% | 69% | 71.14% | Dd/B | 😊 | ↓ |
| MPC/014 (Mesur Atebolrwydd Cyhoeddus / 010) | Canran y priffyrdd a archwiliwyd a oedd o safon glendid uchel neu dderbyniol. | 94.29% | 97% | 99.5% | 95.8% | 😊 | ↑ |
| **ER17: Gwerthfawrogi bioamrywiaeth a gwella a chreu cynefinoedd ar gyfer rhywogaethau pwysig** | | | | | | | |
| MPC/159 | Nifer y m² o barciau, mannau agored a phriffyrdd sydd wedi cael eu hau â blodau gwyllt neu sy'n cael eu cynnal fel ardal natur. | Dd/B | 2765 m² | 1706.05 m² | Dd/B | 😊 | Dd/B |
| **ER19: Cyflawni pedair Gwobr Traeth Genedlaethol i gydnabod safonau glendid uchel, cyfleusterau da ac atyniad ein traethau** | | | | | | | |
| MPC/164 | Nifer y gwobrau traeth a dderbyniwyd. | 6 | 5 | 6 | Dd/B | 😊 | ↔ |

Gellir gweld gwybodaeth fanwl am yr holl ddangosyddion perfformiad sy'n cyfrannu at yr amcan llesiant hwn yn **Atodiad B**.

## 4.4 AMCAN 3: EIN CYFLAWNIADAU



Mae **Aston Martin** wedi dewis Parc Busnes Awyrofod Sain Tathan i fod ei ail safle gweithgynhyrchu yn y DU. Mae'r buddsoddiad yn alinio ag Ardal Fenter Maes Awyr a Sain Tathan, sy'n canolbwyntio ar beirianneg, gweithgynhyrchu a deunyddiau blaengar. Mae bron 100 o staff bellach yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan ffatri Aston Martin yn Sain Tathan; o'r rhain, mae tua hanner o dan hyfforddiant ar hyn o bryd ym mhrif ffatri'r cwmni yn Gaydon, Warwig, gyda'r gweddill yn cael eu cyflogi ar y safle. Mae'r gwaith adeiladu allanol a mewnol ar y safle bellach wedi cael ei gwblhau, ac mae cynnydd da wedi cael ei wneud ar y gwaith o gyfarparu'r tu mewn, gyda'r swyddfeydd wedi'u cwblhau a'r offer paentio ceir â chwistrell yn cael eu gosod ar hyn o bryd. Bydd y

prawf cychwynnol ar adeiladu ceir yn dechrau yn gynnar yn 2019, bydd y llinell gynhyrchu’n llawn weithredol yn hwyr yn 2019, a bydd tua 750 swydd yn cael eu creu pan fydd y cyfleuster yn llawn weithredol. Yn ôl adroddiad diweddar gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (Mai 2018), mae Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan wedi creu 137.6 swydd hyd yn hyn (Ionawr 2018) ac wedi helpu i greu 85 swydd.

Mae'r gwaith o ddatblygu **safle Picketston i'r gogledd o Sain Tathan** wedi gweld sawl cwmni yn dod i'r ardal, gyda'r disgwyl y bydd 48 swydd gyfwerth ag amser llawn yn cael eu creu pan fydd y busnesau, y mae llawer ohonynt yn fusnesau bach a chanolig, wedi'u sefydlu eu hunain ar y safle. Disgwylir y bydd y nifer o swyddi yn cynyddu i dros 150.



Mae'r cyngor yn parhau i weithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru a Busnes Cymru i gynnal cyfres o ddigwyddiadau i hyrwyddo manteision yr **Ardal Fenter**. Er enghraifft, ym mis Hydref 2017, cynhaliwyd cyfarfod amlasiantaeth wedi'i drefnu gan y cyngor a Busnes Cymru yn y Ganolfan Hyfforddiant Awyrofod Ryngwladol yn y Rhws. Roedd y cyfarfod yn canolbwyntio ar y cynnydd a wnaed gydag Aston Martin, a'r cymorth a oedd yn cael ei wneud ar gael ar gyfer busnesau sy'n tyfu a gwaith adfywio o fewn Ardal Fenter a Datblygiadau'r Fro. Daeth mwy na 80 o randdeiliaid i'r cyfarfod brecwast ac mae rhagor o ddigwyddiadau wedi cael eu cynllunio ar gyfer 2018 i sicrhau bod y diddordeb a'r buddsoddi yn yr Ardal Fenter yn parhau, ynghyd â chreu swyddi.

Cafodd **Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd** ei chadarnhau'n ffurfiol ar 1 Mawrth 2017, a bydd yn rhyddhau potensial sylweddol ar gyfer twf ledled Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, sy'n cynnwys deg awdurdod lleol, sef Caerdydd, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili, Sir Fynwy, Pen-y-bont ar Ogwr, Blaenau Gwent, Torfaen a Chasnewydd. Nodau Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yw creu swyddi a hybu ffyniant economaidd trwy wella cynhyrchiant, mynd i'r afael â diweithdra, adeiladu ar sylfeini arloesedd, buddsoddi mewn seilwaith ffisegol a digidol, darparu cymorth ar gyfer busnesau, a sicrhau bod unrhyw fanteision economaidd sy'n cael eu cynhyrchu o ganlyniad yn cael eu rhannu ar draws y rhanbarth. Mae'r Fargen Ddinesig yn cynnwys cynnig o £734 ar gyfer Metro De Cymru, y mae dros £500 miliwn ohono’n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru a £125 miliwn gan Lywodraeth y DU. Mae Llywodraeth y DU wedi darparu cyfraniad o £375 miliwn, ac mae'r deg awdurdod lleol wedi cytuno i ymrwymo i fenthyca cyfanswm cyfunol o £120 miliwn fel rhan o'r gronfa fuddsoddi ehangach. Mae'r cyngor wedi clustnodi £1.25 o'i gyllid i gyfrannu at gost y Fargen Ddinesig yn y dyfodol, ac o ganlyniad mae unrhyw fenthyca ychwanegol sydd ei angen yn cael ei ohirio.

Rydym yn parhau i gynyddu cyfleoedd i bobl leol gael swyddi. Er enghraifft, yn ystod 2017–18, gwnaeth y cyngor gynnal trafodaethau â'r contractwr ar gyfer prosiect 'Lôn Pum Milltir’, a llwyddo i sicrhau cyfleoedd ar gyfer cyfranogwyr yn ein rhaglen Cymunedau am Waith. Mae gwaith yn parhau i sicrhau bod cyfleoedd yn cael eu cynyddu cymaint ag y bo modd am hyd y prosiect.



Mae'r cyngor yn parhau i weithredu rhaglen gynhwysfawr o adfywio ledled y Fro, gan gynnwys cyflawni **Strategaeth Datblygu Gwledig** y cyngor, sy'n rhedeg hyd 2020. Hyd yn hyd, mae 29 prosiect wedi cael eu comisiynu a'u cymeradwyo gan y grŵp gweithredu lleol a rhagorwyd ar dargedau ar gyfer y rhan fwyaf o’r prosiectau. Mae gwariant a thargedau yn parhau i gyd-fynd â'r proffil ac mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod yn fodlon ar y cynnydd a wnaed.



Rydym wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn llwyddo i sicrhau cyllid llif prosiectau ar gyfer dau brosiect i wneud rhagor o adfywio yn yr ardal. Cafodd y ddau grant eu dyfarnu yn ystod 2017–18: y grant ar gyfer **trosi'r ganolfan sgiliau flaenorol yn BSC2** a'r gronfa **grant ar gyfer**

**adnewyddu adeiladau masnachol Holton Road**. Mae BSC2 wedi cael ei chwblhau'n rhannol, gyda'r tenant cyntaf wedi symud i mewn, ac mae rhaglen grant Holton Road yng nghanol tref y Barri yn parhau. Mae'r cynllun yn annog perchnogion adeiladau i wella adeiladwaith allanol adeiladau, dechrau defnyddio unedau siop gwag mewn modd buddiol unwaith eto, a gwella mynediad at loriau uwch gwag neu rai nad ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigonol i annog pobl i'w trosi yn llety preswyl. Mae grantiau o hyd at 75% o'r costau cymwys ar gael trwy'r rhaglen hon. Mae'r prosiect hwn yn cynnwys ymgysylltu â busnesau lleol, landlordiaid ac asiantiaid eiddo. Rhwng blynyddoedd ariannol 2014–15 a 2016–17, mae pum cynllun wedi cael eu cwblhau. Yn ystod blwyddyn ariannol 2017–18, cafodd un cynllun arall ei gwblhau a dechreuwyd gwaith ar bedwar eraill. Mae'r gwelliannau hyn wedi gwella canol y dref yn sylweddol, gan gynyddu ei hatyniad i siopwyr.

---

Mae amryw prosiectau adfywio ledled Bro Morgannwg yn parhau i fod ar y trywydd iawn ac mae'r byrddau prosiect perthnasol yn gwneud yn siŵr fod cynnydd yn cael ei wneud mewn modd amserol. Mae'r gwaith o farchnata **Tai Bach Ynys y Barri, sied nwyddau Hood Road a safle'r Ardal Arloesedd bellach wedi cael ei gwblhau ac mae'r cynigyddion a ffefrir wedi cael eu dewis.** Mae trafodaethau bellach yn cael eu cynnal â'r amryw gynigyddion, sy'n cynnwys cydweithwyr yn ein Gwasanaethau Rheoli Datblygiad a Chyfreithiol, a disgwylir i geisiadau cynllunio gael eu cyflwyno yn y dyfodol agos.

---



Yn ystod 2017–18, rydym wedi parhau i gyflawni'r cynlluniau trafnidiaeth sy'n gysylltiedig â **Metro Prifddinas-Ranbarth Caerdydd**, gan gynnwys mesurau blaenoriaeth i fysiau ar **Port Road a Heol Caerdydd**. Mae'r gwaith dichonoldeb wedi cael ei gwblhau ar gyfer y llwybr a bydd cynllun manwl yn parhau yn ddarostyngedig i ganlyniad y cynnig am grant trafnidiaeth a gyflwynwyd yn flaenorol. Mae manteision bod wedi cwblhau'r dyluniad dichonoldeb yn golygu y gallai'r cynllun symud yn ei flaen yn gyflym os oes cyllid yn cael ei wneud ar gael.

---

Mae'r **mapiau teithio llesol** terfynol wedi cael eu diweddaru yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus i adlewyrchu'r ymatebion a gafodd eu cyflwyno i'r Cabinet a'u cymeradwyo ganddynt ar 6 Tachwedd 2017. Mae'r mapiau'n darparu adnodd gwybodaeth cynhwysfawr i ganiatáu i drigolion deithio ledled y Fro mewn modd effeithlon a diogel. Mae'r **Mapiau Rhwydwaith Integredig** a'r Mapiau Llwybrau Cyfredol (wedi'u cymeradwy gan Lywodraeth Cymru) yn amlinellu dyheadau'r awdurdod ar gyfer gwella llwybrau teithio llesol ledled y sir dros y 15 mlynedd nesaf.

---



Rydym yn parhau i gefnogi busnesau lleol ac ymdrechu i gynyddu nifer yr ymwelwyr â'r Fro trwy ddigwyddiadau arloesol sy'n cefnogi'r economi leol. Yn ystod 2017–18, cynhaliwyd pum digwyddiad llwyddiannus o ganlyniad i gynllun grantiau bach: **Taith Celf Penarth, yr Ŵyl Grefft Arfordirol, Syrcas y Môr, Acwathon Ynys y Barri a Marchnad Nadolig Holton Road**.

---

Yn ystod 2017–18, gwnaeth y cyngor gytundeb gyda gweithredwr trydydd parti i gynnal **digwyddiadau nofio awyr agored ym Mharc Gwledig Llynnoedd Cosmeston**. Mae cynigion eraill i ddatblygu mentrau newydd mewn safleoedd gwledig yn cynnwys gwersylla a chynigion ar gyfer gweithgareddau awyr agored ym Mharc Gwledig Llynnoedd Cosmeston, Parc Gwledig Porthceri a Choedwig Lecwydd, a fydd yn darparu **manteision sylweddol ar gyfer twristiaeth ac yn creu incwm i gynnal y gwasanaethau** pan fyddant wedi cael eu gweithredu. Mae diddordeb wedi parhau mewn perthynas â darparu ar gyfer priodasau ym Marc Cosmeston a Pharc Porthceri, gyda'r ddau barc gwledig wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau bach megis biathlon, digwyddiad rhedeg traws gwlad a rasio cychod draig. Bydd y cyngor yn ceisio datblygu'r rhain ymhellach i sicrhau incwm posibl ar gyfer y dyfodol yn ystod 2018–19.



---

Agorodd y **lôn flaenoriaeth i fysiau a'r cynllun beicio/cerdded rhwng Croes Cwrlwys a Weycock Cross** ym mis Mawrth 2017. Mae'r cynllun wedi arwain at 188 medr o lwybr beicio a lôn fysiau'n cael eu creu, sydd wedi arwain at gryn amser yn cael ei arbed ar gyfer bysiau a rhagor o feicio yn yr ardal.

---

Yn yr Arolwg Barn Gyhoeddus ddiwethaf (2017), roedd dros 90% o ymatebwyr yn fodlon ar hygyrchedd **trafnidiaeth gyhoeddus** (37% yn fodlon iawn, 53% yn eithaf bodlon).

---

Rydym yn parhau i annog pobl i ddefnyddio safleoedd ac adeiladau gwag mewn modd mwy cynaliadwy, megis ar gyfer eiddo preswyl, gweithgareddau hamdden a gwasanaethau allweddol, trwy **Gynllun Cyllid Ad-daladwy Canol Trefi**. Mae'r cynllun, a ddechreuodd yn 2014–15, yn elfen allweddol o raglen adfywio Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid Llywodraeth Cymru, ac mae'n cael ei gynnig i awdurdodau lleol at ddibenion lleihau nifer y safleoedd ac adeiladau gwag, segur ac nad ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigonol mewn canol trefi, a chefnogi'r gwaith o arallgyfeirio'r ffordd mae canol y dref yn cael ei ddefnyddio. Yn ystod 2017–18, roedd gan y cyngor gyllideb o £1,045,665 ar gyfer y Cynllun Cyllid Ad-daladwy, yr oedd yn ei ddefnyddio i ddarparu benthyciadau i drydydd partïon i'w had-dalu o fewn amserlen y cytunwyd arni. Yn ystod 2017–18, gwnaeth y cynllun ariannu gwaith i ailwampio adeilad gwag ar y Stryd Fawr, y Barri, a oedd yn cynnwys adfer yr adeilad yn dŷ dwy ystafell fforddiadwy ac ailddatblygu safle gwag cyfagos yn dŷ dwy ystafell wely fforddiadwy.

---

## 4.5 AMCAN 4: EIN CYFLAWNIADAU



Cafodd y **Cynllun Datblygu Lleol** ei fabwysiadu gan y cyngor llawn ym mis Mehefin 2017 ac mae'n darparu fframwaith ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth newydd ym Mro Morgannwg. Amcangyfrifir y bydd y gwaith i ddatblygu'r tir a ddyrannwyd at ddibenion cyflogaeth yn creu rhwng 7,610 a 10,610 o swyddi posibl yn ystod cyfnod y cynllun. Trwy gydol y flwyddyn, o dan fframwaith polisi newydd y Cynllun Datblygu Lleol, mae'r cyngor wedi cymeradwyo nifer o geisiadau cynllunio mawr ac wedi paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol megis y canllawiau ar gynlluniau teithio i gynorthwyo busnesau i baratoi cynlluniau i gefnogi ceisiadau cynllunio.

---

Yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol, mae nifer o ddogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol wedi cael eu drafftio, mae ymgynghoriadau wedi cael eu cynnal yn eu cylch, ac maent wedi cael eu cymeradwyo i'w defnyddio ar unwaith wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â rheoli datblygiadau. Rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018, rhoddwyd cyfanswm o 28 o ganiatadau cynllunio (caniatadau llawn a rhai amlinellol), sydd wedi bod yn destun cytundebau Adran 106. Cyfanswm gwerth y cyfraniadau gan y cytundebau cyfreithiol hyn yw £8,109,968. Mae hyn yn cynnwys cyfraniadau oddi ar y safle ar gyfer mannau agored cyhoeddus, addysg, trafnidiaeth gynaliadwy, cyfleusterau cymunedol a thai fforddiadwy, ac o ganlyniad yn gwneud y defnydd gorau posibl o gyfraniadau datblygwyr i wella cyfleusterau cymunedol. Bu i'r cyngor hefyd sicrhau rhwymedigaethau i wneud cyfraniadau mewn ffyrdd eraill, megis mannau agored cyhoeddus, tai fforddiadwy a chelf gyhoeddus, y bydd yn ofynnol i ddatblygwyr eu darparu ar y safle. Mae'r chwe phrif ddatblygiad preswyl a ariannwyd o dan Adran 106 yn cynnwys:

- Tir i'r de o Cog Road, Sili – 350 cartref
- Heol Caerllion, Dinas Powys – 70 cartref
- Tir yn Heol Caerdydd / Cross Common Road, Dinas Powys – 50 cartref
- Tir yn Sycamore Cross, Tresimwn – 120 cartref
- Tir cyfagos â ffordd osgoi Llanilltud Fawr, Trebefered – 65 cartref

---

Yn ystod 2017–18, gwnaeth y cyngor benderfyniadau ynghylch:

- 1,161 o geisiadau cynllunio, gan wneud penderfyniadau am 1,058 (91%) o'r rhain o fewn yr amserlenni gofynnol, gan ragori ar ein targed o 80%
- 18 cais mawr, gan wneud penderfyniadau am 83% o'r rhain o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt
- 620 cais cynllunio gan berchnogion tai, gan wneud penderfyniadau am 590 (95%) o'r rhain o fewn yr wyth wythnos ofynnol neu yn unol â Chytundeb Perfformiad Cynllunio neu Estyniad i'r Amser ac felly rhagori ar ein targed o 90% ar gyfer y flwyddyn



Roedd yr **Adolygiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer Llywodraeth Cymru** a gynhyrchwyd ym mis Tachwedd 2017 yn dangos bod y cyngor yn parhau i berfformio'n dda o gymharu ag awdurdodau cyfagos, a bod yr amser mae'r cyngor yn ei gymryd i wneud penderfyniad ynghylch cais cynllunio'n well o lawer na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sy'n ein rhoi ni yn y chwartel uchaf ar gyfer perfformiad yn genedlaethol.

Yn ystod 2017–18, derbyniodd y cyngor £5,210,619 o gyfraniadau ariannol gan ddatblygwyr trwy **gytundebau Adran 106**. Ar 31 Mawrth 2018, roedd gan y cyngor £13,836,471 yn y prif gyfrif Adran 106. Mae'r rhan fwyaf o'r cyfraniadau wedi cael eu clustnodi ar gyfer cynlluniau o fewn Bro Morgannwg, fel y cytunwyd ag aelodau etholedig a meysydd gwasanaeth, neu'n aros tra cynhelir rhagor o ymgynghori yn eu cylch. Yn ogystal, cafodd £678,524 ei gadw ar gyfer costau cynnal a chadw parhaus, a oedd yn golygu mai cyfanswm gwerth y cyllid o dan Adran 106 oedd £14,514,995.

Mae **Cynllun Greenlinks** wedi parhau i gynnig gwasanaeth gwerthfawr iawn i ddinasyddion y Fro nad ydynt fel arall yn gallu cael mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r cynllun wedi diwallu anghenion Gwasanaethau Cymdeithasol a bydd yn parhau i wneud hynny yn dilyn llwyddiannau'r prosiect peilot diweddar a oedd yn cynnwys cludo gofalwyr ifanc i'r YMCA.






Cafodd y **Cynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau** yn Ham Lane, Llanilltud Fawr, ei gwblhau a'i wneud yn llawn weithredol yn ystod 2017–18. Cafodd y groesfan newydd, sy'n cael ei rheoli â goleuadau, ei gosod i greu llwybr mwy diogel ar gyfer disgyblion wrth iddynt gerdded i Gymuned Dysgu Llanilltud newydd a chaeau chwarae cyfagos. Mae peirianwyr priffyrdd y cyngor hefyd yn credu y bydd y groesfan dan reolaeth yn helpu i arafu traffig ar ffordd sydd ar adegau yn brysur iawn. Mae cyflawni'r cynllun hwn a chynlluniau tebyg yn caniatáu seilwaith gwell a mwy diogel ar gyfer cerdded a beicio ar draws cymunedau'r Fro.

Mae'r gwaith i wella **Lôn Pum Milltir** er mwyn gwella diogelwch a'r seilwaith yn yr ardal yn parhau i wneud cynnydd cadarnhaol. Mae contract archeolegol Cyngor Bro Morgannwg bellach wedi cael ei gwblhau ac mae ffensio a gwaith clirio wedi dechrau ar y safle, sy'n golygu ein bod ni ar y trywydd iawn i gyflawni'r gwelliannau arfaethedig i Lôn Pum Milltir fel yr amlinellir yn ein Cynllun Corfforaethol.

Cafodd y **Cynllun Cynnal Priffyrdd tair blynedd i roi arwyneb newydd** ei gymeradwyo gan y Cabinet ym mis Medi 2017 ac mae llawer o waith tuag at gwblhau'r cynllun wedi cael ei gwneud yn ystod 2017–18. Mae'r fenter Trwsio Twll wedi cael ei chwblhau yn llwyddiannus ac rydym wedi ymweld â phob un o'r 23 o wardiau yn y Fro i fynd i'r afael â diffygion ar y ffyrdd yr adroddwyd amdanynt gan y gwahanol gymunedau. Mae'r holl drigolion wedi cael y cyfle i dynnu sylw at dyllau ffordd yn eu hardal leol, ac rydym yn gwario dros £300k y flwyddyn ar drwsio diffygion ar y ffyrdd a throetffyrdd i wella symudedd diogel a llesiant trigolion yn eu cymunedau lleol.

Cafodd y gysgodfa restredig Gradd II (a adeiladwyd yn 1923) yn **Nell's Point, Ynys y Barri** ei marchnata yn llwyddiannus yn ystod 2017–18, gyda datblygwr yn cael ei benodi i gyflawni cynllun aml-fwytai defnydd cymysg newydd. Mae hyn yn gam enfawr arall yn y gwaith o adfywio Ynys y Barri at ddibenion twristiaeth a hamdden. Nid yw'r hen floc o dai bach wedi cael ei ddefnyddio ers 1995, a bydd bellach yn cael ei droi yn nifer o fwytai o ansawdd uchel ar bwys y cyfleusterau toiled modern, y cytiau traeth a'r wal ddringo sydd eisoes wedi'u sefydlu. Bydd y datblygiad yn rhoi hwb arall i'r ardal ac yn helpu i gadarnhau ei henw fel cyrchfan glan môr o'r radd flaenaf.

---

Mae glendid y strydoedd yn y Fro yn parhau i fod yn uchel, gyda 71% o'r strydoedd a archwiliwyd o dan y **Mynegai Glendid** yn cael eu cynnal i lefel foddhaol yn ystod 2017–18, gan ragori ar ein targed o 69%.

---

Bu llawer o ddiddordeb yn y **consesiynau arfordirol** a oedd yn cael eu dyfarnu ar gyfer atyniadau ar Ynys y Barri eleni, sydd wedi ein helpu i sicrhau incwm ar gyfer y pum mlynedd nesaf wrth ddarparu atyniadau wedi'u lleoli'n strategol yng nghyrchfan Ynys y Barri. Mae'r Promenâd Dwyreiniol yn cynnig 24 cwt traeth o liwiau llachar, sydd â golygfeydd gwych dros Bae Whitmore, sy'n boblogaidd iawn ymhlith twristiaid a phobl leol.



---

Rydym yn parhau i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gynyddu atyniad y Fro fel cyrchfan ymwelwyr a thwristiaid, gan weithio mewn partneriaeth ar lefelau rhanbarthol a lleol. Yn ôl ymchwil **STEAM** ar gyfer 2017, bu i nifer yr ymwelwyr â'r Fro gynyddu o 3.97 miliwn yn 2016 i 4.16 miliwn yn 2017, sy'n gynnydd o 4.8% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Bu i nifer yr ymwelwyr sy'n aros hefyd gynyddu o 2.4% i 0.6 miliwn. O ganlyniad, cododd nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn sy'n cael eu cynnal gan dwristiaeth o 1.7% o gymharu â 2016. Yn gyffredinol, cynyddodd cyfanswm yr effaith economaidd y mae twristiaeth yn ei chael ar y Fro o 4.2%, o £221.30 miliwn yn 2016 i £236.81 miliwn yn ystod 2017. Mae'r perfformiad uchel hwn yn cael ei briodoli i ymdrech gronnus dulliau marchnata targedig mwy effeithiol, traethau a pharciau o ansawdd uchel, a nifer o gynhyrchion twristiaeth newydd megis llwybrau cerdded a dehongliadau realiti estynedig, wedi'u datblygu dros y blynyddoedd diwethaf gan y timau Twristiaeth ac Adfywio Gwledig.

---



Yn ôl **Arolwg Bodlonrwydd Cwsmeriaid Ynys y Barri** ar gyfer haf 2017, byddai 96% o ymwelwyr ag Ynys y Barri yn dychwelyd i'r cyrchfan, a byddai 91% yn argymell Ynys y Barri fel cyrchfan i'w ffrindiau a'u teulu. Dywedodd 94% o ymwelwyr hefyd fod Ynys y Barri naill ai cystal â'u disgwyliadau neu'n well, gyda'r rhan fwyaf (62%) yn dweud bod y cyrchfan naill ai'n well na'u disgwyliadau neu wedi rhagori arnynt.

---

Yn ôl **Arolwg Ymwelwyr Cymru 2016** a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2017, dywedodd bron yr holl ymwelwyr â'r Fro ei bod yn debygol y byddent yn dod yn ôl (95%). Dywedodd 90% y byddent yn bendant yn ymweld eto (yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan o 86%). Cyfran fach yn unig o ymwelwyr (3%) a ddywedodd ei bod yn annhebygol y byddent yn ymweld â'r rhanbarth eto. Gwnaeth yr adroddiad hefyd ddangos bod Cymru yn well na disgwyliadau bron hanner yr ymwelwyr â Bro Morgannwg, gyda 45% yn dweud bod eu taith yn well na'r disgwyl; cododd hyn i 54% ymhlith ymwelwyr ag Ynys y Barri.

---

Ar hyn o bryd, mae'r cyngor yn parhau i berfformio'n dda wrth iddo baratoi ar gyfer y **targed ailgylchu cenedlaethol** o 64% (erbyn 2019), gyda 63.21% o wastraff trefol yr awdurdod lleol a gasglwyd yn ystod 2017–18 yn cael ei ailgylchu. Mae'r cyngor wedi parhau i ddefnyddio ei ddull arferol ar gyfer codi ymwybyddiaeth o ailgylchu, megis diweddariadau rheolaidd ar y wefan, dosbarthu llythyrau i ardaloedd preswyl lle mae'r cyfranogiad yn wael, sioeau teithiol gyda'r trelar digwyddiadau, a rhaglen addysgu ar gyfer ysgolion. Mae ein perfformiad wedi cael ei gyflawni trwy gaffael datrysiadau ar gyfer trin gwastraff sydd wedi cael ei wahanu ac ailgylchu. Yn ogystal, mae

perfformiad ailgylchu'r cyngor wedi elwa ar yr ynni sy'n cael ei greu o wastraff trwy’r Prosiect Gwyrdd. Mae'r mentrau hyn wedi caniatáu inni sicrhau ein bod yn parhau i fod ar y trywydd iawn i fodloni targedau cenedlaethol yn 2018–19.

---

Yn ystod 2017–18, gyda chymorth trwy gyllid gan Lywodraeth Cymru, cyflawnodd y cyngor raglen o **brosiectau bioamrywiaeth**, gan gynnwys:

- Ailgyflwyno llygod y dŵr ym Mharc Gwledig Cosmeston
- Gwaith i wella coetir ym Mharc Gwledig Porthceri a Pharc Gwledig Cosmeston
- Arolwg o foch daear ym Mharc Gwledig Porthceri a'r Arfordir Treftadaeth
- Darparu addysg amgylcheddol
- Dylunio taflen newydd ar gyfer yr Arfordir Treftadaeth
- Rhedeg prosiectau cymunedol gyda Valeways, y Wig a Graig Penllyn
- Cynnal prosiect peillio ym Mharc Gwledig Porthceri a'r Arfordir Treftadaeth
- Cyflawni prosiect cysylltu gwrychoedd ym Mharc Gwledig Cosmeston



Mae'r holl waith prosiect wedi cael ei wneud mewn cydweithrediad â gwirfoddolwyr o'r gymuned leol a bydd yr holl waith yn cael effaith gadarnhaol ar gynyddu bioamrywiaeth a bodloni amcanion llesiant y cyngor. Wrth inni gyflawni ein cynllun bioamrywiaeth lleol, rydym yn cadw ein hymrwymiad i amddiffyn asedau ecolegol Bro Morgannwg ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, a byddwn yn parhau i gynnal blodau gwyllt a'r ardaloedd mwy gwyllt yn ein parciau a'n mannau agored. Yn ystod 2017–18, rydym wedi hau blodau gwyllt mewn 2,765 $m^2$ arall, gan gynyddu'r cyfanswm o 171,005 $m^2$yn 2016–17 i 173,770 $m^2$yn 2017–18.

---

Yn unol â'n **Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd**, cafodd **Cynllun Lliniaru Llifogydd Colbrwg** ei gwblhau'n llwyddiannus yn ystod 2017–18, a bydd preswylwyr a busnesau yn yr ardal bellach yn gweld perygl ac effeithiau llifogydd llai.

---

Rydym wedi llwydo i gynnal **Gwobrau Glan y Môr Cadwch Gymru’n Daclus** ar gyfer Bae Jackson a Cold Knap, y Barri. Yn ogystal, mae Southerndown wedi ennill gwobr ychwanegol am ansawdd ei gyfleusterau. Y Wobr Lan Môr yw'r safon genedlaethol ar gyfer y traethau gorau, ac mae arwydd o ansawdd sy'n gwarantu y bydd ymwelwyr yn dod o hyd i ddarn o'r arfordir glân, deniadol ac wedi'i reoli'n dda.

---



Mae **Marina Penarth** a **Bae Whitmore** wedi ennill **Gwobrau Baner Las** – sef yr eco-labelau byd-eang uchel eu parch yr ymddiriedir ynddynt o gwmpas y byd – ar gyfer 2017. Mae Gwobr y Faner Las yn wobr ryngwladol sy'n cael ei chyflwyno i draethau sy'n cael eu rheoli'n dda ac sydd ag ansawdd dŵr rhagorol a rhaglenni addysg amgylcheddol.

---

# EIN HERIAU A'N RISGIAU

# 4.6 AMCAN 3: EIN HERIAU

Er bod y cynnydd a wnaed hyd yn hyn mewn perthynas â **Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd (y Fargen Ddinesig)** yn gadarnhaol, mae angen inni sicrhau bod buddiannau Bro Morgannwg yn parhau i gael eu hyrwyddo'n effeithiol yn y dyfodol. Un peth sy'n arbennig o berthnasol yw'r angen i hyrwyddo'r maes awyr a Sain Tathan fel canolfannau ar gyfer twf economaidd a chreu swyddi, gan wella mynediad strategol i'r Fro a chynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a'r gwaith cymorthdaledig parhaus o adfywio'r Barri.

---

Mae angen lliniaru yn erbyn yr **ansicrwydd parhaus mewn perthynas â threfniadau cyllido allanol** (wedi'u gwaethygu gan Brydain yn gadael yr UE) a sicrhau cyllid llif prosiectau gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu a chyflawni prosiectau adfywio allweddol sy'n adlewyrchu anghenion a chyfleoedd lleol. Yn ogystal, mae'n debygol y bydd cyllid cyfalaf gan y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig ar gyfer pob sector yn dod i ben yn 2020, gan arwain at bwysau cost ar y cyngor yn y blynyddoedd dilynol. Mae'r cyllid wedi cael ei ddefnyddio i fuddsoddi yn asedau'r cyngor ers 2004.

Yn ystod 2017–18, roedd y **Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth** (Gwasanaethau Gweladwy a Thrafnidiaeth gynt) yn wynebu heriau sylweddol wrth weithredu'r newidiadau a oedd yn gysylltiedig â thrawsnewid busnes y gwasanaeth er mwyn gwneud cyfanswm o £525k o arbedion. I raddau helaeth, roedd yr arbedion yn gysylltiedig â symud y busnes i fodel Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth. Cafodd y strwythur diwygiedig ei gymeradwyo gan Aelodau'r Cabinet ar 6 Tachwedd 2017 a dechreuwyd y broses gymathu ar 23 Tachwedd 2017. Ar gyfer 2018–19, mae bellach angen i'r gwasanaeth wneud arbedion gwerth £827k sy'n gysylltiedig â'r ailstrwythuro. O'r ffigur hwnnw, bydd arbedion gwerth £300k yn cael eu gwneud o ganlyniad i fodel Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth wrthi'n ystyried y cynigion ar gyfer y ffordd y bydd gweddill yr arbedion sylweddol yn cael eu gwneud, a bydd hyn yn destun adroddiad gan y Cabinet yn ystod 2018.

Cafodd y gwaith o fabwysiadu fframwaith **Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan** ei ohirio i adlewyrchu gwaith ychwanegol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru mewn ymgynghoriad â'r cyngor a'r maes awyr er mwyn creu cynllun meistr cyflawn ar gyfer y cyfleoedd ar gyfer y maes awyr a'r Ardal Fenter yn eu cyfanrwydd. O ganlyniad, roedd yn rhaid inni aros am gyfarwyddiadau gan Lywodraeth Cymru cyn symud pethau yn eu blaen. Pan gytunir ar y cynllun meistr, bydd hyn yn cael ei wneud yn unol â phroses y Canllawiau Cynllunio Atodol.

Er y cynnydd cadarnhaol, ni chafodd y **Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Safonau Parcio ac Ynni Adnewyddadwy** eu terfynu yn ôl y disgwyl yn ystod 2017–18, ond mae'r gwaith hwn wedi cael ei symud ymlaen i 2018–19.

## 4.7 AMCAN 4: EIN HERIAU



Mae'r system gynllunio yng Nghymru yn mynd trwy gyfnod o newid digynsail gyda chyflwyniad **Deddf Cynllunio Cymru 2015, Deddf Llesiant Cenedlaethol y Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016**, a'r holl newidiadau canlynol i'r system gynllunio sy'n gysylltiedig â gweithredu'r deddfwriaethau hyn. Mae hyn yn dod mewn cyfnod lle mae cyllidebau llywodraethau lleol yn gostwng. Mae hefyd yn dilyn un o'r dirwasgiadau dyfnaf yr effeithiwyd ar y DU yn ei chyfanrwydd erioed, ac ar Gymru yn benodol. Er gwaethaf yr uchod, mae Bro Morgannwg yn parhau i gydnabod y rôl bwysig y mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn ei chwarae wrth ailfywiogi'r economi a chymunedau i sicrhau bod twf economaidd ac adfywio'n arwain at dwf cynaliadwy yn yr economi leol, wrth amddiffyn a gwella nodweddion trefol a gwledig Bro Morgannwg, sydd yn y pen draw yn ei gwneud yn un o'r lleoedd gorau yng Nghymru i fyw ynddo.

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn parhau i wneud **enillion** sylweddol gan ddatblygwyr o dan **Adran 106**, ond mae pryderon nad oes gan Wasanaeth Trafnidiaeth Gymunedol Greenlinks gyllideb flynyddol sefydlog ar gyfer y dyfodol, ac o ganlyniad ni ellir bod yn sicr pa mor gynaliadwy yw'r cynllun disgresiynol hwn. Er hynny, mae cyllid grant wedi cael ei gaffael i brynu cerbydau newydd yn lle'r hen fflyd. Mae'r galw am y cynllun yn cynyddu, yn enwedig gyda'r gwasanaeth bysiau lleol sy'n cael ei ddarparu ym Mro Morgannwg yn cael ei leihau, ac mae'n glir fod y cynllun gwirfoddol hwn yn gyswllt trafnidiaeth hanfodol ar gyfer ein trigolion. Mae'r niferoedd y mae'r gwasanaeth yn darparu

ar eu cyfer yn gyson, ac mae bob amser angen mwy – ond mae angen dybryd i gynyddu nifer y gyrwyr gwirfoddol i ymdopi â'r galw cyfredol. Yr her fydd recriwtio a chadw gyrwyr gwirfoddol a nodi cyllid ar gyfer rhedeg y gwasanaeth yn y dyfodol, fel ein bod yn gallu parhau i wella mynediad a chynhwysiant cymdeithasol o fewn ardaloedd gwledig y Fro.



Mae cwblhau **rhaglen dair blynedd y cyngor i osod arwyneb newydd ar ffyrdd** er mwyn cydymffurfio â'n dyletswydd gyfreithiol i gynnal y priffyrdd i safon ddiogel yn parhau i fod yn her, o ystyried yr ased sy'n dirywio a'r buddsoddi cyfyngedig mewn gwaith cynnal a chynnal. Yn ogystal, mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen hon yn cynnwys damweiniau'n digwydd a hawliadau yswiriant yn cael eu dwyn yn erbyn y cyngor. Bydd cwblhau'r rhaglen waith ar gyfer 2017–18 yn lleihau'r lefelau o atgyweiriadau cynnal a chadw adweithiol a'r potensial ar gyfer hawliadau yswiriant, ond mae angen cynnal y cynnydd hwn am flynyddoedd olaf y cynllun (hyd 2019), a fydd yn golygu dod o hyd i fuddsoddiad mawr o dros £2 miliwn y flwyddyn.

Her allweddol wrth symud ymlaen yw **twf cynyddol parhaus y traffig ym Mro Morgannwg**, gyda phwyslais penodol ar ddwyrain y Fro, sy'n arwain at ragor o lygredd ac yn cael effaith negyddol ar gynhyrchiant economaidd.

Mae **costau ynni uwch** ar gyfer cyflenwadau trydan nad ydynt o dan fedrydd mewn perthynas â goleuadau stryd yn parhau i fod yn her allweddol o ystyried cyllidebau llai a'r angen i gyflawni arbedion sylweddol fel rhan o ail-lunio'r agenda. Mae'r gost wedi cynyddu o bron 20% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.



## 4.8 AMCAN 3: RISGIAU I'N GWASANAETHAU NI

Mae pob un o'r risgiau i'n gwasanaethau ni a nodwyd trwy ein cynlluniau gwasanaeth wedi cael eu halinio â chanlyniad llesiant ac amcan cysylltiedig. Mae saith risg wedi eu halinio ag Amcan 3: Hybu adfywio, twf economaidd a chyflogaeth. Gellir grwpio'r rhain yn unol â phedair thema sy'n gysylltiedig â chyflawni'r Cynllun Corfforaethol. Mae grwpio'r risgiau yn unol â'r themâu hyn yn ein galluogi i ddeall risg yn well ac i werthuso'r effaith y gallai agweddau lluosog ar risg ei chael ar ein gallu i gyflawni agweddau allweddol y Cynllun Corfforaethol, yn ogystal ag i nodi unrhyw ryngberthynas rhwng y risgiau sydd wedi cael eu halinio â themâu. Mae'r pedair thema sy'n gysylltiedig â'r amcan hwn fel a ganlyn:

- Rheoli adnoddau'n effeithiol i gynnal y gwaith o ddarparu gwasanaethau a hybu twf economaidd, buddsoddiadau a swyddi
- Cynyddu cyfleoedd cyflogaeth
- Hybu cydweithio (y Fargen Ddinesig)
- Cydymffurfiaeth ddeddfwriaethol (yn gysylltiedig â theithio llesol)


Os nad yw'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r themâu hyn yn derbyn sylw mewn modd effeithiol, gallent gael effaith andwyol ar y gwaith o gyflawni ein Cynllun Corfforaethol. Felly, rydym wedi rhoi prosesau cadarn ar waith i sicrhau ein bod yn adolygu ac yn monitro risgiau yn rheolaidd fel ein bod yn gallu eu rheoli mewn modd effeithiol. Gan fod natur y risgiau sy'n gysylltiedig â'r amcan hwn yn drawstoriadol, mae'n bosibl y byddant hefyd yn cael effaith ar agweddau eraill ar gyflawni'r Cynllun Corfforaethol. Er enghraifft, mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â cholli neu leihad grantiau allanol ac effaith hynny ar ein gallu i gynllunio ymlaen llawn yn berthnasol i'r amcan hwn ond mae wedi derbyn sylw o dan Ganlyniad 1: Bro ddiogel a chynhwysol – Amcan 1: Lleihau tlodi ac ynysu cymdeithasol.

Mae'r map gwres isod yn dangos bod y rhan fwyaf o'r risgiau wedi'u dosbarthu'n gyfartal ar draws rhannau canolig i ganolig/uchel y cwadrant. Ar ddiwedd y flwyddyn 2017–18, roedd dwy yn

ganolig/uchel a rhoddwyd sgôr ganolig i bedair ohonynt. Ni roddwyd sgôr ganolig/isel i unrhyw risgiau. Mae'r risgiau canolig/uchel yn ymwneud â'n hanallu i fodloni gofynion Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â theithio llesol. Er bod y risg hon wedi derbyn sgôr ganolig/uchel, mae hyn yng nghyd-destun y corff helaeth o ddeddfwriaeth y mae'n rhaid inni ei ddilyn yn gyffredinol fel awdurdod lleol yn hytrach nag mewn perthynas â gwaith penodol o amgylch teithio llesol. Yn ystod 2017–18, rydym wedi gwneud cynnydd cryf mewn perthynas â bodloni ein gofynion o dan y Mesur Teithio Llesol, ac mae'r set derfynol o Fapiau Teithio Llesol wedi cael ei diweddaru yn dilyn ymgynghoriad helaeth â'r cyhoedd. Mae'r Mapiau Rhwydwaith Integredig a'r Mapiau Llwybrau Cyfredol bellach wedi cael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, ac mae'r rhain yn amlinellu dyheadau'r awdurdod ar gyfer gwella llwybrau teithiol llesol ledled Bro Morgannwg dros y 15 mlynedd nesaf.

Er bod natur y risgiau sy'n gysylltiedig â'r amcan hwn â'r potensial i fod yn broffil uchel, maent yn cael eu rheoli'n effeithiol trwy gyfres o fesurau lliniaru i sicrhau bod y risgiau'n parhau i fod ar lefel y gellir ei rheoli.

Isod mae map gwres sy'n plotio'r sgoriau risg gweddilliol ar gyfer pob risg berthnasol i wasanaethau sydd wedi'i halinio â'r amcan hwn yn ystod 2017–18.



| Cyfeirnod Risg | Disgrifiad o'r Risg | Lle Rydym Arni | Lle Disgwylir y Byddwn Arni |
|---|---|---|---|
| **Rheoli adnoddau'n effeithio i gynnal y gwaith o ddarparu gwasanaethau a hybu twf economaidd, buddsoddiadau a swyddi** | | | |
| 1 | Methu â nodi a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd posibl i gynhyrchu incwm. (Adfywio a Chynllunio) | ↔ | ↔ |
| 2 | Pwysau uwch ar adnoddau cyfyngedig o ganlyniad i feysydd sydd angen rhagor o waith cynnal a chadw. (Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth) | ↔ | ↔ |
| **Cyfleoedd cyflogaeth** | | | |
| 3 | Dirywiad yn yr economi yn cael effaith ar gyfleoedd cyflogaeth. (Adfywio a Chynllunio) | ↔ | ↔ |
| **Hybu cydweithio** | | | |
| 4 | Methu â rheoli'r agenda gydweithiol yn effeithiol, h.y. y Fargen Ddinesig. (Adfywio a Chynllunio) | ↔ | ↑ |
| **Cydymffurfiaeth ddeddfwriaethol** | | | |
| 5 | Anallu i fodloni gofynion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â theithio llesol. (Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth) | ↔ | ↔ |

## 4.9 AMCAN 4: RISGIAU I'N GWASANAETHAU NI

Mae pob un o'r risgiau i'n gwasanaethau ni a nodwyd trwy ein cynlluniau gwasanaeth wedi cael eu halinio â chanlyniad llesiant ac amcan cysylltiedig. Mae 13 risg wedi eu cysylltu ag Amcan 4: Hybu datblygu cynaliadwy ac amddiffyn ein hamgylchedd. Gellir grwpio'r 13 risg hyn yn unol â thair thema sy'n gysylltiedig â chyflawni'r Cynllun Corfforaethol. Mae grwpio'r risgiau yn unol â'r themâu hyn yn ein galluogi i ddeall risg yn well ac i werthuso'r effaith y gallai agweddau lluosog ar risg ei chael ar ein gallu i gyflawni agweddau allweddol y Cynllun Corfforaethol, yn ogystal ag i nodi unrhyw ryngberthynas rhwng y risgiau sydd wedi cael eu halinio â themâu. Mae'r themâu sy'n gysylltiedig â'r amcan hwn fel a ganlyn:

- Rheoli adnoddau'n effeithiol i gynnal y gwaith o ddatblygu a darparu gwasanaethau
- Cydymffurfiaeth ddeddfwriaethol a bodloni safonau cenedlaethol
- Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i hybu datblygu cynaliadwy a gwella cyfleusterau cymunedol

Os nad yw'r risgiau'n derbyn sylw mewn modd effeithiol, gallent gael effaith andwyol ar y gwaith o gyflawni ein Cynllun Corfforaethol. Felly, rydym wedi rhoi prosesau cadarn ar waith i sicrhau ein bod yn adolygu ac yn monitro'r risgiau hyn yn rheolaidd fel ein bod yn gallu eu rheoli mewn modd effeithiol. Gan fod natur y risgiau sy'n gysylltiedig â'r amcan hwn yn drawstoriadol, mae'n bosibl y byddant hefyd yn cael effaith ar agweddau eraill ar gyflawni'r Cynllun Corfforaethol. Er enghraifft, mae cystadlu dros yr adnoddau prin o fewn y cyngor ac effaith hynny ar ein gallu i ddarparu gwasanaethau anstatudol yn berthnasol i'r amcan hwn; nid yn unig y mae'n benodol i'r amcan hwn ond mae hefyd yn berthnasol yn gyffredinol.

Mae'r map gwres isod yn dangos bod y risgiau wedi'u dosbarthu'n gyfartal ar draws rhannau canolig i ganolig/uchel y cwadrant. Ar ddiwedd y flwyddyn 2017–18, ni roddwyd sgôr uchel i unrhyw risgiau, rhoddwyd sgôr ganolig/uchel i bump ohonynt, sgôr ganolig i chwech ohonynt, a chafodd dwy sgôr isel.

Roedd y risgiau canolig/uchel a nodwyd yn ymwneud â’r canlynol:

- Anallu i gyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd oherwydd adnoddau cyfyngedig


- Methiant i gael Refeniw Gwastraff a Thrafnidiaeth ac unrhyw gyllid cyfalaf arall gan Lywodraeth Cymru
- Pwysau cynyddol ar gyllidebau gwastraff a thrafnidiaeth o ganlyniad i ddatblygiadau newydd yn effeithio ar ein gallu i wneud rhagor o arbedion o fewn gwasanaethau
- Cystadlu dros adnoddau prin o fewn y cyngor yn cael effaith ar ein gallu i ddarparu gwasanaethau anstatudol
- Anallu i fodloni gofynion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chanllawiau statudol ar drafnidiaeth a gwastraff (Glasbrint Gwastraff)

Mae'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd wedi cael ei effeithio gan broblemau ynglŷn â'r gweithlu yn ystod 2017–18. Mae'r gwasanaeth wedi profi anawsterau wrth recriwtio a chadw arbenigwyr priffyrdd o ganlyniad i effeithiau grymoedd y farchnad, lle mae cyflogau'n fwy cystadleuol yn y sector preifat. Er mwyn lliniaru effeithiau hyn, mae'r gwasanaeth wedi canolbwyntio ar gyfres o waith cynllunio a datblygu gyrfa, wrth adeiladu tîm o arbenigwyr yn y meysydd hyn sy'n hanfodol i'r busnes. Mae'r gwasanaeth yn parhau i ganolbwyntio ar ymchwilio i ffyrdd eraill o fynd i'r afael â phroblemau recriwtio mewn perthynas â'r swyddi arbenigol hyn.

Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r pwysau ar ein cyllidebau gwastraff a thrafnidiaeth o ganlyniad i unrhyw dwf mewn datblygiadau ac effaith y gofynion deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r Glasbrint Gwastraff newydd ac unrhyw ostyngiadau posibl i gyllid grant yn parhau i fod yn uchel. Er mwyn lliniaru yn erbyn effaith y datblygiadau newydd a'r pwysau mae hyn yn eu rhoi ar ein seilwaith gwastraff a thrafnidiaeth, rydym wedi parhau i geisio cyllid priodol o dan Adran 106, yn ogystal â gwneud cynigion i Lywodraeth Cymru trwy ei Rhaglen Newid Gydweithredol ar gyfer gwastraff. Mae'r potensial y bydd unrhyw gyllid gan Lywodraeth Cymru yn gostwng yn parhau i fod yn bryder cyson a allai gael effaith andwyol ar ein gallu i wella ein seilwaith gwastraff a thrafnidiaeth yn y cyd-destun hwn, gyda'r angen inni ddilyn gofynion deddfwriaeth y dyfodol sy'n gysylltiedig â chasglu ac ailgylchu gwastraff. Yn dilyn cwblhau'r Rhaglen Weithredu Gwastraff ac Adnoddau (WRAP), rydym wedi datblygu Strategaeth Rheoli Gwastraff newydd i adlewyrchu'r newidiadau mae angen eu gwneud i'r ffordd y darperir gwasanaethau. Gan y bydd y newidiadau hyn yn newid y ffordd rydym yn casglu gwastraff yn sylweddol yn y dyfodol, cynhelir gwaith helaeth ar gynllunio, paratoi ac ymgynghori yn ystod 2018–19 cyn i'r newidiadau gael eu gweithredu'n llawn. O ran cynaliadwyedd cyllid, mae hyn yn bryder parhaus ar gyfer y maes gwasanaeth oherwydd natur gylchol dyrannu grantiau bob blwyddyn. Mae'n gwneud cynllunio ymlaen llaw yn arbennig o anodd mewn perthynas â gwelliannau mawr i wasanaethau gwastraff/trafnidiaeth. Yn ystod 2017–18, gwnaethom gyflwyno ein cynnig i Lywodraeth Cymru am grant amgylcheddol bach, a oedd yn llwyddiannus, a chafodd ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau rheoli dŵr, bioamrywiaeth a gwastraff.

Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o'r risgiau sydd wedi cael eu halinio â'r amcan hwn yn cael eu rheoli'n effeithiol gan set gytbwys o fesurau rheoli cyfredol, i sicrhau ein bod yn gallu rheoli a monitro lefelau risg a chadw risgiau ar lefelau y gellir eu rheoli. Ar gyfer y risgiau hynny sy'n fwy anodd eu rheoli, mae'r meysydd gwasanaeth sy'n gyfrifol am y risgiau hyn yn parhau i fod yn ymrwymedig i ymchwilio i ffyrdd i liniaru unrhyw effeithiau tebygol ymhellach.

Isod mae map gwres sy'n plotio'r sgoriau risg gweddilliol ar gyfer pob risg berthnasol i wasanaethau sydd wedi'i halinio â'r amcan hwn yn ystod 2017–18.




| Cyfeirnod Risg | Disgrifiad o'r Risg | Lle Rydym Arni | Lle Disgwylir y Byddwn Arni |
|---|---|---|---|
| **Rheoli adnoddau'n effeithiol i gynnal y gwaith o ddatblygu a darparu gwasanaethau** | | | |
| 1 | Anallu i gyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd oherwydd adnoddau cyfyngedig. (Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth) | ↓ | ↔ |
| 2 | Methiant i gael Refeniw Gwastraff a Thrafnidiaeth ac unrhyw gyllid cyfalaf angenrheidiol arall gan Lywodraeth Cymru. (Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth) | ↔ | ↔ |
| 3 | Pwysau cynyddol ar gyllidebau trafnidiaeth a gwastraff o ganlyniad i ddatblygiadau newydd yn arwain at anallu i gyflawni rhagor o arbedion o fewn gwasanaethau. (Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth) | ↔ | ↔ |
| 4 | Cyllidebau sy'n mynd yn llai bob blwyddyn yn cael effaith negyddol ar ein gallu i gynnal safonau uchel o lendid amgylcheddol yn gyson. (Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth) | ↔ | ↔ |

| Cyfeirnod Risg | Disgrifiad o'r Risg | Lle Rydym Arni | Lle Disgwylir y Byddwn Arni |
|---|---|---|---|
| 5 | Cystadlu dros adnoddau prin o fewn y cyngor yn peri risg uwch y bydd gwasanaethau anstatudol yn colli adnoddau. (Adfywio a Chynllunio) | ↔ | ↔ |
| 6 | Methu â nodi a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd posibl i gynhyrchu incwm. | ↔ | ↔ |
| **Cydymffurfiaeth ddeddfwriaethol a bodloni safonau cenedlaethol** | | | |
| 7 | Anallu i fodloni gofynion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chanllawiau trafnidiaeth a gwastraff Statudol (e.e. y Glasbrint Gwastraff). (Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth) | ↔ | ↔ |
| 8 | Methu â bodloni targedau ailgylchu cenedlaethol. (Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth) | ↓ | ↔ |
| 9 | Methu â chyflawni dyletswyddau cyfreithiol mewn perthynas â'r Ddeddf Llifogydd a Rheoli Dŵr. (Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth) | ↔ | ↔ |
| **Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i hybu datblygu cynaliadwy a gwella cyfleusterau cymunedol** | | | |
| 10 | Methu â mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol yn arwain at ansicrwydd yn y diwydiant datblygu ac effaith bosibl ar y gwaith o ddarparu tai. (Adfywio a Chynllunio) | ↔ | ↓ |
| 11 | Anallu i gynyddu cyfraniadau Adran 106 wrth ystyried y Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol a newidiadau posibl eraill i'r ddeddfwriaeth. (Adfywio a Chynllunio) | ↔ | ↔ |
| 12 | Methu â sicrhau arferion datblygu cynaliadwy i liniaru effaith newid yn yr hinsawdd mewn perthynas â defnyddio tir a chynllunio'r defnydd o dir. (Adfywio a Chynllunio) | ↔ | ↔ |
| 13 | Effaith y canfyddiad rheoleiddiol a biwrocrataidd o'r system gynllunio a goblygiadau Brexit, gan gael effaith negyddol ar gyfleoedd ar gyfer datblygu a buddsoddi. (Adfywio a Chynllunio) | ↔ | ↔ |

BRO UCHELGEISIOL A DIWYLLIANNOL FYWIOG

# CYNGOR BRO MORGANNWG

## Bro Uchelgeisiol a Bywiog o ran Diwylliant

VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG

ADOLYGIAD BLYNYDDOL O BERFFORMIAD 2017–18 (EBRILL 2017 – MAWRTH 2018)

**Ein statws COG (coch/oren/gwyrdd) cyffredinol ar gyfer 'Bro Uchelgeisiol a Bywiog o ran Diwylliant' yw OREN**

## 5.0 DATGANIAD SEFYLLFA

Mae gweledigaeth Cyngor Bro Morgannwg o weithio gyda'n gilydd i adeiladu cymunedau cryf sydd â dyfodol addawol yn sail i'n holl weithgareddau o dan y canlyniad llesiant hwn. Yn wir, mae sicrhau bod gan bob plentyn, person ifanc ac oedolyn fynediad at gyfleoedd gwych ar gyfer addysg gydol oes leol yn hanfodol i'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol. Er gwaethaf yr agenda cyni cenedlaethol sydd wedi cael effaith drom arnom, yn enwedig o ran cyllid ar gyfer ein hysgolion a chyllid ar gyfer cyfleoedd dysgu er mwyn i ddinasyddion gyrraedd eu llawn botensial, rydym wedi parhau i sicrhau bod ein cynlluniau ar gyfer y Fro yn uchelgeisiol. Mae gennym reswm dros ddathlu ein perfformiad gan fod cymaint wedi'i gyflawni yn ystod 2017-18, ac mae'r prif bwyntiau allweddol yn cael eu hamlinellu isod. Mae'r cyflawniadau hyn yn dangos ein hymrwymiad parhaus i gyflawni'r deilliannau addysg gorau yng Nghymru, sydd cystal â'r awdurdodau mwyaf llwyddiannus yn Lloegr sydd â phroffiliau cymdeithasol-economaidd tebyg.

Yn gyffredinol, rydym wedi gwneud cynnydd da tuag at gyflawni blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer Blwyddyn 2 mewn perthynas â Chanlyniad Llesiant 3 a'i amcanion cysylltiedig, sef 'Codi safonau llwyddiant cyffredinol' a 'Gwerthfawrogi diwylliant ac amrywiaeth'. Mae hyn wedi cyfrannu at statws oren cyffredinol ar gyfer y canlyniad ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae 91% o'r gweithgareddau a gynlluniwyd ar gyfer y cyfnod 2017–18 sydd wedi cael eu halinio â Bro Uchelgeisiol a Bywiog o ran Diwylliant wedi cael eu cwblhau'n llwyddiannus. Mewn perthynas â'r amcan 'Codi safonau llwyddiant cyffredinol', cafodd 90% o'r gweithgareddau a gynlluniwyd eu cwblhau'n llwyddiannus a 92% mewn perthynas â'r amcan 'Gwerthfawrogi diwylliant ac amrywiaeth'. Ar draws y canlyniad, rhoddwyd statws coch i saith cam gweithredu i adlewyrchu'r llaesu dwylo, ac roedd hyn yn cyfrif am 9% o'r holl weithgareddau a gynlluniwyd ar gyfer 2017–18. Roedd y meysydd o laesu dwylo'n ymwneud â'r canlynol: gweithredu datrysiad pwrpasol mewn perthynas â gwasanaeth cyfieithu Cymraeg ar gyfer porth cwsmeriaid Gwasanaethau Tai, y rhagwelir bellach y bydd yn mynd yn fyw ym mis Medi 2018; adolygu ac integreiddio mecanweithiau ymgysylltu ar gyfer Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i alluogi penderfyniadau mwy gwybodus ynglŷn â darparu gwasanaethau; datblygu Panel Ymgysylltu â Dinasyddion o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, sydd bellach yn derbyn sylw mewn modd cydweithiol ar lefel ranbarthol er mwyn manteisio i'r eithaf ar adnoddau; cael gwared ar gyn safle ysgol (Eagleswell), sy'n parhau i fod yn destun trafodaethau â'r cynigydd a ffefrir; gweithredu strwythur syml ar gyfer Gwasanaeth Ieuenctid i wella'r cynnig ar gyfer pobl ifanc ymhellach; a gweithredu argymhellion gan Lywodraeth Cymru ac argymhellion newydd gan Estyn mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal, gan roi sylw penodol i alinio systemau gwybodaeth reoli – sy'n parhau i fod yn faes y mae angen ei ddatblygu.

O'r 47 o fesurau sydd wedi'u halinio â'r canlyniad llesiant hwn, roedd yn bosibl adrodd am ddata ar gyfer 37 ohonynt ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd 62% (23) o'r mesurau'n bodloni'r targed neu'n

rhagori arno (statws perfformiad gwyrdd), 11% (pedwar) o fewn 10% o'r targed (oren), ac roedd y 27% (deg) a oedd ar ôl wedi colli'r targed o fwy na 10% (coch). Roedd y mesurau a gollodd y targed yn ymwneud â'r canlynol: pob disgybl (gan gynnwys disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a disgyblion nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim yn cyrraedd y trothwy Lefel 2, gan gynnwys TGAU gradd A*–C yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf ac mewn mathemateg; disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a phlant sy'n derbyn gofal yn ennill mwy na phum cymhwyster TGAU graddau A*–A; disgyblion sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol cymeradwy; yr amser mae'n ei gymryd i ateb llinell Gymraeg y cyngor; ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus; a staff sy'n cymryd rhan mewn hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Nid oedd statws perfformiad yn berthnasol ar gyfer deg mesur oherwydd nad oedd data diwedd blwyddyn ar gyfer 2017–18 ar gael ar y pryd gan Lywodraeth Cymru (Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol).

Rydym yn parhau i weithredu mewn adeg sy'n heriol dros ben. Er gwaethaf yr effaith y mae toriadau'r llywodraeth yn ei chael ar y cyllid sydd ar gael i awdurdodau lleol a'r pwysau uwch o ran costau, mae'r cyngor wedi ymrwymo i barhau i fuddsoddi mewn ysgolion a'n hamgylcheddau dysgu, a thrwy wella'r rhagolygon ar gyfer ein plant, pobl ifanc ac oedolion, rydym yn buddsoddi yn llwyddiant y Fro yn y dyfodol.

Fel rhan o'r Rhaglen Ad-drefnu a Buddsoddi mewn Ysgolion a'r Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, rydym wedi parhau i wella'r amgylchedd dysgu ar gyfer disgyblion mewn ysgolion ledled y Fro, sy'n ategu gweithredu strategaethau ar gyfer gwella ysgolion a deilliannau addysgol gwell yn llwyddiannus. Mae Cymuned Ddysgu Llanilltud Fawr, a agorodd yn ystod y flwyddyn, eisoes wedi cael effaith gadarnhaol ar lesiant plant ac mae wedi rhoi sylw i'r capasiti dros ben yn Ysgol Llanilltud Fawr trwy leihau nifer y lleoedd ysgol i 1,050. Mae rhieni a phlant wedi ymgartrefu yn yr uned feithrin newydd yn Ysgol Gynradd Fairfield yn rhwydd ac yn gyflym ac maent yn manteisio i'r eithaf ar y ddarpariaeth wych newydd. Bydd dwy ysgol newydd, Ysgol Uwchradd Whitmore ac Ysgol Uwchradd Pencoedtre, yn agor ym mis Medi 2018, gan drawsnewid yr addysg sy'n cael ei darparu yn y Barri. Mae gwaith wedi cael ei gwblhau yn Ysgol Gynradd Colcot i wella'r cyfleusterau cyfredol, ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar ailfodelu Ysgol Gynradd Romilly. Mae llawer o gynnydd wedi'i wneud gyda'r gwaith i estyn Ysgol Bro Morgannwg i fodloni'r galw uwch am leoedd cyfrwng Cymraeg yn y sector uwchradd. Yn yr un modd â phob prosiect y Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, cafodd o leiaf 80% o ddeunyddiau a gwasanaethau eu caffael yn lleol, gan gyfrannu at economi'r Fro hefyd.

Mewn rhai ardaloedd, ond nid pob un, mae cyflawniadau disgyblion Bro Morgannwg yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol. Yn ystod 2016–17, roedd gostyngiadau mewn cyrhaeddiad a chynnydd addysgol mewn nifer o gyfnodau allweddol, er bod ein perfformiad yn gyffredinol yn y rhain yn parhau i fod ymhlith yr uchaf yng Nghonsortiwm Canolbarth y De ac yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Er gwaethaf ein perfformiad cryf, rydym yn cydnabod bod y deilliannau ar gyfer plant sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn parhau i fod yn waeth na'r canlyniadau ar gyfer eu cyfoedion, ac rydym yn cymryd camau pendant i roi sylw i'r mater hwn fel mater o flaenoriaeth.

Rydym yn parhau i weithio gydag Estyn a'r consortiwm i sicrhau bod ein hysgolion yn cael eu harwain a'u rheoli'n dda, yn derbyn cymorth priodol, ac yn cael eu herio mewn modd effeithiol i wella cyrhaeddiad a rhagolygon y plant a'r bobl ifanc sy'n byw yn y Fro. Mae ein dull ar gyfer datblygu ysgolion sy'n hunanwella bellach wedi'i sefydlu'n dda, gyda digwyddiadau rheolaidd yn cael eu cynnal sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer rhannu arferion da a rhagorol sydd ar waith o fewn y Fro ac ar draws y rhanbarth. Mae hyn yn cyfrannu at wella dyfarniadau mewn arolygiadau, lefelau o gyrhaeddiad a chanlyniadau categoreiddio ar draws ysgolion. Nid oes unrhyw ysgolion mewn categori camau dilynol statudol (mesurau arbennig o welliant sylweddol) ac un ysgol yn unig sy'n parhau i fod yn y categori camau dilynol yn sgil adolygiad gan Estyn (Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn). Mae cyfraddau absenoldeb o ysgolion uwchradd a chynradd yn parhau i fod yn y chwartel uchaf ar gyfer perfformiad yng Nghymru.

Yn ogystal â gweithio gyda phob ysgol a'r consortiwm i sicrhau'r deilliannau gorau ar gyfer disgyblion, rydym yn parhau i ddarparu amrediad o gymorth ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd gan ein bod yn cydnabod y bydd angen cymorth ychwanegol ar rai pobl ifanc i oresgyn anawsterau a all eu hatal rhag cyflawni. Trwy fentrau megis Teuluoedd yn Gyntaf rydym wedi parhau i weithredu camau atal ac ymyrraeth gynnar ar gyfer pobl ifanc a'u teuluoedd i'w galluogi i gymryd rhan lawn mewn addysg a chyfleoedd dysgu eraill. Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, roedd defnyddwyr gwasanaeth (dros 98% yn 2017–18) yn hapus gyda'r gwasanaeth roeddent wedi'i dderbyn a'i effaith gadarnhaol.

O ganlyniad i'n dull cydgysylltiedig gyda phartneriaid, rydym wedi gwella'r ffordd rydym yn tracio, nodi a chefnogi pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), neu bobl ifanc mae'n bosibl y byddant yn dod yn NEET, gan arwain at ostyngiad sylweddol mewn lefelau NEET dros y blynyddoedd diwethaf. Ar 1%, mae lefelau NEET yn y Fro ymhlith yr isaf yng Nghymru (3ydd ar ôl Ceredigion a Phowys) ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11. Ar 0.6%, ein perfformiad mewn perthynas â lefelau NEET ar gyfer Blwyddyn 12 yn uwch o lawer na chyfartaledd Cymru o 1%. Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, fod angen inni wneud mwy er mwyn gostwng lefelau NEET, yn enwedig ar gyfer Blwyddyn 13, lle mae ein perfformiad, er ei fod yn gwella (2.85%), yn parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru o 2.63%, ac rydym yn parhau i ganolbwyntio ar y maes hwn. Ers iddi gael ei chyflwyno ym mis Ebrill 2018, mae rhaglen Ysbrydoli i Gyflawni (I2A) eisoes wedi gweithio gyda 347 o bobl ifanc rhwng 11 a 16 mlwydd oed sydd mewn perygl uchel o ddod yn NEET, a derbyniodd 88 o bobl gymorth. Trwy ein Gwasanaeth Ieuenctid arobryn (marc ansawdd efydd), rydym yn cyrraedd mwy o bobl ifanc (11–25 mlwydd oed), gyda mwy o'r rhain y gwnaethom eu cyrraedd yn ennill cymwysterau lleol a rhai a gydnabyddir yn genedlaethol o gymharu â chyfartaledd Cymru. Enillwyd dros 3,000 o achrediadau gan bobl ifanc yn ystod blwyddyn academaidd 2016–17.

Mae'r Fro mewn sefyllfa ffafriol o ran amrywiaeth a hygyrchedd darpariaeth ôl–16 mlwydd oed, gyda chyfleoedd ar gael trwy saith ysgol uwchradd sydd â chweched dosbarth, ysgol arbennig sy'n cynnig darpariaeth i bobl 16–18 blwydd oed sydd ag anawsterau dysgu ac anableddau, Coleg Caerdydd a'r Fro, darpariaeth ymgysylltu sy'n cael ei chynnig gan ddarparwyr yn y sector gwirfoddol megis Ymddiriedolaeth y Tywysog, hyfforddiaethau, Rhwydwaith Gweithwyr Arweiniol y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, a darpariaeth dysgu seiliedig ar waith arall wedi'i chynnig trwy amrediad eang o ddarparwyr lleol. Mae mentrau megis y rhwydwaith Seren yn cefnogi goreuon y Fro i gyflawni eu potensial academaidd llawn a chael mynediad at brifysgolion blaenaf y DU. Mae rhaglen llwybrau 14–16 Coleg Caerdydd a'r Fro yn darparu cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc i ennill y cymwysterau mynediad sydd eu hangen i'w galluogi i dderbyn addysg uwch yng ngholegau a phrifysgolion y DU. Yn ystod y flwyddyn, bu i 135 o ddisgyblion o'r Fro fynychu eu cyrsiau galwedigaethol. Bu i naw disgybl o'r Fro fynychu'r rhaglen Prentisiaethau Iau o Flwyddyn 11, gan gwblhau cymwysterau Lefel 2 neu Ddiploma BTEC ym mis Mehefin 2018. Mynychodd 183 o ddisgyblion o'r Fro raglen llwybrau dysgu 14–16 y Coleg Paratoi Milwrol. Bu Empire Fighting Chance, rhaglen bocsio digyswllt a mentora cyfoedion, yn gweithio gyda 15 disgybl, deg ohonynt yn ddisgyblion risg uchel o'r Uned Cyfeirio Disgyblion, gan ddarparu ymyrraeth un i un wedi'i thargedu. Ym mis Mehefin 2018, mae Model Pum Haen Llywodraeth Cymru ar gyfer ymgysylltu'n dangos bod 90% o bobl 16–18 oed yn y fro naill ai mewn addysg lawn amser neu ran amser, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Mae'r cyngor hefyd wedi cymryd camau uniongyrchol gan greu swyddi â hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc trwy gynllun prentisiaeth y cyngor ei hun, a mentrau a ariennir yn lleol wedi'u hanelu at annog cyflogwyr lleol i recriwtio a hyfforddi pobl ifanc – er enghraifft, y cynllun yng Ngwasanaethau Tai ac Adeiladau. Yn ystod yr ychydig o flynyddoedd diwethaf, mae'r cyngor hefyd wedi elwa ar weithgareddau wedi'u targedu trwy brosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop a gafodd eu cyflawni yn y Fro. Er enghraifft, yn ystod y flwyddyn gweithiodd prosiect Ysbrydoli i Weithio Cronfa Gymdeithasol Ewrop (wedi'i anelu at y grŵp oedran 16–25) gyda 55 o bobl ifanc, gyda 15 o'r rhain yn cael swyddi ac 17 yn ennill cymwysterau unigol.

Ers iddi agor ym mis Tachwedd 2016, mae Canolfan Ddysgu'r Fro wedi mynd o nerth i nerth, gan gynnig amrediad eang o gyfleoedd i drigolion o bob oedran i ennill sgiliau a gwybodaeth ac ehangu eu gorwelion. Gall defnyddwyr hefyd gael mynediad at amrediad o gyrsiau addysg i oedolion yn yr un lleoliad, gan gynyddu ymhellach y cyfleoedd dysgu sydd ar gael mewn un lle. Yn ystod 2017–18, enillodd y Ganolfan Ddysgu ddyfarniad o 'ddarpariaeth dda gyda rhagolygon da ar gyfer gwella' yn dilyn ei hadolygiad gan Goleg Caerdydd a'r Fro. Mae'r niferoedd sy'n gwneud cyrsiau dysgu i oedolion yn parhau i fod yn uchel, fel y mae cyfraddau llwyddiant ar gyfer dysgwyr sy'n oedolion, sydd ar 94% ar hyn o bryd (blwyddyn academaidd 2016–17), yn uwch na chyfartaledd y bartneriaeth o 92%. (Mae cyfradd llwyddiant yn cyfeirio at nifer yr amcanion dysgu mae unigolion wedi'u cyflawni erbyn diwedd y cwrs wedi'u rhannu â nifer y dysgwyr sydd wedi cofrestru ar gyfer y cwrs. Mae cyfradd llwyddiant uchel yn dangos bod mwy o ddysgwyr yn cwblhau eu cwrs ac yn ennill cymhwyster cydnabyddedig.)

Mae'r cyngor yn parhau i fod wedi ymrwymo i wella a datblygu gwasanaethau ar gyfer siaradwyr Cymraeg a'r rhai sy'n dysgu'r iaith ym Mro Morgannwg, sy'n ategu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o weld miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Trwy ein Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg, rydym yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i sicrhau ein bod yn darparu rhagor o gyfleoedd ar gyfer trigolion lleol, gan gynnwys plant a phobl ifanc, i gymryd rhan mewn gweithgareddau – hynny yw, trwy ddysgu a rhyngweithio cymdeithasol – trwy gyfrwng y Gymraeg. Trwy ein partneriaeth dair blynedd gyda Menter Bro Morgannwg ar ei phen ei hun, bu i 19,500 o bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol yn ystod y flwyddyn. Mae'r cyngor wedi parhau i ddarparu sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar gyfer yr holl staff ac mae'n cefnogi dosbarthiadau Cymraeg ffurfiol ar gyfer staff yn y gweithle, yn ogystal â darparu sesiynau blasu rheolaidd mewn amryw leoliadau. Roedd ein Strategaeth Cymraeg mewn Addysg ar gyfer 2017–20 yn un o'r 15 cynllun awdurdod lleol a gafodd eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, ac ers hynny rydym wedi bod yn gweithio’n ddyfal i weithredu’r cynllun. Rydym hefyd wedi gweithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Caerdydd i ddarparu mynediad at ‘ganolfan ymdrwytho’ i alluogi plant a phobl ifanc nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg i drosglwyddo’n llwyddiannus o addysg cyfrwng Saesneg i addysg cyfrwng Gymraeg.

Mae'r cyflawniadau a amlinellir uchod yn dyst i ymrwymiad a gwaith caled staff, ysgolion, rhieni a phartneriaid allweddol eraill, sy'n parhau i ddarparu amgylchedd cefnogol a'r anogaeth gywir i alluogi pobl ifanc i fod yn uchelgeisiol ac i gyflawni eu llawn botensial.

Yn erbyn y cefndir hwn o gyflawniadau, mae nifer o risgiau a heriau sydd wedi cael effaith ar ein gwasanaethau ac ar y gwaith o gyflawni'r Canlyniad Llesiant hwn. Mae'n debygol y bydd y pwysau sydd ar y cyngor yn parhau ac, er y byddwn yn parhau i geisio amddiffyn gwasanaethau ar gyfer y mwyaf agored i niwed yn ein cymuned, mae'n mynd yn fwyfwy anodd lliniaru effaith toriadau i wasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal a rhoi cymorth i'r rhai sydd mewn angen trwy ein gwaith wedi'i dargedu.

Y Fro yw'r cyngor sy'n derbyn y cyllid isaf ar gyfer pob disgybl yng Nghymru, ac mae gwariant cyhoeddus yn 2017–18 ar yr un lefel ag yr oedd yn 2012–13. Er bod y lefel gymharol fach o gyllid a dderbyniwyd yn dangos bod gwerth da am arian yn cael ei gyflawni wrth inni ddarparu ein gwasanaethau, mae'r angen i barhau i godi lefelau cyrhaeddiad yn erbyn cefndir o gyllid ar gyfer addysg sy'n gostwng yn gyson, a chynnydd yn nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgolion y Fro, yn peri heriau sylweddol ar gyfer y dyfodol. Nid yw'r lefelau isel o gyllid yn gynaliadwy yn y tymor hir a gallent fygwth gwasanaethau yn y dyfodol. Yn ystod y flwyddyn, mae'r cyngor (trwy'r arweinydd a chadeirydd y Fforwm Cyllideb Ysgolion) wedi lleisio ei bryderon wrth Lywodraeth Cymru ynghylch y tangyllido parhaus mae addysg yn y Fro yn ei dderbyn a bydd yn parhau i wneud hynny wrth symud ymlaen.

Rydym yn gweld galw uwch am ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol a disgwyliadau uwch gan gwsmeriaid, sy'n parhau i roi pwysau ychwanegol ar adnoddau addysg canolog yn ogystal â chyllidebau ysgolion unigol. Rydym yn parhau i wneud cynnydd cadarnhaol gyda rhanddeiliaid allweddol wrth ail-lunio darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol mewn ateb i'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol i hwyluso'r gwaith o ddarparu gwasanaeth ymatebol, ansawdd uchel a chost-effeithiol sy'n bodloni anghenion disgyblion ac yn eu cefnogi nhw, eu rhieni, ysgolion a'r cyngor i sicrhau'r cyflawniad a'r llesiant gorau posibl.

Rydym wedi gwneud cynnydd da o ran cynyddu nifer ac amrediad y cyfleoedd dysgu sydd ar gael i oedolion yn y Fro trwy ddysgu cymunedol. Mae llawer wedi manteisio ar y cyfleoedd hyn ac mae ein cyfraddau llwyddiant wedi bod yn uchel. (Mae cyfradd llwyddiant yn cyfeirio at nifer yr amcanion dysgu mae unigolion wedi'u cyflawni erbyn diwedd y cwrs wedi'u rhannu â nifer y dysgwyr sydd wedi cofrestru ar gyfer y cwrs. Mae cyfradd llwyddiant uchel yn dangos bod mwy o ddysgwyr yn cwblhau eu cwrs ac yn ennill cymhwyster cydnabyddedig.) Fodd bynnag, yn y dyfodol mae perygl gwirioneddol na fydd y cyfleoedd hyn yn gynaliadwy yn y tymor hir o ystyried y cyllid is parhaus. Mae hyn yn bygwth rhagolygon llawer o drigolion y Fro, y mae'n bosibl y bydd yn rhaid i lawer ohonynt ailhyfforddi i weithio ar ôl oedran ymddeol, yn ogystal â phobl ddi-waith y mae angen cymorth arnynt i hyfforddi ar gyfer swydd newydd. Er gwaethaf yr heriau, mae ein cynlluniau i sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl i drigolion y Fro i gyflawni eu llawn botensial yn parhau i fod yn uchelgeisiol, a byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth i sicrhau bod y rhai sydd am ddefnyddio addysg i oedolion yn sbardun i wella eu sgiliau'n parhau i gael mynediad at y cyfleoedd hyn.

Yn yr un modd, mae proffil newydd cyllid grant a chyllid Ewropeaidd ar gyfer nifer o fentrau megis Teuluoedd yn Gyntaf, Ysbrydoli i Gyflawni ac Ysbrydoli i Weithio yn parhau i beri heriau. Mae peidio â gwybod lefel y cyllid a hefyd natur tymor byr y cyllid cyfredol yn creu ansefydlogrwydd ac ansicrwydd o ran cynllunio gwaith ar gyfer y dyfodol, a gallai hyn yn ei dro gael effaith ar gynnal y lefelau uchel o berfformiad sydd wedi cael eu cyflawni hyd yn hyn wrth gyflawni'r mentrau hyn.

Wrth inni ddechrau ar Flwyddyn 3 y Cynllun Corfforaethol, byddwn yn parhau i ymateb mewn modd rhagweithiol i'r heriau sydd o'n blaenau trwy gydweithio gyda'n partneriaid i geisio rhagor o gyfleoedd i ail-lunio ein gwasanaethau, gan sicrhau ein bod yn y sefyllfa orau posibl i barhau i ddarparu cyfleoedd ar gyfer holl ddinasyddion y Fro i gyflawni eu llawn botensial. Rydym yn cydnabod bod yr heriau sydd o'n blaenau'n sylweddol, ond er gwaethaf y rhain, rydym yn glir ynghylch yr hyn rydym am ei gyflawni, ac rydym yn credu bod gweithio gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid allweddol yn ein rhoi yn y sefyllfa orau i roi sylw i hyn.

## 5.1 CIPLUN O BERFFORMIAD Y CANLYNIAD

**CAMAU GWEITHREDU**
Mae ein perfformiad ar y trywydd iawn yn erbyn camau gweithredu'r Cynllun Corfforaethol, gan roi statws COG cyffredinol **GWYRDD** inni ar gyfer y canlyniad hwn.

**Camau Gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth**
**Amcan 5: Codi safonau llwyddiant cyffredinol**

| | | | Dd/B | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 27 (G) | 0 (O) | 3 (C) | 0 | 30 |

**Amcan 6: Gwerthfawrogi diwylliant ac amrywiaeth**

| | | | Dd/B | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 45 (G) | 0 (O) | 4 (C) | 1 | 50 |

**Cyfanswm ar gyfer y canlyniad**

| | | | Dd/B | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 72 (G) | 0 (O) | 7 (C) | 1 | 80 |

**MESURAU PERFFORMIAD**
Mae ein perfformiad ar y trywydd yn erbyn y mesurau perfformiad, gan roi statws COG cyffredinol **OREN** inni ar gyfer y canlyniad hwn.

**Mesurau Perfformiad**
**Amcan 5: Codi safonau llwyddiant cyffredinol**

| | | | [12] Dd/B | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 20 (G) | 4 (O) | 6 (C) | 3 | 33 |

**Amcan 6: Gwerthfawrogi diwylliant ac amrywiaeth**

| | | | Dd/B | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 3 (G) | 0 (O) | 4 (C) | 7 | 14 |

**Cyfanswm ar gyfer y canlyniad**

| | | | Dd/B | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 23 (G) | 4 (O) | 10 (C) | 10 | 47 |

Gellir gweld gwybodaeth fanwl am yr holl eithriadau perfformiad mewn perthynas â Chanlyniad Llesiant 3 yn **Atodiad A**.

[12] Mae Dd/B yn golygu ddim yn berthnasol. Mae hyn yn cael ei ddefnyddio lle nad oes targed wedi cael ei osod naill ai oherwydd ei fod yn fesur newydd (rydym wrthi'n sefydlu gwaelodlin) neu gan nad yw'n bosibl gosod targed ar gyfer y mesur. O ganlyniad, ni ellir rhoi statws COG gan nad ydym yn gallu cymharu ein perfformiad â tharged.

# EIN CYNNYDD YN FANWL

## 5.2 AMCAN 5: CODI SAFONAU LLWYDDIANT CYFFREDINOL

Yn ystod 2017–18, buom yn canolbwyntio ar y camau gweithredu canlynol i fynd i'r afael ag Amcan Llesiant 5:

| Camau Gweithredu'r Cynllun Corfforaethol | Cam Gweithredu | | Lle rydym arni o gymharu â statws y chwarter blaenorol |
|---|---|---|---|
| | Camau Gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Statws y Cam Gweithredu | |
| **AC1:** Gwella safonau llwyddiant ar gyfer disgyblion trwy rannu rhagoriaeth rhwng ysgolion a thargedu adnoddau. (2019–20) | 3 | G | ↔ |
| **AC2:** Sicrhau deilliannau gwell ar gyfer grwpiau o ddysgwyr mae risg y byddant yn tangyflawni, megis y rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. (2017–18) | 4 | O | ↓ |
| **AC3:** Cynyddu'r cyfleoedd dysgu ar gyfer unigolion sydd dan anfantais a theuluoedd sy'n agored i niwed. (2018–19) | 3 | G | ↔ |
| **AC4:** Lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. (2019–20) | 4 | G | ↔ |
| **AC5:** Gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr ôl-16 trwy gydweithredu gwell rhwng ysgolion, darparwyr hyfforddiant a busnesau. (2017–18) | 2 | G | ↔ |
| **AC6:** Gweithredu Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol y Gwasanaeth Ieuenctid i sicrhau y gall pobl ifanc (11–25) gael mynediad at wasanaethau cymorth ieuenctid o ansawdd uchel. (2017–18) | 1 | C | ↓ |
| **AC7:** Sicrhau deilliannau uchelgeisiol ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol trwy ymyrraeth gynnar a chydweithio mewn modd effeithiol yn unol â'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol arfaethedig. (2017–18) | 6 | G | ↔ |
| **AC8:** Gweithredu'r rhaglen moderneiddio ysgolion trwy gwblhau Cymuned Ddysgu Llanilltud Fawr newydd a datblygu'r cynigion ar gyfer darparu ysgolion uwchradd yn y Barri. (2017–18) | 5 | O | ↓ |
| **AC9:** Datblygu rhaglen moderneiddio ysgolion yn barod ar gyfer y rownd nesaf o gyllid y Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, a fydd yn dechrau yn 2019–20. (2019–20) | 2 | G | ↔ |

Gellir gweld gwybodaeth fanwl am holl gamau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth sy'n cyfrannu at yr amcan llesiant hwn yn **Atodiad B**.

Bu i'r mesurau canlynol helpu i ddangos ein cynnydd tuag at gyflawni Amcan Llesiant 5:

| Mesurau Perfformiad Corfforaethol | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol (Cyf) / Dangosydd Perfformiad (Cyf) | Disgrifiad o'r Dangosydd | Perfformiad 2016–17 (Blwyddyn Academaidd 2015–16) | Targed 2017–18 | Perfformiad 2017–18 (Blwyddyn Academaidd 2016–17) | Cyfartaledd Cymru 2017–18 | Statws Perfformiad[13] | Lle Rydym Arni (o gymharu â'r flwyddyn flaenorol) |
| **AC1:Gwella safonau llwyddiant ar gyfer disgyblion trwy rannu rhagoriaeth rhwng ysgolion a thargedu adnoddau.** | | | | | | | |
| MPC/168a | Canran yr holl ddisgyblion Blwyddyn 11 sy'n ennill mwy na phum cymhwyster TGAU graddau A*–A. | 21.89% | 23.50% | 24.79% | Dd/B | ☺ | ↑ |
| MPC/092 (Mesur Atebolrwydd Cyhoeddus/006) | Canran yr holl ddisgyblion Blwyddyn 11 sy'n cyrraedd trothwy Lefel 2, gan gynnwys TGAU gradd A*–C yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf ac mewn mathemateg mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol. | 67.06% | 69.90% | 60.4% | 54.8% | [14] ☺ | ↓ |
| MPC/049 | Canran yr holl ddisgyblion Blwyddyn 11 (gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal) mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol cymeradwy. | 0% | 0% | 0.36% | Dd/B | [15] ☹ | ↓ |
| **AC2: Sicrhau deilliannau gwell ar gyfer grwpiau o ddysgwyr mae risg y byddant yn tangyflawni, megis y rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim.** | | | | | | | |
| MPC/041 | Canran y disgyblion Blwyddyn 11 sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a gyrhaeddodd y trothwy Lefel 2, gan | 42.70% | 47.10% | 27.89% | Dd/B | [16] ☹ | ↓ |

---

[13] Statws perfformiad: mae perfformiad ar darged neu'n rhagori arno ☺; mae perfformiad o fewn 10% i'r targed 😐; collwyd y targed o fwy na 10% ☹. Mae lle rydym arni yn cymharu perfformiad 2017–18 â pherfformiad y flwyddyn flaenorol (2016–17) ar gyfer yr holl fesurau lleol. Mae saeth i fyny yn dangos perfformiad gwell na'r flwyddyn flaenorol, tra bo saeth i lawr yn dangos perfformiad gwaeth na'r flwyddyn flaenorol. Mae mesurau cenedlaethol wedi cael eu cymharu â pherfformiad cyfartalog Cymru ar gyfer 2017–18 lle mae hwn ar gael. Mae saeth i fyny yn dangos bod perfformiad y Fro yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, tra bo saeth i lawr yn dangos bod perfformiad y Fro yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

[14] Er y ffaith fod ein perfformiad wedi gostwng i 60.4% o 67.06% yn y flwyddyn academaidd flaenorol, mae'n parhau i fod yr uchaf yng Nghonsortiwm Canolbarth y De ac yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru o 54.8%

[15] Yn ystod y flwyddyn academaidd, gadawodd pum disgybl addysg orfodol heb gymhwyster allanol cymeradwy, ac ni wnaethant barhau mewn addysg, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith.

[16] O ganlyniad i'r newid i'r mesurau perfformiad ar gyfer CA4, bu gostyngiad yn nifer y rhai a gyrhaeddodd trothwy cynhwysol Lefel 2 (L2+), ac yn benodol ar gyfer disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Er y ffaith fod perfformiad ar gyfer y dangosydd hwn wedi gostwng, mae perfformiad y Fro wedi parhau i fod yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer y dangosydd hwn, er bod y bwlch rhwng disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim yn fwy yn y Fro nag yn genedlaethol.

| Mesurau Perfformiad Corfforaethol | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol (Cyf) / Dangosydd Perfformiad (Cyf) | Disgrifiad o'r Dangosydd | Perfformiad 2016–17 (Blwyddyn Academaidd 2015–16) | Targed 2017–18 | Perfformiad 2017–18 (Blwyddyn Academaidd 2016–17) | Cyfartaledd Cymru 2017–18 | Statws Perfformiad[2] | Lle Rydym Arni (o gymharu â'r flwyddyn flaenorol) |
| | gynnwys TGAU gradd A*–C yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf ac mewn mathemateg. | | | | | | |
| MPC/168d | Canran yr holl ddisgyblion Blwyddyn 11 sy'n blant sy'n derbyn gofal sy'n ennill mwy na phum cymhwyster TGAU graddau A*–A. | 0% | 12.50% | 0% | Dd/B | [17] ☹ | ↔ |
| MPC/168b | Canran yr holl ddisgyblion Blwyddyn 11 sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim sy'n ennill mwy na phum TGAU gradd A*–A. | 3.78% | 4.80% | 3.16% | Dd/B | [18] ☹ | ↓ |
| MPC/093 | Canran y disgyblion Blwyddyn 11 sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim (gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal) mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol cymeradwy. | 2.70% | 1.10% | 1.05% | Dd/B | ☺ | ↑ |
| MPC/050 | Canran yr holl ddisgyblion Blwyddyn 11 sydd yng ngofal awdurdod lleol mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol cymeradwy. | 0% | 0% | 0% | Dd/B | ☺ | ↔ |
| MPC/104 | Y ganran o blant Dechrau'n Deg sy'n cyflawni o leiaf y deilliannau disgwyliedig (deilliant o bum neu'n uwch) ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. | 88.31% | 60% | 85.04% | Dd/B | ☺ | ↓ |
| AC3: Cynyddu'r cyfleoedd dysgu ar gyfer unigolion sydd dan anfantais a theuluoedd sy'n agored i niwed. | | | | | | | |
| MPC/043 | Cyfradd llwyddiant ganrannol ar gyrsiau achredig ar gyfer dysgwyr â blaenoriaeth. | 96% | 96% | 96% | Dd/B | ☺ | ↔ |

[17] Mae'r perfformiad hwn yn parhau i fod yn destun siom ac rydym yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i wella lefelau cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal.

[18] Roedd y perfformiad hwn yn destun siom ac arweiniodd at y bwlch rhwng disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a disgyblion nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim yn ehangu ar gyfer y dangosydd hwn. Mewn chwech o wyth ysgol, ni enillodd unrhyw ddisgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim bum gradd A*–A.

| Mesurau Perfformiad Corfforaethol | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol (Cyf) / Dangosydd Perfformiad (Cyf) | Disgrifiad o'r Dangosydd | Perfformiad 2016–17 (Blwyddyn Academaidd 2015–16) | Targed 2017–18 | Perfformiad 2017–18 (Blwyddyn Academaidd 2016–17) | Cyfartaledd Cymru 2017–18 | Statws Perfformiad[2] | Lle Rydym Arni (o gymharu â'r flwyddyn flaenorol) |
| MPC/170 | Y ganran o ddefnyddwyr sy'n dweud eu bod yn fodlon ar wasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf maent wedi ei ddefnyddio. | 97% | 85% | 98.28% | Dd/B | ☺ | ↑ |
| **AC4: Lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.** | | | | | | | |
| MPC/167c | Canran y bobl ifanc sy'n gadael Blwyddyn 13 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. | 3.07% | 2.80% | 2.85% | Dd/B | 😐 | ↑ |
| MPC/167a (Mesur Atebolrwydd Cyhoeddus/009) | Canran y rhai sy'n gadael Blwyddyn 11 y gwyddys nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). | 1.61% | 1.60% | 1% | 1.6% | ☺ | ↑ |
| MPC/167b | Canran y bobl ifanc sy'n gadael Blwyddyn 12 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. | 1.30% | 1.40% | 0.65% | Dd/B | ☺ | ↑ |
| **AC6: Gweithredu Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol y Gwasanaeth Ieuenctid i sicrhau y gall pobl ifanc (11–25) gael mynediad at wasanaethau cymorth ieuenctid o ansawdd uchel.** | | | | | | | |
| MPC/052 | Nifer y canlyniadau achrededig a enillwyd gan ddysgwyr trwy'r Gwasanaeth Ieuenctid. | 2,284 | 2,500 | 3,015 | Dd/B | ☺ | ↑ |
| **AC7: Sicrhau deilliannau uchelgeisiol ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol trwy ymyrraeth gynnar a chydweithio mewn modd effeithiol yn unol â'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol arfaethedig.** | | | | | | | |
| MPC/038 | Canran y datganiadau terfynol o anghenion dysgu ychwanegol a gyhoeddwyd o fewn 26 wythnos, gan gynnwys eithriadau. | 97.83% | 100% | 100% | Dd/B | ☺ | ↑ |
| MPC/039 | Canran y datganiadau terfynol o anghenion dysgu ychwanegol a gyhoeddwyd o fewn 26 wythnos, heb gynnwys eithriadau. | 95.65% | 100% | 100% | Dd/B | ☺ | ↑ |

Gellir gweld gwybodaeth fanwl am yr holl ddangosyddion perfformiad sy'n cyfrannu at yr amcan llesiant hwn yn **Atodiad B**.

# 5.3 AMCAN 6: GWERTHFAWROGI DIWYLLIANT AC AMRYWIAETH

Yn ystod 2017–18, buom yn canolbwyntio ar y camau gweithredu canlynol i fynd i'r afael ag Amcan Llesiant 6:

| Camau Gweithredu'r Cynllun Corfforaethol | Cam Gweithredu | | Lle rydym arni o gymharu â'r chwarter blaenorol |
|---|---|---|---|
| | Camau Gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Statws y Cam Gweithredu | |
| **AC10:** Gwella ein gwybodaeth am anghenion amrywiol y gymuned, fel y gall grwpiau o bobl sy'n cael eu diogelu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 gael mynediad gwell at wasanaethau'r cyngor. (2019–20) | 22 | G | ↔ |
| **AC11:** Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. (2019–20) | 1 | G | ↔ |
| **AC12:** Gweithredu Safonau'r Gymraeg i wella mynediad at wasanaethau a gwybodaeth. (2019–20) | 22 | G | ↔ |
| **AC13: Gweithio gyda phartneriaid yn y gymuned i ddarparu gwasanaeth llyfrgell bywiog ac amrywiol.** (2017–18) | 2 | G | ↑ |
| **AC14: Sefydlu Hyb Celfyddydau ac Addysg o fewn y Llyfrgell Ganolog yn y Barri.** (2017–18) | 0 | **Dd/B** | **Dd/B Agorodd Canolfan Ddysgu'r Fro ym mis Tachwedd 2016. Mae gwaith yn parhau i ddatblygu amrediad eang o gyfleoedd dysgu ac i gynyddu'r defnydd ohonynt.** |
| **AC15:** Adolygu a gweithredu Strategaeth Gelfyddydau'r Fro gyda rhagor o ffocws ar farchnata a gweithio'n rhanbarthol. (2018–19) | 1 | G | ↔ |
| **AC16:** Diogelu a lle bo modd gwella treftadaeth adeiledig Bro Morgannwg a chadw ei hasedau a'i hamgylchedd treftadaethol unigryw a nodedig. (2019–20) | 2 | G | ↔ |

Gellir gweld gwybodaeth fanwl am holl gamau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth sy'n cyfrannu at yr amcan llesiant hwn yn **Atodiad B**.

Bu i'r mesurau canlynol helpu i ddangos ein cynnydd tuag at gyflawni Amcan Llesiant 6:

| Mesurau Perfformiad Corfforaethol | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol (Cyf) / Dangosydd Perfformiad (Cyf)** | **Disgrifiad o'r Dangosydd** | **Perfformiad 2016–17 (Blwyddyn Academaidd 2015–16)** | **Targed 2017–18** | **Perfformiad 2017–18 (Blwyddyn Academaidd 2016–17)** | **Cyfartaledd Cymru 2017–18** | **Statws Perfformiad** | **Lle Rydym Arni (o gymharu â'r flwyddyn flaenorol)** |
| **AC10: Gwella ein gwybodaeth am anghenion amrywiol y gymuned, fel y gall grwpiau o bobl sy'n cael eu diogelu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 gael mynediad gwell at wasanaethau.** | | | | | | | |
| MPC/077 | Canran y bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig sy'n ymateb i ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu corfforaethol. | 2% | Dd/B | 2% | Dd/B | Dd/B | Dd/B |
| **AC11: Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.** | | | | | | | |
| MPC/181 | Nifer yr oedolion sydd newydd ddechrau dysgu Cymraeg (cyrsiau Cymraeg i Oedolion). | 191 | 350 | 380 | Dd/B | ☺ | ↑ |
| **AC12: Gweithredu Safonau'r Gymraeg i wella mynediad at wasanaethau a gwybodaeth.** | | | | | | | |
| MPC/072 | Yr amser mae'n ei gymryd i ateb galwadau i'r llinell Gymraeg ar gyfartaledd (eiliadau). | 35 | 60 | 77 | Dd/B | [20] ☹ | ↓ |
| **AC13: Gweithio gyda phartneriaid yn y gymuned i ddarparu gwasanaeth llyfrgell bywiog ac amrywiol.** | | | | | | | |
| MPC/051 (Mesur Atebolrwydd Cyhoeddus/016) | Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn, fesul 1,000 o'r boblogaeth. | 5,217.34 | 5,700 | 4,901 | 5,270 | [21] ☹ | ↓ |
| **AC15: Adolygu a gweithredu Strategaeth Gelfyddydau'r Fro gyda rhagor o ffocws ar farchnata a gweithio'n rhanbarthol.** | | | | | | | |
| MPC/233 | Nifer y prosiectau celf a gafodd eu sicrhau trwy Adran 106. | Dd/B | Dd/B | 5 | Dd/B | Dd/B | Dd/B |
| **AC16: Diogelu a lle bo modd gwella treftadaeth adeiledig Bro Morgannwg a chadw ei hasedau a'i hamgylchedd treftadaethol unigryw a nodedig.** | | | | | | | |
| MPC/088 | Canran yr ymwelwyr a oedd yn fodlon ar y Prosiect Treftadaeth Arfordirol yn ôl yr arolwg bodlonrwydd. | 98% | 98% | 100% | Dd/B | ☺ | ↑ |
| MPC/080 | Canran y bobl a oedd yn fodlon ar y parciau gwledig. | 98% | 98% | 99.76% | Dd/B | ☺ | ↑ |

[20] Er y collwyd y targed ar gyfer y flwyddyn o 60 eiliad, roedd y llinell Gymraeg yn dal i berfformio'n well na'r ganolfan gyswllt yn gyffredinol, a oedd yn ymateb galwadau mewn 123 eiliad ar gyfartaledd. Derbyniodd y llinell gyfanswm o 998 galwad yn ystod y flwyddyn. Effeithiwyd ar berfformiad gan y gyfradd uchel o swyddi gwag, cynnydd tymhorol yn y galw a lefelau uchel o salwch tymor byr.

[21] Amharwyd ar y perfformiad cyffredinol gan uwchraddiad mawr i'r system gyfrifiadurol, a oedd yn golygu nad oedd catalog y llyfrgell yn gweithio am nifer o fisoedd, a bu rhagor o amharu oherwydd y ffaith nad oedd y peiriannau hunanwasanaeth poblogaidd yn gweithio oherwydd y newid. Bydd yr elfennau hyn ynddynt eu hunain wedi atal llawer o ymweliadau, tra nad oedd cwsmeriaid bellach yn gallu cadw llyfrau fel arfer neu ddysgu am y llyfrau diweddaraf. Cafodd llyfrgelloedd cymunedol eu sefydlu yn ystod y flwyddyn hefyd ac mae'n debyg na chafodd llawer o ymweliadau eu cofnodi mewn llyfrgelloedd cymunedol am gyfnod, mater sydd bellach wedi derbyn sylw.

Gellir gweld gwybodaeth fanwl am yr holl ddangosyddion perfformiad sy'n cyfrannu at yr amcan llesiant hwn yn **Atodiad B**.

# EIN CYFLAWNIADAU

## 5.4 AMCAN 5: EIN CYFLAWNIADAU



Mae canran **y bobl ifanc sy'n gadael Blwyddyn 11 yn ysgolion y Fro sy'n NEET wedi parhau i leihau am y 10fed flynedd yn olynol** i 0.95% (1.6% yn 2015–16). Mae nifer y bobl ifanc sy'n gadael Blwyddyn 12 sy'n NEET hefyd wedi lleihau o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, o 1.3% i 0.65%. Ym Mlwyddyn 13, roedd 2.85% o bobl ifanc yn cael eu hystyried yn NEET o gymharu â 3.07% yn y flwyddyn flaenorol, sy'n well byth na'r llynedd. Trwy amrediad o fentrau, rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag ysgolion, sefydliadau lleol a chyflogwyr i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET neu y mae'n bosibl y byddant yn dod yn NEET.

---

Rydym yn parhau i **roi cymorth effeithiol i ysgolion a'u herio i sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd da ac nid yw unrhyw ysgolion yn dod o dan gategori monitro Estyn.** Mae ein dull ar gyfer datblygu ysgolion sy'n hunanwella bellach wedi'i sefydlu'n dda, gyda digwyddiadau rheolaidd yn cael eu cynnal sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer rhannu arferion da a rhagorol sydd ar waith o fewn y Fro ac ar draws y rhanbarth. Mae hyn yn cyfrannu at wella dyfarniadau mewn arolygiadau, lefelau o gyrhaeddiad a chanlyniadau categoreiddio ar draws ysgolion. Nid oes unrhyw ysgolion mewn categori camau dilynol statudol (mesurau arbennig o welliant sylweddol) ac un ysgol yn unig sy'n parhau i fod yn y categori camau dilynol yn sgil adolygiad gan Estyn (Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn).Rydym yn parhau i weithio gydag Ysgol Sant Richard Gwyn i adeiladu ar feysydd o gryfder ac i fynd i'r afael â diffygion cyn adolygiad Estyn ym mis Hydref 2018.

---

Ar y cyfan, **mae safonau yn ystod blwyddyn academaidd 2016–17 wedi gwella ar gyfer y rhan fwyaf o'r dangosyddion perfformiad allweddol**, ac yn y rhan fwyaf o achosion mae'r gyfradd gwella wedi bod yn uwch yn y Fro na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

---

Mae **Dangosydd Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen wedi gwella ac mae'n parhau i fod yr uchaf yng Nghonsortiwm Canolbarth y De**. O gymharu ein perfformiad ag awdurdodau lleol eraill, ac eithrio Datblygiad Personol a Chymdeithasol ar gyfer Canlyniad 6, a oedd yn y pumed safle, roedd yr holl ddangosyddion eraill ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn y pedwerydd safle uchaf yng Nghymru.

---




Yng Nghyfnod Allweddol 2, **mae perfformiad yn y Dangosydd Pwnc Craidd wedi parhau i wella**. Dyma'r pumed tro yn olynol rydym wedi symud i fyny ac mae'n gwella safle'r Fro i'r 1af yng Nghymru. O gymharu â pherfformiad awdurdodau lleol eraill, roedd Bro Morgannwg yn y tri uchaf ar gyfer pob dangosydd.

---

**Mae safonau'n parhau i fod yn gryf yng Nghyfnod Allweddol 3**, ar ôl gwella unwaith eto eleni yn Saesneg, mathemateg a'r Dangosydd Pwnc Craidd. Roedd yr holl ddangosyddion eraill yn y lefel ddisgwyliedig ar gyfer Bro Morgannwg, sef y 4ydd safle neu'n uwch, o gymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.


---

**Mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd wedi cynyddu ychydig iawn i 95.07%** o 95.05% yn ystod blwyddyn academaidd 2016–17, wedi'i gefnogi gan ein cydweithio ag ysgolion wrth weithredu

hysbysiadau cosb benodol a'r Strategaeth Callio. Mae hyn yn rhoi ein perfformiad yn y **chwartel uchaf yng Nghymru**, yn y 3ydd safle. Mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd ym Mro Morgannwg yn parhau i fod yn gadarnhaol ar 95.1% (95.3% ym mlwyddyn academaidd 2015–16). Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn parhau i dargedu ysgolion sydd â phresenoldeb gwael i ddarparu cymorth ychwanegol.

Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae'r holl ddatganiadau o anghenion dysgu ychwanegol wedi cael eu cyhoeddi o fewn 26 wythnos (gan gynnwys a heb gynnwys eithriadau), **gan ein cadw ni yn y safle 1af yng Nghymru**.

Yng **Nghyfnod Allweddol 4, cynyddodd y ganran o ddisgyblion a enillodd bum gradd A*–A o 21.9% yn 2016 (blwyddyn academaidd) i 24.4% yn 2017**. Un llwyddiant nodedig yw'r cynnydd yn y Bont-faen, lle y cyrhaeddodd 46.1% o ddisgyblion y mesur hwn. Dyma oedd yr uchaf yn y rhanbarth.



Cododd y ganran o ddisgyblion a gyrhaeddodd y trothwy Lefel 3 yng Nghyfnod Allweddol 5 o 97.8% i 98.1% yn 2017 (blwyddyn academaidd). Parhaodd perfformiad yr awdurdod lleol ar gyfer Safon Uwch i fod yn sefydlog, ar 77.3% ar gyfer graddau A*–C. **Bu i ganran yr ymgeiswyr a enillodd graddau A*–C godi o 22.3% i 26.4% ar gyfer y flwyddyn hon**. Llwyddiant nodedig yw'r gwelliannau yn Ysgol Stanwell, lle roedd 33.9% o'r graddau a ddyfarnwyd yn A*–A.

Mae cau'r bwlch mewn perfformiad rhwng disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer y cyngor. **Yn ôl Dangosydd Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen, mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiad y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys wedi gwella o -13.8% yn 2016 (blwyddyn academaidd) i -10.2% yn 2017**. Dyma'r bwlch lleiaf mewn perfformiad rydym wedi'i weld ac mae'n llai na'r cyfartaledd ar gyfer y rhanbarth. Fodd bynnag, mae'n parhau i fod yn faes y mae angen ei ddatblygu.

**Yn y Dangosydd Pwnc Craidd, mae gwahaniaeth rhwng perfformiad disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys wedi gwella o -13.9% i -12% yn 2017**. Mae'r bwlch yn parhau i fod yn llai na'r cyfartaledd ar gyfer y rhanbarth ac, er bod y gwelliant hwn yn gadarnhaol, mae'n parhau i fod yn faes y mae angen canolbwyntio arno.

**Yng Nghyfnod Allweddol 3, cynyddodd perfformiad dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim o 3.8% ac mae'r bwlch wedi lleihau o -19.9% i -15.3% yn 2017 (blwyddyn academaidd) ac mae'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y rhanbarth**. Er bod hyn yn gadarnhaol, mae'n parhau i fod yn faes y mae angen i'w wella.

Mae gwaith yn parhau gydag ysgolion wrth sicrhau **gweithdrefnau diogelu priodol**, gan gynnwys rhaglen barhaus o hyfforddiant diogelu, polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau diwygiedig, a hunanwerthuso. Mae rhagor o gynnydd wedi cael ei wneud tuag at gydymffurfiaeth well ag arferion recriwtio diogel gan ysgolion, gyda phroses gadarn yn cael ei sefydlu ar gyfer uwchgyfeirio problemau ynghylch diffyg cydymffurfio. Yn ystod 2017–18, mae cydymffurfiaeth wedi parhau i fod yn gymharol gyson mewn ysgolion ar 93%, ond mae dal i fod cryn waith i'w wneud i wella cydymffurfiaeth i lefel gyffredinol y cyngor (95%) a'r lefel gorfforaethol (99%) ac i gyflawni a chynnal cydymffurfiaeth lawn.



Rydym yn parhau i fod yn rhagweithiol wrth annog a chefnogi pobl ifanc i **gymryd rhan yn eu cymunedau lleol a democratiaeth ar bob lefel**. Fel rhan o'r gwaith hwn:

- Pleidleisiodd 4,766 o bobl ifanc dros y Maer Ieuenctid yn ystod Wythnos Democratiaeth Leol.

- - Pleidleisiodd 4,569 o bobl yn y bleidlais 'Gwnewch eich Marc' a chafodd y materion a oedd o'r pwys mwyaf i bobl ifanc eu rhannu â rheolwyr ledled y cyngor ac mae'r rhain yn ffurfio rhan o'r cynllun gweithredu ar gyfer pobl ifanc.

- Mae 11 o bobl ifanc wedi dechrau ACU Lefel 1 newydd mewn Dinasyddiaeth Weithgar.

- Gwnaeth 66 disgybl ac aelod o staff o 33 ysgol gynradd ledled Bro Morgannwg fynychu digwyddiad Llysgenhadon Gwych. Ers y digwyddiad, bu cynnydd o 32% yn nifer yr ysgolion cynradd sy'n ymuno â chynllun Llysgenhadon Gwych Comisiynydd Plant Cymru.

Enillodd Gwasanaeth Ieuenctid y Fro **wobr marc ansawdd efydd ar gyfer gwasanaethau cymorth ieuenctid** ar gyfer pobl ifanc 11–25 oed, ac mae'n un o'r awdurdodau lleol cyntaf yng Nghymru i wneud hyn. Trwy ei waith gyda phobl ifanc, cyflawnwyd 3,015 o ganlyniadau achrededig trwy'r Gwasanaeth Ieuenctid yn 2017–18, sy'n welliant o gymharu â pherfformiad y llynedd o 2,284.

Yn ystod 2017–18 (blwyddyn academaidd 2016–17), **roedd y gyfradd llwyddiant ar gyfer dysgwyr â blaenoriaeth ar gyrsiau dysgu cymunedol achrededig i oedolion yn y Fro yn 94%.** Mae hyn yn 2% yn uwch na pherfformiad y bartneriaeth o 92% ac mae'n golygu mai tîm Dysgu Cymunedol i Oedolion y Fro yw'r darparwr â'r perfformiad gorau. Bu cynnydd hefyd yn nifer y bobl a gofrestrodd ar gyfer cyrsiau i ddysgwyr â blaenoriaeth eleni, o 910 dysgwr gwahanol i 1,150 o ddysgwyr, gan ragori ar y targed a osodwyd o 100 dysgwr ychwanegol. Bu hefyd cynnydd yn nifer y bobl a gofrestrodd yn gyffredinol, o 1,347 i 1,622. Roedd y gwelliant hwn yn rhannol o ganlyniad i argaeledd cyrsiau byr a thargedu gwell er mwyn diwallu anghenion dysgwyr.

Rydym yn parhau i weithredu ymyrraeth gynnar a chamau atal trwy **fenter Teuluoedd yn Gyntaf, gan gyfrannu at ganlyniadau gwell ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn tlodi**. Yn gyffredinol, dywedodd 98.28% (1,370 o 1,394) o ddefnyddwyr gwasanaeth a gafodd fynediad at wasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf yn ystod 2017–18 eu bod yn fodlon ar y gwasanaethau roeddent wedi'u defnyddio, gwelliant pellach o gymharu â'r perfformiad yr adroddwyd amdano'r llynedd o 97%. Mae uchafbwyntiau'r cyflawniadau sy'n ymwneud ag addysg yn ystod 2017–18 yn cynnwys:

- Yn ystod 2017–18, gwnaethom dargedu saith ysgol gan ddefnyddio amrediad o weithgareddau i unigolion a grwpiau â'r nod o dynnu rhwystrau sy'n atal rhieni rhag ymgysylltu. Cafodd 533 o deuluoedd fynediad at y rhaglen, gan ymgymryd â rhaglenni rhianta a chyrsiau achrededig megis Yn Barod i Ddarllen, Yn Barod am Fathemateg a Chymorth Cyntaf. Bu i 48 o rieni gwblhau cwrs Rhaglen Cysylltiadau Teuluol: Magu Plant, cwblhaodd 210 o rieni raglen achrededig, a bu i 83 rhiant fynychu'r dosbarth tylino babanod chwe wythnos. Dywedodd 95.5% o'r cyfranogwyr hyn eu bod yn teimlo'n fwy hyderus ynddynt eu hunain ac ynghylch eu galluoedd yn dilyn yr ymyriad.
- Trwy'r **Rhaglen Cymorth Ieuenctid**, cwblhaodd 192 disgybl unigol 8–19 mlwydd oed Gynllun Pontio Personol i'w helpu i reoli problemau emosiynol ac ymddygiadol yn ystod y cyfnod wrth iddynt symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, a oedd yn darparu technegau ymdopi ar eu cyfer. Dywedodd 100% o'r disgyblion hyn eu bod wedi elwa ar yr ymyriad, gan gynnwys llesiant meddyliol ac emosiynol gwell. Cwblhaodd 28 o bobl ifanc raglen gymorth ddwys EMOJIS. Mae'r rhaglen hon yn cael ei chynnal y tu allan i oriau'r ysgol, gan dargedu pobl ifanc 8–14 mlwydd oed y nodwyd bod ganddynt broblemau emosiynol ac ymddygiadol. O'r 28 o fyfyrwyr a gwblhaodd y rhaglen, enillodd 93% achrediad. Dywedodd 97% o'r myfyrwyr a gwblhaodd y rhaglen eu bod yn gallu ymdopi'n well â phroblemau o ddydd i ddydd yn dilyn yr ymyriad.
- Fel rhan o'r **Cynllun Cerdyn C**, mae gwersi iechyd rhywiol wedi cael eu darparu mewn pedair ysgol gyfun gan y Swyddog Iechyd Rhywiol, gan ymgysylltu ag 846 o ddisgyblion. Trwy'r cynllun, mae pobl ifanc yn cael mynediad at gymorth iechyd rhywiol trwy'r Cynllun Cerdyn C, sy'n rhoi mynediad at gondomau a gwybodaeth am iechyd rhywiol mewn mannau ac ar adegau sy'n gyfleus i bobl ifanc, gan gynnwys yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae cymorth un i un hefyd yn cael ei

ddarparu ar gyfer pobl ifanc sydd wedi cael eu nodi. Nod y prosiect yw lleihau heintiau sy'n cael eu trosglwyddo trwy ryw a chyfraddau beichiogrwydd ar gyfer pobl ifanc rhwng 14 a 19 mlwydd oed. Dywedodd 100% o'r disgyblion a fynychodd y gwersi fod yr hyfforddiant Addysg Perthnasau Rhywiol o fudd iddynt, ac yn cyfrannu at ddealltwriaeth well o berthnasau.

- **Cafodd cymorth pwrpasol un i un yn y cartref a gofal seibiant eu darparu ar gyfer gofalwyr ifanc (7-18 mlwydd oed) i helpu i wella cydnerthedd y gofalwyr ifanc a'u teuluoedd fel rhan o'r prosiect Gofalwyr Ifanc.** Cymerodd 53 o ofalwyr ifanc ran yn y prosiect, gydag 18 yn derbyn cymorth un i un yn y cartref. Dywedodd 94% eu bod yn teimlo'n llai arunig o ganlyniad i gymryd rhan yn y prosiect a bod y rhaglen wedi gwella o leiaf un agwedd ar eu bywyd.

Mae gwelliannau'n parhau i gael eu gwneud i ysgolion trwy'r **Rhaglen Ad-drefnu a Buddsoddi mewn Ysgolion a'r Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif**. Cafodd yr amgylchedd dysgu gwell ei gyflawni trwy'r rhaglen sy'n ategu gweithredu strategaethau ar gyfer gwella ysgolion a deilliannau addysgol gwell yn llwyddiannus. Yn yr un modd â phob prosiect y Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, cafodd o leiaf 80% o ddeunyddiau a gwasanaethau eu caffael yn lleol, gan gyfrannu hefyd at economi'r Fro. Mae'r gwelliannau a wnaed hyd yn hyn yn cynnwys y canlynol:



- Mae **Cymuned Ddysgu Llanilltud Fawr** wedi'i chwblhau'n darparu cyfleusterau addysg o ansawdd uchel a fydd yn cyfrannu at wella safonau wrth ddarparu addysg yn yr ardal ac mae eisoes wedi cael effaith gadarnhaol ar lesiant plant. Mae'r prosiect eisoes wedi rhoi sylw i'r capasiti dros ben yn Ysgol Llanilltud Fawr trwy leihau nifer y lleoedd ysgol i 1,050.
- Wedi'i gyllido trwy arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru, gwnaed cynnydd da yn y gwaith yn Ysgol Gynradd Romilly i ddisodli'r strwythur cyfredol sy'n dirywio a darparu adeilad newydd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn nhymor yr hydref.
- Mae'r uned feithrin newydd yn **Ysgol Gynradd Fairfield** wedi cael ei chwblhau, ac mae rhieni a phlant yn y feithrinfa wedi ymgartrefu yn y ddarpariaeth wych newydd yn rhwydd ac yn gyflym, gan fanteisio i'r eithaf ar yr adnoddau a'r profiadau.
- Mae gwaith yn mynd rhagddo i gynyddu darpariaeth uwchradd yn **Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg** fel rhan o Fand B o Raglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru, i fodloni'r galw cynyddol yn dilyn gwelliannau mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg trwy Fand A o'r rhaglen.
- Gwaith i wella ac ailfodelu tu mewn Ysgol Gynradd Colcot yn y Barri, a fydd hefyd yn rhoi sylw i gapasiti dros ben trwy leihau nifer y lleoedd ysgol i 315.
- Mae gwaith i **drawsnewid addysg uwchradd yn y Barri** ar y trywydd iawn, a dylai'r ysgolion newydd agor ym mis Medi 2018. Mae strwythurau staffio ar gyfer y ddwy ysgol a recriwtio wedi cael eu terfynu ar gyfer agor yr ysgolion ym mis Medi. Cytunwyd ar yr enwau newydd ar gyfer y ddwy ysgol, sef **Ysgol Uwchradd Whitmore** (Ysgol Gyfun y Barri yn flaenorol) ac **Ysgol Uwchradd Pencoedtre** (Ysgol Bryn Hafren yn flaenorol).



Cafodd **Rhaglen Amlinellol Strategol y cyngor**, ar gyfer trawsnewid a gwella nifer o ysgolion o dan Fand B o'r Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, ei chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2017. Roedd y ddogfen hon yn cynnig buddsoddiad o £142.417 miliwn, gyda £83.8245 miliwn o'r cyllid hwn yn dod o Lywodraeth Cymru. Ar 10 Tachwedd 2017, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Addysg, Kirsty Williams, fod cynigion y cyngor yn bodloni amcanion buddsoddi Llywodraeth Cymru ac, yn amodol ar achosion busnes unigol yn cael eu cymeradwyo, fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi'r holl brosiectau a gyflwynwyd. Cafodd hyn ei gadarnhau'n ysgrifenedig ar 6 Rhagfyr 2017. Mae'r buddsoddi parhaus yn ategu gweithredu strategaethau ar gyfer gwella ysgolion a deilliannau addysgol yn llwyddiannus. Yn unol ag amcanion buddsoddi'r cynllun, bydd y buddsoddiad yn helpu i wneud y canlynol: bodloni'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn y Fro; parhau i leihau capasiti dros ben ac aneffeithlonrwydd yn y system;

ehangu ysgolion mewn ardaloedd lle mae galw uwch am wasanaethau addysg; gwella cyflwr asedau addysgol a gwneud asedau ar gael ar gyfer y gymuned lle mae'r galw'n bodoli.

Er mwyn ymdrin â'r cynnydd mewn plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, mae gwaith wedi cael ei wneud i gynyddu capasiti **Ysgol y Deri** a bodloni'r galw uwch. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ail-lunio darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol, ac yn ystod 2017–18 buom yn canolbwyntio ar bedwar prosiect a oedd yn cynnwys pontio, datblygu gwasanaethau allgymorth arbenigol, datrys anghydfodau a datblygu rolau Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cydlynwyr ADY) mewn perthynas â'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd. Mae'r prosiectau hyn wedi bod yn llwyddiannus ac wedi arwain at sefydlu Gweithgor Pontio Caerdydd a'r Fro, sy'n gweithio ar brotocol a phrosiectau pontio. Mae gwasanaethau allgymorth arbenigol bellach yn cael eu rhedeg yn llwyddiannus ar gyfer Lleferydd ac Iaith a Namau Gwybyddol, Corfforol a Synhwyraidd. Mae hyfforddwyr wedi cael eu datblygu ar gyfer hyfforddiant ar ddatrys anghydfodau, sy'n cael ei gyflwyno i ysgolion cynradd ac uwchradd yn ystod tymor yr haf 2018–19. Mae'r holl Gydlynwyr ADY wedi derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch cynnydd y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol, ac maent wedi cael eu hyfforddi ar ddulliau cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion, gan ddefnyddio proffiliau un dudalen mewn ysgolion yn barod ar gyfer y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd. Mae'r Cydlynwyr ADY arweiniol yn gweithio ar ganllaw i'r cod ar gyfer y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mae nifer o ddatblygiadau eleni wedi gwella cymorth ar gyfer **disgyblion sydd angen addysg heblaw yn yr ysgol**. Mae'r rhain yn cynnwys lefel uwch o dracio ar gyfer rhai myfyrwyr gan ddefnyddio meddalwedd arbenigol SIMS a ONE i ategu'r broses o nodi disgyblion y mae risg y byddant yn ymddieithrio ar gam cynnar a chreu cwricwla targedig sy'n diwallu anghenion unigol disgyblion, gan gynyddu'r amrediad o gyfleoedd dysgu a'r profiadau sydd ar gael i ddisgyblion. Mae'r dull gwell hwn yn galluogi datblygu heriau mwy effeithiol ar gyfer ysgolion a darparwyr, ac o ganlyniad sicrhau dull mwy targedig i fynd i'r afael ag anghenion unigol disgyblion. Mae rhagor o ysgolion hefyd yn gwneud defnydd effeithiol o'r gwasanaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol i gynnig cyfleoedd galwedigaethol i fyfyrwyr, ac mae'r dull hwn yn cael ei gefnogi'n effeithiol gan weithwyr proffesiynol allweddol a thracio disgyblion cynhwysfawr. Mae hyn yn cyfrannu at ddarpariaeth well a lefelau gwell o gyrhaeddiad ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hyn.



Yn unol â **Strategaeth Ddigidol y cyngor**, rydym yn parhau i hyrwyddo mynediad a llythrennedd digidol, gyda ffocws penodol ar ardaloedd difreintiedig a grwpiau anodd eu cyrraedd ledled Bro Morgannwg, trwy ddarparu cyrsiau sgiliau hanfodol a gweithdai allgymorth cymunedol mewn modd targedig. Yn ystod y flwyddyn, mae nifer y bobl sy'n cofrestru ar gyfer cyrsiau sgiliau digidol wedi parhau i fod yn uchel, gyda'r rhan fwyaf o ddosbarthiadau'n llawn a dosbarthiadau ychwanegol yn cael eu trefnu i fodloni'r galw am leoedd. Yn ogystal, cafodd nifer o weithdai allgymorth eu cynnal mewn cymunedau, gan ganolbwyntio ar grwpiau anodd eu cyrraedd. Bu i 31 o ddysgwyr eraill gwblhau arholiadau'r Drwydded Yrru Gyfrifiadurol Ewropeaidd ym mis Mawrth 2018, gan arwain at gyfradd llwyddiant o 95%.

Mae cynnydd cadarnhaol yn parhau i gael ei wneud i wella deilliannau ar gyfer **plant Dechrau'n Deg**. Gwnaeth 233 o'r 274 (85.04%) o blant a fynychodd wasanaethau Dechrau'n Deg yn ystod y flwyddyn gyflawni'r deilliannau disgwyliedig (deilliant o bump neu'n uwch) ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.

Mae ein hymrwymiad parhaus i wella lefelau cyrhaeddiad trwy ddull cydgysylltiedig gyda phartneriaid allweddol wedi sicrhau, dros yr ychydig o flynyddoedd diwethaf, **nad oes unrhyw ddisgyblion yng ngofal yr awdurdod lleol wedi gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol cymeradwy.** Mae'r perfformiad hwn yn ein rhoi ni yn chwartel uchaf awdurdodau lleol yng Nghymru.

Yn dilyn canlyniadau arolwg diweddar yn y Fro, a nododd ei bod yn bosibl fod un o bob 12 o ddisgyblion mewn ysgolion cynradd neu uwchradd yn ofalwr ifanc, mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i hyrwyddo Rhaglen Gofalwyr Ifanc yn yr Ysgol, gan arwain at Ysgol Gyfun y Barri yn llwyddo i fod y gyntaf yng Nghymru i ennill **Gwobr Sylfaenol Rhaglen Gofalwyr Ifanc yn yr Ysgol**, i gydnabod ei harferion da. Mae'r ysgol wedi penodi aelod arweiniol o staff i ddeall gofalwyr ifanc a'u hanghenion, ac mae wedi datblygu a chynnal hysbysfwrdd ar gyfer disgyblion a gwybodaeth ar-lein sy'n tynnu sylw at faterion gofalwyr ifanc. Mae hyn yn helpu i wella'r gwaith o nodi a chefnogi gofalwyr ifanc yn yr ysgol, fel eu bod yn gallu cael y cymorth sydd ei angen arnynt, a thrwy hynny'n rhoi'r un mynediad at addysg a chyfleoedd bywyd yn y dyfodol iddynt ag i'w cyfoedion.

Yn seiliedig ar ein cyflawniadau hyd yn hyn fel y'u hamlinellir uchod, rydym wedi dangos, trwy weithio ar y cyd gyda'n hysgolion, cynghorau eraill a'r consortiwm, ein bod wedi gwneud cynnydd cadarnhaol wrth godi lefelau o gyrhaeddiad yn y Fro. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod nad yw'r safonau mae'r plant sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim wedi eu cyflawni cystal â safonau plant eraill yn yr holl gyfnodau allweddol ar hyn o bryd, ac mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r cyngor ar gyfer y dyfodol.

## 5.5 AMCAN 6: EIN CYFLAWNIADAU



Ers datblygu'r **llyfrgelloedd cymunedol** y llynedd, mae rhai manteision eisoes wedi cael eu gwireddu – er enghraifft, mae'r llyfrgelloedd yn cael eu staffio gan ddau wirfoddolwr lle roedd un gwirfoddolwr yn unig yn flaenorol. Yn ogystal, mae adroddiadau cynnar yn dangos bod cyllid grant ychwanegol sylweddol yn cael ei sicrhau o ganlyniad i statws sefydliadol y grwpiau. Mae hyn wedi rhoi rhagor o le i wirfoddolwyr ddarparu amrediad ehangach o weithgareddau o fewn y llyfrgelloedd ac mae'r rhain eisoes wedi arwain at gynnydd yn y defnydd yr adroddwyd yn ei gylch. Mae'r amrediad cyfredol o weithgareddau'n cynnwys grwpiau gwau sy'n cwrdd mewn llyfrgelloedd, grwpiau Dwnsiynau a Dreigiau i oedolion, boreau coffi, nosweithiau cwisiau a ffilmiau, clybiau Lego, a chyfarfodydd Code Club. Mae'r rhain yn ychwanegol i grwpiau llyfrau ac amseroedd stori, sy'n weithgareddau mwy traddodiadol mewn llyfrgelloedd. Mae gwaith yn parhau i chwilio am weithgareddau newydd a fydd yn ennyn diddordeb pobl ac sy'n cyd-fynd yn naturiol ag amgylchedd llyfrgell.

Trwy fenter '**Pob Plentyn yn Aelod o'r Llyfrgell**', rydym wedi parhau i annog plant i ymuno â'n llyfrgelloedd ni fel eu bod yn gallu defnyddio amrediad eang o adnoddau i helpu i wella eu gwaith ysgol a gwella eu hamser hamdden. Dyma'r ail flwyddyn rydym wedi hyrwyddo'r fenter yn y Fro ac, er bod y rhan fwyaf o'r plant eisoes yn meddu ar gerdyn, bu i 330 o aelodau newydd ymaelodi. Disgwylir y bydd hyn yn parhau i gael effaith gadarnhaol ar nifer y plant sy'n ymweld â llyfrgelloedd, fel y gwelwyd y llynedd, gyda llawer ohonynt yn annog eu rhieni i ddod â nhw i'w llyfrgell gymunedol leol.

Mae **Canolfan Ddysgu'r Fro**, a agorodd ym mis Tachwedd 2016, wedi darparu cyfleuster o'r radd flaenaf ar gyfer y Fro, wedi'i adeiladu i'r pwrpas, i helpu trigolion o bob oedran i ennill sgiliau a gwybodaeth ac i ehangu eu gorwelion. Mae pob un o wasanaethau mwyaf poblogaidd y llyfrgell wedi cael eu cadw, gyda gwasanaethau ychwanegol newydd yn cael eu cyflwyno, a gall defnyddwyr bellach gael mynediad at amrediad o gyrsiau addysg i oedolion yn yr un lleoliad. Yn ystod 2017-18, roedd y Ganolfan Ddysgu yn destun adolygiad mewnol gan Goleg Caerdydd a'r Fro, gan ennill dyfarniad o 'Ddarpariaeth dda gyda rhagolygon da ar gyfer gwella'. Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth i gynyddu cyfleoedd ar gyfer trigolion y Fro i ddatblygu eu sgiliau ar gyfer bywyd a gwaith. Mae cyfraddau llwyddiant ar gyfer dysgwyr sy'n oedolion yn parhau i wella, gyda chyfradd o 94% yn cael ei chyflawni ar gyfer blwyddyn academaidd 2016-17, yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y bartneriaeth o 92%. (Mae cyfradd llwyddiant yn cyfeirio at nifer yr amcanion dysgu mae unigolion

wedi'u cyflawni erbyn diwedd y cwrs wedi'u rhannu â nifer y dysgwyr sydd wedi cofrestru ar gyfer y cwrs. Mae cyfradd llwyddiant uchel yn dangos bod mwy o ddysgwyr yn cwblhau eu cwrs ac yn ennill cymhwyster cydnabyddedig.)

Rydym yn parhau i hyrwyddo rhagoriaeth ym maes adeiladu. Bu i **Fro Morgannwg ennill categori yng Ngwobrau Rhagoriaeth Adeiladu Cymru Gyfan**, a gynhaliwyd ym mis Medi 2017, am waith i ailwampio adeilad a oedd eisoes yn bodoli (yr Hen Orsaf Dân, Court Road). Mae hyn yn unol ag ymrwymiad y cyngor i amddiffyn a chadw treftadaeth naturiol, adeiledig a diwylliannol y Fro.



Mae'r cyngor wedi ymrwymo i wella a datblygu gwasanaethau ar gyfer siaradwyr Cymraeg a'r rhai sy'n dysgu'r iaith ym Mro Morgannwg, sy'n ategu **gweledigaeth Llywodraeth Cymru o weld miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050**. Mae rhai o'n cyflawniadau allweddol yn ystod 2017–18 yn cynnwys:

- Gwnaethom ymgynghori â phob rhanddeiliad allweddol ar ein **Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg** ar gyfer 2017–20, a chyflwyno hwn i Lywodraeth Cymru. Roedd hwn yn un o 15 cynllun yn unig o 22 a gafodd eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Yn ogystal, gwnaethom fabwysiadu Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg yn 2017 ac rydym yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau cydymffurfiaeth.
- Mae'r cyngor wedi parhau i ddarparu sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar gyfer yr holl staff ac mae'n cefnogi dosbarthiadau Cymraeg ffurfiol ar gyfer staff yn y gweithle, yn ogystal â darparu sesiynau blasu rheolaidd mewn amryw leoliadau. Mae hyn wedi helpu i gynnal nifer y staff a gofrestrodd yn ystod 2017–18 ar 80. Yn ogystal, rydym wedi parhau i ganiatáu i staff fynychu dosbarthiadau yn ystod oriau gwaith, ac mae staff sy'n siarad Cymraeg hefyd yn gallu mynychu noson wythnosol yn y Barri, lle mae gweithgareddau amrywiol ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ein cynllun hyfforddi wedi cael ei lywio gan archwiliad helaeth o sgiliau iaith ar draws y cyngor.
- Trwy ein cytundeb tair blynedd gyda **Menter Bro Morgannwg**, rydym yn darparu rhagor o gyfleoedd ar gyfer trigolion lleol, gan gynnwys plant, pobl ifanc, teuluoedd a dysgwyr sy'n oedolion, i gymryd rhan mewn gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau i'r teulu, gweithgareddau yn y gwyliau, clybiau plant, gweithgareddau i oedolion, cyfleoedd ar gyfer chwaraeon a datblygu chwarae, cyfleoedd ar gyfer celfyddydau, a dysgu i oedolion ac yn y gymuned. Bu i dros 19,400 o blant, pobl ifanc ac oedolion gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol yn ystod y flwyddyn trwy gyfrwng y Gymraeg.

Rhoddodd y Gwasanaeth Datblygu'r Celfyddydau gymorth i 1,115 o sefydliadau ac unigolion trwy ddarparu cyngor, gwybodaeth, mentora ac arweiniad, gan gyfrannu at gymuned celfyddydau yn y Fro sy'n gydnerth ac yn ffynnu. Mae hyn yn ystyried cyfranogiadau gan leoliadau celf allweddol, gweithdai a phrosiectau yn ystod y flwyddyn, ac ymgysylltu â rhaglen ddi-dâl o weithgareddau celf wedi'i darparu gan y Gwasanaeth Datblygu'r Celfyddydau a phartneriaid ar sail allgymorth. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom hefyd gyhoeddi ein Strategaeth Celfyddydau a Diwylliant, '***Bro Uchelgeisiol a Bywiog o ran Diwylliant 2018–2022***', sy'n amlinellu ein cynllun cyflawni ar gyfer cynyddu cyfleoedd i gymryd rhan yn y celfyddydau sy'n hygyrch i holl drigolion y Fro a phawb sy'n ymweld â hi.





Mae proses **derbyniadau i ysgolion ar-lein** y cyngor bellach wedi cael ei sefydlu'n dda gyda dros 95% o rieni'n gwneud cais ar-lein. Cafodd tua 5,000 o geisiadau eu prosesu yn ystod y flwyddyn, gyda'u dewis cyntaf yn cael ei gynnig i 95% o rieni a wnaeth gais am le yn y rownd gyntaf, a'u dewis gyntaf yn cael ei gynnig i 92% o rieni a wnaeth gais i'w plentyn drosglwyddo i'r ysgol uwchradd yn y rownd gyntaf o ddyraniadau. Yn bennaf, roedd

gwrthodiadau yn ystod y rownd gyntaf yn gysylltiedig â rhieni a oedd yn byw y tu allan i Fro Morgannwg.

Mae diogelu a gwella treftadaeth adeiledig, naturiol a diwylliannol Bro Morgannwg yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r cyngor, ac mae gwneud y penderfyniadau cywir ynglŷn â rheoli datblygu, ar yr adeg gywir, yn unol â blaenoriaethau'r **Cynllun Datblygu Lleol**, yn chwarae rôl allweddol wrth ein galluogi i gyflawni hyn. Yn ystod 2017–18, gwnaed penderfyniadau ynglŷn â 274 o geisiadau cynllunio, gan gynnwys saith caniatâd adeilad rhestredig. Gwnaed penderfyniadau ynglŷn â 31 o geisiadau eraill i wneud gwaith ar goed, 12 cais gwaith ar goed sy'n tyfu mewn ardal gadwraeth, a 19 cais gwaith ar goed sy’n cael eu cynnwys mewn Gorchymyn Cadw Coed. Mae hyn yn gynnydd o gymharu â'r 253 o geisiadau cynllunio y gwnaed penderfyniadau yn eu cylch y llynedd.

Mae’r cyngor yn parhau i fod wedi ymrwymo i wella ansawdd a'r defnydd o ddata monitro cydraddoldeb i alluogi penderfyniadau mwy gwybodus ynglŷn â'r gwasanaethau y mae'n eu darparu ar gyfer trigolion y Fro. O ganlyniad, mae wedi adolygu a diweddaru ei ganllawiau mewnol a gwasanaethau cymorth i wella casglu ac adrodd am ddata. Yn ystod 2017–18, mae rhagor o wasanaethau wedi adrodd am ddata monitro cydraddoldeb i lywio **Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol** y cyngor. Mae'r wybodaeth am gydraddoldeb sy'n cael ei chasglu gan y gwasanaeth yn hanfodol wrth alluogi'r cyngor i gyrraedd ei gynulleidfa darged, ac mae hefyd yn helpu i nodi tueddiadau a fydd yn ein galluogi i sicrhau y gall holl drigolion y Fro gael mynediad at ein gwasanaethau.



Yn ystod 2017–18, rydym hefyd wedi parhau i weithio gyda phartneriaid allweddol ar nifer o fentrau ledled y Fro sydd â'r nod o **gael gwared ar anghydraddoldeb a gwahaniaethu** ac mae'r uchafbwyntiau allweddol yn cynnwys:

Mae cynnydd cadarnhaol wedi cael ei wneud tuag at gyflawni'r **Safon Arian ar gyfer Cydraddoldeb mewn Chwaraeon** trwy wella ymhellach ein dull ymarfer cynhwysol wrth ddarparu pob gweithgaredd. Lle mae galw am ddarpariaeth ar wahân, rydym wedi gweithio mewn modd rhagweithiol gyda phartneriaid megis ysgolion, grwpiau cymunedol a chlybiau i gynnig cyfleoedd, gan ddangos ein hymrwymiad i gynyddu cyfleoedd a chefnogi pobl anabl ifanc i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden er mwyn gwella eu llesiant.

Roedd ein rhaglen datblygu chwaraeon ar gyfer 2017–18 yn targedu grwpiau o bobl sydd â nodweddion gwarchodedig yn ogystal â grwpiau o bobl lle mae tystiolaeth o niferoedd isel yn cymryd rhan, ac mae wedi canolbwyntio ar gynyddu cyfleoedd cynhwysol a hyrwyddo amgylcheddau cynhwysol er mwyn annog pawb i gymryd rhan mewn chwaraeon a chwarae mewn modd gweithredol. Trwy **gronfa’r Gist Gymunedol**, wedi'i rheoli gan y cyngor, anogir clybiau i wneud cais am gyllid i gynyddu cyfleoedd chwaraeon ac i wella tegwch o ran mynediad. Yn ystod y flwyddyn, cafodd naw prosiect eu hariannu, gan helpu i wella cyfleoedd ar gyfer grwpiau gwahanol, gan gynnwys pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, menywod a merched, pobl anabl, a phobl sy'n dod o ardaloedd difreintiedig.

Mae'r cyngor yn **Hyrwyddwr Cydraddoldeb Stonewall** ac mae'n parhau i fod wedi ymrwymo i sicrhau ei fod yn darparu gweithle cynhwysol ar gyfer yr holl staff lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol. Mae cynnydd da wedi cael ei wneud wrth roi’r cynllun gweithredu ar waith mewn ymateb i'n hasesiad. Mae rhwydwaith staff lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol, ynghyd â grŵp cynghreiriaid mewnol o bobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol, wedi cael ei sefydlu. Yn ogystal, mae'r cyngor wedi cael ei gynrychioli yn nifer o ddigwyddiadau Stonewall a digwyddiadau amrywiaeth, ac mae hefyd wedi hwyluso seminar amrywiaeth ym Mro Morgannwg ar bobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol / amrywiaeth, gyda chymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru. Mae aelod o'r Tîm Rheoli Corfforaethol wedi cael ei benodi i fod yn Hyrwyddwr Amrywiaeth i

weithredu'r fenter ymhellach. Trwy'r gwaith cadarnhaol sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn, mae ein safle wedi gwella yn sylweddol (o 122 safle) ers ein cyflwyniad cychwynnol, ac ar hyn o bryd rydym yn y 293ain safle o 430 o sefydliadau.

Mewn cydweithrediad â'n partneriaid allweddol a rhanddeiliaid allweddol eraill, rydym wedi parhau i gefnogi'r Fforwm Sipsiwn a Theithwyr i sicrhau bod systemau ar waith i **gefnogi sipsiwn a theithwyr** pan fyddant yn cyrraedd yr ardal fel bod eu hanghenion lles yn cael eu hasesu a bod unrhyw broblemau'n derbyn sylw pan fydd hynny'n briodol.

Rydym yn parhau i weithio gyda **Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth** i godi ymwybyddiaeth pobl ifanc o hiliaeth a homoffobia. Cynhaliwyd 65 gweithdy gyda 2,652 o bobl yn cymryd rhan o 23 ysgol gynradd, wyth ysgol uwchradd ac un uned cyfeirio disgyblion. Maent yn darparu gweithdai ar gyfer pobl ifanc i siarad am hiliaeth a darparu sesiynau ffitrwydd llawn hwyl. Yn dilyn y gweithdai, dywedodd 57% o bobl eu bod wedi newid y ffordd roeddent wedi trin pobl eraill. Dywedodd 29%% o bobl ifanc eu bod wedi gweld hiliaeth ac wedi adrodd yn ei chylch i oedolyn. Dywedodd y 71% o bobl eraill y byddent yn adrodd am hiliaeth pe paent yn ei gweld. Dywedodd 100% o athrawon eu bod naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf fod y gweithdai yn annog trafodaethau cadarnhaol am hiliaeth rhwng disgyblion.




Trwy ein gwaith gyda **Fforwm Strategaeth 50+ y Fro**, rydym yn hyrwyddo mentrau i helpu pobl hŷn i barhau i fod yn annibynnol a bod yn weithgar yn ein cymunedau am gyfnod hwy. Mae cryn waith wedi cael ei wneud trwy'r fforwm i hyrwyddo cymunedau sy’n deall dementia, i wella sgiliau digidol, i annog pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a chwaraeon (Hyfforddiant Swyddogaethol Llai Heriol), ac i ddarparu cyngor ar gynnal iechyd a llesiant. Mae Hyrwyddwyr Cyfeillion Dementia’r fforwm yn helpu pobl sydd â dementia i fyw yn y gymuned ac maent hefyd yn annog sefydliadau lleol i ystyried dementia wrth iddynt ddarparu eu gwasanaethau. Ar hyn o bryd, mae'r Barri yn gweithio tuag at ddod yn gymuned sy'n deall dementia, ac mae gwaith yn mynd rhagddo gyda sefydliadau lleol a gwasanaethau i ddarparu amgylcheddau a gwasanaethau sy'n deall dementia. Yn dilyn y cynnydd cadarnhaol a wnaed yn y Barri hyd yn hyn, mae'r Bont-faen, Penarth a Dinas Powys hefyd yn ceisio rhoi'r fenter hon ar waith yn eu cymunedau nhw.

Trwy gymorth unigol a sesiynau wedi'u trefnu, mae **Hyrwyddwyr Digidol** y fforwm yn annog pobl hŷn ledled y Fro i wella eu sgiliau digidol ac yn eu dysgu sut i ddefnyddio technoleg ddigidol mewn modd diogel. Mae aelodau sydd wedi eu hardystio i gynnal Hyfforddiant Swyddogaethol Llai Heriol (menter sydd â’r nod o helpu pobl hŷn i fod yn fwy corfforol weithgar) yn parhau i gynnig sesiynau atal cwympiadau a sesiynau ymarfer corff wythnosol ledled y Fro i annog rhagor o weithgareddau corfforol. Nod cynghorwyr byw'n iach yw 'gwneud i bob cyswllt gyfrif' a hyrwyddo gwasanaethau byw'n iach, sgrinio a brechiadau a chyfeirio pobl at wasanaethau.

Yn ddiweddar, mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd wedi cyflwyno'r **System Rheoli Llyfrgelloedd Cymru Gyfan**, a fydd yn helpu i hyrwyddo rhagor o gydweithio rhwng llyfrgelloedd yng Nghymru mewn perthynas â rhannu adnoddau a chasgliadau a galluogi cwsmeriaid i chwilio casgliadau llyfrgell (yn ddwyieithog) ledled Cymru. Bydd hyn yn cynnig manteision sylweddol i gwsmeriaid, gan gynnwys mynediad at amrediad eang o adnoddau ar gyfer dysgu ac ymchwil.

# EIN HERIAU A'N RISGIAU

## 5.6 AMCAN 5: EIN HERIAU

**Gwariant y cyngor a gyllidebwyd i ysgolion fesul disgybl ar gyfer 2017–18 oedd £5,022, yr isaf yng Nghymru** a £606 yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru o £5,628. Gwneir hyn o wariant gros dyranedig fesul disgybl o £4,430 (21ain yng Nghymru), sy'n £317 yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru o £4,740, a gwariant canolog fesul disgybl o £593, yr isaf yng Nghymru ac yn £295 yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru o £888. Er gwaethaf hyn, rydym wedi gwneud cynnydd gwirioneddol a chyson dros yr ychydig o flynyddoedd diwethaf, ac mae deilliannau ar gyfer dysgwyr yn dda yn y rhan fwyaf o ardaloedd. Yn ogystal, mae'r lefel gymharol isel o gyllid yn dangos bod gwerth da am arian yn cael ei gyflawni wrth ddarparu'r gwasanaethau hyn (Ffynhonnell, Stats Cymru – Gwariant a gyllidebwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion 2017–18). Fodd bynnag, mae'r angen i barhau i godi lefelau cyrhaeddiad yn erbyn cefndir o gyllid ar gyfer addysg sy'n gostwng, a chynnydd yn nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgolion y Fro, yn peri heriau sylweddol ar gyfer y dyfodol.

Er bod safonau llwyddiant ledled y Fro at ei gilydd yn gwella, **mae angen o hyd sicrhau bod y mewnbwn i ysgolion gan Wasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De yn parhau i sicrhau'r effeithiau/gwelliannau sydd eu hangen mewn perthynas â chodi lefelau cyrhaeddiad ym Mro Morgannwg.** Yn ogystal, mae angen sicrhau bod ysgolion yn derbyn cymorth ac yn parhau i ganolbwyntio ar system ar gyfer hunanwella.

Ar y cyfan, mae'r safonau mae plant sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn eu cyflawni wedi parhau i wella, ac mae canlyniadau ar gyfer plant sydd yng ngofal yr awdurdod lleol yn dda o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae perfformiad disgyblion sy'n gwneud 'Saesneg fel Iaith Ychwanegol' yn ysgolion y Fro yn dda ac yn unol â 'lefel caffael iaith' y disgyblion, gyda'r rhan fwyaf o'r plant yn llwyddo i ennill cymwysterau yn iaith eu cartref ym mlwyddyn academaidd 2016–17. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod **nad yw eu deilliannau'n cymharu'n dda yn gyffredinol â deilliannau plant eraill yn yr holl gyfnodau allweddol, ac mae angen gwneud rhagor o waith i fynd i'r afael â'r mater hwn**. Rydym hefyd yn cydnabod bod angen lleihau'r lefel gyffredinol o blant a phobl ifanc sy'n cael eu gwahardd o'r ysgol. Mae cau'r bwlch mewn cyrhaeddiad rhwng disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer y cyngor yn y dyfodol, ac rydym yn cymryd camau pendant i fynd i'r afael â'r mater hwn.



Mae'r **galw am leoliadau y tu allan i'r sir** (ar gyfer disgyblion na ellir diwallu eu hanghenion yn y Fro) yn **parhau i roi pwysau ar gyllideb y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau**. Yn ogystal, mae'r incwm sy'n cael ei greu o siroedd eraill trwy ddisgyblion o awdurdodau eraill yn cael eu cofrestru yn Ysgol y Deri wedi parhau i leihau, gan fod awdurdodau lleol naill ai'n gwneud trefniadau i addysgu eu plant o fewn y sir neu drwy gaffael opsiynau rhatach oherwydd cyllidebau is. Mae'r gyllideb ar gyfer lleoli disgyblion yn parhau i fod yn gyfnewidiol ac mae'n bosibl iddi gael ei heffeithio gan newidiadau i nifer fach o ddisgyblion sydd wedi cael eu lleoli. Mae gwaith yn parhau gyda rhieni i ystyried, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, opsiynau priodol eraill o fewn y sir i ddiwallu anghenion addysg plant mewn modd costeffeithiol.

Yn dilyn Llywodraeth Cymru yn atal yr arfer o ddiogelu cyllidebau ysgolion, rydym yn gweld **angen cynyddol am gymorth i ysgolion reoli eu cyllidebau, yn enwedig mewn ysgolion lle mae cost chwyddiant a chynnydd demograffig yn uwch na thwf cyllidebau**. Mae'r tueddiad parhaus hwn yn rhoi pwysau ar wasanaethau addysg canolog pan fydd angen rhagor o effeithlonrwydd ac arbedion i ategu gwaith y cyngor o ail-lunio'r agenda.

Er gwaethaf y cynnydd cadarnhaol a wnaed hyd yn hyn wrth ail-lunio'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn y Fro mewn ateb i'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol, **mae nifer y plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol / problemau cymhleth a disgwyliadau uwch gan gwsmeriaid yn parhau i roi pwysau ychwanegol ar adnoddau addysg canolog yn ogystal â chyllidebau ysgolion unigol**. Mae perygl y gallai hyn gael effaith andwyol ar gymorth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Rydym yn gweithio'n agos gyda'n holl randdeiliaid allweddol, mewn modd rhagweithiol, i hwyluso'r gwaith o ddarparu gwasanaeth ymatebol, ansawdd uchel a chosteffeithiol sy'n bodloni anghenion disgyblion ac yn eu cefnogi nhw, eu rhieni, ysgolion a'r cyngor i sicrhau'r llwyddiant a'r llesiant gorau posibl.

---

Mae nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) wedi gostwng yn gyson dros yr ychydig o flynyddoedd diwethaf. Er hynny, mae hyn **yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer y cyngor gyda phwyslais penodol ar bobl ym Mlwyddyn 13 sy'n NEET**, sy'n 2.85% ar hyn o bryd, o gymharu â 3.07% y llynedd.

---

Mae **angen codi nifer y disgyblion sy'n cyrraedd trothwy Lefel 2, gan gynnwys TGAU gradd A*–C yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf ac mewn mathemateg** – bu i hyn ostwng am y tro cyntaf yn ystod yr ychydig o flynyddoedd diwethaf gyda 60.4% o ddisgyblion yn cyrraedd y trothwy o gymharu â 67.06% yn y flwyddyn flaenorol (blwyddyn academaidd 2015–16). Er gwaethaf y dirywiad, ein perfformiad oedd y 4ydd uchaf yng Nghymru, gan barhau i fod yr uchaf yng Nghonsortiwm Canolbarth y De ac yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru o 54.6%.Fodd bynnag, bu i berfformiad disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim ollwng yn serth, ac mae'r bwlch wedi ehangu o 25.2% i 35.8%.

---

Mae **ansicrwydd cyllid grant yn parhau i fod yn her** ar gyfer y cyngor, o ganlyniad i ail-lunio cyllid Ewropeaidd a chyllid grant ar gyfer nifer o fentrau rhaglen megis Teuluoedd yn Gyntaf, Ysbrydoli i Gyflawni ac Ysbrydoli i Weithio. Mae peidio â gwybod lefel y cyllid a natur tymor byr y cyllid cyfredol yn parhau i greu ansefydlogrwydd ac ansicrwydd o ran cynllunio gwaith ar gyfer y dyfodol, a gallai hyn yn ei dro gael effaith ar gynnal y lefelau uchel o berfformiad sydd wedi cael eu cyflawni hyd yn hyn wrth gyflawni'r mentrau hyn. Mae'n debygol y bydd Brexit yn arwain at ddiwedd rhaglenni gwledig yn y Fro ar eu ffurf gyfredol. Mae'n debygol y bydd cyllid cyfalaf gan y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig yn dod i ben yn 2020, gan arwain at bwysau cost ar y cyngor yn y blynyddoedd dilynol. Mae'r cyllid wedi cael ei ddefnyddio i fuddsoddi yn asedau'r cyngor ers 2004.

## 5.7 AMCAN 6: EIN HERIAU

Bydd lansio Strategaeth Cymraeg 2050 (sy'n ceisio miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050), ac adolygiad brys Llywodraeth Cymru o fframwaith Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, yn cael effaith sylweddol ar y Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif a gofynion y cyngor o fewn ei Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg lleol. Bydd hefyd yn cael **goblygiadau ariannol sylweddol wrth ddarparu cymorth arbenigol neu drosiannol priodol trwy gyfrwng y Gymraeg**.

---

Mae cynnydd da wedi cael ei wneud hyd yn hyn wrth gynyddu nifer ac amrediad y cyfleoedd dysgu sydd ar gael i oedolion yn y Fro trwy ddysgu cymunedol. Mae llawer wedi manteisio ar y cyfleoedd hyn ac mae ein cyfraddau llwyddiant wedi bod yn uchel. Fodd bynnag, yn y dyfodol **mae perygl gwirioneddol na fydd y cyfleoedd hyn yn gynaliadwy yn y tymor hir o ystyried y cyllid is parhaus**. Mae hyn yn bygwth rhagolygon llawer o drigolion y Fro, y mae'n bosibl y bydd yn rhaid i lawer ohonynt ailhyfforddi i weithio ar ôl oedran ymddeol, yn ogystal â phobl ddi-waith y mae angen cymorth arnynt i hyfforddi ar gyfer swydd newydd. Mae cynyddu cyfleoedd i bobl gyflawni eu llawn botensial yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer y cyngor, ac rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth i sicrhau bod y rhai sydd am ddefnyddio addysg i oedolion yn sbardun i wella eu sgiliau'n parhau i gael mynediad at y cyfleoedd hyn.

---



Bu i nifer yr ymwelwyr â **llyfrgelloedd cyhoeddus** ostwng yn 2017-18 o 5% arall (4,901) o gymharu â'r perfformiad yr adroddwyd amdano'r llynedd o 5,217 o ymweliadau i bob 1,000 o'r boblogaeth. Fodd bynnag, amharwyd ar berfformiad yn ystod y flwyddyn gan uwchraddiad mawr i'r system gyfrifiadurol, a oedd yn golygu nad oedd catalog y llyfrgell yn gweithio am nifer o fisoedd, a bu rhagor o amharu oherwydd y ffaith nad oedd y peiriannau hunanwasanaeth poblogaidd yn gweithio oherwydd y newid. Cafodd llyfrgelloedd cymunedol eu sefydlu yn ystod y flwyddyn hefyd ac na chafodd llawer o ymweliadau eu cofnodi mewn llyfrgelloedd cymunedol am gyfnod, mater sydd bellach wedi derbyn sylw. Yn unol â Strategaeth Ddigidol y cyngor, rydym yn parhau i fuddsoddi mewn technoleg newydd wedi'i hanelu at wella gwasanaethau ar gyfer pawb, lleihau costau a darparu rhagor o gyfleoedd ar gyfer trigolion y Fro i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i lwyddo yn y byd digidol. Yn fwy diweddar, mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd wedi lansio ei gynllun mynediad y tu allan i oriau, sef Open+, yn Llyfrgell y Sir yn y Barri yn ystod mis Mawrth 2018, a rhagwelir y bydd hyn yn dod â rhagor o ymwelwyr o ganlyniad i'r oriau agor estynedig.

## 5.8 AMCAN 5: RISGIAU I'N GWASANAETHAU NI

Mae risgiau i'n gwasanaethau ni a nodwyd trwy ein cynlluniau gwasanaeth wedi cael eu halinio â chanlyniad llesiant ac amcan cysylltiedig. Mae 12 risg wedi eu halinio ag Amcan 5: Codi Safonau Llwyddiant Cyffredinol. Gellir alinio'r 12 risg hyn â phum thema sy'n gysylltiedig â chyflawni'r Cynllun Corfforaethol. Mae'r themâu hyn yn ymwneud â'r canlynol:

- Arweinyddiaeth, llywodraethu a gwella safonau
- Cefnogi gwelliannau
- Diwallu anghenion trwy ddarparu gwasanaethau mewn modd effeithiol
- Lleoedd ysgol a rheoli adnoddau
- Ymgysylltu â dysgwyr

Os nad yw'r risgiau hyn yn derbyn sylw, gallent gael effaith andwyol ar y gwaith o gyflawni'r Cynllun Corfforaethol. Trwy fonitro a rheoli cadarn, mae'r risgiau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u rheoli. Mae hefyd rhai risgiau sy'n gysylltiedig â'r amcan hwn sy'n cael effaith drawstoriadol ar agweddau eraill ar gyflawni'r Cynllun Corfforaethol. Lle mae hyn yn digwydd, mae'r risgiau hyn wedi cael eu hadlewyrchu yn yr amcan a'r canlyniad perthnasol. Er enghraifft, mae diogelu ein dysgwyr yn faes o risg sy'n berthnasol i'r amcan hwn, ond mae wedi derbyn sylw o dan Fro Weithgar ac Iach (Canlyniad 4) o dan Amcan 8: Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed a hyrwyddo byw'n annibynnol.

Ar ddiwedd y flwyddyn 2017–18, o ran statws risg, rhoddwyd sgôr ganolig/uchel i ddwy risg, rhoddwyd sgôr ganolig i wyth risg, a rhoddwyd sgôr ganolig/isel i ddwy risg. Mae'r map gwres isod yn dangos bod y rhan fwyaf o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r amcan hwn yn ymgasglu o o gwmpas rhan ganolig y cwadrant. Mae'r ddwy risg ganolig/uchel yn ymwneud â'r ffordd nad yw darpariaeth a chymorth yn gallu diwallu anghenion y nifer cynyddol o blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn enwedig y rhai a chanddynt anawsterau cymdeithasol ac emosiynol cymhleth sy'n effeithio ar eu hymddygiad. Mae dealltwriaeth gynyddol o effaith negyddol profiadau niweidiol mewn plentyndod ar blant a phobl ifanc a'r cysylltiad rhwng profiadau o'r fath ac anawsterau o ran ymlyniad a thrawma datblygiadol. Mae datblygu darpariaeth i ddiwallu'r angen hwn yn flaenoriaeth ar gyfer y cyngor. Mae'r ddwy risg hyn yn cael effaith ar ein gallu i ddiwallu anghenion trwy ddarparu gwasanaethau mewn modd effeithiol. Mae hyn yn faes sy'n peri pryder cynyddol, gan fod nifer o blant a chanddynt anghenion dysgu ychwanegol / problemau cymhleth ar adeg pan fydd cyllidebau'n parhau i fod yn dynn. O ganlyniad, mae perygl gwirioneddol y bydd hyn yn cael effaith negyddol ar y cymorth sydd ar gael i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgolion. Er mwyn ymdrin â'r risg hon, mae'r Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau yn parhau i weithio mewn partneriaeth agos gydag

ysgolion fel ein bod yn gallu parhau i ddarparu gwasanaeth cymesur ac ymatebol sy'n diwallu anghenion pob plentyn, gan gynnwys y rheiny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol / anghenion cymhleth.


Er mwyn ymdrin â'r cynnydd mewn plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, mae gwaith wedi cael ei wneud i gynyddu capasiti Ysgol y Deri a bodloni'r galw uwch. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ail-lunio darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol, ac yn ystod 2017–18 buom yn canolbwyntio ar bedwar prosiect a oedd yn cynnwys pontio, datblygu gwasanaethau allgymorth arbenigol, datrys anghydfodau, a datblygu rolau Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cydlynwyr ADY) mewn perthynas â'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd. Mae'r prosiectau hyn wedi bod yn llwyddiannus ac wedi arwain at sefydlu Gweithgor Pontio Caerdydd a'r Fro, sy'n gweithio ar brotocol a phrosiectau pontio. Mae gwasanaethau allgymorth arbenigol yn cael eu rhedeg yn llwyddiannus ar gyfer Lleferydd ac Iaith a Namau Gwybyddol, Corfforol a Synhwyraidd. Mae hyfforddwyr wedi cael eu datblygu ar gyfer hyfforddiant ar ddatrys anghydfodau, a fydd yn cael ei gyflwyno i ysgolion cynradd ac uwchradd yn ystod tymor yr haf 2018–19. Mae'r holl Gydlynwyr ADY wedi derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch cynnydd y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol, ac maent wedi cael eu hyfforddi ar ddulliau cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion, gan ddefnyddio proffiliau un dudalen mewn ysgolion yn barod ar gyfer y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd. Mae'r Cydlynwyr ADY arweiniol yn gweithio ar ganllaw i'r cod ar gyfer y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mewn perthynas â'r risg sy'n gysylltiedig ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol cymhleth, mae'r gwaith i ailstrwythuro addysg heblaw yn yr ysgol yn mynd rhagddo, a gobeithir y bydd hyn, gydag amser, yn gwella gallu'r gwasanaeth i ddiwallu anghenion cymdeithasol ac emosiynol cymhleth disgyblion. Yn ystod 2017–18, cafodd strategaeth ar gyfer disgyblion sydd angen addysg heblaw yn yr ysgol ei chymeradwyo gan y Cabinet, ac mae Fforwm Addysg Heblaw yn yr Ysgol gyda phanel wedi cael ei sefydlu'n llwyddiannus, ac mae telerau ac amodau wedi cael eu rhoi ar waith. Mae hyn wedi arwain at systemau gwell ar gyfer monitro a thracio cynnydd myfyrwyr.

Er gwaethaf y mesurau rheoli sydd ar waith, rhagwelir y bydd y risgiau hyn sy'n gysylltiedig ag anghenion dysgu ychwanegol ac anghenion cymhleth yn parhau i fod yn ganolig/uchel ar gyfer y tymor byr i ganolig.

Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o'r risgiau sydd wedi cael eu halinio â'r amcan hwn yn cael eu rheoli'n effeithiol gan set gytbwys o fesurau rheoli cyfredol, i sicrhau ein bod yn gallu rheoli a monitro lefelau risg a chadw risgiau ar lefelau y gellir eu rheoli. Ar gyfer y risgiau hynny sy'n fwy anodd eu rheoli, mae'r adrannau gwasanaeth sy'n gyfrifol am y risgiau hyn yn parhau i fod yn ymrwymedig i ymchwilio i ffyrdd i liniaru effeithiau'r risgiau hyn ymhellach.

Mae map gwres isod sy'n plotio'r sgoriau risg gweddilliol ar gyfer pob un o'r risgiau gwasanaeth hyn ar gyfer 2017–18 i roi enghraifft o'r grwpiau risg ar fap gwres ar gyfer yr amcan hwn.




| Cyfeirnod Risg | Disgrifiad o'r Risg | Lle Rydym Arni | Lle Disgwylir y Byddwn Arni |
|---|---|---|---|
| **Arweinyddiaeth, llywodraethu, atebolrwydd a gwella safonau** | | | |
| 1 | Nid oes system briodol ar waith i sicrhau bod Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De yn atebol am effaith y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer ysgolion. (Cyflawniad i Bawb) | ↓ | ↓ |
| 2 | Nid yw ansawdd yr arweinyddiaeth a'r llywodraethu mewn ysgolion yn ddigonol i gyflawni canlyniadau. (Cyflawniad i Bawb) | ↓ | ↓ |
| 3 | Nid yw ansawdd yr arweinyddiaeth a'r llywodraethu mewn ysgolion yn ddigonol i gyflawni canlyniadau. (Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau) | ↔ | ↔ |
| **Cefnogi gwelliannau** | | | |
| 4 | Nid yw ysgolion yn cael eu cefnogi mewn modd effeithiol ac nid ydynt yn gwneud gwaith tuag at greu system ar gyfer hunanwella. (Cyflawniad i Bawb) | ↔ | ↓ |
| 5 | Nid yw ansawdd y cymorth rhwng ysgolion yn dda neu'n well. (Cyflawniad i Bawb) | ↔ | ↓ |
| **Diwallu anghenion trwy ddarparu gwasanaethau mewn modd effeithiol** | | | |
| 6 | Nid yw'r ddarpariaeth a'r cymorth yn gallu diwallu anghenion y | | |

| Cyfeirnod Risg | Disgrifiad o'r Risg | Lle Rydym Arni | Lle Disgwylir y Byddwn Arni |
|---|---|---|---|
| | nifer cynyddol o blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol / anghenion cymhleth. (Cyflawniad i Bawb) | ↔ | ↔ |
| 7 | Mae baich ariannol uwch yn cael effaith ar ein gallu i ddiwallu anghenion cymhleth disgyblion sydd wedi cael eu gwahardd, gan gynnwys diffyg staff sydd â digon o brofiad. (Cyflawniad i Bawb) | ↔ | ↔ |
| 8 | Mae cyllid llai yn effeithio ar argaeledd cyfleoedd ar gyfer dysgu i oedolion a dysgu yn y gymuned. (Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau) | ↔ | ↔ |
| 9 | Ansicrwydd o ran gallu gwasanaethau arbenigol bach i barhau i gyflawni. (Cyflawniad i Bawb) | ↔ | ↔ |
| **Lleoedd ysgol a rheoli adnoddau** | | | |
| 10 | Methu â bodloni'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg (Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau) | ↔ | ↓ |
| 11 | Methu â lleihau nifer y lleoedd dros ben yn effeithio ar reoli adnoddau mewn ysgolion mewn modd effeithiol. | ↔ | ↓ |
| **Ymgysylltu â'n dysgwyr** | | | |
| 12 | Cynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsedd ieuenctid ac aflonyddu oherwydd diffyg cyfleoedd cyffredinol ar gyfer ymgysylltu. | ↔ | ↔ |

## 5.9 AMCAN 6: RISGIAU I'N GWASANAETHAU NI

Mae risgiau i'n gwasanaethau ni a nodwyd trwy ein cynlluniau gwasanaeth wedi cael eu halinio â chanlyniad llesiant ac amcan cysylltiedig. Mae dwy risg i wasanaethau wedi cael eu halinio ag Amcan 6: Gwerthfawrogi diwylliant ac amrywiaeth. Ar ddiwedd y flwyddyn 2017–18, rhoddwyd sgôr ganolig i un risg, sef yr analluedd i gyflawni Safonau'r Gymraeg, a rhoddwyd sgôr ganolig/isel i'r risg arall, sef methu â darparu gwasanaethau llyfrgell hygyrch yng ngoleuni toriadau i'r gyllideb.

Mae gan y risg ynghylch Safonau'r Gymraeg oblygiadau mewn perthynas ag adnoddau a'n henw da ni, gan y gallai methu â chyflawni ein dyletswyddau o dan y ddeddfwriaeth arwain at ddirwyon a chyhoeddusrwydd negyddol. Er bod y risg hon yn parhau i fod yn ganolig o ran statws, mae nifer o fesurau rheoli wedi cael eu rhoi ar waith ar draws amrediad o feysydd gwasanaeth i liniaru yn ei herbyn. Fodd bynnag, mae'r cyngor yn parhau i hyrwyddo a noddi staff i fynychu cyrsiau Cymraeg yn y Fro, lle rydym wedi cynnal cyfranogiad uchel ymhlith staff ar draws amrediad o adrannau gwasanaeth. Rydym yn parhau i sicrhau bod yr holl ddogfennau cyhoeddus ar gael yn ddwyieithog, ac mae Tîm y Wefan yn sicrhau y gellir defnyddio gwefan y cyngor a'i chymwysiadau yn y ddwy iaith. Cafodd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Bro Morgannwg ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w ystyried, ac roedd hwn yn un o 15 cynllun yn unig o 22 a gafodd eu cymeradwy gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2018. Mae'r Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau yn parhau i weithio gyda'i chyflenwyr meddalwedd a chydweithwyr corfforaethol i sicrhau cydymffurfiaeth a'r Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r contract cyfieithu wedi bod yn cael ei weithredu'n llwyddiannus ac mae cyfarfodydd misol bellach yn cael eu cynnal i'w fonitro'n effeithiol. Mae cynnydd da yn parhau i gael ei wneud mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg, ac mae'r rhan fwyaf o'r cynllun gweithredu bellach wedi cael ei roi ar waith. Yn y dyfodol, byddwn yn canolbwyntio ar gynnal cydymffurfiaeth wrth edrych ar gyfleoedd i atgyfnerthu'r safonau a hyrwyddo'r gwaith o'u dilyn ymhellach.

Byddai effaith toriadau i gyllidebau ar wasanaethau llyfrgelloedd yn cael effaith negyddol ar ein gallu i ddarparu gwasanaethau llyfrgell hygyrch ledled y Fro i ddiwallu anghenion y gymuned leol. Gallai hyn yn ei dro gael effaith andwyol ar enw da'r cyngor. Sgôr y risg hon ar hyn o bryd yw canolig i isel, sy'n dangos bod y risg hon yn cael ei rheoli'n dda. Yn ystod 2017–18, mae nifer o fesurau rheoli effeithiol wedi cael eu rhoi ar waith. Er enghraifft, mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd wedi llwyddo i roi

System Rheoli Llyfrgelloedd newydd ar waith, a fydd yn ein galluogi i reoli ein hadnoddau'n fwy effeithiol o fewn y gwasanaeth. Trwy lansio'r Gwasanaeth Open+ yn Llyfrgell y Barri, rydym wedi llwyddo i estyn oriau agor y llyfrgell ac, o ganlyniad, cynyddu ei hargaeledd i amrediad mwy o ddefnyddwyr.

I sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i fod yn berthnasol ac yn gynaliadwy yn y tymor hwy, mae llawer o adnoddau ac adnoddau wedi cael eu buddsoddi mewn datblygu mentrau a fydd yn gwneud ein llyfrgelloedd yn fwy deniadol a hygyrch i amrediad o grwpiau cleient. Er enghraifft, yn ystod 2017–18 trefnodd pob llyfrgell i blant Blwyddyn 4 ymuno â'r llyfrgell gyda'u dosbarth fel rhan o'r fenter 'Pob Plentyn yn Aelod o'r Llyfrgell'. Roedd y Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn gweithio'n agos gydag ysgolion i drefnu trafnidiaeth i lyfrgelloedd a gweithgareddau i annog pobl i ymaelodi â llyfrgelloedd a'u defnyddio. Parhaodd llyfrgelloedd hefyd i ddarparu amrediad amrywiol o weithgareddau megis grwpiau gwau, boreau coffi, nosweithiau cwisiau a ffilmiau, clybiau Lego a chyfarfodydd Code Club, yn ogystal â grwpiau llyfrau ac amseroedd stori sy'n weithgareddau mwy traddodiadol mewn llyfrgelloedd. Bydd y gwaith yn parhau yn ystod y blynyddoedd nesaf i chwilio am weithgareddau newydd a fydd yn ennyn diddordeb pobl ac sy'n cyd-fynd yn naturiol ag amgylchedd llyfrgell. Er mwyn hyrwyddo cynaliadwyedd, bydd rhai o'r gweithgareddau hyn yn cael eu rhedeg gan grwpiau cyfeillion a phartneriaid eraill.

Mae'r ddwy risg sydd wedi cael eu halinio â'r amcan hwn yn cael eu rheoli'n effeithiol gan set o fesurau rheoli cyfredol sy'n parhau i gael eu hadolygu'n rheolaidd, i sicrhau eu bod yn parhau i reoli'r risgiau hyn mewn modd effeithiol.

Mae map gwres isod sy'n plotio'r sgoriau risg gweddilliol ar gyfer pob un o'r risgiau gwasanaeth hyn ar gyer 2017–18 i roi enghraifft o'r grwpiau risg ar fap gwres ar gyfer yr amcan hwn.

**Tebygolrwydd**

**Effaith**

| | 1 | 2 | 3 | 4 |
|---|---|---|---|---|
| **4** | Canolig | Canolig/Uchel | Uchel | Uchel Iawn |
| **3** | Canolig | Canolig | Canolig/Uchel | Uchel |
| **2** | 1<br>Isel | 2<br>Canolig | Canolig | Canolig/Uchel |
| **1** | Isel Iawn | Isel | Canolig/Isel | Canolig |

| Cyfeirnod Risg | Disgrifiad o'r Risg | Lle Rydym Arni | Lle Disgwylir y Byddwn Arni |
|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau llyfrgell hygyrch** | | | |
| 1 | Methu â darparu gwasanaethau llyfrgell hygyrch yng ngoleuni toriadau i'r gyllideb. | ↔ | ↔ |
| **Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg** | | | |
| 2 | Anallu i gyflawni Safonau'r Gymraeg a'r dirwyon a'r effaith negyddol ar ein henw da a fyddai'n gysylltiedig â methu. | ↔ | ↔ |

**Ein statws COG cyffredinol o ran 'Bro Iach ac Actif' yw GWYRDD**

## 6.0 DATGANIAD SEFYLLFA

Gwnaethom gynnydd cryf wrth gyflawni blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol ym Mlwyddyn 2 y Cynllun mewn perthynas â Chanlyniad Llesiant 4. Yr amcanion sy'n cyd-fynd â'r canlyniad hwn yw 'Annog a hyrwyddo ffyrdd o fyw iach ac actif' a 'Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed a hyrwyddo byw'n annibynnol'. O ganlyniad i'n perfformiad cyson, cafwyd statws Gwyrdd cyffredinol i'r canlyniad.

Dengys y ciplun ar ddiwedd y flwyddyn bod mwyafrif o 88% (49) o weithgareddau'r Cynllun Corfforaethol sydd wedi'u halinio i flwyddyn 2 y cynllun wedi'u cyflawni'n llwyddiannus. Mewn perthynas â'r amcan: 'Ffordd o fyw iach ac actif', cwblhawyd 85% (11) o weithredoedd yn llwyddiannus a chwblhawyd 88% (38) o weithredoedd mewn perthynas â'r amcan 'diogelu pobl sy'n agored i niwed a hyrwyddo byw'n annibynnol'. Ar draws y canlyniad cyfan, dim ond 7 o weithredoedd a gafodd statws coch, yn cyfrif am ddim ond 16% o weithredoedd yn gyffredinol. Roedd y meysydd llithriad allweddol yr adroddwyd arnynt yn ymwneud ag: uwchraddio gwifrau trydanol a chyfleusterau newid yng Nghanolfannau Hamdden Y Barri a Phenarth; mabwysiadu Strategaeth Hamdden; y gwaith sy'n gysylltiedig â chynyddu tryloywder yn y broses gofal iechyd barhaus i geisio aelodaeth awdurdod lleol o'r panel; datblygu prosesau i wella rhannu gwybodaeth i wella pontio rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion; dilyniant dewis hunanwasanaeth ar gyfer ymholiadau cwsmeriaid sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, a'r gwaith sy'n gysylltiedig â phrosesau diwygio yn y Ganolfan Gyswllt (C1V) i gefnogi darparu cyngor a chymorth, a lansio'r cynllun 'Prynu gyda hyder'.

Yn gyffredinol, mae ein statws perfformiad yn Wyrdd ac rydym wedi perfformio'n gadarn trwy gydol y flwyddyn o ran ein mesurau perfformiad.  Er enghraifft, yn ystod 2017/18, ni oedd yr awdurdod lleol a berfformiodd orau yng Nghymru am ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden awdurdodau lleol, gyda 11,368 o ymweliadau fesul 1,000 o'r boblogaeth. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd 80% (16) o fesurau yn cyrraedd y targed neu'n uwch na'r targed (statws gwyrdd). Roedd dau fesur o fewn 10% o'u targed gan arwain at statws oren. Methodd y ddau fesur sy'n weddill y targed o fwy na 10%, gan arwain at statws coch. Roedd y mesurau coch hyn yn ymwneud ag oedi wrth drosglwyddo gofal a'r defnyddwyr gwasanaeth Cefnogi Pobl a oedd yn teimlo eu bod wedi'u cynorthwyo i gynnal eu hannibyniaeth. Mae ein perfformiad mewn perthynas ag achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal wedi gwaethygu ychydig yn sgil pwysau cynyddol ar ein Timau Rheoli Gofal i hwyluso rhyddhau cleifion ag anghenion cynyddol gymhleth. Er gwaethaf hyn, rydym yn parhau i berfformio'n gadarn mewn perthynas â'r amser y mae pobl hyn yn ei dreulio yn yr ysbyty. Er enghraifft, yn ystod 2017/18, cyfradd yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal oedd 2.85 fesul 1,000 o'r boblogaeth. Er y byddai pwysau'r gaeaf wedi cael effaith ar berfformiad y mesur hwn, mae ein buddsoddiad sylweddol yn y mater hwn yn cael effaith dda. O safbwynt ein perfformiad mewn perthynas â gwasanaethau Cefnogi Pobl, bu gostyngiad yn y ganran o ddefnyddwyr gwasanaeth a deimlai bod y gefnogaeth a gawsant wedi eu cynorthwyo o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yr anhawster gyda'r mesuriad hwn yw ei fod yn ymwneud â disgwyliadau'r defnyddwyr gwasanaeth. Weithiau, efallai fod gan y defnyddiwr gwasanaeth ddisgwyliadau uchel o ran y lefelau o

annibyniaeth y maent eisiau eu cyflawni pan mewn gwirionedd efallai na fyddant byth yn llwyr annibynnol oherwydd natur eu cyflwr meddygol sy'n dirywio. Mae'r gwrthdaro rhwng lefelau disgwyliad a'r hyn sy'n gyraeddadwy yn heriol. Comisiynir y gwasanaethau cymorth a ddarparwn gan gyrff allanol y Trydydd Sector, ac ymchwilir i unrhyw adborth negyddol a dderbynnir fel rhan o'r broses adolygu i nodi gwelliannau i'r gwasanaeth, a gaiff eu monitro wedi hynny.

Drwy gydol 2017/18, rydym wedi gallu dathlu nifer o lwyddiannau allweddol mewn perthynas â 'hyrwyddo ffyrdd o fyw iach ac actif'. Er enghraifft, rydym wedi parhau i gynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Yn ôl Chwaraeon Cymru, yr ydym yn yr 2il safle yng Nghymru o ran Oedolion sy’n cymryd rhan weithredol mewn chwaraeon. Yn ystod 2017/18, dangosodd arolwg Chwaraeon Cymru fod 69% o oedolion yn nodi eu bod yn cymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgaredd corfforol. Cafodd ein llwyddiant ei hwyluso trwy weithredu Cynllun Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol y Fro yn llwyddiannus, sy'n cynnwys cyflwyno projectau ar draws chwe maes allweddol y cynllun. Rydym hefyd wedi canolbwyntio ein hymdrechion ar gynyddu cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad anabl mewn chwaraeon, a ddangosir drwy ein gwobr Efydd Insport gan Anabledd Cymru a'n cydweithrediad â chlybiau chwaraeon. Yn ystod 2017/18, mynychodd 546 o aelodau clwb anabl a 618 o aelodau sesiwn chwaraeon anabledd 50 o gyfleoedd anabledd cynhwysol neu benodol.

Mae'r agwedd arall ar annog ffyrdd o fyw iach ac actif wedi cynnwys gweithio'n agos gyda sefydliadau partner i gynorthwyo unigolion i fabwysiadu ymddygiad a ffyrdd iachach o fyw. Er enghraifft, rydym wedi cryfhau ac atgyfnerthu ymhellach sut rydym yn darparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau trwy weithio mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd i wella mynediad at wasanaethau camddefnyddio sylweddau mewn modd amserol. Yn ystod 2017/18, fel rhan o'r Fro Ddiogelach (Partneriaeth Diogelwch Cymunedol), rydym wedi gweithio gyda'n partneriaid i sefydlu rhaglen diogelwch nodwyddau yn ogystal â threialu gwasanaeth alcohol newydd. Trwy ein hymdrechion, mae 75.86% o ddefnyddwyr gwasanaeth yn cwblhau rhaglen driniaeth, sy'n fwy na'r cyfartaledd cenedlaethol o 72%. Ar ddiwedd y rhaglen, nododd 79% o'r cleientiaid hyn welliant yn eu hansawdd bywyd o ganlyniad i gael mynediad at driniaeth sy'n llawer uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 56%.

Mewn perthynas â'r Amcan 'Diogelu pobl sy'n agored i niwed a hyrwyddo byw'n annibynnol' bu nifer o ddatblygiadau allweddol dros y flwyddyn. Trwy ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac atal yn y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, rydym wedi gallu lleihau ein dibyniaeth ar ymyriadau mwy costus. Trwy fabwysiadu dull mwy targededig, cefnogwyd 75.03% o blant i barhau i fyw gyda'u teulu yn ystod y flwyddyn (2017/18). Atgyfnerthwyd y perfformiad hwn trwy ddatblygu mentrau newydd megis y cynllun Peilot Cymorth Uniongyrchol i Deuluoedd. Pwrpas y cynllun peilot hwn oedd symud adnoddau'n gyflymach er mwyn galluogi gweithwyr proffesiynol i weithio'n fwy effeithiol gyda theuluoedd i wella eu capasiti magu plant a bodloni anghenion eu plant yn well.

Yn achos Gwasanaethau Oedolion, bu ein ffocws parhaus ar ddiogelu pobl sy'n agored i niwed a hyrwyddo byw'n annibynnol ar sicrhau bod dinasyddion yn chwarae rôl fwy canolog wrth ddiffinio eu hanghenion gofal a chymorth i sicrhau gwell canlyniadau. Un o'r mentrau mwyaf arloesol fu'r peilot 'Eich Dewis', sy'n cynnig ffordd newydd o ddarparu gofal a chefnogaeth i bobl, i'w galluogi i aros yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Dyma'r cyntaf o'i fath yng Nghymru lle mae'r ffocws ar gael partneriaeth gyfartal rhwng y sawl sy'n derbyn gofal, yr Asiantaeth Gofal a'r Gweithiwr Cymdeithasol. Rhoddwyd y dull chwyldroadol hwn ar restr fer am wobr gofal cymdeithasol cenedlaethol o dan y categori 'Gwasanaethau dan arweiniad y Dinesydd' dan Wobrau Gofal Cymdeithasol Cymru.

Yn ystod 2017/18, parhawyd i atgyfnerthu ein dull o ymdrin â pholisi ac arfer Diogelu. Ym Medi 2017, lansiwyd llinell gymorth Diogelu fel un pwynt cyswllt i staff adrodd am unrhyw bryderon ynghylch llesiant oedolyn neu blentyn i gefnogi ein 'dyletswydd i adrodd' newydd, fel yr amlinellwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn ogystal, cynhaliwyd adolygiad archwilio mewnol diweddar o ddiogelu corfforaethol, a ganfu bod ein gweithdrefnau Recriwtio

Diogelach yn 'gadarn ac wedi'u hymgorffori'n llawn'. Parhawn i roi pwyslais ar gryfhau cydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau hyn, ac ar ddiwedd y flwyddyn (2017/18), roedd cydymffurfiad â'r polisi ar draws y Cyngor yn 99% a 93% ar draws Ysgolion, gan roi cydymffurfiad cyfunol cyffredinol o 95%.

Yn erbyn y cefndir hwn o gyflawniadau, mae nifer o risgiau a heriau wedi effeithio ar ein gwasanaethau a chyflenwad y Canlyniad Llesiant hwn. O ran yr amcan ‘ffyrdd o fyw iach ac actif’, bu'r heriau allweddol mewn perthynas â chynnal a gwella lefelau darparu gwasanaeth a pherfformiad wrth reoli disgwyliadau mewn hinsawdd o adnoddau sy'n lleihau. Bu hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â datblygu chwarae a datblygu chwaraeon a gwasanaethau hamdden. Her allweddol arall yw sut yr ydym yn mwyafu'r defnydd o'n adnoddau i ymgysylltu'n effeithiol â grwpiau 'anodd eu cyrraedd' i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i oedolion, plant, pobl ifanc a theuluoedd o ran sicrhau ffyrdd o fyw iachach.

Mewn perthynas ag Amcan 8, 'Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed a hyrwyddo byw'n annibynnol', mae'r heriau ariannol sy'n wynebu'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i fod yn sylweddol wrth edrych i’r dyfodol. Bu hyn yn ganlyniad i'r galw cynyddol am wasanaethau gofal cymdeithasol sy'n cael ei yrru gan newidiadau mewn demograffeg a chyflwyno anghenion iechyd a gofal cynyddol gymhleth. Ar ben hynny, mae effaith cyfyngiadau ariannol megis lleihau ffrydiau ariannu grantiau a phwysau cyllidebol yn rhoi pwysau ar ein gallu i ddatblygu a chyflenwi gwasanaethau sy'n cwrdd ag anghenion ac sy’n 'addas i'r pwrpas ac yn addas ar gyfer y dyfodol'.

Trwy roi llesiant wrth wraidd cyflenwi gwasanaeth, rydym wedi gallu arloesi a datblygu gwasanaethau sy’n fwy targededig ac yn canolbwyntio ar anghenion unigolion, sydd wedi ein galluogi i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n wirioneddol bwysig. Ni lwyddwyd i wneud hyn trwy weithio ar ein pennau ein hunain, ond yn hytrach trwy weithio'n effeithiol ar y cyd â'n partneriaid er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau a amlinellwyd yn y Canlyniad hwn yn y Cynllun Corfforaethol. Wrth symud ymlaen i flwyddyn 3 y Cynllun Corfforaethol, byddwn yn ymdrechu i gryfhau ein cyflawniadau hyd yn hyn, gan geisio cyfleoedd pellach a ffyrdd o weithio a fydd yn hyrwyddo Iechyd a Llesiant ein dinasyddion. Wrth wneud hyn, bydd angen inni ymgymryd â dull mwy trawsnewidiol fel y gallwn barhau i lunio a ‘diogelu at y dyfodol' ein gwasanaethau yn y tymor hwy.

## 6.1 CIPOLWG AR BERFFORMIAD

**GWEITHREDIADAU**

Mae ein perfformiad yn erbyn camau'r Cynllun Corfforaethol ar y trywydd iawn i'w gyflenwi, gan roi statws COG **GWYRDD** cyffredinol i ni ar gyfer y canlyniad hwn

**Camau Gweithredu'r Cynllun Corfforaethol**
**Amcan 7: Annog a hyrwyddo ffyrdd o fyw iach ac actif**

| | | | Amh. | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 11 (G) | 0 (O) | 2 (C) | 0 | 13 |

**MESURIADAU PERFFORMIAD**

Mae ein perfformiad yn erbyn mesurau perfformiad ar y trywydd iawn, gan roi statws COG **GWYRDD** cyffredinol i ni yn erbyn y canlyniad hwn

**Mesuriadau perfformiad**
**Amcan 7: Annog a hyrwyddo ffyrdd o fyw iach ac actif**

| | | | Amh.[22] | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 11 (G) | 0 (O) | 0 (C) | 5 | 16 |

[22] Mae Amh. yn cyfeirio at ‘Amherthnasol’. Defnyddir hyn gyda mesurau lle na osodwyd targed oherwydd ei fod naill ai'n fesur newydd (rydym yn sefydlu gwaelodlin) neu nid yw'n bosibl gosod targed ar gyfer y mesur. O ganlyniad, ni ellir cymhwyso COG gan na allwn gymharu ein perfformiad gyda'r targed.

| Amcan 8: Diogelu pobl sy'n agored i niwed a hyrwyddo byw'n annibynnol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 38 (G) | 0 (A) | 5 (R) | Amh. | Cyfanswm |
| | | | 0 | 43 |
| **Cyfanswm ar gyfer y Canlyniad** | | | | |
| 49 (G) | 0 (A) | 7 (R) | Amh. | Cyfanswm |
| | | | 0 | 56 |

| Amcan 8: Diogelu pobl sy'n agored i niwed a hyrwyddo byw'n annibynnol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5 (G) | 2 (A) | 2 (R) | Amh. | Cyfanswm |
| | | | 1 | 15 [23] |
| **Cyfanswm ar gyfer y Canlyniad** | | | | |
| 16 (G) | 2 (A) | 2 (R) | Amh. | Cyfanswm |
| | | | 6 | 31 |

Mae gwybodaeth fanwl am yr holl Eithriadau Perfformiad sy'n ymwneud â Chanlyniad 4 Llesiant i'w gweld yn **Atodiad A.**

# EIN CYNNYDD YN FANWL

## 6.2 AMCAN 7: ANNOG A HYRWYDDO FFYRDD O FYW ACTIF AC IACH

Yn ystod 2017/18, canolbwyntiwyd ar y gweithrediadau canlynol i symud ymlaen Amcan Llesiant 7:

| Gweithrediadau Iechyd Corfforaethol | Gweithred | | Cyfeiriad Teithio o'i gymharu â statws y chwarter blaenorol |
|---|---|---|---|
| | Gweithrediadau Cynllun Gwasanaeth | Statws y weithred | |
| **AH1:** Gweithio mewn partneriaeth i ddarparu ystod o weithgareddau trwy ein cyfleusterau hamdden a chymunedol a pharciau i gynyddu'r lefelau o gyfranogiad a gweithgarwch corfforol. (2019/20) | 8 | O | ⬇ |
| **AH2:** Gweithio gyda phartneriaid i gyflwyno Strategaeth Gomisiynu Camddefnyddio Sylweddau Caerdydd 2013-2018, gan ddarparu cefnogaeth, gwybodaeth ac ymyriadau effeithiol. (2017/18) | 1 | G | ⬌ |
| **AH3:** Gweithio mewn partneriaeth i ddarparu rhaglen chwarae gynhwysfawr sy'n gwella llesiant plant a'u teuluoedd. (2019/20) | 1 | G | ⬌ |

23 Mae gweithredu WCCIS yn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau ar ôl ei lansio ym mis Tachwedd 2017; tra bod y defnyddwyr yn ennill hyder yn y broses o gofnodi, nid oes gennym unrhyw offeryn adrodd ar hyn o bryd i dynnu'r data allan o WCCIS ar gyfer y dangosyddion perfformiad. O ganlyniad, nid yw data ar gael ar gyfer 5 Dangosydd Perfformiad y chwarter hwn.  Mae hyn yn rhoi cyfrif am y dangosyddion sy'n weddill.

| Gweithrediadau Iechyd Corfforaethol | Gweithred | | Cyfeiriad Teithio o'i gymharu â statws y chwarter blaenorol |
|---|---|---|---|
| | Gweithrediadau Cynllun Gwasanaeth | Statws y weithred | |
| **AH4:** Darparu a hyrwyddo ystod o wasanaethau blynyddoedd cynnar, gan gynnwys gwybodaeth a chymorth i rieni, mynediad i ofal plant a chyfleoedd dysgu i gydnabod manteision datblygiad cynnar wrth gyflawni canlyniadau gwell i bobl ifanc a'u teuluoedd (2019/20) | 1 | G | ↔ |
| **AH5:** Gweithio gyda Bwrdd Iechyd a Llesiant Caerdydd a'r Fro i ymgymryd ag ystod o gamau i atal ac ymdrin â gordewdra ac annog bwyta'n iach a ffyrdd iachach o fyw. (2019/20) | 1 | G | ↔ |
| **AH6:** Cyflawni statws y Faner Werdd i 7 parc fel marc o ragoriaeth, gan arddangos amwynderau da a chyfranogiad cymunedol yn y parciau. (2017/18) | 1 | G | ↔ |

Gellir gweld gwybodaeth fanwl am yr holl Weithrediadau Cynllun Gwasanaeth sy'n cyfrannu at yr amcan yn **Atodiad B.**

Cynorthwyodd y mesurau canlynol i ddangos ein cynnydd tuag at gyflawni Amcan Llesiant 7:

| Mesuriadau Perfformiad Corfforaethol | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenor'th Cynllun Corfforaethol (cyf) | Dangosydd | Perfformiad 2016/17 | Targed 2017/18 | Perfformiad 2017/18 | Cyfartaledd Cymru 2017/18 | Statws Perfformiad [24] | Cyfeiriad Teithio o'i gymharu â'r chwarter blaenorol |
| AH1: Gweithio mewn partneriaeth i ddarparu ystod o weithgareddau trwy ein cyfleusterau hamdden a chymunedol a pharciau i gynyddu'r lefelau o gyfranogiad a gweithgarwch corfforol. | | | | | | | |
| CPM/191 | Canran yr oedolion sy'n dweud eu bod yn cymryd rhan mewn chwaraeon/ gweithgarwch corfforol dair gwaith neu fwy yr wythnos.. | 27% | Amh. | 39% | Amh. | Amh. | Amh. |
| CPM/192 | Nifer y cyfranogiadau gan blant a phobl ifanc yn y cynllun 5x60. | 43,687 | 44,000 | 50,477 | Amh. | ☺ | ↑ |

[24] Statws perfformiad: perfformiad ar neu'n uwch na'r targed ☺ ; perfformiad o fewn 10% o'r targed 😐 ; methodd y perfformiad y targed o fwy na 10% ☹. Mae cyfeiriad teithio yn cymharu perfformiad 2017/18 gyda pherfformiad y flwyddyn flaenorol (2016/17) ar gyfer pob mesur lleol. Mae saeth i fyny yn dangos gwell perfformiad na'r flwyddyn flaenorol tra bod saeth i lawr yn dangos perfformiad is na'r blynyddoedd diwethaf. Cymharwyd mesurau cenedlaethol gyda pherfformiad Cyfartaledd Cymru 2017/18, lle mae ar gael. Mae saeth i fyny yn nodi bod perfformiad y Fro yn uwch na chyfartaledd Cymru, tra bod saeth i lawr yn dangos bod perfformiad y Fro yn is na chyfartaledd Cymru.

| Mesuriadau Perfformiad Corfforaethol | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blaenor'th Cynllun Corfforaethol (cyf)** | **Dangosydd** | **Perfformiad 2016/17** | **Targed 2017/18** | **Perfformiad 2017/18** | **Cyfartaledd Cymru 2017/18** | **Statws Perfformiad [3]** | **Cyfeiriad Teithio o'i gymharu â'r chwarter blaenorol** |
| CPM/028 | Nifer y clybiau chwaraeon sy'n cynnig cyfleoedd anabledd naill ai gynhwysol neu benodol. | 50 | 50 | 50 | Amh. | ☺ | ↔ |
| PAM/017 | Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn lle cymerodd yr ymwelydd ran mewn gweithgarwch corfforol fesul 1,000 o'r boblogaeth. | 6,056.33 | 6,100 | 11,368 | 8,502 | ☺ | ↑ |
| **AH2: Gweithio gyda phartneriaid i gyflwyno Strategaeth Gomisiynu Camddefnyddio Sylweddau Caerdydd 2013-2015, gan ddarparu cefnogaeth, gwybodaeth ac ymyriadau effeithiol.** | | | | | | | |
| CPM/195 | Canran yr unigolion sy'n cwblhau triniaeth camddefnyddio sylweddau. | 83.8% | 72% | 75.86% | Amh. | ☺ | ↓ |
| CPM/186 | Lleihad canrannol mewn camddefnyddio sylweddau problemus y cleientiaid hynny sy'n cael triniaeth camddefnyddio sylweddau. | 70.6% | 67% | 84.2% | Amh. | ☺ | ↓ |
| CPM/187 | Gwelliant yn ansawdd bywyd cleientiaid sy'n cael triniaeth camddefnyddio sylweddau. | 60.9% | 56% | 79% | Amh. | ☺ | ↑ |
| **AH4: Darparu a hyrwyddo ystod o wasanaethau blynyddoedd cynnar, gan gynnwys gwybodaeth a chymorth i rieni, mynediad i ofal plant a chyfleoedd dysgu i gydnabod manteision datblygiad cynnar wrth gyflawni canlyniadau gwell i bobl ifanc a'u teuluoedd.** | | | | | | | |
| CPM/111 | Canran y plant Dechrau'n Deg cymwys sy'n cymryd y cynnig gofal plant. | 89.4% | 80% | 84.38% | Amh. | ☺ | ↓ |
| CPM/096 | Canran presenoldeb yng ngofal plant Dechrau'n Deg | 75.5% | 65% | 79.9% | Amh. | ☺ | ↑ |

| Mesuriadau Perfformiad Corfforaethol | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenor't h Cynllun Corfforae thol (cyf) | Dangosydd | Perfformiad 2016/17 | Targed 2017/18 | Perfformiad 2017/18 | Cyfartaledd Cymru 2017/18 | Statws Perfformiad [3] | Cyfeiriad Teithio o'i gymharu â'r chwarter blaenorol |
| CPM/170 | Canran y defnyddwyr sy'n dangos bodlonrwydd gyda'r gwasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf y cafwyd mynediad ato. | 97% | 85% | 98.28% | Amh. | ☺ | ↑ |
| AH5: Gweithio gyda Bwrdd Iechyd a Llesiant Caerdydd a'r Fro i ymgymryd ag ystod o gamau i atal ac ymdrin â gordewdra ac annog bwyta'n iach a ffyrdd iachach o fyw. | | | | | | | |
| CPM/196 | Canran yr ysgolion lle mae'r Cyngor yn arlwyo sy'n cynnig opsiynau bwyd iach. | 100% | 100% | 100% | Amh. | ☺ | ↔ |
| CPM/090 | Canran y bobl sydd wedi cwblhau'r cynllun atgyfeirio ymarfer corff | 28.49% | 40% | 46.89% | Amh. | ☺ | ↑ |
| AH6: Cyflawni statws y Faner Werdd i 7 parc fel marc o ragoriaeth, gan arddangos amwynderau da a chyfranogiad cymunedol yn y parciau. | | | | | | | |
| CPM/197 | Nifer y Parciau Baner Werdd. | 7 | 7 | 7 | Amh. | ☺ | ↔ |

Gellir gweld gwybodaeth fanwl am yr holl ddangosyddion perfformiad sy'n cyfrannu at yr amcan Llesiant hwn yn **Atodiad B.**

## 6.3 AMCAN 8: DIOGELU POBL SY'N AGORED I NIWED A HYRWYDDO BYW'N ANNIBYNNOL

Yn ystod 2017/18 canolbwyntiwyd ar y gweithrediadau canlynol i symud ymlaen Amcan Llesiant 8:

| Gweithrediadau Cynllun Corfforaethol | Gweithred | | Cyfeiriad Teithio o'i gymharu â'r chwarter blaenorol |
|---|---|---|---|
| | Gweithrediadau Cynllun Gwasanaeth | Statws y weithred | |
| **AH7:** Gweithredu ffyrdd newydd o weithio yng ngoleuni Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) gyda ffocws penodol ar y ffrydiau gwaith blaenoriaeth o:<br>• darparu gwybodaeth<br>• gwasanaethau cyngor a chymorth<br>• cymhwyster/asesiad o angen<br>• cynllunio a hyrwyddo gwasanaethau ataliol<br>• gweithlu<br>• mesurau perfformiad (2016/17) | 17 | G | ↔ |
| **AH8:** Gwella mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol trwy wella cyflymder, symlrwydd a dewis sut i gael mynediad at wasanaethau. (2018/19) | 6 | O | ↑ |

| Gweithrediadau Cynllun Corfforaethol | Gweithred | | Cyfeiriad Teithio o'i gymharu â'r chwarter blaenorol |
|---|---|---|---|
| | Gweithrediadau Cynllun Gwasanaeth | Statws y weithred | |
| **AH9:** Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu integreiddiad gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion a gwasanaethau iechyd cymunedol. (2018/19) | 3 | O | ↑ |
| **AH10:** Archwilio opsiynau ar gyfer systemau TGCh integredig sengl a chyllidebau integredig ar draws rhanbarth Caerdydd a'r Fro ar gyfer gofal cymdeithasol. (2018/19) | 5 | G | ↔ |
| **AH11:** Datblygu a gweithredu polisi corfforaethol ar ddiogelu i ddarparu cyfeiriad strategol clir a llinellau atebolrwydd ar draws y Cyngor. (2016/17). | 3 | G | ↑ |
| **AH12:** Lleihau oedi wrth drosglwyddo gofal a rhyddhau o'r ysbyty trwy gydlynu gwell gwasanaethau a chyflenwi'r Gwasanaeth Atebion Llety. (2017/18) | 1 | G | ↔ |
| **AH13:** Adolygu llety gyda dewisiadau gofal i bobl hŷn a datblygu ein strategaeth gomisiynu ar gyfer y blynyddoedd i ddod. (2016/17) | 1 | G | ↑ |
| **AH14:** Gweithio gyda phartneriaid trwy Fwrdd Lleol Diogelu Plant Caerdydd a'r Fro i ddatblygu Strategaeth Manteisio yn Rhywiol ar Blant. (2016/17) | 2 | G | ↑ |
| **AH15:** Gwella gweithdrefnau gyda darparwyr gofal nyrsio, preswyl a gofal cartref i alluogi ymyrraeth gynnar ac atal dyrchafu'r digwyddiadau. (2017/18) | 1 | G | ↑ |
| **AH16:** Ymgymryd â rhaglen flynyddol o arolygiadau wedi'u targedu ar eiddo sy'n ymgymryd â gweithgareddau masnachol sy'n effeithio ar bobl fregus (er enghraifft cartrefi gofal a sefydliadau bwyd mewn ysgolion. (2019/20) | 3 | O | ↓ |

Gellir gweld gwybodaeth fanwl am yr holl Weithrediadau Cynllun Gwasanaeth sy'n cyfrannu at yr amcan yn **Atodiad B.**

Cynorthwyodd y mesurau canlynol i ddangos ein cynnydd tuag at gyflawni Amcan Llesiant 8:

| Mesuriadau Perfformiad Corfforaethol | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenor'th Cynllun Corfforaeth ol (cyf) | Dangosydd | Perfformiad 2016/17 | Targed 2017/18 | Perfformiad 2017/18 | Cyfartaledd Cymru 2017/18 | Statws Perfformiad | Cyfeiriad Teithio o'i gymharu â'r chwarter blaenorol |
| AH8: Gwella mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol trwy wella cyflymder, symlrwydd a dewis sut i gael mynediad at wasanaethau. | | | | | | | |
| SSM/023 | Canran yr Oedolion sydd wedi cael cymorth gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth ac nad ydynt wedi cysylltu â'r gwasanaeth eto yn ystod y flwyddyn. | 84.78% | 85% | Dim data ar gael [25] | Amh. | Amh. | Amh. |

[25] Nid oedd unrhyw ddata ar gael ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer nifer o fesurau gwasanaethau cymdeithasol oherwydd trosglwyddo o'r system bresennol i'r system adrodd gwasanaethau cymdeithasol cenedlaethol (WCCIS)

| Blaenor'th Cynllun Corfforaethol (cyf) | Dangosydd | Perfformiad 2016/17 | Targed 2017/18 | Perfformiad 2017/18 | Cyfartaledd Cymru 2017/18 | Statws Perfformiad | Cyfeiriad Teithio o'i gymharu â'r chwarter blaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CPM/098 | Canran y defnyddwyr gwasanaeth oedolion sy'n derbyn taliad uniongyrchol. | 14.78% | Amh. | Dim data ar gael | Amh. | Amh. | Amh. |
| CPM/206 | Canran y cwsmeriaid teleofal sy'n fodlon gyda'r gwasanaeth monitro teleofal. | Amh. | 90% | 98.9% | Amh. |  | Amh. |
| AH9: Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu integreiddiad gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion a gwasanaethau iechyd cymunedol. | | | | | | | |
| CPM/058 | Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod o ailalluogi) ac sydd â phecyn gofal a chymorth llai 6 mis yn ddiweddarach. | 10% | Amh. | Dim data ar gael | Amh. | Amh. | Amh. |
| AH11: Datblygu a gweithredu polisi corfforaethol ar ddiogelu i ddarparu cyfeiriad strategol clir a llinellau atebolrwydd ar draws y Cyngor. | | | | | | | |
| Amh. | Canran yn cydymffurfio â pholisi Recriwtio Diogelach y Cyngor (gan gynnwys ysgolion) | 95% | Amh. | 95% | Amh. | Amh. | ↔ |
| AH12: Lleihau oedi wrth drosglwyddo gofal a rhyddhau o'r ysbyty trwy gydlynu gwell gwasanaethau a chyflenwi'r Gwasanaeth Atebion Llety. | | | | | | | |
| CPM/026 | Canran y bobl sydd wedi derbyn Grant Cyfleusterau i'r Anabl sy'n teimlo bod y cymorth wedi eu gwneud yn fwy diogel ac yn fwy annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. | 99.34% | 97% | 100% | Amh. |  | ↑ |
| CPM/057 | Cyfradd yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu hŷn. | 2.59% | 2.5% | 2.85% | Amh. | [26]  | ↓ |
| AH13: Adolygu llety gyda dewisiadau gofal i bobl hŷn a datblygu ein strategaeth gomisiynu ar gyfer y blynyddoedd i ddod. | | | | | | | |
| CPM/112 | Canran y cleientiaid Cefnogi Pobl yn fodlon gyda'r cymorth a ddarparwyd.. | 100% | 100% | 94.59% | Amh. |  | ↓ |

[26] Mae perfformiad mewn perthynas ag achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal wedi gwaethygu ychydig yn sgil pwysau cynyddol ar ein Timau Rheoli Gofal i hwyluso rhyddhau cleifion ag anghenion cynyddol gymhleth

| Blaenor'th Cynllun Corfforaethol (cyf) | Dangosydd | Perfformiad 2016/17 | Targed 2017/18 | Perfformiad 2017/18 | Cyfartaledd Cymru 2017/18 | Statws Perfformiad | Cyfeiriad Teithio o'i gymharu â'r chwarter blaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CPM/107 | Canran y defnyddwyr gwasanaeth Cefnogi Pobl sy'n cadarnhau bod y gefnogaeth a gawsant wedi eu cynorthwyo i gynnal eu hannibyniaeth . | 96.15% | 100% | 82.93% | Amh. | [27] ☹ | ↓ |
| **AH16: Ymgymryd â rhaglen flynyddol o arolygiadau wedi'u targedu ar eiddo sy'n ymgymryd â gweithgareddau masnachol sy'n effeithio ar bobl fregus.** | | | | | | | |
| Amh. | Nifer yr ymweliadau cartrefi gofal preifat a gynhaliwyd mewn perthynas â materion iechyd a diogelwch. | Amh. | Amh. | 39 | Amh. | Amh. | Amh. |

Gellir gweld gwybodaeth fanwl am yr holl ddangosyddion perfformiad sy'n cyfrannu at yr amcan Llesiant hwn yn **Atodiad B.**

## EIN CYFLAWNIADAU

## 6.4 AMCAN 7: EIN CYFLAWNIADAU



Rydym wedi gweithio gyda Bwrdd Iechyd y Brifysgol i gryfhau ein **Gwasanaeth Adnoddau Cymunedol Integredig** ymhellach, trwy gysylltu Cydlynwyr Llesiant gyda meddygfeydd meddygon teulu, sydd â rôl i ddarparu gwybodaeth, cymorth a chyngor i oedolion ar ystod eang o faterion iechyd y cyhoedd, gan gynnwys imiwneiddio, byw'n iach a rheoli clefydau. Cynorthwyodd hyn i gyfrannu at y Gwasanaeth Adnoddau Cymunedol ehangach trwy gynnig ymyriadau cynnar mynediad agored i bob poblogaeth, ond sy'n darparu ymateb â ffocws i grwpiau penodol sydd mewn perygl a grwpiau anodd eu cyrraedd; mae hyn wedi rhyddhau'r gallu i gefnogi mwy o bobl i sicrhau lefelau mwy o annibyniaeth.

Gweithio mewn partneriaeth â'r Uned Ddata a'r SSIA i ddatblygu **cronfa ddata Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (FIS) genedlaethol bwrpasol a system rheoli cofnodion**. Datblygwyd y fersiwn prawf ym mis Rhagfyr a daeth y fersiwn derfynol yn fyw ar 1af Ebrill 2018. Mae'r system newydd yn sicrhau ein bod yn cynnal systemau a phrosesau effeithiol a phriodol ar gyfer rheoli gwybodaeth yn ogystal â gwella profiad y defnyddiwr terfynol ar gyfer y cyhoedd. Mae'r meddalwedd newydd yn galluogi darparwyr gofal plant/grwpiau cymunedol i gymryd perchnogaeth dros ddiweddaru ac adnewyddu eu gwybodaeth i sicrhau ei bod yn gyfoes ac yn berthnasol. Bu'r system newydd yn gyflymach ac yn symlach i'w defnyddio, a chafodd groeso gan ddarparwyr gofal plant a'r cyhoedd fel ei gilydd.

[27] Bu gostyngiad yn y ganran o ddefnyddwyr gwasanaeth a deimlai bod y gefnogaeth a gawsant wedi eu cynorthwyo o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yr anhawster gyda'r mesuriad hwn yw ei fod yn ymwneud â disgwyliadau'r defnyddwyr gwasanaeth. Weithiau, efallai fod gan y defnyddiwr gwasanaeth ddisgwyliadau uchel o ran y lefelau o annibyniaeth y maent eisiau eu cyflawni pan mewn gwirionedd efallai na fyddant byth yn llwyr annibynnol oherwydd natur eu cyflwr meddygol sy'n dirywio. Comisiynir y gwasanaethau cymorth a ddarparwn gan gyrff allanol y Trydydd Sector, ac ymchwilir i unrhyw adborth negyddol a dderbynnir fel rhan o'r broses adolygu i nodi gwelliannau i'r gwasanaeth, a gaiff eu monitro wedi hynny.

Buom yn llwyddiannus yn **cyflawni ymyrraeth ac ataliad cynnar trwy dîm Dechrau'n Deg a'r tîm Teuluoedd Cyflawni Newid Gyda'n Gilydd (FACT)** (rhan o Deuluoedd yn Gyntaf). Yn ystod 2017/18, dywedodd 98% o ddefnyddwyr gwasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf eu bod yn fodlon â'r gwasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf y cawsant fynediad ato. Adroddodd 90% o deuluoedd sy'n gweithio gyda FACT newid/ gwelliant llwyr, gyda 60 o asesiadau STAR wedi'u cwblhau a 51 yn cwblhau sesiwn rhianta 1:1 neu sesiwn grŵp.



Trwy'r gefnogaeth effeithiol a ddarparwyd i deuluoedd, cyrhaeddodd y mwyafrif o blant (78%) sy'n manteisio ar wasanaethau Dechrau'n Deg y cerrig milltir datblygu angenrheidiol yn 3 oed, cynnydd o 25% ar ein perfformiad y llynedd (perfformiad y flwyddyn flaenorol ar gyfer 2016/17 oedd 53% ). Yn ogystal, yn ystod 2017/18 (blwyddyn academaidd 2016/17), cyflawnodd 85% o garfan Dechrau'n Deg o leiaf y canlyniad disgwyliedig (Canlyniad 5+) ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.

---

Fel rhan o'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf rydym wedi datblygu'r **rhaglen Ffocws Anabledd** yn cynnwys cyfres o brojectau rhyng-gysylltiol sy'n cynnig gwasanaethau gwahanol i deuluoedd. Cafodd 412 o blant anabl a 123 o bobl ifanc anabl fynediad iddynt. Fel rhan o'r rhaglen hon, cofrestrodd 569 o deuluoedd ar y Mynegai Anabledd. Daeth y cylchlythyr Mynegai yn gylchlythyr rhanbarthol yng Nghaerdydd a'r Fro, gan wneud gwybodaeth am wasanaethau a chefnogaeth i blant ag anableddau ledled Caerdydd a'r Fro yn fwy hygyrch. Yn ogystal, mae 70 o blant anabl wedi cael mynediad at gyfleoedd chwarae cynhwysol.

---



Comisiynir **Partneriaeth Rhieni Ifanc** fel rhan o'r Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf i weithio gyda mamau ifanc (hyd at 19 oed) a'u partneriaid ar draws Bro Morgannwg. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, aeth y project drwy gyfnod trosglwyddo helaeth, trwy ymestyn ei wasanaeth o ardal y Barri i Fro Morgannwg gyfan. Drwy ehangu ei wasanaethau i gynnig Bydwreigiaeth, Blynyddoedd Cynnar, Cefnogaeth ac Addysg, bu'n bosib i Fydwraig arbenigol i Bobl Ifanc gefnogi 60 o bobl ifanc yn eu harddegau a oedd yn feichiog ym Mro Morgannwg. Yn ystod 2017/18, cafodd 46 o famau ifanc a phobl ifanc yn eu harddegau a oedd yn feichiog gefnogaeth 1-1 a derbyniodd 35 o'r rhain gefnogaeth blynyddoedd cynnar ar ffurf 'Bumps to Birth' a chyrsiau rhianta eraill.

---

Rydym wedi **cadw ein 7 gwobr Baner Werdd,** sy'n uwch na'r targed o 6. Mae statws y Faner Werdd yn nod o ragoriaeth sy'n cydnabod y parciau a'r mannau gwyrdd gorau yn y wlad. Dyfarnwyd 8 Gwobr Gymunedol Baner Werdd i'r Fro yn ystod y flwyddyn (cynnydd o 3 o'r flwyddyn flaenorol), gan gydnabod y mannau gwyrdd o safon uchel yn y Fro sy'n cael eu rheoli gan grwpiau gwirfoddol ac sy'n parhau i ddarparu lle diogel i breswylwyr o bob oed ddod at ei gilydd i gymdeithasu a dysgu. Y parciau cymunedol hyn yw: Gardd Gymunedol y Barri, Coetiroedd Birchgrove, Gardd Berlysiau'r Bont-faen, Gerddi Hen Neuadd y Bont-faen, Gwarchodfa Natur Leol Cwmtalwg, Perllan Gymunedol Gwenfô, Maes Tegeirian Uchaf Gwenfô a Pherllan Elisabethaidd Gwenfô.

Gwobr Baner Werdd

---

Rydym wedi llwyddo i **gynyddu nifer ein gwobrau Baner Las** o ddwy i dair. Mae Bae Whitmore, Southerndown a Marina Penarth i gyd wedi ennill gwobrau Baner Las. Mae Marina Penarth yn un o ddim ond tair Marina yng Nghymru i dderbyn y wobr hon, ac mae Southerndown yn lleoliad newydd ar y rhestr o leoedd y Fro sydd â Baner Las. Cydnabyddir y wobr hon yn rhyngwladol ac fe'i hystyrir yn eang fel y 'safon aur' ar gyfer traethau a Marinas.

Yn ogystal â hyn, mae Bae Whitmore, Southerndown, Jackson's Bay a Cold Knap wedi ennill Gwobrau Glan Môr. Mae Gwobr Glan Môr yn safon genedlaethol sy'n cydnabod y traethau gorau ledled y DU.

---

Enillodd ein gwaith i gynyddu'r cyfleoedd i'r anabl gymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol **wobr Efydd Insport** gan Chwaraeon Anabledd Cymru, y wobr uchaf sydd ar gael ar y pryd ac rydym yn gweithio tuag at ennill y wobr Arian. Parheir i weithio gyda chlybiau chwaraeon i gynyddu'r nifer sy'n cynnig cyfleoedd anabledd cynhwysol neu benodol. Yn ystod 2017/18, cynigiodd 50 o glybiau gyfleoedd anabledd cynhwysol neu benodol.

Yn ystod 2017/18, ni oedd yr **awdurdod a berfformiodd orau yng Nghymru am ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden awdurdodau lleol**, gydag 11,368 o ymweliadau fesul 1,000 o'r boblogaeth. Roedd y llwyddiant hwn yn ganlyniad i ni gyflenwi gweithrediad ein Cynllun Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol y Fro (LAPA) trwy ddarparu projectau cynlluniedig yn targedu'r 6 maes o fewn y Cynllun sef: datblygu sgiliau sylfaen a llythrennedd corfforol; datblygu clybiau a chanolfannau hamdden ffyniannus cynhwysol; datblygu gweithgareddau anffurfiol gan ddefnyddio amgylcheddau naturiol ac adeiledig y Fro; lleihau anghydraddoldebau rhwng gwahanol grwpiau mewn cymdeithas; datblygu gweithlu gwybodus a chyflwyno mwy o bobl i gystadlaethau hwyliog. Yn ystod 2017/18, cafwyd ffocws cynyddol hefyd ar hyrwyddo'r defnydd o'n cyfleusterau cymunedol fel rhan o'r rhaglen ysgolion 21ain Ganrif sydd wedi arwain at gynnydd mewn cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol o fewn lleoliadau ysgol. Trwy wella ein perthynas â chlybiau lleol ymhellach, rydym hefyd wedi cynyddu cyfraddau cyfranogiad mewn gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored megis pêl-droed bach, rygbi a bowlio ac rydym wedi ehangu ymhellach gyfleoedd datblygu chwaraeon yn y gymuned ar gyfer pob oedran, gan gynnwys chwaraeon anabledd. Yn ystod y flwyddyn, roedd rhai llwyddiannau yn cynnwys: mwy na 357 o sefydliadau partner yn effeithio ar y cynllun a'i gyflawniadau; mwy na 2,422 o gyfleoedd datblygu'r gweithlu i unigolion o 164 o sefydliadau, mwy na 199,483 o gyfranogiadau a gofnodwyd ar Gynllun Chwaraeon y Fro, derbyniodd 60 o brojectau gyllid Cist Gymunedol gyfanswm o £76,100 yn cynnwys 28 o chwaraeon a gweithgareddau corfforol ac yn rhoi budd i 1,132 o gyfranogwyr newydd a 3,944 o gyfranogwyr presennol, 546 aelodau Clwb Anabl a 618 o aelodau sesiynau chwaraeon anabledd yn mynychu 50 o gyfleoedd cynhwysol a chyfleoedd anabledd penodol, ac roedd yna hefyd dros 12,416 o gyfranogiadau gan dros 1,000 o fenywod a merched mewn dros 600 o sesiynau fel rhan o'r project 'Symud ymlaen', gyda mwy na 54,412 o gyfranogiadau yn y Cynllun AYP gyda 29,879 o gyfranogiadau cofrestredig yn elfen yr ysgol o raglen 5x60 ac roedd 1,874 o blant yn mynd i sesiynau 'Dysgu i Nofio' gyda 5,561 yn mynd i'r sesiynau cymunedol.



Yn ôl yr Arolwg Barn y Cyhoedd diweddaraf (2017), mae **mwy o oedolion yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol yn y Fro.** Cymerodd 46% o oedolion 16+ oed ran mewn gweithgarwch corfforol bob dydd, 17% o leiaf 2-3 gwaith yr wythnos a 9% o leiaf unwaith yr wythnos.

Er mwyn hybu ffyrdd o fyw actif ymhellach, rydym wedi cwblhau a chyhoeddi ein **Mapiau Teithio Llesol** fel rhan o'n dyletswyddau dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Mae'r mapiau'n cynnwys cynllun i'r dyfodol ar gyfer datblygu ein seilwaith cerdded a beicio dros y 15 mlynedd nesaf. Yn ystod 2017/18, gwariwyd £467,018 ar gynlluniau gan ddefnyddio cyfraniadau Adran 106 i gefnogi gwelliannau teithio llesol a thrafnidiaeth gynaliadwy. Er enghraifft, yn ystod 2017/18, gwnaed gwelliannau i'r cynllun ffordd droed/beicio ym Mharc Cosmeston i gysylltu Dinas Powys â Phenarth, gweithredwyd cynllun teithio gweithredol yn Llanilltud Fawr, gwnaed gwelliannau i'r Stryd Fawr/Broad Street Y Barri o ran rheoli traffig a ffordd droed, gweithredwyd Cam 5 o Gynllun Ffordd Beicio ym Maes Parcio Harbour Road, gwella symudiadau cerddwyr ar hyd Heol yr Hen Borthladd yng Ngwenfô a Treharne Road yn Y Barri, yn ogystal â symudiadau gwell i gerddwyr, trafnidiaeth gyhoeddus, beiciau a cherbydau i Ynys y Barri. Yn ystod 2017/18, gweithredwyd hefyd lwybr beiciau/ llwybr troed ar Ffordd Y Mileniwm Y Barri, gwell Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar Redwood Close, a gwelliannau llwybrau troed yn y Bont-faen, darparu stondinau dal beiciau i Ysgol Gynradd Llandochau yn ogystal â gweithredu gwelliannau trafnidiaeth gynaliadwy yn Ninas Powys.

Rydym wedi gweithio'n llwyddiannus gyda'n partneriaid i ddarparu amrywiaeth o fentrau sydd wedi'u halinio i gyflenwi'r **Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau**. Rydym wedi gwella mynediad at wasanaethau camddefnyddio sylweddau trwy ailgyflunio sut rydym yn darparu'r rhaglen cyfnewid nodwyddau.

Yn dilyn adolygiad o nodwyddau a deflir yn y Fro, cynhaliwyd dadansoddiad o'r lleoliadau cyfnewid nodwyddau (fferyllwyr a darparwyr cymorth cyffuriau/ alcohol). Nododd y dadansoddiad hwn nad oedd y lleoliadau mewn ardaloedd hygyrch, a oedd wedi ychwanegu at y ffaith bod nodwyddau'n cael eu taflu. Er mwyn ymdrin â hyn, nodwyd lleoliadau newydd er mwyn darparu gwasanaeth cyfnewid mwy effeithiol. Cafodd y dull hwn effaith gadarnhaol gan fod llai o hysbysiadau o feysydd problemus ar gyfer nodwyddau wedi eu taflu.

O ran y rhaglenni camddefnyddio sylweddau, parhaodd y gwelliant o ran y gostyngiad mewn camddefnyddio sylweddau problemus gan gleientiaid sy'n cael triniaeth. Fel yn chwarter 3 2017/18 eleni, dywedodd 70 o'r 95 (73.68%) o unigolion a gwblhaodd y Proffil Canlyniad Triniaeth (holiadur a gwblheir gan gleientiaid sy'n cyrchu'r rhaglen) ostyngiad mewn camddefnyddio sylweddau. Mae'r perfformiad hwn yn parhau i fod yn fwy na'r targed cenedlaethol o 67.3% am lai o sylweddau. Yn gysylltiedig â'r perfformiad hwn, roedd canran yr unigolion a gwblhaodd driniaeth yn chwarter 4 eleni yn 75.86%, sy'n fwy na'r cyfartaledd cenedlaethol o 72%, ac sy’n dangos newid cadarnhaol a chynnydd ym meysydd allweddol bywydau pobl sy'n cael eu trin gan y gwasanaethau cyffuriau ac alcohol. O ran ansawdd bywyd, ar ddiwedd y flwyddyn adroddodd 79% o gleientiaid welliant yn eu hansawdd bywyd o ganlyniad i gael triniaeth camddefnyddio sylweddau, sy'n llawer uwch na'r targed cenedlaethol o 56%.

---



Sicrhawyd £75,026 o arian Llywodraeth Cymru yn llwyddiannus yn ystod 2017/18. Mae hyn wedi ein galluogi i gynyddu cyfleoedd chwarae ac effeithio'n gadarnhaol ar y camau a nodwyd yn ein **Hasesiad Digonolrwydd Chwarae**. Rhagwelir y bydd yr arian hwn yn cael effaith gadarnhaol ar dros 10,000 o bobl ac fe'i defnyddiwyd ar gyfer:

- Prynu offer ac adnoddau ar gyfer projectau chwarae, chwarae a digwyddiadau awyr agored gan gynnwys darparu adnoddau i glwb y tu allan i Ysgol Palmerston, Oshi's World, Clwb Gwaith Cartref y Fro, Clwb ar ôl Ysgol Evenlode a Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.
- Prynu offer chwarae sefydlog
- Prynu offer TG
- Prynu offer i hwyluso cynnwys plant anabl i ddarpariaeth chwarae
- Datblygu Llwybr Coed rhyngweithiol ym Mharc Romilly
- Darparu cynlluniau chwarae yn ystod hanner tymor mis Chwefror ar gyfer plant anabl
- Argraffu llenyddiaeth gwybodaeth i rieni

---

Mynychodd 16 o bobl yr 'L2 App' a mynychodd 15 o bobl y hyfforddiant chwarae 'MAPS'. Mae hyn **wedi cynyddu nifer y bobl sydd â chymwysterau chwarae, a bydd pob un ohonynt yn gweithio mewn gwahanol leoliadau ledled y Fro**. Bydd hyn hefyd yn cynorthwyo gydag ymgyrch y Cyngor i gofrestru darpariaeth cynllun chwarae gydag ASGC. Mae prinder staff cymwys, sydd wedi effeithio ar y gallu i gofrestru cynlluniau cyn hyn. Golyga'r cynnydd mewn staff cymwys ein bod bellach mewn sefyllfa i ymgeisio am gofrestru. Bydd hyn yn ei dro yn ein galluogi i ddarparu darpariaeth diwrnod llawn i blant anabl. Trefnwyd yr hyfforddiant gan y Rheolwr Partneriaeth Plant a'r Swyddog Datblygu Chwarae.

Yn ystod 2017/18 bu tîm Datblygu Chwarae y Fro hefyd yn parhau i gyflwyno rhaglen helaeth o ddigwyddiadau a oedd yn cynnwys presenoldeb mewn digwyddiadau proffil uchel megis Sioe y Fro a Phenwythnos y Barri yn ogystal â chynlluniau chwarae ar raddfa lai a digwyddiadau codi

ymwybyddiaeth wedi'u targedu ar draws y Fro fel digwyddiad Bro Ddiogelach. Amcangyfrifir bod y **tîm Datblygu Chwarae wedi cyrraedd cyfanswm o dros 2,000 o deuluoedd a phlant ar draws y digwyddiadau hyn trwy gydol y flwyddyn**. O ran y cynlluniau chwarae sy'n weithredol yn ystod cyfnodau gwyliau'r ysgol, cyflwynwyd dau gynllun chwarae yn y Fro, yn Ninas Powys a'r Barri, a fynychwyd gan 158 o blant. Mewn perthynas â chynlluniau chwarae ar gyfer plant a phobl ifanc ag anableddau, roedd dau gynllun ar waith gan Ysgol Y Deri ar gyfer plant 4-11 oed lle mynychodd 148 o blant a 88 o bobl ifanc y Cynllun Pobl Ifanc 'Teen' sydd wedi'i dargedu at bobl ifanc anabl 12 oed -18. Mae'r adborth ynglŷn â Chynlluniau Chwarae Anabledd Clwb Gwyliau Teuluoedd yn Gyntaf a phroject Teenscheme wedi bod yn gadarnhaol iawn. Mae galw am gyflenwi ragor o'r ddarpariaeth hon. Os oedd angen gofal personol, darparwyd cymorth 1:2 neu 2:1 a chymorth gyda chludiant.

Yn ystod 2017/18, gweithredodd y Tîm Datblygu Chwarae raglen lwyddiannus iawn **o sesiynau Ceidwaid Chwarae** a anelir at ddarparu cyfleoedd chwarae a gweithgaredd corfforol i blant mewn gwahanol leoliadau ledled y Fro yn ystod cyfnodau gwyliau ysgol. Mae cymryd rhan y sesiynau Ceidwaid Chwarae hyn wedi bod yn gymharol dda gyda 263 o blant a phobl ifanc yn manteisio ar y cyfle. Yn ogystal, cymerodd 1550+ deuluoedd ran yn y gweithgareddau chwaraeon a chwarae a ddarparwyd yn y 5 Diwrnod Hwyl i'r Teulu yn ystod yr haf. Ariannwyd y gweithgareddau hyn trwy wahanol ddulliau, gan gynnwys A106, cyllid y Cyngor, cyllid gan Gynghorau Cymuned Dinas Powys a'r Wig, a Tai United Welsh.

Parha'r Swyddog Datblygu Chwarae i gefnogi grwpiau cymunedol megis **Clwb Gwaith Cartref y Fro** gyda mentora a hyfforddiant perthnasol i gynyddu'r cyfleoedd chwarae sydd ar gael i'r 100+ o blant/pobl ifanc sy'n cael mynediad i'r clwb hwn. Mae'r swyddog hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Seren Gwyrdd i ddarparu cyfleoedd Ysgolion Coedwig i blant a addysgir gartref.

Gweithiodd yr adran chwarae mewn partneriaeth â'r Swyddog A106 a phartneriaid eraill i gynorthwyo gydag ymgynghori ar wariant A106 yn y dyfodol ac i ddarparu gweithgareddau a ariennir trwy arian A106. Hefyd bu'r Swyddog Datblygu Chwarae yn gweithio gyda'r Adran Dai i gynorthwyo gydag ymgynghoriad ynglŷn â datblygu gofod cymunedol awyr agored rhwng Ysgol Gwaun Y Nant ac Ysgol Gynradd Gibbonsdown.

---

Parhawyd i weithio gyda Bwrdd Iechyd a Llesiant Caerdydd a'r Fro ar ystod o weithredoedd i **atal ac ymdrin â gordewdra ac annog ffyrdd o fyw iachach**. Mae'r mentrau wedi cynnwys: hyrwyddo argaeledd gwobrau opsiynau iach i fusnesau bwyd yng Nghaerdydd a'r Fro; cyflenwi Cynllun Gweithgaredd Corfforol y Fro; gweithio gyda phob ysgol i sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru); annog datblygiad amgylcheddau iach trwy weithredu'r Cynllun Datblygu Lleol; ymestyn Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol (SHEP) yn dilyn ei lwyddiant y llynedd; gweithio gyda chymunedau lleol i wneud y gorau o'r asedau presennol gan gynnwys gwella mynediad at fannau gwyrdd, cyfleusterau chwarae lleol a chanolfannau cymunedol sy'n eu galluogi i gynnig mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a chorfforol; darparu mentrau sy'n canolbwyntio ar leihau nifer y bobl sy'n defnyddio tybaco trwy atal (codi ymwybyddiaeth targededig i annog pobl ifanc i beidio ag ysmygu), rhoi'r gorau i ysmygu (annog ysmygwyr presennol i roi'r gorau i ysmygu a'u cefnogi trwy'r broses) a gweithredu amgylcheddol (gweithio i sicrhau bod trigolion ac ymwelwyr i'r Fro yn mwynhau amgylchedd di-fwg); cyflwyno rhaglen o bryniannau prawf gwerthu (gan gynnwys pryniannau dan oed) i sicrhau cydymffurfiaeth; archwiliadau targededig o safleoedd sy'n ymgymryd â gweithgareddau masnachol sy'n cael effaith sylweddol ar bobl sy'n agored i niwed e.e. cartrefi gofal a sefydliadau bwyd mewn ysgolion.

## 6.5 AMCAN 8: EIN CYFLAWNIADAU

Treialwyd project yn llwyddiannus i ddarparu **dull Cymorth Teuluol Uniongyrchol mwy dwys gyda phlant a'u teuluoedd ar ymyl gofal**. Pwrpas y peilot oedd symud adnoddau yn brydlon i alluogi gweithwyr proffesiynol i weithio gyda theuluoedd i wella eu capasiti magu plant a bodloni anghenion

eu plant yn well. Bu'r cynllun peilot hwn yn llwyddiannus o ran atal lletya plant i'n gofal a dychwelyd plant adref pan fo'n ddiogel gwneud hynny. Defnyddiwyd canlyniadau'r peilot i hysbysu ail-gomisiynu ein Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd a gyflwynwyd ar ddiwedd 2017/18 a rhagwelir y bydd y gwasanaeth newydd yn weithredol yn ystod 2018/19.

Trwy ein dull targededig yn ystod 2017/18, cefnogwyd 75.03% o blant i barhau i fyw gyda'u teulu a 3.76% o'r plant sy'n derbyn gofal i ddychwelyd adref o ofal yn ystod y flwyddyn. Gwnaed cynnydd da yn y maes hwn, er gwaethaf y gwasanaeth sy'n ymdrin ag achosion sy'n gynyddol fwy cymhleth.

---



Parhaodd Bro Morgannwg i gryfhau ei wasanaethau pontio i gefnogi trosglwyddo pobl ifanc anabl o wasanaethau plant i oedolion. Mae prosesau trosglwyddo effeithiol angen mewnbwn amlasiantaethol i sicrhau bod unrhyw newidiadau yn cael eu rheoli'n effeithiol gan y sefydliadau dan sylw. Caiff y dull amlasiantaethol hwn ei ategu gan **Brotocol Trosglwyddo** sydd wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r newidiadau o ganlyniad i'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol. Cefnoga'r protocol arfer gorau ar draws ystod o asiantaethau, a bwriedir defnyddio'r protocol hwn fel dogfen a rennir ar draws adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg Bro Morgannwg a Chaerdydd, yn ogystal â Bwrdd Iechyd y Brifysgol. O ganlyniad i'r gwaith hwn mae gan Gaerdydd bellach '**dîm pontio'** ar waith sy'n alinio â'r trefniadau pontio ar gyfer pobl ifanc ym Mro Morgannwg. O ganlyniad, mae hyn yn ein symud tuag at ddull mwy teg a rhanbarthol o gefnogi pobl ifanc trwy bontio.

---

Rydym wedi cryfhau ymhellach waith y **Fenter Gydweithredol Mabwysiadu Rhanbarthol (a elwir yn Fenter Gydweithredol VVC Mabwysiadu y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd)** trwy weithio fel rhan o'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i **godi proffil mabwysiadu er mwyn denu mwy o bobl i ystyried mabwysiadu fel opsiwn**. Cefnogwyd y datblygiadau hyn gan Adolygiad Gwerth Gorau o'r gwasanaeth sydd wedi gwneud yr achos dros fuddsoddi wrth recriwtio ac asesu mabwysiadwyr a chymorth mabwysiadu, yn unol â blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r Fenter Gydweithredol hefyd wedi lansio ei gwefan newydd eleni, sy'n darparu ffynhonnell wybodaeth ragorol a bydd yn gwella ein cyrhaeddiad a'n gallu i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth.

---

Yn ystod 2017/18 buom yn **gweithio'n llwyddiannus gyda Chaerdydd i gaffael a gwasanaeth eirioli** i blant a phobl ifanc yn unol â'r dull cenedlaethol. Dyfarnwyd y contract newydd i'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) i ddarparu eiriolaeth annibynnol i blant a phobl ifanc mewn gofal, mewn angen neu yn gadael gofal ar draws y rhanbarth. Aeth y gwasanaeth newydd hwn yn fyw ar 1 Gorffennaf 2017. Ers ei lansio, mae NYAS wedi darparu cefnogaeth eiriolaeth (cynigion gweithredol) i 18 o blant a phobl ifanc.

---



**Lansiwyd Porth Gwybodaeth DEWIS Cymru yn llwyddiannus**; adnodd ar-lein i gael mynediad at wybodaeth am lesiant ledled Cymru. Mae'r porth hwn yn gweithredu fel offeryn cyfeirio effeithiol i drigolion gael gafael ar wybodaeth am wasanaethau ataliol/ adnoddau/ rhwydweithiau. Ers ei lansio, poblogwyd DEWIS gyda dros 1,000 o adnoddau yn ymwneud â Chaerdydd a Bro Morgannwg. Mae'r gwaith yn parhau i godi ymwybyddiaeth o'r porth ac i ddatblygu ymhellach trwy ei hyrwyddo i weithwyr proffesiynol eraill mewn digwyddiadau rhwydweithio. Bydd hyn yn sicrhau y gallwn barhau i gryfhau a gwella ehangder yr adnoddau sydd ar gael trwy DEWIS.

---

Bu DEWIS yn ychwanegiad ategol i'r **Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA**) a weithredwyd mewn ymateb i ofynion Adran 17 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r IAA yn darparu modd y gall trigolion gael gwybodaeth am y system gofal a chymorth a'r math o wasanaethau sydd ar gael a sut i gael mynediad atynt; ar gyfer gwasanaethau oedolion, gwneir hyn trwy'r Ganolfan Gyswllt Cwsmer, gydag ymholiadau cychwynnol yn cael eu trin

gan ein Cynrychiolwyr Gwasanaethau Cwsmer. Pwrpas hyn yw teilwra gwybodaeth, cyngor a chymorth er mwyn datrys eu cais ar y pwynt cyswllt cyntaf. Yn ystod 2017/18, y galw atgyfeirio misol ar gyfartaledd i'r Gwasanaethau Oedolion oedd 642 o alwadau, gyda 30 galwad cais am wasanaeth bob dydd ar gyfartaledd. I bob pwrpas, datrysodd y Ganolfan Gyswllt ymholiadau Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Oedolion wrth y 'drws ffrynt', oherwydd yn ystod 2017/18 roedd 69.5% o ymholiadau gofal cymdeithasol gwasanaethau oedolion wedi'u datrys yn y Pwynt Cyswllt Sengl (drwy'r Ganolfan Gyswllt), gyda dim ond 29.31% yn cael eu cyfeirio at Dimau Gwaith Cymdeithasol. Sefydlwyd y ddarpariaeth IAA fel gwasanaeth ataliol allweddol i unrhyw un sy'n cael mynediad at wasanaethau cymdeithasol oedolion, i alluogi pobl i wneud eu penderfyniadau gwybodus eu hunain am eu hanghenion gofal a chymorth. Y Ganolfan Gyswllt Cwsmeriaid yw'r brif fynedfa i wasanaethau cymunedol iechyd a gofal cymdeithasol. Fel rhan o dîm integredig staff y Gwasanaethau Cymdeithasol a staff Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, gallant ymateb i ystod eang o ymholiadau er mwyn eu datrys ar y pwynt cyswllt cyntaf, gan leihau'r ddibyniaeth ar dimau arbenigol. Er enghraifft, yn ystod 2017/18, datryswyd 77.86% o ymholiadau ar y Pwynt Mynediad Sengl (Canolfan Gyswllt) o ran achosion Rhyddhau o Ysbytai.

Rydym wedi **parhau i gryfhau'r cysylltiadau rhwng swyddogaeth Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc yn y Tîm Derbyn a Theuluoedd, y gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a llinell Cyngor Teuluoedd yn Gyntaf** trwy ddatblygu gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA). Cefnogwyd y gwaith hwn trwy gyflwyno sesiynau hyfforddi ar y cyd a gyflwynwyd i bartneriaid i egluro rolau a chyfrifoldebau a chynorthwyo gwneud atgyfeiriadau.

Rydym wedi **buddsoddi adnoddau i gynyddu ein gallu wrth y 'drws ffrynt'**. Mae hyn wedi ein galluogi i wella amseroldeb asesiadau o angen a risg gyda chyfeirio priodol i wasanaethau eraill, tra'n sicrhau aliniad gyda Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Rydym wedi parhau i sicrhau bod dinasyddion yn chwarae rhan ganolog mewn diffinio eu hanghenion gofal a chymorth a sut y gellir eu diwallu orau. Un o'r mentrau arloesol oedd **Peilot 'Eich Dewis'** sy'n System Rheoli a Rheolaeth Achosion sy'n Canolbwyntio ar Ganlyniadau. Mae'r Peilot 'Eich Dewis' yn cynnig ffordd newydd o ddarparu gofal a chymorth i bobl sydd angen help i aros yn iach, yn ddiogel ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Fe'i cynlluniwyd i roi mwy o ryddid i unigolion, hyrwyddo eu hannibyniaeth a chynyddu eu llesiant mewn ffordd sy'n bwysig iddynt hwy eu hunain. Y Peilot 'Eich Dewis' yw'r tro cyntaf yng Nghymru y gwelwyd partneriaeth gyfartal rhwng y sawl sy'n derbyn y gofal a'r Asiantaeth Gofal a'r Gweithiwr Cymdeithasol, gyda rolau a chyfrifoldebau yn cael eu diffinio'n glir gan bob parti. I gefnogi'r cynllun peilot hwn, datblygwyd Polisi 'Eich Dewis' sy'n disgrifio ac yn diffinio dull y model hwn ymhellach. Dangosodd adolygiad o'r cynllun peilot hwn bod y gwasanaeth wedi cael ei groesawu'n gyffredinol gan y defnyddwyr gwasanaeth a phartneriaid, ac yn ystod y peilot 12 mis, derbyniodd 15 o gyfranogwyr dros 325 awr o ofal yn canolbwyntio ar ganlyniadau gartref bob wythnos. Bydd cyflwyno'r dull chwyldroadol hwn ar draws yr holl asiantaethau gofal i bobl gymwys yng Nghyngor Bro Morgannwg yn digwydd o fis Mehefin 2018 ymlaen. Yn ddiweddar, bu Bro Morgannwg ar restr fer am wobr gofal cymdeithasol cenedlaethol o dan y categori 'gwasanaethau dan arweiniad y dinesydd'. Gwobrau bob dwy flynedd yw Gwobrau Gofal Cymdeithasol Cymru, sy'n cydnabod ac yn dathlu a rhannu arferion gorau sefydliadau a grwpiau eraill.



Yn ystod 2017/18, cytunwyd ar **broses Cymeradwyo Pecyn Gofal ar y cyd** â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP) i'w ddefnyddio gydag achosion o ryddhau cymhleth o ysbytai. Mae'r broses newydd hon wedi atgyfnerthu ymhellach y berthynas waith agos rhwng y ddau sefydliad ac mae wedi helpu i gael gwared â rhwystrau diangen i ryddhau amserol a diogel o'r ysbyty. Mae'r broses yn sefydlu

mecanwaith ar gyfer ariannu gofal a chefnogaeth ar y cyd i bobl sydd â chymhlethdod anghenion iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn bwysicach, dull ar y cyd o fonitro ac adolygu gofal yr unigolyn ar ôl ei ryddhau.

Parha ein **Gwasanaeth Rhyddhau Integredig** i chwarae rôl ganolog wrth gefnogi ailalluogi a chynyddu lefel annibyniaeth pobl yn y gymuned. Rydym wedi sefydlu cysylltiadau effeithiol â Wardiau Ysbytai i sicrhau bod gan bobl sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth ddull amlddisgyblaethol o gydlynu rhyddhau diogel. Mae gennym weithwyr cymdeithasol sy'n dechrau cynllunio rhyddhau yn gynnar i osgoi oedi diangen yn yr ysbyty. Hefyd cydgysylltodd y gwasanaeth â'n Gwasanaeth Atebion Llety i ddarparu mynediad cyflymach i dai, addasiadau, a llety â chymorth i hwyluso rhyddhau o ysbytai. Mae cynllun Rhyddhau Ysbyty Age Connects hefyd wedi ategu trwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth tymor byr i gynorthwyo pobl trwy'r trosglwyddiad o'r ysbyty i'r cartref.

O ganlyniad i ddatblygu dull mwy cydlynol a reolir yn dda, rydym wedi parhau i berfformio'n gadarn mewn perthynas â'r amser a dreulir gan bobl hŷn yn yr Ysbyty. Ar ddiwedd y flwyddyn (2017/18), cyfradd yr Oedi wrth Drosglwyddo Gofal am resymau gofal cymdeithasol (dros 75 oed) oedd 2.85 fesul 1,000 o'r boblogaeth.

---

Rydym wedi cymryd camau i gryfhau'n ymhellach ein cyfrifoldeb dros **ddiogelu,** trwy ddarparu hyfforddiant diogelu i dros 346 o staff i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau statudol newydd yn effeithiol fel yr amlinellir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Rydym hefyd wedi lansio llinell gymorth Diogelu i roi un pwynt cyswllt i staff i adrodd am unrhyw bryderon sydd ganddynt ynglŷn â llesiant oedolyn neu blentyn y credant sydd mewn perygl o niwed neu gamdriniaeth. Mae hyn wedi gwella ein mecanweithiau diogelu ymhellach ac wedi atgyfnerthu ein 'dyletswydd statudol i adrodd' fel yr amlinellir yn y Ddeddf.

Yn ystod yr Wythnos Ddiogelu ym mis Tachwedd 2017, cynhaliwyd cynhadledd staff i bwysleisio ymhellach pa mor bwysig oedd hi bod diogelu yn gwbl flaenllaw ym meddyliau pawb ac nad oedd yn cael ei drin fel rhyw fath o ôl-ystyriaeth. Dyluniwyd y gynhadledd i godi ymwybyddiaeth ymhlith staff nid yn unig yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, ond ar draws holl wasanaethau'r cyngor ar beth i'w wneud pan fyddant yn dod ar draws achosion o amheuaeth o gamdriniaeth/niwed. Yn dilyn y digwyddiad, anogwyd y rhai a fynychodd i gwblhau gwerthusiad, lle dywedodd 100% o ymatebwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol ac 86% o ymatebwyr nad oeddent yn y Gwasanaethau Cymdeithasol eu bod yn teimlo y gallent roi yr hyn a ddysgwyd yn y digwyddiad ar waith.

---

Rydym wedi cydweithio'n agos â'n partneriaid allweddol i ddatblygu a gweithredu **Strategaeth Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant** a chael protocolau rhannu gwybodaeth effeithiol rhyngom ni a phartneriaid allweddol i sicrhau diogelwch plant sy'n agored i risgiau camfanteisio'n rhywiol. Yn unol â'r strategaeth hon, mae'r offeryn/ proses atgyfeirio Fframwaith Asesu Risg Rhywiol (SERAF), sydd nawr wedi'i fewnosod ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol trwy ddarparu hyfforddiant. O ganlyniad i'r Strategaeth a'r offer SERAF, mae gennym ddulliau diogelu cadarn i sicrhau bod unrhyw bryderon posibl yn cael eu hystyried yn ofalus a'u gweithredu.

---

Trwy weithio mewn partneriaeth effeithiol gyda'r GIG, rydym wedi gallu **integreiddio ymhellach y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mewn perthynas â gwasanaethau ailalluogi.** Un o'n llwyddiannau arwyddocaol yn ystod 2017/18 fu datblygu uned ailalluogi 6 gwely. Mae'r gwelyau ychwanegol hyn yn yr uned wedi ein galluogi i liniaru'r pwysau ar welyau ysbytai trwy leihau derbyniadau ysbyty dianghenraid, a darparu'r bont rhwng rhyddhau o ysbytai a'r cartref tra'n cefnogi unigolion i adennill eu hannibyniaeth. Un o nodweddion canolog y model newydd hwn yw sefydlu tîm amlddisgyblaethol i sicrhau bod cleifion yn cael trosglwyddiad di-dor i'r cartref o fewn 6 wythnos ar ôl iddynt gael eu derbyn. Nid yn unig y mae'r cyfleuster hwn wedi helpu i liniaru'r pwysau ar welyau ysbytai, ond mae hefyd wedi arwain at arbedion sylweddol i'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd. Mae'r gostyngiad mewn costau pecyn gofal yn unig yn cyfateb i arbediad cyfartalog o £334.88 y pen

yr wythnos. Ers cychwyn y project, mae wedi cynhyrchu budd net i'r Bwrdd Iechyd hefyd, gan fod yr unigolion a gafodd fynediad i'r uned wedi arbed cyfanswm o 1,711 o ddiwrnodau yn yr ysbyty, sy'n cyfateb i arbediad o £769,950. Ar wahân i'r arbedion ariannol, mae'r project hwn wedi cynhyrchu nifer o ganlyniadau positif i ddefnyddwyr gwasanaeth trwy gynyddu'r lefel o annibyniaeth, gan adfer eu hannibyniaeth i bron hanner yr holl ddefnyddwyr gwasanaeth, heb yr angen am gefnogaeth barhaus. I'r rheiny oedd angen pecyn gofal ar ôl eu rhyddhau o'r uned, yr uchafswm a ddarparwyd ar ryddhau oedd 16 awr yr wythnos. Mae'r project hwn yn defnyddio ystadegau ar gyfer y Gwobrau Awdurdodau Lleol cenedlaethol.



Ochr yn ochr â chefnogaeth yr uned ailalluogi, rydym wedi parhau i hyrwyddo'r nifer sy'n manteisio ar ein **gwasanaethau Teleofal**. Yn ystod 2017/18, roedd 330 o ddefnyddwyr Teleofal newydd. Oherwydd y newidiadau a wnaed i'r Grant Cefnogi Pobl, rydym wedi ehangu darpariaeth Teleofal i bob math o ddeiliadaeth ar draws y Fro sydd wedi galluogi dull mwy unigol/person-ganolog i ddarparu cefnogaeth Teleofal.

Parheir i roi pwyslais ar **gynyddu nifer y taliadau uniongyrchol** i oedolion i roi mwy o reolaeth ac annibyniaeth i bobl dros eu dewis gofal. Yn ystod 2017/18 cynyddwyd nifer y defnyddwyr gwasanaethau oedolion sy'n derbyn taliadau uniongyrchol o 248 o ddefnyddwyr (yn 2016/17) i 278 o ddefnyddwyr yn 2017/18. Yn eu hadborth diweddar, cydnabu Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW) ein bod wedi cynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol, sydd wedi helpu i sicrhau ein bod yn gallu ateb y galw yn well a gwella canlyniadau a dewisiadau i bobl. Arweiniodd y cynnydd yn nifer y defnyddwyr sy'n comisiynu pecynnau gofal trwy Daliadau Uniongyrchol at arbediad blynyddol cyffredinol o £75,601.12 ar gyfer pecynnau newydd ar 31ain Mawrth 2018; gwnaed arbediad pellach o £136,228 drwy adennill arian heb ei ddefnyddio. Ar gyfer 2017/18, gwnaed cyfanswm o £211,829 o arbedion.

**Mae adleoli gwasanaethau iechyd meddwl llwyddiannus i bobl hŷn i Ysbyty Llandochau** wedi ein galluogi i gydleoli ein Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol ar gyfer pobl hŷn â gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol i sicrhau y gall pobl gael y math iawn o wasanaethau ar yr adeg iawn. Rhoddodd y cydleoli gyfle i ni wella'r effeithlonrwydd o fewn timau trwy ymuno â Swyddogaethau Dyletswydd Caerdydd a'r Fro, i leihau dyblygu a chreu gwasanaeth mwy cydlynol a chyson ar draws ardal y Bwrdd Iechyd. Mae'r adleoli hwn hefyd wedi galluogi cydleoli Staff Nyrsio Ardal, Gweithwyr Cymdeithasol a gweithwyr therapi eraill i hwyluso gweithio'n agosach i ddatblygu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y cleient, sy'n hygyrch ac yn ymatebol i anghenion defnyddwyr gwasanaeth.

Rydym wedi gweithredu prosesau asesu newydd sy'n cyd-fynd â'n seilwaith TG a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Datblygwyd **offeryn Asesu Gofal a Chymorth a Chynllunio Gofal rhanbarthol newydd** sy'n cydymffurfio'n llwyr â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, i'w ddefnyddio gan bob arbenigedd (ac eithrio iechyd meddwl oedran gweithio). Cynhwyswyd yr offeryn newydd hwn yn System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) ac mae'n canolbwyntio ar gefnogi unigolion i ganfod atebion a fydd yn eu helpu i gyflawni eu canlyniadau personol, a nodi a yw'r anghenion a aseswyd yn gymwys am ofal a chymorth.

Lansiwyd cyd-leoliad y **Tîm Awtistiaeth Integredig yn Hafan Dawel** gan y Gweinidog Iechyd yn ystod Medi 2017. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys Staff Awtistiaeth Oedolion a chydweithwyr iechyd sydd wedi ffurfio tîm amlasiantaeth, sydd hefyd yn cynnwys Seicolegydd Clinigol, Rheolwr Tîm Iechyd, Ymarferydd Awtistiaeth arbenigol, Therapydd Galwedigaethol, Nyrs Awtistiaeth Arbenigol, Therapydd Iaith a Dietegydd. Mae'r dull amlddisgyblaethol hwn yn galluogi cleientiaid i gwrdd â staff iechyd a staff yr awdurdod lleol i gael mynediad at ystod eang o wasanaethau cymorth.

Parheir i gryfhau ein cefnogaeth i Ofalwyr Ifanc. Rydym wedi **comisiynu gwasanaeth yn allanol i ddarparu cefnogaeth 1-1 bwrpasol yn y cartref a darpariaeth seibiant i ofalwyr ifanc (7 - 18 oed) i**

**helpu i wella gwytnwch Gofalwyr Ifanc a'u teuluoedd**. Yn ystod 2017/18, cafodd 53 o Ofalwyr Ifanc fynediad i'r project gyda phob un yn cael rhyw fath o gymorth seibiant a derbyniodd 18 gefnogaeth un i un yn y cartref. O'r rhain dywedodd 18.94% eu bod yn teimlo'n llai ynysig o ganlyniad i gael mynediad i'r project a bod y rhaglen wedi gwella o leiaf un agwedd ar eu bywyd.

Sefydlwyd prosesau a gweithdrefnau cadarn mewn perthynas â darparwyr gofal nyrsio, preswyl a gofal cartref i atal dyrchafu digwyddiadau. Yn ystod 2017/18, parhawyd i ganolbwyntio ar weithredu'r camau a amlinellir yng **Nghynllun Gweithredu 'Operation Jasmine'** gydag aliniad sylweddol o'n polisïau a'n prosesau gyda Chyngor Caerdydd trwy'r Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol. Golyga hyn gynnal adolygiad ar y cyd o'r Protocol Dyrchafu Pryderon, sydd wedi arwain at ddatblygu polisi a rennir ar gyfer y rhanbarth. Cynorthwyodd hyn i ddod â mwy o gysondeb i sut mae pryderon bellach yn cael eu trin o fewn lleoliadau gofal a hwyluso rhannu arfer gorau.

Yn ystod 2017/18, ymwelwyd â 39 o gartrefi gofal sy'n cael eu rhedeg yn breifat o ran materion iechyd a diogelwch megis rheoli legionella, sgaldio, diogelwch codi a gweithio ar uchder ar draws y rhanbarth.

# EIN HERIAU A RISGIAU

## 6.6 AMCAN 7: EIN HERIAU



**Mae cynnal a gwella lefelau cyfranogiad mewn gweithgarwch corfforol ar adeg o leihau adnoddau** yn her wirioneddol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol ar adeg pan fo rhanbartholi Datblygu Chwaraeon trwy drefniant Consortiwm yn cael ei ystyried. Mae hyn yn fygythiad i ariannu darpariaeth fwy lleol. Ceir perygl y gallai datblygiad chwaraeon a gyflwynir trwy drefniant Consortiwm olygu bod y Fro yn colli ei hannibyniaeth ynghylch sut y mae'n datblygu ac yn cyflwyno rhaglen o weithgareddau wedi'u teilwra i hangen. Wrth symud ymlaen, bydd y ffocws ar sut yr ydym yn dwyn ynghyd bob agwedd ar weithgareddau hamdden a chorfforol o dan ambarél Strategaeth Hamdden, a ddefnyddir fel cyfrwng i fwyafu cyfleoedd a'n hadnoddau i gynyddu cyfraddau gweithgarwch corfforol a chyfranogiad ledled y Fro. Byddwn hefyd yn parhau i gydweithio'n agos â rhanddeiliaid allweddol fel Chwaraeon Cymru i sicrhau bod y Fro yn cadw llais cryf mewn unrhyw drafodaethau sy'n mynd ymlaen ar sut y dylai dull gweithredu rhanbarthol newydd edrych.

Sicrhawyd £75K o arian Llywodraeth Cymru yn llwyddiannus yn ystod 2017/18 i gyflwyno **rhaglen chwarae gynhwysfawr ar draws y Fro** sydd wedi ein galluogi i ddarparu amrywiaeth o gynlluniau chwarae, prynu offer ac adnoddau chwarae, darparu hyfforddiant a rhedeg clybiau gwaith cartref ac ar ôl ysgol. Parhaodd Tîm Datblygu Chwarae Bro Morgannwg i weithio'n agos gyda grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid allweddol eraill i sicrhau'r defnydd mwyaf posibl o'r adnoddau hyn i wneud yn siŵr bod ein darpariaeth â'r cyrhaeddiad a'r budd mwyaf bosib i blant a phobl ifanc yn y Fro. Yr her wrth symud ymlaen yw sut yr ydym yn parhau i gynnal rhaglen chwarae gadarn ar adeg pan fydd cyllid yn lleihau. Bydd cyflenwi rhaglen chwarae uchelgeisiol a chynhwysfawr sy'n unol â gofynion deddfwriaeth newydd yn parhau i fod yn her pan fo cyllidebau'n lleihau. Er mwyn ymdrin â hyn, byddwn yn parhau i edrych ar ffyrdd newydd o ymgysylltu a gweithio gyda grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu a chyflenwi cyfleoedd chwarae mwy cynaliadwy yn y dyfodol. Hefyd ceir heriau o ran sut y gallwn dargedu grwpiau 'anodd eu cyrraedd' yn effeithiol i ymgysylltu â gwasanaeth megis y rhaglen chwarae a gwasanaethau cymorth y blynyddoedd cynnar i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Er gwaethaf y cynnydd cadarnhaol a wnaed wrth gyflwyno'r **Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau** gyda'n partneriaid, un o'r prif heriau sy'n wynebu'r Fro ar gyfer y Bwrdd Cynllunio Ardal yw ansicrwydd dyraniad cyllid ar gyfer prydlesu eiddo ac yn arbennig ansicrwydd daliadaeth gwasanaethau ar Heol Holton. I liniaru hyn, rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid i nodi mwy o atebion hirdymor i eiddo ar brydles i sicrhau parhad gwasanaeth. Rhwystrwyd cyflwyno'r Strategaeth Gomisiynu a'r Cynllun Cyflenwi Camddefnyddio Sylweddau gan gapasiti cyfyngedig y Tîm Cefnogi Bwrdd Cynllunio Ardal presennol i fwrw ymlaen â'r rhaglen. I ymdrin â hyn, sefydlwyd strwythur tîm interim ac rydym wedi cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol i flaenoriaethu rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Er gwaethaf gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd a Llesiant Caerdydd a'r Fro i **hybu negeseuon bwyta'n iach a ffordd o fyw**, gall y gallu i sicrhau newid fod yn araf ac yn anodd cael tystiolaeth ohono. Rydym yn parhau i sicrhau ein bod yn cynnal proffil uchel ym mhob cyfarfod Bwrdd perthnasol er mwyn sicrhau y gallwn gael dweud ein dweud am fentrau sy'n dod i'r amlwg, fel y gallwn gael cyfran a dylanwad dros ddatblygiadau.

## 6.7 AMCAN 8: EIN HERIAU



Mae gwireddu manteision posibl **cyllidebau cyfunol** i alluogi comisiynu gwasanaethau ar y cyd ar draws ffiniau sefydliadol yn parhau i fod yn her. Hefyd ceir heriau o ran datblygu dulliau symlach o ddatblygu/comisiynu gwasanaethau ataliol sy'n fwy cydgysylltiedig ar draws ffiniau sefydliadol, yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**Mae cynnal a gwella lefelau cyflenwi gwasanaethau a pherfformiad tra'n rheoli disgwyliadau pan fydd adnoddau'n lleihau yn dod yn gynyddol fwy heriol**. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun y galw cynyddol am wasanaethau a welwyd ar draws y bwrdd (ac yn enwedig o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol). Rydym yn parhau i ffocysu ein sylw ar wella ein dull o gefnogi teuluoedd a darparu gwasanaethau ataliol. Yn ystod 2017/18, cyflwynwyd Project Cymorth Teuluol Uniongyrchol a thrwy gyflenwi'r Rhaglen Dechrau'n Deg sefydledig a Rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf, rydym wedi gallu ymgymryd â gwaith ataliol wedi'i dargedu ar blant a'u teuluoedd. Mae'r Rhaglenni Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf wedi'u halinio'n effeithiol ac mae prosesau ar waith i leihau unrhyw ddyblygu/gorgyffwrdd o ran cyflenwi gwasanaethau. Er gwaethaf alinio'r rhaglenni hyn, yr her yw ein capasiti a'n gallu i ateb y galw cynyddol am y gwasanaethau hyn, tra'n sicrhau nad oes unrhyw wasanaethau a ddarperir ar draws sbectrwm ein partneriaid yn cael eu dyblygu neu'n gwrthdaro â'n nodau.

Yn yr un modd, er gwaethaf ein dull blaengar o weithio gyda phartneriaid, mae **cydweithio mewn perthynas â datblygu modelau darparu gwasanaeth amgen yn parhau'n her barhaus mewn hinsawdd o adnoddau sy'n lleihau**. Yn gysylltiedig â hyn, ceir argaeledd ffrydiau ariannu grant e.e. Cronfa Gofal Integredig sy'n effeithio ar ein gallu i barhau i ddatblygu a chomisiynu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar arloesi a chreu galluedd, sy'n dal i fodloni ein gofynion statudol i ddarparu gwasanaethau craidd. Gall gostyngiad mewn ffrydiau cyllid grant a phroblemau ac oedi ar lefel ranbarthol hefyd effeithio ar ein gallu i hyrwyddo ymhellach integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion a'u trawsnewid yn amserol. Bydd angen cryn dipyn o fuddsoddiad i hwyluso integreiddio gwasanaethau ymhellach.

**Mae anallu i leihau achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal trwy ein gwasanaeth Atebion Llety oherwydd cyfyngiadau ariannol yn parhau i fod yn her**. Er ein bod yn parhau i berfformio'n gadarn mewn perthynas ag Oedi wrth Drosglwyddo Gofal (DTOC - oedi sy'n gysylltiedig â threfniadau rhyddhau o'r ysbyty), mae'n amlwg o'n perfformiad bod cyfyngiadau ariannol yn cael rhywfaint o effaith. Yn ystod 2017/18 gwaethygodd ein perfformiad ychydig o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Y gyfradd DTOC yn ystod 2017/18 oedd 2.85 o'i gymharu â 2.59 yn y flwyddyn flaenorol (2016/17).

Mae'r gwasanaeth yn parhau i edrych ar ffyrdd y gall ymdrin ag unrhyw ôl-groniad yn y system drwy'r Gwasanaeth Rhyddhau Integredig.

Gosoda Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gryn dipyn o ddyletswyddau a gofynion ar awdurdodau lleol. Rydym wedi cael adborth cadarnhaol gan AGGCC ynglŷn â sut y bydd ail-alinio ein gwasanaethau yn ein galluogi i fod yn fwy ymatebol i anghenion busnes sy'n newid o ganlyniad i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae'r Grŵp Llywio Rhanbarthol a'r ffrydiau gwaith cysylltiedig yn parhau i chwarae rhan fawr o safbwynt sicrhau bod staff yn cydymffurfio â'r ffyrdd newydd o weithio sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth. Er bod y mecanweithiau cadarn hyn yn eu lle, mae heriau'n parhau i fodoli mewn perthynas â'n **capasiti i fodloni gofynion y Ddeddf yn llawn mewn hinsawdd lle mae'r cyllidebau'n lleihau a'r galw am Wasanaethau Cymdeithasol yn cynyddu.**

Er gwaethaf y cynnydd cadarnhaol a wnaed gennym wrth ddatblygu Strategaeth Gomisiynu ar gyfer Llety â Gofal, mae angen gwneud gwaith pellach i wneud y defnydd gorau o'r wybodaeth honno trwy ddatganiad Sefyllfa'r Farchnad. **Mae angen inni atgyfnerthu sut yr ydym yn gweithio gyda'n partneriaid i gynhyrchu strategaeth gomisiynu ar gyfer Llety â Gofal, a all ymateb yn effeithiol i anghenion ein dinasyddion trwy ddarpariaeth llety priodol â gofal a chymorth**.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda'n partneriaid i weithredu Strategaeth Camfanteisio’n Rhywiol ar Blant ac mae protocolau rhannu gwybodaeth effeithiol ar waith. Yr her wrth symud ymlaen fydd **ymgorffori'r arferion da sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth Camfanteisio’n Rhywiol ar Blant ymhellach trwy annog y partneriaid i ddefnyddio a manteisio ar yr offeryn SERAF**. Hefyd, gallai'r dirwedd bolisi newidiol o ran Camfanteisio’n Rhywiol ar Blant (CSE) a yrrir gan adolygiad Llywodraeth Cymru effeithio ar y modd yr ydym yn darparu model CSE yn y dyfodol. Os yw'r model hwn yn sylweddol wahanol i'n strategaeth bresennol, gallai hyn effeithio ar y modd yr ydym yn darparu CSE yn y dyfodol.

Gwnaed cynnydd arwyddocaol i gryfhau ein cyfrifoldebau mewn perthynas â Diogelu ar draws y Cyngor trwy sicrhau ei bod yn 'gyfrifoldeb i bawb', a bu codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o bolisi ac arfer diogelu yn ganolog i'r gwaith hwn. Mewn hinsawdd lle mae adnoddau'n cael eu gwasgu, mae hyn yn rhoi pwysau ar ein **capasiti i sicrhau bod y gweithdrefnau diogelu yn parhau'n gadarn, yn cael eu hadolygu a'u diweddaru’n rheolaidd a'u defnyddio'n gyson**.



Mae twf mewn atgyfeiriadau i'r **Fenter Gydweithredol Mabwysiadu Rhanbarthol (Fenter Gydweithredol Mabwysiadu y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd**) (VVC) yn effeithio ar bob un o'r pedwar awdurdod ac mae materion capasiti ac adnoddau yn dod yn fwyfwy heriol.

Bydd cyflenwi rhaglen arolygu dargededig fel rhan o'r Gwasanaeth Rheoleiddio a Rennir yn erbyn cefndir o adnoddau’n lleihau yn parhau i fod yn heriol. O ganlyniad, golyga hyn y bydd angen i ni gyflenwi mwy o'n gwasanaethau gan ddefnyddio dull seiliedig ar risg i reoli’n well a blaenoriaethu ein darpariaeth gwasanaeth.

Mae cynnal a gwella lefelau cyflenwi gwasanaethau a pherfformiad tra’n **reoli disgwyliadau cwsmeriaid mewn hinsawdd o adnoddau sy'n lleihau** yn parhau i fod yn her barhaus i'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Capasiti a gallu i ddiwallu'r galw cynyddol am Wasanaethau Cymdeithasol i sicrhau y gellir diwallu anghenion.** Mae newidiadau demograffig yn cael effaith sylweddol, gan fod nifer cynyddol o blant a phobl ifanc a'u teuluoedd ac oedolion yn cyflwyno gydag anghenion mwy cymhleth sy'n effeithio ar ein gallu



i ddiwallu'r anghenion hynny yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Mae niferoedd cynyddol o blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth yn rhoi pwysau ychwanegol ar gost a sefydlogrwydd lleoliadau. Effaith pwysau tymor hir cynyddol ar adnoddau gofal cymdeithasol, iechyd ac addysg i gefnogi anghenion cymhleth pobl hŷn anabl: rydym yn parhau i archwilio ffyrdd o reoli'r galw a cheisio cyfeirio pobl yn briodol ac yn ddiogel i gefnogi eu hunain yn eu cymuned trwy ddefnyddio llwyfannau gwybodaeth megis Dewis a Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.

## 6.8 AMCAN 7: RISGIAU GWASANAETH

Mae'r Risgiau Gwasanaeth a nodwyd yn ein Cynlluniau Gwasanaeth wedi'u halinio â chanlyniad Llesiant ac Amcan cysylltiedig. Aliniwyd dwy risg gwasanaeth ag amcan 7: Hybu Ffyrdd Actif ac Iach o Fyw. Ar ddiwedd y flwyddyn 2017/18, rhoddwyd statws canolig/uchel i un risg a sgoriwyd y llall fel risg canolig.

Yn y ddau achos, mae'r risgiau sy'n cyd-fynd â'r amcan hwn yn ymwneud â'r gostyngiad yn y ddarpariaeth/cyflenwad o wasanaethau yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Mae effaith cyflenwi datblygiad chwaraeon trwy drefniant Consortiwm yn arwain at y risg y bydd ariannu'r ddarpariaeth datblygu chwaraeon yn waeth. Mae'r rhanbartholi posibl datblygiad chwaraeon trwy fodel Consortiwm yn fygythiad i'n cyllid ar gyfer darpariaeth leol yn y Fro. Er bod y risg hon wedi cael statws canolig ar hyn o bryd, rhagwelwn y bydd y risg yn cynyddu dros amser gan fod Chwaraeon Cymru wedi nodi eu bwriad i ranbartholi'r arian ar draws Cymru gyfan. Fel awdurdod lleol, mae gennym reolaeth gyfyngedig dros hyn, ond rydym yn parhau i gydweithio'n agos â Chwaraeon Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill i gymryd rhan mewn trafodaethau fel y gallwn fod yn rhan o siapio sut y byddai'r dull rhanbartholi hwn yn gweithio, i leihau ei effaith bosibl ar ddarpariaeth datblygu chwaraeon yn lleol yn y Fro.

Mae'r anallu i gynnal ein seilwaith a'n cyfleusterau presennol sy'n arwain at ostyngiad yn y ddarpariaeth gwasanaeth wedi cael statws canolig/uchel, a rhagwelwn y bydd yn parhau i fod yn statws canolig/uchel o gofio anwadalrwydd yr amgylchedd cyllid. Bydd y risg hon yn parhau i fod yn bryder mewn hinsawdd o adnoddau sy'n lleihau, ac mae'n arbennig felly i rai o'n cyfleusterau chwaraeon awyr agored defnyddiwr unigol. Yn draddodiadol, mae'r Cyngor wedi talu ffi llogi sefydlog am ei gyfleusterau chwaraeon awyr agored, ond nid yw'r ffioedd yn gyffredinol yn cwmpasu'r costau llawn sy'n gysylltiedig â chynnal a darparu'r cyfleusterau. Wrth symud ymlaen, bydd y Cyngor yn edrych ar wahanol ffyrdd o weithio er mwyn sicrhau'r cydbwysedd rhwng gwarchod y gwasanaethau hyn i wella ymhellach a hybu ffyrdd iach o fyw, tra'n sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gynaliadwy yn yr hirdymor. Un o'r opsiynau sy'n cael eu harchwilio yw trwy gyfrwng trosglwyddo cyfrifoldeb dros rai cyfleusterau chwaraeon i grwpiau cymunedol, lle'r ystyrir hynny'n briodol. Ar y llaw arall, nid yw'r gwasanaethau chwaraeon awyr agored a chwaraeon a hamdden dan do a weithredir gan y Cyngor trwy gontract Canolfan Hamdden (trwy Legacy Leisure) bellach yn angen cymhorthdal refeniw ac mae wedi arwain at warged refeniw. Yn ôl yr wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, credir mai'r Fro yw'r unig Gyngor yng Nghymru nad yw angen cymhorthdal refeniw i weithredu ei Ganolfannau Hamdden. Nid yw gweithredu'r model amgen hon o ddarparu gwasanaeth wedi effeithio ar niferoedd y defnyddwyr ac mae ein trigolion ac ymwelwyr yn parhau i ddefnyddio'n holl Ganolfannau Hamdden yn helaeth - cafwyd cyfanswm o 789,779 o ymweliadau â'r canolfannau hyn yn ystod 2017/18.

Rydym hefyd yn gweithio'n barhaus â grwpiau cymunedol, ysgolion a chlybiau chwaraeon i geisio ffyrdd o wella ymhellach gyfleoedd chwaraeon a gweithgareddau corfforol mwy cynaliadwy ledled y Fro. Yn ystod 2017/18, gwnaethom hyn trwy ddarparu rhaglenni hyfforddiant i hyfforddi a mentora hyfforddwyr chwaraeon gwirfoddol. Cynorthwyodd hyn i feithrin capasiti o fewn cymunedau, fel bod grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr yn gallu cyflenwi cyfleoedd datblygu chwaraeon a gweithgaredd corfforol mwy cynaliadwy yn lleol. Er enghraifft, o fewn datblygu chwaraeon yn ystod 2017/18 gwnaed hyn trwy ddarparu ystod o raglenni hyfforddiant i hyfforddi a mentora hyfforddwyr


a gwirfoddolwyr presennol a newydd. Er enghraifft, o fewn datblygu chwaraeon yn ystod 2017/18, roedd 2,422 o gyfleoedd hyfforddi a fynychwyd gan unigolion rhwng 9 a 70 oed o 164 o sefydliadau trwy brojectau megis 'Creu Hyfforddwyr Hyderus', 'Llysgenhadon Ifanc', 'Cynhwysiant Anabledd' a 'Hyfforddwyr y Dyfodol '. Cynorthwyodd hyn i adeiladu capasiti, datblygu sgiliau a gwybodaeth o fewn cymunedau fel bod grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr yn gallu cyflenwi cyfleoedd datblygu cynaliadwy a gweithgareddau corfforol yn lleol. Er enghraifft, derbyniodd 22 o blant a nifer o oedolion o Glwb Gwaith Cartref Y Rhws hyfforddiant trwy gwrs Playmakers. Mae'r unigolion hyn bellach yn weithgar yn cyflenwi gweithgareddau chwaraeon rheolaidd i 100+ aelod o'r Clwb Gwaith Cartref. Mae adeiladu capasiti yn y modd hwn wedi ein helpu i gyflwyno rhaglen datblygu chwaraeon fwy cynaliadwy, ond nid yw wedi lleihau'r gallu a'r pwysau cyllidebol a wynebwn.

Amlinellir isod fap gwres sy'n plotio'r sgoriau risg gweddilliol ar gyfer pob un o'r risgiau gwasanaeth hyn am y cyfnod 2017/18, i ddarparu darlun o'r grwpiau risg ar fap gwres i'r amcan hwn.

**Tebygolrwydd**

**Effaith**

| | **1** | **2** | **3** | **4** |
|---|---|---|---|---|
| **4** | Canolig | Canolig/Uchel | Uchel | Uchel Iawn |
| **3** | Canolig | Canolig | Canolig/Uchel | Uchel |
| **2** | Isel | Canolig | 1 Canolig | 2 Canolig/Uchel |
| **1** | Isel iawn | Isel | Canolig/isel | Canolig |

| Cyf risg | Disgrifiad o'r risg | Cyfeiriad teithio | Cyfeiriad teithio a ragwelwyd |
|---|---|---|---|
| **Lleihad mewn cyflenwi/darparu gwasanaeth** | | | |
| 1 | Mae datblygu a chyflenwi chwaraeon a ddarperir ar sail ranbarthol drwy gonsortiwm yn waeth. |  |  |

| Cyf risg | Disgrifiad o’r risg | Cyfeiriad teithio | Cyfeiriad teithio a ragwelwyd |
|---|---|---|---|
| **Lleihad mewn cyflenwi/darparu gwasanaeth** | | | |
| 2 | Anallu i gynnal y seilwaith a'r cyfleusterau presennol sy'n arwain at ostyngiad yn y ddarpariaeth gwasanaeth. |  |  |

## 6.9 AMCAN 8: RISGIAU GWASANAETH

Mae’r Risgiau Gwasanaeth a nodwyd trwy ein Cynlluniau Gwasanaeth wedi'u halinio â chanlyniad Llesiant ac Amcan cysylltiedig. Mewn perthynas ag Amcan 8 y Cynllun Corfforaethol: Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed a hyrwyddo byw'n annibynnol, mae 24 risg gwasanaeth. Gellir grwpio'r 24 risg yn ôl 8 thema sy'n gysylltiedig ag agweddau allweddol ar gyflawni’r Cynllun Corfforaethol mewn perthynas â'r amcan hwn. Mae grwpio risgiau yn ôl y themâu hyn yn ein galluogi i ddeall a gwerthuso’n well yr effaith y gall sawl agwedd o risg ei chael ar ein gallu i gyflawni agweddau allweddol o'r Cynllun Corfforaethol, yn ogystal â nodi unrhyw ryng-berthynas rhwng risgiau sydd wedi’u halinio â themâu. Y saith thema sy'n gysylltiedig â'r amcan hwn yw:

- Diogelu
- Rheoli’r galw a disgwyliadau ar gyfer ein gwasanaethau
- Mynediad at wasanaethau ac asesiad amserol
- Cydymffurfiaeth ddeddfwriaethol a'i goblygiadau
- Cyllid
- Comisiynu; a
- Partneriaethau.

Os na roddir sylw effeithiol i'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r themâu hyn, gallent gael effaith niweidiol ar gyflenwi'r Cynllun Corfforaethol. Felly, rhoddwyd prosesau cadarn ar waith i sicrhau ein bod yn adolygu ac yn monitro'r risgiau hyn yn rheolaidd fel y gallwn eu rheoli'n effeithiol. Gan fod y risgiau sy'n gysylltiedig â'r amcan hwn o natur drawsbynciol, gallant hefyd effeithio ar feysydd eraill o gyflenwi'r Cynllun Corfforaethol. Er yr adlewyrchir elfennau o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn yr amcan hwn, maent hefyd yn berthnasol i amcan 2: darparu cartrefi gweddus a chymunedau diogel fel rhan o Ganlyniad 1: Bro Gynhwysol a Diogel, oherwydd bod gan y Rhaglen Cefnogi Pobl ran allweddol i chwarae wrth gefnogi annibyniaeth pobl yn eu cartrefi eu hunain.

Yn gyffredinol, mae'r map gwres isod yn dangos bod peryglon cyfartal ar draws y pen canolig i ben canolig/uchel y cwadrant. Ar ddiwedd y flwyddyn 2017/18, roedd 2 risg yn uchel, 7 risg yn ganolig/uchel a dyrannwyd sgôr canolig i 17 o ran statws risg.

Ni nodwyd unrhyw risgiau gwasanaeth a oedd wedi’u halinio â'r amcan hwn fel risg canolig/isel neu isel. Gellir rhagweld hyn, o ystyried bod yr amcan yn ymwneud â diogelu pobl sy'n agored i niwed a hyrwyddo annibyniaeth. Byddech yn disgwyl i’r risgiau hyn fod yn fwy cyfnewidiol, o’u natur gynhenid.

Roedd y risgiau a gafodd statws uchel yn ymwneud â'r Goblygiadau sy'n codi o'r Llys Gwarchod sy'n gysylltiedig ag Amddifadu Rhyddid pobl sy'n byw mewn lleoliadau domestig ac effaith cynyddu niferoedd Plant sy'n Derbyn Gofal ar leoliadau pan eir y tu draw i gapasiti maethu mewnol ac y cynyddir dibyniaeth ar leoliadau IFA a phwysau ar Dimau Gwaith Cymdeithasol a Thimau Lleoliadau. Yn y ddau achos, mae'r ardaloedd gwasanaeth hyn yn wynebu galw sydd tu hwnt i bob rheswm, ac yn ei dro, dyry hyn bwysau pellach ar gyllidebau sydd eisoes wedi'u hymestyn. Er bod cydbwysedd

da o reolaethau yn eu lle, nid oes gennym ond y rheolaeth leiaf bosib mewn rhai achosion, oherwydd natur y ffactorau allanol sydd ar waith.

Mae’r Trefniadau Diogelu Amddifadu o Ryddid yn sicrhau bod pobl na allant gydsynio i'w trefniadau gofal mewn cartref gofal neu ysbyty yn cael eu diogelu os yw'r trefniadau hynny yn eu hamddifadu o'u rhyddid. Yn yr achosion hyn, mae angen asesu trefniadau gofal y person a'r cyfyngiadau ar eu rhyddid i sicrhau eu bod yn angenrheidiol ac yn gymesur ac er lles y person. Roedd goblygiadau o ddyfarniad Goruchaf Lys a elwir yn achos Cheshire West yn 2014, yn lleihau'r trothwy o ran yr hyn a olygir gan amddifadedd o ryddid. O ganlyniad, gwelwyd cynnydd sylweddol yn y galw am asesiadau gan Dîm Deddf Diogelu Amddifadu o Ryddid/Galluedd Meddyliol (DoLS/MCA) Caerdydd a'r Fro. Er enghraifft, mae nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer asesiadau i Gyngor y Fro wedi cynyddu o 6 yn 2013/14 i 458 yn 2017/18. Er bod rhywfaint o adnoddau ychwanegol wedi eu dyrannu gan y tri phartner, mae cyfradd yr atgyfeiriadau yn parhau i fod yn fwy na chapasiti, ac o ganlyniad mae wedi creu ôl-groniad o geisiadau sy’n disgwyl i gael eu trin. Yn ystod 2017/18, er gwaethaf cwblhau 328 o asesiadau, roedd gan y Fro 230 o asesiadau ar ôl i’w trin. Er gwaethaf y pwysau, mae'r Tîm DoLS yn perfformio'n dda oherwydd nododd ‘Trefniadau Diogelu Amddifadu o Rhyddid Arolygiaeth Gofal Cymru: Adroddiad Monitro Blynyddol 2016/17’ bod 94% o geisiadau wedi'u cwblhau yn 2016/17. Fodd bynnag, bu pwysau ariannol ychwanegol hefyd yn dilyn dyfarniad achos AJ v A Awdurdodau Lleol yn 2015 a arweiniodd at newid canllawiau lle mae angen penodi Cynrychiolydd Personau Perthnasol annibynnol os oes unrhyw bosibilrwydd o wrthdaro buddiannau lle mae aelod o'r teulu/ffrind yn gysylltiedig. O ganlyniad, mae hyn wedi ychwanegu at faich ariannol y gwasanaeth. Yn ystod 2017/18 yn unig, mae'r costau ychwanegol hyn ar gyfer y Fro wedi cyfateb i dros £49K. Nid yw'r materion adnoddau hyn yn unigryw i'r Fro. Er mwyn rheoli'r galw yn well, mae'r Fro yn defnyddio offer matrics blaenoriaeth ADSS (Cymru) i gefnogi blaenoriaethu asesiadau; er gwaethaf hyn mae'r ôl-groniad yn parhau i fod yn sylweddol. Mewn ymateb i ganfyddiadau'r archwiliad diweddar, mae proses ac adolygiad mapio busnes ar y gweill er mwyn canfod lliniaru priodol pellach i'r risg hon. Bydd yr ymarferiad mapio ac adolygu yn edrych ar swyddogaethau busnes cyfredol y tîm a'r ffyrdd y gellir symleiddio prosesau yn well, i alluogi defnydd mwy effeithlon o amser ac adnoddau o fewn y tîm.


O ran y niferoedd cynyddol o blant sy'n derbyn gofal, cynyddodd y boblogaeth yn raddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf o 193 ym mis Mawrth 2016 i 249 ar ddiwedd mis Gorffennaf 2018. Mae darparu lleoliadau plant yn faes heriol, gan ei bod yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol reoli amrywiadau yn niferoedd y plant sy'n derbyn gofal gyda'r angen i ddod o hyd i leoliadau priodol a all ddiwallu anghenion cymorth plant, tra'n defnyddio ein hadnoddau'n effeithiol pan fo cyllidebau dan bwysau. Un o'r dylanwadau allweddol sy'n effeithio ar leoliadau plant sy'n derbyn gofal yw'r nifer gynyddol sydd ag anghenion cymhleth. Mae hyn yn rhoi pwysau cynyddol ar ein cyllidebau i ddod o hyd i leoliadau priodol/arbenigol a all fodloni'r anghenion hyn orau. Hefyd mae’r garfan hon o blant yn cynnwys y rhai sydd ag ymddygiad arbennig o heriol a chymhleth a/neu rhai ag anableddau. Mewn rhai achosion, mae cymhlethdod yr angen yn gwarantu lleoliadau mwy arbenigol a all fod yn ddrud ac mewn rhai achosion yn gallu bod yn fwy na £250K y flwyddyn. Yn yr un modd, mae'r galw cynyddol am gefnogaeth i blant a phobl ifanc anabl hŷn yn rhoi straen ar adnoddau sydd eisoes wedi'u hymestyn, oherwydd efallai y bydd rhai pobl ifanc anabl angen gofal a chymorth 24 awr sydd ar gael mewn lleoliad ysgol breswyl yn unig. Gall hyn fod yn bwysau cyllidebol hirdymor sylweddol gyda chost flynyddol gyfartalog o £113K y flwyddyn. Dylanwad allweddol arall yw polisi 'Pan fyddaf yn barod' Llywodraeth Cymru sy'n ymestyn yr amser y gall plant barhau mewn lleoliadau gofal maeth y tu hwnt i 18 oed. Canlyniad hyn yw y bydd rhai plant yn aros mewn lleoliadau maeth am fwy o amser, gan ychwanegu at y galw cyffredinol am leoliadau gofal maeth. Mae hyn yn ychwanegu at y pwysau presennol o orfod recriwtio a chadw gofalwyr maeth sy'n gallu ac wedi’u hawdurdodi i faethu plant hyd at 21 oed. Y gyrrwr allweddol arall i'r risg hon yw'r defnydd o leoliadau dalfa lle mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol am y costau sy'n gysylltiedig â gofalu am blant sy'n destun achos troseddol, felly ni chaniateir iddynt fyw gartref. Gall y costau sy'n gysylltiedig â lleoliadau dalfa fod yn uchel a ni ellir rhagweld natur y niferoedd o blant/pobl ifanc a faint o amser y bydd angen eu cadw yn y ddalfa, sy'n ei gwneud hi'n anodd cynllunio. Yn ystod 2017/18 cafwyd cynnydd yn niferoedd y bobl ifanc a gedwir yn y ddalfa, trwy achosion troseddol sy’n ei gwneud yn ofynnol cael lleoliad dalfa.

Mewn rhai achosion, gall lleoliad person ifanc mewn uned ddiogel arbenigol gostio mwy na £9K yr wythnos. Mae'r cyfuniad o'r holl ffactorau hyn yn cydweithio â'i gilydd yn rhoi pwysau cyllidebol sylweddol ar y lleoliadau. Yn yr un modd, mae natur gyfnewidiol ac anrhagweladwy nifer y plant sy'n derbyn gofal sy'n dod i mewn i'r system yn ei gwneud hi'n anodd rhagweld niferoedd a chymhlethdod yr angen a'r math o leoliad sydd ei angen.

O ganlyniad, mae'r Tîm Rheoli Plant a Phobl Ifanc yn dadansoddi'r gyrwyr allanol a mewnol yn gyson er mwyn rhagweld yr effaith debygol ar Fro Morgannwg ar unrhyw adeg benodol. Mae gan yr Isadran Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc weledigaeth glir o sut i ymdrin â'r heriau hyn trwy gael Strategaeth Gorfforaethol i Blant mewn Angen Gofal a Chefnogaeth sy'n nodi sut y bydd anghenion gofal cymdeithasol plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael eu diwallu o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Yn ystod 2017/18, gwnaed cynnydd da wrth liniaru effeithiau rhai o'r dylanwadau a grybwyllwyd uchod. Ymgymerwyd ag archwiliad gan Banel Lleoliadau Amlasiantaethol o'r holl blant a leolir yn allanol (47) ym mis Chwefror 2018, gyda gorchwyl o archwilio addasrwydd lleoliadau a lle gallai darpariaeth amgen fod yn fwy priodol. O ganlyniad i'r archwiliad hwn, cafwyd hyd i leoliadau mwy priodol gydag arbedion ariannol posibl. Mae'r Gwasanaeth Maethu yn parhau i weithredu Strategaeth Recriwtio Gofalwyr Maeth cadarn sy'n cynnwys gwella ein proffil mewn perthynas â hysbysebu i ddenu gofalwyr maeth newydd, gweithredu'r Canllawiau Arfer Gorau Maethu ac ymgysylltu â'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol (NFF) i wella cynllunio, ansawdd parhaol o ddarpariaeth lleoliadau ac arfer gorau. Rydym hefyd yn gweithio'n rhanbarthol gyda Chaerdydd i gynhyrchu Cynllun Datblygu Rhanbarthol a Strategaeth Maethu ar y Cyd i hybu cyfraddau recriwtio ar draws y rhanbarth. Hefyd, o ganlyniad i sefydlu cyllideb ar y cyd gyda'r Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau, rydym wedi dileu'r angen i gytuno ar gyllid costau lleoliad addysg a gofal cymdeithasol ar gyfer plant ag anghenion cymhleth ar sail ad hoc. Mae'r Panel Parhaol yn cymryd cyfrifoldeb am adolygu pob achos cyn yr ail adolygiad. Bu'r ffocws penodol yn y maes hwn ar edrych ar ddirymu Gorchmynion Gofal i orchmynion mwy priodol a llai ymwthiol a fydd yn dal i ddiogelu'r plentyn. Yn ystod 2017/18, cafwyd tri chais llwyddiannus i'r Llys i ddiddymu Gorchmynion Gofal Trefniadaeth Plant/Gorchmynion Gwarcheidiaeth (SGO) mewn perthynas â phedwar o blant. Mae'r holl weithgareddau a amlinellir uchod wedi cyfrannu'n sylweddol at helpu i reoli a lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â rheoli nifer cynyddol plant sy'n derbyn gofal a'r pwysau cyllidebol cysylltiedig y mae'n ei greu. Wrth symud ymlaen, bydd y gwasanaeth yn parhau i ganolbwyntio ar gyfleoedd i liniaru'r risgiau a'r materion ymhellach trwy leihau'r defnydd o asiantaethau maethu annibynnol ar gyfer lleoliadau drwy'r project recriwtio gofalwyr maeth, lleihau symudiadau i ofal preswyl (sy'n cynnwys niferoedd a hyd yr arhosiad), defnyddio darpariaeth breswyl leol i ddychwelyd plant sy'n derbyn gofal i leoliadau preswyl mwy cost isel yn lleol lle bo'n bosibl, cynyddu lleoliadau carennydd trwy ddefnyddio dirymiad Gorchmynion Gofal a gwasanaethau ataliol, gweithio mewn partneriaeth ag iechyd i gynnig mwy o gefnogaeth therapiwtig i wella sefydlogrwydd lleoliadau, a datblygu strwythur y gwasanaeth i gynnwys tîm penodol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal.

Mae mwyafrif y risgiau sydd wedi'u halinio â'r amcan hwn yn cael eu rheoli'n effeithiol gan gydbwysedd da o reolaethau presennol er mwyn sicrhau y gallwn reoli a monitro lefelau risg yn effeithiol ar lefelau rhesymol. Yn achos y risgiau hynny sy'n anoddach eu rheoli, mae'r meysydd Gwasanaeth sy'n berchen ar y risgiau hyn yn parhau i fod yn ymrwymedig i archwilio ffyrdd i liniaru ymhellach effeithiau'r risgiau.

Amlinellir isod fap gwres sy'n plotio'r sgoriau risg gweddilliol ar gyfer pob un o'r risgiau gwasanaeth hyn am y cyfnod 2017/18, i ddarparu darlun o'r grwpiau risg ar fap gwres i'r amcan hwn.




| Cyf risg | Disgrifiad o'r risg | Cyfeiriad teithio | Cyfeiriad teithio a ragwelwyd |
|---|---|---|---|
| **Diogelu** | | | |
| 1 | Ni all y Cyngor fodloni ei gyfrifoldeb statudol i ymateb yn effeithiol i bobl sydd mewn perygl o gael eu hesgeuluso/eu cam-drin. (Rheoli Adnoddau a Diogelu) | ↔ | ↔ |
| 2 | Ni all y Cyngor fodloni ei gyfrifoldeb statudol i ymateb yn effeithiol i bobl sydd mewn perygl o gael eu hesgeuluso/eu cam-drin. (Gwasanaethau Oedolion) | ↔ | ↔ |
| 3 | Ni all sefydliadau allanol fodloni eu cyfrifoldebau i ymateb yn effeithiol i sefyllfaoedd lle mae pobl mewn perygl o gael eu hesgeuluso/eu cam-drin. (Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc) | ↔ | ↔ |
| 4 | Ni all sefydliadau allanol fodloni eu cyfrifoldebau i ymateb yn effeithiol i sefyllfaoedd lle mae pobl mewn perygl o gael eu hesgeuluso/eu cam-drin (Rheoli Adnoddau a Diogelu) | ↔ | ↔ |
| 5 | Mae gweithdrefnau Diogelu Corfforaethol yn annigonol, heb eu dilyn ac/neu'n aneffeithiol. (Rheoli Adnoddau a Diogelu) | ↔ | ↔ |
| **Rheoli'r galw a disgwyliadau ar gyfer ein gwasanaethau** | | | |
| 6 | Cyllid annigonol i ddiwallu'r galw cynyddol am wasanaethau | ↔ | ↔ |

| Cyf risg | Disgrifiad o’r risg | Cyfeiriad teithio | Cyfeiriad teithio a ragwelwyd |
|---|---|---|---|
| | (Rheoli Adnoddau a Diogelu) | | |
| 7 | Lleihad mewn argaeledd gwasanaeth oherwydd y galw cynyddol, disgwyliadau uwch a newidiadau i feini prawf cymhwyster (Rheoli Adnoddau a Diogelu) | ↔ | ↔ |
| 8 | Capasiti a gallu i ddiwallu anghenion ein cleientiaid mwyaf agored i niwed ar adeg pan mae adnoddau'n lleihau. (Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc) | ↔ | ↔ |
| **Mynediad at wasanaethau ac asesiadau amserol** | | | |
| 9 | Ni all defnyddwyr gwasanaethau gael mynediad at wasanaethau yn gyflym ac ni chaiff anghenion eu diwallu (Gwasanaethau Oedolion) | ↔ | ↔ |
| 10 | Ni all defnyddwyr gwasanaethau gael mynediad at wasanaethau yn gyflym ac ni chaiff eu hanghenion eu diwallu (Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc) | ↔ | ↔ |
| 11 | Nid oes digon o gapasiti staff gweithredol i sicrhau asesiadau amserol (Gwasanaethau Oedolion) | ↔ | ↔ |
| 12 | Nid oes digon o gapasiti staff gweithredol i sicrhau bod asesiadau amserol yn cael eu cwblhau (Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc) | ↔ | ↔ |
| **Cydymffurfiaeth a goblygiadau deddfwriaethol** | | | |
| 13 | Cydymffurfio â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Rheoli Adnoddau a Diogelu) | ↔ | ↔ |
| 14 | Anallu i weithredu gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc) | ↔ | ↔ |
| 15 | Anallu i weithredu gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Gwasanaethau Oedolion) | ↔ | ↔ |
| 16 | Mae effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried taliadau am wasanaethau sy'n creu risg ariannol (Rheoli Adnoddau a Diogelu) | ↔ | ↔ |
| 17 | Goblygiadau sy'n codi o'r Llys Gwarchod sy'n gysylltiedig ag Amddifadu o Ryddid bobl sy'n byw mewn lleoliadau domestig (Rheoli Adnoddau a Diogelu) (Gwasanaethau Oedolion) | ↔ | ↑ |
| 18 | Risg o adolygiad barnwrol o ganlyniad i gapasiti annigonol mewn lleoliadau gofal i ddarparu gwasanaethau sy'n bodloni anghenion gofal a chymorth dynodedig defnyddwyr gwasanaeth (Rheoli Adnoddau a Diogelu) | ↔ | ↔ |
| 19 | Cynnydd mewn cymhlethdod achosion gofal yng nghyd-destun graddfeydd amser llai’r llysoedd sy’n effeithio ar gostau llys, baich achosion Gweithwyr Cymdeithasol a sicrhau bod achosion eraill yn derbyn y sylw sydd ei angen arnynt (Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc) | ↔ | ↑ |
| **Lleoliadau** | | | |
| 20 | Effaith cynyddu niferoedd Plant sy'n Derbyn Gofal ar leoliadau lle’r eir dros ben y capasiti maethu mewnol gan gynyddu dibyniaeth ar leoliadau IFA a phwysau ar Dimau Gwaith Cymdeithasol a Thimau Lleoli. (Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc) | ↔ | ↑ |

| Cyf risg | Disgrifiad o'r risg | Cyfeiriad teithio | Cyfeiriad teithio a ragwelwyd |
|---|---|---|---|
| **Cyllid** | | | |
| 21 | Lleihad parhaus a rhanbartholi cyllid grant (Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc) | ↔ | ↔ |
| **Comisiynu** | | | |
| 22 | Cau/methiant darparwyr a gomisiynwyd (Rheoli Adnoddau a Diogelu) | ↔ | ↔ |
| **Partneriaethau** | | | |
| 23 | Argaeledd partneriaid eraill i gefnogi'r agenda gwasanaethau ataliol (Rheoli Adnoddau a Diogelu) | ↔ | ↔ |

CYNGOR BRO MORGANNWG
UCHELGAIS AGORED
CYDWEITHIO BALCHDER

# CYNGOR BRO MORGANNWG

## Iechyd Corfforaethol (Cynllunio Integredig)

ADOLYGIAD O BERFFORMIAD BLYNYDDOL 2017-18 (EBRILL 2017 – MAWRTH 2018)

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

**Ein statws COG cyffredinol o ran Iechyd Corfforaethol yw GWYRDD**

## 7.0 DATGANIAD SEFYLLFA

Rydym yn parhau i berfformio'n dda mewn perthynas ag Iechyd Corfforaethol, yng nghyd-destun cefnogi gwasanaethau'r Cyngor i weithredu ei flaenoriaethau corfforaethol neu Ganlyniadau Llesiant. Mae ein dull gwell o gynllunio integredig, drwy'r Bwrdd Cipolwg, yn galluogi gwasanaethau i gyflwyno newid trawsnewidiol yn effeithiol, yn unol â'n dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (LlCD). Rydym yn ymdrechu i gyflawni canlyniadau gwirioneddol i ddinasyddion Bro Morgannwg sy'n parhau i ddangos y gwerth gorau am arian mewn hinsawdd ariannol fwyfwy anodd.

Gwnaethom gynnydd da o ran y camau cynllunio integredig sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Corfforaethol. Yn 2017/18, cyflenwyd 93% o'r gweithgareddau a gynlluniwyd yn unol â'n blaenoriaethau Iechyd Corfforaethol. Fodd bynnag, mae angen symud ymlaen nifer o gamau gweithredu sy'n cyfrannu at yr agenda ail-lunio gwasanaethau, gan sicrhau bod gan weithwyr y sgiliau angenrheidiol i addasu i ffyrdd newydd o weithio a gwella adrodd am berfformiad trwy gaffael meddalwedd rheoli perfformiad.

O ran y mesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau Iechyd Corfforaethol, dengys y perfformiad ar ddiwedd y flwyddyn bod 54% (14) o Ddangosyddion Perfformiad wedi cyrraedd y targed, neu'n uwch na'r targed (statws perfformiad gwyrdd); roedd 8% (2) o fewn 10% o'r targed (Oren) a 38 (10) wedi methu'r targed o fwy na 10% (Coch). Mae angen gwella ein perfformiad mewn perthynas â: nifer y cwynion corfforaethol yr ymdrinnir â hwy o fewn y graddfeydd amser targed; cyflymder yr ateb i alwadau sy'n dod i mewn i'n canolfan gyswllt (C1V); cynyddu defnydd a chyfranogiad ar gyfryngau cymdeithasol er mwyn cyfathrebu â thrigolion, a gwella ein safle gwefan y Cyngor o'i gymharu ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr. Er bod ein perfformiad presennol o 86% yn welliant ar berfformiad y llynedd (84%), mae angen parhau i ddatblygu rhaglen Gyfalaf y Cyngor a lleihau llithriad projectau. Er y gwnaed cynnydd da wrth gyflawni targedau arbedion corfforaethol a bod hynny wedi cyfrannu at y rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau, ni wnaeth yr un gyrraedd y targed. Yn ystod y flwyddyn, cafodd anwadalrwydd rhai cyllidebau gwasanaeth effaith niweidiol ar yr arbedion a gyflawnwyd gan nifer o feysydd gwasanaeth. Yn ogystal, roedd natur gymhleth rhai o'r projectau ail-lunio a gynhaliwyd yn golygu bod yr arbedion angenrheidiol yn cymryd mwy o amser i'w cyflawni nag a ragwelwyd. Wrth edrych ymlaen i'r dyfodol, mae camau adferol yn eu lle i wella perfformiad yn y meysydd a amlygwyd uchod.

Drwy'r Bwrdd Cipolwg, rydym wedi parhau i gryfhau ein dull o ymdrin â chynllunio integredig sy'n cyd-fynd â phum ffordd o weithio Deddf LlCD, sydd yn bwysig iawn yn cyfrannu at gyflawni canlyniadau cadarnhaol a fydd yn gwella llesiant ein trigolion. Er enghraifft, rydym wedi parhau i wella ein dull o reoli perfformiad sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, ac adrodd trwy symleiddio'r wybodaeth a ddefnyddir yn ein cynlluniau ac adroddiadau, a thrwy hynny leihau'r nifer a gynhyrchir ac achosion o ddyblygu. Mae hyn yn gyson â'r canllawiau diweddaraf gan Swyddfa Archwilio Cymru a Chomisiynydd Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol, i sicrhau bod yr adroddiadau hyn yn ddealladwy ac

yn hygyrch. Rydym hefyd wedi parhau i weithio ochr yn ochr â Chyfarwyddwyr Noddi ac Aelodau Etholedig (trwy weithgor dan arweiniad aelodau) i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o adroddiadau perfformiad ac mae'r rhain yn ein galluogi i asesu'n well gyfraniad cyffredinol pob un o'r Canlyniadau Llesiant Corfforaethol sy'n cyd-fynd â'r Nodau Cenedlaethol Llesiant. Cyflwynir ein hadroddiadau bellach mewn ffordd sydd â mwy o ffocws ac sy'n fwy hygyrch, ac sy'n amlygu meysydd eithriadol gan hyrwyddo craffu mwy effeithiol.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cryfhau ymhellach ein dull o reoli risg corfforaethol gan gynnwys datblygu fformat strategaeth ac adrodd newydd sy'n adlewyrchu anghenion gwahanol ein gwahanol gynulleidfaoedd. Darpara hyn drosolwg holistig o'r holl risgiau i alluogi'r CMT i nodi unrhyw dueddiadau neu faterion ynglŷn â risgiau cyffredinol sy'n effeithio ar y Cyngor, yn ogystal â sicrhau bod perchnogion risg, y Bwrdd Cipolwg a'r Pwyllgor Archwilio yn rheoli risgiau unigol yn gadarn. Erbyn hyn, mae'r dull newydd yn cyd-fynd â monitro risgiau'r cynllun gwasanaeth bob chwarter trwy adroddiadau perfformiad chwarterol i'r holl Bwyllgorau Craffu. Bydd monitro'r gwasanaeth a risgiau corfforaethol drwy'r mecanweithiau hyn yn sicrhau y cymerir camau priodol mewn perthynas â lleihau, dileu a rheoli'r risgiau hyn.

Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod bod angen ymgorffori'r trefniadau hyn ymhellach mewn rhai meysydd gwasanaeth, ac maent yn defnyddio dull partneriaeth er mwyn sicrhau llwyddiant. Gan edrych ymlaen, rydym yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws y Cyngor i bennu ein gofynion o ran caffael meddalwedd perfformiad er mwyn gwella ein dull perfformiad sy'n canolbwyntio ar adrodd am berfformiad.

Rydym yn parhau i flaenoriaethu pobl, gan ein bod yn credu'n gryf bod buddsoddiad yn ein gweithwyr yn allweddol i gyflawni ein blaenoriaethau corfforaethol a sicrhau cymunedau cryf gyda dyfodol disglair i ddinasyddion Bro Morgannwg. Trwy ein prosesau cynllunio gweithlu ac ymgysylltu staff sefydledig, parhawn i gynnal gweithlu hynod o fedrus a gwydn sy'n ymatebol i'r amgylchedd sy'n newid yn gyson. Hyd yn hyn, gwnaethom gynnydd da wrth gyflwyno 10 allan o'r 15 ymrwymiad o fewn y Siarter Staff, sy'n nodi disgwyliadau staff a rheolwyr mewn amgylchedd gwaith "ail-lunio". Mae llwyddiannau allweddol eleni yn cynnwys: datblygu ein Caffi Arweinyddiaeth arobryn ymhellach; cynllun gwerthuso diwygiedig (#itsaboutme); Fframwaith Cymhwysedd Rheoli newydd; i ymsefydlu gweithwyr gyda 'Chroeso i'r Fro' diwygiedig; Strategaeth Hyfforddi a Datblygu newydd ac adnodd dysgu ar-lein (i-Dev); model gweithredu AD newydd; a chynllun Cydnabyddiaeth Gweithwyr, gan gynnwys digwyddiad gwobrau blynyddol.

Yn yr arolwg staff diweddaraf a gynhaliwyd yn ystod hydref 2017, roedd cyfradd yr ymateb 'cadarnhaol' cyfartalog i'r 20 disgwyliad o fewn y Siarter Staff yn 72%, hynny yw, mae'r gweithwyr naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r datganiadau a wnaed. Roedd hon eto yn sgôr uchel a gwelliant ar raddfa gadarnhaol y llynedd o 71%. Cynyddodd cyfradd yr ymateb cyffredinol i'r arolwg o 48% i 57%, gan ragori ar safonau'r diwydiant ar gyfer ymarferion ymgysylltu o'r fath. Canlyniad arolwg arbennig o ddymunol oedd bod graddfeydd ymateb cadarnhaol yn uwch mewn 15 allan o'r 20 o ddisgwyliadau Siarter Staff nag yn 2016. Mae hyn yn galonogol o ystyried maint y newid ar draws y Cyngor yn ystod y flwyddyn a'r ymateb parhaus i ofynion cyllidebol a gwasanaeth. Wrth edrych ymlaen, maes allweddol o ffocws a her fydd cadw'r un lefel o ymgysylltiad â'n gweithwyr a'n undebau llafur i barhau â'r momentwm cadarnhaol a gyflawnwyd ar ôl lansio'r Siarter Staff, wrth i agenda trawsnewid y Cyngor barhau i ymateb i barhad a heriau allanol sy'n dod i'r amlwg, fel lleihau cyllidebau a'r Mesur Llywodraeth Leol.

Buom yn rhagweithiol wrth weithredu cyfres o fesurau i wella llesiant ac ymgysylltiad y gweithlu ochr yn ochr â mesurau i gryfhau rheolaeth absenoldeb ar draws y Cyngor. Er gwaethaf y ffocws a roddwyd ar yr agenda hon yn ystod y flwyddyn, mae lefelau absenoldeb wedi cynyddu o 1.26 diwrnod cyfwerth ag amser llawn (CALl) yn ystod 2017/18. Ar draws y Cyngor, collwyd 10.14 diwrnod gwaith fesul CALl o'i gymharu ag 8.88 diwrnod yn 2016/17, gan ein gosod yn safle 11eg allan o'r 22 o gynghorau yng Nghymru. Mae mentrau megis parhad brechiadau ffliw am ddim, Ffair Iechyd i staff, atgyfeirio achosion straen yn awtomatig i iechyd galwedigaethol, gweithredu dulliau asesu risg a

hyfforddiant i reolwyr a staff, hyfforddiant ymwybyddiaeth straen i'r holl staff a'r Rhaglen Cymorth i Weithwyr wedi'u cynllunio i ymateb yn bositif i'r materion a amlygwyd gan staff ac yn enwedig mewn perthynas â straen a phryder.

Parhaodd trosiant staff ar draws y Cyngor â'i duedd gadarnhaol, gan ostwng o 10.14% i 8.88%, o'i gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol. Cafwyd y ganran uchaf o drosiant yn y Gyfarwyddiaeth Adnoddau (10.76% neu 49 o staff) a'r isaf yn y Gyfarwyddiaeth Amgylchedd a Thai (5.89% neu 49 o staff). Mae lefelau trosiant gwirfoddol wedi gostwng ym mhob un o'r cyfarwyddiaethau heblaw am Ddysgu a Sgiliau sydd â'r un nifer, ond oherwydd bod nifer y ffigyrau cyfartalog yn gostwng, mae'r ffigwr cyfrif canran gwirioneddol wedi cynyddu o 6.76% i 6.92%. Parha'r Gwasanaethau Cymdeithasol i fod â'r ganran uchaf o weithwyr sydd wedi dewis gadael y Cyngor (8.29%, i lawr o 10.62%).

Er gwaethaf y tueddiad o lefelau trosiant corfforaethol cadarnhaol dros y flwyddyn ddiwethaf, mae nifer o feysydd gwasanaeth ar draws y Cyngor yn parhau i adrodd am anawsterau wrth recriwtio a chadw staff mewn meysydd allweddol. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyllid a TGCh, Tai a Gwasanaethau Adeiladu, Adfywio a Chynllunio, Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth a Gwasanaethau Democrataidd. Mewn ymateb i'r heriau hyn, cyflwynwyd amrywiaeth o fentrau cynllunio olyniaeth benodol ar gyfer gwasanaethau, ochr yn ochr â mentrau corfforaethol megis: y cynllun arfarnu staff (#itsaboutme); y dull newydd o ddysgu a datblygu; y fframwaith cymhwysedd rheoli newydd a'r cynllun peilot datblygu olyniaeth gorfforaethol a rheoli talentau.

Mae gennym hanes llwyddiannus o gyflawni cyllideb gytbwys, sydd wedi bod yn bosibl oherwydd ein dull cadarn o reoli cyllid, sy'n ymgorffori fframwaith corfforaethol effeithiol ar gyfer cynllunio ariannol, rheoli ariannol a rheolaeth. Amlygwyd hyn gan ein harchwilwyr allanol (Swyddfa Archwilio Cymru) yn ein Hysbysiad Corfforaethol a'n hadroddiad Gwella blynyddol ar gyfer 2016/17. Fodd bynnag, wrth edrych ymlaen, mae'r heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor yn parhau i fod yn sylweddol, ac mae'n mynd yn fwyfwy heriol i ddarparu cyllideb gytbwys o ystyried yr angen i barhau i wneud arbedion effeithlonrwydd ac arbedion cyllidebol ar adeg pan fo galw am wasanaeth ar draws y rhan fwyaf o wasanaethau'r Cyngor yn cynyddu. Disgwylir i'r toriadau blynyddol i gyllid y Cyngor barhau, ac mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn amcangyfrif bod angen arbedion pellach o £20.94 miliwn (ac eithrio ysgolion) rhwng 2018/19 a 2019/20. Rydym wedi gosod cyllideb ddarbodus ar gyfer 2018/19 o dan amodau cyllido allanol anodd, sydd wedi ceisio cyfyngu ar yr effaith ar wasanaethau rheng flaen tra'n darparu buddsoddiad pwysig mewn meysydd allweddol i ddatblygu blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol. Yn wir, mae ein harchwilwyr allanol yn cytuno ein bod hyd yma wedi parhau'n wydn yn ariannol mewn amseroedd sy'n ariannol heriol. Er gwaethaf ein bod yn un o'r cynghorau a gyllidir isaf yng Nghymru, rydym yn parhau i ddangos gwerth da am arian trwy weithio'n gost-effeithiol tra hefyd yn darparu gwasanaethau y mae trigolion yn fodlon arnynt.

Dros y 7 mlynedd ddiwethaf, gwnaethom tua £50 miliwn o arbedion (ac eithrio Ysgolion). Yn ystod 2017/18, gwnaethom gynnydd da wrth gyflawni arbedion o £2.998 miliwn mewn effeithlonrwydd ac arbedion eraill sy'n 75% o'r targed gofynnol o £4.017 miliwn a osodwyd ar gyfer y flwyddyn. Fodd bynnag, mae angen i ni barhau i wneud £16.909 miliwn pellach o arbedion dros y blynyddoedd nesaf (ac eithrio ysgolion).

Roedd creu gwerth cyhoeddus trwy wella canlyniadau ar gyfer dinasyddion y Fro wrth wraidd ein rhaglen gyfalaf ar gyfer 2017/18. Yn ystod y flwyddyn, gwariodd y Cyngor 86% o'i gyllideb gyfalaf o £51.432 miliwn ar: wella'r amgylchedd dysgu mewn ysgolion; y rhaglen gwella tai; gwelliannau i'r seilwaith priffyrdd , ac adfywio'r ardal. Rydym yn parhau i adolygu projectau cyfalaf yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau ar amser ac o fewn cyllidebau a bod y posibilrwydd o oedi/costau ychwanegol yn cael ei amlygu, ei fonitro ac y cymerir camau cywiro lle bo hynny'n angenrheidiol ac yn briodol.

Mae tueddiadau yr angen demograffig cynyddol am wasanaethau, ochr yn ochr â chyllid sy'n gostwng, yn ei gwneud yn ofynnol inni barhau i ganolbwyntio ar gynaliadwyedd ein hadnoddau. Trwy reoli'r Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau'r Cyngor yn effeithiol, rydym yn cyflwyno newid trawsnewidiol yn unol â'n Canlyniadau Llesiant corfforaethol a'n dyletswyddau o dan Ddeddf LlCD. Gan weithio gyda phartneriaid allweddol, nodir dulliau amgen a mwy arloesol o ddarparu gwasanaethau a fydd yn ein galluogi i ddiwallu anghenion cwsmeriaid yn y dyfodol a darparu gwell canlyniadau i ddinasyddion Bro Morgannwg mewn ffordd gynaliadwy. At ei gilydd, gwneir cynnydd positif wrth gyflenwi rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau'r Cyngor, ac yn ystod 2017/18 cyflawnwyd 70% o'r arbedion o £3.345 miliwn sy'n gysylltiedig â'r rhaglen. Mae'r perfformiad hwn yn adlewyrchu natur gymhleth y projectau ail-lunio, gan y gallai amrywiaeth o faterion a risgiau effeithio ar gynhwysedd arbedion. O ganlyniad, gall cyflawniad gymryd mwy o amser. Er enghraifft, er bod trawsnewid Gwasanaethau Gweladwy a Thrafnidiaeth yn cymryd mwy o amser nag a ragwelwyd, rydym bellach ar y trywydd iawn yn 2018/19 i gyflawni'r targed arbedion llawn ar ôl gweithredu'r model cyflwyno Gwasanaethau Cymdogaeth newydd.

Rydym yn parhau i fwyafu'r holl gyfleoedd cyllid allanol sydd ar gael i ni fel y gallwn gyflawni blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol a darparu gwell gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol i ddinasyddion y Fro. Trwy Gronfa Cymunedau Cryf y Cyngor (sy'n sicrhau cydlyniad effeithiol o ddyraniadau grant y Cyngor a ffynonellau cyllid eraill i sicrhau bod y gwerth mwyaf yn deillio o'r adnoddau sydd ar gael), rydym wedi cefnogi 14 o brojectau dan arweiniad y gymuned yn 2017-18, sef cyfanswm o £254,860. Mae'r projectau hyn yn gyson â gweledigaeth y Cyngor o 'Gymunedau cryf gyda dyfodol disglair' a'r agenda Ail-lunio Gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ddiwallu anghenion dinasyddion Bro Morgannwg yn y dyfodol o fewn cyd-destun heriau ariannol nas gwelwyd o'r blaen. Trwy gyfraniadau ariannol cytundeb Adran 106 a dderbyniwyd yn ystod 2017/18 (cyfanswm o £5,210,619) rydym wedi darparu neu gefnogi gwella cyfleusterau cymunedol ledled y Fro (Y Barri, Dinas Powys, Llandochau, Llanilltud Fawr, Y Bont-faen a Phenarth), fel gwasanaethau trafnidiaeth gynaliadwy a seilwaith, gwelliannau i'r briffordd, mannau agored cyhoeddus, celf gyhoeddus a chyfleusterau addysgol.

Mae ein Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol yn sbardun allweddol i sicrhau ein bod yn gweithredu dull cynaliadwy o reoli ein hasedau er mwyn cefnogi cyflawni Canlyniadau Llesiant y Cynllun Corfforaethol, yn enwedig yn yr hinsawdd ariannol heriol hon. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom gynnydd da i leihau'r llety a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau'r Cyngor, er enghraifft, rhyddhau'r brydles ar Provincial House a chwblhau'r gwaith o waredu safle ysgol Sant Cyres, sydd wedi cyflawni arbedion ariannol a chyfrannu at dderbyniadau cyfalaf. Rydym wedi parhau i adolygu'r holl lety swyddfeydd a llety nad yw'n swyddfeydd, rheoli cyfleusterau ac adeiladau corfforaethol fel rhan o broject SPACE, nodi asedau sy'n tanberfformio y gellid eu gwneud yn ddiangen, ac rydym yn mynd ati'n rhagweithiol i symud ymlaen â chael gwared ar y rhain, lle bo'n briodol. Lle bo'n briodol, rydym hefyd yn cefnogi trosglwyddo asedau i'r gymuned i wella eu cynaladwyedd a chynyddu effeithlonrwydd, ac rydym wedi diweddaru'r canllawiau yn ddiweddar a gwella'r gefnogaeth a roddir i ymgeiswyr, wedi ein hysbysu gan eu hadborth. Trwy ddefnydd creadigol ac arloesol o'n hasedau eiddo, rydym yn ceisio manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cynhyrchu incwm a gweithio mewn partneriaeth i gyflawni hyn lle bo modd. Mae 100% o'n portffolio Siopau wedi eu gosod, heb unrhyw siopau gwag ar y portffolio. Ar ôl sylwi y gellid gwella ein rheolaethau cyfredol o ran rheoli cydymffurfiaeth adeiladu, ac yn benodol, 'data cydymffurfio' ar gyfer ein stoc Adeiladu Corfforaethol, rydym wedi ymateb drwy ailstrwythuro'r Tîm Cydymffurfio Corfforaethol a dyrannu adnoddau ychwanegol i'r tîm er mwyn galluogi gwell rheolaeth o ddata cydymffurfio. Mae'r tîm wedi nodi 2,656 o asedau i'w harchwilio, ac maent eisoes wedi ymweld â hwy ac wedi arolygu'r mwyafrif o adeiladau cyhoeddus trwy gydol y flwyddyn. Cwblhawyd archwiliadau mynediad i'r anabl ym mhob ysgol, adeiladau gwasanaethau cymdeithasol ac adeiladau corfforaethol. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r gwaith yn ystod 2018/19 i sicrhau bod ein hadeiladau corfforaethol yn ddiogel ac yn addas i'r diben.

Mae TGCh yn parhau i chwarae rôl ganolog i'n galluogi i weithredu ein rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau uchelgeisiol i ddefnyddio technoleg i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd

drawsnewidiol tra'n parhau i wneud arbedion ariannol i'r Cyngor. Mae Strategaeth Ddigidol y Cyngor 2017-2022, a gymeradwywyd ym mis Gorffennaf 2017, yn nodi mai gwasanaeth cwsmeriaid, gweithlu digidol, cydweithredu a lle fydd y pedwar maes ffocws ar gyfer digideiddio. Bydd ein pwyslais parhaus ar ddull 'un cyngor' drwy'r Strategaeth Ddigidol yn canolbwyntio ar greu profiad di-dor i ddinasyddion y Fro wrth gael mynediad at wasanaethau'r cyngor, gan ddatblygu ffyrdd mwy effeithlon o weithio ac, yn gyffredinol, geisio lleihau costau. Cymeradwywyd projectau gan y Bwrdd Project Digidol a'r Tîm Rheoli Corfforaethol ac mae arweinwyr thema bellach yn gwneud cynnydd wrth amlinellu'r gofynion busnes sydd angen eu cynnwys yn y Strategaeth TGCh wedi'i diweddaru. Ffocws allweddol yn ystod y flwyddyn fu gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar draws y Cyngor ar gyfer gweithio symudol. Er enghraifft, bydd symleiddio'r systemau meddalwedd TGCh fel rhan o drawsffurfiad Gwasanaethau Gweladwy a Thrafnidiaeth yn hyrwyddo gweithio mwy effeithlon a hyfyw wrth ddarparu arbedion. Yn ychwanegol, rydym yn gweithredu newidiadau i wasanaethau niferoedd uchel/cymhlethdod isel fel y gellir eu darparu ar-lein. Mewn egwyddor, bydd y defnydd o fecanweithiau ymgysylltu, megis y sesiynau datblygu rheoli a gwaith y tîm dysgu a datblygu yn allweddol i sicrhau bod gan y sefydliad y sgiliau sydd eu hangen i wneud y defnydd gorau o dechnoleg.

Mae ymgysylltu â dinasyddion yn un o werthoedd craidd y Cyngor yn y Cynllun Corfforaethol, ac rydym yn annog ein trigolion a'n cwsmeriaid i rannu eu barn a'u profiadau o'n gwasanaethau gan ei fod yn hyrwyddo ymgysylltiad, a rhoi syniad inni o sut rydym yn perfformio o'u persbectif, gan ffurfio ein blaenoriaethau a gwella ein dull o ymdrin â datblygu gwasanaethau yn y Cyngor. Bu'r canfyddiadau o wahanol weithgareddau ymgynghori a wnaed ar draws y Cyngor yn ystod 2017/18 yn gadarnhaol i raddau helaeth, ac yn bennaf maent yn nodi lefelau boddhad da gyda gwasanaethau'r Cyngor. Er enghraifft, roedd dros 99% o'r bobl a gysylltodd â C1V yn fodlon â mynediad i wasanaethau ar draws pob sianel. Yn ogystal, datryswyd 77% o'r holl ymholiadau i C1V ar y cyswllt cyntaf. Mae hyn yn ymwneud â 101,030 allan o 131,192 o ymholiadau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn, gwelliant pellach ar berfformiad y llynedd o 68%. Lle nad oedd penderfyniad yn bosibl ar y cyswllt cyntaf, cyfeiriwyd y cwsmeriaid yn briodol.

Ochr yn ochr ag ymgysylltu â thrigolion er mwyn sicrhau bod eu barn yn hysbysu'r hyn a wnawn, rydym hefyd yn adolygu canfyddiadau ein gweithdrefnau cwyno a chanmol er mwyn deall a oes bwlch rhwng disgwyliadau'r trigolion a safon y gwasanaethau a ddarperir. Defnyddiwyd hyn fel cyfle i ddysgu o brofiadau unigol i wella ein gwasanaethau yn gyffredinol. Yn ystod y flwyddyn, cawsom 232 o sylwadau canmoliaethus am ein gwasanaethau. O'r 298 o gwynion a dderbyniwyd ar draws y Cyngor cyfan (ac eithrio’r Gwasanaethau Cymdeithasol), datryswyd 86.6% ar Gam 1, gan nodi ein heffeithiolrwydd wrth ddatrys cwynion yn gynnar. Roedd y perfformiad hwn ychydig yn is na'r flwyddyn flaenorol ar 87.8%. Fodd bynnag, dim ond 55.3% o'r holl gwynion yr ymdriniwyd â hwy o fewn graddfeydd amser targed. Er y cytunir ar derfynau amser estynedig mewn rhai achosion gyda chaniatâd yr achwynydd, mae angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod pob gwasanaeth yn diweddaru'r paneli cwynion yn brydlon i sicrhau data cywir.

Codwyd 156 o faterion yn ymwneud â’r Gwasanaethau Cymdeithasol gan ddefnyddwyr y gwasanaeth a/neu eu gofalwyr/teulu a dilynwyd y rhain gydag ymweliad. O ganlyniad i'r ymweliadau hyn, dyrchafwyd llai o faterion (46) i ymholiadau (mater/pryder a adroddwyd gan ddefnyddiwr gwasanaeth ac a gofnodwyd yn ffurfiol gan y Swyddog Cwynion ac ymateb iddo, ond na chafodd ei dyrchafu’n gŵyn) ac aeth 4 ymlaen i fod yn gwynion. Datryswyd 100% o gwynion Gwasanaethau Oedolion ar Gam 1 o fewn yr amserlenni penodedig a datryswyd 92% o gwynion yn ymwneud â Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc o fewn yr amserlenni.

At ei gilydd, ni chafwyd unrhyw gwynion yn erbyn y Cyngor gan Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystod 2017/18, gan adlewyrchu perfformiad y llynedd.

Yn ystod 2016/17, newidiwyd ein trefniadau craffu fel eu bod yn cyd-fynd â chyfundrefn perfformiad yn seiliedig ar ganlyniadau fel rhan o fabwysiadu cynnar y Cyngor o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Wrth wneud hynny, arweiniodd at i Bwyllgorau o’u hanfod ganolbwyntio'n fwy ar

ganlyniadau ac alinio â'r ffyrdd o weithio a gyflwynwyd gan Ddeddf LlCD. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen atgyfnerthu'r dull hwn ymhellach fel bod yr holl Bwyllgorau Craffu yn gallu dangos yn well yr effaith a gaiff eu gweithgareddau, gan gyfeirio'n benodol at gyflawni blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol. Parha'r gwaith i godi proffil ac amlygrwydd y broses graffu, ac wrth wneud hynny, anogir mwy o aelodau'r cyhoedd i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau lleol. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gwahodd mewnweledIad a her gan drigolion ar nifer o faterion proffil uchel ac rydym wedi hyrwyddo'r cyfleoedd i drigolion gymryd rhan, er enghraifft, trwy hyrwyddo agendâu, gwahanol leoliadau cyfarfod, dod â thystion arbenigol i mewn ayb. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod yr angen i fod yn fwy arloesol yn y modd yr ydym yn ymgysylltu â thrigolion a gwneud defnydd pellach o, er enghraifft, dechnolegau digidol, i gynnig mwy o gyfleoedd i drigolion ac i ddiwallu disgwyliadau trigolion o'r genhedlaeth iau.

Gan edrych ymlaen i 2018/19 a thu hwnt, mae'r heriau ariannol ac economaidd sy'n wynebu'r Cyngor yn parhau i fod yn debyg i'r blynyddoedd diwethaf, sef parhad o gyni, gostyngiad sylweddol mewn cyllid ar yr un pryd â newidiadau demograffig sy'n cynyddu'r galw am wasanaethau craidd y cyngor. Ymhlith y pwysau allweddol ar y gwasanaeth a wynebir gan y Cyngor mae: cynnydd yn nifer yr henoed sy'n cyflwyno ag anghenion iechyd a gofal fwyfwy cymhleth a'r gost o ddiwallu eu hanghenion gofal; y galw cynyddol ar leoliadau plant mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol; ein gallu i barhau i godi lefelau cyrhaeddiad yn erbyn cefndir o ostyngiad cenedlaethol mewn cyllid addysg a chynyddu nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgolion y Fro; y galw cynyddol am leoliadau y tu allan i'r sir i ddisgyblion nad oes modd cwrdd â'u hanghenion yn y Fro; bodloni anghenion nifer cynyddol o blant a phobl ifanc sy'n cyflwyno ag anghenion dysgu cymhleth ac ychwanegol; lleddfu yn erbyn yr ansicrwydd parhaus o ran trefniadau ariannu allanol (sydd wedi'i waethygu gan Brydain yn gadael yr Undeb Ewropeaidd) a sicrhau cyllid piblinell gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu a chyflwyno projectau adfywio allweddol sy'n adlewyrchu anghenion a chyfleoedd lleol.

Rydym yn ymateb yn rhagweithiol i'r heriau hyn trwy gydweithio â'n partneriaid a rhanddeiliaid allweddol eraill drwy'r rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau i sicrhau ein bod yn gallu lliniaru effaith toriadau ar drigolion a defnyddwyr gwasanaeth a chynnal y gwasanaethau hynny sy'n bwysig i ddinasyddion Bro Morgannwg. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod bod y cyfnod parhaus o gyni a'r effaith ar adnoddau'r Cyngor a rhai ein partneriaid yn ymddangos fel ei fod am barhau ac mae risg gynyddol y bydd y Cyngor yn methu â chyflawni'r Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau (ac felly ddim yn gwireddu'r manteision sy'n gysylltiedig â hi). Fodd bynnag, ystyrir bod goruchwyliaeth reolaidd y bwrdd rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau wrth ystyried risgiau'r rhaglen, adnoddau a gweithgarwch ategol yn fesurau lliniaru priodol.

Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth yn genedlaethol o'r anghenion cynyddol am ein gwasanaethau craidd a'r heriau a godir gan hyn a'r gostyngiadau ariannol parhaus.

## 7.1 CIPOLWG AR BERFFORMIAD

**GWEITHREDIADAU**
Mae ein perfformiad yn erbyn camau'r Cynllun Corfforaethol ar y trywydd iawn i'w gyflenwi, gan roi statws COG **GWYRDD** cyffredinol i ni ar gyfer gweithgareddau Iechyd Corfforaethol

**MESURIADAU PERFFORMIAD**
Mae ein perfformiad yn erbyn mesurau perfformiad ar y trywydd iawn, gan roi statws COG **OREN** cyffredinol i ni ar gyfer gweithgareddau Iechyd Corfforaethol.

| Camau Gweithredu'r Cynllun Corfforaethol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 97 | 0 | 7 | Amh. 4 | Cyfanswm 108 |

| Mesuriadau perfformiad | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 14 | 2 | 10 | [28] Amh. 6 | Cyfanswm 32 |

Mae gwybodaeth fanwl am yr holl Eithriadau Perfformiad sy'n ymwneud â'n blaenoriaethau Iechyd Gorfforaethol i'w gweld yn **Atodiad A.**

# EIN CYNNYDD YN FANWL

## 7.2 AIL-LUNIO GWASANAETHAU A CHYNLLUNIO INTEGREDIG

| Gweithrediadau Iechyd Corfforaethol | Gweithred | | Cyfeiriad Teithio o'i gymharu â statws y chwarter blaenorol |
|---|---|---|---|
| | Gweithrediadau Cynllun Gwasanaeth | Statws y weithred | |
| **CP1:** Cyflenwi rhaglen newid drawsnewidiol y Cyngor, Ail-lunio Gwasanaethau i'w galluogi i ddiwallu anghenion dinasyddion Bro Morgannwg yn y dyfodol o fewn cyd-destun heriau ariannol nas gwelwyd o'r blaen (2019/20) | 52 | G | ↑ |
| **CP2:** Alinio'r Cynllun Gweithlu i'r Strategaeth Ail-lunio Gwasanaethau gan sicrhau bod gan staff y sgiliau a'r hyfforddiant angenrheidiol i addasu i'r newidiadau yn y modd y caiff gwasanaethau eu cynllunio a'u cyflenwi. (2017/18) | 39 | G | ↔ |
| **CP3:** Adolygu a herio dull cynllunio ariannol y Cyngor gan gynnwys y Rhaglen Gyfalaf i sicrhau bod golwg hirdymor yn gytbwys gyda'r angen i ymdrin â blaenoriaethau ar unwaith. | 1 | G | ↔ |
| **CP4:** Gweithio gyda phartneriaid i gynnal asesiad llesiant a fydd yn llywio amcanion llesiant a Chynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (2016/17) | 1 | G | ↔ |
| **CP5:** Cydlynu gwaith ar draws y Cyngor i sicrhau bod gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu yn effeithiol ac yn rhoi llais ystyrlon i drigolion. (2019/20) | 4 | G | ↔ |

[28]Mae Amh. yn cyfeirio at 'Amherthnasol'. Mae hyn yn ymwneud â mesurau lle na osodwyd targed oherwydd ei fod naill ai'n fesur newydd (rydym yn sefydlu gwaelodlin) neu nid yw'n bosibl gosod targed ar gyfer y mesur. O ganlyniad ni ellir cymhwyso COG gan na allwn gymharu ein perfformiad gyda'r targed.

| Gweithrediadau Iechyd Corfforaethol | Gweithred | | Cyfeiriad Teithio o'i gymharu â statws y chwarter blaenorol |
|---|---|---|---|
| | Gweithrediadau Cynllun Gwasanaeth | Statws y weithred | |
| **CP6:** Adolygu Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor a rhoi system rheoli perfformiad newydd ar waith, gan ystyried dangosyddion a cherrig milltir Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). (2016/17) | 5 | O | ↓ |
| **CP7:** Adolygu'r trefniadau presennol i gefnogi Craffu effeithiol a hwyluso her gadarnach a gwell atebolrwydd. (2016/17) | 2 | G | ↑ |
| **CP8:** Datblygu system Adolygu Datblygiad Perfformiad newydd i staff sy'n adlewyrchu'r Cynllun Corfforaethol newydd ac sy'n cysylltu amcanion a thargedau corfforaethol, gwasanaeth ac unigol ac sy'n adlewyrchu gwerthoedd y Cyngor. (2016/17) | 1 | G | ↔ |
| **CP9:** Adolygu ein dull o ymdrin â rheoli risg gan gyfeirio at nodau llesiant a'n dyletswyddau dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2016/17). | 1 | G | ↔ |
| **CP10:** Adolygu'r Strategaeth Gaffael a'r dogfennau cysylltiedig i sicrhau eu bod yn adlewyrchu Datganiad Polisi Caffael Cymru ac yn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy. (2016/17) | 1 | G | ↔ |
| **CP11:** Cynhyrchu Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol bob tair blynedd ac adrodd ar gynnydd yn flynyddol mewn perthynas â gosod targedau er mwyn sicrhau'r defnydd gorau posibl o'n hasedau eiddo, gan gynnwys buddion cymunedol (2018/19) | 1 | G | ↔ |

Gellir gweld gwybodaeth fanwl am holl gamau gweithredu'r cynllun sy'n cyfrannu at flaenoriaethau Iechyd Corfforaethol yn **Atodiad B.**

| Mesuriadau perfformiad Iechyd Corfforaethol | Statws Perfformiad Cyffredinol | | | | Statws Cyffredinol | Cyfeiriad Teithio o'i gymharu â statws y chwarter blaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwyrdd | Oren | Coch | Amh. | | |
| **Pobl** | 2 | 0 | 1 | 2 | O | ↔ |
| **Cyllid** | 1 | 0 | 3 | 1 | C | ↓ |
| **Cwsmeriaid** | 10 | 0 | 5 | 3 | O | ↔ |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **TGCh** | 0 | 2 | 0 | 0 | O | ↔ |
| **Asedau** | 1 | 0 | 1 | 0 | O | Amh.* Nid oedd statws COG yn berthnasol i'r mesurau hyn ar ddiwedd y flwyddyn |

Gellir gweld gwybodaeth fanwl am yr holl ddangosyddion perfformiad sy'n cyfrannu at ein blaenoriaethau Iechyd Corfforaethol yn Atodiad B.

## 7.3 IECHYD CORFFORAETHOL: RHEOLI EIN HADNODDAU

### 7.3.1 POBL: EIN CYFLAWNIADAU

Mae deg allan o'r pymtheg o ymrwymiadau yn y **Siarter Staff** bellach wedi'u cyflenwi ac rydym yn parhau ar y trywydd iawn i gyflenwi'r ymrwymiadau sy'n weddill. Bu ffocws penodol eleni ar y ffrwd waith cydnabyddiaeth staff a ddaeth i ben gyda llwyfannu gwobrau gweithwyr cyntaf y Cyngor ers 10 mlynedd, a gynhaliwyd ym Mharc Jenner ym mis Mehefin 2018.

Yn yr **arolwg staff** diweddaraf a gynhaliwyd yn ystod hydref 2017, roedd cyfradd yr ymateb 'cadarnhaol' cyfartalog i'r 20 disgwyliad o fewn y Siarter Staff yn 72%, hynny yw, mae'r gweithwyr naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r datganiadau a wnaed. Roedd hon eto yn sgôr uchel a gwelliant ar raddfa gadarnhaol y llynedd o 71%. Cynyddodd cyfradd yr ymateb cyffredinol i'r arolwg o 48% i 57%, gan ragori ar safonau'r diwydiant ar gyfer ymarferion ymgysylltu o'r fath. Canlyniad arolwg arbennig o ddymunol oedd bod graddfeydd ymateb cadarnhaol yn uwch mewn 15 allan o'r 20 o ddisgwyliadau Siarter Staff nag yn 2016. Mae hyn yn galonogol o ystyried maint y newid ar draws y Cyngor yn ystod y flwyddyn a'r ymateb parhaus i ofynion cyllidebol a gwasanaeth.

---

Parheir i wneud cynnydd sylweddol o ran yr agenda ymgysylltu â staff ehangach fel y gwelir trwy lwyddiant parhaus y **Caffi Arweinyddiaeth** sydd wedi llwyddo i gyflwyno digwyddiad â phresenoldeb da bob mis eleni. Hyd yn hyn, mae 73% o'r rhai a fu'n bresennol wedi sgorio'r digwyddiadau fel 4 neu 5 seren. Byddwn yn parhau i werthuso pob digwyddiad, ac yn adolygu'r cynnydd gyda'r pwyllgor caffi arweinyddiaeth er mwyn gwella digwyddiadau yn y dyfodol.

---

Lansiwyd ein **Fframwaith Cymhwysedd Rheoli** newydd ym mis Ebrill 2017. Canolbwyntia'r fframwaith ar 5 maes allweddol; rheoli fy ngwaith, rheoli'r tîm, rheoli'r dyfodol, rheoli fy hun a rheoli perthnasoedd ac mae'n rhoi enghreifftiau o'r hyn y dylai rheolwr y Fro arddangos yn y meysydd allweddol hyn. Dros y flwyddyn, cynhaliwyd hyfforddiant eang i bob rheolwr o fewn y Cyngor trwy sesiynau datblygu rheolwyr gyda thros 300 o arweinwyr tîm a rheolwyr yn mynychu pob un o'r chwe rhaglen bob mis. Helpodd y gwaith hwn i sicrhau bod gan ein rheolwyr y sgiliau cywir i gyflenwi eu rolau yn effeithiol ac i gwrdd â'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor a'r ffyrdd newydd o weithio fel rhan o'r rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau.

---

Lansiwyd **rhaglen ymsefydlu "Croeso i'r Fro" newydd** sydd wedi cael canlyniadau gwerthuso ardderchog gan bawb a fynychodd hyd yn hyn. Bydd yr ymsefydlu corfforaethol yn cyfrannu tuag at adeiladu gweithlu gwydn, gan gryfhau gwybodaeth a dealltwriaeth staff o weledigaeth a gwerthoedd y Cyngor a sut y gall staff gyfrannu at gyflenwi ein hamcanion corfforaethol.

---

Parha datblygu staff i fod yn ffocws corfforaethol allweddol yn unol â rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau'r Cyngor. Cafodd y cynllun gwerthuso staff newydd, **'#itsaboutme'**, ei lansio'n

llwyddiannus ym mis Gorffennaf a chafwyd cefnogaeth frwd i'r cynllun gyda chyfradd gwblhau o 97%. Mae hyn yn unol â pherfformiad y llynedd o 97%. Bellach, mae **Strategaeth Hyfforddi a Datblygu** newydd yn ei lle gyda ffocws ar ddatblygu prif ased y Cyngor, ei phobl, yn unol â'r nodau a nodir yn y Cynllun Gweithlu.


---

Yn ystod 2017/18, gostyngodd **trosiant staff ar** draws y Cyngor o 10.14% i 8.88%, o'i gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol. Gostyngodd cyfanswm yr ymadawyr o 532 i 457. Mae trosiant corfforaethol wedi gostwng o 10.68% i 8.65%, ac mae trosiant mewn Ysgolion wedi gostwng o 9.67% i 9.08%.

At ei gilydd, gostyngodd trosiant gwirfoddol (lle mae gweithwyr wedi dewis gadael cyflogaeth y Cyngor) o 7.49% i 6.68% yn ystod y cyfnod. Hefyd gostyngodd y trosiant gwirfoddol corfforaethol o 8.19% i 6.67%, ynghyd â throsiant gwirfoddol mewn Ysgolion o 6.87% i 6.70%.

Nid yw data meincnodi Adnoddau Dynol Cenedlaethol ar gael ar hyn o bryd am y cyfnod 2017/18 gan y bydd hyn yn cael ei gynhyrchu yn hydref 2018. Fodd bynnag, yn seiliedig ar ddata 2016/17, roedd canran cyfartalog y trosiant ar draws 21 o awdurdodau Cymru yn 11.6%. O ran trosiant gwirfoddol, y ganran gyfartalog ar draws awdurdodau lleol Cymru oedd 8.50%. Mae'r gyfradd trosiant gyffredinol o 8.88% a chyfradd trosiant gwirfoddol o 6.68% i Gyngor Bro Morgannwg ar gyfer 2017/18 yn cynnig cymhariaeth ffafriol.

Yn y siart isod, gellir gweld trosiant staff gwasanaethau'r Cyngor yn ystod 2017/18 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.




| | Gwasanaethau Cymdeithasol 2016/17 | Gwasanaethau Cymdeithasol 2017/18 | Amgylchedd a Thai 2016/17 | Amgylchedd a Thai 2017/18 | Rheolwr Gyfarwyddwr ac Adnoddau 2016/17 | Rheolwr Gyfarwyddwr ac Adnoddau 2017/18 | Dysgu a Sgiliau 2016/17 | Dysgu a Sgiliau 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwirfoddol | 10.62% | 8.29% | 6.65% | 4.69% | 9.08% | 7.68% | 6.76% | 6.92% |
| Anwirfoddol | 2.62% | 2.46% | 2.49% | 1.20% | 2.11% | 3.07% | 2.66% | 1.68% |
| Cyfanswm ymadawyr | 13.24% | 10.75% | 9.14% | 5.89% | 11.19% | 10.76% | 9.43% | 8.60% |

Ar draws pob Cyfadran gostyngodd trosiant yn gyffredinol o'i gymharu â'r llynedd yn yr un cyfnod. Mae'r ganran uchaf o drosiant yn yr adran Adnoddau (10.76% neu 49 o staff) ac mae'r ganran isaf o drosiant yn yr adran Amgylchedd a Thai (5.89% neu 49 o staff). Gostyngodd lefelau trosiant gwirfoddol ym mhob maes Cyfarwyddiaeth ac eithrio Dysgu a Sgiliau a oedd â'r un nifer, ond oherwydd bod y niferoedd cyfartalog yn gostwng, mae'r ffigwr cyfrif canran gwirioneddol wedi cynyddu o 6.76% i 6.92%. Yn ôl y flwyddyn flaenorol, mae gan y Gwasanaethau Cymdeithasol y ganran uchaf o weithwyr sydd wedi dewis gadael y Cyngor (8.29% i lawr o 10.62%).


Parha holiaduron ymadael i chwarae rôl allweddol wrth nodi'r rhesymau pam fod pobl yn dewis gadael cyflogaeth gyda'r Cyngor. Cwblhaodd 30% (49) o ymadawyr gwirfoddol corfforaethol holiadur ymadael, a amlygodd y prif resymau dros chwilio am gyflogaeth amgen fel a ganlyn: 'am resymau personol, teuluol neu gymdeithasol' (41%) ac yna 'datblygiad gyrfaol' (27%), 'anfodlonrwydd swydd' (12%), a 'gwella cyflog' (10%). Mae hwn yn ddarlun tebyg i'r flwyddyn flaenorol.

Mae pwysigrwydd **ymgysylltu â gweithwyr** a'r cysylltiad â chadw gweithwyr a'u perfformiad yn glir ac roedd yn yrrwr clir y tu ôl i lansiad y Siarter Staff sy'n parhau i ddarparu fframwaith ar gyfer strategaeth ymgysylltu â staff y Cyngor a mentrau cysylltiedig. Mae rhai o'r cyflawniadau allweddol hyd yn hyn yn cynnwys: lansio dull newydd o ddysgu a datblygu; cyflenwi'r Digwyddiad Gwobrau Blynyddol i Weithwyr ym mis Mehefin 2018; datblygu Ap Staff i ymestyn y sianeli cyfathrebu â staff; cryfhau parhad Cynllun Arfarnu'r Cyngor (#itsaboutme); ail-lansio Rhaglen Sefydlu'r Cyngor (Croeso i'r Fro); sesiynau datblygu rheolwyr chwe mis yn defnyddio'r Fframwaith cymhwysedd newydd; cryfhau Caffi Arweinyddiaeth y Cyngor; parhau i hyrwyddo Rhaglen Cymorth i Weithwyr (Gofal yn Gyntaf); ffocws parhaus ar wella cyfathrebu â gweithwyr. Rhagwelir y bydd datblygu'r mentrau hyn yn parhau i gael effaith gadarnhaol ar gadw staff.

## 7.3.2 POBL: EIN HERIAU

Mae **rheoli presenoldeb** yn parhau i fod yn flaenoriaeth ac rydym yn parhau i fonitro'r cynnydd yn agos i helpu i wella perfformiad yn gorfforaethol. Rhwng 2016/17 a 2017/18, cynyddodd nifer y diwrnodau a gollwyd fesul cyfwerth ag amser llawn (CALl) oherwydd salwch o 1.26 diwrnod. Cynyddodd absenoldeb salwch o 8.8 diwrnod gwaith fesul CALl yn 2016/17 i 10.14 diwrnod yn 2017/18, gan fethu'r targed corfforaethol o 8.90 diwrnod am y flwyddyn. Mae'r perfformiad hwn yn ein gosod yn yr 11eg safle yng Nghymru, sy'n siomedig o ystyried y ffocws a roddwyd ar yr agenda hon yn ystod y flwyddyn.

Dengys y graff isod y data absenoldeb salwch ar lefel Cyfarwyddiaeth ar ddiwedd y flwyddyn am y ddwy flynedd ddiwethaf:




Yn ystod 2017/18, bu'r lefelau absenoldeb salwch uchaf mewn perthynas â: Gwasanaethau Democrataidd (17.90 diwrnod); Gwasanaethau Oedolion (15.79 diwrnod); Gwasanaethau Gweladwy a Thrafnidiaeth (15.75 diwrnod); Rheoli Adnoddau a Diogelu, gan gynnwys Swyddfa'r Cyfarwyddwr (14.20 diwrnod); Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc (13.35 diwrnod); Perfformiad a Datblygiad (12.96 diwrnod); Gwasanaethau Adeiladu (12.49 diwrnod); Cyflawniad i Bawb (11.46 diwrnod); Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau gan gynnwys Swyddfa'r Cyfarwyddwr (11.46 diwrnod); Adfywio a Chynllunio (9.87 diwrnod); TGCh (9.23 diwrnod) a Gwasanaethau Ariannol gan gynnwys Swyddfa'r Cyfarwyddwr (7.06 diwrnod).

Priodolir y mwyafrif o'r absenoldeb i salwch hirdymor (6.98 diwrnod fesul CALl, gan gynnwys ysgolion a 5.75 diwrnod fesul CALl ac eithrio ysgolion). Mewn cymhariaeth, collwyd 5.81 a 5.30 diwrnod fesul CALl yn y drefn honno oherwydd absenoldeb salwch hirdymor yn ystod 2016/17. Yn ystod 2017/18, cafodd 69% o'r holl absenoldeb ei gategoreiddio yn hirdymor (dros 4 wythnos o hyd). Absenoldeb a achosir gan straen yw'r rheswm mwyaf cyffredin a bennir am absenoldeb salwch ar draws holl wasanaethau'r Cyngor, ac mae hyn wedi cynyddu i 29.2% o 23.4% yn 2016/17, yn cael ei ddilyn gan haint firaol ar 18% o 17.1%. Gostyngodd absenoldeb a achoswyd gan weithrediadau, a gostyngodd yr amser gwella i 16.3%, o 18.2%. Y Gwasanaethau Cymdeithasol oedd â'r mwyaf o absenoldeb yn gysylltiedig â straen (38%) ac yna'r Rheolwr Gyfarwyddwr ac Adnoddau (30%),

Ysgolion (29%), Amgylchedd a Thai (25%) a Dysgu a Sgiliau (21%). Wrth symud ymlaen, bydd y Cyngor yn ceisio gwahaniaethu rhwng cofnodi straen 'sy'n gysylltiedig â gwaith' a 'heb fod yn gysylltiedig â gwaith' er mwyn ein cynorthwyo i ddeall y rheswm dros yr absenoldeb yn ogystal ag edrych ar ffyrdd o gefnogi iechyd a llesiant gweithwyr.

Yn gyffredinol, mae meysydd gwasanaeth yn parhau i fod yn rhagweithiol wrth weithredu dulliau asesu risg, gan ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth straen i staff a chyfeirio ymlaen at y rhaglen Cymorth i Weithwyr, a chyfeirio achosion straen yn awtomatig at iechyd galwedigaethol. Parheir i fonitro presenoldeb yn rhagweithiol yn unol â threfniadau corfforaethol gydag achosion blaenoriaeth yn cael eu hadolygu'n fisol er mwyn sicrhau bod perfformiad yn cael ei ddwyn yn ôl ar y trywydd iawn. Lle mae lefelau absenoldeb salwch yn broblem i gyfarwyddiaeth, ceir cynllun gweithredu i ymdrin â'r materion trwy gamau penodol/wedi'u teilwra.

Er bod lefelau trosiant corfforaethol wedi bod yn gadarnhaol dros y flwyddyn ddiwethaf, mae nifer o feysydd gwasanaeth ar draws y Cyngor yn parhau i adrodd am anawsterau wrth **recriwtio a chadw staff** mewn meysydd allweddol. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyllid a TGCh, Tai a Gwasanaethau Adeiladu, Adfywio a Chynllunio, Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth a Gwasanaethau Democrataidd. Mewn ymateb i'r heriau hyn, cyflwynwyd amrywiaeth o fentrau cynllunio olyniaeth gan y meysydd gwasanaeth perthnasol sy'n seiliedig ar asesiad o'r setiau sgiliau gofynnol. Cynhaliwyd y rhain ochr yn ochr ag ail-lunio ac ailstrwythuro'r gwasanaeth yn unol ag agenda newid y Cyngor. Hefyd cefnogir y mentrau hyn trwy waith a wnaed ar y cynllun gwerthuso staff (#itsaboutme), y dull newydd o ddysgu a datblygu, y fframwaith cymhwysedd rheoli sy'n datblygu, gwerthusiad parhaus o'r cynllun peilot cynllunio olyniaeth a rheoli talent, a'r Caffi Arweinyddiaeth.

## 7.3.3 CWSMERIAID: EIN CYFLAWNIADAU

Er gwaethaf yr hinsawdd ariannol heriol, mae'r Cyngor wedi parhau i berfformio'n gryf, gyda gwasanaethau o ansawdd a gwerth am arian i drigolion wrth wraidd pob penderfyniad. Y Fro yw'r **awdurdod lleol sy'n perfformio orau Cymru am y bedwaredd flwyddyn yn olynol** yn ôl data a gyhoeddwyd gan yr Uned Ddata Llywodraeth Leol, (Data Cymru). Roedd y Cyngor yn un o ddim ond 6 awdurdod lleol yn y DU ar y rhestr fer ar gyfer dyfarniad Awdurdod Lleol y Flwyddyn 2017 y Municipal Journal, ac enillodd Dîm y Flwyddyn yng ngwobrau'r Local Government Chronicle yn 2017 am y gwaith a wneir â Chaffi Arweinyddiaeth y Cyngor. Yn 2018, roedd y Fro hefyd ar y rhestr fer am 6 gwobr y Local Government Chronicle mewn nifer o gategorïau, gan gynnwys 'Cyflenwi Gwasanaethau Gorau', 'Trawsnewid Busnes', 'Seren sy'n Codi' a 'Thîm y Flwyddyn'. Mae'r gydnabyddiaeth o'r cynlluniau gwobrwyo cenedlaethol hyn yn amlygu'r cynnydd da a wnaethom wrth ddarparu gwasanaethau o ansawdd i drigolion y Fro mewn cyfnodau heriol. Dim ond trwy ymrwymiad ac ymroddiad ein gweithlu â chyfraniad ein partneriaid a rhanddeiliaid allweddol gwasanaethau y bu hyn yn bosib.

Mae **ymgysylltu â dinasyddion** yn un o werthoedd craidd y Cyngor yn y Cynllun Corfforaethol ac rydym yn annog ein trigolion a'n cwsmeriaid i rannu eu barn a'u profiadau o'n gwasanaethau gan ei fod yn hyrwyddo ymgysylltiad, a rhoi syniad inni o sut rydym yn perfformio o'u persbectif hwy, gan ffurfio ein blaenoriaethau a gwella ein dull o ymdrin â datblygu gwasanaethau yn y Cyngor. Adroddwyd am yr Arolwg Barn y Cyhoedd diwethaf (a gynhelir bob dwy flynedd) yn ein Hadolygiad Blynyddol o Berfformiad ar gyfer 2016/17, a dangosodd fod trigolion yn fodlon ar y cyfan â gwasanaethau'r Cyngor. Hysbysodd canfyddiadau'r arolwg nifer o ddatblygiadau gwasanaeth yn 2017/18. Yn ogystal, cynhaliwyd rhaglen o ymgynghori yn ystod y flwyddyn a oedd yn cwmpasu nifer o wasanaethau, ac mae eu canfyddiadau wedi parhau i lywio datblygiad yn ystod y flwyddyn yn ogystal â blaenoriaethau gwella'r Cyngor yn 2018/19. Darperir uchafbwyntiau allweddol isod.

Y pwynt cyswllt cyntaf i gwsmeriaid gael **mynediad at ein gwasanaethau** yw trwy'r Ganolfan Gyswllt Cwsmeriaid (C1V) yn bennaf. Cesglir data arolwg ar ba mor dda yr ydym yn perfformio o ran profiad y cwsmer wrth gyrchu C1V, a pha mor dda yr ydym yn ymateb a datrys ymholiadau neu gyfeirio cwsmeriaid at y gwasanaethau. Ar ddiwedd y flwyddyn 2017/18, roedd 94.7% o'r ymatebwyr yn

teimlo'n hyderus bod eu ymholiad wedi ei ddatrys, neu y bydd yn cael ei ddatrys. Mae hyn yn ostyngiad bach ar y 96.4% o ymatebwyr yn y chwarter blaenorol.

Rydym yn gyson yn perfformio'n dda mewn perthynas â bodlonrwydd ynglŷn â mynediad at wasanaethau ar draws pob sianel ac o ran pa mor dda yr ydym yn ymdrin ag ymholiadau. Gwelir isod yr uchafbwyntiau allweddol o 2017/18.

Canran yn fodlon â mynediad at wasanaethau ar draws pob sianel:

| | Ymatebion |
|---|---|
| Rhagorol | 3945 |
| Da iawn | 547 |
| Boddhaol | 302 |
| Gwael | 43 |
| Gwael iawn | 7 |
| Cyfanswm | 4,844 |

Datryswyd 77% o'r holl ymholiadau i C1V ar y cyswllt cyntaf. Mae hyn yn ymwneud â 101,030 allan o 131,192 o ymholiadau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn, sy'n welliant o berfformiad y llynedd o 68%. Lle nad oedd penderfyniad yn bosib ar y cyswllt cyntaf, cyfeiriwyd y cwsmeriaid yn briodol.

Mae'r Cyngor yn defnyddio system Oracle CRM i gofnodi a monitro'r nifer o **sylwadau o ganmoliaeth** a gaiff drwy'r flwyddyn. Yn ystod 2017/18, derbyniwyd cyfanswm o 232 o sylwadau o ganmoliaeth. Cofnodwyd y niferoedd uchaf o sylwadau o ganmoliaeth a dderbyniwyd mewn mis (27) ym mis Mehefin a Gorffennaf 2017. O'r 232 o sylwadau o ganmoliaeth a gofnodwyd, derbyniodd Gwasanaethau Gweladwy a Thrafnidiaeth 66.8% (155). Disgwylir i'r gwasanaethau sy'n wynebu'n fewnol  gael llai o sylwadau o ganmoliaeth. Dengys y tabl isod y sylwadau o ganmoliaeth a dderbyniwyd yn ôl maes gwasanaeth:

| Maes gwasanaeth | Sylwadau o ganmoliaeth a gafwyd | % |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Gweladwy a Thrafnidiaeth | 155 | 66.8% |
| Perfformiad a Datblygiad | 19 | 8.2% |
| Gwasanaethau Tai | 15 | 6.5% |
| Adfywio a Chynllunio | 15 | 6.5% |
| Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir | 13 | 5.6% |
| Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau | 9 | 3.9% |
| Gwasanaethau Ariannol | 5 | 2.2% |
| Gwella Ysgolion a Chynhwysiant | 1 | 0.4% |


Caiff canmoliaeth yn ymwneud â'r Gwasanaethau Cymdeithasol eu cofnodi ar wahân ac yn ystod 2017/18, derbyniwyd 19 sylw o ganmoliaeth, wedi eu gwasgaru'n dda dros y Gwasanaethau Oedolion a Phlant a Phobl Ifanc. Roedd y rhain yn gysylltiedig â'r gwasanaethau cefnogol a dderbyniodd y defnyddwyr gwasanaethau ac roeddent yn aml yn enwi staff penodol lle roeddent yn teimlo bod yr unigolyn wedi gwneud mwy na'r hyn a ddisgwylir ganddynt.

**Ni chadarnhawyd unrhyw gwynion yn erbyn y Cyngor** gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod 2017/18, gan adlewyrchu perfformiad y llynedd.

Rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2018, holwyd barn y trigolion am y **ddarpariaeth bysiau, trafnidiaeth gymunedol a rheilffyrdd** ledled Bro Morgannwg. Roedd yr arolwg yn cwmpasu popeth o ddibynadwyedd a hygyrchedd i ba mor ddiogel y mae rhywun yn teimlo pan fyddant yn gwneud taith ar wasanaeth bws neu drên lleol.  At ei gilydd, roedd y trigolion yn eithaf bodlon gyda thrafnidiaeth gyhoeddus yn y Fro. Fodd bynnag, cafwyd galw am well gwasanaethau rheilffyrdd. Yn

ogystal, nid yw trigolion yn teimlo bod y gwasanaeth yn ddigonol i leihau tagfeydd traffig a thrwy hynny helpu'r amgylchedd.

Y prif ganfyddiadau oedd: 80% o'r ymatebwyr yn teimlo bod y bysiau, y trenau a'r arosfannau bysiau neu'r gorsafoedd trên y maent yn eu defnyddio yn hygyrch. Teimlai 88% o'r ymatebwyr yn ddiogel ar y bysiau, trenau ac arosfannau bws a gorsafoedd a ddefnyddir ganddynt. Teimlai 73% o'r ymatebwyr bod bysiau/trenau yn gyffredinol mewn cyflwr glân a da. Teimlai 88% o'r ymatebwyr bod gyrwyr/tocynwyr yn gyffredinol gwrtais, cymwynasgar a phroffesiynol.




Defnyddir canfyddiadau'r arolwg i lywio'r adolygiad o wasanaethau.

Hysbyswyd penderfyniadau ynghylch gosod **cyllideb y Cyngor 2018/19** trwy ymgynghori â thrigolion y Fro mewn arolwg a grwpiau trafod wyneb yn wyneb yn ystod 2017. Hefyd ymgynghorwyd â phartneriaid strategol allweddol gan gynnwys y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, cynghorau Tref a Chymuned, y sector gwirfoddol, panel dinasyddion Safbwynt y Fro, Fforwm Strategaeth 50+ Bro Morgannwg, grwpiau cydraddoldeb sy'n cynrychioli grwpiau anodd eu cyrraedd a Chabinet Ieuenctid y Fro.

Yn gyffredinol, derbyniodd yr ymatebwyr fod angen newidiadau i'r ffordd mae'r Cyngor yn gweithredu er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau, ond nid oeddent o blaid cynyddu Treth y Cyngor i gyfartaledd Cymru. Roedd cefnogaeth i ddirwyon cynyddol am ymddygiad gwrthgymdeithasol, caniatáu i grwpiau cymunedol a sefydliadau eraill gyflenwi gwasanaethau anstatudol a chyflwyno taliadau am wasanaethau anstatudol. Ystyriwyd canfyddiadau'r ymgynghoriad gan y Gweithgor Cyllideb, y Pwyllgorau Craffu a'r Cabinet, a helpodd i siapio'r gyllideb derfynol a gyflwynwyd a'i chytuno gan y Cyngor llawn, gan gymeradwyo cynnydd o 3.9% yn nhreth y Cyngor, sef y trydydd isaf yng Nghymru.

Gweithredwyd **Fframwaith Ymgysylltu Cyhoeddus** newydd ac mae'n anelu at gryfhau ymhellach y modd yr ydym yn ymgysylltu â thrigolion y Fro a rhanddeiliaid allweddol yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, a rhoi tystiolaeth pam a sut rydym yn gwneud hyn. Mae'r fframwaith yn nodi ein safonau corfforaethol (yn seiliedig ar arfer gorau) ynglŷn â sut y gellir cyflawni ymgysylltiad ystyrlon yn gyson. Gwnaed cynnydd da wrth ddatblygu cyfarwyddiadur o brojectau ymgysylltu ar gyfer Staffnet, gan sefydlu rhwydwaith o swyddogion sy'n ymwneud ag ymgysylltu â'r cyhoedd a gweithio gyda'n partneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar ddull mwy cydgysylltiedig o ymgysylltu.

Ymgynghorwyd â **thrigolion Gibbonsdown** ar eu blaenoriaethau amgylcheddol ar gyfer y gymuned i helpu i lywio rhaglen gyflenwi o welliannau ystad. Mae'r canfyddiadau wedi hysbysu rhaglen

inswleiddio waliau allanol estynedig ac addurno allanol i gartrefi'r ardal. Rhagwelir y bydd gwaith pellach yn rhan o Strategaeth Gwelliannau Amgylcheddol y Cyngor.

I roi llais i'n tenantiaid yn y modd rydym yn gwneud gwelliannau i'n gwasanaeth tai, ein cartrefi a'n cymunedau, rydym wedi ymgysylltu â hwy wrth ddatblygu'r **Strategaeth Ymgysylltu â Thenantiaid**. Mesurir y cynnydd o ran gweithredu'r Strategaeth trwy gwblhau'r camau cytunedig yn y Cynllun Cyflenwi. Cyflwynir adroddiadau monitro chwe mis i aelodau'r Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel ynghylch yr ystod o brojectau a mentrau sy'n digwydd, gan alluogi'r aelodau i herio cyflawniad canlyniadau yn effeithiol.

Rydym wedi ymgysylltu â **thenantiaid a pherchnogion tai yn Ward Buttrills** a'r ardal gyfagos ar gynllun datblygu gwerth £3.2 miliwn i'r ardal i alluogi'r Cyngor nodi a deall yn well y blaenoriaethau lleol ar gyfer gwella'r amgylchedd. Sicrhaodd canfyddiadau'r ymarferiad bod cynllun adfywio Buttrills yn cael ei ddatblygu i ymdrin â materion a nodwyd yn lleol, fel adleoli'r ardal storio biniau y tu allan i Fflatiau Buttrills Walk, gwneud yr ardal lein olchi yn fwy diogel, codi edrychiad y stoc dai, ailfodelu'r ardal chwarae, a delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy uwchraddio ehangder yr ardal a gaiff ei gwylio gan y teledu cylch cyfyng. Parheir i sicrhau cyfranogiad rheolaidd gyda phreswylwyr Grŵp Compass er mwyn hysbysu'r preswylwyr o gynnydd y project a sicrhau bod eu materion yn cael eu clywed a, lle bo modd, yn cael eu datrys.

Parha **parciau gwledig ac arfordir treftadaeth y Fro** i ddenu nifer sylweddol o ymwelwyr bob blwyddyn gyda chymorth tîm penodol a marchnata cynhwysfawr wedi'i dargedu. Mae lefelau bodlonrwydd yn parhau'n gadarnhaol iawn gyda'r mwyafrif o ymwelwyr yn hapus iawn gyda'u hymweliadau:

- Roedd boddhad cwsmeriaid â'n parciau gwledig yn 2017/2018 yn 99.8%, sy'n welliant pellach ar berfformiad y llynedd o 98%.
- Roedd boddhad cwsmeriaid â Chanolfan Ymwelwyr Arfordir Treftadaeth Morgannwg yn 100%, eto gwelliant pellach ar 98% y llynedd.

Parha cyrchfan **Ynys y Barri** i dderbyn ymateb cadarnhaol iawn gan ymwelwyr. Mae'r canlyniadau diweddaraf ar Holiadur Boddhad Cwsmeriaid yn dangos bod 95% o'r ymatebwyr yn teimlo bod cyfleusterau ar Ynys y Barri yn 'Dda' neu'n 'Rhagorol', gan ragori ar y targed o 86% o ymatebwyr. Gofynnwyd i ymatebwyr hefyd a oedd yr Ynys wedi bodloni eu disgwyliadau, dywedodd 196 o'r 208 o ymatebwyr (bron i 95%) fod Ynys y Barri naill ai wedi 'cyrraedd', yn 'well na' neu'n 'rhagori o ddigon' ar eu disgwyliadau.

Mewn ymateb i'r heriau ariannol parhaus, rydym wedi parhau i weithio'n rhagweithiol gyda chymunedau'r Fro i gael gafael ar adnoddau a datblygu eu capasiti i wella a rhedeg asedau cymunedol. Yn ystod y flwyddyn, sefydlwyd **project rhwydweithio pentrefi** lle gall pentrefi'r Fro wledig ddysgu o weithgareddau/mentrau ei gilydd, i helpu i ddatblygu a hyrwyddo ysbryd cymunedol. I helpu i gefnogi'r gwaith hwn, mae cyllid ar gael trwy Lywodraeth Cymru i dreialu projectau gweithgareddau/digwyddiadau newydd i helpu i dyfu ysbryd cymunedol. Hyd yma, cafwyd cyfanswm o 35 o ymholiadau ynglŷn â'r Project 'Ysbryd Cymunedol Cynyddol'. Yn ogystal, trefnwyd cyfres o ddigwyddiadau Rhwydweithio Cymunedol i helpu i gynyddu'r ysbryd cymunedol, a gynhaliwyd gyntaf ym mis Hydref 2017 gyda chyfanswm o 25 o bobl yn bresennol, yn cynrychioli'r grwpiau a oedd wedi cyflwyno ceisiadau. Mae llwyddiannau diweddar yn cynnwys cylchlythyr misol Saint Hilari, sydd wedi bod yn ffordd wych i'r gymuned ddarganfod beth sy'n digwydd a hyrwyddo digwyddiadau yn y gymuned i ddod â phobl at ei gilydd. Mae hyd yn oed y broses gyflwyno wedi galluogi trigolion i gael sgyrsiau na fyddent wedi'u cael o'r blaen. Yn ddiweddar, sefydlodd y SAINTS - grŵp parciau Sain Tathan dîm pêl-droed plant newydd yn y pentref i annog plant i fod yn egnïol a helpu i gael pob plentyn i ymgysylltu â chwaraeon. Maent hefyd yn cynnal gŵyl iechyd a llesiant dros yr haf.

Buom yn ymgysylltu â phobl ifanc i sefydlu eu barn am **ansawdd y clybiau ieuenctid a'r ddarpariaeth ieuenctid**. Roedd y canfyddiadau yn gadarnhaol gyda'r mwyafrif o'r ymatebwyr ( 90%) yn cytuno'n gryf gyda'r datganiad bod eu gweithiwr ieuenctid yn annog, yn eu parchu, yn gwrando arnynt ac yn eu cefnogi. Dywedodd 93% o bobl ifanc eu bod wedi dysgu rhywbeth o fynychu eu clwb ieuenctid neu ddarpariaeth ieuenctid. Dywedodd 66% eu bod wedi ennill cymhwyster. Dywedodd 40% o bobl ifanc eu bod weithiau'n cael eu holi beth maent yn ei feddwl am weithgareddau. Cytunodd 60% o bobl ifanc yn gryf bod yr gwasanaeth ieuenctid wedi'i hysbysebu'n dda. Gwnaeth Cabinet Ieuenctid y Fro restr o argymhellion sy'n rhan o gynllun gweithredu cytunedig a gaiff ei ddatblygu gan Wasanaeth Ieuenctid y Fro.

Fel rhan o'r **adolygiad o ddigartrefedd**, holwyd barn dinasyddion sydd wedi derbyn cymorth gan dîm digartrefedd y Cyngor yn ystod y misoedd diwethaf. Casglwyd y rhain gan arolwg annibynnol o ddefnyddwyr gwasanaeth a wnaed gan Gwalia. Roedd y canfyddiadau yn gadarnhaol ac yn dangos gwaith mor dda sydd eisoes yn cael ei wneud yn y Fro, yn bennaf o ganlyniad i berthnasoedd gwaith da rhwng y Cyngor a'r holl asiantaethau dan sylw. Dywedodd y defnyddwyr gwasanaeth wrthym fod tîm y Cyngor yn eu trin â pharch, urddas a chynnig cyngor mewn modd syml ac anfeirniadol. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i adeiladu ar y llwyfan cadarn hwn i greu rhwydwaith diogelwch modern a fydd yn gweld na chaiff neb eu troi i ffwrdd heb gymorth.

Yn unol â'n hymrwymiad i annog a hyrwyddo ffyrdd o fyw actif ac iach ymhlith trigolion y Fro, rydym wedi ymgysylltu â thrigolion a phartneriaid allweddol wrth ddatblygu'r **Strategaeth Hamdden**. Mae manteision cyfranogiad rheolaidd mewn gweithgareddau hamdden a chorfforol ar iechyd a llesiant wedi'u dogfennu'n dda a noda'r strategaeth sut y bydd y Cyngor a'i bartneriaid yn gwneud y mwyaf o ddefnydd o adnoddau i sicrhau bod pobl leol yn parhau i fwynhau cyfleoedd hamdden o ansawdd uchel sy'n addas i'w ffordd o fyw ac yn cynnal a gwella ansawdd eu bywydau.

Mae'r Ganolfan Gyswllt (C1V) a'r Gwasanaethau Oedolion yn parhau i gydweithio i ddarparu **un pwynt mynediad ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol**. Mae prosesau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth wedi'u hymgorffori'n llawn o fewn C1V ac mae'r gwasanaeth a ddarperir yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Yn 2017/18, datryswyd 55% o ymholiadau ar gyfartaledd i linell Gwasanaethau Oedolion yn C1V heb ofyn am asesiad ffurfiol. Roedd pob defnyddiwr gwasanaeth yn gallu cael gwybodaeth/cyngor mewn modd amserol sy'n galluogi cyfeirio effeithiol. Yn ystod y flwyddyn, trosglwyddodd Gwasanaeth Asesu Gofal Henoed y Fro hefyd yn llwyddiannus i C1V. Er mwyn gwella mynediad i drigolion y Fro ymhellach a gwella perfformiad y gwasanaeth, cynhaliwyd adolygiad yn ystod chwarter 4 a bydd y cynigion sy'n deillio o hyn yn cael eu gweithredu yn 2018/19. Mae'r gwaith cadarnhaol a wneir yma yn dal i gael sylw gan sefydliadau eraill sydd eisiau ailadrodd y model.

Drwy ein gwaith gyda Menter Bro Morgannwg, rydym yn parhau i ddarparu rhaglen o weithgareddau cymdeithasol i **hyrwyddo'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ledled Bro Morgannwg**. Darparodd Menter Bro Morgannwg ystod o gyfleoedd i siaradwyr Cymraeg eleni ac mae digwyddiadau wedi cynnwys; helfa natur Calan Gaeaf, digwyddiadau cerddoriaeth fyw Gymraeg, boreau coffi a sesiynau amser stori plant. Cymerodd dros 19,400 o bobl ran mewn amrywiol ddigwyddiadau. Rydym hefyd yn parhau i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg sy'n unol â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) 2017-20. Yn ystod y flwyddyn, buom yn llwyddiannus yn ein cais i Lywodraeth Cymru am grant athro cyflenwi i hyfforddi athro o ysgol cyfrwng Cymraeg mewn anghenion dysgu cymhleth ac anhwylderau sbectrwm awtistig. Yn dilyn recriwtio llwyddiannus, mae'r athro hwn bellach yn gweithio gydag ysgolion i alluogi cyflenwi darpariaeth arbenigol trwy gyfrwng y Gymraeg.

## 7.3.4 CWSMERIAID: EIN HERIAU

Fel y rhan fwyaf o awdurdodau lleol eraill yn y DU, mae'r Fro yn wynebu **adnoddau cyfyngedig a galw cynyddol am y rhan fwyaf o'i wasanaethau** a bydd rhaid iddi ddod o hyd i'r ffyrdd mwyaf effeithiol o weithio tra'n cydymffurfio â gofynion statudol a disgwyliadau cynyddol ei dinasyddion a'i

chymunedau. Mewn ymateb i'r heriau hyn, rydym yn parhau i weithio gyda'n partneriaid trwy'r rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau i sicrhau ein bod yn gallu bodloni'r heriau hyn heb beryglu ansawdd y gwasanaethau rydym yn eu darparu neu'n eu comisiynu.

Oherwydd y gofynion deddfwriaethol ar gyfer rhai gwasanaethau, mae gennym ddwy weithdrefn ar wahân ar gyfer ymdrin â chwynion, yn dibynnu a ydynt yn ymwneud â phlant a phobl ifanc a gofal cymdeithasol i oedolion a phob gwasanaeth arall (corfforaethol). Mae'r gweithdrefnau i gyd wedi ymrwymo i fod yn berson-ganolog, yn deg ac yn glir, gyda chanlyniadau amserol. Mae gan bob gweithdrefn ei nodweddion ei hun a'i safonau ymateb ac mae pob gweithdrefn yn dod o dan ambarél Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae hyn yn creu pwynt terfynol cyson o atgyfeirio os yw person yn parhau'n anfodlon ar ôl cwblhau'r broses gwyno.

Er bod cynnydd da yn cael ei wneud yn gorfforaethol gyda'r modd yr ydym yn rheoli, yn monitro ac yn dysgu o **gwynion,** mae mwy o waith i'w wneud i sicrhau ein bod yn cwrdd â'n amserlenni targed wrth ddelio â chwynion. Ymdriniwyd â 55.3% o'r holl gwynion yn ystod y flwyddyn o fewn y terfynau amser targed o'i gymharu â 73.5% yn y flwyddyn flaenorol. Yn ogystal, mae angen inni ymdrin â materion yn gynharach er mwyn eu hatal rhag mynd ymlaen i ail gam y broses. Mae'r system dangosfwrdd cwynion trwy ddefnyddio Oracle yn golygu y gellir monitro data cwynion corfforaethol o fis i fis gan roi gwybodaeth amser real am sut mae pob maes gwasanaeth yn rheoli ac yn ymateb i gwynion ar draws y Cyngor. Dyry'r monitro hwn gyfle inni ddeall a oes bwlch rhwng disgwyliadau trigolion a safon eu gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, er mwyn i'r broses hon weithio'n effeithiol, wrth edrych ymlaen, mae angen i wasanaethau ddiweddaru'r paneli yn brydlon gan sicrhau bod data cywir yn llywio dysgu.

Yn ystod 2017/18, derbyniwyd cyfanswm o 298 o gwynion ar draws y Cyngor cyfan (ac eithrio'r gwasanaethau cymdeithasol). Derbyniwyd y nifer uchaf o gwynion am yr adran Amgylchedd a Thai (213 o gwynion) yn cynrychioli 71.5% o gyfanswm nifer y cwynion. Derbyniodd Dysgu a Sgiliau y nifer isaf o gwynion (14) yn ystod y flwyddyn, sef 4.7% o gyfanswm cwynion ar draws y Cyngor. Cynhyrchodd y Gyfarwyddiaeth Adnoddau 71 o gwynion, yn cynrychioli 23.8% o'r holl gwynion.

O'r 298 o gwynion, datryswyd y mwyafrif (86.6%) ar Gam 1 (258) o'i gymharu â 13.4% ar Gam 2 (40), gan ddangos ein heffeithiolrwydd wrth ddatrys cwynion yn gynnar. Mae'r perfformiad hwn, sydd ychydig yn is na'r flwyddyn flaenorol, wedi parhau'n gymharol gyson o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol lle datryswyd 87.8% allan o 395 o gwynion ar Gam 1 a 12.3% ar Gam 2.

**Cyfraddau datrys ar gyfer Camau 1 a 2 yn ôl y Gyfarwyddiaeth:**

| Cyfarwyddiaeth | Penderfynwyd ar Gam 1 | Penderfynwyd ar Gam 2 |
|---|---|---|
| Amgylchedd a Thai | 88.3% | 11.7% |
| Adnoddau | 81.7% | 18.3% |
| Dysgu a Sgiliau | 85.7% | 14.3% |

O ran y gwersi a ddysgwyd yn ystod y flwyddyn, yn gorfforaethol rydym wedi nodi'r angen i ganolbwyntio ar nifer o feysydd, yn nhermau'r tair blaenoriaeth uchaf, yn cynnwys: yr angen i ganolbwyntio ar hyfforddiant a datblygu staff a sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r gwasanaeth safonau; yr angen i adolygu a diwygio'r wybodaeth a'r cyfathrebu a roddwn i'n cwsmeriaid; a'r angen i sicrhau bod yr holl gwynion yn cael eu cofnodi'n gywir ar Oracle i hwyluso dysgu o'r cwynion.

Yn ystod 2017/18, codwyd 156 o faterion yn **ymwneud â'r Gwasanaethau Cymdeithasol** gan ddefnyddwyr y gwasanaeth a/neu eu gofalwyr/teulu a ddilynwyd i fyny gydag ymweliad. Yn yr ymweliadau hyn, bydd y Swyddog Cwynion yn gwrando ar bryderon defnyddwyr y gwasanaeth i egluro unrhyw faterion ymhellach. Yn y rhan fwyaf o achosion mae'r Swyddog Cwynion yn gallu lliniaru pryderon defnyddwyr gwasanaeth ar y cam hwn, ac mewn rhai achosion gallant gyfeirio defnyddwyr y gwasanaethau ymlaen at ffynonellau gwybodaeth neu wasanaethau eraill nad

oeddent yn ymwybodol ohonynt. O ganlyniad i'r ymdrechion hyn, mae llai o faterion yn dyrchafu i fod yn ymholiadau (sef mater/pryder a adroddwyd gan y defnyddiwr gwasanaeth ac a gofnodwyd yn ffurfiol gan y Swyddog Cwynion ac ymateb iddo, ond na ddyrchafodd i fod yn gŵyn) a chwynion. O'r 156 o faterion a godwyd, dim ond 46 aeth ymlaen i ymholiadau ac felly angen ymateb mwy ffurfiol, ac aeth 4 ymlaen i fod yn gwynion. O'r 46 ymholiad hyn, roedd 26 yn ymwneud â Gwasanaethau Oedolion ac 20 yn ymwneud â Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc.

Mae natur cwynion y gwasanaethau cymdeithasol yn dod yn fwyfwy cymhleth; er gwaethaf hyn, rydym yn parhau i wella ein hymatebolrwydd i gwynion o fewn yr amserlenni dynodedig. Yn ystod y flwyddyn, datryswyd 100% o gwynion Cam 1 Gwasanaethau Oedolion a Rheoli Adnoddau a Diogelu o fewn yr amserlenni penodedig a nododd y Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc fod 92% o'r cwynion Cam 1 wedi cael eu datrys o fewn graddfeydd amser. Yn yr un modd, datryswyd cwynion Cam 2 yn ymwneud â Phlant, 1 o'r 2 gŵyn, o fewn yr amserlenni dynodedig. Fodd bynnag, dylid nodi, mewn perthynas â chwynion Cam 2, bod yr achwynwyr wedi cael gwybod y rheswm dros yr estyniad i'r amserlen, a'u bod yn cytuno â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Y tri rheswm uchaf am gwynion oedd mewn perthynas ag ansawdd neu lefel y gwasanaeth oedd ar gael (18 o gwynion), pryderon parhaus (18 o gwynion) a chwynion am staff neu drigolion eraill (12 o gwynion). Mae dysgu o'r canfyddiadau hyn wedi hysbysu ein prif feysydd ffocws wrth edrych ymlaen i 2018/19 gan gynnwys: gweithio gydag ymchwilwyr annibynnol i wneud gwelliannau yn yr amser a gymerir i gwblhau ymchwiliadau Cam 2 trwy adolygu'r gefnogaeth a gynigir i ymchwilwyr; parhau i weithio gyda rheolwyr a staff i wella'r amser a gymerir i gwblhau cwynion Cam 1; cynyddu ymhellach nifer yr Ymchwilwyr Annibynnol a'r Personau Annibynnol ar y gronfa ddata; parhau i weithio gyda Chwynion Corfforaethol ar ymateb i geisiadau Ombwdsmon o fewn yr amserlenni y gofynnir amdanynt; datblygu prosesau monitro a gwerthuso ymhellach i wella ein gallu i ddysgu o gwynion a defnyddio'r canlyniadau a'r argymhellion sy'n deillio o gwynion i wella gwasanaethau; parhau i ddarparu rhaglen dreigl o hyfforddiant i staff; a datblygu mecanweithiau i gefnogi achwynwyr yn well gyda chwynion yn ymwneud â gwasanaethau darparwyr.

---

Gostyngodd bodlonrwydd â **gwaith SATC** yn ystod 2017/18, gyda pherfformiad adroddedig o 67.3% o'i gymharu â 73.9% y llynedd. Y prif resymau dros anfodlonrwydd a roddwyd o safbwynt tenantiaid oedd yr amser a gymerwyd i gwblhau'r gwaith allanol a chyfathrebu gwael rhwng contractwyr a thenantiaid, yn amrywio o beidio â chadw apwyntiadau, i beidio â chael gwybod pryd y byddai contractwyr yn gweithio mewn eiddo. Yn dilyn y canfyddiadau, codwyd y materion hyn a'u trafod mewn cyfarfodydd contractwyr misol gyda'r prif gontractwyr trwy fecanweithiau monitro cytundebau sefydledig, gan arwain at ddefnyddio cymalau cosb, fel tynnu gwaith o 3 rhaglen gontractwyr a pheidio â thalu am waith nad oeddent wedi'i gwblhau'n llawn neu heb gael cymeradwyaeth ansawdd iddo. Mae 100% o waith SATC wedi'i gwblhau erbyn hyn, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i gynnal y safon ar ôl ei gyflawni.

---

Mae **cyflymder yr ateb i alwadau sy'n dod i mewn i'r Ganolfan Gyswllt Cwsmeriaid** yn parhau i fod yn faes ar gyfer gwella, wedi iddo fethu ei darged o 60 eiliad gydag amser ateb cyfartalog o 77 eiliad. Dros y flwyddyn, amrywiodd y perfformiad yn sylweddol, yn adlewyrchu cynnydd tymhorol yn y galw. Yn ogystal, cyfrannodd lefelau uchel o salwch tymor byr yn ystod cyfnodau brig tymhorol at amserau aros hirach yn gyffredinol. Rhagwelir dros amser y ceir cyfleoedd i gyflwyno hunanwasanaeth ar-lein, ac y bydd hyn yn lleihau'r pwysau galw dros y ffôn yn y hirdymor, yn unol ag agenda'r Fro Ddigidol.

---

Llithrodd y cynnydd mewn datblygu **Panel Ymgysylltu Dinasyddion** ar gyfer pobl ag anghenion gofal a chymorth wrth i ymdrechion i ymgysylltu â chleientiaid drwy'r peilot 'Arbenigwr drwy Brofiad' yr ymgymerwyd â hwy yn New Horizons fethu. O ganlyniad i brofiadau tebyg gan gynghorau eraill, defnyddir dull rhanbarthol bellach i fuddsoddi yn y maes hwn, gyda chefnogaeth Grant Cyflenwi Gweddnewid. Bydd y Panel yn helpu i hyrwyddo'r agenda llesiant a chefnogi pob sefydliad i gyflenwi gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

---

Rydym yn parhau i gynyddu nifer y defnyddwyr sy’n dilyn diweddariadau'r Cyngor a'r nifer o argraffiadau y mae'r cyfrifon yn eu cael, gan dynnu sylw at y ffaith bod y Cyngor yn **ymgysylltu'n llwyddiannus â chynulleidfa ehangach**. Cynyddodd dilynwyr cyfrif twitter y Cyngor o 9.7% i 16,730, gydag argraffiadau dyddiol cyfartalog o 17,100K. Yn yr un modd, cynyddodd ‘hoffi’ ar Facebook o 14% i 11,523.


## 7.3.5 CYLLID: EIN CYFLAWNIADAU

Mae'r Fro yn gosod ei **chyllideb ar** gyfer y flwyddyn ariannol nesaf ym mis Mawrth. Gwneir hyn yn unol â dull aml-flwyddyn y Cyngor sy'n anelu at lyfnhau amrywiadau adnoddau dros bedair blynedd.




Gellir gweld hyn yn ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2017/18 - 2020/21. Mae'r Cyngor yn derbyn y rhan fwyaf (56%) o'i gyllid refeniw net gan Lywodraeth Cymru (LlC) fel Grant Cynnal Refeniw (RSG) a chyfran o'r Ardreth Annomestig Genedlaethol (NNDR). Gyda'i gilydd maent yn ffurfio Cyllid Allanol Cyfun (AEF) y Cyngor a dyma brif benderfynydd cyllideb refeniw blynyddol yr Awdurdod, a oedd yn £215.72 miliwn yn 2017/18. Daw'r gweddill o’r arian o’r dreth a gesglir gan y Cyngor (22%).

Ar ddiwedd y flwyddyn 2017/18, rhoddodd y Cyngor adroddiad am sefyllfa adennill costau ar gyfer ei gyllideb refeniw, yn amodol ar archwiliad y cyfrifon ym mis Medi 2018. Gwariwyd £215.72m ar ddarparu gwasanaethau cyngor rhwng 1 Ebrill 2017, a 31 Mawrth 2018. Gyda phoblogaeth o 128,891, mae hyn yn cyfateb i oddeutu £1,673.66 y pen. Roedd Dysgu a Sgiliau a Gofal Cymdeithasol yn cyfrif am 73.5% o wariant cyllidebol y Cyngor yn 2017/18, gan gyflenwi ein blaenoriaethau allweddol fel yr amlinellir yn y Cynllun Corfforaethol.




Mae gan y Cyngor record wych dros lawer o flynyddoedd o ddod â chyfanswm y gwariant cyllidebol ar y gyllideb neu’n is na hi, ac o ganlyniad, mae wedi gallu defnyddio hyblygrwydd balansau i helpu cynnal codiadau Treth Cyngor isel o gymharu â gweddill Cymru, gwella gwasanaethau a darparu arian ychwanegol gwerthfawr i'r rhaglen gyfalaf pan fo angen. Fodd bynnag, fel y nodir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, yn yr hinsawdd bresennol o gyllidebau sy'n lleihau, mae angen cymryd penderfyniadau anodd mewn perthynas â chyflenwi gwasanaethau fel y gellir cynnwys gwariant o fewn adnoddau. Er yr ystyrir dulliau amgen er mwyn sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau gwerthfawr i’r dyfodol fel rhan o'r agenda ail-lunio, mae'n parhau i fod yn heriol diogelu cyflenwad parhaus yr holl wasanaethau gwerthfawr. Mae'r Fro yn parhau i fod yn un o'r cynghorau â gyllidir isaf yng Nghymru. Gellir gweld manylion llawn am gyllideb y cyngor yn Natganiad Cyfrifon llawn y Cyngor ar gyfer 2017/18.

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gwariant yn erbyn cyllideb refeniw gymeradwy’r Cyngor yn 100% gyda gwariant yn erbyn y rhaglen gyfalaf a gymeradwywyd yn 86%, sef gwelliant ar 84% y llynedd.

Mae gwaith o dan y **Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau** (Haenau 1, 2 a 3) yn parhau i wneud cynnydd cadarnhaol yn y diweddariad project diweddaraf ym mis Mehefin 2018. Priodolwyd statws gwyrdd i reolaeth rhaglenni, cyfathrebu ac ymgysylltu a datblygiad sefydliadol ar ddiwedd y flwyddyn i adlewyrchu'r cynnydd da a wnaed hyd yn hyn. Gellir gweld dadansoddiad o statws y project a

chyfeiriad teithio yn y tabl isod. Yn ystod 2017/18, mae'r projectau ail-lunio wedi cyflawni arbediad o £2.326m yn erbyn targed y flwyddyn o £3.345m (70%).

Parheir i wneud cynnydd yn y ffrwd waith Projectau Corfforaethol gydag 1 project yn cael ei gwblhau (Effeithiolrwydd Gwariant - Grantiau) a'r 6 ffrwd waith sy'n weddill yn cael statws Oren cyffredinol (Cynghorau Tref a Chymuned a Sector Gwirfoddol, Rheoli Galw, Cynhyrchu Incwm, Bro Ddigidol, Adolygiad Caffael a Sefydliadau). Bydd gwaith yn parhau i gyflenwi'r projectau hyn ac i ddatblygu cefnogaeth ar gyfer projectau Haen 3 i gyflenwi arbedion pellach yn 2018/19.

| Cyf | Project | Haen | Statws | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|---|
| S1 | Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant | 1 | Oren | ↔ |
| S2 | Arlwyo | 1 | Oren | ↔ |
| S3 | Gwasanaethau Llyfrgell | 1 | Cwblhawyd | Amh. |
| S4 | Rhaglen Drafnidiaeth | 1 | Oren | ↑ |
| S6 | Gwasanaethau Cymdogaeth | 1 | Oren | ↑ |
| S9 | TGCh | 1 | Oren | ↑ |
| S10 | Projectau Eiddo | 1 | Oren | ↔ |
| S11 | Rhaglen Gyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol | 1,2 & 3 | Oren | ↑ |
| S13 | Dysgu a Sgiliau: Strategaeth ac Adnoddau | 2 | Gwyrdd | ↑ |
| S16 | Gwasanaethau Adeiladu - Gwasanaethau Glanhau a Diogelwch | 2 | Oren | ↑ |
| S18 | Gwasanaethau Corfforaethol (Cyfarwyddiaeth Adnoddau) | 2 | Oren | ↔ |
| S19 | Gwasanaethau Ieuenctid | 3 | Oren | Amh. |

## 7.3.6 CYLLID: EIN HERIAU

Mae rhaglen gyni barhaus y llywodraeth ganolog wedi creu cyfnod o bwysau ariannol na welwyd mo’i debyg yn y sector cyhoeddus o’r blaen. Am y saith mlynedd ddiwethaf, bu Cyngor Bro Morgannwg yn gwneud arbedion sylweddol ar draws y sefydliad, tua £45 miliwn ers 2010/11. Disgwylir i doriadau blynyddol i gyllid y Cyngor barhau ac amcangyfrifa Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor 2017/18 i 2020/21 bod angen arbedion pellach o £21 miliwn rhwng 2017/18 a 2019/20. O ganlyniad, mae'n mynd yn fwyfwy heriol i osod cyllideb gytbwys a chynaliadwy o ystyried yr angen i barhau i wneud arbedion effeithlonrwydd a chyllidebol ar adeg pan fo galw gwasanaeth ar draws y rhan fwyaf o wasanaethau'r Cyngor yn cynyddu. Trwy ei raglen drawsnewid, mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd cadarnhaol i gwrdd â'r heriau sydd o’n blaenau, gyda ffocws penodol ar wariant gwasanaethau cynaliadwy, cynnal lefel briodol a chynaliadwy o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, a gwneud y gorau o'n hasedau.

Fel rhan o'r Cynigion Cyllideb Refeniw Terfynol ar gyfer 2017/18, gosodwyd targed arbedion o £4.017m i'r Cyngor. Cafodd y cynnydd ar **gyflenwi arbedion 2017-18** ei fonitro a'i adrodd i'r Pwyllgorau perthnasol a'r Cabinet yn ystod y flwyddyn. Ar ddiwedd y flwyddyn, cyflawnwyd £2.998m (75%) o'r targed gofynnol. Mae'r perfformiad hwn wedi derbyn statws perfformiad coch, gan nodi canlyniad sydd islaw'r isafswm rhagolwg o 100% am y flwyddyn.

Cyflawnwyd 100% o'r targed arbedion o 640K a briodolwyd i'r Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau. Mewn perthynas â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, cyflawnwyd £325K (97%) o arbedion, ac mae gwaith yn parhau i fodloni'r targed arbedion o £10K fel rhan o'r adolygiad o'r Gwasanaeth Dydd Anabledd Corfforol.

Ar ddiwedd y flwyddyn, cyflenwodd y Gyfarwyddiaeth Amgylchedd a Thai £32K (4%) o'r targed arbedion angenrheidiol o £841K, tangyflawniad o £809K. Roedd gan Wasanaethau Gweladwy darged arbedion o £525k o dan y rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau a oedd i'w gyflenwi trwy gyflwyno model gweithredu targedau newydd. Gan nad oedd y strwythur newydd wedi'i boblogi'n llawn tan fis Ebrill 2018, cafodd y diffyg o £525k ei gwrdd o Gronfa Wrth Gefn y Gwasanaethau Gweladwy. Fodd

bynnag, rhagwelir y cyflawni'r targed arbedion yn llawn yn 2018/19. Yn ogystal, ni chyflawnwyd yr arbedion Adolygiad Trafnidiaeth o £244k a ddyrannwyd i Reoli Gwastraff eleni; fodd bynnag, roedd cyllid wedi'i neilltuo yn y Gronfa Gwasanaeth Gweladwy i dalu am ran o'r diffyg am eleni.

Cyflawnodd y Rheolwr-Gyfarwyddwr a'r Gyfarwyddiaeth Adnoddau £1,571k (89%) o'i darged arbedion o £1,771K. Roedd y diffyg yn bennaf oherwydd nad oedd TGCh wedi cyflawni £200k o'i darged arbedion o £400k. Defnyddiwyd tanwariant mewn mannau eraill yn yr Isadran Gyllid o swyddi gwag a chyflenwadau a gwasanaethau staff i wrthbwyso'r sefyllfa hon.

---

Mae **pwysau cost sylweddol yn parhau ar draws nifer o wasanaethau'r Cyngor**, gyda llawer yn parhau o flynyddoedd blaenorol, er enghraifft: y cyllidebau Gofal Cymunedol a lleoliadau Plant o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol, y gyllideb lleoli disgyblion hynod gyfnewidiol a'r gyllideb incwm adennill gostyngol o fewn Dysgu a Sgiliau. Yn y meysydd hyn, gall nifer fechan o gwsmeriaid newydd gael effaith ddramatig ar alldro'r gyllideb, gan effeithio ar gyflenwi arbedion a chyllideb gytbwys ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r meysydd gwasanaeth hyn yn parhau i ymdrechu i reoli'r galw cynyddol a disgwyliadau cwsmeriaid cynyddol, ond mae'r rhain yn dod yn fwyfwy anodd eu cynnwys.

Wrth symud ymlaen, mae'r **pwysau ariannol ar y Cyngor yn debygol o barhau** ac, er y byddwn yn parhau i geisio amddiffyn gwasanaethau i'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymuned, mae'n fwyfwy anodd cuddio effaith toriadau i wasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal ar draws gwasanaethau'r Cyngor a chefnogaeth i'r rhai sydd mewn angen trwy ein gwaith wedi'i dargedu. Parha'r rhain i fod yn flaenoriaethau allweddol i'r Cyngor gyflenwi ei weledigaeth o gymunedau cryf gyda dyfodol disglair. Drwy'r rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau, parhawn i weithio gyda'n partneriaid i sicrhau ein bod yn gallu cwrdd â'r heriau ariannol hyn yn y dyfodol tra'n lliniaru effaith toriadau ar drigolion a defnyddwyr gwasanaeth.

---

Bydd gallu'r Cyngor i gyflenwi'n llawn ei **raglen Ail-lunio** yn her barhaus o ystyried y cyfnod parhaus o gyni a chynnydd yn y galw am wasanaethau ar draws y rhan fwyaf o wasanaethau'r cyngor. Yn ystod 2017/18, mae projectau ail-lunio wedi cyflawni arbediad o £2.326m yn erbyn targed y flwyddyn o £3.345m (70%). Derbyniodd y perfformiad statws perfformiad coch, sy'n dangos canlyniad sydd o dan y rhagolwg o 100% ar gyfer y flwyddyn. Adlewyrcha'r perfformiad hwn natur gymhleth projectau ail-lunio, ac mae'n bosib i'w cyflenwad gael eu heffeithio gan ystod o faterion a risgiau.

---

Mae **ail-broffilio cyllid Ewropeaidd a Grantiau** i nifer o fentrau'r Cyngor yn parhau i gyflwyno heriau anodd ar gyfer y dyfodol. Mae bod mewn sefyllfa lle na wyddom beth yw lefel y cyllid, a hefyd natur tymor byr y cyllid presennol, yn parhau i greu ansefydlogrwydd ac ansicrwydd o ran cynllunio gwaith yn y dyfodol a allai, yn ei dro, effeithio ar gynnal y lefelau uchel o berfformiad a gyflawnwyd hyd yn hyn wrth gyflenwi llawer o'n mentrau. Efallai y bydd rhai o'r ffrydiau cyllido cenedlaethol hyn yn effeithio'n helaeth ar ein gallu i fuddsoddi yn y Fro dros y flwyddyn i ddod.

---

Mae gwaith mewn perthynas â mwyafu **cynhyrchu incwm** yn mynd rhagddo fel rhan o elfen ffrwd gwaith y project corfforaethol o dan y rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau. Ystyrir amrywiaeth o faterion megis taliadau parcio ceir, nawdd ar gyfer digwyddiadau, hysbysebu a pholisi codi tâl am geisiadau am wybodaeth amgylcheddol.

---

Ni fu pwysigrwydd **caffael** effeithiol erioed yn fwy perthnasol o ystyried y cyllidebau llai, ac mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor wrth symud ymlaen. Rydym yn gwneud mwy o ddefnydd o fanylebau safonol ar gyfer nwyddau a gwasanaethau priodol, gan ddefnyddio partneriaethau a chydweithio fel ffordd o gyflenwi arbedion maint a sicrhau cynaladwyedd rhai o'n gwasanaethau ar gyfer y dyfodol. Yn ystod y flwyddyn, defnyddiwyd 28 allan o 31 fframweithiau sydd ar gael inni drwy'r fframwaith Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen meithrin capasiti ymhellach ar draws y Cyngor i sicrhau dull mwy strategol a masnachol o reoli contractau a rheolaeth effeithiol ar gontractau a chyflenwyr er mwyn gwneud y gorau o'r cyfleoedd cynhyrchu incwm ychwanegol a'r arbedion posib y gallai'r rhain ddod gyda nhw.

Mae gwaith yn mynd rhagddo fel rhan o elfen ffrwd gwaith y project o dan y rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau i gyflenwi arbedion targed o £1m ar gyfer 2018/19 ac mae'r rhain wedi targedu meysydd gwariant allweddolledled y gorfforaeth, gan gynnwys deunydd ysgrifennu, lletygarwch, llogi lleoliad, caledwedd TGCh a dodrefn. Datblygwyd trefniadau monitro ar gyfer olrhain gwariant chwarterol yn y meysydd hyn.

## 7.3.7 ASEDAU: EIN CYFLAWNIADAU

Mewn ymateb i'r hinsawdd ariannol heriol, parhawn i adolygu a herio ein hasedau i fwyafu eu defnydd gan gynnwys nodi asedau diangen neu asedau sy'n tanberfformio ac wedyn ceisio eu gwaredu. Mae'r derbyniadau cyfalaf a gynhyrchir yn galluogi'r Cyngor i ariannu projectau cyfalaf, a gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau yn unol â'n blaenoriaethau corfforaethol. Adroddwyd am gynnydd cadarnhaol gan y mwyafrif o feysydd gwasanaeth mewn perthynas â mwyafu ein blaenoriaethau asedau allweddol. Nodir y datblygiadau o bwys penodol yn ystod y flwyddyn isod.

Cwblhawyd y gwaith o waredu **hen safle Ysgol St Cyres yn Ninas Powys** yn llwyddiannus, a gwnaethom gyfraniad sylweddol at dderbyniadau cyfalaf. Sicrhaodd y gwaredu dderbynion cyfalaf sylweddol i'r Cyngor ynghyd â buddion eraill (trwy gyfraniadau A106).

---

Rydym wedi cwblhau'r gwaith o farchnata'r hen **Floc Toiledau, Ynys y Barri, y cyn-safle Goodshed** yn **Hood Road** a **safle datblygu'r De** yn y **Chwarter Arloesedd, Y Barri.** Cadarnhawyd cynigwyr a ffefrir ar gyfer pob un o'r safleoedd ac mae trafodaethau contractau yn parhau gyda phob un o'r prynwyr arfaethedig. Yn ychwanegol, datblygwyd camau gweithredu blaenoriaeth allweddol eleni (fel yr amlinellwyd yn adolygiad Rheoli Asedau JLL), gan gynnwys marchnata **Adeilad Canolfan Ieuenctid Llanilltud Fawr** ac ystyried **cynigion CAT** ar gyfer yr **adeilad WVICC yn Llanilltud Fawr.** Bydd y datblygiadau hyn yn cyfrannu at adfywiad parhaus yr ardal.

---

Mae ein **portffolio siopau** â 100% "wedi eu gosod", heb unrhyw siopau gwag ar y portffolio.

---

Gwnaed cynnydd da wrth gyflwyno cam 2 y project SPACE **(adolygiad o lety swyddfa corfforaethol)** a chwblhawyd yr holl waith a gynhaliwyd ar ddechrau mis Mai 2018. O fewn y flwyddyn, cwblhawyd y gwaith yn y Swyddfeydd Dinesig i wneud y gorau o'r defnydd o ofod a gwella ardaloedd cyhoeddus. Carreg filltir allweddol a gyflawnwyd eleni oedd ildio'r brydles ar gyfer Provincial House, gan arwain at arbedion refeniw sylweddol i'r Cyngor. At ei gilydd, mae'r project SPACE wedi cyfrannu at ostyngiad yn y nifer o leoedd llety a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau ar draws y Cyngor. Mae gwaith yn parhau mewn perthynas â llety nad yw'n swyddfeydd.

---

Rydym yn parhau i hyrwyddo a darparu cefnogaeth ar draws pob maes gwasanaeth ar gyfer **Trosglwyddo Asedau Cymunedol (CAT)** fel rhan o'r Gronfa Grantiau Cymunedau Cryf. Parha'r grŵp CAT i gyfarfod yn rheolaidd i ystyried pob cais/mynegiant o ddiddordeb a chaiff y rhain eu dilyn lle mae achos cadarn i'r Cyngor wneud hynny. Mae'r Grŵp Trosglwyddo Asedau Cymunedol wedi adnewyddu'r canllawiau CAT presennol, gan symleiddio ymhellach y broses i ymgeiswyr a'r Cyngor. Yn gynharach yn y flwyddyn, gofynnodd Llywodraeth Cymru am gymorth gan y Cyngor i rannu dysgu yn y maes hwn mewn cynhadledd genedlaethol.

---

Symudodd y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol (**CMHT) i Bobl Hŷn yn llwyddiannus o Dŷ Jenner i Uned Llanfair yn Ysbyty Llandochau** yn dilyn symud gwasanaethau iechyd meddwl eraill. Galluogodd y gofod i staff nyrsio ardal gael eu lleoli yn Nhŷ Jenner a'u cydleoli gyda chydweithwyr gwaith cymdeithasol a therapi, gan gyfrannu at wella hygyrchedd gwasanaeth ac amser ymateb i gwsmeriaid. Gwneir gwaith pellach i adolygu potensial Tŷ Jenner fel Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

---

Yn ystod y flwyddyn, adolygwyd stoc y Cyngor a datblygwyd cynlluniau ar gyfer ailfodelu rhai mathau o stoc mewn ardaloedd penodol i ateb y galw. Er enghraifft, targedwyd rhai anheddau i **greu llety a**

**rennir un ystafell wely i bobl dan 35 oherwydd prinder gwirioneddol yn y Fro**. Defnyddir Rhaglen Datblygu Adeiladau Newydd y Cyngor i ateb y galw hwn trwy ddarparu llety unedau llai.

Cwblhawyd **arolygon cyflwr stoc ar yr holl dai sy'n eiddo i'r cyngor ac asedau cysylltiedig,** gan sicrhau bod y gronfa ddata asedau yn darparu sefyllfa gywir ar gyfer yr holl nodweddion eiddo a ddiweddarwyd. Bydd hyn yn galluogi strategaeth fuddsoddi gadarn a chynllun busnes ategol i barhau i ddarparu'r defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael a chynnal y stoc dai yn unol â safonau Ansawdd Tai Cymru.

Fel rhan o drawsnewid Gwasanaethau Gweladwy a Thrafnidiaeth, mae'r model cyflenwi newydd o Gymdogaeth a Thrafnidiaeth yn **gweithredu o un depo yn yr Alps gyda mannau parcio lloeren**. Mae rhesymoli defnydd o ofod wedi cyfrannu at leihau costau.

Cwblhawyd archwiliadau mynediad i'r anabl ar gyfer pob ysgol, adeiladau gwasanaethau cymdeithasol ac adeiladau corfforaethol, gan ddarparu darlun cyfoes, a'n galluogi i sicrhau eu bod yn parhau'n ddiogel ac yn addas i'r diben.

Parheir i weithio'n rhagweithiol gyda chymunedau'r Fro i wella cyfleusterau cymunedol lleol. Yn ystod y flwyddyn, gwnaed cynnydd da wrth wella cyfleusterau trwy nifer o gynlluniau, gan gynnwys: **man agored Maes Dyfan; Parc Ward Court; Y Rhws, ardal chwarae ffyrdd Ceri; Ardal chwarae Tregolwyn; man agored cyhoeddus Fferm Goch; Man agored cyhoeddus Dochdwy Road; man agored cyhoeddus Badgers Brook; a man agored Gogledd Penarth.** Cynhelir gwaith cynlluniedig ar y cyd â phob cymuned leol, sy'n ymwneud yn weithredol â'r agweddau dylunio.

Parha'r Cyngor i gyflenwi ei ymrwymiadau o dan y **Cynllun Effeithlonrwydd Ynni CRC** ac mae wedi cyflawni ardystiad blynyddol. Roedd yr allyriadau a adroddwyd am 2017/18 15% yn is na'r flwyddyn flaenorol (yn rhannol oherwydd newidiadau mewn ffactorau allyriadau) gan arwain at arbediad o £28k mewn taliadau CRC o ganlyniad i'r gostyngiad mewn allyriadau. Mae'r Cyngor yn rhedeg cam 1 o'i raglen Re:fit ac mae cyflenwi'r mesurau arbed ynni cyntaf i fod i ddigwydd ym mis Awst 2018. Parha'r gwaith i sicrhau bod pob rhan o'r Cyngor yn elwa o'r cynllun hwn.

## 7.3.8 ASEDAU: EIN HERIAU

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor mewn trafodaethau cytundebol cymhleth gyda phrynwr arfaethedig **hen safle Eagleswell** ac oherwydd natur y trafodaethau, bydd hyn yn ddi-os cymryd peth amser i ddod i derfyn.

Wrth symud ymlaen, bydd y costau ariannol posibl sy'n gysylltiedig ag **ymdrin ag unrhyw faterion nad ydynt yn cydymffurfio mewn perthynas ag asedau adeiladu'r Cyngor yn her o ystyried y cyllidebau llai**. Bydd rhaid ystyried hyn fel rhan o'r broses gosod cyllideb yn nes ymlaen yn 2018/19.

## 7.3.9 BRO DDIGIDOL (TGCh): EIN CYFLAWNIADAU

Yn dilyn cymeradwyaeth y **Strategaeth Ddigidol** yn gynharach eleni, cadarnhawyd projectau gan y Bwrdd Project Digidol a'r Tîm Rheoli Corfforaethol ac mae arweinwyr thema bellach yn gwneud cynnydd o ran amlinellu'r gofynion busnes sydd angen eu cynnwys yn y strategaeth TGCh wedi'i diweddaru. Bu'r ffocws allweddol yn ystod y flwyddyn ar wneud y mwyaf o gyfleoedd ar draws y Cyngor i weithio'n symudol, sy'n eistedd dan y thema 'Gweithlu Digidol'. Mae'r mwyafrif o brojectau TGCh a weithredwyd eleni wedi ymgorffori cyfleoedd yn llwyddiannus i staff weithio'n fwy hyblyg.

Yn unol â Strategaeth Ddigidol y Cyngor a'r agenda ail-lunio, rydym wedi parhau i adolygu ein systemau TGCh i sicrhau eu bod yn addas i'r pwrpas, yn cefnogi ein modelau newydd o ddarparu gwasanaethau wrth symud ymlaen, a gwella mynediad cwsmeriaid at wasanaethau'r cyngor. Dylai'r dull hwn wireddu arbedion ariannol i'r Cyngor ar drwyddedau meddalwedd, cefnogaeth a chynnal a chadw a gofynion caledwedd a phŵer wrth symud ymlaen. Amlygir y projectau o bwys isod.

Gwnaed cynnydd da wrth symleiddio systemau meddalwedd TGCh fel rhan o **Drawsnewid y Gwasanaethau Gweladwy a Thrafnidiaeth,** a fydd yn hyrwyddo gweithio mwy effeithlon a hyfyw tra'n darparu arbedion. Yn ychwanegol, mae gwaith yn mynd rhagddo i weithredu newidiadau i wasanaethau niferoedd uchel/ cymhlethdod isel y gellir eu darparu ar-lein.

---

Yn dilyn adolygiad o'r defnydd, cafwyd hyrwyddo parhaus o **borth hunanwasanaeth y Dreth Gyngor a Budd-daliadau** i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar hunanwasanaeth ac e-filio.

---

Gwnaed cynnydd da wrth weithredu'r **strategaeth argraffu** newydd sy'n anelu at leihau'r cyfaint print o 40% erbyn diwedd y contract ac i ddarparu arbedion cysylltiedig.

---

Llwyddodd y Cyngor i gadw ei dystysgrif cydymffurfio **Rhwydwaith Gwasanaethau Cyhoeddus (PSN)** am 12 mis arall. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd a hyder pellach yn nhrefniadau diogelwch TGCh y Cyngor.

---

Yn unol â'n blaenoriaeth i wella mynediad at wasanaethau trwy ddefnyddio technoleg smart, mae'r adran Budd-dal Tai yn profi **HB Symudol** gyda chwsmeriaid gydag ymholiadau. Rydym hefyd yn parhau i hyrwyddo'n rhagweithiol y defnydd o ffurflenni E-hawlio gan gwsmeriaid i gynyddu nifer y bobl sy'n manteisio ar y cyfle. Mae datblygu e-hysbysiadau yn parhau i symud ymlaen ac fe'i cyflwynir maes o law.

---

Gwnaed cynnydd da o ran gweithredu **E-ddinesydd** fel rhan o Strategaeth Ddigidol y Cyngor. Mae'r feddalwedd hon yn caniatáu i drigolion weld eu treth Gyngor, eu budd-daliadau neu eu hardrethi busnes ar-lein mewn ffordd syml a chyfleus. Mae gwaith yn parhau i hyrwyddo manteisio ar y cyfleuster ar-lein.

---

Rydym yn parhau i gynyddu cyfleoedd ar draws y Fro ar gyfer cynhwysiant digidol trwy'r fenter **'Cael y Fro Ar-lein'** trwy ddarparu mynediad agored yn ogystal â dull wedi'i dargedu. Mae'r rhain yn cynnwys sesiynau cefnogi un i un a chyrsiau i helpu pobl i ddechrau, magu hyder neu adeiladu ar y sgiliau sydd eisoes yn bodoli. Mae hyrwyddo'r rhaglen Hyrwyddwyr Digidol hefyd wedi'i ymgorffori'n dda ac mae nifer y bobl sy'n manteisio arni yn cynyddu o ganlyniad. Yn ystod y flwyddyn, bu 14 o hyrwyddwyr yn gweithio gyda 167 o gleientiaid newydd, gan gyflawni dros 860 awr o hyfforddiant. Rhoddodd 120 o gleientiaid adborth cadarnhaol ar y gefnogaeth a ddarparwyd. Yn gyffredinol, dywedodd 100% eu bod yn teimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio cyfrifiadur; dywedodd 100% eu bod wedi cynyddu eu medrau TG sylfaenol; dywedodd 75% eu bod nawr yn defnyddio'r rhyngrwyd yn fwy rheolaidd a sgoriodd 100% y project fel un da neu ragorol.

---

Rydym yn parhau ar y trywydd iawn i symud yn llwyddiannus i rwydwaith **Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus (PSBA)** erbyn hydref 2018. Bydd hyn yn hwyluso gweithio hyfyw ac o bell, gwell perfformiad rhwydwaith i staff sydd wedi'u lleoli mewn adeiladau'r cyngor a darparu cyflymder rhyngrwyd ychwanegol i bob ysgol yn y Fro.

---

Rydym yn parhau i hyrwyddo **Cyswllt UnFro** i'n trigolion ac mae nifer y tanysgrifwyr yn cynyddu. Ar hyn o bryd mae 50,119 o danysgrifwyr i Gyswllt UnFro, yn rhagori ar ein perfformiad o 44,615 yn 2016/17. Gwasanaeth cyflym a syml yw Cyswllt UnFro sydd wedi'i gynllunio i ddarparu gwybodaeth gyfredol ar wasanaethau'r Cyngor y mae gan drigolion ddiddordeb ynddynt yn uniongyrchol i'w blwch post e-bost.

---

Gweithredwyd meddalwedd rheoli achos newydd yn y Gwasanaethau Tai. Mae'r meddalwedd newydd yn galluogi staff i gofnodi pob digwyddiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol (YGG) a niwsans cymdogion, yn ogystal ag atodi dogfennau eraill e.e. asesiadau risg, recordiadau sain, nodiadau ayb. i sicrhau bod yr holl gamau dilynol yn cael eu cymryd yn unol â gofynion Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol y Cyngor. Cynhwyswyd nifer o lythyrau safonol ar y system, ac mae awtomeiddio'r broses yn galluogi staff rheng flaen i dreulio mwy o amser yn ymdrin â'r tenantiaid dan sylw. Ysgrifennwyd cyfres o dempledi adroddiadau rheoli hefyd i gyflymu'r broses. Mae'r

meddalwedd yn cryfhau'r ffordd y caiff achosion eu rheoli ac yn sicrhau darparu penderfyniadau cyflym mewn perthynas â thenantiaid sy'n dioddef o ymddygiad gwrthgymdeithasol.

## 7.3.10 BRO DDIGIDOL (TGCh): EIN HERIAU

Gwnaed cynnydd cyfyngedig wrth weithio tuag at **Gydymffurfiaeth â'r Diwydiant Cardiau Talu (PCI)** oherwydd materion yn ymwneud â darparu gwasanaethau cynnal. Er gwaethaf yr oedi, byddwn yn parhau i weithio tuag at Gydymffurfiaeth â'r Diwydiant Cardiau Talu (PCI) er mwyn sicrhau bod trefniadau prosesu taliadau diogel ar waith sy'n bodloni'r safonau gofynnol, a fydd yn cefnogi cyflenwi Strategaeth Ddigidol y Cyngor.

Bydd gwaith i **weithredu ail gysylltiad rhyngrwyd** i'r Cyngor yn symud ymlaen yn ystod 2018/19, unwaith y bydd mudo'n cychwyn fel rhan o gontract Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus (PSBA). Bydd cyfarfod dylunio technegol rhwng y Cyngor a'r PSBA yn trafod sut y gellir cynnwys ail Bwynt Presenoldeb Rhyngrwyd (POP) fel rhan o uwchraddio rhwydwaith cyfrifiadurol y Cyngor. Gwneir y gwaith hwn ar y cyd â mentrau corfforaethol eraill sy'n ymwneud â defnydd effeithiol y Cyngor o dechnoleg fel rhan o'r Strategaeth Ddigidol.

Mae **Strategaeth Ddigidol** y Cyngor yn nodi sut y bydd technoleg yn cefnogi ac yn galluogi'r Cyngor i dyfu a datblygu yn y blynyddoedd i ddod. Her allweddol yn y maes hwn yw cyflymder datblygiadau technoleg newydd sy'n tynnu sylw at yr angen i ailadrodd y defnydd o dechnoleg ar draws y Cyngor yn gyson er mwyn gwneud y gorau o'n cyfleoedd i wella effeithlonrwydd a hygyrchedd gwasanaethau ar gyfer dinasyddion y Fro. Mae technoleg newydd yn newid anghenion y gweithlu ac yn cyflenwi heriau o ran y sgiliau sydd eu hangen i gefnogi a defnyddio'r dechnoleg i'r eithaf. Mae'r angen i ddatblygu achosion busnes ariannol cadarn yn her y bydd y Cyngor yn parhau i weithio i gwrdd â hi. Bydd ein pwyslais parhaus ar ddull 'un cyngor' drwy'r Strategaeth Ddigidol yn canolbwyntio ar greu profiad di-dor i ddinasyddion y Fro wrth gael mynediad at wasanaethau'r cyngor, gan ddatblygu ffyrdd mwy effeithlon o weithio ac, yn gyffredinol, geisio lleihau costau. Bydd y defnydd o fecanweithiau ymgysylltu, megis y sesiynau datblygu rheoli a gwaith y tîm dysgu a datblygu yn allweddol i sicrhau bod gan y sefydliad y sgiliau sydd eu hangen i wneud y defnydd gorau o dechnoleg. Fel rhan o'r strategaeth, byddwn yn parhau i alinio'r newidiadau mawr trwy brosesau gwneud penderfyniadau Bwrdd Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau dros yr ychydig flynyddoedd nesaf i helpu i gyflenwi ein heriau ariannol.

## 7.3.11 IECHYD CORFFORAETHOL: CYDWEITHIO: EIN CYFLAWNIADAU

Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag ystod o sefydliadau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector ar sail leol, ranbarthol a chenedlaethol i ymdrin â rhai o'r materion cymhleth sy'n wynebu ein dinasyddion a'n cymunedau. Mae'r rhain yn ein galluogi i weithredu mewn ffordd fwy effeithiol ac effeithlon gan arwain at well gwasanaethau i'n dinasyddion ac arbedion ariannol. Amlygir isod rai o'n prif lwyddiannau trwy gydweithio.

Cyhoeddwyd **Cynllun Llesiant Bro Morgannwg, 'Ein Bro, Ein Dyfodol'** yn dilyn cymeradwyaeth gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC). Hysbyswyd y Cynllun gan yr Asesiad Llesiant manwl a gyhoeddwyd yn 2017 ac mae'n nodi sut y bydd partneriaid yn cydweithio i wella llesiant ar draws y Fro. Cynhaliwyd ymgysylltu ac ymgynghori helaeth ar y Cynllun er mwyn sicrhau bod y cyhoedd a rhanddeiliaid wedi cael cyfle i hysbysu'r Cynllun a rhoi sylwadau ar gynigion y BGC. Mae trafodaethau'n parhau ynglŷn â gweithredu'r Cynllun a threfniadau rheoli perfformiad.

Yn dilyn cefnogaeth gan y deg awdurdod lleol o fewn rhanbarth y ddinas i egwyddorion trosfwaol y fargen, llofnododd Arweinwyr pob Cyngor **Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCR)** mewn seremoni ym Maes Awyr Caerdydd ar 1 Mawrth 2017. Nod y Fargen Ddinesig yw creu swyddi a hybu ffyniant economaidd drwy wella cynhyrchiant, ymdrin â diweithdra, adeiladu ar seiliau

arloesi, buddsoddi mewn seilwaith ffisegol a digidol, darparu cefnogaeth i fusnes, a sicrhau bod unrhyw fuddion economaidd a gynhyrchir o ganlyniad yn cael eu profi ar draws y rhanbarth. Mae'r Fargen Ddinesig yn cynnwys cyllid o £734m ar gyfer Metro De Cymru, gyda Llywodraeth Cymru yn darparu dros £500 miliwn a £125 miliwn gan Lywodraeth y DU. Mae Llywodraeth y DU wedi darparu cyfraniad o £375m, ac mae'r deg awdurdod lleol wedi cytuno ar ymrwymiad i fenthyg cyfanswm cyfunol o £120 miliwn fel rhan o'r Gronfa Buddsoddi Ehangach. Cytunodd y Cabinet Rhanbarthol ar Gynllun Busnes y Cytundeb Cydweithio ym mis Chwefror 2018.

---

Wedi eu hariannu trwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop, mae'r **rhaglenni Ysbrydoli i Gyflawni (I2A)** ac **Ysbrydoli i Weithio** (**I2W)** yn cefnogi cyflogaeth a chyrhaeddiad ieuenctid ym Mro Morgannwg. Nod y rhaglen 12A yw lleihau nifer y bobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET (Dim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant) ac fe'i cyflwynir ar y cyd mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru, tra bod y rhaglen I2W yn cynnig cyfleoedd trwy lwybr cyflogaeth sengl cydlynol i bawb ifanc pobl yn y Fro. Trwy gydweithio effeithiol â phartneriaid allweddol, mae lefelau NEET yn y Fro wedi parhau i wella yn ystod blynyddoedd 11 a 12 a 13.

---

Yn seiliedig ar fodel Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithio'n rhanbarthol, mae **Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (CSC JES)** yn darparu ystod o swyddogaethau gwella ysgolion statudol i ysgolion yn y Fro sy'n cyd-fynd ag 'Addysg yng Nghymru - Ein cenhadaeth genedlaethol 2017-21'. Mae pob ysgol yn derbyn cefnogaeth a her sy'n gysylltiedig â'u categori cenedlaethol gyda mwy o bwyslais ar ddulliau ysgol-i-ysgol i wella ysgolion. Ers sefydlu'r CSC yn 2012, cafwyd gwelliant o flwyddyn i flwyddyn mewn canlyniadau dysgwyr ar bob lefel ac ym mhob awdurdod lleol yn y rhanbarth. Yn benodol, dangosodd y rhanbarth gynnydd sylweddol wrth wella canlyniadau i'r rhai mwyaf agored i niwed, gan gau'r bwlch rhwng perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion. Mae presenoldeb mewn ysgolion hefyd wedi gwella'n sylweddol ar draws y rhanbarth. Fodd bynnag, mae mwy o waith i'w wneud i sicrhau bod pob plentyn, waeth beth fo'u cefndir, yn cyflawni. Roedd y CSC yn ddarostyngedig i Arolygiad Estyn ym mis Chwefror 2016 a chafwyd ail ymweliad ym mis Hydref 2017 - yn dilyn hyn, barnodd Estyn fod CSC wedi gwneud 'cynnydd cryf' ar 3 o 4 argymhelliad o'r arolygiad diwethaf a 'chynnydd boddhaol ar y 4ydd ac o ganlyniad, ni fydd ymweliad pellach.

---

Mae **Triniaeth Gwastraff Organig Caerdydd** yn bartneriaeth sy'n cynnwys Bro Morgannwg a Chyngor Caerdydd i sicrhau datrysiad hirdymor (15 mlynedd) ar gyfer trin bwyd cegin a gwastraff gardd gwyrdd. Mae'r bartneriaeth yn atgyfnerthu ymrwymiad yr awdurdodau i fodloni targedau statudol Llywodraeth Cymru wrth inni weithio tuag at eu nod 'Dim Gwastraff' am 2050. Ar ôl i'r cyfnod comisiynu ddod i ben yn llwyddiannus, dechreuodd y contract 15 mlynedd ar 31 Mawrth 2017 gyda Kelda (fel yr awdurdod lletyol, llofnododd Cyngor Dinas Caerdydd gontract gyda Kelda, gyda'r Fro yn llofnodi IAA (Cytundeb Rhwng Awdurdod) gyda Chaerdydd i gwblhau'r bartneriaeth). Mae'r gwaith newydd sydd bellach yn gwbl weithredol yn defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i drin gwastraff bwyd a gwastraff gwyrdd, ac mae'n cynhyrchu digon o ynni o'r broses i bweru 4,000 o gartrefi yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg bob blwyddyn. Mae hefyd yn cynhyrchu 26,000 o dunelli o wrtaith a chyflyrydd pridd, a fydd o fudd i ffermydd lleol ac i gymuned y Fro a Chaerdydd.

---

Mae **Partneriaeth Dysgu Cymunedol Caerdydd a'r Fro** wedi gwella'n sylweddol trwy ymdrechion pob agwedd ar y bartneriaeth yn gweithio mewn ffordd fwy cydlynol. Mae aelodau'r bartneriaeth yn cydweithio ar gynllunio cwricwlwm, marchnata, data, ansawdd ac adnoddau. Dros y pedair blynedd o'r bartneriaeth, mae perfformiad wedi gwella'n sylweddol. Cododd cyfraddau llwyddiant o 80% yn y flwyddyn academaidd 2012/13 i 92% yn 2016/17, 2% yn uwch na chyfartaledd cenedlaethol Cymru. Adolygwyd dyfodol y bartneriaeth yn ddiweddar i adlewyrchu newidiadau i strwythur partneriaid unigol ac i wella effeithlonrwydd ac ymgysylltu.

---

Y **Gwasanaeth Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS)** yw'r system TG genedlaethol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Yn ystod Tachwedd 2017, yr oeddem yn un o 11 o asiantaethau a lansiodd yr ateb meddalwedd yn llwyddiannus ar yr adeg honno. Mae WCCIS yn caniatáu rhannu gwybodaeth rhwng gwahanol Fyrddau Iechyd ac adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol yn syth, gan

helpu i ddarparu gwell gofal a chefnogaeth i boblogaeth Cymru. Galluogodd y system newydd i'r Gwasanaethau Cymdeithasol (oedolion a phlant) ac ystod o wasanaethau iechyd cymunedol (gan gynnwys iechyd meddwl, therapi a nyrsio cymunedol) gynllunio, cydlynu a darparu gwasanaethau a chefnogaeth i unigolion, teuluoedd a chymunedau yn fwy effeithiol. Mae hefyd yn cefnogi gofynion rhannu gwybodaeth, rheoli achosion a llif gwaith i sefydliadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol ledled Cymru.

Mae **Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd,** yn un o bum menter gydweithredol ranbarthol sy'n rhan o'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yng Nghymru (NAS). Nod y gwasanaeth yw codi proffil mabwysiadu i ddenu mwy o bobl i ystyried mabwysiadu fel opsiwn. Bro Morgannwg sy'n lletya'r fenter gydweithredol. Mae Adolygiad Gwerth Gorau diweddar o'r gwasanaeth wedi gwneud yr achos dros fuddsoddi wrth recriwtio ac asesu mabwysiadwyr a chymorth mabwysiadu, yn unol â blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol. Hefyd, lansiodd y Fenter Gydweithredol ei gwefan newydd eleni, sy'n darparu ffynhonnell ragorol o wybodaeth, a bydd hon yn gwella ein cyrhaeddiad a'n gallu i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth.

Drwy'r **Gronfa Gofal Integredig (ICF),** parhawyd i fuddsoddi mewn gwasanaethau sy'n cefnogi pobl hŷn, yn enwedig yr henoed bregus, i gynnal eu hannibyniaeth ac aros yn eu cartrefi eu hunain. Bellach, mae nifer o wasanaethau ataliol a gwell yn eu lle, yn cael eu cyflenwi mewn partneriaeth ar draws y Fro. Mae'r rhain yn cynnwys sefydlu gwasanaeth gosod ramp newydd gan Ofal a Thrwsio, clwb cinio ar gyfer pobl hŷn a ddarperir gan Broject Ieuenctid Tregatwg, cyflenwi bwyd poeth ar draws y Fro trwy'r sesiynau Sied Bwyd, a Therapi Celf a Chrefft a gyflwynir gan Nexus. Mae'r mentrau hyn ar y cyd yn cefnogi ac yn hyrwyddo lefelau byw mwy annibynnol a chawsant eu datblygu gyda chynaliadwyedd a hunanofal/ hunanariannu mewn golwg. Mae'r defnydd o ICF bellach wedi ehangu i gefnogi agenda'r Gofalwyr ac achosion Plant Cymhleth.

Mae'r **Grŵp Tai Strategol yn** cynnwys swyddogion o'r Fro a chyfarwyddwyr datblygu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yr ardal. Ystyria'r bartneriaeth y dulliau ariannu ar gyfer tai fforddiadwy adeiladu newydd, a rhaglen o gyflenwad dros y blynyddoedd i ddod. Mae'r Grŵp hefyd yn gweithio tuag at gyflenwi'r Strategaeth Tai Gwag ac yn sicrhau y cytunir ar safonau tai fforddiadwy a'u cyflenwi ar safleoedd tai marchnad. Yn ystod 2017/18, cymerodd y Fro 18.9 diwrnod ar gyfartaledd i osod eiddo gwag, gwelliant ar gyfartaledd o 28 diwrnod yn ystod yr un cyfnod yn 2016/17. Mae hyn yn ein rhoi ni yn y chwartel uchaf o fudiadau Tai ledled Cymru a Lloegr. Mewn perthynas ag eiddo'r sector preifat, gwnaed cynnydd cadarnhaol wrth ddychwelyd i ddefnydd 622 eiddo a ddosbarthwyd fel rhai gwag o dan ddiffiniad newydd Llywodraeth Cymru, gyda phenodiad Swyddog Cartrefi Gwag. Mewn perthynas â thai fforddiadwy, cyflwynwyd 218 o unedau ychwanegol yn ystod 2017/18 yn rhagori ar ein targed o 125 am y flwyddyn. Trwy ddatblygiad y cartrefi newydd hyn, cafwyd hyd i ateb tai cynaliadwy a fforddiadwy i 218 o aelwydydd gydag angen tai.

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am brojectau strategol eraill y mae'r Cyngor trwy edrych ar y Compendiwm o Gydweithio Strategol

## 7.3.12 IECHYD CORFFORAETHOL: CYDWEITHIO: EIN HERIAU

Wrth symud ymlaen, bydd cynigion Llywodraeth Cymru sy'n dod i'r amlwg yn ymwneud â **Diwygio Llywodraeth Leol** yn parhau i fod yn faes gweithgaredd allweddol, gan effeithio ar wasanaethau'r Cyngor, yn benodol o ran nodi a dilyn unrhyw weithgaredd cydweithredol a fydd o fudd i'r Cyngor yn yr hirdymor.

Mae ein gallu i gydweithio (gyda phartneriaid allweddol eraill), i ddatblygu a chytuno ar ddulliau o **gyd-drefnu Craffu** ar gyfer cynyddu'r niferoedd o drefniadau cydweithio newydd, yn parhau i fod yn her, o ystyried y gofynion adnoddau sydd eu hangen i gynnal y rhain. Mae'r Fargen Ddinesig a Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir yn enghreifftiau o gydweithio diweddar lle bu gwaith yn mynd rhagddo yn ystod 2017/18 i gytuno ar ddulliau o graffu ar y cyd.

Mae angen ymdrin â heriau sy'n gysylltiedig â **menter gydweithredol Mabwysiadu y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd (VVC).** Oherwydd nifer cynyddol o atgyfeiriadau plant i'w mabwysiadu, y niferoedd sy'n aros am leoliad ac am wasanaethau cymorth mabwysiadu; mae hyn yn effeithio ar y llwyth gwaith a'r perfformiad mewn meysydd eraill megis recriwtio ac asesu amserol o fabwysiadwyr posibl. Mae hyn, ynghyd â'r dirywiad mewn ymholiadau gan ddarpar-fabwysiadwyr, yn effeithio ar ein gallu i recriwtio. Felly, mae recriwtio mabwysiadwyr yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer 2018/19. Hefyd parha'r galw cyffredin ar draws ystod o swyddogaethau'r VVC i fod yn her. Rhagwelir y bydd y canfyddiadau a'r argymhellion o'r adolygiad parhaus o wasanaethau yn ein cynorthwyo i ymdrin â'r heriau hyn wrth symud ymlaen.

## 8. RISG CORFFORAETHOL

Ar hyn o bryd mae 15 Risg Corfforaethol ar y Gofrestr. Ar ddiwedd y flwyddyn (2017/18), roedd un risg wedi'i ddileu o'r Gofrestr (Cynllun Datblygu Lleol) ac ychwanegwyd dau risg newydd (CR10: Cydymffurfiaeth Adeiladau Cyhoeddus a CR15: System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru). O'r 15 Risg Gorfforaethol, o ran statws risg, sgoriodd un risg yn uchel, sgoriodd un risg yn ganolig/uchel, sgoriodd 11 risg yn ganolig, a sgoriodd dau risg yn ganolig/isel o ran eu statws risg.

| Cyf Risg | Risg | Sgôr Risg Priodol | Sgôr Effeithiolrwydd Rheolaethau | Sgôr Risg Gweddilliol | | | Cyfeiriad Teithio[29] | Cyfeiriad Teithio a Ragwelwyd[30] |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Tebygolrwydd | Effaith | Cyfanswm | | |
| 1 | Ail-lunio Gwasanaethau | 9 (C/U) | 4 (C) | 2 | 2 | **4 (C)** | ↔ | ↔ |
| 2 | Newid Deddfwriaethol a Diwygio Llywodraeth Leol | 12 (U) | 2 (C/I) | 2 | 3 | **6 (C)** | ↔ | ↔ |
| 3 | Ad-drefnu Ysgolion a Buddsoddi | 12 (U) | 4 (C) | 2 | 2 | **4 (C)** | ↔ | ↔ |
| 4 | Rhaglen Gwella Tai | 16 (UI) | 4 (C) | 2 | 2 | **4 (C)** | ↔ | ↓ |
| 5 | Gwastraff | 12 (U) | 4 (C) | 2 | 2 | **4 (C)** | ↔ | ↔ |
| 6 | Anghenion y Gweithlu | 9 (C/U) | 4 (C) | 2 | 2 | **4 (C)** | ↔ | ↔ |
| 7 | Diogelwch Gwybodaeth | 12 (U) | 4 (C) | 2 | 2 | **4 (C)** | ↔ | ↔ |
| 8 | Cynaliadwyedd Amgylcheddol | 12 (U) | 4 (C) | 2 | 3 | **6 (C)** | ↔ | ↔ |
| 9 | Diwygio Llesiant | 12 (U) | 4 (C) | 2 | 2 | **4 (C)** | ↔ | ↔ |


[9]Mae **cyfeiriad teithio** yn cymharu sgôr risg gweddilliol ar gyfer y chwarter presennol gyda'r chwarter blaenorol i nodi a yw'r risg yn cynyddu / lleihau neu'n aros yn sefydlog.

[30] Mae **rhagolygon cyfeiriad teithio** yn rhagweld cyfeiriad y risg yn y dyfodol trwy gymryd i ystyriaeth ffactorau sy'n debygol o effeithio arnynt

↑ Risg yn cynyddu, ↓ Risg yn lleihau, ↔ Risg yn aros yn sefydlog

| Cyf Risg | Risg | Sgôr Risg Priodol | Sgôr Effeithiolrwydd Rheolaethau | Sgôr Risg Gweddilliol | | | Cyfeiriad Teithio | Cyfeiriad Teithio a Ragwelwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Tebygolrwydd | Effaith | Cyfanswm | | |
| 10 | Cydymffurfiaeth Adeiladau Cyhoeddus | 9 (C/U) | 2 (I) | 2 | 3 | **6 (C)** | ↓ | ↓ |
| 11 | Diogelu | 9 (C/U) | 6 (C) | 1 | 3 | **3 (C/I)** | ↔ | ↔ |
| 12 | Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig | 6 (C) | 4 (C) | 2 | 2 | **4 (C)** | ↔ | ↔ |
| 13 | Trefniadau Diogelu rhag Amddifadu o Ryddid diawdurdod | 12 (U) | 1 (I) | 4 | 3 | **12 (U)** | ↔ | ↔ |
| 14 | Rheoli contractau | 9 (U) | 6 (C) | 1 | 3 | **3 (C/I)** | ↔ | ↓ |
| 15 | System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) | 16 (UI) | 2 (I) | 2 | 4 | **8 (C/U)** | ↑ | ↔ |

Amlinellir isod fap gwres sy'n plotio matrics y sgorau risg gweddilliol ar gyfer pob risg corfforaethol am y cyfnod 2017/18 i roi darlun o'r grwpiau risg ar fap gwres. Dengys y map gwres isod bod y mwyafrif o risgiau corfforaethol i'w cael o gwmpas Canolig. Yr unig eithriadau i hyn yw gyda'r risg Trefniadau Amddifadu o Ryddid sy'n parhau i eistedd yn rhan categori uchel y cwadrant (gyda sgôr weddilliol o 12) a risg System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru sydd yng nghategori canolig/uchel y cwadrant (gyda sgôr weddilliol o 8). Parha'r camau gweithredu lliniaru ar gyfer gwasanaethau a risgiau corfforaethol i gael sylw trwy gamau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth.




| **Rhestr Termau Cyfeirnodau Risg** | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Ail-lunio Gwasanaethau | 9 | Diwygio Llesiant |
| 2 | Newid Deddfwriaethol a Diwygio Llywodraeth Leol | 10 | Cydymffurfiaeth Adeiladau Cyhoeddus |
| 3 | Ad-drefnu Ysgolion a Buddsoddi | 11 | Diogelu |
| 4 | Rhaglen Gwella Tai | 12 | Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig |
| 5 | Gwastraff | 13 | Trefniadau Diogelu rhag Amddifadu o Ryddid diawdurdod |
| 6 | Anghenion y Gweithlu | 14 | Rheoli contractau |
| 7 | Diogelwch Gwybodaeth | 15 | System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) |
| 8 | Cynaliadwyedd Amgylcheddol | | |

## 8.1. RISGIAU IECHYD CORFFORAETHOL

Mae galluogwyr Iechyd Corfforaethol y Gweithlu, TGCh, Cwsmeriaid, Cyllid, Asedau, Cydweithredu yn ein cynorthwyo i ymgorffori dull mwy integredig o gynllunio i gefnogi cyflenwi'r Cynllun Corfforaethol. Yn gysylltiedig â'r galluogwyr hyn mae nifer o risgiau a nodwyd trwy ein proses cynllunio gwasanaeth sy'n hwyluso ein dealltwriaeth o sut mae'r risgiau hyn yn effeithio ar ein gallu i gyflenwi'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Corfforaethol.

Yn y tabl isod, crynhoir yr holl risgiau sy'n gysylltiedig ag iechyd corfforaethol (wedi'u tynnu o Gynlluniau Gwasanaeth) a rhoddir trosolwg o'u statws risg yn ôl thema ar ddiwedd y flwyddyn (2017/18). Hefyd mae’r tabl yn rhoi amlinelliad o gyfeiriad teithio, o safbwynt p’un a yw'r risgiau'n cynyddu neu'n lleihau neu'n aros yn sefydlog. Dengys y tabl bod mwy o risgiau iechyd corfforaethol mewn perthynas â chyllid, cwsmeriaid a’r gweithlu. O'r 67 risg iechyd corfforaethol a nodwyd trwy gynllunio gwasanaethau, rhoddwyd statws canolig i dros hanner (58%) o'r risgiau hyn. Rhoddwyd statws risg uchel i 3 risg yn unig, sef cyllid, TGCh a risgiau sy'n gysylltiedig â chwsmeriaid. Rhoddwyd dyraniad canolig/uchel i draean (30%) o risgiau corfforaethol sy'n gysylltiedig ag iechyd (yr oedd 20 ohonynt) a nodwyd trwy gynllunio gwasanaethau, ac roedd hanner y risgiau hyn (10) yn gysylltiedig â chyllid.

Pennir cyfeiriad teithio pob risg iechyd corfforaethol trwy gymharu statws risg y risgiau ar ddechrau'r flwyddyn (Ebrill 2017) gyda statws risg y risgiau ar ddiwedd y flwyddyn (Mawrth 2018) i nodi a yw'r risgiau wedi cynyddu/lleihau neu aros yn sefydlog yn ystod y flwyddyn. Dengys y tabl isod bod 91% (67) o risgiau wedi aros yn sefydlog, 7% (10) wedi lleihau a dim ond 2% (1) wedi cynyddu dros y flwyddyn. Dengys y tabl isod bod statws y risgiau hyn dros y flwyddyn wedi aros yn sefydlog ar y cyfan, sy'n nodi bod y rheolaethau presennol yn effeithiol wrth reoli risg ar y lefelau presennol, ond bod angen gwneud rhagor o waith i archwilio ein harchwaeth risg i nodi a oes unrhyw Reolaethau pellach y gellir/y dylid eu rhoi ar waith i liniaru'r risgiau ymhellach, yn enwedig y rheiny ar ben canolig/uchel y sbectrwm. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu yn ystod 2018/19 fel rhan o'n hadolygiad blynyddol o risgiau sy'n nodwedd allweddol o'n proses cynllunio gwasanaeth.

| Thema Risg Iechyd Corfforaethol | Statws Isel | Canolig / Isel | Canolig | Canolig / Uchel | Uchel | Uchel iawn | Cyfeiriad Teithio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |  |  |  |
| **Gweithlu** | - | 1 | 11 | 4 | - | - | 4 | 12 | - |
| **Cyllid** | 3 | 2 | 8 | 10 | 1 | - | - | 24 | - |
| **TGCh** | - | - | 2 | - | 1 | - | - | 3 | - |
| **Asedau** | - | - | 2 | 1 | - | - | - | 2 | 1 |
| **Cwsmeriaid** | - | 1 | 13 | 5 | 1 | - | - | 20 | - |
| **Cydweithio** | 1 | - | 3 | - | - | - | 1 | - | - |
| **Cyfanswm** | **4** | **4** | **39** | **20** | **3** | **-** | **5** | **61** | **1** |

# 9. BETH A DDYWEDODD EIN HARCHWILWYR AMDANOM

Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, mae'n ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru lunio adroddiad blynyddol ar gynghorau Cymru a chyrff cyhoeddus eraill a elwir yn 'Adroddiad Gwella Blynyddol (AIR)' sy'n crynhoi'r gwaith archwilio a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod 2017 i 2018. Mae'r adroddiad yn dwyn ynghyd y canfyddiadau allweddol o'r holl waith archwilio a wnaed yn y Cyngor yn ystod 2017-18, gan gynnwys rhai cyrff arolygu a rheoleiddio eraill megis Estyn (arolygiaeth Ei Mawrhydi dros ysgolion yng Nghymru) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

Yn gyffredinol, roedd canfyddiadau adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) yn gadarnhaol, a daeth i'r casgliad bod y Cyngor ar y cyfan yn bodloni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus. Mae'r uchafbwyntiau allweddol yn cynnwys:

- Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adrodd ariannol a defnyddio adnoddau;
- Mae SAC yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.
- Cydymffurfiodd y Cyngor â'i ddyletswyddau gwella ac adrodd statudol.

Gwnaed nifer o gynigion ar gyfer gwelliant, gan ganolbwyntio'n benodol ar gryfhau trefniadau craffu o fewn y Cyngor i'n galluogi i ymateb i heriau yn y dyfodol a chael mwy o effaith. Mae cryfhau ein trefniadau ar gyfer Craffu yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor fel y nodwyd yn Hunanasesiad Blynyddol y Cyngor ac mae gwaith ar y gweill i ymdrin â'r rhain. Gallwch hefyd weld ein Hadroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer 2017/18 yn www.wao.gov.uk neu ein gwefan.

Caiff cynnydd mewn perthynas â'n holl feysydd gwella ei fonitro'n fisol drwy'r Bwrdd Cipolwg a'i adrodd i'r Tîm Rheoli Corfforaethol. Mae Traciwr Gweithrediadau'r Bwrdd Cipolwg yn ymgorffori ein holl gynigion rheoleiddio ar gyfer gwella yn ogystal â meysydd i'w datblygu ymhellach gan y Cyngor. At ei gilydd, bu cynnydd da yn ystod y flwyddyn wrth ymateb i'n meysydd gwella gyda 30 o'r 62 o gamau gweithredu ar y traciwr wedi eu cwblhau. O'r 32 sy'n weddill, cafodd 17 statws cynnydd Gwyrdd, statws 17 statws Oren ac 1 statws Coch. Mae 1 gweithrediad yn newydd ac o'r herwydd nid oedd wedi derbyn statws cynnydd eto ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom hefyd adolygu ein holl argymhellion/cynigion rheoleiddio blaenorol ar gyfer gwella rhwng 2011 a 2015 gydag unrhyw rai oedd yn weddill yn cael eu hymgorffori yn Nhraciwr Gweithrediadau'r Bwrdd Cipolwg newydd er mwyn sicrhau adolygiad a monitro parhaus. Cynhaliwyd yr adolygiad fel rhan o broses Asesu Blynyddol y Cyngor a'i adrodd i'r holl Bwyllgorau Craffu ym mis Chwefror 2018 a'r Cabinet ar 5 Mawrth 2018. Fe'i adroddwyd hefyd i'r Pwyllgor Archwilio am oruchwyliaeth derfynol.

Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod y rhan fwyaf o'r camau gweithredu (61 allan o 62) a oedd yn deillio o argymhellion/cynigion ar gyfer gwella rhwng 2011 a 2015 wedi'u cwblhau, ac mae'r rhain bellach wedi'u dileu o'r traciwr rheoleiddio ar ôl cymeradwyaeth y Cabinet. Cafodd nifer eu disodli gan gynigion newydd mewn gwaith archwilio mwy diweddar ac mae'r rhain wedi eu hymgorffori yn Nhraciwr Gweithrediadau Cipolwg y Cyngor, ac eithrio'r gwaith sy'n ymwneud â Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De sy'n cael ei fonitro trwy'r Cydbwyllgor a'r Gweithgor ar sail dymhorol.

Yn **Atodiad C**, ceir rhagor o fanylion am y gwaith archwilio a wnaed yn y Cyngor yn ystod 2017-18, gan gynnwys yr adolygiad o'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn gyda'n cynigion gwella rheoleiddio.


# 10. Perfformiad Diwedd Blwyddyn Bro Morgannwg 2017/18: Dangosyddion Cenedlaethol


**Crynodeb o berfformiad yn erbyn Dangosyddion Cenedlaethol ar 20/08/2018**

Bob blwyddyn, mae'r Uned Ddata Llywodraeth Leol (Data Cymru erbyn hyn) yn cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad awdurdodau lleol mewn amrywiaeth o wasanaethau, gan dynnu sylw at feysydd lle bu newidiadau amlwg yn lefel gyffredinol y perfformiad. Mae hyn yn ei gwneud hi'n bosibl cymharu perfformiad 22 o awdurdodau lleol Cymru ar draws y gwasanaethau hynny. Yn yr adran hon, ceir crynodeb o sut y gwnaethom berfformio yn 2017/18 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (2016/17), a chymharu hynny ag awdurdodau lleol eraill.

**Perfformiad o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol**

Yn ystod 2017/18, casglwyd 20 o ddangosyddion perfformiad a'u cyhoeddi'n genedlaethol (nid yw'r ffigwr hwn yn cynnwys 6 mesur gwasanaethau cymdeithasol a fydd yn cael eu cyhoeddi ar wahân gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2018). O'r 20 dangosydd, mae gan 14[31] ddata y gellir ei gymharu yn erbyn perfformiad 2016/17. Yn achos y 6 sy'n weddill, nid oedd unrhyw ddata cymharol ar gael ar gyfer 2016/17 er mwyn cymharu ein perfformiad[32]. Dengys y graffiau isod grynodeb o'n perfformiad ar gyfer 2017/18 a thuedd perfformiad dros y ddwy flynedd ddiwethaf.




- PAM/011 (Canran yr achosion o dipio anghyfreithlon a gliriwyd o fewn 5 diwrnod gwaith) cyflawnwyd y perfformiad gorau posibl o 100% yn ystod 2017/18 ac o ganlyniad rydym wedi ein gosod yn y safle 1af yng Nghymru. Mae hyn yn welliant enfawr mewn perfformiad o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol lle'r oedd ein perfformiad o 93.36% yn y chwartel isaf ac roeddem yn safle 16eg yng Nghymru.
- Dangosodd 43% (6) o ddangosyddion welliant (yn seiliedig ar eu gwerth DP) yn ystod 2017/18 o'i gymharu â 64% yn y flwyddyn flaenorol. Mae tri dangosydd a ddangosodd welliant mewn perfformiad o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol hefyd wedi dangos gwelliant yn eu sefyllfa chwartel, gan symud o'r 4ydd safle chwartel i'r chwartel 1af neu 2il chwartel o ran perfformiad o'i gymharu â gweddill Cymru.
- Dangosodd 50% (7) o ddangosyddion ddirywiad mewn perfformiad, o'i gymharu â 29% (4) o ddangosyddion a ddangosodd ddirywiad yn y flwyddyn flaenorol. Mae dau o'r saith mesur wedi parhau i ddangos dirywiad mewn perfformiad yn ystod 2017/18. Mae'r rhain yn ymwneud â PAM/016 (ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus fesul 1,000 o'r boblogaeth) a PAM/020 (canran o briffyrdd A mewn cyflwr gwael yn gyffredinol). O ran PAM/020, bu cynnydd o 0.6% yng nghanran y ffyrdd A mewn cyflwr gwael o'i gymharu â'n perfformiad yn 2016/17, ac mewn perthynas ag ymweliadau â llyfrgell, bu gostyngiad o 205 o ymweliadau fesul 1,000 o'r boblogaeth o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Wrth gymharu perfformiad â'r flwyddyn flaenorol, nid yw un dangosydd (PAM/021: Canran y

Mae hyn yn cynnwys y ddau fesur gwastraff mewn perthynas â PAM/030 (Canran y gwastraff trefol a ailddefnyddiwyd, a ailgylchwyd neu ei gompostio ac/neu ailgylchu, gan gynnwys gwastraff bio wedi'i wahanu yn y tarddiad sy'n cael ei gompostio neu ei drin yn fiolegol mewn ffordd arall) a PAM/031 (Canran y gwastraff trefol a gasglwyd gan awdurdodau lleol a anfonwyd i safleoedd tirlenwi).

[32] Efallai nad oes unrhyw ddata cymharol ar gael ar gyfer 2016/17, os oes unrhyw fesurau wedi newid yn eu diffiniad a/neu eu dull cyfrifiad.

ffyrdd B mewn cyflwr gwael yn gyffredinol) wedi dangos unrhyw newid. Er gwaethaf bod ein perfformiad wedi aros yn sefydlog, rydym wedi parhau i gynnal safle 2il chwartel ac mae ein safle wedi gwella o 11eg i'r 8fed yng Nghymru.

- Mae 4 dangosydd a ddangosodd welliant yn flaenorol yn 2016/17 (yn seiliedig ar eu gwerth DP) bellach yn dangos dirywiad yn eu perfformiad ar gyfer 2017/18. Mae'r rhain yn ymwneud â:

- PAM/001 (nifer y diwrnodau/shifftiau gwaith ar gyfer pob gweithiwr awdurdod lleol cyfwerth ag amser llawn a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch yn ystod y flwyddyn). Dirywiodd perfformiad o 15% yn 2017/18 (collwyd 10.1 o ddiwrnodau yn ystod 2017/18 o'i gymharu â 8.8 yn 2016/17) ac er ein bod ar hyn o bryd wedi ein lleoli yn y chwartel canol uchaf yng Nghymru o ran perfformiad, mae ein perfformiad fel Cyngor wedi llithro dros y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Mae ein perfformiad mewn perthynas â PAM/015 (nifer gyfartalog o ddiwrnodau a gymerwyd i gyflwyno DFG) hefyd wedi gostwng o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Dirywiodd perfformiad o 13% yn 2017/18 (188 diwrnod 2017/18 o'i gymharu â 167 yn 2016/17) ac o ganlyniad mae ein safle wedi gostwng o'r 3ydd safle i'r i 8fed yng Nghymru.
- PAM/030 (canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a baratowyd i'w ailddefnyddio ac/neu ei ailgylchu, gan gynnwys bio-wastraff wedi'i wahanu yn ei darddiad sy'n cael ei gompostio neu ei drin yn fiolegol mewn ffordd arall). Mae perfformiad wedi gostwng ychydig o 62.33% yn 2016/17 i 63.21% yn 2017/18 ac rydym wedi gostwng o'r 8fed safle i'r 12fed yng Nghymru.
- PAM/031 (canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol a anfonir i safleoedd tirlenwi). Mae perfformiad wedi gostwng ychydig o 0.99% i 0.95% yn 2017/18 sy'n golygu ein bod wedi llithro o'r 3ydd safle i'r 4ydd o'i gymharu â'r 21 awdurdod lleol arall yng Nghymru.

## Dadansoddi Dangosyddion yn ôl chwartel

Mae'n bosibl ymgymryd â dadansoddiad o berfformiad yn ôl chwartel. Mae pedwar chwartel perfformiad sy'n ymwneud â 'Chwartel uchaf (1af), Chwartel canol uchaf (2il), chwartel canol isaf (3ydd) a'r chwartel isaf (4ydd)'. Er enghraifft, y chwartel uchaf yw'r 25% uchaf o berfformiad (a elwir hefyd yn y 75ed canradd) tra bod y chwartel isaf yn cynrychioli'r 25% isaf o berfformiad (neu'r 25ain canradd). O ran mesurau cenedlaethol 2017/18, mae 20 o fesurau (yn cynnwys dau fesur gwastraff) lle gellid cymhwyso chwartel.

**Chwartel uchaf (1af):**

- Roedd 50% (10) dangosydd yn y chwartel uchaf o berfformiad ar gyfer 2017/18, o'i gymharu â 36% yr adroddwyd yn y chwartel uchaf ar gyfer eu perfformiad yn 2016/17.

**Chwartel canol uchaf (2il):**


- Roedd 35% (7) dangosydd yn y chwartel canol uchaf (2il) yn ystod 2017/18 o'i gymharu â 28.5% (4) dangosydd yn 2016/17.

**Chwartel canol isaf (3ydd):**

- Cynyddodd y ganran o ddangosyddion yn y safle chwartel canol isaf ychydig o 7% (1) yn 2016/17 i 10% (2) yn ystod 2017/18.

**Chwartel isaf (4ydd):**

- Gostyngodd y ganran o ddangosyddion yn y safle chwartel isaf o 28.5% (4) i ddim ond 5% (1) yn ystod 2017/18.




Dengys 43% o ddangosyddion welliant o ran perfformiad o'i gymharu â 64% yn y flwyddyn flaenorol (2016/17), ond mae canran uwch o ddangosyddion bellach yn y chwarteli uchaf. Er enghraifft, mae 85% o ddangosyddion yn awr yn y chwarteli canol uchaf ac uchaf o'i gymharu â 64% yn 2016/17. Dim ond 15% o fesurau sydd yn y chwartel canol isaf a'r chwartel isaf yn ystod 2017/18 o'i gymharu â 35% yn y flwyddyn flaenorol (2016/17). Cyflawnodd tri dangosydd berfformiad chwartel uchaf yn 2017/18, lle cafodd ein perfformiad ei osod yn y safle uchaf ledled Cymru[33]. Sgoriodd PAM/010 yn arbennig o uchel gyda 99.5% o briffyrdd a oedd wedi cael eu harolygu o safon glendid uchel neu dderbyniol, yn uwch na'r perfformiad y llynedd o 96.6%.

Dangosodd tri dangosydd, PAM/010 (canran y priffyrdd a arolygwyd gyda safon glendid uchel neu dderbyniol), PAM/011 (canran yr achosion o dipio anghyfreithlon a gafodd eu hadrodd o fewn 5 diwrnod gwaith) a PAM/017 (nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn) welliant yn eu sefyllfa chwartel o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Bu'r newid mwyaf arwyddocaol mewn perthynas â PAM/017 (ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol). Yn 2017/18, cawsom ein rhestru gyntaf yng Nghymru, o'i gymharu â safle 22ain yn y flwyddyn flaenorol. Yn yr un modd, mewn perthynas â PAM/011 (digwyddiadau o dipio anghyfreithlon a gliriwyd o fewn 5 diwrnod gwaith), rydym wedi gwella o fod yr 16eg yng Nghymru yn 2016/17 i'r 1af yng Nghymru yn 2017/18. Yn yr un modd mae ein gwelliant mewn perthynas â pherfformiad PAM/010 wedi arwain at ein symud o gael ei rhestru yn y 9fed safle i'r 1af yng Nghymru.

Bu cynnydd bychan hefyd yn nifer y mesurau sydd wedi dangos dirywiad yn eu perfformiad, lle y buom yn draddodiadol yn perfformio'n dda. Mae'r mwyaf nodedig mewn perthynas â thri dangosydd:

- Gostyngodd PAM/001 (nifer y diwrnodau/ shifftiau gwaith fesul gweithiwr awdurdod lleol cyfwerth ag amser llawn a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch yn ystod y flwyddyn) o chwartel 1 yn 2016/17 i chwartel 2 yn ystod 2017/18. O ran sefyllfa, rydym wedi gostwng o 2il i'r 10fed safle o gymharu â'r 21 awdurdod lleol arall yng Nghymru.
- Hefyd gostyngodd PAM/015 (Cyfartaledd nifer y diwrnodau a gymerwyd i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl) o chwartel 1 yn 2016/17 i chwartel 2 yn ystod 2017/18. O ganlyniad rydym yn awr yn cael eu rhestru 8fed yng Nghymru o'i gymharu â 3ydd yn ystod 2016/17.
- Gostyngodd ein perfformiad yn PAM/030 (canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol a anfonwyd i safleoedd tirlenwi), o chwartel 2 yn 2016/17 i chwartel 3 yn 2017/18. Er bod y dirywiad mewn perfformiad wedi bod yn ymylol bob blwyddyn, mae wedi arwain at i ni yn llithro o'r 8fed safle i'r 12fed safle yng Nghymru.

O'r tri dangosydd sydd ar hyn o bryd o fewn y chwartel canol isaf a'r chwartel isaf, roedd dau eisoes yn y chwartel isaf y llynedd (2016/17), gan nodi na fu unrhyw welliannau sylweddol i alluogi'r dangosyddion hyn i symud allan o'r chwarteli isaf o ran perfformiad. Mae'r dangosyddion hyn yn ymwneud â: PAM/020 (canran priffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol) a PAM/022 (canran ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol). Mae'r trydydd

[3] Roedd y dangosyddion hyn mewn perthynas â PAM/010 (canran y priffyrdd a arolygwyd o safon glendid uchel neu dderbyniol) PAM/011 (canran yr achosion o dipio anghyfreithlon a gofnodwyd wedi'u clirio o fewn 5 diwrnod gwaith i'r digwyddiad gael ei adrodd) a PAM/017 (Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn lle bydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol fesul 1,000 poblogaeth).

mesur, PAM/030 (canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol a anfonwyd i safleoedd tirlenwi) wedi llithro o chwartel 2 yn 2016/17 i chwartel 3 yn 2017/18 gan ddangos dirywiad cyson mewn perfformiad. Mae'r dirywiad mewn perfformiad yn debygol o fod yn adlewyrchiad o'r pwysau cyllidebol sydd ar y Cyngor, a phwysau mae’n dal i’w wynebu, a'r her y mae hyn yn ei gyflwyno o ran cynnal darpariaeth gwasanaeth.

**Meincnodi ein perfformiad ledled Cymru**

Gellir meincnodi ein perfformiad yn erbyn y 22 awdurdod lleol arall, trwy ddadansoddi cyfran y mesurau ar draws pob awdurdod lleol o’r dangosyddion yn y chwarteli uchaf, canol, isaf canol ac isaf o ran eu perfformiad. Hyd yn ddiweddar roedd hwn yn ddadansoddiad a wnaed gan Ddata Cymru (Uned Ddata Llywodraeth Leol, gynt). Er nad oedd Data Cymru yn gwneud y dadansoddiad hwn eleni, at ddibenion yr Adroddiad Blynyddol hwn, gwnaethom y dadansoddiad ein hunain gan ddefnyddio'r un fethodoleg. Mae'r dull hwn yn cynnwys dyfarnu pwyntiau i bob dangosydd yn seiliedig ar eu lleoliad chwartel, felly mae dangosyddion chwartel uchaf yn cael 4 pwynt, 3 phwynt i’r canol uchaf, 2 bwynt i’r canol isaf a 1 pwynt i’r isaf. Ni ddyfernir unrhyw bwyntiau os nad adroddwyd y dangosydd dan sylw i Data Cymru. Mae uchafswm o 72 o bwyntiau y gellid eu dyfarnu (yn seiliedig ar yr holl 18 dangosydd yn y safle chwartel uchaf). Gan ddefnyddio'r system bwyntiau hon, gellir wedyn pennu perfformiad yr awdurdod lleol.

Cadarnha’r ymarfer meincnodi hwn ein bod yn parhau i fod yr Awdurdod Lleol sy'n perfformio orau yng Nghymru am y bedwaredd flwyddyn yn olynol. Dengys y tabl isod ein bod sgorio cyfanswm o 60 pwynt (safle 1af), yna Sir Ddinbych yn yr 2il safle gyda 52 o bwyntiau, Gwynedd yn y 3ydd safle gyda 51 o bwyntiau a Sir Fynwy yn y 4ydd safle gyda chyfanswm o 50 o bwyntiau.

## 10.1 Safle perfformiad yn ôl awdurdod lleol ar gyfer Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus 2017/18

| | Chwarter uchaf (1) | | Chwarter canol uchaf (2) | | Chwarter canol isaf (3) | | Chwarter isaf (4) | | Amh. | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | # | % | # | % | # | % | # | % | # | % | Pwyntiau | Safle |
| **Bro Morgannwg** | 10 | 55 | 6 | 33 | 1 | 6 | 1 | 6 | 0 | 0 | 61 | 1 |
| Sir Ddinbych | 6 | 33 | 6 | 33 | 4 | 22 | 2 | 11 | 0 | 0 | 52 | 2 |
| Gwynedd | 8 | 44 | 3 | 17 | 3 | 17 | 4 | 22 | 0 | 0 | 51 | 3 |
| Sir Fynwy | 7 | 39 | 2 | 11 | 6 | 33 | 3 | 17 | 0 | 0 | 49 | 4 |
| Caerdydd | 7 | 39 | 4 | 22 | 2 | 11 | 5 | 28 | 0 | 0 | 49 | 4 |
| Sir Gaerfyrddin | 6 | 33 | 4 | 22 | 4 | 22 | 4 | 22 | 0 | 0 | 48 | 6 |
| Sir y Fflint | 6 | 33 | 3 | 17 | 6 | 33 | 3 | 17 | 0 | 0 | 48 | 6 |
| Ynys Môn | 5 | 28 | 5 | 28 | 5 | 28 | 3 | 17 | 0 | 0 | 48 | 6 |
| Conwy | 4 | 22 | 6 | 33 | 5 | 28 | 3 | 17 | 0 | 0 | 47 | 9 |
| Powys | 6 | 33 | 4 | 22 | 3 | 17 | 4 | 22 | 1 | 6 | 46 | 10 |
| Abertawe | 2 | 11 | 8 | 44 | 6 | 33 | 2 | 11 | 0 | 0 | 46 | 10 |
| Ceredigion | 7 | 39 | 0 | 0 | 4 | 22 | 7 | 39 | 0 | 0 | 43 | 12 |
| Merthyr Tudful | 5 | 28 | 4 | 22 | 2 | 11 | 7 | 39 | 0 | 0 | 43 | 12 |
| Casnewydd | 3 | 17 | 5 | 28 | 5 | 28 | 5 | 28 | 0 | 0 | 42 | 14 |
| Caerffili | 4 | 22 | 4 | 22 | 3 | 17 | 7 | 39 | 0 | 0 | 41 | 15 |
| Sir Benfro | 2 | 11 | 7 | 39 | 4 | 22 | 4 | 22 | 1 | 6 | 41 | 15 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 2 | 11 | 5 | 28 | 7 | 39 | 4 | 22 | 0 | 0 | 41 | 15 |
| Torfaen | 3 | 17 | 5 | 28 | 3 | 17 | 7 | 39 | 0 | 0 | 40 | 18 |
| Castell-nedd Port Talbot | 5 | 28 | 1 | 6 | 4 | 22 | 8 | 44 | 0 | 0 | 39 | 19 |
| Blaenau Gwent | 5 | 28 | 0 | 0 | 4 | 22 | 9 | 50 | 0 | 0 | 37 | 20 |
| Wrecsam | 3 | 17 | 3 | 17 | 4 | 22 | 8 | 44 | 0 | 0 | 37 | 20 |
| Rhondda Cynon Taff | 2 | 11 | 5 | 28 | 3 | 17 | 7 | 39 | 1 | 6 | 36 | 22 |

Dengys ein perfformiad cryf yn 2017/18 ein bod wedi parhau i gynnal gwelliannau o fewn llawer o'n meysydd gwasanaeth. Cyflawnwyd y llwyddiant hwn er gwaethaf gweithredu mewn amgylchedd sy'n gynyddol heriol lle mae adnoddau'n lleihau, ond lle mae'r galw am ein gwasanaethau yn parhau i gynyddu. Parheir i deimlo effaith y straen ac mae'r ansicrwydd yn yr amgylchedd polisi allanol, yn enwedig mewn perthynas â Brexit, yn parhau i fod yn bryder parhaus o ran sut rydym yn diogelu ein gwasanaethau i’r dyfodol.

Hefyd gwnaed dadansoddiad o'n perfformiad mewn perthynas â chyfartaledd Cymru gyfan a rhanbarth y De Ddwyrain. At ei gilydd, rydym wedi perfformio'n dda ar draws yr holl fesurau yn gyson o'i gymharu â Chymru a De Ddwyrain Cymru fel rhanbarth. Er enghraifft, yn ystod 2017/18, dangosodd 43% (6) o'r mesurau cymaradwy welliant mewn perfformiad ar y flwyddyn flaenorol o'i gymharu â dim ond 33% (4) mewn perthynas â Chymru. Mae Bro

Morgannwg hefyd wedi perfformio'n gadarn o'i chymharu â chyfartaledd Cymru gyfan a De Ddwyrain Cymru, gyda 78% (14) o'n mesurau yn perfformio'n well na chyfartaledd Cymru gyfan a 67% (12) o'n mesurau yn perfformio'n well na'r chyfartaledd D-Dd Cymru. Yr unig ddangosyddion lle'r oeddem ni'n perfformio'n is na chyfartaledd Cymru/De Ddwyrain Cymru oedd mewn perthynas â:

- PAM/016 (nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth). Y cyfartaledd yng Nghymru oedd 5,270 o ymweliadau ac roeddem ni'n adrodd 4,901.
- PAM/020 (canran o briffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol). Y cyfartaledd yng Nghymru oedd 3.7 ac roeddem ni'n 6.5, a oedd yn ein gadael yn y chwarter isaf o ran perfformiad.

Dyry'r tabl isod ddadansoddiad manylach o'r gymhariaeth o'n perfformiad mewn perthynas â Chymru a D-Dd Cymru yn ôl thematig.

## 10.2 Perfformiad o'i gymharu â Chymru a Rhanbarth De-ddwyrain Cymru

| Maes gwasanaeth | Nifer dangosyddion | % dangosyddion cymharol wedi gwella | | | Cymhariaeth â Chyfartaledd Cymru a D-Dd Cymru ar gyfer 2017/18 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Y Fro | Cymru | D-Dd Cymru | Nifer dangosyddion | Y Fro yn well na Chymru | Y Fro yn well na D-Dd Cymru |
| **Gofal Cymdeithasol** | Amh.[34] | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. |
| **Addysg** | 2 | 50% (1) | 0% (0) | 0% (0) | 4 | 100% (4) | 100% (4) |
| **Trafnidiaeth a Phriffyrdd** | 3 | 33% (1) | 33% (1) | 67% (2) | 3 | 67% (2) | 33% (1) |
| **Tai a Chynllunio** | 1 | 0% (0) | 100% (1) | 100% (1) | 5 | 100% (5) | 80% (4) |
| **Gwasanaethau Rheoliadol** | 1 | 100% (1) | 100% (1) | 100% (1) | 1 | 100% (1) | 100% (1) |
| **Hamdden a Diwylliant** | 2 | 50% (1) | 50% (1) | 50% (1) | 2 | 50% (1) | 50% (1) |
| **Rheoli Gwastraf f a Glendid** | 4 | 50% (2) | Amh.[35] | Amh. | 4 | Amh. | Amh. |
| **Gweithlu** | 1 | 0% (0) | 0%(0) | 0% (0) | 1 | 100% (1) | 100% (1) |
| **Cyffredinol** | Mae data cymaradwy ar gael ar gyfer 14 mesur [36] ac nid oes data ar gael i ddau fesur gwastraff mewn perthynas ag eraill, mae ffigurau ar | 43% (6) | 33% (4) | 42% (5) | Data ar gael i 18 mesur gan nad oes data cymaradwy ar gael i Gymru gyfan a D-Dd Cymru ar gyfer 2 fesur gwastraff.[37] | 78% (14) | 67% (12) |

[4]Nid oes data ar gael ar hyn o bryd ar gyfer y 6 mesur Gofal Cymdeithasol. Bydd data Gofal Cymdeithasol yn cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn yr hydref a bydd yn cael ei adlewyrchu yn y fframwaith perfformiad pan fydd ar gael.

[35] Nid oes data cymharol ar gyfer y ddau fesur gwastraff wedi'i gyhoeddi ar gyfer Cymru gyfan na D-Dd Cymru.

Mae 26 mesur cenedlaethol, fodd bynnag, ar 20 Awst, 2018 dim ond ar gyfer 14 o fesurau yr oedd data cymaradwy ar gael o ran gwelliant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

[37]Mae 26 mesur cenedlaethol, fodd bynnag, ar 20 Awst 2018 dim ond ar gyfer 18 o fesurau yr oedd data cymaradwy ar gael o ran cymharu perfformiad â Chymru a De Ddwyrain Cymru. Nid yw cyflawniad Cymru gyfan a D-Dd Cymru mewn perthynas â'r ddau fesur gwastraff wedi'i gyhoeddi.

| Maes gwasanaeth | Nifer dangosyddion | % dangosyddion cymharol wedi gwella | | | Cymhariaeth â Chyfartaledd Cymru a D-Dd Cymru ar gyfer 2017/18 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Y Fro | Cymru | D-Dd Cymru | Nifer dangosyddion | Y Fro yn well na Chymru | Y Fro yn well na D-Dd Cymru |
| | gael i Gymru gyfan a D-Dd Cymru. | | | | | | |

## 10.3 Trosolwg Perfformiad Dangosyddion PAM ar gyfer 2017/18

| Allwedd Cyfeiriad Teithio | |
|---|---|
| Wedi gwella | ↑ |
| Sefydlog | ↔ |
| Wedi dirywio | ↓ |
| Perfformiad gorau bosibl | PG |

| | Ein canlyniad 2016/17 | A yw ein canlyniad wedi gwella o 2016/17 i 2017/18: Ein canlyniad 2017/18 | Gwella ↑ Sefydlog ↔ Dirywio ↓ | 22nd | 21st | 20th | 19th | 18th | 17th | 16th | 15th | 14th | 13th | 12th | 11th | 10th | 9th | 8th | 7th | 6th | 5th | 4th | 3rd | 2nd | 1st |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Canlyniadau gwaethaf | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | Canlyniadau gorau |
| | | | | Rheng — Saethau yn cychwyn o'n safle 2016/17 i'n safle 2017/18 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Dygu a Sgiliau** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **PAM/006:** Canran y disgyblion Blwyddyn 11 a gyflawnodd y trothwy Lefel 2, gan gynnwys gradd A*-C TGAU mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol | N/A | 60.40% | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | ■ | | | |
| **PAM/007:** Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd | 95.3% | 95.20% | ↓ | | | | | | | | | | | | | | | | | ← | ● | | | | |
| **PAM/008:** Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd | 95.0% | 95.10% | ↑ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | ← | ● | |
| **PAM/009:** Canran gadawyr Blwyddyn 11 y gwyddyr nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (NEET) | N/A | 1.00% | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | ■ | | |
| **PAM/016:** Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth | 5,217 | 4,901 | ↓ | | | | | | | | | | | | | ↔ | | | | | | | | | |

## Adnoddau

Canlyniadau gwaethaf → Canlyniadau gorau

Rheng
Saethau yn cychwyn o'n safle 2016/17 i'n safle 2017/18

| | Ein canlyniad 2016/17 | A yw ein canlyniad wedi gwella o 2016/17 i 2017/18: Ein canlyniad 2017/18 | Gwella ↑ Sefydlog ↔ Dirywio ↓ | 22nd | 21st | 20th | 19th | 18th | 17th | 16th | 15th | 14th | 13th | 12th | 11th | 10th | 9th | 8th | 7th | 6th | 5th | 4th | 3rd | 2nd | 1st |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **PAM/015:** Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu'r holl Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG) yn ystod y flwyddyn ariannol | 167 | 188 | ↓ | | | | | | | | | | | | | | | ← | | | | | ● | | |
| **PAM/001:** Nifer y diwrnodau/sifftiau gwaith wedi colli fesul gweithiwr awdurdod lleol cyfwerth ag amser llawn (CALI) oherwydd absenoldeb salwch | 8.8 | 10.1 | ↓ | | | | | | | | | | | | | ← | | | | | | | ● | | |
| **PAM/018:** Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn y cyfnodau gofynnol | N/A | 92.40% | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **PAM/019:** Canran yr apeliadau yn erbyn penderfyniadau cais cynllunio a wrthodwyd | N/A | 64.30% | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |

## Yr Amgylchedd, Hamdden a Thai


Canlyniadau gwaethaf → Canlyniadau gorau

Rheng
Saethau yn cychwyn o'n safle 2016/17 i'n safle 2017/18

| | Ein canlyniad 2016/17 | Y yw ein canlyniad wedi gwella o 2016/17 i 2017/18: Ein canlyniad 2017/18 | Gwella ↑ Sefydlog ↔ Dirywio ↓ | 22nd | 21st | 20th | 19th | 18th | 17th | 16th | 15th | 14th | 13th | 12th | 11th | 10th | 9th | 8th | 7th | 6th | 5th | 4th | 3rd | 2nd | 1st |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **PAM/020:** Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol | 5.9% | 6.5% | ↓ | ↔ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **PAM/021:** Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol | 4.2% | 4.2% | ↔ | | | | | | | | | | | | ● | | | → | | | | | | | |

**Yr Amgylchedd, Hamdden a Thai**

| | Ein canlyniad 2016/17 | Y yw ein canlyniad wedi gwella o 2016/17 i 2017/18: Ein canlyniad 2017/18 | Gwella ↑ Sefydlog ↔ Dirywio ↓ |
|---|---|---|---|
| **PAM/022:** Canran yr is-ffyrdd C mewn cyflwr gwael cyffredinol | 11.2% | 10.5% | ↑ |
| **PAM/010:** Canran y priffyrdd a adolygwyd sydd o safon glendid uchel neu dderbyniol | 96.6% | 99.5% | ↑ |
| **PAM/011:** Canran y digwyddiadau tipio anghyfreithlon a adroddwyd a gliriwyd o fewn 5 niwrnod ar ôl i'r digwyddiad gael ei adrodd | 93.36% | 100.00% | ↑ |
| **PAM/012:** Canran y teuluoedd a fygythiwyd â digartrefedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | N/A | 71.40% | |
| **PAM/013:** Canran o eiddo sector preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd yn ystod y flwyddyn trwy camau uniongyrchol yr awdurdod lleol | N/A | 7.60% | |
| **PAM/017**: Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn pan fydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol fesul 1,000 y boblogaeth | 6,056 | 11,368 | ↑ |
| **PAM/030:** Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio a'i ailgylchu/neu ei ailgylchu, gan gynnwys deunyddiau biowastraff wedi eu gwahanu yn eu tarddle ac a gompostir neu a drinnir yn fiolegol mewn ffordd arall | 65.33% | 63.21% | ↓ |
| **PAM/031**: Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a anfonir i safle tirlenwi | 0.99% | 0.95% | ↓ |
| **PAM/023:** Canran y sefydliadau bwyd sy'n 'cydymffurfio'n fras' â safonau hylendid bwyd | 91.56% | 95.40% | ↑ |



## 10.4 Sylwadau ar ddangosyddion perfformiad chwartel isaf

| Maes gwasanaeth | Dangosydd perfformiad | Sylwadau ar berfformiad 2017/18 |
|---|---|---|
| Amgylchedd a Thai | PAM/020: Canran o briffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol. | Mae rhwydwaith ffyrdd y Fro yn ased sy'n dirywio'n barhaus ac sydd angen buddsoddiad parhaus a sylweddol dros £2 filiwn y flwyddyn er mwyn cynnal cyflwr sefydlog cyson.<br><br>Ers i Fenter Benthyca Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru (LGBI) ddod i ben yn 2015, mae buddsoddi cyfalaf yn ased priffyrdd y Fro wedi gostwng i ryw 50% o'r hyn sy'n ofynnol i gynnal cyflwr sefydlog cyson. O ganlyniad, mae cyflwr cyffredinol y rhwydwaith priffyrdd, gan gynnwys ffyrdd 'A', wedi dirywio islaw'r cyflwr gwell a chyson a gyflawnwyd yn ystod blynyddoedd lle cafwyd buddsoddiad cyfalaf drwy'r LGBI. Gwaethygwyd y sefyllfa hon ymhellach gan y cynnydd cyffredinol ym mhob dosbarth o ffyrdd sy'n profi niferoedd traffig uwch.<br><br>Mae gan y Cyngor system Blaenoriaethu Ailwynebu Ffyrdd Cerbydau 3 blynedd ar waith, sy'n cael ei hadolygu'n flynyddol ar y cyd â'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd er mwyn gwneud y gorau o'n gallu i gynnal y rhwydwaith priffyrdd lleol. Sicrha hyn bod y ffyrdd sydd angen y gwaith mwyaf brys yn cael eu blaenoriaethu a'u bod yn cael sylw. Yn ogystal, mae'r Cyngor hefyd yn ystyried triniaethau arwyneb arloesol i wella ac amddiffyn yr ased priffyrdd yn ogystal ag ymestyn y buddsoddiad gwaith cyfalaf blaenorol mewn rhwydwaith ffyrdd. |

## 10.5 Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol Ychwanegol: Mesurau Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol

Noder: Trosglwyddodd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn llwyddiannus i Ateb Gwybodaeth Gofal Gymunedol Cymru (WCCIS) ym mis Tachwedd 2017. Fodd bynnag, mae gwaith yn parhau i ddatblygu agweddau adrodd y system ac ar hyn o bryd ni allwn dynnu data ar nifer o ddangosyddion perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae tynnu data at ddibenion adrodd o fewn y system newydd yn fater cenedlaethol sy'n effeithio ar nifer o awdurdodau ac mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o hyn.

| Mesurau Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaen'th Cynllun Corfforaethol (Cyf) | Dangosydd | Perfformiad 2016/17 | Targed 2017/18 | Perfformiad 2017/18 | Cyfartaledd Cymru 2016/17 | Statws Perfformiad[38] | Cyfeiriad teithio (o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol) |
| SSM/021 | Hyd yr amser y mae pobl hŷn (65 oed neu drosodd) yn cael eu cefnogi mewn cartrefi gofal preswyl | 818.95 diwrnod | Amh. | 769.06 diwrnod | 801 | Amh. | ↑ |
| SSM/022 | Oedran cyfartalog oedolion sy'n mynd i gartrefi gofal preswyl. | 81 | Amh. | 79.87 | 82.8 | Amh. | ↓ |
| SSM/023 | Canran yr Oedolion sydd wedi cael cymorth gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth ac nad ydynt wedi cysylltu â'r gwasanaeth eto yn ystod y flwyddyn. | 84.78% | 85% | Dim data ar gael | 67.7% | Amh. | Amh. |
| SSM/024 (PAM/028) | Canran yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant o fewn graddfeydd amser statudol. | 71.76% | 85% | 65.46% | 90.80% | ☹ | ↓ |
| SSM/025 | Canran y plant a gefnogir i barhau i fyw yn eu teulu. | 97.62% | Amh. | 85.46% | 69.20% | Amh. | ↓ |
| SSM/026 | Canran y plant sy'n derbyn gofal sy'n dychwelyd adref o ofal yn ystod y flwyddyn. | 6.14% | 6% | 3.79% | 13.60% | Amh.[39] | Amh. |
| SSM/028 | Hyd cyfartalog ar gyfer yr holl blant a oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn. | 238 diwrnod | Amh. | 247.52 diwrnod | Amh. | Amh. | ↓ |
| SSM/029a | Canran y plant sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2. | 70.83% | Amh. | 55.56% | 56.60% | Amh. | ↓ |

Statws perfformiad: perfformiad yn uwch na'r targed ☺ ; perfformiad o fewn 10% o'r targed 😐 ; perfformiad yn methu'r targed o fwy na 10% ☹ . Noder fod cyfeiriad teithio yn cymharu perfformiad 2017/18 gyda pherfformiad y flwyddyn flaenorol (2016/17) nid cyfartaledd Cymru gan mai dim ond ar gyfer 2016/17 y mae data cyfartalog Llywodraeth Cymru ar gael ar hyn o bryd. Mae saeth i fyny yn dangos gwell perfformiad na'r flwyddyn flaenorol tra bod saeth i lawr yn dangos perfformiad islaw'r llynedd.

[39] Nid yw statws perfformiad a chyfeiriad teithio yn berthnasol i'r mesur hwn gan nad yw'n hysbys os y dylai perfformiad fod yn uchel ynteu'n isel.

| Mesurau Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaen'th Cynllun Corfforaethol (Cyf) | Dangosydd | Perfformiad 2016/17 | Targed 2017/18 | Perfformiad 2017/18 | Cyfartaledd Cymru 2016/17 | Statws Perfformiad[1] | Cyfeiriad teithio (o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol) |
| SSM/029b | Canran y plant sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 4. | 26.67% | Amh. | 0% | 14.20% | Amh. | ↓ |
| SSM/030 | Canran y plant a welir gan ddeintydd cofrestredig o fewn 3 mis i dderbyn gofal | 42.62% | 60% | 40.63% | 59.40% | ☹ | ↓ |
| SSM/031 | Canran y plant sy'n derbyn gofal a gofrestrwyd gyda meddyg teulu. | 99.16% | 98% | 98.39% | 91.70% | ☺ | ↓ |
| SSM/032 | Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi profi (1) neu fwy o newidiadau ysgol, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, nad oeddent yn ganlyniad i drefniadau trosiannol, yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth. | 19.93% | 12% | 15% | 12.70% | ☹ | ↑ |
| SSM/033 (PAM/029) | Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri neu fwy o leoliadau yn ystod y flwyddyn. | 8.93% | 9% | 11.48% | 9.80% | ☹ | ↓ |
| SSM/034a | Canran yr holl bobl sy'n gadael gofal sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ymhen 12 mis ar ôl gadael gofal. | 42.63% | 45% | 49.25% | 52.40% | ☺ | ↑ |
| SSM/034b | Canran yr holl bobl sy'n gadael gofal sydd mewn Addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ymhen 24 mis ar ôl gadael gofal | 50% | 50% | 48.65% | 47.10% | 😐 | ↓ |
| SSM/035 | Canran y rhai sy'n gadael gofal sydd wedi dioddef digartrefedd yn ystod y flwyddyn. | 14.68% | 14% | 5.6% | 10.60% | ☺ | ↑ |

# ATODIAD A: Eithriadau Perfformiad

# Deilliant 1: Bro Gynhwysol a Diogel

## 1.4.1 Amcan 1: Lleihau tlodi ac allgáu cymdeithasol

### Gweithrediad Cynllun Corfforaethol IS001: Datblygu a chyflenwi Strategaeth Cynhwysiad Digidol i gynyddu mynediad i dechnoleg ddigidol a gwella sgiliau digidol.

| Gweithrediad Cynllun Gwasanaeth | % a gwblhawyd | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| PD/A015: Ymestyn ein gwasanaeth Cysylltu UnFro (C1V) y Ganolfan Gyswllt Cwsmer i gynnwys ymholiadau Gwasanaeth Rheoleiddio ar y Cyd oddi wrth drigolion Caerdydd. | 80% | C | ↑ | Trosglwyddwyd nifer o wasanaethau i'r ganolfan gyswllt i gwsmeriaid (C1V) dros y flwyddyn, sef: Galwadau cyfrwng Cymraeg gan drigolion Caerdydd, galwadau rheoli llygredd gan drigolion Caerdydd. Mae materion adnoddau yn C1V wedi atal trosglwyddo gwasanaethau ymhellach o SRS yn ystod y chwarter olaf. O ganlyniad, mae amseroedd aros ar gyfer cwsmeriaid wedi bod yn hirach na'r hyn a gynlluniwyd, er bod profiad y cwsmer ar ôl siarad â swyddog galwadau wedi parhau'n dda. |

## 1.4.2 Amcan 2: Darparu cartrefi gweddus a chymunedau diogel

### Gweithrediad Cynllun Corfforaethol IS007: Cwblhau cyflenwi Cynllun Gwella Tai Cyngor erbyn 2017.

| Gweithrediad Cynllun Gwasanaeth | % a gwblhawyd | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| HS/A031: Gweithredu porth cwsmer sy'n caniatáu i denantiaid wirio gwybodaeth a gedwir, adolygu eu cyfrif rhent, a chael mynediad at wasanaeth ar-lein a mynediad at wybodaeth am wasanaethau tai. | 75% | C | ↑ | Yn ôl y sylwebaeth y chwarter blaenorol, mae'r weithred hon wedi llithro am y rhesymau a amlinellwyd megis yr amser hirach na'r disgwyl a gymerwyd i gael sicrwydd ynghylch agweddau diogelwch TGCh i'r ateb Linguaskin. Yn ystod chwarter 4, mae'r Darparwr Meddalwedd (Northgate) wedi treulio dau ddiwrnod ar y safle yn sefydlu'r system 'fyw' ac mae cynnwys y porth hefyd wedi cael ei 'grafu' allan o'r system a'i anfon i'w gyfieithu. Cwblhawyd y profion ar y porth a datblygwyd cynllun gweithredu gyda rhenti, atgyweiriadau a thimau Homes4U ynghylch y wybodaeth a fydd yn cael ei rhannu gyda chwsmeriaid a'r prosesau a fydd yn sail i hunanwasanaeth tenantiaid. Mae angen cryn dipyn o waith o hyd, ond rhagwelir y bydd y Porth Cwsmer yn mynd yn fyw yn ystod y 6 mis nesaf. |

| Gweithrediad Cynllun Gwasanaeth | % a gwblhawyd | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| HS/A046: Datblygu Strategaeth Rheoli Asedau/Buddsoddi i Gartrefi sydd ym Mherchnogaeth y Cyngor. | 50% | C | ↑ | Datblygwyd y ddogfen ddrafft gychwynnol. Bu gwaith i ddiweddaru'r System Rheoli Asedau yn mynd ymlaen ac mae bellach mewn sefyllfa i ddarparu gwybodaeth ddibynadwy i ddatblygu'r strategaeth hon. Cyflwynwyd cynllun busnes Tai dros y 30 mlynedd nesaf, a bydd y Strategaeth Rheoli Asedau nawr yn cael ei drafftio i adlewyrchu'r cynllun busnes. Mae cyfyngiadau capasiti ac adnoddau wedi effeithio ar y gwaith hwn, gan i'r rhain gael eu hailgyfeirio i gwblhau'r rhaglen SATC. Cyflawnodd y Cyngor y SATC ym Mawrth 2018. Dygwyd y gwaith ymlaen i 2018/19. |

## Gweithrediad Cynllun Corfforaethol IS008: Cydweithio â phartneriaid i annog creu cynllun newydd i adeiladu tai cyngor.

| Gweithrediad Cynllun Gwasanaeth | % a gwblhawyd | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| HS/A036: Adeiladu 14 o gartrefi Cyngor newydd o dan Raglen Datblygu Tai'r Cyngor a nodi cyfleoedd pellach. | 50% | C | ↑ | Yn gynharach yn y flwyddyn, cwblhawyd 3 uned newydd yn Francis Road Y Barri a'u trosglwyddo i'r tenantiaid newydd i symud i mewn iddynt. Penodwyd contractwr ar gyfer adeiladu'r 11 eiddo arall yn Holm View. Mae hyn yn dilyn yr anawsterau yr adroddwyd amdanynt yn gynharach i gael contractwyr trwy gystadleuaeth, sydd wedi arwain at oedi wrth gychwyn gweithrediad y safle. Mae'r gwaith adeiladu i fod i gychwyn ar y safle yn fuan a bydd yr eiddo'n cymryd 60 wythnos i'w adeiladu. Mae Brecon Court yn cael ei gyflwyno ar gyfer cymeradwyaeth cynllunio ac mae'n debyg y bydd yn cychwyn ar y safle ym mis Mehefin 2018. |

## Gweithrediad Cynllun Corfforaethol IS009: Darparu llety addas a gwasanaethau cefnogi i grwpiau bregus penodol.

| Gweithrediad Cynllun Gwasanaeth | % a gwblhawyd | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| HS/A039: Cwblhau gwaith uwchraddio ffisegol i safleoedd tai gwarchod. | 90% | C | ↑ | Cwblhawyd yr holl waith a gynlluniwyd ar gyfer safleoedd tai gwarchod ac eithrio Gwenog Court. Mae'r gwaith a gwblhawyd eleni wedi cynnwys uwchraddio drysau tân ac offer canfod tân i eiddo risg uchel sy'n dod â'r adeilad i fyny at y fanyleb gydymffurfiaeth ddiweddaraf. Archebwyd y gwaith ar gyfer y safle hwn ac mae'r setiau drws yn cael eu cynhyrchu ar hyn o bryd cyn eu gosod ym mis Ebrill/Mai 2018/19. Byddwn yn parhau i ddiweddaru safleoedd tai gwarchod yn 2018/19 trwy |

| Gweithrediad Cynllun Gwasanaeth | % a gwblhawyd | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | gwblhau moderneiddio ardaloedd cymunedol fel yr amlinellir yn y Cynllun Gwasanaeth Tai ac Adeiladu. |
| HS/A040: Cynnal adolygiad o'r model cyflenwi ar gyfer tai gwarchod yng ngoleuni newidiadau i gyllid Cefnogi Pobl. | 85% | C | ↑ | Yn anffodus, ni all y Rhwydwaith Gwybodaeth Dysgu Tai gyflwyno eu canfyddiadau ymchwil tan 30 Ebrill 2018. Unwaith y derbynnir y rhain, cânt eu hystyried gan y partneriaid Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Rhanbarthol, ac ar ôl hynny, bydd y model gwasanaeth tai gwarchod yn cael ei ystyried mewn ymgynghoriad ag Aelodau a thenantiaid. O ganlyniad i'r llithriad hwn, bydd y camau gweithredu hyn yn cael eu trosglwyddo i'r flwyddyn ariannol nesaf; fodd bynnag, bydd angen ymestyn yr amserlen ar gyfer cwblhau hyd at ddiwedd 2019/20 i adlewyrchu faint o waith sy'n gysylltiedig. |

**Gweithrediad Cynllun Corfforaethol IS012: Cyflwyno system ymateb brys i warchod pobl fregus rhag gweithredoedd masnachwyr twyllodrus.**

| Gweithrediad Cynllun Gwasanaeth | % a gwblhawyd | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| SRS/A009: Datblygu gwasanaeth negeseuon cymunedol Cyswllt y Fro i hysbysu am sgamiau cyfredol a dulliau gweithredu newydd gan dwyllwyr, er mwyn amddiffyn yn well y rheiny sy'n cael eu targedu. | 50% | C | ↔ | Ni fu'n bosibl sicrhau'r hyfforddiant angenrheidiol ar y system i ganiatáu i'r staff dan sylw fewnbynnu i'r gwasanaeth negeseuon. Addawyd hyfforddiant yn gynnar yn 2018-19 ac o ganlyniad, mae lansio'r gwasanaeth wedi llithro i mewn i'r flwyddyn ariannol newydd. |

**Gweithrediad Cynllun Corfforaethol IS015: Cwblhau Cynllun Adfer Ardal Castleland i wella safon y tai a'r amgylchedd lleol.**

| Gweithrediad Cynllun Gwasanaeth | % a gwblhawyd | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| RP/A052: Gwerthuso Ardal Adnewyddu Castleland. | 75% | C | ↔ | O ganlyniad i sicrhau mwy o gyllid piblinell, bu oedi wrth werthuso'r project Lleoedd Llewyrchus Llwn Addewid, ac felly bydd y gwerthusiad cyfunol, yn cynnwys Ardal Adnewyddu Castleland, yn cael ei ddwyn ymlaen i'r flwyddyn nesaf. |

## 1.4.3 Amcan 1: Lleihau tlodi ac allgáu cymdeithasol

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn Wirioneddol 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn Wirioneddol 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| CPM/107: Canran defnyddwyr gwasanaeth Cefnogi Pobl sy'n cadarnhau bod y gefnogaeth a gawsant wedi eu cynorthwyo i gynnal eu hannibyniaeth. | 96.15% | 82.93% | 100% | ↓ | Comisiynwyd y gwasanaethau cefnogi gan y Cyngor o sefydliadau trydydd sector allanol. Derbyniwyd yr adborth hwn yn ystod yr adolygiadau gwasanaeth a gynhaliwyd gan y Tîm Cefnogi Pobl a chaiff yr holl sylwadau negyddol eu harchwilio a gwneir argymhellion ar gyfer unrhyw welliannau gwasanaeth angenrheidiol. Caiff y rhain eu monitro'n rheolaidd. Fodd bynnag, rhaid nodi nad oes disgwyl i lawer o bobl agored i niwed sy'n cael eu cefnogi allu dod yn gwbl annibynnol e.e. pobl hŷn a fydd yn parhau i fod angen cefnogaeth i barhau i fyw gartref neu gleientiaid sydd â chyflwr meddygol sy'n dirywio. |
| CPM/114: Nifer yr unigolion sy'n derbyn Credyd Cyffredinol. | Amh. | 632 | 1,000 | Amh. | Y nifer o unigolion sy'n derbyn Credyd Cyffredinol yn chwarter 4 yw 632. Gostyngodd y nifer o 693 yn chwarter 3 gan fod y Porth i Gredyd Cyffredinol wedi cael ei gau tan i'r Fro drosglwyddo i'r Gwasanaeth Llawn ym mis Hydref 2018. Bydd y rhai a fyddai wedi ei hawlio nawr yn hawlio Budd-daliadau Tai. Hefyd os yw'r cleient yn cael newid ar CC, gallant ddewis mynd yn ôl i Fudd-daliadau Tai. |

## 1.4.4 Amcan 2: Darparu tai gweddus a chymunedau diogel

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn Wirioneddol 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn Wirioneddol 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| CPM/130: Nifer yr aelwydydd digartref fesul 1,000 o'r boblogaeth | 2.28 | 3.24 | 2.37 | ↓ | Er bod y ffigwr hwn wedi cynyddu dros y 12 mis diwethaf, mae rhai o'r canlyniadau y tu allan i reolaeth yr awdurdod lleol. Mae achosion A73 yn aelwydydd lle mae digartrefedd wedi digwydd oherwydd na ellid ei atal gan y Tîm Atebion Tai e.e. lle mae perthynas wedi torri y tu hwnt i adfer, gan arwain at i'r aelod o'r teulu yr effeithir arno bellach fethu â pharhau i fyw yn y cartref teuluol, neu lle mae landlord wedi cyhoeddi hybysiad yn gofyn i aelwyd adael eu cartref gan ei fod am ei werthu neu fyw yno ei hun. Achosion A75 yw'r achosion hynny a ddyfarnwyd gyda dyletswydd A73 - ar ôl hynny, daeth y cyfnod o 56 diwrnod i ben sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol ddyfarnu dyletswydd digartrefedd statudol llawn (A75). Y boblogaeth gyfredol ar draws Bro Morgannwg yw 128,900. |
| CPM/011: Canran y tenantiaid sy'n fodlon â gwaith SATC | 73.93% | 67.31% | 90% | ↓ | Boddhad cyffredinol tenantiaid ar ddiwedd y flwyddyn oedd 67.31%. Roedd hyn oherwydd dau ffactor allweddol. Y cyntaf oedd bod gwaith allanol yn cymryd rhy hir i'w gwblhau o safbwynt tenantiaid. Achoswyd hyn oherwydd bod disgwyliad y tenantiaid o ba mor hir y dylai ei gymryd ychydig yn uwch nag eraill, perfformiad contractwyr gwael, oedi wrth gael mynediad i eiddo mewn blociau a thywydd garw yn ymestyn amseroedd cwblhau. Yr ail ffactor oedd cyfathrebu gwael rhwng contractwyr a thenantiaid, ac roedd hyn yn amrywio o beidio â chadw apwyntiadau, i beidio â chael gwybod pryd y byddai contractwyr yn gweithio yn yr eiddo. Roedd hyn yn fwy cyffredin wrth gwblhau gwaith |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn Wirioneddol 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn Wirioneddol 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ar fân ddiffygion, er mwyn cwblhau'r holl waith gofynnol ar bob eiddo.<br>Ar ôl i'r materion hyn gael eu codi gyda'r prif gontractwyr mewn cyfarfodydd contractwyr misol, arweiniodd yn y pen draw at i'r Tîm Projectau Cyfalaf symud gwaith o 3 rhaglen gontractwr, a gwrthod talu am waith nad oedd wedi ei gwblhau'n llawn. |
| CPM/064 (PAM/013): Canran eiddo gwag yn y sector preifat a ddygwyd yn ôl i ddefnydd yn ystod y flwyddyn trwy weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol. | 13.79% | 7.56% | 14% |  | Mae Llywodraeth Cymru wedi newid y diffiniad o'r hyn yw cartref gwag (e.e. gall hyn nawr gynnwys anheddau newydd eu hadeiladu/tai sy'n cael eu hailwampio neu'n cael estyniad neu eiddo sy'n cael ei addasu'n sylweddol) ac mae hyn wedi ychwanegu'n sylweddol at nifer yr eiddo a ystyrir yn wag. Hefyd cyfyngodd Llywodraeth Cymru ar nifer yr achosion y gall y Cyngor eu hystyried fel rhai a ddaeth yn ôl i ddefnydd fel eiddo preswyl (e.e. lle mae'r Cyngor wedi ysgrifennu a chyfathrebu â pherchnogion, dim ond y tai hynny a ddygir yn ôl i ddefnydd lle mae'r perchnogion wedi cyfathrebu â'r Cyngor y gall eu cynnwys). Cafodd hyn effaith sylweddol ar ba gamau y gall yr awdurdod lleol eu cofnodi fel llwyddiant wrth gefnogi dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Yn ogystal, mae'r swydd Cartrefi Gwag wedi bod yn wag am gyfnod o 6 mis, ac yn ystod yr amser hwn ni chymerwyd unrhyw gamau rhagweithiol i ddychwelyd tai gwag yn ôl i ddefnydd; ond pan gafodd y swydd ei llenwi, gwnaed gwaith rhagweithiol a chyflawnwyd 50% o'r targed, gan adlewyrchu bod y swydd wedi bod yn wag am 6 mis yn y flwyddyn. |
| CPM/030: Canran y tenantiaid a oedd yn fodlon â chanlyniad | Amh. | 33.33% | 60% | Amh. | Bu cynnydd bach o ran bodlonrwydd yn y chwarter diwethaf o 20% yn chwarter 3 i |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn Wirioneddol 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn Wirioneddol 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| cwyn ymddygiad gwrthgymdeithasol. (Housemark) | | | | | 33.33% yn chwarter 4; fodd bynnag, roedd perfformiad yn is na'r targed. Mae cwestiynau ynghylch addasrwydd y DP hwn gan nad yw o reidrwydd yn rhoi syniad cywir o ansawdd yr ymateb a ddarperir i ddigwyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Amlygodd dadansoddiad o'r misoedd diweddaraf broblem sydd wedi'i lleoli yn Awberry House yn Buttrills. Roedd hyn yn cynnwys nifer o denantiaid yn gwneud cwynion sŵn am ei gilydd. Ymatebodd y staff Cymdogaeth i bob cwyn a threulio cyfnodau hir yn cyfweld cymdogion ar y safle, gan gasglu tystiolaeth a darparu cyngor a sicrwydd. Cymerwyd camau priodol ac mae hyn bellach wedi ymdrin â'r broblem, fodd bynnag, mae nifer o denantiaid yn dal yn anhapus ac mae un wedi symud allan ers hynny. Cafodd y mater hwn effaith sylweddol ar y canlyniadau boddhad. Mae'r tîm Tai yn parhau i ddefnyddio ystod o offer i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol; mae'r rhain yn cynnwys asesiadau risg o ddioddefwyr, cynlluniau gweithredu personol, gwaith amlasiantaeth gyda phartneriaid, a defnydd o'r ap Sŵn a chamau gorfodi fel dewis olaf. |

# Deilliant 2: Bro Lewyrchus sy'n Gyfrifol am yr Amgylchedd

## 1.5.1 Amcan 3: Hyrwyddo gwaith adfer, twf economaidd a chyflogaeth

**Gweithrediad Cynllun Corfforaethol ER1: Manteisio ar gyfleoedd am dwf economaidd, buddsoddiad o'r tu allan a chyfleoedd cyflogaeth drwy'r Brifddinas-Ranbarth, Maes Awyr Caerdydd ac Ardal Fenter Sain Tathan.**

| Gweithrediad Cynllun Gwasanaeth | % a gwblhawyd | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| RP/A055: Mabwysiadu fframwaith datblygu Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan fel briff datblygu. | 75% | C | ↔ | Roedd y fframwaith drafft a baratowyd gan Lywodraeth Cymru i fod i gael ei adrodd i'r Cabinet ochr yn ochr â Chanllawiau Cynllunio Atodol arall (CCA) yn Ch3; fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwaith nawr mewn ymgynghoriad â'r Cyngor a'r Maes Awyr i Uwchgynllunio'n llawn y Maes Awyr a chyfleoedd Ardaloedd Menter, a disgwylir adroddiad yn hwyrach yn 2018. Unwaith y cytunir ar yr Uwchgynllun, bydd yn mynd drwy'r broses CCA yn unol â hynny; o ganlyniad, ataliwyd y cynnydd o dan y weithred hon wrth i ni aros i Lywodraeth Cymru symud pethau ymlaen. O ganlyniad i'r oedi hwn, cafodd y weithred hon ei dwyn ymlaen i Gynllun Gwasanaeth Adfywio a Chynllunio 2018/19. |

**Gweithrediad Cynllun Corfforaethol ER2: Datblygu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant drwy ddatblygiadau newydd, cynlluniau adfer a rheolaeth asedau'r Cyngor.**

| Gweithrediad Cynllun Gwasanaeth | % a gwblhawyd | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| HR/A001: Gweithredu strategaeth fewnol i gynyddu nifer y gweithwyr 16-24 oed fel cyfran o'r gweithlu ehangach. | 80% | C | ↑ | Cafodd y strategaeth fewnol i gynyddu nifer y gweithwyr iau fel cyfran o'r gweithlu ei gweithredu'n llwyddiannus ar ddechrau'r flwyddyn. Yn ystod chwarter 4, gwnaed gwaith i gytuno ar ymagwedd tuag at gyflogaeth uniongyrchol, gan gynnwys cytundeb ar ddwy lefel o brentisiaid/ hyfforddai a'r graddfeydd cyflog sy'n briodol i bob un. Bydd y gwaith hwn yn ein galluogi i gael mwy o ddylanwad dros y nifer o brentisiaid y gallwn eu cymryd o'i gymharu â'r model cynnal.<br><br>Llithrodd y cynnydd ar ddiwedd y flwyddyn oherwydd yr angen annisgwyl i symud i fodel recriwtio uniongyrchol ar ôl i'r cynnig cynnal gael ei ddiddymu'n annisgwyl gan y darparwyr hyfforddiant yn ystod y flwyddyn. Bydd y weithred hon yn parhau i 2018/19 lle codir y llithriad i fyny. Mae angen rhagor o waith i greu contract prentisiaeth ac wrth symud ymlaen, byddwn yn parhau i weithio gydag adrannau i hyrwyddo'r defnydd o brentisiaethau ymhellach, a fydd hefyd yn helpu i gynyddu nifer y gweithwyr 16-24 oed. |

**Gweithrediad Cynllun Corfforaethol ER3: Gweithredu cynllun adfer cynhwysfawr ledled y Fro, yn cynnwys: Y Strategaeth Datblygu Gwledig Lleol, Fframwaith Canol Trefi, Glan Môr Penarth, Glannau'r Barri yn cynnwys Ffordd Gysylltu Ynys y Barri, a chysylltiadau rhwng porthladd Penarth a chanol y dref.**

| Gweithrediad Cynllun Gwasanaeth | % a gwblhawyd | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| RP/A062: Cwblhau gwaith gwella'r Mannau Agored yng Ngogledd Penarth. | 90% | C | ↑ | Cynhaliwyd cyfarfod cyn-gontract yn ystod chwarter 4 a bydd y gwaith ar Fannau Agored Paget Road yn dechrau ddiwedd Ebrill 2018 gyda chyfnod contract 16 wythnos yn dilyn y broses ddylunio manwl a'r broses dendro lwyddiannus a gyflawnwyd eleni. Mae gwaith plannu ym Man Agored Sgwâr Plassey bellach wedi'i gwblhau yn dilyn gosod seddi newydd yn y Sgwâr yn chwarter 2. Bydd gwaith i gwblhau'r gwelliannau Mannau Agored i Ogledd Penarth yn cael ei ddwyn ymlaen fel yr amlinellir yng Nghynllun Gwasanaeth Adfywio a Chynllunio 2018/19 gyda dyddiad cwblhau diwedd Medi 2018. |

## 1.5.2: Amcan 4: Hyrwyddo datblygu cynaliadwy a diogelu'n hamgylchedd

**Gweithrediad Cynllun Corfforaethol ER7: Mabwysiadu a gweithredu'r Cynllun Datblygu Lleol fel fframwaith ar gyfer datblygu cynaliadwy ym Mro Morgannwg.**

| Gweithrediad Cynllun Gwasanaeth | % a gwblhawyd | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| RP/A065: Mabwysiadu'r CCA canlynol yn 2017/18: Rhwymedigaethau Cynllunio, Tai Fforddiadwy, Safonau Parcio | 75% | C | ↔ | CCA Rhwymedigaethau Cynllunio a Thai Fforddiadwy (CCA) - Cymeradwywyd y CCA hyn gan y Cabinet ar 31/07/2017 i'w defnyddio ar unwaith mewn penderfyniadau Rheoli Datblygu ochr yn ochr â'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig. Yn dilyn adolygiad o'r CCA Tai Fforddiadwy, mabwysiadwyd fersiwn ddiwygiedig gan y Cabinet ar 5 Chwefror 2018.<br>CCA Safonau Parcio – Ailddrafftiwyd canllawiau safonol Cymdeithas Syrfewyr y Sir (CSS) i wneud y ddogfen yn fwy penodol i Fro Morgannwg. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda swyddogion datblygu priffyrdd i gytuno ar newidiadau i eiriad y canllawiau er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol wrth ystyried ceisiadau cynllunio yn y dyfodol, fel y nodwyd yn y chwarter blaenorol. Fodd bynnag, oherwydd absenoldeb staff, nid yw hyn wedi'i ddatblygu a bydd nawr yn cael ei ddwyn ymlaen i 2018/19. |
| RP/A066: Paratoi ac ymgynghori ar y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) canlynol Ynni | 80% | C | ↑ | Cafodd y Canllawiau Datblygiad Preswyl a Dylunio Deiliaid Tai, a Chanllawiau Cynllunio Atodol Bioamrywiaeth, Addasu Adeiladau Gwledig, Diogelu Mwynau i |

| Gweithrediad Cynllun Gwasanaeth | % a gwblhawyd | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Adnewyddadwy, Dyluniad Deiliaid Tai, Addasu Adeiladau Gwledig, Celf Gyhoeddus, Coed a Datblygu, Mwynau. | | | | gyd eu cymeradwyo gan y Cabinet ar 18 Rhagfyr 2017 a chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus yn Ch4. Cânt eu hadrodd i'r Cabinet i'w cymeradwyo i'w hystyried ar 16/04/18 ar gyfer eu defnyddio mewn penderfyniadau rheoli datblygu ochr yn ochr â'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) mabwysiedig.<br><br>Cafwyd oedi gyda'r CCA Ynni Adnewyddadwy oherwydd adnoddau staff a blaenoriaethu'r CCA eraill a restrir uchod. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddwyn ymlaen i raglen waith flwyddyn nesaf. |

**Gweithrediad Cynllun Corfforaethol ER9: Gweithredu Cynllun Trafnidiaeth Leol i wella hygyrchedd, diogelwch y ffyrdd ac ansawdd yr aer a lleihau tagfeydd.**

| Gweithrediad Cynllun Gwasanaeth | % a gwblhawyd | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| VS/A058: Darparu gwelliannau mynediad i'r Murch (trwy bont). | 75% | C | ↔ | Ataliodd pwysau adnoddau y gwaith rhag symud ymlaen i dendro er mwyn caffael y contractwr arbenigol angenrheidiol i ymgymryd â'r project hwn. Bydd y broses dendro bellach yn cael ei hadolygu a'i chwblhau yn y flwyddyn ariannol nesaf. |

**Gweithrediad Cynllun Corfforaethol ER15: Adolygu a gweithredu Cynllun Rheoli Carbon y Cyngor a thargedau gostwng lefel allyriadau goleuadau stryd, cerbydau ac adeiladau'r cyngor.**

| Gweithrediad Cynllun Gwasanaeth | % a gwblhawyd | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| FS/A005: Cwrdd â'n hymrwymiadau o dan y cynllun Effeithlonrwydd Ynni CRC a chyflawni ardystiad blynyddol. | 96% | C | ↔ | Er bod adroddiad CRC wedi ei gyflwyno mewn da bryd yn chwarter 2, ni ellir ystyried bod y broses CRC eto'n gyflawn hyd nes y cyhoeddir yr adroddiad archwilio blynyddol, ac ar hyn o bryd mae'n parhau gydag Archwilio i'w gwblhau. Byddwn yn parhau i weithio i fodloni ein hymrwymiadau o dan y cynllun effeithlonrwydd ynni a chyflawni achrediad blynyddol yn y flwyddyn ariannol nesaf. |
| FS/A008: Gweithredu'r Cynllun Rheoli Carbon. | 70% | C | ↔ | Mae Cynllun Rheoli Carbon drafft yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd. Yn ystod y flwyddyn ymrwymodd y Cyngor i'r rhaglen Re:Fit (gwella effeithlonrwydd ynni) a fydd yn effeithio'n gadarnhaol ar allyriadau carbon y Cyngor. Bellach, mae mentrau cynlluniedig wedi'u hadlewyrchu yn y cynllun Rheoli Carbon drafft a bydd y gwaith yn cychwyn yn ystod 2018/19. |

**Gweithrediad Cynllun Corfforaethol ER16: Adolygu a gweithredu Strategaeth Lleihau Gwastraff ac ail-lunio seilwaith ein rheolaeth wastraff i annog defnydd o'r gwasanaeth ailgylchu, lleihau cynnydd mewn gwastraff trefol a chyrraedd targedau cenedlaethol.**

| Gweithrediad Cynllun Gwasanaeth | % a gwblhawyd | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| VS/A062: Gweithredu arbedion cerbydau sy'n gysylltiedig â rowndiau casglu rheoli gwastraff. | 90% | C | ↑ | Gosodwyd tabledi newydd mewn-caban ar gerbydau casglu ond cafwyd oedi gyda'r data sydd ei angen i drosi'r rowndiau presennol, gan ei fod wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl. Disgwylir i'r caledwedd a'r newidiadau llwybr fod yn fyw ym mis Gorffennaf 2018. Bydd y gwaith hwn i adolygu newidiadau rheoli gwastraff yn helpu i gyflenwi arbedion cerbydau a lleihau allyriadau. |
| VS/A065: Ystyried gweithredu gorchmynion rheoli cŵn. | 75% | C | ↔ | Bwriedir i'r Gorchmynion Amddiffyn Gofod Cyhoeddus (PSPO) mewn perthynas â rheoli cŵn fynd i ymgynghoriad cyhoeddus y mis nesaf a rhagwelir y bydd y gorchmynion yn cael eu gweithredu yn hwyr yn yr haf/ yn gynnar yn yr hydref. Byddai gweithredu gorchmynion rheoli cŵn yn helpu i wella'r amgylchedd ar gyfer trigolion ac ymwelwyr a lleihad mewn troseddau baeddu cŵn. |

## 1.5.3. Amcan 3: Hyrwyddo gwaith adfer, twf economaidd a chyflogaeth

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn Wirioneddol 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn Wirioneddol 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| CPM/078: Cyfradd siopau gwag cyfartalog ym mhrif ganol trefi'r Fro. | 8.2 | 8.83 | 6.3 | ↓ | Mae'r gyfradd siopau gwag cyfartalog o 8.83 yn ganlyniad siomedig, fodd bynnag, dengys ystadegau cyhoeddedig bod hyn yn parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru o 12.5. Mae'r Cyngor yn gwella ei ddeialog gyda masnachwyr a bydd mentrau newydd yn cael eu hystyried dros y blynyddoedd nesaf. Er enghraifft, cynghorir masnachwyr yn y Barri ynghylch potensial Ardal Gwella Busnes, a fyddai'n dod ag adnoddau newydd i'r canol. |

### 1.5.4. Amcan 4: Hyrwyddo datblygu cynaliadwy a diogelu'n hamgylchedd

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn Wirioneddol 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn Wirioneddol 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| CPM/016: Canran yr achosion o dipio anghyfreithlon a adroddir sy'n arwain at weithgarwch gorfodi. | 31.76% | 6.8% | 30% |  | Mae hyn wedi parhau'n isel trwy gydol y flwyddyn oherwydd y math o wastraff sy'n cael ei dipio'n anghyfreithlon, a'r ffaith ei fod anodd dros ben dal troseddwyr lle nad oes tystiolaeth y gellir ei olrhain. Er mwyn gwella'r dangosydd hwn, archwilir technoleg newydd fel CCTV yn y flwyddyn ariannol hon. |
| CPM/154: Canran o oleuadau stryd y Cyngor sy'n LED. | 33% | 33.65% | 65% |  | Yn dilyn proses dendro drwyadl, mae Urbis Screder Ltd wedi eu contractio i gyflenwi llusernau LED ar gyfer uwchraddio cymeradwy yr holl lusernau preswyl i LED. Dylai'r gwaith hwn gael ei gwblhau erbyn diwedd Mehefin 2018. |
| CPM/006: Y newid canrannol yn y sgôr Tystysgrif Ynni i'w Harddangos (DEC) ar gyfartaledd o fewn adeiladau cyhoeddus awdurdodau lleol dros 1,000 o fetrau sgwâr. | 4.3% | 0.5% | 3% |  | Dengys cymhariaeth o gyfradd gyfartalog tystysgrif ynni i'w harddangos i'n hadeiladau dros 1000m² a gynhyrchwyd yn 2017-18 yn erbyn 2016-17 welliant o 0.5% o 71.7 i 71.3. |

# Deilliant 3: Bro Uchelgeisiol a Diwylliannol Fywiog

### 1.6.1. Amcan 5: Codi safonau cyrhaeddiad yn gyffredinol

**Gweithrediad Cynllun Corfforaethol AC2: Sicrhau gwell ganlyniadau i grwpiau o ddysgwyr sydd mewn perygl o danberfformio, megis y rhai sy'n gymwys i gael cinio ysgol am ddim.**

| Gweithrediad Cynllun Gwasanaeth | % a gwblhawyd | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| SI/A018: Gweithredu argymhellion allweddol Llywodraeth Cymru ac ESTYN mewn perthynas â gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. | 80% | C |  | Er y gweithredwyd llawer o argymhellion Llywodraeth Cymru ac ESTYN fel y nodwyd, mae'r sefyllfa yn parhau i fod yn ddigyfnewid o ran y camau sy'n weddill, gan fod angen i'r strategaeth a'r polisi fynd drwy'r Panel Rhianta Corfforaethol. Bydd y Panel Rhianta Corfforaethol yn eistedd yn Nhymor yr Haf pryd y bydd y strategaeth ar yr agenda. Mae alinio rheolaeth systemau gwybodaeth yn gwella ac mae angen |

| Gweithrediad Cynllun Gwasanaeth | % a gwblhawyd | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | mwy o hyfforddiant a bwriedir ymgymryd â hynny yn Nhymor yr Haf. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddwyn ymlaen i 2018/19 fel amlinelliad dan AA/A005 yn y Cynllun Gwasanaeth Cyflawniad i Bawb. |

**Gweithrediad Cynllun Corfforaethol AC6: Gweithredu Fframwaith Cenedlaethol Canlyniadau'r Gwasanaeth Ieuenctid i sicrhau bod pobl ifanc (11–25 oed) yn cael mynediad i wasanaethau cefnogi ieuenctid o safon.**

| Gweithrediad Cynllun Gwasanaeth | % a gwblhawyd | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| SI/A024: Ailstrwythuro'r Gwasanaeth Ieuenctid i gynnig gwell gwasanaeth i bobl ifanc yn unol â Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaeth Ieuenctid. | 85% | C | ↑ | Cymerodd ymgysylltu â staff ar y strwythur gwasanaeth symlach â ffocws newydd fwy na'r 30 diwrnod a ragwelwyd ac o ganlyniad bydd ailstrwythuro llawn yn digwydd yn chwarter 1 2018, fel yr amlinellwyd dan AA/A010 yn y Cynllun Gwasanaeth Cyflawniad i Bawb. Derbyniwyd rhai mynegiadau o ddiddordeb wrth ddatblygu grwpiau ieuenctid cymunedol a bydd y rhain hefyd yn cael eu harchwilio yn chwarter 1 2018. |

**Gweithrediad Cynllun Corfforaethol AC8: Symud y cynllun moderneiddio ysgolion yn ei flaen drwy gwblhau Cymuned Ddysgu newydd Llanilltud Fawr a datblygu cynigion ar gyfer darpariaeth ysgolion uwchradd yn y Barri.**

| Gweithrediad Cynllun Gwasanaeth | % a gwblhawyd | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| SL/A020: Cwblhau gwaredu asedau fel safle ysgol Eagleswell (Ysgol Y Ddraig). | 80% | C | ↑ | Mae cwblhau gwaredu safle Eagleswell wedi llithro wrth i dîm project y Cyngor ac asiantau marchnata barhau i gymryd rhan mewn trafodaethau cymhleth parhaus gyda'r Cynigydd a Ffefrir ynghylch y gwaredu yn dilyn ymlaen o'r materion a adroddwyd yn chwarter 3. Bydd gwaredu asedau cyn-ysgol allweddol yn Eagleswell yn parhau i fod yn ffocws asedau i'r gwasanaeth yn 2018/19. |

## 1.6.2. Amcan 6: Gwerthfawrogi diwylliant ac amrywiaeth

**Gweithrediad Cynllun Corfforaethol AC10: Cynyddu ein gwybodaeth am anghenion amrywiol y gymuned er mwyn rhoi gwell mynediad i wasanaethau'r Cyngor i'r grwpiau o bobl sydd wedi eu gwarchod gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.**

| Gweithrediad Cynllun Gwasanaeth | % a gwblhawyd | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| BM/A034: Cynnal Peilot Panel Ymgysylltu Dinasyddion ar gyfer pobl ag anghenion gofal a | 75% | C | ↑ | Mae'r gwaith hwn yn cael ei godi drwy'r Grŵp Llywio Rhanbarthol ac mae wedi dioddef oherwydd diffyg capasiti i ganolbwyntio ar y maes hwn. Rydym yn |

| Gweithrediad Cynllun Gwasanaeth | % a gwblhawyd | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| chymorth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. | | | | cydnabod yr angen i fuddsoddi yn y maes hwn i sicrhau ei fod yn gam allweddol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf fel yr amlinellir dan RM/A006 yng Nghynllun Gwasanaeth Rheoli a Diogelu Adnoddau 2018/19. Nodwyd yr adnoddau trwy'r Grant Cyflawni'r Agenda Drawsnewid (DTG) i gefnogi symud y maes hwn ymlaen. |
| SRS/A013: Gwella data monitro cydraddoldeb o fewn SRS i alluogi penderfyniadau mwy gwybodus ynghylch cyflenwi gwasanaethau. | 75% | C | | Mae'r SRS yn adolygu'r holl fecanweithiau ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth i alluogi gwneud penderfyniadau mwy gwybodus. Llithrodd y llinell amser a nodir yng Nghynllun Busnes SRS, a bydd y gwaith hwn yn cael ei gynnwys fel rhan o'r adroddiad Blynyddol i Gynghorau partner SRS. Mae'r cynnydd wedi llithro wrth i integreiddio'r dulliau casglu data presennol gymryd mwy o amser nag a ragwelwyd, ac nad oes adnoddau ychwanegol ar gael i'w neilltuo i'r gwaith hwn. |
| RP/A076: Adnabod safle ar gyfer Sipsiwn. a Theithwyr mewn ymgynghoriad â'r Grŵp Sipsiwn-Teithwyr. | 80% | C | | Mae'r Bwrdd Project Sipsiwn a Theithwyr yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd, ac mae'n gweithio tuag at nodi safle addas i ddiwallu'r angen a nodwyd. Bydd y gwaith hwn yn parhau i 2018/19 fel yr amlinellir yn y Cynllun Gwasanaeth Adfywio a Chynllunio. |

## AC12: Gweithredu'r Safonau Iaith Gymraeg i wella mynediad at wasanaethau a gwybodaeth.

| Gweithrediad Cynllun Gwasanaeth | % a gwblhawyd | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| HS/A047: Sicrhau bod cyflenwi gwasanaethau yn cydymffurfio â safonau'r iaith Gymraeg. | 85% | C | | Mae'r holl ddogfennau sydd ar gael i'r cyhoedd yn cydymffurfio â Safon yr Iaith Gymraeg. Nodwyd ateb TGCh ar gyfer y porth cwsmer gyda meddalwedd cyfieithu addas, ac mae hwn wedi ei gaffael. Rydym yn gweithio nawr gyda'r cyflenwr ar ei osod, a disgwylir i hyn gymryd tua chwe mis. Rhagwelir y bydd yr ateb iaith Gymraeg yn gwbl weithredol ym mis Medi 2018 ar gyfer bob sianel mynediad cwsmeriaid. Llithrodd y cynnydd gan fod y porth sy'n wynebu'r cwsmer angen ateb cyfieithu Cymraeg pwrpasol, ac roedd hyn angen amser ychwanegol sylweddol i'w ganfod, ei gaffael a'i gomisiynu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â phrotocolau diogelwch TG y Cyngor. |

## 1.6.3. Amcan 5: Codi safonau cyrhaeddiad yn gyffredinol

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn Wirioneddol 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn Wirioneddol 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| CPM/092 (PAM/006): Canran disgyblion blwyddyn 11 sy'n cyrraedd trothwy lefel 2 gan gynnwys gradd TGAU A*-C mewn Saesneg, neu Iaith Gyntaf Cymraeg a Mathemateg mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol. | 67.06% | 60.4% | 69.90% |  | Mae perfformiad yn y dangosydd L2+ wedi gostwng 6.7pc i 60.4% ond mae'n parhau i fod yr uchaf yng Nghonsortiwm Canolbarth y De (CSC) ac yn uwch na chyfartaledd Cymru o 54.6%. Fodd bynnag, fe wnaeth perfformiad y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (eFSM) ostwng yn sydyn ac mae'r bwlch wedi ehangu o 25.2pc i 35.8pc. Yn gyffredinol, mae Bro Morgannwg yn y pedwaredd safle o'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill yn y dangosydd allweddol hwn. |
| CPM/041: Canran y disgyblion FSM ym mlwyddyn 11, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd drothwy lefel 2 gan gynnwys graddau TGAU A*-C mewn Saesneg, Cymraeg Iaith Gyntaf a Mathemateg. | 42.70% | 27.89% | 47.10% |  | Oherwydd y newid yn y mesurau perfformiad yn CA4, bu gostyngiad cenedlaethol yn L2+ ac yn arbennig, y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (eFSM). Er bod perfformiad 2017 yn y dangosydd hwn wedi gostwng o -6.7pc, mae'r awdurdod wedi cynnal ei safle uwchlaw'r Cyfartaledd Cenedlaethol ar y dangosydd hwn, er bod y bwlch rhwng eFSM a disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (nFSM) yn ehangach yn y Fro nag yn genedlaethol. |
| CPM/042: Canran y disgyblion nad ydynt yn FSM ym mlwyddyn 11, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd drothwy lefel 2 gan gynnwys graddau TGAU A*-C mewn Saesneg, Cymraeg Iaith Gyntaf a Mathemateg. | 70.43% | 65.49% | 73.90% |  | Oherwydd y newid yn y mesurau perfformiad yn CA4, bu gostyngiad cenedlaethol yn L2+ er nad oedd y gostyngiad ar gyfer disgyblion nad oeddent yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (disgyblion nFSM) mor fawr â'r disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (disgyblion eFSM). |
| CPM/168b: Canran disgyblion blwyddyn 11 sy'n | 3.78% | 3.16% | 4.80% |  | Roedd hyn yn siomedig iawn ac yn ostyngiad cyffredinol ac yn anffodus, mae'r bwlch |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn Wirioneddol 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn Wirioneddol 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| ennill 5 TGAU neu ragor ar raddau A* i A ar gyfer: b) FSM | | | | | rhwng perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (eFSM) a disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (nFSM) wedi cynyddu ar y dangosydd hwn. Mewn 6 allan o 8 ysgol, ni chafodd yr un disgybl eFSM 5 gradd A* -A. |
| CPM/168d: Canran disgyblion blwyddyn 11 sy'n ennill 5 TGAU neu ragor ar raddau A* i A ar gyfer: d) Plant sy’n derbyn gofal (LAC) | 0% | 0% | 12.50% | | Mae hyn yn ymwneud â charfan fach o ddisgyblion ac rydym yn parhau i weithio gyda chydweithwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol i gefnogi a darparu cyfleoedd i bobl ifanc wella lefelau cyrhaeddiad. |
| CPM/049: Canran yr holl ddisgyblion (gan gynnwys LAC) mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan ALl ym mlwyddyn 11 sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu yn y gwaith heb gymhwyster allanol cymeradwy. | 0.39% | 0.36% | 0% | | Yn ystod y flwyddyn academaidd hon, gadawodd 5 disgybl addysg orfodol heb gymhwyster allanol cymeradwy, ac nid ydynt yn parhau mewn addysg, hyfforddiant na dysgu seiliedig ar waith. |

### 1.6.4. Amcan 6: Gwerthfawrogi diwylliant ac amrywiaeth

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn Wirioneddol 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn Wirioneddol 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| CPM/072: Cyflymder ateb cyfartalog ar gyfer galwadau ar y llinell Gymraeg (eiliadau). | 35 eiliad | 77 eiliad | 60 eiliad | | Er y methwyd y targed am y flwyddyn, perfformiodd y llinell yn well na'r ganolfan gyswllt, a oedd â chyflymder ateb cyfartalog o 123 eiliad. Derbyniodd y llinell gyfanswm o 998 o alwadau yn ystod y flwyddyn. Cafwyd y perfformiad hwn oherwydd y dygwyd ymlaen gyfradd swyddi gwag uchel er mwyn bodloni targedau arbedion gwasanaeth, cynnydd |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn Wirioneddol 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn Wirioneddol 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | tymhorol yn y galw a lefelau uchel o salwch tymor byr oherwydd annwyd a ffliw yn Ch4. Rhagwelir y bydd yr oedi cyn ateb sy'n sylweddol hwy na’r perfformiad hanesyddol yn parhau i 2018/19, a hyd nes y gellir cyflenwi newid sianel sylweddol o ffôn i hunanwasanaeth ddigidol. Mae'n debygol y bydd effeithlonrwydd gweithredol yn cael ei wella yn Ch3 2018/19 gyda gweithredu technoleg canolfan gyswllt newydd a fydd yn hwyluso dull sianel gyfunol. |
| CPM/051 (PAM/016): Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth. | 5,217.34 | 4,901 | 5,700 |  | Ni chyrhaeddodd y gwasanaeth llyfrgell y targed ffigurau ymwelwyr mewn unrhyw chwarter yn ystod y flwyddyn, ac mae wedi gostwng 5% dros y flwyddyn flaenorol. Mae hwn yn nifer sylweddol am un flwyddyn. Amharwyd ar y flwyddyn oherwydd uwchraddio sylweddol ar y system gyfrifiadurol, a olygai nad oedd catalog y llyfrgell ar gael am rai misoedd, a chafwyd amhariad pellach oherwydd nad oedd y peiriannau hunanwasanaeth poblogaidd yn gweithio yn ystod y gwaith trosi. Bydd yr elfennau hyn i gyd wedi cyfrannu at i lawer o bobl benderfynu peidio ag ymweld â’r llyfrgell, a’r un pryd, ni allai cwsmeriaid archebu llyfrau i’w cadw iddynt na chanfod gwybodaeth am lyfrau newydd. Hefyd yn ystod y flwyddyn sefydlwyd rhai llyfrgelloedd cymunedol ac mae'n debyg na chafodd llawer o ymweliadau eu cofnodi yn y llyfrgelloedd cymunedol hyn am gyfnod, mater yr ymdriniwyd ag ef ers hynny. Ar nodyn cadarnhaol, lansiodd y gwasanaeth y cynllun |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn Wirioneddol 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn Wirioneddol 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | mynediad allan o oriau, Open+, yn llyfrgell y Barri ym mis Mawrth ac edrychir ymlaen at y lansiad swyddogol ym mis Ebrill 2018. Bydd hyn yn dod â mwy o bobl dros y trothwy a gwelir dros amser a yw hyn yn gwrthbwyso'r gostyngiad mewn cwsmeriaid yn ystod oriau agor. |
| CPM/053: Nifer y llyfrau a roddwyd i gwsmeriaid yn y Gymraeg. | 9,755 | 9,935 | 11,093 | ↑ | Roedd y materion chwarterol ar gyfer eitemau yn y Gymraeg wedi eu gwasgaru'n weddol gyfartal dros y flwyddyn. Fodd bynnag, mae'r nifer fach o eitemau a roddwyd yn golygu y gall newidiadau bach gael effaith gyffredinol fawr. Roedd y gwasanaeth yn brin o fwy na 9 wythnos o fenthyciadau, ac wrth edrych yn ôl, mae'r targed yn edrych yn afrealistig. Mae'r DP wedi'i ddileu ar gyfer 2018/19 ac fe'i disodlwyd gan gyflawniad safonau llyfrgell Cymru sy'n rhoi adlewyrchiad gwell o berfformiad y gwasanaeth llyfrgell, ac sy'n cynnwys darpariaeth yn y Gymraeg. Mae'r gwasanaeth llyfrgell yn ymrwymedig i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn ei wasanaethau, er enghraifft, trwy ddosbarthiadau Cymraeg a gynhelir mewn llyfrgelloedd a'r amseroedd Amser Stori rheolaidd ar gyfer plant a rhieni. |
| CPM/180: Canran o staff y Cyngor yn cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg i gynyddu dealltwriaeth o ddyletswyddau'r Cyngor o dan Safonau Iaith Gymraeg. | Amh. | 2.4% | 50% | Amh. | Yn wreiddiol, roeddem yn bwriadu darparu cwrs ar-lein a fyddai'n caniatáu i nifer fwy o staff gwblhau'r modiwl hyfforddi, fodd bynnag, canfuwyd bod hyn yn rhy ddrud. Yn lle hynny, darparwyd sesiynau ymwybyddiaeth iaith wyneb-yn-wyneb gan y cynllun Cymraeg Gwaith i staff yn dilyn eu hysbysebu ar |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn Wirioneddol 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn Wirioneddol 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Staffnet. Gohiriwyd y sesiwn olaf o dair oherwydd tywydd gwael a bydd yn digwydd yn awr ym mis Ebrill 2018. Mae ffigurau presenoldeb o'r 2 sesiwn a gynhaliwyd yn llwyddiannus eleni yn dangos bod 58 o bobl yn bresennol yn yr hyfforddiant. Bwriedir cynnal sesiynau pellach ar gyfer 2018/19 i gynyddu'r nifer o staff sy'n cwblhau'r hyfforddiant ymwybyddiaeth. |

# Deilliant 4: Bro Actif ac Iach

## 1.7.1. Amcan 7: Annog a hyrwyddo ffordd o fyw actif ac iach

### Gweithrediad Cynllun Corfforaethol AH1: Cydweithio mewn partneriaeth i gyflenwi amrywiaeth o weithgareddau yn ein hadnoddau hamdden a'n parciau i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol.

| Gweithrediad Cynllun Gwasanaeth | % a gwblhawyd | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| VS/A073: Uwchraddio gwifrau trydanol a'r cyfleusterau newid yng Nghanolfannau Hamdden y Barri a Phenarth. | 75% | C | | Parhaodd y gwaith ar uwchraddio'r systemau trydanol trwy gydol y flwyddyn gyda gwaith trydanol nawr wedi'i gwblhau'n llawn yn Llanilltud Fawr a'r Bont-faen. Dyfarnwyd y contract i'r Barri a Phenarth ac mae'r gwaith i'w gychwyn yn fuan. Cafodd y gwaith Ystafell Newid ei dendro fel cynllun i chwe sefydliad dewisol yn unol â gweithdrefnau caffael. Yn anffodus, dim ond un tendr a dderbyniwyd ac ni ystyriwyd hwn yn addas. Felly, mae ymarfer tendro agored newydd ar gyfer gwaith yr ystafell newid bellach ar wefan GwerthwchiGymru gyda dyddiad cau o 25 Mai 2018. Nawr mae'r gwaith i fod i ddechrau ym mis Mehefin 2018 yn amodol ar gyflwyno tendr derbyniol. Bydd y buddsoddiad parhaus mewn canolfannau hamdden gan gynnwys yr uwchraddiadau hyn yn parhau fel blaenoriaeth. |
| VS/A074: Cwblhau Strategaeth Hamdden i Fro Morgannwg. | 95% | C | | Paratowyd yr Adroddiad a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ond cafodd ei ohirio o ran ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Mawrth fel y cynlluniwyd yn wreiddiol. Achoswyd hyn gan amrywiaeth o faterion gan gynnwys yr angen i ymgynghori ar yr asesiad effaith cydraddoldeb (EIA), materion cyfieithu a sylwadau a dderbyniwyd gan bartneriaid |

| Gweithrediad Cynllun Gwasanaeth | % a gwblhawyd | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | y bu'n rhaid eu hystyried i'w cynnwys yn y strategaeth. Bellach mae'r ymatebion o'r ymgynghoriad wedi'u dadansoddi a'u defnyddio lle bo'n briodol er mwyn helpu i ddatblygu fersiwn derfynol o'r Strategaeth Hamdden. Bydd y Strategaeth yn awr yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet yn Chwarter 1 2018/2019. |

## 1.7.2. Amcan 8: Diogelu pobl fregus a hyrwyddo byw yn annibynnol

**Gweithrediad Cynllun Corfforaethol AH7: Gweithredu ffyrdd newydd o weithio yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a phwyslais arbennig ar weithdrefnau blaenoriaeth: darparu gwybodaeth, gwasanaethau cyngor a chymorth, cymhwysedd/asesiad anghenion, cynllunio a hyrwyddo gwasanaethau ataliol, y gweithlu a mesurau perfformiad.**

| Gweithrediad Cynllun Gwasanaeth | % a gwblhawyd | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| CS/A016: Cynyddu tryloywder y broses gofal iechyd parhaus a cheisio cael aelodaeth awdurdod lleol ar y panel. | 75% | C | ↔ | Mae gwaith yn mynd rhagddo i gynyddu tryloywder yn yr ardal hon, gydag ymweliadau yn cael eu cynnal gyda rhanddeiliaid allweddol i lywio'r adolygiad i'r trefniadau Gofal Iechyd Parhaus (CHC) ar draws y rhanbarth a gwneud argymhellion i'w hystyried gan Gynghorau Bro Morgannwg a Chaerdydd a Bwrdd Iechyd y Brifysgol. Disgwylir canlyniadau'r adolygiad a gomisiynwyd ar y cyd gan Gynghorau Bro Morgannwg a Chaerdydd, ynghyd â Bwrdd Iechyd y Brifysgol (BIP). |

**Gweithrediad Cynllun Corfforaethol AH8: Gwella mynediad i wasanaethau iechyd a gofal drwy gynyddu cyflymder, symlrwydd a dewis ffyrdd o gael mynediad i wasanaethau.**

| Gweithrediad Cynllun Gwasanaeth | % a gwblhawyd | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| PD/A017: Parhau i edrych ar ffyrdd o wella opsiynau hunanwasanaeth a sicrhau bod ymholiadau cwsmeriaid yn cael eu datrys yn gyflym ac yn effeithiol yn unol â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. | 80% | C | ↑ | Lansiwyd ffurflen atgyfeirio ar-lein ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn ystod chwarter 1 eleni a chafodd gwefan y Cyngor ei hail-lunio i hyrwyddo defnydd y wefan Dewis fel y gall cwsmeriaid ddod o hyd i atebion i ddiwallu eu hanghenion eu hunain heb orfod cysylltu â'r cyngor. Ar gyfartaledd, mae 55% o ymholiadau i linell Gwasanaethau Oedolion yn C1V yn cael eu datrys heb angen am asesiad ffurfiol. Er bod hyn yn gyflawniad sylweddol, daliwyd y gwasanaeth yn ôl wrth ddarparu hyfforddiant pellach a darparu cefnogaeth goruchwylio a rheoli perfformiad oherwydd diffyg adnoddau. |
| PD/A018: Gweithio gyda'r Gwasanaethau Oedolion i adolygu a diwygio prosesau yn y Ganolfan Gyswllt Cwsmer (C1V) i gefnogi | 80% | C | ↑ | Ar gyfartaledd, mae 55% o ymholiadau i linell Gwasanaethau Oedolion yn C1V yn cael eu datrys heb angen am asesiad ffurfiol. Er bod hyn yn gyflawniad sylweddol, daliwyd y gwasanaeth yn ôl |

| Gweithrediad Cynllun Gwasanaeth | % a gwblhawyd | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| darparu cyngor a chymorth yn unol â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. | | | | wrth ddarparu hyfforddiant pellach a darparu cefnogaeth goruchwylio a rheoli perfformiad oherwydd diffyg adnoddau. |

**Gweithrediad Cynllun Corfforaethol AH9: Gweithio â phartneriaid i yrru'r broses o integreiddio gofal cymdeithasol oedolion ac iechyd cymunedol yn ei blaen.**

| Gweithrediad Cynllun Gwasanaeth | % a gwblhawyd | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| AS/A016: Datblygu prosesau cadarn i wella rhannu gwybodaeth rhwng partneriaid allweddol i alluogi pontio llyfnach rhwng y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc a'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Oedolion. | 75% | C | ↑ | Yn anffodus, mae'r swydd uwch nyrs CAMHS yn parhau yn wag ac felly ni ellir symud ymlaen y camau gweithredu o ran presenoldeb CAMHS mewn cyfarfodydd TRIG – cafodd y cyfarfod diweddaraf ei ganslo ar 23/04/18 oherwydd nad oedd gan CAMHS neb ar gael i'w cynrychioli.<br>Mae cynrychiolaeth Iechyd Meddwl yn TRIG yn parhau yn y Fro, i nodi pobl ifanc a fydd angen gofal iechyd meddwl a chymorth yn gynnar er mwyn sicrhau y cynhelir trosglwyddiadau meddygol/ gofal cymdeithasol priodol.<br>Cynhelir cyfarfodydd pontio ar y cyd ar draws Caerdydd a'r Fro bob mis i ddatblygu protocol pontio ar y cyd a fydd yn cynnwys cyfrifoldebau pob partner (gan gynnwys iechyd meddwl) o fewn y broses bontio. Bydd y gwaith hwn yn helpu i ddatblygu proses bontio symlach sy'n galluogi pontio fwy llyfn i bobl ifanc i wasanaethau iechyd meddwl i oedolion. |

**Gweithrediad Cynllun Corfforaethol AH16: Ymgymryd â chynllun blynyddol o arolygiadau wedi'u targedu at eiddo sy'n gweithredu'n fasnachol mewn maes a all effeithio ar bobl fregus (er enghraifft, cartrefi gofal a sefydliadau bwyd mewn ysgolion).**

| Gweithrediad Cynllun Gwasanaeth | % a gwblhawyd | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| SRS/A012: Lansio cynllun 'Prynu gyda Hyder' (masnachwr cyfrifol) ar draws y rhanbarth i roi tawelwch meddwl i drigolion wrth siopa neu ddewis crefftwr tra'n cefnogi busnesau dibynadwy gyda chymeradwyaeth 'Safonau Masnach a gymeradwywyd'. | 75% | C | ↔ | Golyga'r pwyslais ar y rhaglen arolygu yn ystod Chwarter 4 na fu'n bosib lansio'r cynllun Prynu gyda Hyder cyn diwedd 2017-18. Yn seiliedig ar ganlyniadau'r ymarfer peilot a gynhaliwyd, bydd y cynllun yn cael ei lansio cyn gynted ag y bo modd yn y flwyddyn ariannol 2018-19. Bydd y cynllun yn helpu i roi tawelwch meddwl i drigolion wrth siopa neu ddewis crefftwr, tra'n cefnogi busnesau dibynadwy gyda chymeradwyaeth. |

## 1.7.3. Amcan 7: Annog a hyrwyddo ffordd o fyw actif ac iach

Ni phriodolwyd Statws Coch i unrhyw fesurau ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer yr Amcan hwn.

## 1.7.4. Amcan 8: Diogelu pobl fregus a hyrwyddo byw yn annibynnol

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn Wirioneddol 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn Wirioneddol 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| CPM/057 (SSM/019) (PAM/025): Cyfradd yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu hŷn. | 2.59% | 2.85% | 2.5% | ↓ | Er gwaethaf yr heriau a wynebir gan y Timau Rheoli Gofal wrth hwyluso rhyddhau pobl â chymhlethdodau cynyddol, mae perfformiad yn gyson â 2016/17. |
| CPM/107: Canran y defnyddwyr gwasanaeth Cefnogi Pobl sy'n cadarnhau bod y gefnogaeth a gawsant wedi eu cynorthwyo i gynnal eu hannibyniaeth. | 96.15% | 82.93% | 100% | ↓ | Comisiynwyd y gwasanaethau cefnogi gan y Cyngor oddi wrth sefydliadau trydydd sector allanol. Derbyniwyd yr adborth hwn yn ystod yr adolygiadau gwasanaeth a gynhaliwyd gan y Tîm Cefnogi Pobl a chaiff yr holl sylwadau negyddol eu harchwilio a gwneir argymhellion ar gyfer unrhyw welliannau gwasanaeth angenrheidiol. Er mwyn ceisio gwella annibyniaeth cleientiaid bydd y gwaith o gwblhau'r argymhellion yn cael ei fonitro. Fodd bynnag, ni ddisgwylir i lawer o bobl fregus sy'n cael eu cefnogi allu dod yn gwbl annibynnol e.e. pobl hŷn a fydd yn parhau i fod angen cymorth i barhau i fyw gartref neu gleientiaid â chyflwr meddygol sy'n dirywio. |

# Iechyd Corfforaethol

## 1.8.1. Iechyd Corfforaethol

**Gweithrediad Cynllun Corfforaethol CP1: Cyflenwi rhaglen newid drawsnewidiol y Cyngor, Ail-lunio Gwasanaethau, i'w alluogi i ddiwallu anghenion dinasyddion Bro Morgannwg yn y dyfodol o fewn cyd-destun heriau ariannol nas gwelwyd o'r blaen.**

| Gweithrediad Cynllun Gwasanaeth | % a gwblhawyd | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| IT/F017: Mireinio'r Strategaeth TGCh ymhellach i sicrhau bod | 80% | C | ↑ | Eisoes roedd canlyniadau project yn ymwneud â'r Strategaeth Ddigidol wedi'u cymeradwyo gan y Bwrdd Project |

| Gweithrediad Cynllun Gwasanaeth | % a gwblhawyd | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| ganddi weledigaeth ac amcanion clir y gellir eu halinio i'r Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau ac sy’n ein galluogi i gyflawni ein rôl fel galluogydd corfforaethol. | | | | Digidol ac mae arweinwyr thema ddigidol yn datblygu Cynlluniau Gweithredu. Unwaith y bydd y rhain wedi'u cwblhau, byddant yn manylu ar y gofynion busnes y bydd angen rhoi cyfrif amdanynt yn y Strategaeth TGCh wedi'i diweddaru. Mae'r 'Cynlluniau Gweithredu' Digidol yn dal i gael eu mireinio a bydd y strategaeth TGCh yn cael ei diweddaru pan gaiff y rhain eu cymeradwyo. Mae'r Strategaeth Ddigidol i fod i gael ei lansio’n swyddogol i staff yn Ch1 2018/19. |
| IT/F021: Cyflawni'r arbedion angenrheidiol o £400k ar gyfer y Gwasanaeth TGCh yn 2017/18. | 80% | C | ↑ | Parha'r weithred hon i fod yn her fawr i'r gwasanaeth. Hyd yma, mae cyfrifwyr eto i gadarnhau'r ffigwr diffygion gwirioneddol ond bydd y gwaith yn parhau yn 2018/19 i gyflawni'r arbedion angenrheidiol. Mae gwaith yn parhau i gael ei gynnal i adolygu'r holl gontractau o fewn y gwasanaeth i sicrhau bod y gwasanaeth yn dal yn ofynnol a'r costau'n rhesymol. |
| SL/F026: Gweithredu ailstrwythuro'r timau Strategaeth ac Adnoddau yn unol â'r model gwasanaeth a gytunwyd ar ôl ail-lunio. | 90% | C | ↑ | Bellach mae’r ailstrwythuro bron wedi'i gwblhau i’r maes gwasanaeth hwn. Mae peth recriwtio i'w gwblhau er mwyn creu’r tîm Ysgolion yr 21ain Ganrif a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Ionawr 2018. Oherwydd cyngor recriwtio mewn perthynas â recriwtio hyfforddeion, bydd hyn yn digwydd yn chwarter 2 2018/19. |
| SL/F037: Cyflwyno cardiau credyd i ysgolion. | 15% | C | ↑ | Ni all cyllid canolog ond hwyluso cyflwyno 6 ysgol ar y tro trwy beilot, sy'n gohirio cyflwyno’r cardiau credyd i ysgolion. Mae'r broses ymuno yn un hir, sydd hefyd wedi achosi oedi o ran y nifer a fanteisiodd ar y cynllun. Ar hyn o bryd, dim ond 3 ysgol sydd wedi'u llofnodi'n llwyr i’r cynllun, ond mae 4 arall yn cael eu gweinyddu ar hyn o bryd a byddant yn eu lle erbyn Ebrill 2018. Mae oedi o ran cael adrannau eraill i gytuno ar y cynllun wedi oedi'r project cyfan, a fydd nawr yn llithro’i mewn i'r flwyddyn ariannol nesaf. |

**Gweithrediad Cynllun Corfforaethol CP2: Alinio'r Cynllun Gweithlu i'r Strategaeth Ail-lunio Gwasanaethau, gan sicrhau bod gan staff y sgiliau a'r hyfforddiant angenrheidiol i addasu i'r newidiadau yn y modd y caiff gwasanaethau eu cynllunio a'u cyflenwi.**

| Gweithrediad Cynllun Gwasanaeth | % a gwblhawyd | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| CS/W011: Archwilio opsiynau ar gyfer cynllunio olyniaeth mewn perthynas yn arbennig â'r oedran 55-64. | 50% | C | ↑ | Ar hyn o bryd mae'r Adran yn ymwneud â dwy broses gysylltiedig - un gyda ffocws ar ddatblygu gwasanaethau a chynnig i wneud newidiadau i strwythur rhai timau, a dau, i ymestyn ein recriwtio |

| Gweithrediad Cynllun Gwasanaeth | % a gwblhawyd | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | i swyddi gwag presennol. Mae'r gwaith hwn yn anochel yn cynnwys ffocws ar gynllunio olyniaeth. Bydd rhagor o waith i archwilio opsiynau ar gyfer cynllunio olyniaeth yn parhau yn 2018/19 fel yr amlinellir yn y Cynllun Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc. |
| CS/W014: Gweithio gyda Hyfforddiant a Datblygu Corfforaethol i wella sgiliau Staff Cymorth Busnes. | 75% | C | ↑ | Fel rhan o'i waith datblygu gwasanaeth cyfredol, mae'r Isadran wedi ystyried y strwythur ar gyfer cymorth busnes gyda'r bwriad o gynyddu capasiti ac i ychwanegu unrhyw haen ychwanegol. Bydd hyn yn cynyddu gwydnwch ac yn ymateb i'r heriau presennol wrth gyflawni'r cymysgedd o sgiliau perthnasol. Bydd recriwtio i'r swyddi ychwanegol hyn yn digwydd yn Ch1, 2018/19, |

**Gweithrediad Cynllun Corfforaethol CP6: Adolygu fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor a rhoi system rheoli perfformiad newydd ar waith, gan ystyried dangosyddion a cherrig milltir Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).**

| Gweithrediad Cynllun Gwasanaeth | % a gwblhawyd | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| PD/F033: Caffael system rheoli perfformiad newydd. | 30% | C | ↑ | Gwnaethpwyd gwaith sylweddol yn ystod y flwyddyn i gynhyrchu'r adroddiadau perfformiad yn y fformat newydd diwygiedig. Trwy wneud hynny mewn partneriaeth â'r gweithgor aelodau, galluogwyd y tîm i ddynodi gofynion system rheoli perfformiad newydd. Drafftiwyd manyleb, a chynigir bod y system newydd hon yn cael ei chaffael yn y flwyddyn ariannol newydd. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn Wirioneddol 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn Wirioneddol 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| CPM/019 (PAM/001): Nifer y diwrnodau/shifftiau gwaith y gweithiwr awdurdod lleol cyfwerth ag amser llawn (CALl) a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch. | 8.8 | 10.14 | 8.90 | ↓ | Parha'r gwaith i adrodd am absenoldeb salwch yn fisol i Uwch Reolwyr a Meysydd Gwasanaeth. Gweithredwyd trefniadau i gylchu absenoldeb salwch ac unrhyw gamau gofynnol i reolwyr perthnasol lle mae gweithwyr wedi ysgogi sbardun, a fydd yn cefnogi cydymffurfiaeth a chysondeb cymhwyso'r polisi.<br><br>Dengys ffigurau Ch4 bod perfformiad absenoldeb yn 10.14 diwrnod cyfwerth ag amser llawn (CALl) sy'n |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn Wirioneddol 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn Wirioneddol 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | sylweddol uwch na tharged Ch4 o 8.90 diwrnod fesul CALl. |
| CPM/215: Gwariant yn erbyn rhaglen gyfalaf gymeradwy y Cyngor. | 84% | 86% | 100% | | Adroddwyd am y gwariant gwirioneddol yn erbyn y rhaglen Gyfalaf a gymeradwywyd ar 31 Mawrth 2018 i'r Cabinet ar 2 Gorffennaf 2018. Dengys hyn mai'r sefyllfa gyffredinol yn Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig 2017/18 oedd amrywiad o £7.071m. Er mwyn caniatáu i reolwyr project gael cyllidebau cyfalaf a gymeradwywyd yn llawn, cymeradwywyd llithriad cyfalaf o 2017/18 i 2018/19 trwy Bwerau Argyfwng y Rheolwr Gyfarwyddwr. |
| CPM/216: Perfformiad yn erbyn targedau arbedion. | 94% | 75% | 100% | | Llwyddodd y gwasanaethau i ddod o hyd i arbedion gwerth £2.998m sef 75% o'r targed gofynnol gyda diffyg o £1,019,000. Cyflawnwyd rhai o'r arbedion trwy wahanol ffyrdd i'r hyn a gynlluniwyd. |
| CPM/217: Perfformiad yn erbyn targedau Ail-lunio Gwasanaethau cytunedig. | 86% | 70% | 100% | | Cyflawnwyd 70% o'r arbedion ar gyfer Ail-lunio Gwasanaethau eleni gyda £2,326m yn cael ei arbed yn erbyn y targed blwyddyn lawn o £3,345m. Byddwn yn parhau i weithio tuag at gyflawni arbedion trwy barhad y project Ail-lunio Gwasanaethau. |
| CPM/221: Nifer yr asedau a drosglwyddir i'r gymuned. | 3 | 0 | 1 | | Ni chafwyd unrhyw CAT (Trosglwyddiad Asedau Cymunedol) ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Ystyriwyd adroddiad mewn perthynas â dau gais cam 2 gan y Cabinet ar 26 Mawrth 2018 yn amlinellu'r ceisiadau a dderbyniwyd a thrafodaethau cysylltiedig yn y Bwrdd Cipolwg. |
| CPM/231: Nid yw'r cyflymder ateb cyfartalog ar gyfer galwadau sy'n dod i mewn i'r Ganolfan | Amh. | 123 eiliad | 60 eiliad | Amh. | Mae perfformiad wedi amrywio'n sylweddol trwy gydol y flwyddyn gyda'r amser aros cyfartalog byrraf o 50 eiliad ym Medi 2017 a'r hiraf o |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn Wirioneddol 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn Wirioneddol 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| Gyswllt Cwsmeriaid yn fwy na 60 eiliad. | | | | | 297 eiliad ym mis Ionawr 2018. Gwelwyd yr amseroedd aros hiraf yn Chwarter 4, sef cyfartaledd o 266 eiliad. Roedd hyn oherwydd bod y gwasanaeth yn cario cyfradd swyddi gwag uchel er mwyn bodloni targedau arbedion gwasanaeth, cynnydd tymhorol yn y galw a lefelau uchel o salwch tymor byr oherwydd annwyd a ffliw. Rhagwelir y bydd oedi cyn ateb sy'n sylweddol hwy na pherfformiad hanesyddol yn parhau i 2018/19, hyd nes y gellir cyflawni shifft sianel sylweddol o ffôn i hunanwasanaeth ddigidol. Mae'n debygol y bydd effeithlonrwydd gweithredol yn cael ei wella yn Ch3 2018/19 gyda gweithredu technoleg canolfan gyswllt newydd, a fydd yn hwyluso dull sianel gyfun. |
| CPM/223: Canran y cwynion Corfforaethol yr ymdriniwyd â hwy o fewn graddfeydd amser targed. | 73.5% | 55.3% | 85% | ⬇ | Arhosodd perfformiad yn wastad yn ystod Ch3 (56.65%) a Ch4 (55.3%). Atgoffwyd y gwasanaethau i sicrhau bod CRM yn cael ei ddiweddaru'n brydlon er mwyn sicrhau bod yr union berfformiad yn cael ei asesu'n gywir. O'r 135 o gwynion a fethodd y targed; methodd 50 o rhwng 1 a 5 diwrnod gwaith, methodd 33 o darged o 20 diwrnod neu fwy a methodd 1 gŵyn o 100 diwrnod. Dylid nodi bod cyfran o gwynion sy'n methu’r targed wedi gwneud hynny gyda chytundeb yr achwynydd er mwyn cyflawni ymchwiliad cyflawn a chywir. |
| CPM/086: Cyrhaeddiad dyddiol cyfartalog tudalen Facebook Bywyd Bro Morgannwg. | 5,086 | 1,318 | 15,900 | ⬇ | Gyda newidiadau algorithm diweddar Facebook, mae aelodau'r llwyfan bellach yn gweld llai o gynnwys cyhoeddus fel postio gan fusnesau, brandiau a chyfryngau. Gwelwyd gostyngiad enfawr yn ein |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn Wirioneddol 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn Wirioneddol 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | cyrhaeddiad postio er gwaethaf bod y nifer gyfartalog o diciau 'hoffi' a chyfran y post wedi para yr un fath. Mae hyn yn rhywbeth y mae'r Tîm Cyfathrebu yn parhau i'w fonitro. Ar ddiwedd y flwyddyn, nodwyd bod y targed wedi'i adrodd yn anghywir ac wedi ei osod yn rhy uchel ar gyfer 2017/18. Mae perfformiad chwarter 4 yn 1318 yn seiliedig ar gyfrifo 119,945 o gyraeddiadau/ 91 diwrnod am y cyfnod, gan nad yw'r DP hwn yn gronnus a dylid edrych ar bob chwarter yn unigol. Ar ddiwedd y flwyddyn methodd y perfformiad y targed ac adroddir statws COG coch. |
| CPM/073: Safle Sitemorse (safle ansawdd gwefannau) yng Nghymru. | 6ed | 11eg | 2il | ↓ | Yn yr adroddiad diweddaraf hwn, gwelwyd bod gynnydd o ran dolenni i wefannau allanol sydd wedi torri. Rhoddir mynediad i offer hygyrchedd CMS a gwirwyr cyswllt i'r Tîm Cyfathrebu i gywiro'r materion hyn. Mae llawer o'r gwefannau sy'n perfformio'n uchel wedi cwblhau adolygiadau ac ailgynllunio safleoedd yn ddiweddar. Cychwynnodd y Fro ar ei phroject Cwsmer Digidol i adolygu'r gwasanaethau ar-lein a gwella templedi a dylunio ar gyfer pob dyfais. Ar hyn o bryd, mae'r grŵp project yn rhedeg gweithdai wythnosol i wneud diweddariadau rheolaidd i safle'r Fro. |
| CPM/074: Safle Sitemorse (safle ansawdd gwefannau) yng Nghymru a Lloegr. | 106ed | 148fed | 10fed | ↓ | Yn yr adroddiad diweddaraf hwn, gwelwyd bod gynnydd o ran dolenni i wefannau allanol sydd wedi torri. Rhoddir mynediad i offer hygyrchedd CMS a gwirwyr cyswllt i'r Tîm Cyfathrebu i gywiro'r materion hyn. Mae llawer o'r gwefannau sy'n perfformio'n uchel wedi cwblhau |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn Wirioneddol 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn Wirioneddol 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | adolygiadau ac ailgynllunio safleoedd yn ddiweddar. Cychwynnodd y Fro ar ei phroject Cwsmer Digidol i adolygu'r gwasanaethau ar-lein a gwella templedi a dylunio ar gyfer pob dyfais. Ar hyn o bryd, mae'r grŵp project yn rhedeg gweithdai wythnosol i wneud diweddariadau rheolaidd i safle'r Fro. |

# ATODIAD B: CAMAU GWEITHREDU'R CYNLLUN GWASANAETH

**Amcan 1: Lleihau tlodi ac ynysu cymdeithasol**

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| **IS001** | | | | |
| PD/A001: Parhau i weithio gyda phartneriaid drwy'r grŵp 'Cael y Fro Ar-Lein' i wella mynediad a sgiliau digidol ar gyfer grwpiau sy'n fwyaf tebygol o brofi allgáu digidol. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Dibynna'r gwaith hwn ar gyflwyno gwell cynnig mynediad digidol. Nid yw hyn yn debygol o gael ei gyflawni mewn ffordd sylweddol tan fis Medi 2018. Fodd bynnag, bydd cyfleoedd hyfyw megis gwelliannau mewn prosesau Casglu Swmpus a chyflwyno nodiadau atgoffa Casglu Biniau yn rhoi cyfleoedd i brofi gweithgareddau a negeseuon marchnata amrywiol er mwyn asesu pa rai sy'n fwyaf effeithiol wrth newid ymddygiad cwsmeriaid. Gellir gweld manylion ar adegau a lleoedd lle darperir cefnogaeth ddigidol ar wefan y cyngor. |
| PD/A013: Hyrwyddo rôl Hyrwyddwyr Digidol fel gwirfoddolwyr allanol ledled y Fro. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae'r gwaith a wnaed â 'Cael y Fro Ar-Lein' i hyrwyddo a chefnogi Hyrwyddwyr Digidol wedi'i ymgorffori'n llawn erbyn hyn. Hysbysebir rôl yr hyrwyddwyr digidol, pwy sy'n gallu bod yn hyrwyddwr digidol, a'r manteision o fod yn hyrwyddwr digidol, i gyd ar wefan Cyngor y Fro. I ymuno fel hyrwyddwr, mae'n rhaid i wirfoddolwyr lenwi'r ffurflen fer sydd ar gael ar wefan y cyngor. Bydd y gofynion ar gyfer hyrwyddwyr digidol mewnol ac allanol yn cael eu hadolygu fel rhan o'r Strategaeth Ddigidol. |
| PD/A003: Hyrwyddo gwasanaethau ar-lein, hyfforddiant sgiliau digidol a chyfleoedd i gael mynediad at wasanaethau digidol. | 31/03/2018 | | | Dibynna'r gwaith hwn ar gyflwyno gwell cynnig mynediad digidol. Nid yw hyn yn debygol o gael ei gyflawni mewn ffordd sylweddol tan fis Medi 2018, pan ragwelir integreiddio pecynnau presennol ac ap symudol gyda'r CRM. Fodd bynnag bydd cyfleoedd hyfyw megis gwelliannau mewn prosesau Casglu Swmpus a chyflwyno nodiadau atgoffa Casglu Biniau yn rhoi cyfleoedd i brofi gweithgareddau a negeseuon marchnata amrywiol er mwyn asesu pa rai sy'n fwyaf effeithiol wrth newid ymddygiad cwsmeriaid. Bydd gwaith gyda'r ffocws hwn yn parhau i 2018/19, fel yr amlinellir yn y Cynllun Gwasanaeth Perfformiad a Datblygu. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| PD/A004: Monitro ac adrodd ar niferoedd a nodweddion y rhai sy'n mynychu cyrsiau hyfforddiant digidol. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae adrodd am nodweddion mynychwyr trwy bartneriaeth Cael y Fro Ar-Lein (GTVO) wedi ei wneud yn llwyddiannus ers i'r broses gael ei sefydlu ym mis Ionawr 2017. Mae nodweddion a gaiff eu monitro a gymerir o'r arolygon a gwblhawyd mewn sesiynau galw heibio yn cynnwys; statws perchennog cartref, ardal preswylio, rhyw, oedran a chyfyngiadau iechyd. Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd 167 o ddysgwyr 860 awr o hyfforddiant. Disgwylir gwybodaeth am nodweddion dysgwyr ar ddiwedd y flwyddyn gan Bartneriaeth GTVO. |
| PD/A014: Datblygu ymhellach e-ffurflenni CRM integredig. | 31/03/2018 | | | Derbyniwyd cymeradwyaeth gan y Bwrdd Rhaglen Ddigidol i integreiddio pecyn ffurflenni presennol ac ap symudol gyda CRM i wella'r defnydd o wasanaethau digidol y Cyngor. Mae cynllun y rhaglen bresennol yn nodi na fydd yr integreiddio yn cael ei gyflawni tan fis Medi 2018. Bydd gwaith i barhau i gyflwyno e-ffurflenni integredig ar gyfer CRM yn parhau fel yr amlinellwyd yn y Cynllun Gwasanaeth Perfformiad a Datblygiad 2018/19. |
| PD/A015: Ymestyn ein gwasanaeth Cysylltu UnFro (C1V) y Ganolfan Gyswllt Cwsmer i gynnwys ymholiadau Gwasanaeth Rheoleiddio ar y Cyd oddi wrth drigolion Caerdydd. | 31/03/2018 | 80 | Coch | Trosglwyddwyd nifer o wasanaethau i'r ganolfan gyswllt i gwsmeriaid (C1V) dros y flwyddyn, sef: Galwadau cyfrwng Cymraeg gan drigolion Caerdydd, galwadau rheoli llygredd gan drigolion Caerdydd. Mae materion adnoddau yn C1V wedi atal trosglwyddo gwasanaethau ymhellach o SRS yn ystod y chwarter olaf. O ganlyniad, mae amseroedd aros ar gyfer cwsmeriaid wedi bod yn hirach na'r hyn a gynlluniwyd, er bod profiad y cwsmer ar ôl siarad â swyddog galwadau wedi parhau'n dda. Mae'r cam hwn wedi'i ddwyn ymlaen i 2018/19. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| PD/A016: Cyfrannu at ddatblygiad Strategaeth Ddigidol gorfforaethol y Cyngor. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Ystyriwyd y Strategaeth Ddigidol 2017-2020 gan y Cabinet yn y cyfarfod ar 31 Gorffennaf 2017. Mae'r Strategaeth Ddigidol yn nodi'r cyfeiriad strategol ar gyfer datblygu gwasanaeth ac mae'n amlinellu ffyrdd newydd o weithio i'n staff a sut rydym yn gweithio gyda phartneriaid sy'n cofleidio technolegau digidol newydd i wella ein gwasanaeth i gwsmeriaid tra'n lleihau costau. Mae'r gweithgaredd a gynhaliwyd yn ystod chwarter 4 yn cynnwys adolygiad o gasgliadau swmpus ac atebion archebu ar-lein. Disgwylir i broses newydd yn cael ei lansio yn 2018/19 gyda phrofiad sylweddol well i'r cwsmer. Hefyd cymeradwywyd achos busnes i integreiddio'r Ap Symudol gydag Oracle CRM. Bydd hyn yn rhoi diweddariadau amser real i gwsmeriaid ar ymholiadau a materion sydd wedi'u hadrodd, a chyfathrebu gwell. Bydd y ffurflenni a ddefnyddir ar yr ap hefyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan y cyngor gan roi gwell swyddogaeth a chyfathrebu rhagweithiol gyda chwsmeriaid ynghylch materion a adroddir. Cychwynnodd project i weithredu'r gwasanaeth atgoffa casglu biniau trwy ddefnyddio'r dechnoleg bresennol. Bydd y gwasanaethau hyn yn cael eu gweithredu yn 2018/19. Hefyd cychwynnwyd adolygiad ehangach i wella prosesau ar-lein o farn cwsmeriaid. Golyga hyn gynnal diwrnodau digidol pwrpasol gyda gwasanaethau i nodi gwelliannau ac effeithlonrwydd posibl. Bydd y gwaith hwn yn parhau ymlaen i 2018/19. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| **IS002** | | | | |
| HS/A024: Mireinio Strategaeth Cynhwysiant Ariannol y Fro, wedi'i hysbysu gan Strategaeth Cynhwysiant Ariannol a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru a thystiolaeth leol newydd (Asesiad Llesiant). | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol yn cael ei rhedeg tan 2018. Fel rhan o waith parhaus i ddechrau gweithredu Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y Fro, mae'r Grŵp Cynhwysiant Ariannol, sydd â'r dasg o symud y strategaeth ymlaen, wedi rhoi'r gorau i gyfarfod. Noda'r Cynllun Llesiant ein pedwar amcan llesiant y bydd y BGC yn gweithio arnynt i wella llesiant ledled Bro Morgannwg. Un o'r amcanion hyn yw Lleihau tlodi ac ymdrin ag anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag amddifadedd. Gwneir gwaith ar hyn o bryd gyda phartneriaid i bennu'r strwythurau a'r mecanweithiau mwyaf priodol i gyflawni'r amcanion a'r camau a nodir yn y Cynllun. Er nad yw'r strategaeth a'r Grŵp Cynhwysiant Ariannol (FIG) bellach yn cael eu symud ymlaen, bydd llawer o agweddau ar ei waith yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Cyngor trwy'r Cynllun Llesiant, gyda grwpiau gorchwyl a gorffen yn cael eu sefydlu i ymdrin â materion penodol. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| HS/A025: Parhau â'n gwaith gyda phartneriaid i gyflawni'r amcanion a nodir yn y Strategaeth Cynhwysiant Ariannol. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Drwy gydol y flwyddyn rydym wedi parhau gyda'r cynllun soffa ac wedi cael ymateb ardderchog. Rydym wedi cynorthwyo 58 o deuluoedd i gael soffa newydd o Steinhoff UK, a ddechreuodd 12 mis yn ôl. Rydym wedi cysylltu â darparwyr tai cymdeithasol eraill i alluogi trigolion eraill ym Mro Morgannwg i ennill y manteision hyn. Mae cynghorwyr hefyd wedi cynorthwyo tenantiaid sy'n profi caledi i gael 33 o eitemau offer cegin, gan gynnwys cogyddion, peiriannau golchi ac oergelloedd-rhewgelloedd.<br><br>Mae angen yn parhau i gynnal ein partneriaeth gyda'r Banc Bwyd gan ein bod wedi rhoi 39 o dalebau bwyd i deuluoedd sy'n dioddef caledi oherwydd newidiadau mewn budd-daliadau neu newidiadau mewn amgylchiadau yn y flwyddyn ariannol hon. Gostyngodd hyn ychydig yn y chwarter diwethaf ond rydym hefyd wedi cael llai o drigolion yn cael eu rhoi ar Gredyd Cyffredinol; fodd bynnag, rydym yn ymwybodol y byddwn yn gweld cynnydd cyson yn y ffigwr hwn ar ôl ei gyflwyno.<br><br>Parhaodd y Tîm Incwm i hyrwyddo cynllun Cymorth HelpU Dŵr Cymru ar gyfer aelwydydd incwm isel, er mwyn lleihau taliadau dŵr a charthffosiaeth. Rydym wedi delio â 487 o geisiadau y flwyddyn ariannol hon a oedd â hawl i denantiaid gael ad-daliad, clirio balansau dyledus neu gynhyrchu credyd a dalwyd yn ôl i'r tenantiaid. Bydd y tâl parhaus i'r preswylydd yn aros yn is, hyd nes bod newid mewn amgylchiadau a thrwy hynny cynorthwyir tenantiaid i gynnal eu taliadau wrth symud ymlaen.<br><br>Sefydlodd y Cyngor Weithgor i ymdrin â rhai o'r pryderon ynghylch y Credyd Cyffredinol gyda'r darparwyr tai cymdeithasol ac i alluogi Cyngor Bro Morgannwg i barhau i ddarparu gwasanaeth ardderchog i'n tenantiaid a'n trigolion sy'n byw yn y Fro, i sicrhau gallwn gynnal tenantiaethau. Mae cyfanswm gwerth yr incwm ychwanegol i denantiaid trwy fudd-daliadau lles ychwanegol, biliau llai a grantiau yn £188,211.35. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| **IS003** | | | | |
| FS/A001: Cefnogi cyflwyno'r Credyd Cyffredinol (UC) ar draws Bro Morgannwg. | 31/03/2018 (parhaus) | 100 | Gwyrdd | Mae'r Adran Fudd-daliadau o fewn Gwasanaethau Ariannol yn parhau i gysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) a'r Ganolfan Byd Gwaith gan ddefnyddio Cymorth Cyffredinol a Ddarperir yn Lleol (USDL) i gefnogi cyflwyno'r Credyd Cyffredinol (CC) ar draws Bro Morgannwg. Mae hyn wedi lleihau yn y chwarter diwethaf hwn gan fod Porth y Llywodraeth ar gyfer hawliadau newydd ar gyfer CC wedi cau ac mae'r achosion hyn bellach yn dod yn ôl at Fudd-daliadau Tai. Mae USDL yn ddull partneriaeth rhwng y Cyngor a'r Ganolfan Byd Gwaith i ddarparu cefnogaeth leol i hawlwyr credyd cyffredinol. Cynhwysa'r gefnogaeth hon a ddarperir gan y Cyngor gefnogaeth i Staff Canolfan Gwasanaethau CC, darparu cymorth cyllidebu personol (PBS) a darparu cefnogaeth ddigidol i hawlwyr er mwyn iddynt gael ar-lein ac aros ar-lein. Y nifer o unigolion sy'n derbyn Credyd Cyffredinol yn chwarter 4 yw 632, sef cynnydd bach o'i gymharu â 628 o drigolion y Fro a oedd yn derbyn CC ym mis Chwefror 2016/17 a adroddwyd yn chwarter 4 y flwyddyn flaenorol. |
| HS/A026: Sefydlu grŵp aml-landlordiaid i liniaru effeithiau negyddol diwygio lles ar bob tenant cymdeithasol sy'n byw yn y Fro. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cyfarfu'r grŵp aml-landlordiaid yn ystod chwarter 4 ac maent wedi nodi sawl maes allweddol lle gall landlordiaid cymdeithasol gydweithio er mwyn lliniaru effeithiau andwyol diwygio lles ar denantiaid. Un maes o ffocws oedd cyfathrebiadau a chyflwyno'r neges i denantiaid ynghylch newidiadau, yn enwedig cyflwyno'r Credyd Cyffredinol. Bwriada'r sefydliadau weithio ar ymgyrch ar y cyd i sicrhau bod pobl sy'n byw yn y Fro yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd a bod y neges yn gyson. Mae'r grŵp landlordiaid yn parhau i gyfarfod yn achlysurol i archwilio materion cyffredin a monitro gweithrediad unrhyw gamau y cytunwyd arnynt. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| HS/A027: Gweithio gyda phartneriaid i gynyddu'r ystod o brojectau a mentrau sy'n cefnogi cyflogaeth, byw'n iach, cynhwysiant ariannol a digidol a chyflawni'r amcanion o fewn y Strategaeth Fuddsoddi Gymunedol. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | <u>Cyflogaeth</u><br>Yn ystod Ch4, rydym wedi parhau i gefnogi tenantiaid i gael mynediad at gyflogaeth a rhedeg ein 'gwersyll cyflogaeth' Cartrefi'r Fro cyntaf mewn partneriaeth â Forces Fitness. Ariannwyd hyn trwy'r cyfraniad buddsoddi cymunedol a oedd yn gysylltiedig â'r datblygiad yn Francis Road. Galluogodd hwn ni i gymryd 9 o drigolion rhwng 19 a 27 oed i gwblhau rhaglen gyflogaeth breswyl 3 diwrnod. Gweithiodd y grŵp gyda'i gilydd i ddatblygu sgiliau hanfodol megis adeiladu hyder, gweithio mewn tîm a chyfathrebu. Cynhyrchodd y grŵp hefyd CV safonol proffesiynol, cymryd ran mewn ffug gyfweliadau a gweithgareddau Dragon Den. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r grŵp yn ystod 2018/19 i'w cefnogi gyda mynediad i leoliadau profiad gwaith, gan gynnwys lleoliadau o fewn yr awdurdod lleol. Yn ystod 2017/18, cefnogodd Buddsoddiad Cymunedol 30 o denantiaid i gael mynediad at waith gyda 10 yn cynnal cyflogaeth yn llwyddiannus am dros 6 mis.<br><br>Rydym hefyd wedi cefnogi un o'n tenantiaid sy'n ymgymryd â gwirfoddoli trwy'r Cynllun Banc Amser i fynd i gyflogaeth trwy ddefnyddio eu profiad gwirfoddoli. Ymgysylltodd 52 o bobl â'r cyrsiau hyfforddi a ddarparwyd gennym yn ystod Chwarter 4, gan ein galluogi i gefnogi 223 o bobl eleni i gymryd rhan mewn hyfforddiant. Enillodd 146 o'r rhain gymhwyster cydnabyddedig. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| HS/A027 Parhad | | | | Rydym hefyd wedi cefnogi 5 tenant sydd wedi cofrestru i gymryd rhan yn ein Cynllun Banc Amser, i gael mynediad at hyfforddiant a ddarperir gan y Tîm Buddsoddi Cymunedol i'w cefnogi i ennill sgiliau newydd. Yn ystod 2017/18, cefnogodd Buddsoddiad Cymunedol 18 o denantiaid i gwblhau lleoliadau profiad gwaith er mwyn cael profiad hanfodol i'w helpu i chwilio am waith. Rydym yn gobeithio adeiladu ar hyn ymhellach yn ystod 2018/19 trwy ddatblygu mwy o leoliadau profiad gwaith i gynyddu'r amrywiaeth o leoliadau a gynigir a denu ystod fwy o denantiaid i gymryd rhan.<br><br><u>Cynhwysiant digidol</u><br>Rydym wedi parhau i ddatblygu ein rhaglen cynhwysiant digidol yn ystod Ch4 trwy sefydlu ystafelloedd cyfrifiadurol yn ein 5 cynllun tai gwarchod a hostel teulu. Galluogodd hyn y tenantiaid a allai fel arall fod heb fynediad i gyfrifiaduron i gymryd rhan mewn gweithgareddau digidol. Rydym hefyd wedi adeiladu ar ein perthynas â dysgu oedolion sydd bellach yn rhedeg sesiynau hyfforddi yn ein Cynlluniau Gwarchod. Oherwydd rhai o'r anawsterau a gafwyd o ran sefydlu'r ystafelloedd cyfrifiadurol o safbwynt cydlynu darparwyr Rhyngrwyd, contractwyr a gwasanaethau TG, nid ydym wedi darparu cynifer o sesiynau cynhwysiant digidol ag a fwriadwyd yn ystod Ch4 ond rydym yn bwriadu cynnal y rhaglen lawn o ddechrau Ebrill. Yn ystod Ch4, mae 8 gwirfoddolwr wedi bod yn gysylltiedig â chynorthwyo tenantiaid i gael mynediad at gyfrifiaduron a datblygu sgiliau TG sylfaenol trwy ddarparu 22 awr o gefnogaeth. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cefnogi 45 o bobl dros 55 oed i ennill sgiliau newydd mewn perthynas â thechnoleg ddigidol. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| HS/A027 Parhad | | | | Byw yn iach<br>Yn ystod Ch4, rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar gefnogi tenantiaid i fod yn fwy egnïol. Aethom ati i gynnal 15 o weithgareddau ffitrwydd a chorfforol o fewn y cyfnod hwn mewn partneriaeth â sefydliadau fel Newydd a Chymunedau yn Gyntaf, gan gynnwys Kicks, sy'n rhaglen bêl-droed ieuenctid lwyddiannus iawn. O ganlyniad i'r gweithgareddau hyn, mae 144 o bobl wedi cymryd rhan a dod yn weithredol. Drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi rhedeg cyfanswm o 356 o sesiynau gweithgaredd corfforol gyda chyfanswm o 356 o drigolion yn cymryd rhan. Mae 100% o'r rhai a gymerodd ran mewn gweithgareddau corfforol yn dweud eu bod yn teimlo y gallant yn awr wneud dewisiadau iach o fyw.<br><br>Rydym hefyd wedi cefnogi 6% o denantiaid sy'n byw mewn cynlluniau gwarchod i ymgymryd â gweithgareddau corfforol megis heriau cerdded ac ymestyn ffitrwydd.<br><br>Cynhaliodd Buddsoddiad Cymunedol 34 o ddigwyddiadau cymunedol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i wella ein hymgysylltiad â thenantiaid, dod â manteision i ardaloedd lleol, a chael tenantiaid i gymryd rhan. Mae'r rhain wedi cynnwys digwyddiadau teuluol, projectau mannau gwyrdd ac amnest sgipiau i ymdrin â phroblemau tipio anghyfreithlon. |
| **IS004** | | | | |
| RP/A044: Cyflwyno defnydd o'r pecyn cymorth mapio cymunedol i nodi anghenion cymunedau yn glir. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae'r tîm Datblygu Economaidd yn cynnig cefnogaeth i gymunedau sy'n dymuno gwneud cais am gyllid. Profodd mapio i fod yn ffactor yn llwyddiant y ceisiadau am gyllid, gyda'r Fro yn cael mwy o brojectau'r Gronfa Datblygu Cymunedol Gwledig y pen nag unrhyw ardal arall yng Nghymru. Hefyd mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn ei ddefnyddio'n rhagweithiol i nodi targedu cyllid A106. Fe'i gwelir gan yr adrannau hyn fel offeryn corfforaethol amhrisiadwy y gellid ei gyflwyno ar gyfer ei ddefnyddio mewn adrannau eraill megis y Gwasanaethau Cymdeithasol, y Gwasanaeth Ieuenctid a'r Parciau. Gallai tystiolaeth o'r ymarfer mapio presennol ychwanegu gwerth at geisiadau polisi, datblygu projectau a chyllido. Gellir gweld y Pecyn Cymorth Mapio Cymunedol ar wefan y Cyngor. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| RP/A045: Cefnogi cymunedau i gael gafael ar adnoddau a datblygu eu capasiti i wella a rhedeg asedau cymunedol. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae cymunedau a grwpiau yn parhau i gael eu cefnogi i ddatblygu ceisiadau ariannu ar gyfer y gronfa datblygu cymunedol gwledig. Cymeradwywyd £2.6M o brojectau mewn egwyddor ar gyfer eu hariannu. Hefyd mae cefnogaeth ar y gweill i fentrau cymdeithasol megis cyfleusterau cymunedol newydd a'r dafarn a redir gan y gymuned yn y Barri. Ar hyn o bryd, gweithredir rhaglen hyfforddi mewn partneriaeth â Chymdeithas yr Ymddiriedolaeth Ddatblygu i ddarparu sgiliau busnes ar gyfer mentrau cymdeithasol. Bydd y gwaith hwn yn parhau fel y cyfeirir ato dan RP/A045 yng Nghynllun Gwasanaeth Adfywio a Chynllunio 2018/19. |
| **IS005** | | | | |
| RP/A046: Cyflenwi blwyddyn olaf Cymunedau yn Gyntaf a cheisio paratoi i weithredu'r Rhaglen Cymunedau ar gyfer Gwaith newydd ar draws ardal y Cyngor yn 2018/19. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cynhaliwyd digwyddiad dathlu llwyddiannus ym mis Mawrth 2018, wrth i'r projectau Cymunedau yn Gyntaf oedd ar ôl gael eu cwblhau a'u cau. Sicrhawyd dwy ffynhonnell ariannu newydd (Etifeddiaeth a Chymunedau ar gyfer Gwaith a Mwy). Mae'r gronfa olaf yn ymestyn y rhaglen Cymunedau ar gyfer Gwaith y tu allan i ardal clwstwr Cymunedau yn Gyntaf y Barri, gan ddod â chymorth cyflogadwyedd i'r Fro wledig. Bydd y tîm newydd yn weithredol o 1 Ebrill 2018. Y pwyslais ar gyfer y flwyddyn oedd dwyn i ben y rhaglenni nad oeddent yn parhau, tra'n trosglwyddo gweithgareddau lle bo'n bosibl i ffrydiau ariannu newydd yn ddi-dor. Cefnogwyd rhai gweithgareddau cymunedol i ddod yn hunangynhaliol. Mae'r rhaglen lwyddiannus uchel ei pharch i gefnogi pobl ifanc wrth iddynt drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn parhau am flwyddyn arall dan gyllid 'Etifeddiaeth'. |
| RP/A047: Datblygu projectau i'w cyflwyno i broses biblinell y rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid cyn rhaglen newydd yn 2018/19. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae trafodaethau'n parhau rhwng awdurdodau lleol Llywodraeth Cymru a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd ynglŷn â llywodraethu, y broses ymgeisio a'r weithdrefn asesu ar gyfer datblygu a chyflwyno projectau yn y dyfodol trwy'r rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio 2018/19 - 2020/21. O ran y cynnydd gyda Chyllid Piblinell Adfywio Llywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18, gweler camau gweithredu RP/A058. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| **IS006** | | | | |
| CS/A002: Mapio'r Gwasanaethau a ddarperir gan raglenni Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Cymunedau yn Gyntaf a Chefnogi Pobl o ran y math o wasanaeth, grŵp cwsmeriaid, ardal ddaearyddol a phartneriaid er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae'r Grŵp Alinio Tlodi wedi helpu i ymgorffori cydweithio ar draws y rhaglenni trwy gydol y flwyddyn. Gellir dangos tystiolaeth o hyn drwy'r wybodaeth isod ac fe'i dangoswyd yn ddiweddar drwy gynhadledd ar y cyd ar Lesiant Disgyblion a ddenodd dros 100 o staff a chodi ymwybyddiaeth o ACEs.<br><br>Cymunedau yn Gyntaf<br>Mae'r holl Wasanaethau Cyflogadwyedd yn y Fro bellach wedi cael eu 'mapio' gyda rhai materion yn cael eu hamlygu a fydd yn bwydo i'r Rhaglen Cymunedau ar gyfer Gwaith a Mwy. Bellach, mae adroddiad Mapio a Bylchau ar gael i'r holl bartneriaid, a bydd Tîm Buddsoddi Cymunedol Cartrefi'r Fro yn ei ddiweddaru a'i gynnal yn rheolaidd.<br><br>Rhwystrwyd cynllunio ar gyfer defnydd y Grant Cymunedau ar gyfer Gwaith a Chronfa Etifeddiaeth yn y dyfodol oherwydd oedi wrth gyhoeddi'r canllawiau terfynol gan Lywodraeth Cymru, ond bydd ceisiadau'n cael eu cyflwyno yn gynnar yn 2018.<br><br>Cefnogi Pobl<br>Cyfarfu'r Grŵp Llywio ar 14.09.2017 gyda Taff yn darparu diweddariad ar y 'project alinio a mapio cefnogol' (cymorth tai ar draws y 4 rhaglen). Cafwyd cynnydd mewn atgyfeiriadau ac o ganlyniad mae Cefnogi Pobl yn rhoi adnoddau ychwanegol ar waith i ymdrin â'r ehangiad (1 swydd lawn-amser o fis Ionawr 2018), mae hyn yn gyfyngedig o ran amser er mwyn sicrhau nad yw'n gynnydd unwaith ac am byth. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| CS/A002 Parhad | | | | Yna bydd y grŵp llywio yn cyfarfod i adolygu eto yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Cynhyrchir adroddiad terfynol ar y cynllun erbyn 01/03/18.<br><br>Teuluoedd yn Gyntaf<br>Gwnaed cynnydd sylweddol wrth ddatblygu gwasanaeth cefnogi rhianta a chymorth ieuenctid a fydd yn ategu'r gwasanaethau presennol. Bydd y rhain yn weithredol yn gynnar ym mis Ebrill 2018, gan ddarparu dau wasanaeth newydd i gefnogi plant, pobl ifanc, rhieni a theuluoedd.<br><br>Dechrau'n Deg<br>Cychwynnodd adolygiad Dechrau'n Deg o'r holl wasanaethau a gynigir i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn parhau i fod yn berthnasol ac yn bodloni'r anghenion mwyaf o ystyried newidiadau o fewn FF (Teuluoedd yn Gyntaf) a CF (Cymunedau yn Gyntaf) a phwysau cynyddol ar arian cyfyngedig.<br><br>Mae'r Grŵp Alinio Tlodi (PAG) wedi cytuno ar weithdy ym mis Chwefror i roi cyfle i'r arweinwyr rhaglen fyfyrio ar y cynnydd hyd yn hyn, a thrafod cyfeiriad y dyfodol ar gyfer alinio agosach (yng ngoleuni'r newidiadau a awgrymwyd gan Lywodraeth Cymru, i osgoi dyblygu a sicrhau dull wedi'i dargedu, p'un ai gan grŵp cleientiaid neu ddaearyddiaeth, sydd i gyd yn dod o dan ymbarél cynllun llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC). |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| CS/A003: Gweithredu dull mwy cydgysylltiedig o ymgysylltu a darparu gwybodaeth ar draws rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Cymunedau yn Gyntaf a Chefnogi Pobl. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Fel y cytunwyd gan bob un o bedwar Bwrdd y Rhaglen Alinio yn ystod Gwanwyn 2017, mae arweinwyr y rhaglen yn parhau i weithio gyda'i gilydd ar y dull a ddefnyddir i ddatblygu/drafftio cynlluniau busnes a chynigion ariannu i sicrhau cysondeb yn y modd y mae partïon perthnasol yn cael eu cynnwys/ yr ymgynghorir â hwy. Er mwyn ystyried cyfleoedd pellach ar gyfer alinio ar draws y pedair rhaglen, rhoddodd bob un o'r arweinwyr rhaglen drosolwg o'r canlynol:<br>• Pwrpas/ meini prawf y grant<br>• Cynlluniau a penawdau cyfredol ar gyfer 2018/19<br>• Sut mae'r cynllun busnes/cynigion ar gyfer defnyddio'r grant yn cael eu datblygu e.e. pwy sy'n gysylltiedig, pa ddulliau a ddefnyddir?<br><br>Helpodd hyn i nodi cyfleoedd ac amseru ar gyfer datblygu syniadau gyda'i gilydd a sicrhau mewnbwn ar draws y gwahanol raglenni. Mae hwn yn ddatblygiad parhaus.<br><br>Mae gan wefan Dewis Cymru dros 1,000 o wasanaethau ledled Caerdydd a'r Fro. Cynhaliwyd ymgyrch farchnata ym mis Awst 2017, gan hyrwyddo Dewis Cymru i drigolion a darparwyr. Roedd yn cynnwys cyfres o byst cyfryngau cymdeithasol ar-lein, datganiadau i'r wasg, clipiau fideo, presenoldeb gwe a stondinau gwybodaeth mewn digwyddiadau ac adeiladau cyhoeddus.<br><br>Mae hyfforddiant i staff rheng flaen yn digwydd yn barhaus a chynhelir cyflwyniadau i glystyrau meddygon teulu, sefydliadau'r trydydd sector ac adrannau'r Cyngor. Rydym wastad yn annog gwasanaethau i ychwanegu eu gwybodaeth at y wefan.<br><br>Mae ochr adrodd Dewis yn datblygu, a gallwn yn awr weld y nifer o weithiau y mae adnodd wedi ymddangos yn y canlyniadau, a'r lledaeniad cyffredinol o adnoddau ar draws y Fro. Bydd hyn yn helpu i nodi bylchau yn y ddarpariaeth. |

## Amcan 2: Darparu cartrefi gweddus a chymunedau diogel

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| **IS007** | | | | |
| HS/A028: Cwblhau cyflenwi Rhaglen Gwella Tai Cyngor yn 2017. | 31/12/2017 | 100 | Gwyrdd | Cwblhawyd yr holl waith SATC i gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru Llywodraeth y Cynulliad a diweddarwyd y dystiolaeth yn Keystone (meddalwedd rheoli asedau), sy'n cadarnhau'r sefyllfa hon. Mae gwaith yn parhau ar y safle i gau rhywfaint o waith ategol sy'n weddill ac mae gwaith yn mynd rhagddo i gynnal y safon ar ôl ei gyflawni. Bydd y Safon yn sicrhau bod anheddau o ansawdd da ac yn addas ar gyfer anghenion trigolion presennol a phreswylwyr yn y dyfodol. |
| HS/A029: Datblygu Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid newydd. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cwblhawyd yr ymarfer ymgynghori cyhoeddus a derbyniwyd cefnogaeth eang i'r Strategaeth Ymgysylltu Tenantiaid drafft. Mae hyn yn cynnwys cytundeb ynglŷn â'r nodau allweddol a'r camau gweithredu blaenoriaeth. Diweddarwyd y Strategaeth i adlewyrchu'r adborth ac ysgrifennwyd adroddiad pellach i'r Cabinet er mwyn cymeradwyo'r fersiwn derfynol. Bydd y ddogfen yn parhau yn ei lle am y tair blynedd nesaf a bydd yn nodi sut mae tenantiaid yn cyfranogi er mwyn gwella'r gwasanaethau a ddarperir. Mesurir y cynnydd wrth weithredu'r Strategaeth trwy gwblhau'r camau gweithredu unigol a gynhwysir yn y Cynllun Cyflawni Gweithredol. Mae adroddiad monitro bob chwe mis i'r Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel ynghylch yr ystod o brojectau a mentrau sy'n digwydd. |
| HS/A030: Cynnal ffocws ar reoli cartrefi gwag a sicrhau mwy o effeithlonrwydd trwy leihau'r amser a gymerir i ailosod eiddo. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae'r gwasanaeth wedi cynnal perfformiad lefel uchel trwy gydol y flwyddyn ac wedi cyflawni ffigwr allbwn terfynol ar gyfer y nifer gyfartalog o ddiwrnodau gwaith a gymerwyd i osod eiddo gwag o 18.9 diwrnod i osod yr holl wagleoedd safonol (192), mae hyn yn welliant ar y cyfartaledd o 28 diwrnod yn ystod yr un cyfnod yn 2016/17. Dengys gwybodaeth meincnodi bod ein mannau perfformiad diwedd blwyddyn yn rhoi'r Fro yn y chwartel uchaf o fudiadau Tai ledled Cymru a Lloegr. Golyga hefyd ein bod yn cymharu'n ffafriol â'r rhan fwyaf o gyfoedion lleol. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| HS/A031: Gweithredu porth cwsmer sy'n caniatáu i denantiaid wirio gwybodaeth a gedwir, adolygu eu cyfrif rhent, a chael mynediad at wasanaeth ar-lein a mynediad at wybodaeth am wasanaethau tai. | 31/03/2018 | 75 | Coch | Yn ôl y sylwebaeth y chwarter blaenorol, mae'r weithred hon wedi llithro am y rhesymau a amlinellwyd megis yr amser hirach na'r disgwyl a gymerwyd i gael sicrwydd ynghylch agweddau diogelwch TGCh i'r ateb Linguaskin. Yn ystod chwarter 4, mae'r Darparwr Meddalwedd (Northgate) wedi treulio dau ddiwrnod ar y safle yn sefydlu'r system 'fyw' ac mae cynnwys y porth hefyd wedi cael ei 'grafu' allan o'r system a'i anfon i'w gyfieithu. Cwblhawyd y profion ar y porth a datblygwyd cynllun gweithredu gyda rhenti, atgyweiriadau a thimau Homes4U ynghylch y wybodaeth a fydd yn cael ei rhannu gyda chwsmeriaid a'r prosesau a fydd yn sail i hunanwasanaeth tenantiaid. Mae angen cryn dipyn o waith o hyd, ond rhagwelir y bydd y Porth Cwsmer yn mynd yn fyw yn ystod y 6 mis nesaf. |
| HS/A032: Datblygu dull o raddio ymddangosiad ystadau tai a defnyddio hyn i fonitro a gyrru gwelliannau mewn safonau. | 31/12/2017 | 100 | Gwyrdd | Cwblhawyd methodoleg graddio ystadau tai, mae'r profion wedi eu cwblhau, mae staff wedi cael eu hyfforddi ac aeth y system raddio newydd yn fyw yn ystod chwarter 3. Defnyddir y fethodoleg hon i fonitro ystadau a gyrru gwelliannau ymlaen. O ganlyniad i'r gwaith hwn, caiff Ystadau eu gwella gan arwain at fwy o foddhad tenantiaid a gwell llesiant. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| HS/A033: Cwblhau archwiliad o fannau gwyrdd sy'n eiddo i dai ac ymgynghori â chymunedau lleol ynglŷn â dod â'r ardaloedd hyn yn ôl i ddefnydd ar gyfer ystod o ddefnyddiau, gan gynnwys cartrefi newydd, gweithgareddau hamdden ayb. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Nodwyd yr holl dir 'perchnogaeth tai' ac mae nifer o opsiynau'n cael eu hystyried ar gyfer gwahanol safleoedd. Mae rhai ardaloedd yn destun asesiadau hyfywedd i weld a ellir eu datblygu ar gyfer tai newydd. Cafwyd gwared â rhai parseli llai o dir ar ôl iddynt gael eu hystyried yn ddiangen, ac ystyrir lleiniau eraill ar gyfer defnydd cymunedol. Enghraifft dda o hyn yw gardd gymunedol Treharne. Mae'r Cyngor wedi gweithio gyda thenantiaid a gwirfoddolwyr lleol i sefydlu grŵp llywio sydd ers hynny wedi cymryd cyfrifoldeb am reoli'r ardd ac wedi cynnwys pobl leol. Mae tua 10 o wirfoddolwyr yn mynychu'n rheolaidd ac yn croesawu amrywiaeth o ymwelwyr o sefydliadau partner. Hefyd bu'r grŵp ar sioe deledu y BBC o'r enw 'Let's get a good thing going' pan welwyd y gwirfoddolwyr yn rhoi cyflwyniad i'r gynulleidfa er mwyn ceisio ennill cyfraniad tuag at ariannu gwelliannau pellach yn yr ardd. Gwnaeth y gwirfoddolwyr yn dda iawn ac er na fuont yn llwyddiannus, fe gododd hyn hyder ac ysbryd y tîm. Roedd y costau a dderbyniwyd gan y project Space Saviours yn uwch na'r disgwyl ac ni ystyrid eu bod yn darparu gwerth da am arian. Yn lle hynny, bydd y tîm Buddsoddi Cymunedol yn cynnal eu hymgynghoriad cymunedol eu hunain mewn perthynas â rhai mannau gwyrdd cymunedol. |
| HS/A034: Datblygu cyfres o gynlluniau gweithredu ystadau sy'n nodi materion allweddol ar wahanol ystadau tai ac yn nodi ystod o ymatebion rheoli sy'n cael eu teilwra i anghenion tenantiaid sy'n byw mewn gwahanol ardaloedd. | 28/02/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae cynlluniau gweithredu ystadau bellach ar waith i holl brif ystadau'r Cyngor. Noda'r Cynlluniau hyn y materion allweddol a chamau gweithredu a fydd yn gyrru gwelliannau yn yr ystadau tai unigol. Dros y 12 mis nesaf, bydd pob un o'r cynlluniau'n cael eu hadolygu a'u gwella i sicrhau effeithlonrwydd. Bydd y gwaith hwn yn helpu i gynyddu boddhad tenantiaid gydag ymateb/rheolaeth materion yn ymwneud ag ystadau. |
| HS/A035: Adolygu a chyfnerthu ein Polisïau Tenantiaeth a Rheoli Ystadau i ddarparu set glir a chyson o safonau. | 31/12/2017 | 100 | Gwyrdd | Cyflwynwyd Polisi Rheoli Tenantiaeth sy'n nodi'n fanwl sut y mae'r Cyngor i reoli materion sy'n ymwneud â thenantiaeth i'r Cabinet a'i gymeradwyo ar 20 Tachwedd 2017 ac mae wedi ei fabwysiadu gan staff ers hynny. Mae'r Polisi Rheoli Tenantiaeth yn disgrifio sut mae'r Cyngor yn creu, yn newid ac yn terfynu cytundebau tenantiaeth. Sicrha'r Polisi bod y Cyngor yn dilyn y ddeddfwriaeth gyfredol ac mae'n galluogi tenantiaid i arfer eu hawliau, fel y nodir yn y cytundeb tenantiaeth; mae hefyd yn darparu pwynt cyfeirio i staff tai wneud eu penderfyniadau. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| HS/A046: Datblygu Strategaeth Rheoli Asedau/Buddsoddi i Gartrefi sydd ym Mherchnogaeth y Cyngor. | 31/01/2018 | 50 | Coch | Datblygwyd y ddogfen ddrafft gychwynnol. Bu gwaith i ddiweddaru'r System Rheoli Asedau yn mynd ymlaen ac mae bellach mewn sefyllfa i ddarparu gwybodaeth ddibynadwy i ddatblygu'r strategaeth hon. Cyflwynwyd cynllun busnes Tai dros y 30 mlynedd nesaf, a bydd y Strategaeth Rheoli Asedau nawr yn cael ei drafftio i adlewyrchu'r cynllun busnes. Mae cyfyngiadau capasiti ac adnoddau wedi effeithio ar y gwaith hwn, gan i'r rhain gael eu hailgyfeirio i gwblhau'r rhaglen SATC. Cyflawnwyd SATC ym Mawrth 2018 ac mae drafft llawn bellach wedi'i gwblhau ac mae'n barod i ymgynghori arno. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2018/19 fel yr amlinellir dan HS/AM033 yn y Cynllun Gwasanaeth Tai ac Adeiladu. |
| **IS008** | | | | |
| HS/A036: Adeiladu 14 o gartrefi Cyngor newydd o dan Raglen Datblygu Tai'r Cyngor a nodi cyfleoedd pellach. | 31/03/2018 | 50 | Coch | Yn gynharach yn y flwyddyn, cwblhawyd 3 uned newydd yn Francis Road Y Barri a'u trosglwyddo i'r tenantiaid newydd, i symud i mewn yn chwarter 2. Penodwyd contractwr ar gyfer adeiladu'r 11 eiddo arall yn Holm View. Mae hyn yn dilyn yr anawsterau i gael contractwyr trwy gystadleuaeth a nodwyd yn yr ymarfer tendro blaenorol yn chwarter 2, sydd wedi arwain at oedi wrth gychwyn gweithrediad y safle. Bydd y gwaith adeiladu yn cychwyn ar y safle yn fuan a bydd yr eiddo'n cymryd 60 wythnos i'w adeiladu.<br><br>Mae Brecon Court yn cael ei gyflwyno ar gyfer cymeradwyaeth cynllunio ac mae'n debyg y bydd yn cychwyn ar y safle ym mis Mehefin 2018. Byddwn yn parhau i ddatblygu a nodi cyfleoedd ar gyfer rhaglen ddatblygu Tai Cyngor fel yr amlinellir dan HS/A058 y Cynllun Gwasanaeth Tai ac Adeiladu 2018/19. |
| **IS009** | | | | |
| HS/A037: Adolygu Gwasanaeth Tai y Gronfa Gyffredinol i nodi mesurau i liniaru'r gostyngiad mewn cyllid a'r risgiau cysylltiedig. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cwblhawyd adolygiad y Gwasanaeth Tai Cronfa Gyffredinol yn ystod chwarter 3 a thrwy ddileu swydd Gadawyr Carchar, gwneud tri chais cyllido newydd llwyddiannus i Lywodraeth Cymru ar gyfer projectau newydd o dan y gronfa Atal Digartrefedd, gwneud arbedion i'r gyllideb gwely a brecwast a pharhad y cyllid trosiannol gan Lywodraeth Cymru, gellir cynnal y lefelau staffio gofynnol a nodwyd trwy 2018/19. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| HS/A038: Parhau â'n gwaith gyda phartneriaid i ddarparu llety a gwasanaethau cymorth priodol ar gyfer grwpiau bregus penodol, gan gynnwys ystyried projectau i gynorthwyo pobl sy'n dioddef trais yn y cartref a'r rhai sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cwblhawyd datblygiad Cynllun Comisiynu Lleol Blynyddol Cefnogi Pobl 2018-2021 a'i fabwysiadu gan y Cabinet ac fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ar gyfer Bro Morgannwg a Chaerdydd (RCC) ym mis Ionawr 2018 yn unol â'r Canllawiau Grant Rhaglen Cefnogi Pobl (SPPG). Mae'r Cynllun yn amlinellu'r angen am gymorth sy'n gysylltiedig â thai a ariennir gan Cefnogi Pobl/bylchau mewn gwasanaethau a blaenoriaethau gwasanaeth newydd, gan gynnwys y rheiny ar gyfer cleientiaid â phroblemau iechyd meddwl, pobl ddigartref a'r rhai sydd mewn perygl o ddioddef cam-drin domestig. |
| HS/A039: Cwblhau gwaith uwchraddio ffisegol i safleoedd tai gwarchod. | 31/03/2018 | 90 | Coch | Cwblhawyd yr holl waith a gynlluniwyd ar gyfer safleoedd tai gwarchod ac eithrio Gwenog Court. Mae'r gwaith a gwblhawyd eleni wedi cynnwys uwchraddio drysau tân ac offer canfod tân i eiddo risg uchel sy'n dod â'r adeilad i fyny at y fanyleb gydymffurfiaeth ddiweddaraf. Archebwyd y gwaith ar gyfer y safle hwn ac mae'r setiau drws yn cael eu cynhyrchu ar hyn o bryd cyn eu gosod ym mis Ebrill/Mai 2018/19. Byddwn yn parhau i ddiweddaru safleoedd tai gwarchod yn 2018/19 trwy gwblhau moderneiddio ardaloedd cymunedol (HS/A063) fel yr amlinellir yn y Cynllun Gwasanaeth Tai ac Adeiladu. |
| HS/A040: Cynnal adolygiad o'r model cyflenwi ar gyfer tai gwarchod yng ngoleuni newidiadau i gyllid Cefnogi Pobl. | 31/03/2018 | 85 | Coch | Yn anffodus, ni all y Rhwydwaith Gwybodaeth Dysgu Tai gyflwyno eu canfyddiadau ymchwil tan 30 Ebrill 2018. Unwaith y derbynnir y rhain, bydd angen i'r partneriaid Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Rhanbarthol ystyried y canlyniadau, ac ar ôl hynny, bydd y model gwasanaeth tai gwarchod yn cael ei ystyried mewn ymgynghoriad ag Aelodau a thenantiaid. O ganlyniad i'r llithriad hwn, trosglwyddir y camau gweithredu hyn i'r flwyddyn ariannol nesaf a bydd yr amserlen ar gyfer cwblhau yn cael ei hymestyn hyd at ddiwedd 2019/20 i adlewyrchu faint o waith sy'n gysylltiedig. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| RP/A004: Cyflenwi'r Gwasanaeth Grant Cyfleusterau Anabl ar gyfer tai preifat. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae'r nifer gyfartalog o ddiwrnodau calendr a gymerwyd i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl wedi gwella ychydig ar Ch3 o 195.43 diwrnod i 188.15 diwrnod, ond mae'n dal i fod yn is na'r targed o 176 diwrnod. Mae newid yn llif y broses yn ystod Medi/Hydref, yn ychwanegol at y newid mewn diffiniad DP a rhai achosion cymhleth, wedi cynyddu amser cyflenwi cyfartalog. Gan symud ymlaen i 2018/19, mae llif y broses yn cael ei hadolygu gyda golwg ar ddileu'r oedi a welwyd yn chwarter 3 a 4 2017/18. Byddwn yn parhau i adrodd am gynnydd yn erbyn y camau gweithredu hwn yn ystod 2018/19 fel yr amlinellir yng Nghynllun Gwasanaeth Adfywio a Chynllunio 2018/19. |
| RP/A048: Datblygu cydweithrediad â phartneriaid h.y. Tai a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig mewn perthynas ag addasiadau. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi parhau i weithio'n dda gyda Gofal a Thrwsio a'r grant ENABLE i ddarparu addasiadau bach o fewn amserlenni byr. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio gyda Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (RSL) i addasu dau eiddo y mae Llywodraeth Cymru wedi gwrthod eu cyllido trwy grantiau addasu eiddo (sef yr hyn sy'n cyfateb i RSL i Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG)) trwy ddefnyddio'r arian ENABLE. Rydym yn parhau i geisio darparu addasiadau amserol ac effeithlon, ac adroddir lefelau uchel o foddhad ac annibyniaeth. |
| **IS010** | | | | |
| RP/A005: Darparu cynhyrchion benthyciad i ddeiliaid tai a landlordiaid i wella tai preifat a gwneud eiddo gwag ar gael fel tai. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Ystyriodd y Cabinet delerau diwygiedig a strwythur ffioedd ar gyfer y benthyciadau ar ddiwedd mis Mawrth 2018 a bydd hyn yn gwella'r cynnig i berchnogion symud ymlaen a symleiddio'r broses weinyddol. Yn ogystal, cynigiwyd a thalwyd 3 benthyciad yn Chwarter 4. Bydd y gwaith yn parhau yn 2018/19 i gynnig benthyciadau i wella llety'r sector preifat. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| RP/A049: Adolygu'r gefnogaeth a ddarperir i ddeiliaid tai a landlordiaid i wella tai preifat a gwneud eiddo gwag ar gael. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Derbyniwyd diwygiad Llywodraeth Cymru i delerau ariannu benthyciadau yn ystod chwarter 4 ac o ganlyniad cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet a chytunodd y Cabinet ar 26 Mawrth 2018 i ddiwygio ein cynhyrchion benthyciad i adlewyrchu'r trefniadau newydd a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru. Bydd gwaith yn cael ei wneud gyda set ddata newydd ym mis Ebrill 2018 i hyrwyddo'r cynnyrch benthyciad newydd a symud ceisiadau ymlaen wrth iddynt gael eu derbyn. Ailsefydlwyd y Gweithgor o swyddogion y Cyngor yn chwarter 4 ac mae wedi cyfarfod ddwywaith, gan weithredu'n rhagweithiol ar eiddo gwag wedi'i dargedu i'w dychwelyd i ddefnydd. |
| **IS011** | | | | |
| HS/A041: Gweithio gyda phartneriaid i gynyddu nifer y tai fforddiadwy cynaliadwy yn y Fro. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cyflwynwyd 66 o unedau ychwanegol yng Ch4, gan ddod â'r cyfanswm i 225 am 2017/18, sy'n fwy na'r targed blynyddol a osodwyd i'w darparu, sef 125 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol. Mae'r nifer a ddarperir yn parhau i fod y tu allan i reolaeth y Cyngor gan ei fod yn dibynnu ar yr arian sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru i safleoedd tai cymdeithasol a'r nifer o safleoedd sy'n cael eu datblygu gan ddatblygwyr preifat, y dyddiad y mae'r eiddo'n cael ei adeiladu, ac os yw'r cynlluniau yn ariannol hyfyw i ddarparu'r nifer angenrheidiol o dai fforddiadwy yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Atodol. Trwy ddatblygu'r cartrefi newydd hyn, cafwyd hyd i ateb tai cynaliadwy a fforddiadwy i 225 o aelwydydd mewn angen am dai. |
| HS/A042: Adolygu a diweddaru Asesiad Marchnad Dai'r Cyngor. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cwblhawyd y diweddariad yr Asesiad Marchnad Dai Leol (LHMA) ar gyfer 2017 yn ystod chwarter 4, a gellir ei weld ar wefan y Cyngor. Bydd adroddiad Cabinet yn cael ei gyflwyno ar Ebrill 30ain 2018 er mwyn ystyried ei fabwysiadu. Defnyddia'r Asesiad Marchnad Dai Leol (LHMA) fethodoleg a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad cyfnodol ac asesiad o'r farchnad dai ym Mro Morgannwg, gan gyflawni dyletswyddau statudol y Cyngor, fel y'u nodir o dan Adran 8 Deddf Tai 1985. Mae'r gwaith hwn yn sicrhau bod y Cyngor yn gallu bodloni'r galw am yr unedau tai fforddiadwy sydd eu hangen ym Mro Morgannwg. |

| Camau gweithredu’r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| RP/A006: Sicrhau trwy ganiatâd cynllunio, bod o leiaf 30% o'r tai newydd i fod yn fforddiadwy. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cymeradwywyd 818 o anheddau rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018, ac roedd 250 (30%) ohonynt yn fforddiadwy. Yn ystod Ch4, mae'r Cyngor wedi sicrhau £116,660.80 pellach o gyfraniadau tai fforddiadwy oddi ar y safle, gan ddod â'r cyfanswm cronnus yn y flwyddyn ariannol hon i £979,440.80. Bydd hyn yn datblygu ymhellach y stoc tai fforddiadwy sydd ar gael yn y Fro. |
| RP/A050: Mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy ochr yn ochr â'r Cynllun Datblygu Lleol. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cyflwynwyd y Canllawiau Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy (CCA) yn cynnwys yr ymatebion a gafwyd o'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd ym mis Medi a mis Hydref 2016 i'r Cabinet ym mis Gorffennaf. Cadarnhaodd y Cabinet y CCA terfynol i'w defnyddio ar unwaith mewn penderfyniadau Rheoli Datblygu ochr yn ochr â'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig. Bydd y gwaith hwn yn helpu i gynyddu lefelau, ystod a dewis tai fforddiadwy sydd ar gael i deuluoedd. |
| RP/A051: Gweithio gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy ym Mro Morgannwg. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae swyddogion yn parhau i fynychu is-grŵp thema Tai Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCR) yn rheolaidd. Yn ystod chwarter 4 mae'r grŵp wedi dod â’i gasgliadau ynghyd (e.e. anawsterau sydd gan adeiladwyr Menter Ganolig Bach (SME) i adnabod a datblygu safleoedd, gan ddefnyddio ffactorau cyllid ayb., ffactorau sy’n rhwystro cyflenwi safleoedd mawr a ddyrennir megis seilwaith a chostau agor safleoedd) ac maent wedi defnyddio'r wybodaeth hon i baratoi fframwaith Tai drafft ar gyfer y CCR a fydd yn hysbysu Cronfa Dai sydd i'w defnyddio i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy yn y Rhanbarth. Cyflwynir y fframwaith drafft hwn i'r Cabinet Rhanbarthol yn 2018/19 ar gyfer ystyriaeth. |
| **IS012** | | | | |
| SRS/A009: Datblygu gwasanaeth negeseuon cymunedol Cyswllt y Fro i hysbysu am sgamiau cyfredol a dulliau gweithredu newydd gan dwyllwyr, er mwyn amddiffyn yn well y rheiny sy'n cael eu targedu. | 01/03/2018 | 50 | Coch | Ni fu’n bosibl sicrhau'r hyfforddiant angenrheidiol ar y system i ganiatáu i'r staff dan sylw fewnbynnu i’r gwasanaeth negeseuon. Addawyd hyfforddiant yn gynnar yn 2018-19 ac o ganlyniad, mae lansio'r gwasanaeth wedi llithro i mewn i'r flwyddyn ariannol newydd. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| SRS/A010: Cyflenwi digwyddiad sioe deithiol diogelu ym Mhen-y-bont ar Ogwr/Caerdydd/y Fro i ddiogelu pobl hŷn rhag masnachwyr twyllodrus a sgamiau. | 01/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae digwyddiadau Sioe Deithio Diogelu wedi digwydd ar draws y rhanbarth SRS. Cynhaliwyd y cyntaf ar 28ain Medi yn Llanilltud Fawr lle roedd grwpiau preswyl yn gallu cwrdd â'r gwahanol bartneriaid i gael ymwybyddiaeth o faterion megis troseddau ar garreg y drws a sgamiau marchnata màs. Dilynodd ail ddigwyddiad Bro Morgannwg ar 10fed Hydref gan ddefnyddio'r bws Vibe yn Kings Square yn y Barri. Profodd hon yn ffordd wych o dynnu sylw'r rhai oedd yn pasio heibio, gyda negeseuon ymwybyddiaeth sgamiau yn cael eu chwarae tu mewn a thu allan i'r cerbyd. Siaradodd y tîm â thros 150 o bobl yn ystod y dydd ac rhoi sticeri 'dim galwyr diwahoddiad' iddynt, cardiau tynnu sylw negeseuon allweddol, a manylion ar gyfer cyswllt yn y dyfodol. O ganlyniad uniongyrchol i gyfarfod trigolion ar y diwrnod, mae swyddogion wedi atgyfeirio person sy'n agored i niwed i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac wedi nodi naw o drigolion a fyddai'n elwa o gael gosod rhwystr ar eu galwadau. Yn ogystal, cofrestrodd dau breswylydd arall gyda'r Gwasanaeth Dewis Ffôn fel ffordd o leihau effaith galwadau niwsans. |
| **IS013** | | | | |
| HS/A043: Datblygu pecyn cymorth sy'n canolbwyntio ar y Fro i gynnwys partneriaid lleol a darparu ymateb mwy cynhwysfawr i achosion o gam-drin domestig. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae rôl yr Asesiad Cam-drin Domestig a'r Cydlynydd Atgyfeirio wedi cael ei sefydlu a bydd yn sicrhau bod cyswllt yn cael ei wneud â dioddefwyr yr holl ddigwyddiadau cam-drin domestig y gelwir yr heddlu iddynt. Datblygwyd pecyn cymorth y Fro sy'n cynnwys hyfforddiant, llwybrau gwasanaeth, cysylltiadau asiantaeth ayb. Oherwydd y newidiadau parhaus sy'n digwydd yn y maes hwn ar hyn o bryd, bydd y pecyn cymorth yn parhau i gael ei ddiweddaru i adlewyrchu newidiadau wrth iddynt ddigwydd. Amcangyfrifir bod cyfartaledd uchafswm o 15 Atgyfeiriadau PPN Cam-drin Domestig yn y Fro bob dydd, gyda tua hanner ohonynt yn ddioddefwyr ailadroddus. Gyda gweithredu'r system newydd hon yn llwyddiannus, gobeithir y bydd yr achosion ailadroddus yn lleihau. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| **IS014** | | | | |
| HS/A044: Gweithio gyda'n partneriaid i atal ac ymdrin ag achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys gweithredu meddalwedd rheoli achosion er mwyn sicrhau bod achosion yn cael eu cofnodi'n gywir ac yn cael eu rheoli'n effeithlon. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cwblhawyd y cam hwn fel yr amlinellwyd yn y chwarter blaenorol gyda'r meddalwedd rheoli achos newydd yn cael ei weithredu gan y tîm Rheoli Tai yn ystod chwarter 3. Golyga hyn y gall staff gofnodi pob digwyddiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol (YGG) a chymdogion niwsans, yn ogystal ag atodi dogfennau eraill e.e. asesiadau risg, recordiadau sain, nodiadau ayb i sicrhau bod yr holl gamau dilynol yn cael eu cymryd yn unol â Pholisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (YGG). Mae nifer o lythyrau safonol wedi'u cynnwys yn y system, ac mae awtomeiddio'r broses yn galluogi staff rheng flaen i dreulio mwy o amser yn ymdrin â'r tenantiaid dan sylw. Hefyd ysgrifennwyd cyfres o adroddiadau rheoli i nodi camau pellach sy'n ofynnol a therfynau amser perthnasol. Mae'r meddalwedd yn cryfhau'r ffordd y caiff achosion eu rheoli ac yn sicrhau y ceir penderfyniadau cyflym mewn perthynas â thenantiaid sy'n dioddef o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Archwiliwyd y defnydd o'r feddalwedd rheoli achos yn fewnol yn ystod chwarter 4 a nodwyd sawl gwelliant a fydd yn gwella'r ffordd y caiff achosion eu rheoli, gan gynnwys rhai addasiadau i'r broses YGG, eglurhad o'r asesiad risg a'r hyfforddiant i staff. Cynhelir cyfarfodydd misol gyda staff rheng flaen i adolygu baich achosion a gwella profiad cwsmeriaid. |
| CS/A011: Cyflenwi hyfforddiant asesu Ased a Mwy a chyflwyno newidiadau ymarfer perthnasol sy'n gysylltiedig â'r model asesu newydd. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Darparwyd hyfforddiant asesu asedau i ymarferwyr yn ystod Gorffennaf 2017 ac fe weithredwyd newidiadau ymarfer perthnasol sydd wedi codi trwy'r asesiad newydd. Arweiniodd cyflwyno model asesu newydd at well dynodi a dadansoddi pryderon, a chryfhau'r ystyriaeth o ddefnydd cyfiawnder adferol. Dylai asesu ansawdd gwell arwain at ddatblygu cynlluniau ymyrraeth o ansawdd gwell a chanlyniadau gwell i blant a phobl ifanc, sydd yn y tymor yn cynyddu hyder yn y System Cyfiawnder Ieuenctid. |

| Camau gweithredu’r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| CS/A012: Adolygu Polisïau a Gweithdrefnau'r Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Yn dilyn y diwygiadau i'r Heddlu yn seiliedig ar y gefnogaeth a ddarparwyd gan y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r ymgynghoriad ar y Polisi Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc a gynhaliwyd yn chwarter 3, disgwylir i'r polisi gael ei gwblhau ar ddechrau Ebrill 2018. Unwaith y caiff ei gylchredeg, bydd y polisi yn rhoi arweiniad i ymarferwyr a sicrhau bod staff yn y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc a'r Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i gyflawni eu cyfrifoldebau penodol tuag at blant a phobl ifanc, ac i gefnogi ailsefydlu ac ailintegreiddio. |
| **IS015** | | | | |
| RP/A052: Gwerthuso Ardal Adnewyddu Castleland. | 31/03/2018 | 75 | Coch | Oherwydd ein bod wedi sicrhau mwy o gyllid piblinell, bu oedi wrth werthuso'r project Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. Bydd y gwerthusiad cyfunol, yn cynnwys Ardal Adnewyddu Castleland, yn cael ei ddwyn ymlaen i 2018/19 fel yr amlinellir yn y Cynllun Gwasanaeth Adfywio a Chynllunio. |
| RP/A053: Nodi a chychwyn ardal adfywio/adnewyddu newydd. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cafodd Windsor Road ei nodi a'i gymeradwyo gan y Cabinet fel safle adfywio/adnewyddu newydd yn gynharach yn y flwyddyn. Ers dyfarnu'r tendr ar gyfer gwaith adfywio Penarth, mae cynnydd positif y chwarter diwethaf yn parhau i gael ei gynnal wrth i’r gwaith ar y safle ddatblygu'n dda yn Windsor Road, gyda nifer o elfennau wedi'u cwblhau a’r dyddiad cwblhau disgwyliedig ar 22 Mehefin 2018. Mae'r gwaith yn cynnwys gwelliannau ffryntiad i eiddo preswyl a newid waliau gardd i wella safonau tai ac ymddangosiad cyffredinol y llwybr porth hwn i ganol y dref. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| **IS016** | | | | |
| HS/A045: Parhau â'n gwaith gyda phartneriaid i weithredu Strategaeth Diogelwch Cymunedol Bro Morgannwg gyda ffocws penodol ar ymyrraeth gynnar ac atal. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cychwynnodd project peilot sy'n gweithio gyda TAITH (sefydliad 3ydd sector). Mae'r project yn nodi cyflawnwyr Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (YGG) sydd â phroblemau alcohol a/neu chamddefnyddio sylweddau a chânt gefnogaeth a'u cyfeirio at TAITH. Y gobaith yw y bydd roi cyfle i dramgwyddwyr gael cyfle i gael cymorth i leihau eu hymddygiad gwrthgymdeithasol a chael eu hymgysylltu mewn gwasanaethau cefnogaeth. Yn ystod Chwarter 4, cafwyd 4 Panel Datrys Cymdogaeth ar gyfer pobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol. O'r 4 o bobl ifanc, nid oes unrhyw un ar hyn o bryd wedi parhau i achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc (GTI) yn parhau i weithio gyda'r 4 person ifanc. Cyflwynwyd hyfforddiant i swyddogion tai newydd ar yr arferion gorau a gweithio mewn partneriaeth yn achos YGG. Mae cydweithio rhwng Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd, Awyrenwyr lleol ac Asiantaethau Statudol yn parhau, gyda'r project "Gwarchod Maes Awyr" i'w lansio yn chwarter 1 2018/19. Bydd Gwarchod Maes Awyr yn lleihau'r cyfleoedd i droseddu ddigwydd o fewn perimedr y maes awyr, tir y maes awyr a'r gymuned leol. Bydd y gwaith hwn yn gwella llif cyfathrebu a gwybodaeth rhwng y Grŵp Awyrenwyr, y Maes Awyr ac Asiantaethau Statudol, gan annog yr Awyrenwyr i adrodd am ddigwyddiadau amheus wrth iddynt ddigwydd. |

# ATODIAD B: DANGOSYDDION PERFFORMIAD

**Amcan 1: Lleihau tlodi ac ynysu cymdeithasol**

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion Poblogaeth** | | | | | | |
| CPM/099 (WO1/M001): Canran y bobl sy'n fodlon â'u gallu i gyrraedd/cael mynediad at y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Yn ystod 2017/18, gofynnodd Arolwg Cenedlaethol Cymru am y tro cyntaf pa mor fodlon oedd trigolion gyda'r gwasanaethau sydd ar gael. Ni chyhoeddwyd canlyniadau i'r Fro oherwydd maint bach y sampl. I Gymru ar gyfartaledd, roedd 29% yn fodlon iawn ac roedd 39% yn weddol fodlon. |
| CPM/063 (WO1/M002) (POV01): Canran o drigolion y Fro o oedran gweithio sy'n weithgar yn economaidd. | Amh. | 77.3% | Amh. | Amh. | Amh. | Mae'r data diweddaraf sydd ar gael gan SYG ar gyfer Ebrill 2017 - Mawrth 2018. Dengys y data hwn bod 77.3% o'r holl drigolion ym Mro Morgannwg yn weithgar yn economaidd. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 76.5% |
| CPM/082 (WO1/M003): Cartrefi'r Fro sydd mewn tlodi incwm cymharol, wedi'i fesur ar gyfer plant, oedran gweithio a rhai oedran pensiwn. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Dangosydd Cenedlaethol Llesiant Blynyddol. Nid yw data LIC ar gael |
| **Pa wahaniaeth wnaethom ni?** | | | | | | |
| CPM/043: Cyfradd llwyddiant canrannol ar gyrsiau achrededig ar gyfer dysgwyr blaenoriaeth | 96% | 94% | 96% | Oren | ↓ | Mesur blynyddol a adroddwyd yn chwarter 3. Llwyddodd y Fro am yr ail flwyddyn yn olynol i gyflawni cyfradd lwyddiant uchel a'r Fro yw'r darparwr dysgu sy'n perfformio orau yn y Rhanbarth. Cyflawnwyd hyn drwy ddulliau cyflenwi a gynlluniwyd yn dda, a chasglu data da. |
| CPM/100: Canran y rhai sy'n dilyn y gwasanaeth hyrwyddwyr digidol sy'n dweud eu bod yn teimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio TGCh o ddydd i ddydd. | 44% | 100% | 70% | Gwyrdd | ↑ | Dywedodd pob un (100%) o'r 120 o gleientiaid eu bod wedi gweld cynnydd yn eu medrau TG sylfaenol, a'u bod yn teimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio cyfrifiadur/dyfais ddigidol. Sgoriodd y project yn dda iawn neu'n rhagorol. |
| CPM/104: Canran o blant Dechrau'n Deg sy'n cyflawni o leiaf y deilliannau disgwyliedig (canlyniad 5+) yn y Cyfnod Sylfaen. | 88.31% | 85.04% | 60% | Gwyrdd | ↓ | Cyflawnodd 233 allan o 274 o blant y canlyniadau disgwyliedig (Canlyniad 5+) yn y Cyfnod Sylfaen, sy'n rhagori ar y targed o 60% a osodwyd ar gyfer y flwyddyn. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CPM/105: Nifer y tenantiaethau a gynhelir o ganlyniad i Wasanaeth Cyngor Ariannol/ cymorth Cyngor. | 227 | 572 | 200 | Gwyrdd | ↑ | Mae Cyngor Ariannol yn parhau i fod yn ymyrraeth bwysig i gefnogi cynnal tenantiaethau. O'r 591 o sesiynau cyngor ariannol a gyflwynwyd y llynedd, dim ond mewn 19 o'r achosion y daeth y denantiaeth i ben yn ddiweddarach, gan roi cyfradd cynnal tenantiaeth o 97%. O ystyried y costau uchel iawn sy'n gysylltiedig â methiant tenantiaeth, gan gynnwys costau rhentu a chostau atgyweirio yn ogystal â chostau delio â digartrefedd, mae'r buddsoddiad yn y gwasanaeth Cyngor Ariannol yn parhau i gynhyrchu arbedion ariannol sylweddol. |
| CPM/106: Cynnydd canran mewn tenantiaid sydd â mynediad at gyfrif banc/undeb credyd o ganlyniad i ymyrraeth/ cymorth y Tîm Cyngor Ariannol. | 100% | 100% | 100% | Gwyrdd | ↔ | Mae'r Cynghorwyr Ariannol yn trafod cyfrifon banc fel rhan safonol o'u holl sesiynau cynghori gyda thenantiaid. Mae hyn yn cynnwys sefydlu p'un a oes gan y tenant gyfrif banc ar hyn o bryd ac os nad oes, tynnu sylw at fanteision agor un h.y. paratoi ar gyfer y Credyd Cyffredinol, y gallu i brynu pethau'n rhatach ar-lein ayb. Mae tenantiaid hefyd yn cael gwybodaeth am gyfrifon banc sylfaenol ac yn cael eu cyfeirio at y gwahanol fanciau Stryd Fawr lle gallant gwblhau cais. |
| CPM/107: Canran defnyddwyr gwasanaeth Cefnogi Pobl sy'n cadarnhau bod y gefnogaeth a gawsant wedi eu cynorthwyo i gynnal eu hannibyniaeth. | 96.15% | 82.93% | 100% | Coch | ↓ | Comisiynwyd y gwasanaethau cefnogi gan y Cyngor o sefydliadau trydydd sector allanol. Derbyniwyd yr adborth hwn yn ystod yr adolygiadau gwasanaeth a gynhaliwyd gan y Tîm Cefnogi Pobl a chaiff yr holl sylwadau negyddol eu harchwilio a gwneir argymhellion ar gyfer unrhyw welliannau gwasanaeth angenrheidiol. Caiff y rhain eu monitro'n rheolaidd. Fodd bynnag, rhaid nodi nad oes disgwyl i lawer o bobl agored i niwed sy'n cael eu cefnogi allu dod yn gwbl annibynnol e.e. pobl hŷn a fydd yn parhau i fod angen cefnogaeth i barhau i fyw gartref neu gleientiaid sydd â chyflwr meddygol sy'n dirywio. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pa mor dda wnaethom ni berfformio?** | | | | | | |
| CPM/002: Canran y cwsmeriaid sy'n fodlon â mynediad at wasanaethau ar draws pob sianel. | 98.69% | 99.06% | 95% | Gwyrdd | ↑ | Mae nifer y cwsmeriaid sy'n fodlon ar lefel y gwasanaeth a dderbyniwyd yn C1V yn parhau i fod yn gyson ar 99.06%. Rhoddodd 81.6% o gwsmeriaid y sgôr uchaf posibl ac 11.4% yr ail uchaf. Mae'r perfformiad ym mhob chwarter eleni wedi parhau dros 99% o foddhad. |
| CPM/111: Canran y plant Dechrau'n Deg cymwys sy'n cymryd y cynnig gofal plant. | 89.4% | 84.38% | 80% | Gwyrdd | ↓ | Cymerodd 54 o blant allan o 64 y cynnig o ofal plant, gyda 2 yn gwrthod, 4 wedi symud allan o'r ardal a 4 DNAs. Mae'r perfformiad hwn yn rhagori ar y targed o 80% a osodwyd ar gyfer y flwyddyn. |
| CPM/112: Canran y cleientiaid Cefnogi Pobl sy'n fodlon gyda'r cymorth a ddarperir. | 100% | 94.6% | 100% | Oren | ↓ | Comisiynwyd y gwasanaethau cefnogi gan y Cyngor o sefydliadau trydydd sector allanol. Derbyniwyd yr adborth hwn yn ystod yr adolygiadau gwasanaeth a gynhaliwyd gan y Tîm Cefnogi Pobl a chaiff yr holl sylwadau negyddol eu harchwilio a gwneir argymhellion ar gyfer unrhyw welliannau gwasanaeth angenrheidiol. Caiff y rhain eu monitro'n rheolaidd. |
| CPM/170: Canran y defnyddwyr sy'n dangos bodlonrwydd gyda gwasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf a gawsant fynediad ato. | 97% | 98.23% | 85% | Gwyrdd | ↑ | Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn darparu amrywiaeth o wasanaethau da a reolir yn dda, sy'n parhau i roi darpariaeth gefnogol dda i blant, pobl ifanc, teuluoedd a'r staff sy'n gweithio gyda nhw. Mae perfformiad eleni yn parhau i fod yn fras yr un fath â blynyddoedd blaenorol ac mae'n dyst i'r ansawdd a'r gefnogaeth a roddir gan staff. |
| CPM/096: Canran presenoldeb yng ngofal plant Dechrau'n Deg | 75.5% | 79.9% | 65% | Gwyrdd | ↑ | Mae'r ffigwr yn seiliedig ar y "Presenoldeb mewn sesiynau dewisedig" (y rhai sydd wedi dewis mynychu'n rhan-amser/amser llawn, neu'r rhai sydd wedi lleihau nifer sesiynau trwy ddewis rhieni). Mae'r elfen Cyfnod Sylfaen Deilliant 5+ yn seiliedig ar blant sydd wedi cael cefnogaeth Dechrau'n Deg yn y gorffennol ac sydd bellach yn yr Ysgol Gynradd. Gwelwyd bod perfformiad eleni wedi rhagori ar y targed o 65%, ynghyd â pherfformiad y flwyddyn flaenorol. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Faint ydym ni wedi ei wneud? (Data cyd-destunol)** | | | | | | |
| CPM/065: Cyfanswm nifer y tanysgrifwyr i Cyswllt y Fro | 44,615 | 50,119 | 42,000 | Gwyrdd | ↑ | Mae tanysgrifwyr i'r gwasanaeth hysbysu e-bost wedi parhau i dyfu o 45,856 yn chwarter 1 er gwaethaf fod bwletinau wedi cael eu hanfon allan yn anghyson. Sefydlwyd project i wella'r defnydd o'r gwasanaeth hwn i ddarparu cyfathrebu rhagweithiol i gwsmeriaid, gan gynnwys yn ôl lleoliad ac i gynnwys hysbysiadau atgoffa casglu biniau. Mae potensial i nifer y tanysgrifwyr ostwng yn Ch2 2018/19 o ganlyniad i gyfathrebu a chydymffurfio â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). |
| CPM/114: Nifer yr unigolion sy'n derbyn Credyd Cyffredinol. | Amh. | 632 | 1,000 | Coch | Amh. | Y nifer o unigolion sy'n derbyn Credyd Cyffredinol yn chwarter 4 yw 632. Gostyngodd y nifer o 693 yn chwarter 3 gan fod y Porth i Gredyd Cyffredinol wedi cael ei gau tan i'r Fro drosglwyddo i'r Gwasanaeth Llawn ym mis Hydref 2018. Bydd hawlwyr newydd nawr yn hawlio Budd-daliadau Tai. Hefyd os yw'r cleient yn cael newid ar CC, gallant ddewis mynd yn ôl i Fudd-daliadau Tai. |

**Amcan 2: Darparu cartrefi gweddus a chymunedau diogel.**

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion Poblogaeth** | | | | | | |
| CPM/117 (WO1/004): Canran y bobl sy'n teimlo'n ddiogel gartref, yn cerdded yn yr ardal leol, ac wrth deithio | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Daw'r data diweddaraf sydd ar gael ar y pwnc hwn o Arolwg Cenedlaethol 2016/17 i Gymru; nid oes unrhyw ddata ar gael o arolwg 2017/18 ar Ddiogelwch Cymunedol. Dywedodd 76% o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo'n ddiogel (gartref, yn cerdded yn yr ardal leol, a theithio), sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru o 73%. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CPM/118 (WO1/005): Canran y bobl sy'n fodlon â'r ardal leol fel lle i fyw. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Daw'r data diweddaraf sydd ar gael o Arolwg Cenedlaethol 2016/2017 i Gymru. Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau cydlyniant cymunedol yn arolwg 2017/18. Dywedodd 88% o ymatebwyr ym Mro Morgannwg eu bod yn fodlon â'u hardal leol sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru o 86%. |
| CPM/119 (WO1/006): Canran y tai cymdeithasol sy'n cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru. | 43.7% | 100% | 100% | Gwyrdd | ↑ | Ar hyn o bryd mae stoc Tai y Cyngor yn cydymffurfio 100% â SATC. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd 3439 yn cydymffurfio'n llawn a 429 â methiant derbyniol. Y flwyddyn nesaf, bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i ddilysu ein cyflwr stoc Tai yn allanol. |
| CPM/130: Nifer yr aelwydydd digartref fesul 1,000 o'r boblogaeth | 2.28 | 3.24 | 2.37 | Coch | ↓ | Er bod y ffigwr hwn wedi cynyddu dros y 12 mis diwethaf, mae rhai o'r canlyniadau y tu allan i reolaeth yr awdurdod lleol. Mae achosion A73 yn aelwydydd lle mae digartrefedd wedi digwydd oherwydd na ellid ei atal gan y Tîm Atebion Tai e.e. lle mae perthynas wedi torri y tu hwnt i adfer, gan arwain at i'r aelod o'r teulu yr effeithir arno bellach fethu â pharhau i fyw yn y cartref teuluol, neu lle mae landlord wedi cyhoeddi hysbysiad yn gofyn i aelwyd adael eu cartref gan ei fod am ei werthu neu fyw yno ei hun. Achosion A75 yw'r achosion hynny a ddyfarnwyd gyda dyletswydd A73 - ar ôl hynny, daeth y cyfnod o 56 diwrnod i ben sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol ddyfarnu dyletswydd digartrefedd statudol llawn (A75). Y boblogaeth gyfredol ar draws Bro Morgannwg yw 128,900. |
| CPM/135: Cyfradd yr holl droseddau fesul 1,000 o'r boblogaeth | 62 | 63.25 | Amh. | Amh. | ↓ | Dengys perfformiad yn chwarter 4 bod 63 o droseddau fesul 1000 o boblogaeth. Er bod y ffigwr hwn wedi cynyddu dros y 12 mis diwethaf, mae hyn y tu allan i reolaeth yr awdurdod lleol. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pa wahaniaeth wnaethom ni?** | | | | | | |
| CPM/012: Canran yr holl aelwydydd lle llwyddodd camau atal cadarnhaol i atal/ lleddfu digartrefedd. | 68.63% | 72.47% | 70% | Gwyrdd | ↑ | Mae'r gyfradd lwyddiant atal uchel yn dangos bod y tîm wedi bod yn effeithiol iawn a chyson dros y 12 mis diwethaf, yn cael ei gynorthwyo gan y gwasanaethau cymorth ychwanegol a gyflwynwyd, yn cynnwys Gwalia, Gofal a Shelter Cymru. O gofio'r heriau sy'n wynebu gwasanaeth Digartrefedd cyfyng iawn, ac na ellir atal llawer o achosion oherwydd eu hamgylchiadau, mae'r perfformiad hwn yn gadarnhaol iawn. |
| CPM/124: Canran y dioddefwyr cam-drin domestig sy'n dweud eu bod yn teimlo'n fwy diogel o ganlyniad i wella diogelwch | 100% | 100% | 80% | Gwyrdd | ↔ | Gyda chyflwyno'r broses newydd, mae'r llwybr atgyfeirio wedi gwella'n sylweddol, gan arwain at i'r ffurflenni gwerthuso ddod i mewn ar amser ac i ddata gael ei ddal yn effeithiol. Mae'r atgyfeiriadau nawr yn cael eu hanfon i flwch post canolog sy'n creu gwydnwch yn y ffordd y caiff gwella diogelwch ei brosesu trwy beidio â dibynnu ar un unigolyn i drosglwyddo'r wybodaeth. Mae'r 100% yn ymwneud â 11 gwerthusiad a gafwyd allan o 61 posibl a gafodd wella eu diogelwch trwy gydol y flwyddyn. |
| CPM/026: Canran y bobl sydd wedi derbyn Grant Cyfleusterau i'r Anabl sy'n teimlo bod y cymorth wedi eu gwneud yn fwy diogel ac yn fwy annibynnol yn eu cartref eu hunain | 99.34% | 100% | 97% | Gwyrdd | ↑ | Er bod y ffigwr hwn yn cael ei gymryd o grŵp sampl bach o 50 o ymatebwyr, mae cyfradd o 100% yn ganlyniad cadarnhaol iawn. Er bod perfformiad yn uwch na'r llynedd, roedd 102 o ymatebwyr ychwanegol yn ystod 2016/17. |
| CPM/232: Lleihad canrannol yn nifer yr achosion o drais yn y cartref a gofnodwyd. | Amh. | Dim data ar gael | Amh. | Amh. | Amh. | Sefydlu llinell sylfaen. Nid yw'r wybodaeth ar gyfer y dangosydd ar gael gan yr Heddlu. Dilëwyd y dangosydd hwn ar gyfer 2018/19 ac fe'i disodlwyd gan CPM/244 'Cynnydd canrannol yn nifer yr achosion o drais yn y cartref a gofnodwyd' gan fod y dangosydd presennol yn tybio y bydd adroddiadau'n lleihau, pan mewn gwirionedd, mae'r gweithgaredd wedi'i gynllunio i annog mwy o adrodd. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pa mor dda wnaethom ni berfformio?** | | | | | | |
| CPM/011: Canran y tenantiaid sy'n fodlon â gwaith SATC | 73.93% | 67.31% | 90% | Coch | ↓ | Boddhad cyffredinol tenantiaid ar ddiwedd y flwyddyn oedd 67.31%. Y rheswm dros y perfformiad hwn yw dau ffactor allweddol. Y cyntaf yw bod gwaith allanol yn cymryd rhy hir i'w gwblhau o safbwynt tenantiaid. Achoswyd hyn gan nifer o bwyntiau; disgwyliad y tenantiaid o ba mor hir y dylai ei gymryd ychydig yn uwch nag eraill, perfformiad contractwyr gwael, oedi wrth gael mynediad i eiddo mewn blociau a thywydd garw yn ymestyn amseroedd cwblhau. Yr ail ffactor oedd cyfathrebu gwael rhwng contractwyr a thenantiaid, ac roedd hyn yn amrywio o beidio â chadw apwyntiadau, i beidio â chael gwybod pryd y byddai contractwyr yn gweithio yn yr eiddo. Roedd hyn yn fwy cyffredin wrth gwblhau gwaith ar fân ddiffygion, er mwyn cwblhau'r holl waith gofynnol ar bob eiddo.<br><br>Ar ôl i'r materion hyn gael eu codi gyda'r prif gontractwyr mewn cyfarfodydd contractwyr misol, arweiniodd yn y pen draw at i'r Tîm Projectau Cyfalaf symud gwaith o 3 rhaglen gontractwr, a gwrthod talu am waith nad oedd wedi ei gwblhau'n llawn. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CPM/010: Nifer gyfartalog o ddyddiau gwaith i osod eiddo gwag (cyflwr safonol) (Housemark). | 28 diwrnod | 18.96 diwrnod | 30 diwrnod | Gwyrdd | ↑ | Cadwyd yr amseroedd ailosod i isafswm eleni, ac mae hyn wedi arwain at gael mwy o incwm rhent a galluogi tenantiaid newydd i symud i gartrefi newydd yn gyflymach. Mae perfformiad diwedd y flwyddyn yn welliant ar y llynedd ac mae'n sylweddol well na'r targed. Roedd ychydig dros 188 o osodiadau safonol trwy gydol y flwyddyn ac roedd 17 o'r rhain yn osodiadau 'gefn wrth gefn' - gan olygu bod y denantiaeth nesaf yn dechrau ar unwaith ar ôl i'r denantiaeth flaenorol ddod i ben. Hefyd, cafwyd 21 o osodiadau a gymerodd 7 diwrnod, a oedd yn helpu i yrru'r perfformiad cryf. Ar ben arall y raddfa, roedd 7 gosodiad wedi cymryd dros 40 diwrnod a'r amser hiraf a gymerwyd oedd 56 diwrnod. Roedd yr eiddo hwn angen gwaith atgyweirio mwy helaeth neu yr oedd yn eiddo 'anodd ei osod'. Mae bron pob tŷ Cyngor yn boblogaidd iawn a derbynnir nifer fawr o geisiadau, fodd bynnag, mae nifer fach iawn o eiddo, gan gynnwys rhai fflatiau deulawr 3 ystafell wely a fflatiau llawr cyntaf mewn rhai cynlluniau gwarchod, yn gallu bod yn llai poblogaidd ac yn cymryd mwy o amser i'w gosod.<br><br>Mewn rhai achosion, mae'r fantais o allweddi yn cael eu dychwelyd yn gynnar yn golygu ein bod ymhell ar y blaen gan ein galluogi i wneud atgyweiriadau cyn i'r denantiaeth ddod i ben, fel arfer mae hyn yn wir yn y gosodiadau 'gefn wrth gefn', fodd bynnag o gyfrif diwrnodau gwirioneddol, mae wedi cymryd 15 diwrnod ar gyfartaledd i gwblhau atgyweiriadau ym mhob cartref gwag, a 6.5 diwrnod ar gyfer cynnig a derbyn yr eiddo.<br><br>Dengys y wybodaeth feincnodi bod ein perfformiad diwedd blwyddyn yn gosod y Fro yn y chwartel uchaf o fudiadau Tai ledled Cymru a Lloegr. Golyga hefyd ein bod yn cymharu'n ffafriol â'r rhan fwyaf o gyfoedion lleol. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CPM/025: Canran y cwsmeriaid sy'n fodlon gyda'r Gwasanaeth Grant Cyfleusterau i'r Anabl. | 95.83% | 92.73% | 98% | Oren | ↓ | Y grŵp sampl a gwblhaodd y wybodaeth hon yw 55 o bobl. Cadarnhaodd 51 o'r 55 o ymatebwyr eu bodlonrwydd, gan roi perfformiad o 93%. Byddai cyflawni'r targed 98% wedi gofyn 54 o ymatebion boddhaol ac felly nid yw'r diffyg hwn yn ystadegol arwyddocaol. Cymeradwywyd dileu'r dangosydd hwn yn 2018/19. Serch hynny, dylid nodi bod lefel foddhad o dros 90% yn eithriadol o gofio natur y gwaith sy'n cael ei wneud. |
| CPM/064 (PAM/013): Canran eiddo gwag yn y sector preifat a ddygwyd yn ôl i ddefnydd yn ystod y flwyddyn trwy weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol. | 13.79% | 7.56% | 14% | Coch | ↓ | Mae Llywodraeth Cymru wedi newid y diffiniad o'r hyn yw cartref gwag (e.e. gall hyn nawr gynnwys anheddau newydd eu hadeiladu/tai sy'n cael eu hailwampio neu'n cael estyniad neu eiddo sy'n cael ei addasu'n sylweddol) ac mae hyn wedi ychwanegu'n sylweddol at nifer yr eiddo a ystyrir yn wag. Hefyd cyfyngodd Llywodraeth Cymru ar nifer yr achosion y gall y Cyngor eu hystyried fel rhai a ddaeth yn ôl i ddefnydd fel eiddo preswyl (e.e. lle mae'r Cyngor wedi ysgrifennu a chyfathrebu â pherchnogion, dim ond y tai hynny a ddygir yn ôl i ddefnydd lle mae'r perchnogion wedi cyfathrebu â'r Cyngor y gall eu cynnwys). Cafodd hyn effaith sylweddol ar ba gamau y gall yr awdurdod lleol eu cofnodi fel llwyddiant wrth gefnogi dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Yn ogystal, mae'r swydd Cartrefi Gwag wedi bod yn wag am gyfnod o 6 mis, ac yn ystod yr amser hwn ni chymerwyd unrhyw gamau rhagweithiol i ddychwelyd tai gwag yn ôl i ddefnydd; ond pan gafodd y swydd ei llenwi, gwnaed gwaith rhagweithiol a chyflawnwyd 50% o'r targed, gan adlewyrchu bod y swydd wedi bod yn wag am 6 mis yn y flwyddyn. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CPM/024: Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran o'r holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn. | 58 | Dim data ar gael | Amh. | Amh. | Amh. | Mae'r DP hwn yn cynnwys gwybodaeth gan y Fro, Llywodraeth Cymru a Chymdeithasau Tai/ Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig o'r ardal sydd wedyn yn cael ei gwirio, ei chyfuno a'i hadrodd gan LIC. Dilëwyd y DP ar gyfer 2018/19 gan ei fod ar hyn o bryd dan ymgynghoriad i'w ddiwygio gan Lywodraeth Cymru. Cyflwynwyd 225 o unedau ychwanegol gan y Cyngor yn ystod 2017/18. |
| CPM/009: Canran y stoc dai lle mae'r gwaith sy'n bodloni'r SATC wedi'i gwblhau. | 86.38% | 99.04% | 100% | Oren | ↑ | Nodwyd 2376 o fethiannau allanol SATC yn rhaglen allanol SATC i'w cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon ac hyd yma mae 2316 wedi eu cwblhau (97.47%). Golyga hyn bod 287 o fethiannau allanol ychwanegol wedi cael eu cywiro ers y chwarter diwethaf. Ar hyn o bryd cwblhawyd 100% o waith mewnol a bydd yn parhau i gael ei nodi pryd a phan fydd eiddo'n dod yn wag neu pan fo tenantiaid a oedd wedi gwrthod gwaith mewnol SATC yn flaenorol, yn newid eu meddyliau. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CPM/030: Canran y tenantiaid a oedd yn fodlon â chanlyniad cwyn ymddygiad gwrthgymdeithasol. (Housemark) | Amh. | 33.33% | 60% | Coch | Amh. | Bu cynnydd bach o ran bodlonrwydd yn y chwarter diwethaf o 20% yn chwarter 3 i 33.33% yn chwarter 4; fodd bynnag, roedd perfformiad yn is na'r targed. Mae cwestiynau ynghylch addasrwydd y DP hwn gan nad yw o reidrwydd yn rhoi syniad cywir o ansawdd yr ymateb a ddarperir i ddigwyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Amlygodd dadansoddiad o'r misoedd diweddaraf broblem sydd wedi'i lleoli yn Awberry House yn Buttrills. Roedd hyn yn cynnwys nifer o denantiaid yn gwneud cwynion sŵn am ei gilydd. Ymatebodd y staff Cymdogaeth i bob cwyn a threulio cyfnodau hir yn cyfweld cymdogion ar y safle, gan gasglu tystiolaeth a darparu cyngor a sicrwydd. Cymerwyd camau priodol ac mae hyn bellach wedi ymdrin â'r broblem, fodd bynnag, mae nifer o denantiaid yn dal yn anhapus ac mae un wedi symud allan ers hynny. Cafodd y mater hwn effaith sylweddol ar y canlyniadau boddhad. Mae'r tîm Tai yn parhau i ddefnyddio ystod o offer i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol; mae'r rhain yn cynnwys asesiadau risg o ddioddefwyr, cynlluniau gweithredu personol, gwaith amlasiantaeth gyda phartneriaid, a defnydd o'r ap Sŵn a chamau gorfodi fel dewis olaf. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CPM/027 (PAM/015): Nifer gyfartalog y diwrnodau calendr a gymerwyd i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl (DFG). | 166.51 diwrnod | 188.15 diwrnod | 176 diwrnod | Oren | ↓ | Derbyniwyd achosion mwy cymhleth, sydd, yn rhannol, wedi cynyddu amser cyflenwi'r grant cyfartalog. Mae'r newidiadau i fethodoleg a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn y flwyddyn ddiwethaf wedi ychwanegu at y cyfnod a fesurwyd. Fel yr adroddwyd yn flaenorol, mae'r diffiniad ar gyfer y mesur hwn wedi'i newid erbyn hyn – yn flaenorol, roedd yr amser cyflenwi a gofnodwyd yn cychwyn ar adeg atgyfeirio i'r tîm DFG, ond mae amseroedd bellach yn cael eu cofnodi o'r cyswllt cyntaf â'r Cyngor a allai fod trwy'r Ganolfan Gyswllt (C1V). Gan fod angen i anghenion cleientiaid gael eu hasesu ac y gall hyn gymryd cryn amser cyn yr atgyfeiriad i'r tîm DFG, cafwyd effaith ar yr amser cyflenwi cyfartalog. Fodd bynnag, mae prosesau'n cael eu hadolygu ymhellach mewn ymdrech i wneud iawn am hyn, a lleihau'r amser cyflenwi cyfartalog cyffredinol. Yn ystod 2018/19, bydd ein targed ar gyfer perfformiad yn y mesur hwn yn 190 diwrnod. |

**Atodiad B – Dangosyddion Perfformiad Ychwanegol (Canlyniad Llesiant 1)**

**Amcan 1: Lleihau tlodi ac ynysu cymdeithasol.**

Nid oes unrhyw fesurau yn bodoli o dan yr adran hon ar hyn o bryd.

**Amcan 2: Darparu cartrefi gweddus a chymunedau diogel.**

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn Wirioneddol 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn Wirioneddol 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pa wahaniaeth wnaethom ni?** | | | | | | |
| PAM/012: Canran y cartrefi dan fygythiad digartrefedd sy'n cael eu hatal yn llwyddiannus rhag dod yn ddigartref. | Amh. | 71.4% | Amh. | Amh. | Amh. | Roedd y cyfanswm o 71.4% ar gyfer eleni yn cynnwys aelwydydd lle na chafwyd naill ai atal llwyddiannus nac aflwyddiannus, e.e. y rheiny sydd bellach wedi tynnu eu cais yn ôl, y rhai lle y collwyd cysylltiad ayb. Unwaith yr eithrir yr achosion hyn, mae cyfanswm nifer yr aelwydydd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag dod yn ddigartref yn codi i 76.7%. Gellir priodoli'r cynnydd yng nghanran yr achosion a ataliwyd yn llwyddiannus rhag dod yn ddigartref ers y chwarter diwethaf i ailstrwythuro tîm bychan a llwyddiant y bartneriaeth waith newydd gyda darparwyr cymorth sydd â dau weithiwr cymorth yn y tîm. Mae hyn yn cynorthwyo gydag atal digartrefedd, gan gynnwys darparu cefnogaeth i gleientiaid ar adeg cyflwyno ac i'r rhai sydd mewn llety dros dro. Mae un o'r gweithwyr cymorth yn Weithiwr Cyswllt Iechyd Meddwl, sydd nawr yn cefnogi'r achosion mwy heriol, sy'n ddwys o ran amser. |
| PAM/014: Nifer yr anheddau ychwanegol a grëwyd o ganlyniad i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. | Amh. | 6 | Amh. | Amh. | Amh. | Eleni casglwyd data i sefydlu llinell sylfaen i lywio'r targed ar gyfer 2018/19. Adroddir am berfformiad yn 2018/19 yn unol â chanllawiau cenedlaethol. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn Wirioneddol 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn Wirioneddol 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| PAM/023 (PPN/009): Canran y sefydliadau bwyd sy'n 'cydymffurfio'n fras' â safon hylendid bwyd. | 91.56% | 95.4% | 93% | Gwyrdd | ↑ | Mae'r perfformiad yn rhagori ar y targed o 93% ac mae'n gynnydd ar berfformiad yn ystod 2016/17. Mae'r DP hwn yn arwydd o ba mor dda y mae busnes bwyd yn cydymffurfio â deddfwriaeth hylendid bwyd. Yn y pen draw, mae'r sgôr yn adlewyrchiad o berfformiad busnes yn hytrach nag un yr SRS. Caiff busnesau eu hasesu trwy raglen o arolygiadau a chyngor ac ystyrir bod adeiladau'n cydymffurfio'n gyffredinol os y cyflawnir sgoriau risg penodol ar gyfer glendid, materion strwythurol a hyder wrth reoli'r busnes. Yn ystod y Chwarter, roedd 1141 o'r 1196 o sefydliadau bwyd yn 'cydymffurfio'n fras' â safonau hylendid bwyd. |

## ATODIAD B: CAMAU GWEITHREDU'R CYNLLUN GWASANAETH

**Amcan 3: Hyrwyddo adfywio, twf economaidd a chyflogaeth**

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| **ER1** | | | | |
| RP/A055: Mabwysiadu fframwaith datblygu Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan fel briff datblygu. | 31/3/2018 | 75 | Coch | Roedd y fframwaith drafft a baratowyd gan Lywodraeth Cymru i fod i gael ei adrodd i'r Cabinet ochr yn ochr â Chanllawiau Cynllunio Atodol arall (CCA) yn Ch3; fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwaith nawr mewn ymgynghoriad â'r Cyngor a'r Maes Awyr i Uwchgynllunio'n llawn y Maes Awyr a chyfleoedd Ardaloedd Menter, a disgwylir adroddiad yn hwyrach yn 2018. Unwaith y cytunir ar yr Uwchgynllun, bydd yn mynd drwy'r broses CCA yn unol â hynny; o ganlyniad, cafodd y cynnydd o dan y weithred hon ei oedi wrth i ni aros i Lywodraeth Cymru symud pethau ymlaen. O ganlyniad i'r oedi hwn, cafodd y weithred hon ei dwyn ymlaen i Gynllun Gwasanaeth Adfywio a Chynllunio 2018/19. |
| RP/A054: Gweithio mewn partneriaeth â Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i hyrwyddo Maes Awyr Caerdydd a'r Ardal Fenter a defnyddio'r Cynllun Datblygu Lleol fel fframwaith cynllunio ar gyfer defnydd tir cadarnhaol. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae swyddogion yn parhau i hyrwyddo Maes Awyr Caerdydd a'r Ardal Fenter trwy Brifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r Cynllun Datblygu Lleol. Yn ychwanegol, mae Llywodraeth Cymru, Bro Morgannwg, a pherchenogion tir partner eraill wedi bod yn rhan o gomisiynu Uwchgynllun ar gyfer y maes awyr, a gobeithir y bydd hyn yn cael ei gyflwyno yn nes ymlaen yn 2018.<br><br>Parha'r Cyngor i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Busnes Cymru i gynnal cyfres o ddigwyddiadau i hyrwyddo manteision yr Ardal Fenter. Cynhelir digwyddiad pellach yn 2018, a bydd y cynnydd dan y camau gweithredu hyn yn parhau i gael ei adrodd fel yr amlinellwyd yng Nghynllun Gwasanaeth Adfywio a Chynllunio 2018/19. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| RP/A054 Parhad | | | | Bydd y gwaith hwn yn helpu i ddatblygu mwy o ddiddordeb a buddsoddiad yn yr Ardal Fenter a chreu swyddi. |
| LS/A002: Darparu cyngor cyfreithiol, arweiniad a chefnogaeth ar faterion cyfreithiol mewn perthynas â'r Brifddinas-Ranbarth (Bargen Dinas Caerdydd) ac Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Yn dilyn gweithredu'r Cytundeb Gweithio ar y Cyd a sefydlu Cabinet ar y Cyd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, ceir mewnbwn gan Swyddog Monitro a Gwasanaethau Cyfreithiol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, pan fo angen. Yn ystod Ch4, rhoddwyd ystyriaeth i Gynllun Busnes Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 28 Mawrth 2018. |
| LS/A003: Darparu cyngor cyfreithiol, arweiniad a chefnogaeth ar faterion cyfreithiol mewn perthynas ag Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Darperir mewnbwn parhaus o bersbectif y Gwasanaethau Cyfreithiol pan fo angen h.y. ar sail ad hoc. Ni cheisiwyd cyngor ar y materion hyn gan y Gwasanaethau Cyfreithiol yn ystod Ch4. Bydd y gwaith hwn yn parhau, gyda'r gwasanaethau Cyfreithiol yn mynychu cyfarfod ar 15fed Mai i drafod Cytundeb Cydweithredol Tirfeddianwyr posibl. |
| **ER2** | | | | |
| RP/A056: Hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth newydd trwy ddefnyddio'r Cynllun Datblygu Lleol fel fframwaith cynllunio ar gyfer defnydd tir cadarnhaol. | 31/3/2018 | 100 | Gwyrdd | Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) gan y Cyngor llawn ar 28/06/2017. Bellach, mae'r CDLl yn darparu fframwaith cadarnhaol ar gyfer datblygu cyflogaeth newydd ym Mro Morgannwg. Amcangyfrifir y bydd datblygu'r tir cyflogaeth a ddyrannwyd yn cynhyrchu 7,610 i 10,610 o swyddi posibl yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae'r CDLl yn darparu sicrwydd i fuddsoddwyr ac felly mae'n gwneud buddsoddiad yn yr ardal yn fwy tebygol. Drwy gydol y flwyddyn o dan fframwaith polisi newydd y CDLl, mae'r Cyngor wedi cymeradwyo nifer o geisiadau cynllunio mawr a pharatowyd Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA). Yn ystod chwarter 4, paratowyd CCA newydd ar Gynlluniau Teithio i gynorthwyo busnesau i |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | baratoi cynlluniau teithio i gefnogi ceisiadau cynllunio. |
| RP/A057: Defnyddio cysylltiadau rhwng Cymunedau am Waith a phrojectau adfywio/buddsoddi i wireddu cyfleoedd cyflogaeth leol. | 31/3/2018 | 100 | Gwyrdd | Cynhaliwyd trafodaethau gyda'r contractwr ar gyfer y project '5 Mile Lane', Alun Griffiths Construction, a'u Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo i wneud y mwyaf o gyfleoedd cyflogaeth i'r cyfranogwyr Cymunedau am Waith yn ystod y project hwn. Byddwn yn parhau i gynyddu'r cyfleoedd i bobl leol gael cyfleoedd cyflogaeth yn y flwyddyn ariannol nesaf, fel yr amlinellir yng Nghynllun Gwasanaeth Adfywio a Chynllunio 2018/19. |
| HR/A001: Gweithredu strategaeth fewnol i gynyddu nifer y gweithwyr 16-24 oed fel cyfran o'r gweithlu ehangach. | 31/3/2018 | 80 | Coch | Cafodd y strategaeth fewnol i gynyddu nifer y gweithwyr iau fel cyfran o'r gweithlu ei gweithredu'n llwyddiannus ar ddechrau'r flwyddyn. Yn ystod chwarter 4, gwnaed gwaith i gytuno ar ddull cyflogaeth uniongyrchol, gan gynnwys cytundeb ar ddwy lefel o brentisiaid/hyfforddeion a'r graddfeydd cyflog sy'n briodol i bob un. Bydd y gwaith hwn yn ein galluogi i gael mwy o ddylanwad dros y nifer o brentisiaid y gallwn eu cymryd o'i gymharu â'r model cynnal.<br><br>Llithrodd y cynnydd ar ddiwedd y flwyddyn oherwydd yr angen annisgwyl i symud i fodel recriwtio uniongyrchol ar ôl i'r cynnig cynnal gael ei ddiddymu'n annisgwyl gan y<br><br>darparwyr hyfforddiant yn ystod y flwyddyn. Bydd y weithred hon yn parhau i 2018/19, pryd y caiff y llithriad sylw. Mae angen rhagor o waith i greu contract prentisiaeth ac wrth symud ymlaen, byddwn yn parhau i weithio gydag adrannau i hyrwyddo'r defnydd o brentisiaethau ymhellach, a fydd hefyd yn helpu i gynyddu nifer y gweithwyr 16-24 oed. Adroddir ar gynnydd yn erbyn y ffocws hwn o dan HR/A008, fel yr amlinellir yng Nghynllun Gwasanaeth Adnoddau Dynol |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | 2018/19. |
| **ER3** | | | | |
| VS/A002: Symud ymlaen yr astudiaeth ddichonoldeb i gael bysiau dros forglawdd Bae Caerdydd, gan gynnwys ystyriaeth bellach o gyfleuster Parcio a Theithio Cosmeston. | 31/03/2018 | | | Llithrodd y weithred hon ar ddiwedd y flwyddyn oherwydd ceisiadau gan Gyngor Cymuned Dinas Powys i ehangu cwmpas yr astudiaeth i gynnwys ystyriaeth o lwybrau amgen ar gyfer rhan ddeheuol y ffordd osgoi. Cyflwynir adroddiad i'r Cabinet ar 16/04/18 i ofyn am gymeradwyaeth i ehangu cwmpas gwaith Canllaw Gwerthuso Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) sydd yn cael ei gynnal ar hyn o bryd yn Ninas Powys. Gofynnwyd i Lywodraeth Cymru am arian i gwblhau dylunio cynllun beicio Biglis i Ddinas Powys trwy ddyraniad dangosol Teithio Llesol 2018/19. Ar hyn o bryd rydym yn disgwyl am gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru. |
| VS/A051: Ystyried darparu gwasanaeth bws penwythnos a gwyliau banc i Benarth ac ymgymryd ag adolygiad o'i lwyddiant. | 31/12/2018 | 100 | Gwyrdd | Yn dilyn adolygiad o'r gwasanaeth bws penwythnos a gwyliau banc i Benarth a gwblhawyd yn ystod chwarter 3, cynhaliwyd adolygiad pellach o'r gwasanaeth gyda Chyngor Tref Penarth yn Chwarter 4 ynghylch unrhyw wasanaeth yn y dyfodol. O ganlyniad i nifer isel y teithwyr a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth, mae'n annhebygol y bydd gwasanaeth yn gweithredu yn Haf 2018. |
| RP/A058: Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflwyno piblinell o brojectau yn 2017/18 tra'n disgwyl am y rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid amnewidiol yn 2018/19. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Tynnwyd i lawr y ddau grant a ddyfarnwyd fel yr adroddwyd yn chwarter 3 ar gyfer projectau yn y Barri; 1) Addasu'r gyn-ganolfan sgiliau i'r BSC2 a 2) adnewyddu eiddo masnachol Heol Holton (yn llawn) yn y chwarter hwn a'u cwblhau yn unol â dyddiadau cau Llywodraeth Cymru i gynnal projectau adfywio pellach yn y Rhanbarth. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| RP/A059: Parhau i gyflenwi'r Strategaeth Datblygu Gwledig. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae'r Strategaeth Cynllun Datblygu Gwledig gyfredol yn rhedeg tan fis Rhagfyr 2020 i helpu i gydlynu gwaith adfywio gwledig yn effeithiol, a bydd cynnydd yn parhau i gael ei adrodd o dan y camau gweithredu hyn yn 2018/19. Hyd yn hyn, mae 29 o brojectau nawr wedi'u comisiynu a'u cymeradwyo gan y grŵp Gweithredu Lleol. Rhagorwyd ar dargedau yn achos y mwyafrif o brojectau ac eithrio astudiaethau dichonoldeb a fydd yn dod i'r amlwg yn y blynyddoedd dilynol. Mae gwariant a thargedau yn parhau i fod ar broffil ac mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei bod yn fodlon â'r cynnydd a wnaed yn erbyn Dangosyddion Perfformiad a phroffiliau gwariant. |
| RP/A060: Parhau i gyflenwi'r Fframwaith Canol Trefi. | 31/3/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae'r rhan fwyaf o brojectau yn yr ardal hon yn parhau i fod ar y trywydd iawn, a darperir llawer ohonynt mewn partneriaeth â chyrff allanol. Yn ystod chwarter 4, cafwyd ffocws parhaus ar ddatblygu a gwella ymgysylltiad masnachwyr ym mhob tref. Bydd adroddiad ar y perfformiad cyffredinol yn erbyn Cynllun Gweithredu'r Fframwaith i adnewyddu canol trefi gan sicrhau eu bod yn parhau i fod yn fannau deniadol a hyfyw i fanwerthwyr yn mynd i'r Cabinet ddechrau'r haf 2018. Mae'r Fframwaith yn nodi gweithredoedd integredig y Cyngor sy'n effeithio ar ganol trefi, gan gynnwys safonau glanhau, digwyddiadau, trafnidiaeth a chymorth ariannol ar gyfer buddsoddi. |
| RP/A061: Symud ymlaen brojectau adfywio ledled Bro Morgannwg. | 31/3/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae nifer o brojectau ar draws Bro Morgannwg yn parhau ar y trywydd iawn ac mae'r byrddau project perthnasol yn sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud yn amserol. Bellach, mae WC Ynys y Barri, Hood Road a marchnata safle IQ wedi eu cwblhau, a dewiswyd cynigwyr a ffefrir. Erbyn hyn, mae trafodaethau ar y gweill gyda'r gwahanol gynigwyr a ffefrir gan gynnwys |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| RP/A061 Parhad | | | | cydweithwyr mewn rheoli datblygu a chyfreithiol, gyda disgwyl y bydd y ceisiadau cynllunio yn cael eu cyflwyno yn y dyfodol agos. Comisiynwyd astudiaeth ddichonoldeb i ddyfodol y farchnad dai/ hybiau gwledig yn unol â'r adroddiad a oedd yn amlinellu'r weledigaeth newydd ar gyfer adfywio ardal y Farchnad Da Byw yng nghanol tref y Bont-faen a chafodd ei gyflwyno i'r Cabinet ar 23 Hydref 2017. |
| RP/A062: Cwblhau gwaith gwella'r Mannau Agored yng Ngogledd Penarth. | 31/03/2018 | 90 | Coch | Cynhaliwyd cyfarfod cyn-gontract yn ystod chwarter 4 a bydd y gwaith ar Fannau Agored Paget Road yn dechrau ddiwedd Ebrill 2018, gyda chyfnod contract 16 wythnos yn dilyn y broses ddylunio manwl a'r broses dendro lwyddiannus a gyflawnwyd eleni. Mae gwaith plannu ym Man Agored Sgwâr Plassey bellach wedi'i gwblhau yn dilyn gosod seddi newydd yn y Sgwâr yn chwarter 2. Bydd gwaith i gwblhau'r gwelliannau Mannau Agored i Ogledd Penarth yn cael ei ddwyn ymlaen fel yr amlinellir yng Nghynllun Gwasanaeth Adfywio a Chynllunio 2018/19 gyda dyddiad cwblhau diwedd Medi 2018. |
| LS/A004: Darparu cyngor cyfreithiol, arweiniad a chefnogaeth ar faterion cyfreithiol mewn perthynas â phrojectau adfywio mawr y Cyngor. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae'r Swyddog Monitro a chynrychiolydd o Dîm Eiddo a Chontract y Gwasanaethau Cyfreithiol yn aelodau o Grŵp Monitro Projectau Strategol y Cyngor sy'n goruchwylio cynnydd ar brojectau adfywio mawr y Cyngor sydd o bwys penodol. Mae'r cyngor a chefnogaeth gyfreithiol a gynigir yn hwyluso cynnydd mewn perthynas â phrojectau adfywio allweddol y Cyngor. Mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn ymwneud â chwblhau cytundebau adrannau 278 a 38 mewn perthynas â Ffordd Gyswllt y Glannau; ymdrin â materion mewn cysylltiad â chontract Legacy Leisure; rhoi cyngor mewn perthynas â safle St Cyres (yn dilyn rhoi caniatâd cynllunio, mae cwblhau mewn perthynas â'r trosglwyddiad bellach ar fin digwydd). Yn ystod Ch4, darperir cyngor cyfreithiol mewn |

| Camau gweithredu’r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | perthynas â safle datblygu IQ Southern, gwaredu sied nwyddau Hood Road, Cyswllt y Penrhyn, gwaredu Ysgol Eagleswell, Marchnad Da Byw y Bont-faen, Adfywio Porth y Barri, Gwaredu Eglwys Sant Paul, Rhaglen Dai'r Cyngor, Cynllun Mynedfa’r Fynwent a WVIC Llanilltud Fawr. |
| **ER4** | | | | |
| VS/A006: Cwblhau yr astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer gwelliannau bws, beicio a cherdded yng Nghaerdydd a Barry Road, Dinas Powys. | 30/09/2017 | | | Ni ellid cwblhau'r weithred hon erbyn y dyddiad dyledus er mwyn cynnwys ceisiadau gan Gyngor Cymuned Dinas Powys i ehangu cwmpas yr astudiaeth i gynnwys ystyriaeth o lwybrau amgen ar gyfer rhan ddeheuol y ffordd osgoi. Cyflwynir adroddiad diwygiedig i'r Cabinet ar 16/04/18 i ofyn am gymeradwyaeth i ehangu cwmpas gwaith Canllaw Gwerthuso Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) sydd yn cael ei gynnal ar hyn o bryd yn Ninas Powys. Gofynnwyd i Lywodraeth Cymru am arian i gwblhau dylunio cynllun beicio Biglis i Ddinas Powys trwy ddyraniad dangosol Teithio Llesol 2018/19. Ar hyn o bryd rydym yn disgwyl am gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru. Byddwn yn parhau i weithio tuag at ddatblygu'r astudiaeth ddichonoldeb fel yr amlinellwyd o dan NS/A003 yng Nghynllun Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth 2018/19. |
| VS/A052: Cwblhau’r dyluniad ar gyfer llwybr bws/ beicio/ cerdded o Weycock Cross i Faes Awyr Caerdydd, yn ddarostyngedig i ariannu. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cwblhawyd y gwaith dichonoldeb ar gyfer y llwybr a bydd dyluniad manwl yn parhau, yn amodol ar ganlyniad y cais grant trafnidiaeth a gyflwynwyd yn flaenorol a fydd yn hysbys yn Ch1 y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r manteision o gael y cynllun dichonoldeb yn golygu y gall y cynllun symud ymlaen yn gyflym os oes cyllid ar gael. |

| Camau gweithredu’r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| LS/A005: Darparu cyngor cyfreithiol, arweiniad a chefnogaeth ar faterion cyfreithiol mewn perthynas â chynlluniau gwella trafnidiaeth sy'n gysylltiedig â Metro Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Darperir cyngor cyfreithiol yn ôl yr angen. Drwy gydol y flwyddyn, darparwyd cyngor mewn perthynas â heriau tirfeddianwyr ar gynlluniau cyffordd, gyda'r materion a nodwyd yn chwarter 1, 2 a 3 bellach wedi'u datrys. |
| **ER5** | | | | |
| VS/A007: Paratoi’r Map Teithio Llesol rhwydwaith integredig ac ymgynghori arno. | 01/11/2017 | 100 | Gwyrdd | Mae'r mapiau Teithio Llesol terfynol wedi'u diweddaru yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus i adlewyrchu'r ymatebion a gyflwynwyd i'r Cabinet a'u cymeradwyo ar 6 Tachwedd 2017. Gellir dod o hyd i'r canfyddiadau o'r ymgynghoriad a ddaeth i ben ar 15 Medi 2017 ar wefan y cyngor. Mae mapiau'r Rhwydwaith Integredig a'r mapiau llwybrau presennol wedi'u cymeradwyo erbyn hyn gan Lywodraeth Cymru. Roedd y Mapiau Rhwydwaith Integredig yn nodi dyheadau'r Awdurdod ar gyfer gwella llwybrau teithio llesol ledled y Sir dros y 15 mlynedd nesaf. |
| **ER6** | | | | |
| RP/A029: Cynyddu nifer y digwyddiadau arloesol sy'n cefnogi'r economi leol ac annog digwyddiadau presennol i fod yn hunan-gynaliadwy. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cynhaliwyd 5 digwyddiad ychwanegol o ganlyniad i'r cynllun grant bach yn ystod 2017; Llwybr Celfyddydau Penarth, yr Ŵyl Crefftau Arfordirol, Syrcas y Môr, Aquathlon y Barri a Marchnad Nadolig Heol Holton. Oherwydd natur y rhaglen ddigwyddiadau, ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau ychwanegol am y cyfnod Ion-Maw '18, ond mae nifer o ymholiadau eisoes wedi'u derbyn cyn dechrau tymor 2018. Byddwn yn parhau i adrodd ar gynnydd bob chwarter yn 2018/19 dan RP/A029. Mae'r cynllun grant bach yn ein galluogi i gefnogi ac annog digwyddiadau newydd, arloesol, ac yn bwysicaf oll, digwyddiadau cynaliadwy sy'n ategu'r rhaglen ddigwyddiadau bresennol, ac mae arian yn dal i gael ei gynnig. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| RP/A063: Cynnal adolygiad o'r Cynllun Rheoli Cyrchfan gyda rhanddeiliaid. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Erbyn hyn, cytunodd y Bartneriaeth Rheoli Cyrchfan ar ddrafft terfynol o Gynllun Rheoli Cyrchfan 2018 -2020, ar ôl gweithdai rhanddeiliaid i hysbysu ei gynnwys sy'n nodi amcanion twristiaeth allweddol a fydd yn ffurfio blaenoriaethau'r bartneriaeth dros yr ychydig flynyddoedd nesaf ac a fydd yn helpu i alluogi Bro Morgannwg i ddod yn gyrchfan ddeniadol i ymwelwyr. Mae'r Bartneriaeth yn cynrychioli busnesau ymwelwyr yr economi leol, gweithredwyr llety, Aelodau'r Cyngor, adrannau mewnol y Cyngor a Chroeso Cymru. Bydd y Cynllun Rheoli Cyrchfan yn mynd i'r Cabinet i'w gymeradwyo'n ffurfiol ar 30 Ebrill 2018. |
| RP/A064: Archwilio cyfleoedd pellach ar gyfer partneriaethau masnachol ar safleoedd y Cyngor i ddarparu gweithgareddau twristiaeth. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Gwnaed cytundeb y chwarter hwn gyda gweithredydd trydydd parti i ddarparu digwyddiadau nofio dŵr agored ym Mharc Gwledig Llyn Cosmeston, gydag Adroddiad y Cabinet yn cael ei gyflenwi ar 16eg Ebrill yn manylu ar gynigion newydd i ddatblygu mentrau newydd mewn safleoedd Cefn Gwlad. Mae'r rhain yn cynnwys cynigion gwersylla a gweithgareddau awyr agored ar gyfer Parc Gwledig Llynnoedd Cosmeston, Parc Gwledig Porthceri a Choed Lecwydd, a fydd, pan gânt eu gweithredu, yn darparu manteision twristiaeth sylweddol ac incwm i gynnal y gwasanaeth. Parhaodd y diddordeb o ran y ddarpariaeth briodas yn Cosmeston a Phorthceri. Mae'r ddau barc gwledig wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau ar raddfa fach fel biathlon, digwyddiadau rhedeg traws-gwlad a rasio cychod Dragon. Bydd y timau'n ceisio datblygu'r cysylltiadau hyn ar gyfer mwy o incwm potensial yn y dyfodol ac adroddir ar gynnydd pellach o dan y camau gweithredu hyn yn 2018/19. |

**Amcan 4: Hyrwyddo datblygiad cynaliadwy a diogelu ein hamgylchedd**

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| **ER7** | | | | |
| RP/A030: Symud y Cynllun Datblygu Lleol ymlaen i'w fabwysiadu fel fframwaith ar gyfer datblygu cynaliadwy ym Mro Morgannwg. | 31/12/2017 | 100 | Gwyrdd | Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg 2011-2026 gan y Cyngor llawn ar 28/06/2017. Daeth y CDLl yn weithredol ar ei fabwysiadu a disodli'r Cynllun Datblygu Unedol (CDU) a fabwysiadwyd yn flaenorol. Y CDLl fydd y sail ar gyfer penderfyniadau ar gynllunio defnydd tir ym Mro Morgannwg a bydd yn cael ei ddefnyddio gan y Cyngor i arwain a rheoli cynigion datblygu newydd. Yn dilyn mabwysiadu'r CDLl, roedd y Cynllun yn destun cyfnod her o chwe wythnos i'r Uchel Lys. Gellir gweld Datganiad Ysgrifenedig y CDLl Mabwysiedig ar wefan y cyngor. |
| RP/A065: Mabwysiadu'r CCA canlynol yn 2017/18: Rhwymedigaethau Cynllunio, Tai Fforddiadwy, Safonau Parcio. | 31/03/2018 | 75 | Coch | CCA Rhwymedigaethau Cynllunio a Thai Fforddiadwy (CCA) - Cymeradwywyd y ddau CCA gan y Cabinet ar 31/07/2017 i'w defnyddio ar unwaith mewn penderfyniadau Rheoli Datblygu ochr yn ochr â'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig. Yn dilyn adolygiad o'r CCA Tai Fforddiadwy, mabwysiadwyd fersiwn ddiwygiedig gan y Cabinet ar 5 Chwefror 2018 yn chwarter 4.<br><br>CCA Safonau Parcio – Ailddrafftiwyd canllawiau safonol Cymdeithas Syrfewyr y Sir (CSS) i wneud y ddogfen yn fwy penodol i Fro Morgannwg. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda swyddogion datblygu priffyrdd a rheoli datblygu i gytuno ar newidiadau i eiriad y canllawiau er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol wrth ystyried ceisiadau cynllunio yn y dyfodol, fel y nodwyd yn y chwarter blaenorol. Fodd bynnag, oherwydd absenoldeb staff, ni ddatblygwyd hyn a bydd nawr yn cael ei ddwyn ymlaen i 2018/19. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| RP/A066: Paratoi ac ymgynghori ar y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) canlynol Ynni Adnewyddadwy, Dyluniad Deiliaid Tai, Addasu Adeiladau Gwledig, Celf Gyhoeddus, Coed a Datblygu, Mwynau | 31/03/2018 | 80 | Coch | Cafodd y Canllawiau Datblygiad Preswyl a Dylunio Deiliaid Tai, a Chanllawiau Cynllunio Atodol Bioamrywiaeth, Addasu Adeiladau Gwledig, Diogelu Mwynau i gyd eu cymeradwyo gan y Cabinet ar 18 Rhagfyr 2017 a chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus yn Ch4. Byddant yn cael eu hadrodd i'r Cabinet i'w cymeradwyo i'w hystyried ar 16/04/18 ar gyfer eu defnyddio mewn penderfyniadau rheoli datblygu ochr yn ochr â'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) mabwysiedig.<br><br>Cafwyd oedi gyda'r CCA Ynni Adnewyddadwy oherwydd adnoddau staff a blaenoriaethu'r Canllawiau Cynllunio Atodol eraill a restrir uchod. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddwyn ymlaen i raglen waith flwyddyn nesaf. Mae'n rhan o RP/A091, a fydd yn adrodd ar gynnydd i baratoi ac ymgynghori ar nifer o Ganllawiau Cynllunio Atodol yn 2018/19. |
| RP/A067: Pennu ceisiadau statudol dan Gynllunio a deddfau perthnasol eraill yn unol â'r cynllun datblygu oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Yn ystod Ch4, cafwyd penderfyniad ar 274 o geisiadau yn ogystal â 29 Diwygiad Ansylweddol (NMA) a 17 o gyn-geisiadau. Penderfynwyd 90% o'r holl geisiadau o fewn yr amserlenni targed a gytunwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae 80% neu uwch yn cynrychioli lefel 'Da' yn Adroddiad Perfformiad Blynyddol Llywodraeth Cymru Gyfan a gyhoeddwyd yn ddiweddar. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| RP/A068: Gweithredu rhaglen o hyfforddiant aelodau'r Pwyllgor Cynllunio. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi ymgysylltu â'r Aelodau i ddarparu hyfforddiant cynllunio i sicrhau bod yr Aelodau'n cael hyfforddiant effeithiol o ran y broses gynllunio. Mae hyn wedi amrywio o hyfforddiant cynefino Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio, sesiwn briffio Cynllun Datblygu Lleol a sesiynau hyfforddi ffurfiol gyda Chynghorau Tref a Chymuned ochr yn ochr â Chymorth Cynllunio Cymru. Yn ystod chwarter 4, darparwyd sesiwn briffio i Aelodau ar y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) newydd cyn yr ymarferiad Ymgynghori Cyhoeddus. |
| **ER8** | | | | |
| RP/A069: Cymryd stoc o newidiadau deddfwriaethol tebygol yng Nghymru a'r adroddiad diweddar i'r system Ardoll Seilwaith Cymunedol a datblygu arweiniad rhwymedigaeth Cynllunio y Cyngor ymhellach i sicrhau cyfraniadau datblygwr i ddarparu seilwaith angenrheidiol a gwella cyfleusterau cymunedol. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) gan y Cyngor ar 28 Mehefin 2017, drafftiwyd nifer o Ganllawiau Cynllunio Atodol, ymgynghorwyd arnynt a'u cymeradwyo gan y Cabinet i'w defnyddio ar unwaith mewn penderfyniadau rheoli datblygu. Yn ystod chwarter 4, llofnodwyd cyfanswm o 9 cytundeb A106 gwerth £887,176.92 gan ddod â'r cyfanswm cronnus am 2017/18 i £8,109,965.52. Bydd y gwaith hwn yn helpu i wneud y mwyaf o ddefnydd o gyfraniadau'r datblygwr i wella a gwella cyfleusterau cymunedol. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| **ER9** | | | | |
| VS/A011: Parhau i ymestyn Gwasanaeth Trafnidiaeth Gymunedol Greenlinks. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae'r cynllun Greenlinks, gydag adnodd gyrrwr cyfyngedig, wedi parhau i gynnig gwasanaeth sydd fawr ei angen i aelodau na all fel arall gael mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus. Darparodd y cynllun ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a bydd yn parhau i wneud hynny yn dilyn llwyddiant y project peilot diweddar sy'n cynnwys cludo gofalwyr ifanc i'r YMCA. Bu cynnydd yn y defnydd o geir hygyrch Greenlinks oherwydd gyrwyr gwirfoddol newydd nad oedd ganddynt yr hawl trwyddedu cywir i yrru bysiau mini mwy o faint a rhwyddineb defnydd mynd o gwmpas y Fro wledig. Byddwn yn parhau i ymestyn y gwasanaeth yn ystod 2018/19 fel yr amlinellwyd o dan NS/A008 yn y Cynllun Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth. |
| VS/A053: Cyflenwi'r rhaglen gyfalaf diogelwch ffyrdd ar gyfer 2017/18. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Ni chafwyd unrhyw arian cyfalaf Diogelwch Ffyrdd i'r Cyngor ar gyfer rhaglen 2017/18, o ganlyniad nid oes unrhyw gynlluniau diogelwch ar y ffyrdd i'w cyflenwi eleni. Fodd bynnag, mae gwaith wedi dechrau a bydd yn parhau gyda'r Heddlu ac ysgolion lleol i hyrwyddo diogelwch ar y ffyrdd, gan gynnwys hyfforddiant beiciau, defnydd diogel o ffyrdd wrth gerdded a diogelwch wrth deithio mewn ceir. |
| VS/A054: Cyflenwi'r Cynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau ar gyfer 2017/18. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae'r Cynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau yn Ham Lane Llanilltud Fawr wedi'i gwblhau erbyn hyn ac mae'n gwbl weithredol. Bydd cyflenwi'r cynllun yn golygu gwell seilwaith cerdded a beicio ar draws cymunedau'r Fro. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| VS/A055: Ceisio cyfleoedd pellach i recriwtio gwirfoddolwyr ar gyfer mentrau trafnidiaeth. | 31/12/2017 | 100 | Gwyrdd | Mae swyddogion y tîm diogelwch ffyrdd yn ysgrifennu'n barhaus at ysgolion i ofyn am wirfoddolwyr ac maent yn mynychu seminarau i annog gwirfoddolwyr i gynnig eu gwasanaethau.<br><br>Greenlinks - Drwy gydol y flwyddyn rydym wedi parhau i ddatblygu'r gwasanaeth trwy ddulliau megis; Ymgyrch recriwtio Greenlinks a gynhaliwyd yn Tesco, Croes Cwrlwys yn y chwarter cyntaf ond yn anffodus ni wnaeth neb fanteisio ar y cynnig. Mae gan gerbydau Greenlinks arwyddion "angen gwirfoddolwyr" arnynt ynghyd â rhifau cyswllt er mwyn cynyddu'r nifer o wirfoddolwyr. Mynychodd Cydlynydd Greenlinks Wasanaeth Gwirfoddolwyr Morgannwg (GVS) ym mis Hydref 2017. Rydym wedi hyrwyddo posteri 'angen gwirfoddolwyr' trwy Lyfrgelloedd, y Gem (papur newydd lleol); gwasanaeth ar-lein y Gem; trwy twitter; a thrwy gyfrwng cyswllt personol trwy wirfoddolwyr presennol. Mae'r broblem "drws cylchdroi" gyda gwirfoddolwyr yn broblem sy'n effeithio ar gynaliadwyedd y gwasanaeth Greenlinks. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2018/19. |
| VS/A056: Adolygu trefniadau gorfodaeth Parcio Sifil gyda Phen-y-bont ar Ogwr, gan gynnwys datblygu achos busnes dros gamera car ar gyfer gorfodi. | 31/12/2017 | | | Mae ymgynghorwyr arbenigol yn parhau i weithio gyda'r Cyngor i ddatblygu strategaeth barcio ar gyfer y Fro. Bydd y strategaeth hon yn ystyried y mater gorfodi ac nid yw i fod i gael ei adrodd na'i gwblhau tan Ch1 y flwyddyn ariannol nesaf oherwydd ystyriaeth o nifer o opsiynau posibl i symud ymlaen. Mae Bwrdd yn monitro cynnydd ar y cynllun hwn. Ystyrir yr adolygiad o drefniadau gorfodi parcio sifil fel rhan o'r gwaith hwn a ddygwyd ymlaen i 2018/19 fel yr amlinellwyd o dan NS/A010 yn y Cynllun Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth. |

| Camau gweithredu’r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| VS/A057: Adolygu'r cynllun arwynebu ffyrdd a pharhau â'r fenter Llenwi MAWR ar gyfer 2017/18. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cymeradwywyd y cynllun ail-wynebu 3 blynedd Cynnal a Chadw Priffyrdd gan y Cabinet ym Medi 2017 ac mae'r gwaith wedi'i gwblhau'n sylweddol fel yr adroddwyd i'r Cabinet. Mae'r fenter Llenwi MAWR hefyd wedi'i chwblhau'n llwyddiannus gan ymweld â phob Ward, gyda’r Fro yn ymdrin â diffygion priffyrdd a adroddir gan y gwahanol gymunedau. Mae'r adolygiad blynyddol o'r cynllun 3 blynedd Cynnal a Chadw Priffyrdd ac amodau'r ffyrdd ar y gweill ar hyn o bryd a rhagwelir y bydd adroddiad diwygiedig i'r Cabinet ym mis Mai 2018. |
| VS/A058: Darparu gwelliannau mynediad i'r Murch (trwy bont). | 31/03/2018 | 75 | Coch | Ataliodd pwysau adnoddau’r gwaith hwn rhag symud ymlaen i dendr er mwyn caffael y contractwr arbenigol angenrheidiol i ymgymryd â'r project hwn. Bydd y broses dendro bellach yn cael ei hadolygu a'i chwblhau yn y flwyddyn ariannol nesaf. |
| **ER10** | | | | |
| VS/A012: Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflenwi gwelliannau i Five Mile Lane. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae elfen ddylunio fanwl y cynllun yn parhau gyda gweithdai/cyfarfodydd rheoli dylunio yn digwydd yn ôl yr angen. Bellach mae gwaith lliniaru archeolegol wedi'i gwblhau i raddau helaeth, gyda ffens dros dro a pharhaol bron wedi'i chwblhau ar hyd y llwybr cyfan oddi ar y llinell, a thynnwyd gwrychoedd ar gyfer mynediad. Hefyd cwblhawyd gwaith Gwella Grantiau Ychwanegol (GI) i gynorthwyo gofynion dylunio manwl parhaus. Mae'n debygol y bydd y prif weithrediadau adeiladu yn cychwyn ar ôl mis Mai 2018, gyda'r bwriad o gwblhau'r gwaith adeiladu ffyrdd newydd yn hydref 2019. Byddwn yn parhau i gyflenwi gwelliannau i Five Mile Lane fel yr amlinellir dan NS/A013 yn y Cynllun Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth. |

| Camau gweithredu’r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| RP/A070: Goruchwylio caffael a rheoli gwaith gwella sy'n gysylltiedig â Five Mile Lane. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Parheir i wneud cynnydd cadarnhaol ar y gwaith i Five Mile Lane i wella diogelwch a seilwaith yr ardal. Cwblhawyd cytundeb archeolegol Cyngor Bro Morgannwg (VGC). Yn unol â'r rhaglen, mae'r prif gontractwr yn cwblhau'r gwaith dylunio manwl ac mae ffensio a chlirio wedi cychwyn ar y safle. Mae'r prif gontract i fod i redeg tan fis Hydref 2018. Parheir i adrodd ar gynnydd yn 2018/19 o dan y weithred hon fel y nodir yn y Cynllun Adfywio a Chynllunio Gwasanaeth. |
| LS/A006: Darparu cyngor cyfreithiol, arweiniad a chefnogaeth ar faterion cyfreithiol mewn perthynas â Five Mile Lane. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Bu'r gwaith hwn yn mynd ymlaen trwy gydol y flwyddyn gyda'r gwasanaeth yn cefnogi cwblhau'r Gorchmynion Prynu Gorfodol (CPOs). Mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn parhau i gynghori ar yr ymchwiliadau/ arolygon parhaus ar y safle, materion iawndal a mynediad at a chaffael tir. Hefyd cynghorodd y Gwasanaethau Cyfreithiol ar y prif gontract adeiladu (cyfnod dylunio ac adeiladu). Byddwn yn parhau i ddarparu cyngor cyfreithiol, arweiniad a chymorth mewn perthynas â Five Mile Lane yn 2018/19, fel yr amlinellwyd yng Nghynllun Gwasanaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol. |
| **ER11** | | | | |
| VS/A013: Ceisio ariannu A106 i gyflenwi cynllun arwyddion ychwanegol a gwelliannau i gyffyrdd i hyrwyddo ymhellach Llwybr Beicio Cenedlaethol rhif 88. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cymerwyd cyfleoedd i geisio cyllid A106 pan ac wrth i arian ddod ar gael trwy gydol y flwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys A106 arian Glan y Dŵr y Barri i gyflawni'r cynllun arwyddion. Er bod y gwaith ar gyfer y flwyddyn wedi'i gwblhau, mae adolygiad cenedlaethol o'r NCN yn mynd ymlaen ar hyn o bryd, a bydd hyn yn ceisio Cynllun Gwella Strategol newydd. Caiff ei gwblhau yn Hydref 2018. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| **ER12** | | | | |
| VS/A014: Hyrwyddo cynlluniau consesiwn trafnidiaeth gyhoeddus. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae'r Cyngor wedi parhau i hyrwyddo'r cynllun ar fformatau digidol ac mae gweithredwyr wedi gwneud yr un peth ar eu llwyfannau eu hunain. Yn chwarter 4 2017/18, cyfanswm y deiliaid tocyn consesiynol oedd 28,788, sy'n golygu bod 83% o oedolion dros 60 oed gyda thocyn, mae hyn yn ostyngiad bach o'i gymharu â 2016/17 lle'r oedd cyfanswm y nifer o ddeiliaid tocyn consesiynol yn 28,693, sef 84%. |
| **ER13** | | | | |
| VS/A076: Gweithredu cynllun achub bywyd yr Haf 2017/18 i Ynys y Barri, Southerndown, Aberogwr a Llanilltud Fawr. | 31/01/2018 | 100 | Gwyrdd | Cytunwyd ar gynllun achub bywydau tymhorol a derbyniwyd llythyr cadarnhau gan yr RNLI yn nodi patrymau shifftiau achubwyr bywyd yn nhraethau'r Fro ar gyfer 2017/18. Mae gan draethau'r Fro yswiriant bywyd priodol yn ystod y tymor, gan sicrhau bod ymwelwyr yn mwynhau ein traethau'n ddiogel. |
| VS/A060: Cynnal adolygiad blynyddol o bolisi cytiau traeth. | 31/01/2018 | 100 | Gwyrdd | Cafwyd nifer fawr yn manteisio ar gonsesiynau gwobrwyo arfordirol ar gyfer atyniadau yn Ynys y Barri a dechreuodd y deiliaid consesiwn llwyddiannus ar 1 Mehefin 2016. Sicrhaodd hyn incwm ar gyfer y 5 mlynedd nesaf ac mae wedi darparu atyniadau a leolir yn strategol ar gyrchfan Ynys Barri. Byddwn yn parhau i adolygu ein polisi cytiau traeth yn flynyddol er mwyn cynnal y nifer uchel sy'n manteisio. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| RP/A071: Cyflwyno dull cydlynol o gefnogi polisïau a chynlluniau'r Cyngor ar gyfer adfywio twristiaeth a chyflogaeth. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae'r timau Twristiaeth a Gwasanaethau Cymdogaeth yn parhau i gydweithio'n dda fel y dangosir trwy farchnata llwyddiannus cytiau traeth Ynys y Barri yn y chwarter blaenorol. Er bod y gwaith integredig o gyflawni swyddogaethau rheoli a thwristiaeth cyrchfan yn Ynys y Barri wedi arwain at i dîm integredig Rheoli Twristiaeth a Chyrchfan gael ei gynnwys ar y rhestr fer am 'Wobr Tîm y Flwyddyn y Local Government Chronicle' am dorri i lawr rhwystrau adrannol i gyflenwi rhaglen ddigwyddiadau eithriadol, cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018 mai'r enillwyr oedd LBC Tower Hamlets. Er gwaethaf y canlyniad, mae'r tîm yn parhau i weithio gyda'i gilydd i ddarparu gwell cyfleoedd nawdd a chynhyrchu incwm. |
| **ER14** | | | | |
| RP/A072: Symud ymlaen Uwchgynllunio Ynys y Barri, gan archwilio ailddefnydd buddiol o safle Nell's Point gan gynnwys y bloc toiledau segur, Ynys y Barri | 31/3/2018 | 100 | Gwyrdd | Yn dilyn dychwelyd bidiau llwyddiannus, mae'r dogfennau contract yn cael eu trafod ar hyn o bryd. Nododd y datblygwr y derbynnir y cyflwyniad cynllunio erbyn Mai 2018. Adroddwyd ar ddogfen ddrafft Uwchgynllunio Ynys y Barri i'r Bwrdd Project y chwarter hwn a'r bwriad yw defnyddio'r ddogfen fel papur Cyfleoedd Strategol i gefnogi'r ymarferion marchnata. Gan adeiladu ar y cynnydd hwn, byddwn yn parhau i symud ymlaen yr ailddefnydd buddiol o Nell's Point yn ystod 2018/19 fel yr amlinellir yn y Cynllun Gwasanaeth Adfywio a Chynllunio. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| LS/A007: Darparu cyngor cyfreithiol, arweiniad a chefnogaeth ar faterion cyfreithiol mewn perthynas ag adfywio Ynys y Barri. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae cyngor cyfreithiol yn parhau i gael ei ddarparu yn ôl yr angen. Yn ystod Ch4, parhaodd y Gwasanaethau Cyfreithiol i gefnogi gwaith adfywio trwy gynghori a chynorthwyo mewn perthynas â'r contract drafft yn achos yr hen floc toiledau ar ôl i'r Cyngor dderbyn cais llwyddiannus; mae trafodaethau contract yn parhau. Byddwn yn parhau i gynorthwyo'r dull cydlynol o ddatblygu Ynys y Barri yn 2018/19 fel yr amlinellwyd yng Nghynllun Gwasanaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol. |
| **ER15** | | | | |
| VS/A019: Prynu cerbydau newydd o'r Gronfa Amnewid Gweladwy yn unol â Safonau Amgylcheddol yr UE cyfredol, gan gynnwys y gallu i weithredu ar fiodanwydd. | 31/03/2018 (31/03/2021) | 100 | Gwyrdd | Rydym wedi derbyn yr holl Gerbydau Sbwriel (8 x 16 tunnell a 4 x 26 Tunnell) ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18. Mae'r holl gerbydau wedi derbyn eu PDI a gosodwyd offer gweithredu cywir ar bob cerbyd i gwrdd â gofynion yr adran. Bydd y Cerbydau i helpu i ddarparu'r gwasanaeth yn fwy effeithlon, a chynorthwyo gyda'r arbedion a nodwyd a chynaliadwyedd. |

| Camau gweithredu’r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| VS/A020: Parhau i archwilio'r angen am fflyd a'r opsiynau ar gyfer gwell defnydd. | 31/03/2018 (31/03/2021) | 100 | Gwyrdd | Mae niferoedd cerbydau sy'n eiddo i'r Cyngor a'r rhai sy'n cael eu prydlesu yn parhau i gael eu gostwng, ac nid yw pob cerbyd yn cael ei amnewid ar ddiwedd eu tymor. Adolygir ceisiadau cerbydau a gweithfeydd ar adeg prynu yn unol ag anghenion yr adran. Bydd amserlen adnewyddu cerbydau cynhwysfawr yn cael ei llunio ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19 yn unol â'r Cynllun Prynu Cerbydau 5 mlynedd.<br><br>Bu'r system dracio sydd ar holl gerbydau'r Cyngor yn amhrisiadwy yn ddiweddar. Roedd y system yn caniatáu i bob 4x4 gael ei leoli a'i gyfuno er mwyn ei ddefnyddio fel rhan o'r weithdrefn cynllunio argyfwng. Dangosodd adroddiad ar y defnydd o'r cerbydau hyn yn ystod tywydd garw Ch4 y flwyddyn ariannol 17/18 pa mor effeithiol y defnyddiwyd y cerbydau hyn - heb yr angen i logi cerbydau o ffynhonnell allanol. Mae cerbydau cario teithwyr Greenlinks hefyd wedi cael eu defnyddio i wneud gwaith i'r Gwasanaethau Cymdeithasol fel rhan o broject peilot sy'n rhoi mynediad i'r YMCA i ofalwyr ifanc. Hefyd mae'r Tîm Trafnidiaeth Teithwyr yn y broses o gymryd drosodd rheolaeth o drafnidiaeth i’r Hen Goleg. Er y bydd hon yn drafnidiaeth a osodir yn allanol yn bennaf, bydd opsiynau ar gyfer trafnidiaeth fewnol yn cael eu hasesu yn unol â dadansoddiad cost/ budd. Bydd y gwaith hwn yn parhau i 2018/19. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| VS/A061: Parhau i weithredu trosi goleuadau nad ydynt yn rhai LED i LED mewn ardaloedd preswyl. | 31/12/2017 | 100 | Gwyrdd | Cafwyd cychwyn llwyddiannus i'r gwaith o weithredu llusernau LED ym mhob seilwaith goleuadau stryd preswyl safonol ar y safle yn gynnar ym mis Mawrth 2018, gyda gwaith yn mynd rhagddo'n dda ac mae'n debygol y bydd y gwaith llawn yn cymryd rhyw 14 wythnos, gan ddod i ben ym mis Mehefin 2018. Ym mis Chwefror 2018, rhoddwyd amserlen fanwl o'r rhaglen waith fesul stryd i bob Aelod Ward, i gyd-fynd â'r llusernau LED newydd yn eu Wardiau. Mae'r gwaith i gynllunio a chaffael addasiad angenrheidiol cyfarpar goleuadau stryd addurnol a phwrpasol mewn strydoedd preswyl i lusernau LED angen offer arbenigol, a bydd yn awr yn dechrau ar ôl trosi'r holl lusernau preswyl safonol i LED ar ôl mis Mehefin 2018. Bydd y cynnydd gweithredu yn gweld arbedion cost Ynni a gostyngiadau mewn allyriadau $C0_2$ ar gyfer y Fro. Bydd y gweithrediad yn parhau yn 2018/19, fel yr amlinellir dan NS/A019 yn y Cynllun Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth. |
| SRS/A011: Adolygu'r Polisi Trwyddedu Tacsis ar draws y rhanbarth gan ystyried cynlluniau ansawdd aer a safonau allyriadau cerbydau ar gyfer cerbydau trwyddedig. | 31/03/2018 | | | Cymerwyd penderfyniad i ohirio unrhyw adolygiad penodol o safonau allyriadau cerbydau ac ansawdd aer hyd nes y bydd Llywodraeth Cymru yn rhyddhau rhagor o wybodaeth am eu cynigion. Yn ogystal, nid oes camau gweithredu pellach ar y gweill tra'r ydym yn disgwyl adroddiad Llywodraeth Cymru ar ganlyniad eu hymgynghoriad ar adolygiad o'r ddeddfwriaeth drwyddedu tacsis. Disgwylir hyn rywbryd yn Haf 2018. Bydd hyn yn llywio adolygiad polisi o fewn SRS. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| FS/A008: Gweithredu'r Cynllun Rheoli Carbon. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Aeth y gwaith ymlaen yn ystod y flwyddyn ar y Cynllun Rheoli Carbon. Ers hynny, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r rhaglen Re:fit a fydd yn effeithio ymhellach ar allyriadau carbon y Cyngor. Bydd y gwaith i ychwanegu at y rhaglen Re:fit (gwella effeithlonrwydd ynni) ar draws y Cyngor yn cael ei fonitro trwy FIT/A006 yn 2018/19 fel yr amlinellir yn y Cynllun Gwasanaeth Cyllid a TGCh. Mae Cynllun Rheoli Carbon drafft yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd, yn adlewyrchu'r mentrau Re:fit arfaethedig ar gyfer y flwyddyn i ddod. |
| FS/A005: Cwrdd â'n hymrwymiadau o dan y cynllun Effeithlonrwydd Ynni CRC a chyflawni ardystiad blynyddol. | 31/03/2018 | 96 | Coch | Er bod adroddiad CRC wedi ei gyflwyno mewn da bryd yn chwarter 2, ni ellir ystyried bod y broses CRC eto'n gyflawn hyd nes y cyhoeddir yr adroddiad archwilio blynyddol, ac ar hyn o bryd mae'n parhau gydag Archwilio i'w gwblhau. Byddwn yn parhau i weithio i fodloni ein hymrwymiadau o dan y cynllun effeithlonrwydd ynni a chyflawni achrediad blynyddol yn y flwyddyn ariannol nesaf. |
| **ER16** | | | | |
| VS/A022: Parhau i ragori ar y Targed Ailgylchu cenedlaethol (58% ar gyfer 2019). | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn parhau i berfformio'n dda o ran paratoi ar gyfer y targed ailgylchu cenedlaethol o 64% (erbyn 2019) gyda 63.1% o wastraff trefol awdurdod lleol a gasglwyd yn cael ei ailgylchu ar ddiwedd y flwyddyn. Parhaodd y Cyngor i ymgymryd â'i ddull arferol o ymwybyddiaeth ailgylchu sydd wedi ein galluogi i sicrhau ein bod yn parhau ar y trywydd iawn. Mae hyn yn cynnwys diweddaru'r wefan, gan gynnwys danfon llythyrau i ardaloedd preswyl lle mae cyfranogiad gwael, sioeau teithiol gydag ôl-gerbyd digwyddiadau, a rhaglen addysg ysgol. Bydd y camau gweithredu hyn yn parhau yn 2018/19 fel yr amlinellir dan NS/A022 yn y Cynllun Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth. |

| Camau gweithredu’r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| VS/A023: Terfynu'r Rhaglen Gweithredu Adnoddau Gwastraff (WRAP) gyda Llywodraeth Cymru. | 01/07/2017 | 100 | Gwyrdd | Cwblhawyd adroddiad WRAP yn ystod chwarter 1 a chafodd ei gyflwyno mewn cabinet busnes anffurfiol i roi gwybod i'r Aelodau am y canlyniad/ argymhellion. Nod yr adroddiad yw lleihau gwastraff. |
| VS/A025: Gwneud cais am y Grant Amgylcheddol Llywodraeth Cymru blynyddol. | 01/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae hon yn broses flynyddol a gwblhawyd am y flwyddyn gyda cheisiadau am y Grant Amgylcheddol Llywodraeth Cymru blynyddol ar gyfer 2018/19. Bydd yr arian yn sicrhau gwelliannau yn seilwaith rheoli gwastraff y Cyngor. |
| VS/A027: Adolygu'r ddarpariaeth o gyfleusterau cyhoeddus i ddarparu gwasanaeth mwy cost-effeithiol. | 01/09/2017 | | | Er bod y gwaith cefndirol ar y cam hwn wedi'i gwblhau yn y chwarter blaenorol, mae'r gwaith sy'n weddill wedi llithro oherwydd bod y newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth wedi eu gohirio am flwyddyn arall. Fodd bynnag, bydd y gwaith hwn yn parhau i fynd ymlaen gydag adroddiad i'r Cabinet yn amlinellu arbedion i’r dyfodol yn 2018. Mae'r weithred hon wedi cael ei symud ymlaen i'r Cynllun Gwasanaeth Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth ar gyfer 2018/19, dan NS/A027. |
| VS/A062: Gweithredu arbedion cerbydau sy'n gysylltiedig â rowndiau casglu rheoli gwastraff. | 01/09/2017 | 90 | Coch | Gosodwyd tabledi newydd mewn-caban ar gerbydau casglu ond cafwyd oedi gyda’r data sydd ei angen i drosi'r rowndiau presennol, gan ei fod wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl. Disgwylir i’r caledwedd a’r newidiadau llwybr fod yn fyw ym mis Gorffennaf 2018. Bydd y gwaith hwn i adolygu newidiadau rheoli gwastraff yn helpu i gyflenwi arbedion cerbydau a lleihau allyriadau. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| VS/A063: Datblygu Cynllun Rheoli Gwastraff 5 mlynedd (2017-22). | 31/12/2017 | 100 | Gwyrdd | Yn dilyn cwblhau adroddiad WRAP, datblygwyd strategaeth rheoli gwastraff newydd. Cytunwyd ar y strategaeth newydd mewn egwyddor yn dilyn cyflwyno Strategaeth Rheoli Gwastraff ddiwygiedig i'r Cabinet ar 19 Chwefror 2018. Bydd y tîm Gwastraff yn parhau i weithio gyda WRAP yn ystod 2018 i gofnodi'r strategaeth wastraff a chasglu newydd hon. |
| VS/A064: Adolygu'r polisi gorfodi i leihau sbwriel, tipio anghyfreithlon a throseddau baeddu cŵn. | 01/07/2017 | 100 | Gwyrdd | Cyflwynwyd diweddariad gorfodi i Aelodau Craffu ar 9 Tachwedd 2017 ac Aelodau'r Cabinet ar y 4 Rhagfyr i nodi'r cynnydd a wnaed a'r gwersi a ddysgwyd ers i'r contract gyda 3GS (swyddogion gorfodi amgylcheddol) ddechrau ar 7 Hydref 2016. Nid oes unrhyw gynlluniau i ymgymryd ag unrhyw werthusiadau pellach tan haf 2018. |
| VS/A065: Ystyried gweithredu gorchmynion rheoli cŵn. | 31/12/2017 | 75 | Coch | Bwriedir i'r Gorchmynion Amddiffyn Gofod Cyhoeddus (PSPO) mewn perthynas â rheoli cŵn fynd i ymgynghoriad cyhoeddus y mis nesaf a rhagwelir y bydd y gorchmynion yn cael eu gweithredu yn hwyr yn yr haf/ yn gynnar yn yr hydref. Byddai gweithredu gorchmynion rheoli cŵn yn helpu i wella'r amgylchedd ar gyfer trigolion ac ymwelwyr a lleihad mewn troseddau baeddu cŵn. |
| VS/A066: Symud ymlaen ddatblygiad gorsaf drosglwyddo gwastraff a rhesymoli'r depos gweithredol presennol. | 31/03/2018 (mae hwn yn broject parhaus, i'w gwblhau erbyn 2020/21) | 100 | Gwyrdd | Cytunwyd mewn egwyddor ar y cynnig i adeiladu gorsaf drosglwyddo gwastraff (WTS) gan y Cabinet ar 19[eg] Chwefror ac mae'r costau dylunio ac adeiladu wedi'u cynnwys yn y cais Rhaglen Newid Cydweithredol (cyflwyniad cyfalaf) fel rhan o'r newidiadau ailgylchu a gwastraff arfaethedig. Bydd y project hwn yn parhau dros y 2 flynedd nesaf i ddatblygu gweithrediadau rheoli gwastraff mwy effeithlon sy'n cyfrannu at gynaliadwyedd gwasanaethau yn y tymor hir. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| **ER17** | | | | |
| RP/A034: Cyflenwi rhaglen o Brojectau Bioamrywiaeth a ariennir gan Grant Amgylcheddol sengl Llywodraeth Cymru. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae'r holl waith grant bellach wedi'i gwblhau'n llwyddiannus. Mae'r projectau yn cynnwys; ailgyflwyno llygod dŵr yn Cosmeston, gwaith gwella coetiroedd ym Mhorthceri ac Arolwg Cosmeston, Moch Daear ym Mhorthceri a'r Arfordir Treftadaeth, cyflenwi addysg Amgylcheddol ym mhob safle, dylunio taflen newydd ar gyfer yr Arfordir Treftadaeth, projectau cymunedol gyda Valeways, Y Wig a Graig Penllyn, project peillio ym Mhorthceri a'r Arfordir Treftadaeth, ynghyd â phroject cysylltedd gwrych yn Cosmeston. Cynhaliwyd pob gwaith project ar y cyd â gwirfoddolwyr o'r gymuned leol a bydd y gwaith yn cael effaith gadarnhaol ar gynyddu bioamrywiaeth a chwrdd ag Amcanion Llesiant y Cyngor. Byddwn yn parhau i gyflenwi rhaglen o brojectau bioamrywiaeth yn 2018/19 yn unol â'r Cynllun Gwasanaeth Adfywio a Chynllunio. |
| RP/A073: Mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol Bioamrywiaeth i'w defnyddio mewn penderfyniadau cynllunio. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cymeradwywyd y Canllawiau Cynllunio Atodol Bioamrywiaeth gan y Cabinet ar 18 Rhagfyr 2017 a chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus yn Ch4 rhwng dydd Llun 22 Ionawr a dydd Gwener 2 Mawrth 2018. Ystyriwyd y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymarfer ymgynghori. Cyflwynwyd y ddogfen derfynol a'i chymeradwyo gan y Cabinet ar 16/04/18. Bydd mabwysiadu'r CCA yn helpu i sicrhau bod penderfyniadau cynllunio yn ategu gwella bioamrywiaeth ym Mro Morgannwg. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| **ER18** | | | | |
| VS/A028: Monitro'r newidiadau mewn dyfroedd arfordirol ac erydiad arfordirol ym Mhenarth yn unol â Shoreline Management Plc. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae casglu data gwynt, tonnau a llanw ar Bier Penarth yn parhau. Bwriedir cynnal y gwaith monitro ffotograffig a thopograffig blynyddol o ffryntiad Penarth yn Ch1 yn y flwyddyn ariannol nesaf ond gallai pwysau adnoddau wthio hyn ymlaen i Ch2 erbyn i'r broses gael ei chwblhau. |
| VS/A029: Cwblhau cyflenwi Cynllun Lliniaru Llifogydd Coldbrook. | 31/08/2017 | 100 | Gwyrdd | Cwblhawyd y project yn llwyddiannus a bydd yn helpu i leihau'r risg o lifogydd i drigolion a busnesau yn yr ardal. Mae'r costau adeiladu terfynol yn dal i gael eu pennu gan Reolwr Project y contract a dylent fod ar gael yn gynnar yn y flwyddyn ariannol nesaf. |
| **ER19** | | | | |
| VS/A067: Cynnal gwobrau glan môr ar gyfer Jacksons Bay a Cold Knap, Y Barri. | 01/06/2017 | 100 | Gwyrdd | Rydym wedi cadw'r Gwobrau Glan Môr Cadw Cymru'n Daclus yn llwyddiannus ar gyfer Bae Jackson a Cold Knap, Y Barri. Hefyd enillwyd gwobr ychwanegol ar gyfer Southerndown oherwydd eu cyfleusterau o ansawdd. Gwobr Glan Môr yw'r safon genedlaethol ar gyfer y traethau gorau ac mae'n symbol o ansawdd sy'n sicrhau bod ymwelwyr yn sicr o ganfod arfordir glân, deniadol sydd wedi'i reoli'n dda. |
| VS/A068: Cynnal gwobrau Baner Las ym Marina Penarth a Bae Whitmore. | 01/06/2017 | 100 | Gwyrdd | Cafodd Marina Penarth a Bae Whitmore wobrau Baner Las am 2017 sy'n eco-labeli byd-enwog yr ymddiriedir ynddynt ledled y byd. Mae gwobr y Faner Las yn wobr ryngwladol a gyflwynir i draethau a reolir yn dda sydd â rhaglenni ansawdd dŵr ac addysg amgylcheddol rhagorol. |

# ATODIAD B: DANGOSYDDION PERFFORMIAD

**Amcan 3: Hyrwyddo adfywio, twf economaidd a chyflogaeth**

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd blwyddyn 2016/2017 | Diwedd blwyddyn 2017/2018 | Diwedd blwyddyn darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd Poblogaeth** | | | | | | |
| CPM/137 (WO2/M001): Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) yr awr a weithiwyd (o'i gymharu â chyfartaledd y DU) | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Y data diweddaraf sydd ar gael gan Stats Cymru yw ar gyfer 2016 sy'n dangos bod y GYC ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg yn 93.8, ac yn uwch na chyfartaledd Cymru o 72.7. |
| CPM/138 (WO2/M002): Canran y bobl mewn cyflogaeth sydd ar gontractau parhaol (neu ar gontractau dros dro ac nad ydynt yn ceisio cyflogaeth barhaol) ac sy'n ennill mwy na 2/3 o ganolrif cyflog y DU. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Dangosydd Llesiant Cenedlaethol Blynyddol. Nid yw data Llywodraeth Cymru ar gael ar gyfer 2017/18. |
| CPM/004 (WO2/M003): Cyfradd busnesau gweithredol newydd fesul 10,000 o boblogaeth oedran gweithio. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Y data diweddaraf sydd ar gael gan Stats Cymru yw ar gyfer 2016, sy'n dangos 576 o fusnesau gweithredol fesul 10,000 o'r boblogaeth. Mae hwn yn gynnydd pellach ar y blynyddoedd blaenorol (556 yn 2015) ac yn uwch na chyfartaledd Cymru o 512 am y cyfnod. |
| CPM/139 (WO2/M004): Canran y bobl mewn cyflogaeth. | 74.4% | 74.1% | Amh. | Amh. | ↓ | Dengys y ffigurau SYG diweddaraf ar gyfer y cyfnod Ebrill 2017 - Mawrth 2018 bod 74.1% o breswylwyr ym Mro Morgannwg mewn cyflogaeth, mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 72.7%. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd blwyddyn 2016/2017 | Diwedd blwyddyn 2017/2018 | Diwedd blwyddyn darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pa wahaniaeth wnaethom ni?** | | | | | | |
| CPM/078: Cyfradd siopau gwag cyfartalog ym mhrif ganol trefi'r Fro. | 8.2 | 8.83 | 6.3 | Coch | ↓ | Mae'r gyfradd siopau gwag cyfartalog o 8.83 yn ganlyniad siomedig, fodd bynnag, dengys ystadegau cyhoeddedig bod hyn yn parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru o 12.5. Mae'r Cyngor yn gwella ei ddeialog gyda masnachwyr a bydd mentrau newydd yn cael eu hystyried dros y blynyddoedd nesaf. Er enghraifft, cynghorir masnachwyr yn y Barri ynghylch potensial Ardal Gwella Busnes, a fyddai'n dod ag adnoddau newydd i'r canol. |
| CPM/087: Cyfanswm yr ymwelwyr i Fro Morgannwg at ddibenion Twristiaeth (fel y'i mesurwyd gan arolwg STEAM). | 3,962,000 | 3,970,000 | 3,800,000 | Gwyrdd | ↑ | Mae nifer yr ymwelwyr i Fro Morgannwg ar gyfer twristiaeth yn seiliedig ar adroddiad arolwg STEAM cyfredol sydd bob amser yn hwyr o flwyddyn. Mae perfformiad yn arolwg 2016/17 wedi gwella ymhellach ar berfformiad y flwyddyn flaenorol, yn fwy na'r targed o 3.8 miliwn. Priodolir y perfformiad uchel hwn i effaith gronnus dull marchnata mwy effeithiol, traethau a pharciau o ansawdd uchel, a nifer o gynhyrchion twristiaeth newydd megis llwybrau cerdded a dehongliad realiti gwell, a ddatblygwyd dros y blynyddoedd diwethaf gan y timau Twristiaeth ac Adfywio Gwledig. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd blwyddyn 2016/2017 | Diwedd blwyddyn 2017/2018 | Diwedd blwyddyn darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CPM/095 (Data cenedlaethol): Canran y boblogaeth sy'n gweithio heb unrhyw gymwysterau. | Amh. | Amh. | 25% | Amh. | Amh. | Mae'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael gan SYG ar gyfer nifer y bobl ym Mro Morgannwg sydd heb unrhyw gymwysterau am y cyfnod Ionawr 2017 - Rhagfyr 2017 lle nad oedd gan 4.9% o'r trigolion unrhyw gymwysterau. Mae hyn yn welliant o'i gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol lle nad oedd gan 6.7% unrhyw gymwysterau ac mae'n well na chyfartaledd Cymru o 8.7% ar gyfer 2017. |
| **Pa mor dda wnaethom ni berfformio?** | | | | | | |
| CPM/230: Canran y trigolion a arolygwyd sy'n ystyried ein canol trefi, gan gynnwys y Barri, Penarth, Llanilltud Fawr a'r Bont-faen i fod yn lleoedd deniadol i ymweld â nhw a siopa. | Amh. | Dim data ar gael | Amh. | Amh. | Amh. | Yn ôl yr arolwg dwyflynyddol diwethaf (2014) roedd perfformiad yn 76% yn gyffredinol, gyda tharged o 77% wedi'i osod ar gyfer ail-redeg yr arolwg yn 2016/17. Nid yw'r cwestiwn hwn bellach yn cael ei ofyn yn Arolwg Barn y Cyhoedd ac felly nid oes data cymharol ar gael. Yn lle'r arolwg dwyflynyddol ar gyfer 2016/17, gofynnwyd i'r trigolion y cwestiwn canlynol mewn perthynas â chanol trefi: “Gan feddwl am ganol y dref (canol trefi) yr ydych wedi ymweld â nhw, sut y byddech chi'n eu graddio: Heol Holton Y Barri, Stryd Fawr y Barri, Penarth, Y Bont-faen, Llanilltud Fawr?”<br><br>Graddiwyd canol trefi y Fro fel a ganlyn (da iawn/ eithaf da): Heol Holton Y Barri (61.4%), Stryd Fawr y Barri (74.4%), Penarth (95.6%), Y Bont-faen (97.7%), Llanilltud Fawr (90.3%). |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd blwyddyn 2016/2017 | Diwedd blwyddyn 2017/2018 | Diwedd blwyddyn darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Faint ydym ni wedi ei wneud? (Data cyd-destunol)** | | | | | | |
| CPM/079: Nifer yr ymweliadau wedi'u hwyluso â pharciau gwledig a'r arfordir treftadaeth. | 361 | 327 | 300 | Gwyrdd | ↓ | Rydym wedi rhagori ar y targed o 300 o ymweliadau eleni gyda 327 o ymweliadau yn cael eu gwneud i barciau gwledig a'r arfordir treftadaeth (ymatebodd nifer anhygoel o ymwelwyr i'n harolwg bodlonrwydd yn fodlon ar eu hymweliadau. Gweler CPM/ 088 ar yr Arfordir Treftadaeth a CPM/080 ar y parciau gwledig). Mae'r perfformiad cadarnhaol yn ganlyniad i ymdrech farchnata wedi'i thargedu ar grwpiau defnyddwyr. |
| CPM/081: Nifer y grwpiau cymunedol a gefnogwyd i dyfu capasiti. | 78 | 117 | 70 | Gwyrdd | ↑ | Mae'r nifer hwn yn uwch na'r disgwyl oherwydd lansiad y gronfa Cymunedau Cryf sydd wedi rhoi cyllid i dros 30 o brojectau. Cynigiwyd cefnogaeth fwy dwys i fentrau cymdeithasol yn y Barri yn arbennig gan y tîm Datblygu Economaidd cryfach. Hefyd arhosodd diddordeb yn uchel yn y rhaglen datblygu gwledig drwy'r 29 o brojectau a gefnogir yno gan Gymunedau Gwledig Creadigol. Mae'r dull hwn o helpu cymunedau i adfywio eu hunain yn profi'n llwyddiannus. |
| CPM/145: Nifer yr ymwelwyr i ddigwyddiadau penwythnos Ynys y Barri. | 28,000 | 48,000 | 37,000 | Gwyrdd | ↑ | Cyfrifodd Adroddiad Effaith Digwyddiad 48,000 o ymwelwyr o ganlyniad uniongyrchol i raglen Penwythnos Ynys y Barri, gydag effaith economaidd uniongyrchol o £602,985, a bod 47% o ymwelwyr o'r tu allan i'r Fro. Mae hyn yn well na'r perfformiad yn y flwyddyn flaenorol a'r targed. |

**Amcan 4: Hyrwyddo datblygiad cynaliadwy a diogelu ein hamgylchedd**

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd blwyddyn 2016/2017 | Diwedd blwyddyn 2017/2018 | Diwedd blwyddyn Targed 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd Poblogaeth** | | | | | | |
| CPM/146 (WO2/M005): Swm y gwastraff a gynhyrchir nad yw wedi'i ailgylchu, fesul person | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Mae'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael ar Stats Cymru yn cwmpasu'r cyfnod 2016/2017 sy'n dangos bod 616 tunnell fetrig o wastraff wedi'i dirlenwi ym Mro Morgannwg. Mae hyn yn cyfrif i 0.004 fesul poblogaeth wrth ddefnyddio ffigwr cyfanswm poblogaeth 2017 o 130,700 yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth SYG. |
| CPM/147 (WO2/M006): Nifer yr eiddo (cartrefi a busnesau) sydd â pherygl canolig neu uchel o lifogydd o afonydd a'r môr. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Mae'r data diweddaraf sydd ar gael gan Infobase Cymru ar gyfer 2014 yn dangos bod gan 0.6% o eiddo berygl uchel o lifogydd ac roedd gan 1.4% o eiddo berygl cyffredin o lifogydd o afonydd a moroedd, mae'r ddau yn is na chyfartaledd Cymru o 1.1% mewn perygl uchel a 2.0 mewn perygl canolig. |
| CPM/148 (WO2/M007): Ardal o ecosystemau iach yn y Fro. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Dangosydd Llesiant Cenedlaethol Blynyddol. Nid yw data LlC ar gael. |
| CPM/149 (WO2/M008): Ansawdd yr awyr rydym yn anadlu: Lefelau llygredd nitrogen deuocsid (NO2) yn yr awyr. | 5.2 $\mu g\ m^{-3}$ | 5.0 $\mu g\ m^{-3}$ | Amh. | Amh. | ↑ | Nid yw data LlC ar gael. Dengys y cyfrifydd ansawdd aer diweddaraf lefel Nitrogen deuocsid ar gyfer Bro Morgannwg ar 5.0 $\mu g\ m^{-3}$ yn 2017. Mae hyn yn welliant ar lefel y flwyddyn flaenorol o 5.2 $\mu g\ m^{-3.}$ |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd blwyddyn 2016/2017 | Diwedd blwyddyn 2017/2018 | Diwedd blwyddyn Targed 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pa wahaniaeth wnaethom ni?** | | | | | | |
| CPM/151: Canran y cynnydd mewn milltiroedd a wnaed gan fflyd cronfa geir y Cyngor. | Amh. | 11.7% | 9.95% | Gwyrdd | Amh. | Eleni gwelwyd gostyngiad o 0.4% yng nghyfanswm y milltiroedd busnes a wnaed o'i gymharu â 2016/17. Mae cyfanswm y milltiroedd wedi gostwng o 1,027,548 milltir i 1,023,227 milltir, sy'n berfformiad cadarnhaol am y flwyddyn. Mae cyfanswm y milltiroedd a wnaed mewn car o'r gronfa geir wedi cynyddu 11.7% eleni o'i gymharu â 2016/17.Ymgymerwyd â 438,115 (42.8%) o'r 1,023,227 milltir a wnaed yn 2017/18 mewn car o'r gronfa geir, o'i gymharu â 392,111 (38.2%) o'r 1,027,548 milltir a wnaed yn 2016/17). Mae'r cynnydd hwn yn unol â'n nodau Corfforaethol. |
| CPM/152: Lleihad canrannol yn nifer y prif adeiladau gweinyddol y mae'r Cyngor yn gweithredu ohonynt. | 0% | 16.67% | 10% | Gwyrdd | ↑ | Gwelsom ostyngiad yn nifer y prif adeiladau gweinyddol eleni o 6 i 5 oherwydd bod y Cyngor wedi dychwelyd Provincial House i'r landlord ym mis Tachwedd 2017. |
| CPM/018: Canran o wastraff trefol a gasglwyd gan yr awdurdod lleol sydd wedi'i ailgylchu. | 43.21% | 63.1% | 65% | Oren | ↑ | Mae peth deunydd ailgylchu yn parhau i beidio â chydymffurfio â'n rheoleiddwyr (Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)) o dan y canllawiau newydd. O ganlyniad, mae tunelledd ailgylchu'r Cyngor y gellir ei hawlio o HWRCs wedi ei leihau o dan y canllawiau hyn. Bydd Rheoli Gwastraff yn archwilio newidiadau i'r gwasanaeth a fydd yn annog cynnydd o ran cartrefi yn cyfranogi mewn ailgylchu er mwyn gwella perfformiad ymhellach, i'n galluogi i gyrraedd y targed statudol o 64% erbyn 2019/10. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd blwyddyn 2016/2017 | Diwedd blwyddyn 2017/2018 | Diwedd blwyddyn Targed 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CPM/016: Canran yr achosion o dipio anghyfreithlon a adroddir sy'n arwain at weithgarwch gorfodi. | 31.67% | 6.8% | 30% | Coch | ↓ | Parhaodd hyn yn isel trwy gydol y flwyddyn oherwydd y math o wastraff sy'n cael ei dipio'n anghyfreithlon, a'r ffaith ei bod anodd dros ben dal troseddwyr lle nad oes tystiolaeth y gellir ei olrhain. Er mwyn gwella'r dangosydd hwn, archwilir technoleg newydd fel CCTV yn y flwyddyn ariannol hon. |
| CPM/153: Newid canrannol (gostyngiad) mewn allyriadau carbon deuocsid yn y stoc adeiladau cyhoeddus annomestig. | -1.96% | 5.2% | 3% | Gwyrdd | ↑ | Addaswyd y canlyniad hwn i gyfrif am y tywydd oer eithriadol yn ystod Ch4. Os na wnaed unrhyw addasiad, yna roedd gostyngiad yn dal i fod, sef 2.9%. Mae addasu Swyddfeydd y Doc i fiomas wedi helpu tra bod y rhan fwyaf o gyfarwyddiaethau yn lleihau'r defnydd o nwy a thrydan. |
| CPM/154: Canran o oleuadau stryd y Cyngor sy'n LED. | 33% | 33.65% | 65% | Coch | ↑ | Yn dilyn proses dendro drwyadl, mae Urbis Screder Ltd wedi eu contractio i gyflenwi llusernau LED ar gyfer uwchraddio cymeradwy yr holl lusernau preswyl i LED. Dylai'r gwaith hwn gael ei gwblhau erbyn diwedd Mehefin 2018. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd blwyddyn 2016/2017 | Diwedd blwyddyn 2017/2018 | Diwedd blwyddyn Targed 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pa mor dda wnaethom ni berfformio?** | | | | | | |
| CPM/155: Bodlonrwydd â thrafnidiaeth gyhoeddus gan gynnwys a) hygyrchedd a b) diogelwch ar y ffyrdd. | a) 90.2%,<br>b) 56.1% | a) 80.38%<br>b) 52% | 70% | Gwyrdd | Amh. | Dywedodd 80% o'r ymatebwyr eu bod yn fodlon ar yr hygyrchedd i drafnidiaeth gyhoeddus sy'n dangos bod yr awdurdod yn sicrhau cydymffurfiad â DDA. Gwnaed nifer o welliannau fel rhan o wahanol gynlluniau teithio llesol, gan gynnwys cyrbau is ar bwyntiau croesi a chyrbau uchel ar gyfer mynediad i fysiau. Er bod ymatebwyr yn gofyn am i nifer o orsafoedd rheilffyrdd fod yn fwy hygyrch, roedd mwyafrif y seilwaith arosfannau bws yn diwallu anghenion y trigolion. Teimlai 52% o'r ymatebwyr fod gwasanaethau bws wedi eu helpu i leihau tagfeydd traffig a chynorthwyo'r Cyngor ymhellach gyda'i nodau o wella diogelwch ar y ffyrdd a'r amgylchedd. Bydd adborth o'r arolwg yn cael ei anfon at wahanol sefydliadau i'w hysbysu am faterion trigolion. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd blwyddyn 2016/2017 | Diwedd blwyddyn 2017/2018 | Diwedd blwyddyn Targed 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CPM/017: Canran yr oedolion 60+ sydd â thocynnau bws rhatach. | 84.44% | 83.29% | 83% | Gwyrdd | ↓ | Mae'n gyflawniad sylweddol ein bod wedi rhagori ar y targed, ar adeg pan fo darpariaeth gwasanaethau bysiau lleol yn cael ei lleihau yn y farchnad fasnachol. Golyga'r gostyngiad mewn gwasanaethau masnachol bod argaeledd gwasanaethau bws yn is nag yn y blynyddoedd blaenorol ond mae'r nifer sy'n manteisio ar y cynllun tocynnau bws rhatach yn sefydlog. Mae llawer o drigolion yn ymwybodol o'u hawl i docynnau bws rhatach pan fyddant yn troi 60 oed, ac yn gwneud cais yn awtomatig. Sicrha'r hyrwyddo parhaus o'r cynllun trwy lwyfannau digidol y Cyngor a chan weithredwyr bod y trigolion yn ymwybodol, os nad oeddent eisoes. |
| CPM/013: Y Mynegai Glendid | 76.43% | 71.14% | 69% | Gwyrdd | ↓ | Mae perfformiad yn parhau i fod yn gadarnhaol o ystyried cyllidebau llai. |
| CPM/014 (PAM/010): Canran y priffyrdd a arolygwyd a oedd o safon glendid uchel neu dderbyniol | 94.29% | 99.5% | 97% | Gwyrdd | ↑ | Mae perfformiad da yn parhau yn yr ardal hon o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ystyriwyd bod 647 o arolygiadau allan o'r 650 a wnaed â lefel uchel neu dderbyniol o lendid. |
| CPM/020 (PAM/018): Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol. | 91.02% | 92.16% | 80% | Gwyrdd | ↓ | Gwnaed penderfyniad ar 1081 o'r 1173 o geisiadau o fewn y cyfnodau amser gofynnol, sy'n cyfateb i 92.16%. Mae perfformiad eleni wedi rhagori ar y targed gosodedig o 80% bob chwarter. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd blwyddyn 2016/2017 | Diwedd blwyddyn 2017/2018 | Diwedd blwyddyn Targed 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CPM/021: Canran y ceisiadau cynllunio deiliaid tai a benderfynir o fewn 8 wythnos neu sy'n destun i Gytundeb Perfformiad Cynllunio neu Estyniad Amser. | 95.75% | 95.16% | 90% | Gwyrdd | ↓ | Yn ystod Ch4, roedd 135 o'r 144 o geisiadau a benderfynwyd yn y chwarter o fewn y cyfnodau amser gofynnol. Eleni penderfynwyd ar 590 o 620 o geisiadau cynllunio deiliaid tai o fewn y cyfnodau amser gofynnol. |
| CPM/023: Canran y penderfyniadau a wnaed yn groes i argymhelliad y swyddog. | 7.84% | 0% | 5% | Gwyrdd | ↑ | O'r 8 achos a benderfynwyd gan y pwyllgor cynllunio yn chwarter 4, nid oedd unrhyw benderfyniadau a wnaed gan y pwyllgor yn groes i argymhelliad y swyddog, gan adlewyrchu perfformiad yn y tri chwarter blaenorol eleni. Mae hyn yn welliant ar y 4/51 o benderfyniadau a wnaed yn 2016/17 yn groes i argymhelliad y swyddog. |
| CPM/156 (PAM/019): Canran yr apeliadau yn erbyn penderfyniadau cais cynllunio a wrthodwyd. | 51.6% | 61.9% | 66% | Oren | ↓ | Mae'r ffigurau'n dangos bod y Cyngor wedi methu'r targed o ychydig bach, gyda pherfformiad o 61.9% eleni. O ystyried y nifer gymharol isel o apeliadau yn gyffredinol (21 apêl), byddai'r targed o 66% wedi'i fodloni pe bai 1 penderfyniad wedi ei wrthod yn hytrach na'i ganiatáu. Yn 2016/17 roedd Cyfartaledd Cymru o apeliadau yn cael eu gwrthod yn 60.9%, felly mae'r Cyngor yn parhau i berfformio'n dda yn erbyn cyfartaledd Cymru ac mae'n well perfformiad na 2016/17, pan oedd yn 51.6%. |
| CPM/003: Canran y ceisiadau 'cynllun llawn' a gymeradwywyd y tro cyntaf | 100% | 100% | 99% | Gwyrdd | ↔ | Cymeradwywyd 100% o’r 55 o geisiadau 'cynllun llawn' y tro cyntaf yn ystod y chwarter (gan wneud cyfanswm blwyddyn o 221), a oedd yn adlewyrchu perfformiad y flwyddyn flaenorol. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd blwyddyn 2016/2017 | Diwedd blwyddyn 2017/2018 | Diwedd blwyddyn Targed 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CPM/031: Canran y bobl sy'n fodlon â safonau glendid. | 93% | 93% | 88% | Gwyrdd | Amh. | Adroddodd yr Arolwg Barn y Cyhoedd (POS) dwyflynyddol diwethaf (2014) berfformiad o 88%. Yn y POS ar gyfer 2016/17, mae boddhad yn erbyn safonau glendid wedi gwella i 93%. Nawr mae glanhau strydoedd yn dilyn yn syth ar ôl casgliadau sbwriel ar sail parthau, a thrwy hynny gadw'r ardal yn daclus ar ôl casgliadau. |
| CPM/006: Y newid canrannol yn y sgôr Tystysgrif Ynni i'w Harddangos (DEC) ar gyfartaledd o fewn adeiladau cyhoeddus awdurdodau lleol dros 1,000 o fetrau sgwâr. | 4.3% | 0.5% | 3% | Coch | ↓ | Dengys cymhariaeth o gyfradd gyfartalog tystysgrif ynni i'w harddangos i'n hadeiladau dros 1000m² a gynhyrchwyd yn 2017-18 yn erbyn 2016-17 welliant o 0.5% o 71.7 i 71.3. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd blwyddyn 2016/2017 | Diwedd blwyddyn 2017/2018 | Diwedd blwyddyn Targed 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CPM/158: Bodlonrwydd y cyhoedd gyda chyfleusterau ar Ynys y Barri lle cânt eu graddio fel 'Da' neu 'Rhagorol'. | Amh. | 95.19% | 86% | Gwyrdd | Amh. | Nododd mesur blynyddol a adroddwyd ym mis chwarter 3 bod 196 o'r 208 o ymatebwyr i Holiadur Boddhad Cwsmer Ynys y Barri 2017 o'r farn bod Ynys y Barri 'Wedi cyrraedd', yn 'Well na', neu'n 'Rhagori ar' eu disgwyliadau.<br>Mae gan yr holiadur 11 categori lle gofynnwyd i'r ymatebwyr raddio'r cyfleusterau ar yr Ynys, gellir gweld trosolwg o'r canlyniadau isod:<br>Yr ymateb mwyaf cyffredin wrth raddio digwyddiadau oedd rhagorol gyda 45% yn dewis yr ateb hwn.<br>Da oedd y raddfa fwyaf cyffredin ar gyfer 9 categori; roedd 41.34% o'r farn bod y cyfleusterau bwyd yn dda, roedd 44.23% o'r farn bod glendid y mannau cyhoeddus yn dda, roedd 37.56% o'r ymatebwyr yn sgorio glanweithdra cyfleusterau cyhoeddus yn dda, roedd 36.40% o'r farn bod y cyfleusterau parcio yn dda, roedd 46.60% o'r farn bod mynediad ffordd yn dda, roedd 49.62% o'r farn bod trafnidiaeth gyhoeddus yn dda, roedd 42.63% o'r farn bod gwybodaeth ymwelwyr yn dda, roedd 41.95% o'r farn bod atyniadau yn dda, a 55.83% o'r farn bod arwyddion cyfeiriadol yn dda.<br>Yr ymateb mwyaf cyffredin wrth raddio'r cynnig manwerthu oedd gweddol, gyda 42.07% o ymatebwyr yn dewis yr opsiwn hwn. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd blwyddyn 2016/2017 | Diwedd blwyddyn 2017/2018 | Diwedd blwyddyn Targed 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CPM/015 (PAM/011): Canran yr holl achosion o dipio anghyfreithlon a gliriwyd o fewn 5 diwrnod gwaith i'r digwyddiad gael ei adrodd. | 97.42% | 100% | 98% | Gwyrdd | ↑ | Cliriwyd pob achos o dipio anghyfreithlon o fewn 5 diwrnod gwaith. Mae'r gwelliant o ganlyniad i waith cydlynu Rheoli Gwastraff ar ran yr holl wasanaethau. |
| CPM/080: Canran y cwsmeriaid sy'n fodlon â Pharciau Gwledig. | 98% | 99.76% | 98% | Gwyrdd | ↑ | Mae hwn yn ganlyniad eithriadol yn erbyn targed a oedd eisoes yn heriol, yn rhagori ar y perfformiad uchel o 98% a gyflawnwyd yn 2016/17. Cafwyd cyfradd boddhad o 99.76% o ganlyniad i 414 o 415 o ymatebwyr yn nodi eu bod yn fodlon â pharciau gwledig eleni. Cyflawnir boddhad eithriadol gan dîm ymroddgar ac angerddol, sydd ar y rhestr fer ar gyfer tîm y flwyddyn yng Ngwobrau Tîm cyfredol y Cyngor. Mae'r Gwasanaeth Cefn Gwlad wedi'i ailstrwythuro i dîm mwy hyblyg ac integredig yn y blynyddoedd diwethaf ac mae hyn wedi helpu. |
| CPM/252: Canran y priffyrdd (A), ffyrdd nad ydynt yn briffyrdd (B) a ffyrdd nad ydynt yn briffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael cyffredinol. | 8.5% | 8.21% | 8.55% | Gwyrdd | ↑ | Mae gweithredu cronnol triniaethau cost effeithiol a phrosesau rheoli da i nodi a blaenoriaethu gwaith cynnal a chadw ffyrdd gydag ychydig iawn o gyllideb cyfalaf wedi galluogi gostyngiad cyffredinol yn y ffyrdd ar draws rhwydwaith priffyrdd lleol y Cyngor a ystyrir mewn cyflwr gwael yn gyffredinol. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd blwyddyn 2016/2017 | Diwedd blwyddyn 2017/2018 | Diwedd blwyddyn Targed 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Faint ydym ni wedi ei wneud? (Data cyd-destunol)** | | | | | | |
| CPM/159: Nifer o m2 o dir Parciau, Mannau Agored a Phriffyrdd sydd wedi'u hau â blodau gwyllt neu eu cynnal fel ardal naturiol. | Amh. | 2765m2 | 1706.05m2 | Gwyrdd | Amh. | Dyma'r ail flwyddyn yr ydym wedi casglu data: rydym bellach yn defnyddio pedwar "math" o ardal wyllt (y pedwerydd yn ddull newydd nas defnyddiwyd o'r blaen): Blodau gwyllt wedi eu plannu: 3485 M2, blodau gwyllt heb eu plannu: 168865 M2, pridd blodau gwyllt : 540M2, tywarchen blodau gwyllt: 880 M2. Mae'r cyfanswm cyffredinol wedi cynyddu o 171005M2 yn 2016/17 i 173770M2 yn 2017/18. Y cynnydd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol yw 2765m2. |
| CPM/161: Gwerth y buddsoddiad wedi'i drosglwyddo i'r Cyngor sydd wedi ei neilltuo i gynlluniau gwella trafnidiaeth. | Dim data ar gael | £537,739.00 | £500,000 | Gwyrdd | Amh. | Parhaodd Cyngor Bro Morgannwg yn 2017/18 i wneud gwelliannau trafnidiaeth gynaliadwy gan ddefnyddio arian Llywodraeth Cymru ac arian datblygu Adran 106. Cynhwysodd hyn greu llwybr troed/llwybr beicio trwy Cosmeston a'r ardal gyfagos a gwelliannau i gylchfan Hayes Road/Sully Moors Road. Dyluniwyd cynlluniau eraill yn 17/18 a byddant yn cael eu hadeiladu yn 18/19 a thu hwnt. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd blwyddyn 2016/2017 | Diwedd blwyddyn 2017/2018 | Diwedd blwyddyn Targed 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CPM/163: Nifer y cynlluniau cymunedol unigol sy'n elwa ar gyfraniadau ariannol datblygwr (A106). | Amh. | 23 | 10 | Gwyrdd | Amh. | Cefnogodd cyllid Adran 106 nifer o brojectau seilwaith cymunedol yn 2017/18 megis: uwchraddio ardaloedd chwarae megis Wordsworth Park, Penarth; Ardal Chwarae Badgers Brook, Ystradowen a Threberad, Trebefered; gweithredu mesurau trafnidiaeth gynaliadwy gan gynnwys gwelliannau i gerddwyr yn Dock View Road a Stryd Fawr/ Broad Street, Y Barri a St. Andrews Road, Dinas Powys a chyflwyno stondinau beiciau newydd yn Ysgol Gynradd Llandochau. Hefyd cefnogodd Adran 106 welliannau addysgol gan gynnwys meithrinfa newydd yn Ysgol Gynradd Saint-y-brid. Mae'r Cyngor hefyd wedi cefnogi grwpiau cymunedol megis Llyfrgell a Chanolfan Weithgareddau Dinas Powys. |
| CPM/164: Nifer y gwobrau traeth a gyflawnwyd. | 6 | 6 | 5 | Gwyrdd | ↔ | Cyflawnwyd 6 gwobr yn ystod 2017. Cafwyd baner las i Farina Penarth a Bae Whitmore a gwobrau glan môr i Jacksons Bay, Bae Whitmore, Cold Knap a Southerndown. Mae'r gwobrau'n symbol o ansawdd sy'n sicrhau bod ymwelwyr yn sicr o ganfod arfordir glân, deniadol sydd wedi'i reoli'n dda. |
| CPM/079: Nifer yr ymweliadau wedi'u hwyluso i barciau gwledig a'r arfordir treftadaeth. | 361 | 327 | 300 | Gwyrdd | ↓ | Mae nifer yr ymweliadau a hwylusir yn parhau i fod yn uchel gan ragori ar y targed o 300 eleni. Cyflawnwyd y gwelliant hwn trwy ymdrech farchnata ar y cyd i grwpiau defnyddwyr. |

**Atodiad B –Dangosyddion Perfformiad Ychwanegol (Canlyniad Llesiant 2)**

**Amcan 3: Hyrwyddo adfywio, twf economaidd a chyflogaeth**

Nid oes unrhyw fesurau o dan yr adran hon ar hyn o bryd

**Amcan 4: Hyrwyddo datblygiad cynaliadwy a diogelu ein hamgylchedd**

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd blwyddyn wirioneddol 2016/2017 | Diwedd blwyddyn wirioneddol 2017/2018 | Diwedd blwyddyn Targed 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pa mor dda wnaethom ni berfformio?** | | | | | | |
| PAM/020: Canran o briffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol. | 5.90% | 6.54% | 5.90% | Coch | ↓ | Er bod gwaith cynnal a chadw wedi defnyddio'r triniaethau mwyaf cost-effeithiol, mae cynnal priffordd leol y cyngor mewn cyflwr cyson angen dros £2M y flwyddyn nad yw wedi'i wireddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac o ganlyniad mae cyflwr cyffredinol y rhwydwaith ffyrdd A wedi dirywio ar gyfradd uwch, fel y dangosir gan ganlyniadau arolwg ffyrdd SCANNER. |
| PAM/021: Canran o briffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol. | 4.2% | 4.2% | 4.20% | Gwyrdd | ↔ | Mae'r defnydd cost-effeithiol o driniaethau clytio a gorchuddio arwyneb, ynghyd â blaenoriaethu gwaith a gynlluniwyd, wedi galluogi'r arian cyfalaf blynyddol sydd ar gael ar gyfer cynnal a chadw cynlluniedig i gael ei ddefnyddio’n llwyddiannus i gynnal priffyrdd B y cyngor mewn cyflwr da yn gyffredinol ac mewn cyflwr cyson. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd blwyddyn wirioneddol 2016/2017 | Diwedd blwyddyn wirioneddol 2017/2018 | Diwedd blwyddyn Targed 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| PAM/022: Canran o ffyrdd C nad ydynt yn briffyrdd sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol. | 11.2% | 10.5% | 11.20% | Gwyrdd | ↑ | Mae'r defnydd cost-effeithiol o driniaethau wyneb micro asffalt a blaenoriaethu wedi'i dargedu o ffyrdd sydd angen ymyrraeth benodol gyda gwaith cynnal a chadw cynlluniedig i atal unrhyw ddirywiad pellach yn eu cyflwr cyffredinol wedi arwain at welliant yng nghanran y ffyrdd C nad ydynt yn briffyrdd a oedd yn flaenorol mewn cyflwr gwael. |
| PAM/030 (WMT/009b): Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a baratowyd i'w ailddefnyddio a/ neu ei ailgylchu gan gynnwys bio-wastraff wedi'i wahanu yn y ffynhonnell sy'n cael ei gompostio neu ei drin yn fiolegol mewn ffordd arall. | 65.3% | 63.21% | 65% | Oren | ↓ | Mae peth deunydd ailgylchu yn parhau i beidio â chydymffurfio â'n rheoleiddwyr (Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)) o dan y canllawiau newydd. O ganlyniad, mae tunelledd ailgylchu'r Cyngor y gellir ei hawlio o HWRCs wedi ei leihau o dan y canllawiau hyn. Bydd Rheoli Gwastraff yn archwilio newidiadau i'r gwasanaeth a fydd yn annog cynnydd mewn cyfranogiad ailgylchu cartrefi i'n galluogi i gyflawni ein targedau statudol cenedlaethol. |
| **Faint ydym ni wedi ei wneud? (data cyd-destunol)** | | | | | | |
| PAM/031 (WMT/004b): Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol a anfonir i safleoedd tirlenwi. | 0.99% | 0.95% | 1% | Gwyrdd | ↑ | Bydd y mesur hwn yn cael ei ddisodli o fewn fframwaith PAM 2018/19 gan y mesur 'Swm y gwastraff a gynhyrchir nad yw wedi'i ailgylchu, fesul person'.<br><br>Mae'r dangosydd hwn yn parhau i berfformio'n dda o ganlyniad i seilwaith gwastraff newydd, yn yr achos hwn, y Project Gwyrdd a'r Cyfleuster Adfer Ynni ym Mharc Trident. Bydd hyn yn parhau i |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd blwyddyn wirioneddol 2016/2017 | Diwedd blwyddyn wirioneddol 2017/2018 | Diwedd blwyddyn Targed 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | ddarparu ateb cynaliadwy i'r Cyngor a sicrhau perfformiad uchel o ran dargyfeirio o dirlenwi. |

# ATODIAD B: CAMAU GWEITHREDU'R CYNLLUN GWASANAETH

**Amcan 5: Codi safonau cyffredinol cyflawniad**

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| **AC1** | | | | |
| SI/A014: Canolbwyntio ar ddatblygu ysgolion sy'n hunan-wella trwy nodi a hwyluso cyfleoedd ar gyfer rhannu rhagoriaeth rhwng ysgol ac ysgol. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Pennodd y grŵp strategaeth penaethiaid yr agenda ar gyfer cynhadledd Penaethiaid y Fro ym mis Mehefin 2018. Yn y gynhadledd, bydd nifer o ysgolion y Fro yn rhannu rhagoriaeth. Yn ogystal, mewn digwyddiad cyfnod sylfaen ar gyfer yr holl ysgolion cynradd a meithrin a gynhaliwyd ym mis Mawrth, roedd gweithdai i rannu rhagoriaeth yn cael eu harwain gan 6 ysgol. Defnyddir cyfarfodydd clwstwr yn effeithiol i rannu arferion da. Mae digwyddiadau a drefnir gan Gonsortiwm Canolbarth y De (CSC) yn cynnwys cyfleoedd i rannu arferion da. Mae cynghorwyr her (CA) yn effeithiol wrth gyfeirio at arfer rhagorol, o'r Fro ac ar draws y rhanbarth. Gall rhannu rhagoriaeth helpu i wella barn arolygiadau, lefelau cyrhaeddiad a chanlyniadau categoreiddio. |
| SI/A015: Brocera cefnogaeth gan wasanaethau gwella ysgolion CSC JES a all ddangos effaith glir ar safonau. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cynhaliwyd y pedwar cyfarfod cynnydd oren a choch ar gyfer tymor y gwanwyn. Mewn tair allan o bedair ysgol, ceir tystiolaeth glir o effaith y gefnogaeth a brynwyd, er enghraifft, darllen grwpiau dan arweiniad ym Mhendoylan, ymarfer CS yn y Stryd Fawr a chysondeb asesu ym Mryn Hafren. Er y bydd cyfarfodydd cynnydd pellach yn cael eu cynnal yn ystod tymor yr haf, mae'n debyg na fydd y tair ysgol hynny yn oren pan wneir y categori yn nhymor yr hydref. Yn y pedwerydd ysgol, cafwyd effaith o'r gefnogaeth a roddwyd, ond effaith gyfyngedig oedd ar y cyfan ar safonau o ganlyniad i ddiffyg ymgysylltiad gan arweinwyr yr ysgol. Mae hyn yn derbyn sylw. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| SL/A016: Gweithredu fformiwla newydd ar gyfer dyrannu arian grant ysgolion a grant ôl-16. | 31/03/2018 (parhaus tan 2018/19) | 100 | Gwyrdd | Gweithredwyd fformiwla ariannu newydd ar gyfer ysgolion sy'n adlewyrchu argymhellion Llywodraeth Cymru yn chwarter cyntaf y flwyddyn. Derbyniodd pob ysgol eu harian ar gyfer 2017/18 a chyllid dangosol ar gyfer 2018/19 a 2019/20. Gweithiodd swyddogion cymorth cyllid ysgolion gydag ysgolion i baratoi cyllidebau tair blynedd yn seiliedig ar y fformiwla newydd. Cwblhawyd cyllidebau 2017/18 erbyn y dyddiad cau statudol ar 30 Mehefin. |
| **AC2** | | | | |
| SI/A016: Gwella darpariaeth i ddisgyblion sydd angen addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) trwy gydlynu'r holl adnoddau sydd ar gael yn fwy effeithiol. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae nifer o ddatblygiadau wedi digwydd eleni i wella ymhellach gefnogaeth i blant a phobl ifanc EOTAS, gan gynnwys y canlynol: paratowyd Fframwaith EOTAS a dogfennau tendro erbyn hyn, sefydlwyd panel EOTAS, mae mwy dracio myfyrwyr yn digwydd drwy ddefnyddio SIM a'r her Un yn ei le, a mwy o her i ysgolion a darparwyr ar waith. Gan fod y mwyafrif o blant a phobl ifanc sydd angen EOTAS yn cael anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol cymhleth, mae ysgolion hefyd yn defnyddio EOTAS i gynnig seibiant i fyfyrwyr o amgylchedd yr ysgol ac fel ffordd o reoli ymddygiad a gwella presenoldeb, yng ngoleuni'r ymddygiad hwn, sefydlwyd continwwm bellach, yn ogystal â chyfarfodydd proffesiynol allweddol a thracio myfyrwyr i helpu i wella'r ddarpariaeth ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hyn. |
| SI/A017: Datblygu Strategaeth EOTAS yn ymgorffori argymhellion o adolygiad thematig ESTYN ac adroddiadau Llywodraeth Cymru. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cyflwynwyd a chymeradwywyd datblygu strategaeth ar gyfer disgyblion sydd angen addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) gan y Cabinet ar 04/09/2017. Ers hynny, sefydlwyd y fforwm EOTAS yn llwyddiannus yn ystod chwarter 4 ac mae'r panel EOTAS a'r telerau ac amodau yn eu lle. Arweiniodd hyn at fonitro myfyrwyr a gwella'r tracio o'u cynnydd. Mae adolygiad Y Daith i'w gynnal gyda'r bwriad o ail-lunio ar y gweill. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| SI/A018: Gweithredu argymhellion allweddol Llywodraeth Cymru ac ESTYN mewn perthynas â gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. | 31/03/2018 | 80 | Coch | Er y gweithredwyd llawer o argymhellion Llywodraeth Cymru ac ESTYN fel y nodwyd yn chwarter 3, mae'r sefyllfa yn parhau i fod yn ddigyfnewid o ran y camau sy'n weddill, gan fod angen i'r strategaeth a'r polisi fynd drwy'r Panel Rhianta Corfforaethol. Bydd y Panel Rhianta Corfforaethol yn eistedd yn Nhymor yr Haf pryd y bydd y strategaeth ar yr agenda. Mae alinio rheolaeth systemau gwybodaeth yn gwella ac mae angen mwy o hyfforddiant - bwriedir ymgymryd â hynny yn Nhymor yr Haf. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddwyn ymlaen i 2018/19 fel amlinelliad dan AA/A005 yn y Cynllun Gwasanaeth Cyflawniad i Bawb. |
| SI/A019: Darparu cefnogaeth a her ychwanegol i ysgolion wedi'u targedu ar wella canlyniadau i blant a phobl ifanc sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae 2 o ysgolion y Fro (Ysgol Gynradd Tregatwg ac Ysgol Gynradd Parc Jenner) wedi rhoi adborth ar ymchwil gweithredu a wnaed ganddynt ar berfformiad disgyblion sy'n gymwys gael cinio ysgol am ddim (eFSM). Bydd y ddwy ysgol yn gwneud cyflwyniad i gynhadledd penaethiaid y Fro ym mis Mehefin 2018 ac yn darparu cefnogaeth allgymorth i ysgolion. Yn ogystal, mae cynghorwyr her yn craffu ar ddata perfformiad disgyblion yn ystod ymweliadau ag ysgolion ac yn rhoi sylwadau ar berfformiad disgyblion eFSM ym mhob cyfnod allweddol. Mae pwyslais penodol ar wella perfformiad disgyblion eFSM uwchlaw'r lefelau disgwyliedig. Gwneir y gwaith hwn gyda ffocws ar wella arfer a lefelau cyrhaeddiad i ysgolion a dargedwyd. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| AC3 | | | | |
| SL/A003: Parhau i hyrwyddo mynediad digidol a llythrennedd gan gyfeirio'n arbennig at ardaloedd difreintiedig a grwpiau anodd eu cyrraedd | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Parhaodd cofrestriadau ar Gyrsiau Sgiliau Digidol yn uchel gyda'r rhan fwyaf o ddosbarthiadau yn rhedeg ar gapasiti llawn a threfnwyd dosbarthiadau ychwanegol i fodloni'r galw am leoedd. Mae hyn yn cynnwys nifer o weithdai allgymorth mewn ardaloedd o amddifadedd. Cofrestrwyd 30 o ddysgwyr eraill ar gyfer arholiadau ECDL ym mis Mawrth ar ddiwedd tymor y Gwanwyn. Bydd y canlyniadau ar gael ym mis Mai 2018. Mae Gweithdai Sgiliau Hanfodol yn parhau i gael eu cynnig yn y gymuned ac mae Gweithdy ychwanegol wedi ei gynllunio ar gyfer ardal Penarth ym mis Ebrill. |
| SL/A004: Gweithio gyda Phartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Caerdydd a'r Fro i alinio'r cynnig cwricwlwm ag anghenion dysgwyr. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Diweddarwyd y Ddogfen Dilyniant sy'n sicrhau llwybr clir o ran cynnydd a chydlyniant dysgwyr ar draws y rhanbarth gan Grŵp Cwricwlwm a Dilyniant partneriaeth Dysgu Caerdydd a'r Fro a'i dosbarthu ar draws y bartneriaeth. Mae hyn yn caniatáu i Ddysgwyr o bob rhan o'r Fro nodi llwybrau dilyniant rhwng darparwyr ar bob lefel i'w helpu i gyrraedd eu nodau. |
| SI/A020: Monitro effaith rhaglenni a datblygu darpariaeth yn unol â blaenoriaethau a meini prawf cyfredol Llywodraeth Cymru ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Yn ystod chwarter 4, cwblhawyd yr ailbroffilio grantiau a wnaed yn y chwarteri blaenorol ar ôl cymeradwyaeth Bwrdd Teuluoedd yn Gyntaf a'r Cabinet yn gynharach yn y flwyddyn a bellach mae'r rhaglenni cyllido newydd wedi'u sefydlu gyda thimau newydd ar waith ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Bydd y gwaith hwn yn helpu i wella'r canlyniadau ar gyfer grwpiau a dargedwyd. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| **AC4** | | | | |
| SI/A021: Defnyddio arian ESF mewn partneriaeth â Chymunedau'n Gyntaf a Chanolfan Byd Gwaith i gynyddu'r nifer o bobl ifanc 18-24 oed sy'n dod i mewn i gyflogaeth neu hyfforddiant. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae'r Rhaglen i gynyddu'r nifer o bobl ifanc 18-24 oed sy'n dod i mewn i gyflogaeth neu hyfforddiant ar y trywydd iawn, a bydd yn cyflenwi ei thargedau. Mae monitro'n foddhaol ac mae'r sefydliad arweiniol yn fodlon â'r cynnydd hyd yn hyn. Gostyngodd NEET yn y Fro ymhellach i 0.95% o'r disgyblion sy'n gadael blwyddyn 11, o'i gymharu â'r 1.61% a adroddwyd yn y flwyddyn flaenorol, gan nodi bod y rhaglen yn cael yr effaith a ddymunir. Cyflwynwyd y proffil newydd ac rydym yn aros am fanylion terfynol Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO). |
| SI/A022: Cyflwyno'r Rhaglenni Dyheu i Gyflawni ac Ysbrydoli i Waith i leihau ymhellach y lefelau NEET cyffredinol yn y Fro. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Yn 2017, gwelodd y Fro ei lefelau NEET yn gostwng i 1.0%, o 1.60% yn 2016, yn well na chyfartaledd Cymru o 1.60%. Gostyngodd ffigurau Blwyddyn 12 i 0.60% o 1.40% yn 2016, ac yn uwch na chyfartaledd Cymru o 1.0%. Gostyngodd Blwyddyn 13 o 3.07% yn 2016 i 2.85% yn 2017, ychydig yn is na chyfartaledd Cymru o 2.63%. Lleolir y Fro fel y 3edd ardal awdurdod isaf yng Nghymru ar gyfer y gostyngiad o bobl ifanc blwyddyn 11 NEET yn 2017, ar ôl Ceredigion a Phowys. Mae gwybodaeth am y gwaith a wneir drwy'r rhaglen Ysbrydoli i Gyflawni ar gael ar wefan y cyngor. |
| RP/A074: Gweithio gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCR) i gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer prentisiaethau. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae rhaglen Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar hyn o bryd yn cael ei datblygu ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a Llywodraeth Cymru ynghyd ag Lskip, i gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer prentisiaethau ar draws y rhanbarth fel thema allweddol yn rhanbarth y Ddinas. Trosglwyddwyd swyddog arweiniol o LSkip/ CLlLC i mewn i gael ei gyflogi yn uniongyrchol gan y Ddinas-Ranbarth i helpu i gyflenwi'r rhaglen sgiliau, a bydd yn cyflwyno project clir ar gyfer cyllid i gabinet CCR ym mis Gorffennaf 2018. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| RP/A075: Paratoi i ehangu'r Rhaglen Cymunedau ar gyfer Gwaith ar draws Bro Morgannwg ym mis Ebrill 2018. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Bydd Cymunedau ar gyfer Gwaith a Mwy yn weithredol ar 1af Ebrill 2018 pan fydd y gymeradwyaeth ariannu yn dechrau. Cyllid yw Cymunedau ar gyfer Gwaith a Mwy a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i gefnogi parhau i ddarparu Cymunedau ar gyfer Gwaith a datblygu'r dysgu o'r Rhaglen Esgyn. Bydd yn galluogi darparu cymorth cyflogadwyedd i ystod eang o bobl sy'n cynnwys: pobl sydd naill ai mewn perygl o dlodi neu nad ydynt yn gymwys ar gyfer Cymunedau ar gyfer Gwaith, PaCE neu Raglenni ESF rhanbarthol eraill. |
| AC5 | | | | |
| SI/A006: Sicrhau bod ysgolion yn cynllunio ar gyfer ôl-16 yn effeithiol. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Datblygwyd pob cynllun ôl-16 a'i weithredu'n llwyddiannus yn ystod chwarter 1. Mae'r broses ar gyfer herio ysgolion yn llawer tynnach ac mae'n unol ag argymhellion Llywodraeth Cymru. O'r cynlluniau 2018-19 a gyflwynwyd, mae ysgolion wedi ymateb yn gadarnhaol i'r cyngor a gafwyd gan Lywodraeth Cymru. Bydd y gwaith hwn yn sicrhau bod dull cyson o ymdrin â chefnogi dysgwyr i symud i mewn i gyrchfannau cadarnhaol a pharhaus ôl-16. |
| SI/A023: Gweithredu'n llawn offeryn cyson (ALPs) sy'n hwyluso barn ar gynnydd dysgwyr gan sicrhau blaenoriaethu effeithlon ac effeithiol i gyflawni canlyniadau gwell i ddysgwyr. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mynychodd ALPS gyfarfod penaethiaid uwchradd i ddangos eu hadnodd cysylltu ALPS newydd. Mae 'ALPS Connect' yn offeryn rhyngweithiol ar-lein a gyflwynwyd i bob ysgol. Roedd presenoldeb ALPS yn y cyfarfod penaethiaid yn rhoi neges glir a chyson ynglŷn â sut y gall effeithio ar ganlyniadau myfyrwyr, a chael ei ddefnyddio'n effeithiol i gefnogi hunan arfarniad ysgolion. Mae'r gwaith hwn yn helpu i ddarparu darlun clir, cywir a manwl o gynnydd dysgwyr sy'n hysbysu ymyrraeth amserol lle bo angen. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| **AC6** | | | | |
| SI/A024: Ailstrwythuro'r Gwasanaeth Ieuenctid i gynnig gwell gwasanaeth i bobl ifanc yn unol â Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaeth Ieuenctid. | 31/03/2018 | 85 | Coch | Cymerodd yr ymgysylltu â staff ar y strwythur gwasanaeth symlach â ffocws newydd fwy na'r 30 diwrnod a ragwelwyd, ac o ganlyniad bydd ailstrwythuro llawn yn digwydd yn chwarter 1 2018. Derbyniwyd rhai mynegiadau o ddiddordeb wrth ddatblygu grwpiau ieuenctid cymunedol a bydd y rhain hefyd yn cael eu harchwilio ar yr un pryd. |
| **AC7** | | | | |
| SI/A025: Cyflenwi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017/18 mewn perthynas â'r Mesur Anghenion Dysgu Ychwanegol a monitro effaith. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae'r pedwar project yn gyflawn ac aeth adroddiad i Lywodraeth Cymru yn manylu ar wariant, gweithredoedd a chanlyniadau. Parha'r grŵp cynhwysiant i gyfarfod, gan gefnogi gwaith traws-sirol. Mae'r 4 project a nodwyd yn flaenorol (ymdrin â phontio; datblygu gwasanaethau allgymorth arbenigol; datrys anghydfodau a datblygu rôl Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY/ALNCO), mewn perthynas â'r Mesur ADY newydd), o ran canlyniadau eang wedi arwain at ffurfio gweithgor pontio Caerdydd a'r Fro ar brotocol a phrojectau pontio. Mae gwasanaethau Allgymorth Arbenigol yn rhedeg yn llwyddiannus ar gyfer Lleferydd ac Iaith, Gwybyddiaeth, Nam Corfforol a Chlyw. Datblygwyd hyfforddwyr ar gyfer hyfforddiant anghydfod, a fydd yn cael ei gyflwyno'n raddol i ysgolion cynradd ac uwchradd trwy dymor yr haf. Mae pob CADY/ALNCO yn gyfredol â chynnydd y Mesur ADY ac wedi cael eu hyfforddi mewn dulliau Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar y Person (PCP), gan ddefnyddio proffiliau un tudalen mewn ysgolion yn barod ar gyfer y Mesur ADY newydd. Mae'r hyrwyddwr CADY/ALNCO yn gweithio ar ganllaw ar gyfer cod i'r Mesur ADY. |
| SI/A026: Datblygu achos busnes yn argymell y defnydd mwyaf priodol yn y dyfodol o ddarpariaeth breswyl/ seibiant Tŷ Deri. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cytunwyd ar yr achos busnes gan y Cabinet ym mis Mawrth. Cytunwyd y dylai Tŷ Deri gadw cyfran o ddarpariaeth seibiant ac addasu rhan o'r adeilad i ddarparu mwy o le yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r gwaith i addasu'r adeilad ar y gweill ac fe'i cwblheir erbyn Medi 2018. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| SI/A027: Datblygu ymhellach y dull ysgol i ysgol o ddarparu gwasanaethau allgymorth ar gyfer ADY. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae'r gwasanaethau allgymorth a ddatblygwyd yn gynharach yn y flwyddyn bellach wedi'u hen sefydlu, gyda meini prawf derbyn ac ymadael clir wedi cael eu datblygu. Hefyd datblygwyd taflenni gwybodaeth ar gyfer rhieni ac ysgolion ac maent ar gael. Yn ogystal, sefydlwyd gwaith clwstwr ar draws gwasanaethau Allgymorth. Cyflwynwyd gweithdrefnau newydd a ffurflenni atgyfeirio i ysgolion ym mis Hydref 2017 a chyflwynwyd gwybodaeth am bob gwasanaeth allgymorth i ysgolion. Gwnaed taflenni gwybodaeth ar gael i rieni ac ysgolion. Mae'r gwaith hwn wedi cefnogi datganoli gwasanaethau allgymorth. |
| SI/A028: Datblygu panel Cronfa Anghenion Ychwanegol i benderfynu ar gyllid. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cynhaliwyd ymgynghoriad ychwanegol gydag ysgolion uwchradd yn dilyn eu pryderon y byddai panel yn creu baich gweinyddol arnynt, gyda meini prawf yn cael eu datblygu yng ngoleuni'r ymatebion. Bydd y Panel Cronfa Anghenion Ychwanegol Uwchradd (ANF) yn cwrdd bob tymor, yn gyntaf i gadarnhau penderfyniadau sy'n bodoli eisoes. I ddechrau, roedd ysgolion yn ansicr ynghylch y baich gweinyddol y gallai ei chreu iddynt, ond maent yn awyddus i weld cyllid teg a thryloyw ar gyfer anghenion ychwanegol. Bydd y Panel ANF yn caniatáu mwy o gyfranogiad yr ysgol wrth wneud penderfyniadau a gwella gweithio mewn partneriaeth. |
| SI/A029: Gweithredu fframwaith ar gyfer Rhagoriaeth ar gyfer ADY ar draws pob ysgol. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Rhannwyd Fframwaith Rhagoriaeth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) gyda'r holl Benaethiaid a chydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol (CADY/ALNCO) a phenaethiaid newydd dros y flwyddyn. Defnyddiwyd y fframwaith fel canllaw ar gyfer hyfforddiant Senco newydd ac mae'n parhau i fod yn offeryn archwilio a chyfeirio defnyddiol a chanllaw i gynghori ysgolion a staff ar y ddarpariaeth a'r gefnogaeth sydd eu hangen i gefnogi plant ag ADY. |
| SI/A030: Sefydlu Grŵp Sicrhau Ansawdd ADY i fonitro ansawdd y ddarpariaeth. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Sefydlwyd cylch gorchwyl y Grŵp a chysylltwyd ag aelodau a chytunwyd ar ddyddiadau cyfarfod i helpu i sicrhau ansawdd y ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ledled Bro Morgannwg. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| AC8 | | | | |
| SL/A017: Sefydlu Grŵp Sicrhau Ansawdd ADY i fonitro ansawdd y ddarpariaeth Gweithredu'r Cynnig i drawsnewid Addysg Uwchradd yn y Barri trwy greu 2 ysgol gymysg newydd ar safleoedd presennol Ysgolion Cyfun Bryn Hafren a'r Barri. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae'r project hwn yn parhau ar amser ar hyn o bryd, yn gweithio tuag at agor yr ysgolion newydd ym mis Medi 2018. Bellach, mae strwythurau staffio ysgolion newydd wedi'u cwblhau ac mae recriwtio yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd er mwyn sicrhau eu bod wedi'u staffio'n llawn ac yn barod i agor ym mis Medi. Cytunwyd ar yr enwau newydd i'r ddwy ysgol bellach, sef Ysgol Uwchradd Whitmore (Ysgol Gyfun y Barri gynt) ac Ysgol Uwchradd Pencoedtre (Bryn Hafren gynt). |
| SL/A018: Cwblhau a chyflwyno Rhaglen Amlinellol Strategol Band B y Gyfarwyddiaeth. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cyflwynwyd Rhaglen Amlinellol Strategol Band B y Gyfarwyddiaeth erbyn y dyddiad cau o 31 Gorffennaf 2017 yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet i gynigion Band B. Bellach mae gwaith ar y gweill i ddatblygu projectau ac ymgynghori ar gyfer y projectau cychwynnol. |
| SL/A019: Rheoli canlyniad amrywiol ymgynghoriadau trefniadaeth ysgolion mewn perthynas â swyddogaeth derbyn y tîm. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cwblhawyd y broses drosglwyddo derbyniadau i'r ddwy ysgol gydaddysgol newydd ar amser ym mis Rhagfyr 2017, a rhoddwyd gwybod i'r holl rieni am y canlyniad ar y dyddiad cyhoeddedig. Agorodd yr uned feithrinfa yn Fairfield ym mis Ionawr 2018 gyda disgyblion newydd yn cael eu derbyn yn ddi-oed. Mae hyn yn cwblhau'r projectau a nodwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/18. |
| SL/A020: Cwblhau gwaredu asedau fel safle ysgol Eagleswell (Ysgol Y Ddraig). | 31/03/2018 | 80 | Coch | Mae cwblhau gwaredu safle Eagleswell wedi llithro wrth i dîm project y Cyngor ac asiantau marchnata barhau i gymryd rhan mewn trafodaethau cymhleth parhaus gyda'r Cynigydd a Ffefrir ynghylch y gwaredu. |
| LS/A008: Darparu cyngor cyfreithiol, arweiniad a chefnogaeth ar faterion cyfreithiol mewn perthynas â rhaglen moderneiddio ysgolion. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Darperir cyngor cyfreithiol ar sail ad hoc ar ymholiadau a godir. Mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn parhau i ddelio â chontractau terfynol ar gyfer gwelliannau i adeiladau ysgolion pan fo angen. Eleni, mae'r enghreifftiau yn cynnwys bloc ystafell ddosbarth Romilly, contractau ymgynghoriaeth AECOM ar gyfer ysgolion newydd amrywiol, ac Ysgol Gynradd Parc Jenner. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| AC9 | | | | |
| SL/A021: Cwblhau gwaith ar asesiad anghenion datblygu ysgol i fwydo i raglen foderneiddio ysgolion newydd. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Bydd yr asesiad anghenion Datblygu Ysgolion yn dod yn offeryn parhaus i'r Gyfarwyddiaeth. Bydd hyn yn parhau i fod yn weithgaredd hirdymor gweithredol i'r gwasanaeth, a bydd yn llywio'r rhaglen foderneiddio ysgolion newydd. |
| SL/A022: Symud ymlaen y cynnig i agor uned feithrin yn Ysgol Gynradd Fairfield o fis Ionawr 2018. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cwblhawyd y gwaith adeiladu meithrin ar amser a'i drosglwyddo i'r ysgol ac fe agorodd y feithrinfa ar amser ac mae'n gweithredu'n dda. Ymgartrefodd plant ym Meithrinfa Fairfield yn rhwydd ac yn gyflym i'r ddarpariaeth newydd wych, gan wneud y mwyaf o adnoddau a phrofiadau. Gwnaed y gwaith hwn yn unol â blaenoriaethau'r Cyngor, i wneud y defnydd gorau o adnoddau a chyfrannu at godi safonau mewn ysgolion. |

**Amcan 6: Gwerthfawrogi diwylliant ac amrywiaeth.**

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| AC10 | | | | |
| PD/A009: Gwella data monitro cydraddoldeb o feysydd gwasanaeth fel y gall gwasanaethau wneud penderfyniadau mwy gwybodus ynghylch darparu gwasanaethau. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Casglwyd data ar gyfer yr Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol sydd bellach wedi'i gymeradwyo ac mae ar fin cael ei gyhoeddi. Mae gennym fwy o wasanaethau wedi adrodd data eleni, gan gynnwys 'Cyflawniad i Bawb' mewn Dysgu a Sgiliau, a rhai meysydd sydd wedi gwella eu hadrodd fel y Gwasanaethau Cofrestru. |
| PD/A008: Atgyfnerthu a gwella ansawdd yr Asesiadau Effaith Cydraddoldeb a gynhyrchir ar draws y Cyngor. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Adolygwyd a diweddarwyd y broses asesu effaith cydraddoldeb. Mae bellach ar StaffNet i swyddogion ei defnyddio. Mae'n cynnwys canllawiau a chysylltiadau gwell i ymchwil a data i helpu swyddogion wella ansawdd eu hasesiadau. Wrth i asesiadau effaith cydraddoldeb gael eu cwblhau, byddwn yn parhau i fonitro eu hansawdd. |

| Camau gweithredu’r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfraniadau gwasanaeth eraill i AC10: Gwella gwybodaeth am anghenion y gymuned fel y gall grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 gael mynediad gwell at wasanaethau'r Cyngor.** | | | | |
| HS/A023: Gwella data monitro cydraddoldeb i alluogi penderfyniadau mwy gwybodus ynghylch cyflwyno gwasanaethau. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Bellach, mae’r holl fonitro cydraddoldeb yn cael ei ddarparu i gwrdd â gofynion y systemau monitro corfforaethol i helpu i lywio cynigion a phenderfyniadau ar gyflenwi gwasanaethau. Yn ogystal, cyflwynwyd hyfforddiant ar ymwybyddiaeth trawsryweddol a hyfforddiant ymwybyddiaeth cam-drin domestig trwy fodiwl ar-lein. |
| VS/A050: Gwella data monitro cydraddoldeb o fewn Gwasanaethau Gweladwy i alluogi penderfyniadau mwy gwybodus o ran darparu gwasanaethau. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Rhyddhawyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb (EIA) fel rhan o'r Rhaglen Ail-lunio ar 23 Tachwedd, 2017 i sicrhau bod penderfyniadau sy'n ymwneud â chydraddoldeb yn cael eu hystyried yn llawn. Bydd yr EIA yn cael ei ddiweddaru ymhellach pan ddechreua’r broses o gymathu a'r broses recriwtio, yr amcangyfrifir a fydd yn digwydd ym mis Mai 2018. |
| SI/A012: Gwella data monitro o fewn y gwasanaeth Cyflawni i Bawb er mwyn galluogi penderfyniadau mwy gwybodus ynghylch cyflenwi gwasanaethau. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Parha’r gwaith gyda'r tîm data i ddatblygu dull gwasanaeth cyfan o gasglu data a'i ddefnyddio trwy ddefnyddio’n llawn botensial y system Capita. Mae'r holl dimau bellach wedi derbyn mewnbwn ar ‘One system’, ac maent bellach yn y broses o drosglwyddo data. Bydd y gwaith hwn yn helpu i gynyddu faint o ddata cywir ac amserol sydd ar gael y gellir ei ddefnyddio i lywio cynigion a phenderfyniadau ynghylch cyflenwi gwasanaethau. |

| Camau gweithredu’r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| RP/A039: Gwella data monitro cydraddoldeb o fewn y Gwasanaeth Adfywio a Chynllunio i alluogi penderfyniadau mwy gwybodus ynghylch cyflenwi gwasanaethau. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cynhelir arolygon boddhad cwsmeriaid sy'n cynnwys cwestiynau'n ymwneud â chydraddoldebau ar gyfer yr Arfordir Treftadaeth, y Parciau Gwledig a'r gwasanaeth DFG. Ym mis Ebrill 2018, bydd yr Uned Ddata Llywodraeth Leol yn cynnal eu harolwg blynyddol ar ran POSW (Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru) o'r holl asiantau sy'n derbyn penderfyniad cynllunio yn ystod 2017/18, yn cynnwys cwestiynau ar gydraddoldeb. Bydd y canlyniadau ar gael yn ystod C2 2018/19. Yna caiff y canlyniadau hyn eu dadansoddi a'u hadrodd i Adran Cydraddoldebau'r Cyngor. Bydd y wybodaeth cydraddoldeb a dderbynnir yn ein galluogi i wneud penderfyniadau mwy gwybodus ynghylch cyflenwi gwasanaethau. |
| DS/A003: Gwella data monitro cydraddoldeb y Gwasanaethau Democrataidd i alluogi penderfyniadau mwy gwybodus ynghylch cyflenwi gwasanaethau. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae'r holl reolwyr wedi mynychu hyfforddiant Asesiad Effaith Cydraddoldeb (EIA) ac maent yn ymwybodol o bwysigrwydd casglu data defnyddwyr gwasanaeth priodol i lywio penderfyniadau. Ystyria'r holl adroddiadau gwasanaeth i'r pwyllgor Craffu a'r Cabinet yr EIAs lle bo'n briodol i sicrhau bod EIAs effeithiol yn cael eu cynnal i helpu i lywio penderfyniadau ar draws y Cyngor. |
| IT/A002: Gwella data monitro cydraddoldeb o fewn y Gwasanaeth TG i alluogi penderfyniadau mwy gwybodus ynghylch cyflenwi gwasanaethau. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae hwn yn mynd ymlaen yn barhaus, a bydd yn dal i gael ei fonitro yn y flwyddyn ariannol nesaf trwy weithredu FIT/A007. Caiff adroddiadau Oracle eu monitro/eu dadansoddi er mwyn sicrhau bod cyfansoddiad cydraddoldeb y gwasanaeth yn addas i'r pwrpas. Er enghraifft, ar hyn o bryd mae nifer gymharol fach o staff mewn TGCh o dan 25 oed. Crëwyd prentisiaethau a rolau hyfforddeion i helpu yn y maes hwn. Mae'r adroddiadau hyn yn galluogi meysydd gwasanaeth i wneud penderfyniadau ar gyflenwi gwasanaethau sy’n seiliedig ar ystadegau cydraddoldeb bywyd go iawn. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| HR/A005: Parhau i gasglu a monitro data cydraddoldeb o fewn AD. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Casglwyd data cydraddoldeb yn barhaus fel rhan o'n proses recriwtio trwy gydol y flwyddyn. O ganlyniad i adolygu'r wybodaeth ar Oracle, mae'r ganran gyfartalog o wybodaeth a gedwir ar draws nodweddion gwarchodedig gweithwyr cyflogedig uniongyrchol wedi cynyddu o 78% i 80%. Defnyddiwyd y data hwn ar gyfer Asesiadau Effaith Cydraddoldeb a chyhoeddwyd adroddiad Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn 2017. O ran Cychwynwyr Newydd, y ganran gyfartalog o wybodaeth a gasglwyd ar draws nodweddion gwarchodedig yw 88% yn 2017/18. Sefydlwyd grwpiau project mewn perthynas â'r ffordd yr ydym yn recriwtio staff a bydd hwn yn parhau i gael effaith ar y ffordd yr ydym yn casglu'r data. Bydd cychwyn cyflwyno hunanwasanaeth cyflogeion yn Chwarter 4 yn caniatáu i staff ddiwygio eu data, a fydd eto'n gwella casgliad y data cydraddoldeb. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo. |
| FS/A007: Gwella data monitro cydraddoldeb o fewn y Gwasanaethau Ariannol i alluogi mwy o benderfyniadau ynghylch cyflenwi gwasanaethau. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae'r gwasanaeth yn parhau i gasglu data mewn perthynas â chleientiaid Treth y Cyngor a Budd-dal Tai er mwyn helpu'r gwasanaeth i wneud penderfyniadau mwy gwybodus ynghylch cyflenwi gwasanaethau. Mae'r data a gesglir yn parhau i gael ei ddadansoddi ac mae'r Gwasanaeth yn cael ei addasu a'i wella lle bo'n briodol. |
| AS/A008: Gwella data monitro cydraddoldeb yn y Gwasanaethau Oedolion i alluogi penderfyniadau mwy gwybodus ynghylch cyflenwi gwasanaethau. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Gweithredwyd System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) a chofnodir y data fel set ddata graidd. Mae gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) wedi cryfhau hyn ymhellach. Rydym yn parhau i gwblhau EIAs yn rheolaidd wrth ystyried newid gwasanaeth a dangosir hyn yn adroddiadau Cabinet/ Craffu i gefnogi argymhellion ac i lywio penderfyniadau. |
| CS/A010: Gwella data monitro cydraddoldeb o fewn Gwasanaethau Plant a Phobl i alluogi penderfyniadau mwy gwybodus ynghylch cyflenwi gwasanaethau. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae'r diweddariadau i systemau TG y Gyfarwyddiaeth yn cefnogi casglu'r set ddata gyffredin gytunedig i helpu i wella data monitro cydraddoldeb i wneud penderfyniadau mwy gwybodus. |
| VS/A071: Sicrhau bod yr holl staff perthnasol o fewn Gwasanaethau Gweladwy yn cwblhau hyfforddiant asesu effaith cydraddoldeb. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cynhelir hyfforddiant Asesiad Effaith Cydraddoldeb (EIA) yn ôl yr angen er mwyn sicrhau bod gan y staff offer da i gwblhau EIA's lle bo angen. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| BM/A033: Cyflwyno hyfforddiant Asesiad Effaith Cydraddoldeb pellach fel sy'n briodol o fewn Gwasanaethau Rheoli Busnes ac Arloesi. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae'r staff yn mynychu hyfforddiant Asesiad Effaith Cydraddoldeb (EIA) yn unol â hyfforddiant Cyngor-eang i sicrhau bod swyddogion yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau dros gynnal Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb a bod yr EIAs a gynhelir yn briodol ac o ansawdd uchel. |
| BM/A034: Cynnal Peilot Panel Ymgysylltu Dinasyddion ar gyfer pobl ag anghenion gofal a chymorth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. | 31/03/2018 | 75 | Coch | Codir y gwaith hwn drwy'r Grŵp Llywio Rhanbarthol ac mae wedi dioddef oherwydd diffyg capasiti i ganolbwyntio ar y maes hwn. Rydym yn cydnabod yr angen i fuddsoddi yn y maes hwn i sicrhau ei fod yn gam allweddol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf fel yr amlinellir dan RM/A006 yng Nghynllun Gwasanaeth Rheoli a Diogelu Adnoddau 2018/19. Nodwyd yr adnoddau trwy'r Grant Cyflawni'r Agenda Drawsnewid (DTG) i gefnogi symud y maes hwn ymlaen. |
| LS/A009: Gwella data monitro cydraddoldeb i alluogi penderfyniadau mwy gwybodus ynghylch cyflenwi gwasanaethau. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Er nad oes angen i'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb gael eu cwblhau gan y Gwasanaethau Cyfreithiol, gofynnir i Swyddogion y Gwasanaeth Cyfreithiol weithiau ddarparu cyngor cyfreithiol yn hyn o beth i'n cleientiaid mewnol i helpu i lywio penderfyniadau. Byddwn yn parhau i gynorthwyo lle bo angen i gefnogi cleientiaid mewnol yn y maes hwn, er mwyn sicrhau y cesglir data monitro cydraddoldeb cywir ac amserol i lywio penderfyniadau a chyflenwi gwasanaethau fel yr amlinellwyd yng Nghynllun Gwasanaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol 2018/19. |
| SRS/A013: Gwella data monitro cydraddoldeb o fewn SRS i alluogi penderfyniadau mwy gwybodus ynghylch cyflenwi gwasanaethau. | 31/03/2018 | 75 | Coch | Mae'r SRS yn adolygu'r holl fecanweithiau ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth i alluogi gwneud penderfyniadau mwy gwybodus. Llithrodd y llinell amser a nodir yng Nghynllun Busnes SRS, a bydd y gwaith hwn yn cael ei gynnwys fel rhan o'r adroddiad Blynyddol i Gynghorau partner SRS. Llithrodd y cynnydd wrth i integreiddio'r dulliau casglu data presennol gymryd mwy o amser nag a ragwelwyd, ac nid oes adnoddau ychwanegol ar gael i'w neilltuo i'r gwaith hwn. |

| Camau gweithredu’r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| SL/A023: Adolygu methodoleg bresennol cynllunio lleoedd ysgol a chywirdeb rhagamcanion | 31/03/2018 (parhaus i 2019/20) | | | Llithrodd y cynnydd o ran adolygu methodoleg cynllunio lleoedd ysgolion tra’n disgwyl recriwtio i swydd wag Swyddog Mynediad a Threfniadaeth yr Ysgol. Yn dilyn recriwtio llwyddiannus, dechreuodd deiliad y swydd yn llwyddiannus ar ddiwedd Ch4, ac o ganlyniad, mae'r gwaith hwn bellach wedi'i ddwyn ymlaen i 2018/19, a threfnwyd i'w gwblhau yn Ch3 2018/19. |
| HR/A004: Datblygu cynllun gweithredu mewn ymateb i'n hasesiad Stonewall. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Ers cyhoeddi canlyniadau arolwg Stonewall, cafwyd nifer o gyfarfodydd rhwng Stonewall a'r Cyngor i adolygu cynnydd. Mae adolygiad o'n cyflwyniad diwethaf wedi hysbysu datblygiad cynllun gweithredu yn barod ar gyfer y cyflwyniad nesaf i Arolwg Mynegai Cyflogwyr Stonewall yn 2018/19. Bydd datblygu'r cynllun gweithredu yn helpu i sicrhau bod y Cyngor yn fan gwaith cynhwysol i bob aelod o staff lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol. Yn ogystal, cynrychiolwyd y Cyngor mewn nifer o ddigwyddiadau Stonewall a hefyd hwylusodd seminar amrywiaeth ym Mro Morgannwg gyda chefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru ar LGBT/amrywiaeth. Sefydlwyd Rhwydwaith staff LGBT mewnol a Grŵp Cynghreiriaid LGBT gyda chyfarfodydd o bob grŵp yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Penodwyd aelod o'r tîm Rheoli Corfforaethol yn Hyrwyddwr Amrywiaeth er mwyn datblygu'r fenter ymhellach. |
| RP/A076: Adnabod safle ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr mewn ymgynghoriad â'r Grŵp Sipsiwn-Teithwyr. | 31/03/2018 | 80 | Coch | Mae'r Bwrdd Project Sipsiwn a Theithwyr yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd, ac mae’n gweithio tuag at nodi safle addas i ddiwallu'r angen a nodwyd. Bydd y gwaith hwn yn parhau i 2018/19 dan RP/A095 fel yr amlinellir yn y Cynllun Gwasanaeth Adfywio a Chynllunio. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| VS/A069: Gweithio tuag at gyflawni'r wobr arian yn safon cydraddoldeb Insport, gan ddangos ein hymrwymiad i ddenu a chefnogi pobl ifanc anabl i gymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Nid yw dyfarniad arian Insport yn achrediad y gellir ei gyflawni o fewn blwyddyn. Mae'n broses barhaus sy'n ystyried yr ethos cyfan o arfer cynhwysol yn yr awdurdod. Lle bynnag y bo hynny'n ymarferol, mae'r holl weithgareddau yr ydym yn eu datblygu a'u cyflenwi yn gynhwysol. Fodd bynnag, lle mae galw am ddarpariaeth ar wahân, ymchwiliwyd i hyn ar y cyd â phartneriaid megis ysgolion, clybiau a grwpiau cymunedol. Mae projectau fel y project 5x60 yn Sant Richard Gwyn yn cynnig cyfleoedd cynhwysol. Mae Cyngor Bro Morgannwg yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd i redeg Fforwm Chwaraeon Anabledd Caerdydd a'r Fro a fynychir gan weithwyr proffesiynol o wahanol gefndiroedd a allai gael effaith ar weithio mewn partneriaeth i gynyddu cyfleoedd chwaraeon a gweithgareddau corfforol i bobl anabl. Cynrychiolir y Tîm Datblygu Chwaraeon a Chwarae hefyd yn Fforwm Cydraddoldebau'r Fro. Mae'r meysydd allweddol y mae'n rhaid eu dangos gan y Cyngor i gyflawni'r achrediad Insport arian yn cynnwys cefnogaeth i gynllunio cynhwysol a darpariaeth gan uwch reolwyr a chynnwys y maes gwaith hwn mewn cynlluniau corfforaethol. Rhaid i ni hefyd ddangos bod gwaith cynhwysol yn digwydd yng Nghanolfannau Hamdden y Fro. Gan fod y canolfannau hamdden y Fro yn cael eu rheoli gan Legacy Leisure, mae'n rhaid i ni sicrhau eu bod hefyd yn cefnogi'r ethos hwn er mwyn i'r Fro gyflawni'r achrediad hwn, ac mae'r gwaith hwn yn parhau. Parheir i weithio tuag at yr achrediad hwn yn ystod 2018/19. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| VS/A070: Parhau i ymgysylltu â grwpiau gwarchodedig er mwyn galluogi i'w barn lywio datblygiadau gwasanaeth. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Parheir i annog adborth cwsmeriaid ar weithgareddau Datblygu Chwaraeon, a gweithredir ar yr adborth. Drwy gydol y flwyddyn rydym wedi ymgysylltu â chwsmeriaid i gael eu barn er mwyn llywio datblygiadau gwasanaeth ymhellach. Un dull allweddol o ymgysylltu a ddefnyddiwyd eleni oedd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth Hamdden ddrafft a oedd yn cynnwys camau penodol mewn perthynas â grwpiau a ddiogelir. Mae'r ymatebion bellach wedi'u dadansoddi a'u defnyddio lle bo'n briodol er mwyn helpu i ddatblygu fersiwn derfynol y Strategaeth Hamdden sydd bellach wedi'i chwblhau. |
| **AC11** | | | | |
| PD/A010: Parhau i gydweithio'n agos â Menter Bro Morgannwg a'r Urdd i hyrwyddo'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ym Mro Morgannwg. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Drwy gydol y flwyddyn, mae Menter Bro Morgannwg wedi llwyddo i ddarparu'r rhaglen gytunedig ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol ym Mro Morgannwg i siaradwyr Cymraeg yn yr ardal. Mae digwyddiadau wedi cynnwys; Noson gomedi Gymreig, sesiynau ioga, gwersyll pêl-rwyd i blant bach, celf a chrefft i blant a gweithdai trin gwallt a harddwch i blant. Bwriedir cynnal nifer o weithgareddau newydd yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, gan gynnwys teithiau cerdded ar hyd sawl traeth yn y Fro. Gellir dod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau gweithgareddau a digwyddiadau yn https://menterbromorgannwg.org/cy/gweithgareddau-digwyddiadau. |
| **AC12** | | | | |
| PD/A019: Gweithredu safonau'r Gymraeg gan gynnwys tendro gwasanaeth cyfieithu. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Bu'r contract cyfieithu yn gweithredu'n llwyddiannus ac mae cyfarfodydd misol rheolaidd bellach yn digwydd er mwyn ei fonitro'n effeithiol. Parheir i wneud cynnydd da o ran Safonau'r Gymraeg gyda'r rhan fwyaf o'r cynllun gweithredu nawr wedi'i weithredu. Byddwn yn parhau i weithredu'r Safonau yn 2018/19 fel y nodir yn y Cynllun Gwasanaeth Perfformiad a Datblygiad. Mae cyfarfodydd yn dal i ddigwydd yn fisol ac mae adroddiad blynyddol yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd. |

| Camau gweithredu’r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| Cyfraniadau gwasanaeth eraill i AC12: Gweithredu Safonau'r Gymraeg i wella mynediad at wasanaethau a gwybodaeth. | | | | |
| HS/A048: Hyrwyddo a darparu cyfleoedd i staff gael mynediad at gyrsiau Cymraeg. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae'r staff yn gwbl ymwybodol o'r cyfleoedd Cymraeg sydd ar gael iddynt ac maent wedi ymgysylltu lle bo'n briodol. Gwneir y defnydd mwyaf bosibl o'r system gyfieithu lle bo angen, ac mae'r holl staff yn ymwybodol o'r broses i gael mynediad at y gwasanaeth cyfieithu. |
| HS/A047: Sicrhau bod cyflenwi gwasanaethau yn cydymffurfio â Safonau’r Gymraeg. | 31/03/2018 | 85 | Coch | Mae'r holl ddogfennau sydd ar gael i'r cyhoedd yn cydymffurfio â Safonau’r Gymraeg. Nodwyd ateb TGCh ar gyfer y porth cwsmer gyda meddalwedd cyfieithu addas, ac mae hwn wedi ei gaffael. Rydym yn gweithio nawr gyda'r cyflenwr ar ei osod, a disgwylir i hyn gymryd tua chwe mis (Medi 2018) ar gyfer bob sianel cwsmeriaid. Llithrodd y cynnydd gan fod y porth sy'n wynebu'r cwsmer angen ateb cyfieithu Cymraeg pwrpasol. Roedd hyn angen amser ychwanegol sylweddol i’w ganfod, ei gaffael a’i gomisiynu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â phrotocolau diogelwch TG y Cyngor. |
| SL/A024: Cyflenwi gwasanaethau cymorth yn Gymraeg yn unol â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP), gan weithio ochr yn ochr â chydweithwyr corfforaethol i weithredu'r Strategaeth Hyrwyddo’r Iaith Gymraeg. | 31/03/2018 (parhaus i 2020) | 100 | Gwyrdd | Cyflwynwyd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Bro Morgannwg (WESP) i Lywodraeth Cymru i'w ystyried yn chwarter tri ac roedd yn un o ddim ond 15 allan o 22 a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru (LIC) ym mis Mawrth 2018. Mae Asesydd WESP LIC yn bwriadu cyfarfod â Chyngor Bro Morgannwg ar 10 Mai 2018 i drafod ein WESP a chynnydd yn symud ymlaen i 2020. Trefnwyd cyfarfod o Fforwm WESP y Fro nesaf cyn diwedd blwyddyn academaidd 2017/18. Parha'r gyfarwyddiaeth i weithio gyda'i phartner CAPITA a chydweithwyr corfforaethol i sicrhau cydymffurfiaeth â Strategaeth Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg. |
| SI/A031: Cyflenwi gwasanaethau cymorth yn Gymraeg yn unol â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) 2017-20. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Defnyddir grant athro cyflenwi gan Lywodraeth Cymru i hyfforddi athro o ysgol cyfrwng Gymraeg yn Ysgol Y Deri mewn anghenion dysgu cymhleth ac anhwylder sbectrwm awtistig, i alluogi'r athro i ddarparu darpariaeth arbenigol yn yr ardaloedd hyn trwy gyfrwng y Gymraeg. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| IT/A004: Hyrwyddo a darparu cyfleoedd i staff gael mynediad at gyrsiau Cymraeg. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae hon yn weithred barhaus, ond ar hyn o bryd mae gan TGCh nifer o staff sydd wedi manteisio ar y cyfle i fynychu'r cyrsiau Cymraeg a ddarperir. Mae'r aelodau staff hyn yn parhau i fynychu'r dosbarthiadau a ddarperir ac mae eu sgiliau iaith Gymraeg yn gwella ymhellach. |
| IT/A003: Sicrhau bod darpariaeth TGCh yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Ar hyn o bryd mae'r Tîm Gwe yn hwyluso ymarferoldeb dwyieithog (cymwysiadau'r we) ar wefan y Cyngor, ac o fewn yr ardal Gwasanaeth, mae nifer o staff TGCh sy'n parhau i fynychu dosbarthiadau Cymraeg. Bydd gwaith yn parhau i sicrhau bod y gwasanaeth yn dal i fodloni Safonau Cymraeg y Cyngor. |
| HR/A006: Parhau i gydymffurfio â Safonau Cymraeg y Gwasanaethau Adnoddau Dynol. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Drwy gydol y flwyddyn rydym wedi parhau i ddatblygu ein sgiliau iaith Gymraeg trwy gyfieithu pob polisi a gweithdrefn i'r Gymraeg a chysylltu â staff yn ddwyieithog ar gyfer projectau fel yr Arolwg Staff. Parheir i weithio gyda chydraddoldebau i hwyluso a hyrwyddo hyfforddiant iaith Gymraeg yn y gweithlu i helpu i sicrhau cydymffurfiaeth effeithiol â Safonau'r Gymraeg a gwella mynediad at wasanaethau a gwybodaeth yn ddwyieithog. |
| HR/A007: Darparu hyfforddiant ar ddefnydd effeithiol o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd AD. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae cefnogaeth ar gael gan y Tîm Cymorth Busnes a Phartner Busnes Adnoddau Dynol ar gyfer unrhyw gymorth Cymraeg yn y fan a'r lle mewn cyfarfodydd. Bydd rhestr arall o'r darparwyr cyfieithu Cymraeg sydd ar gael a chyfeirir atynt ar Staffnet i wella mynediad i'r gwasanaeth a gwybodaeth ddwyieithog. |
| FS/A006: Sicrhau bod cyflenwi gwasanaethau yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Rydym yn parhau i gyrraedd y targed hwn trwy gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg. |
| RP/A077: Ymgymryd â chyfieithiad o'r Cynllun Datblygu Lleol a'r dogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol cysylltiedig. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Ni allai Gwasanaeth Cyfieithu y Cyngor gyfieithu'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) o fewn amser rhesymol felly fe'i cyflenwyd yn allanol i wasanaeth cyfieithu arall. Mae'r CDLl bellach ar gael yn Gymraeg. Mae'r CCA newydd sydd wedi cael eu cynhyrchu eleni ac a fabwysiadwyd ar 16eg Ebrill 2018 ar gael yn awr yn y Gymraeg. |

| Camau gweithredu’r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| RP/A078: Cyfieithu Canllawiau Cynllunio newydd Bro Morgannwg. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cyfieithwyd y Canllawiau Cynllunio i'r Gymraeg ac mae'r fersiwn wedi'i chyfieithu wedi'i llwytho ar wefan Bro Morgannwg, a chynhyrchwyd copïau caled a'u rhoi yn y dderbynfa. Anfonir copi o'r canllawiau wedi’u cyfieithu at unrhyw ymgeisydd sy'n gwneud cais i ni yn Gymraeg. |
| RP/A079: Cyfieithu Adolygiad Perfformiad Blynyddol Llywodraeth Cymru. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cwblhawyd Adolygiad Perfformiad Blynyddol Bro Morgannwg (APR) yn llwyddiannus a'i gyfieithu i'r Gymraeg. Mae'r APR ar gyfer 2017/18 wedi'i lwytho ar wefan y Cyngor ac mae hefyd ar gael yn Gymraeg. |
| VS/A072: Sicrhau bod cyflenwi gwasanaethau yn cydymffurfio â Safonau’r Gymraeg. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae'r holl staff yn ymwybodol o ofynion cynllun y Cyngor a chaiff staff eu hannog i ddefnyddio'u sgiliau yn y gweithle gan fod gwasanaethau yn yr ardal hon yn cael eu cynnig yn yr iaith Gymraeg yn ôl yr angen. |
| DS/A004: Gwerthuso'r gofynion ar gyfer cyfieithu dogfennau. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cydymffurfir ag unrhyw gais penodol os/pan fydd yn codi i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â gofynion Safonau’r Gymraeg. |
| AS/A021: Sicrhau cydymffurfiaeth â pholisi 'Mwy na geiriau' (mewn perthynas â'r Iaith Gymraeg). | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Trafodwyd Cylch Gorchwyl Drafft (TOR) mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Chwefror 2018 ac mae’n cael ei drafod ar hyn o bryd gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth cyn ei gwblhau. Bydd y TOR yn helpu i lywio'r cydweithio parhaus a chynlluniau gweithredu ar y cyd. Bydd y gwaith hwn yn helpu i gryfhau ein defnydd o wasanaethau Cymraeg yn effeithiol i’r sawl sy'n cael mynediad at wasanaethau gofal cymdeithasol. |
| LS/A010: Sicrhau bod cyflenwi gwasanaethau yn cydymffurfio â Safonau’r Gymraeg. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Parheir i gydymffurfio â Safonau’r Gymraeg yn y Gwasanaethau Cyfreithiol, gan gynnwys Cofrestru Etholiadol yn enwedig o ran canfasio i sicrhau mynediad gwell at wasanaethau a gwybodaeth. |
| LS/A011: Hyrwyddo a darparu cyfleoedd i staff gael mynediad at gyrsiau Cymraeg. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Ymdrinnir â chyfleoedd hyfforddi, gan gynnwys y cyfleoedd sydd ar gael i staff i ddysgu Cymraeg trwy sesiynau gwerthuso staff #itsaboutme, pryd y rhennir gwybodaeth am gyfleoedd i staff gael mynediad at gyrsiau Cymraeg. Yn ystod 2017/18 cwblhawyd 100% o werthusiadau #itsaboutme i’r gwasanaeth. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| SRS/A014: Sicrhau bod cyflenwi gwasanaethau yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae'r SRS yn parhau i gynnig gwasanaeth dwyieithog trwy wefan C1V a SRS. Ar hyn o bryd mae'r SRS yn cwrdd â'r holl ofynion Iaith Gymraeg. |
| CS/A018: Hyrwyddo a darparu cyfleoedd i staff gael mynediad at gyrsiau Cymraeg. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Hyrwyddir cyrsiau Cymraeg a chefnogir staff i fynychu. Bydd y gwaith hwn yn helpu i gynyddu nifer y staff sy'n manteisio ar gyrsiau Cymraeg ac yn caniatáu i staff ddefnyddio eu sgiliau iaith yn y gweithle. |
| BM/A031: Sicrhau cydymffurfiaeth â pholisi 'Mwy na geiriau' (mewn perthynas â'r Iaith Gymraeg). | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Trafodwyd Cylch Gorchwyl Drafft (TOR) mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Chwefror 2018 ac mae'n cael ei drafod ar hyn o bryd gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth cyn ei gwblhau. Bydd y TOR yn helpu i lywio'r cydweithio parhaus a chynlluniau gweithredu ar y cyd. Mae'r TOR yn cynnwys manylion aelodaeth grŵp, pwrpas a chwmpas. Mae hefyd yn amlinellu amlder cyfarfodydd. Bydd y gwaith hwn yn helpu i gryfhau ein defnydd o wasanaethau Cymraeg yn effeithiol i'r sawl sy'n cael mynediad at wasanaethau gofal cymdeithasol. |
| BM/A032: Parhau i gefnogi staff i gael mynediad at gyrsiau Cymraeg. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae'r gwasanaeth yn cefnogi pob dysgwr Cymraeg yn weithredol ac yn caniatáu amser astudio i fynychu cyrsiau lle bo modd. Bydd y gefnogaeth hon yn parhau i gynyddu nifer y dysgwyr Cymraeg a'u hannog i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle. |
| **AC13** | | | | |
| SL/A025: Cwblhau gweithrediad Open+ yn Llyfrgell y Barri. | 31/01/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae'r problemau yr adroddwyd arnynt mewn chwarteri blaenorol wedi'u goresgyn ac o ganlyniad lansiwyd Open+ yn llyfrgell y Barri ym mis Mawrth 2017 a threfnwyd lansiad swyddogol ar gyfer Ebrill 2018. Cofrestrwyd y cwsmeriaid cyntaf ac maent wedi defnyddio'r system. Bydd y system hon yn caniatáu i'r llyfrgell weithredu oriau agor cynyddol sy'n gwella mynediad i'r cyhoedd. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| SL/A026: Gweithio gyda phartneriaid cymunedol i ddarparu gwasanaeth llyfrgell bywiog ac amrywiol. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Yn ystod y chwarter diwethaf, trefnodd staff o bob llyfrgell i blant blwyddyn 4 ymuno â'r llyfrgell gyda'u dosbarth fel rhan o fenter Pob Plentyn yn Aelod Llyfrgell. Dyma'r ail flwyddyn y mae'r Fro wedi ymuno â'r cynllun hwn. Creodd y gwasanaeth llyfrgell aelodau newydd o'r llyfrgell a gwyddant, fel y llynedd, y bydd llawer o'r plant hyn yn mynd adref i annog eu rhieni i fynd â nhw i'w Llyfrgell leol a'u Llyfrgell Gymunedol. Mae llyfrgelloedd yn darparu ystod amrywiol o weithgareddau ac erbyn hyn mae nifer o grwpiau gwau yn cyfarfod mewn llyfrgelloedd, grŵp oedolion 'Daeardai a Dreigiau', boreau coffi, nosweithiau cwis a ffilm, cyfarfod clybiau Lego a chlybiau Codio mewn llyfrgelloedd. Mae'r rhain yn ychwanegol at grwpiau llyfrau ac amser stori sydd â sail fwy traddodiadol mewn llyfrgelloedd. Bydd y gwaith yn parhau yn y blynyddoedd i ddod i chwilio am weithgareddau newydd a fydd o ddiddordeb i bobl ac sy'n ffitio'n naturiol mewn lleoliad llyfrgell. Bydd rhai o'r gweithgareddau hyn yn cael eu rhedeg gan staff y llyfrgell, ond bydd eraill yn cael eu rhedeg gan grwpiau Cyfeillion a phartneriaid eraill. |
| **AC14** | | | | |
| Mae'r holl weithgareddau a gynlluniwyd wedi'u cwblhau ar gyfer y cam hwn yn ystod y flwyddyn flaenorol. | | | | |
| **AC15** | | | | |
| SL/A027: Gweithredu Strategaeth Gelfyddydau newydd ar gyfer y Fro. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cymeradwywyd y Strategaeth Celfyddydau a Diwylliant "Bro Uchelgeisiol a Bywiog o ran Diwylliant 2018-2022" gan y Cabinet yn y cyfarfod ar 5 Mawrth 2018. Gellir gweld y strategaeth ar wefan y Cyngor. Noda'r strategaeth gynllun cyflenwi ar gyfer cynyddu gweithgarwch celfyddydol ym Mro Morgannwg a datblygu cyfleoedd newydd i greu rhaglen gelfyddydol o'r 21ain ganrif sy'n atgyfnerthu'r ymdeimlad o hunaniaeth ddiwylliannol a pherthyn, a sicrhau bod cyfleoedd mynediad a chyfranogiad ar draws yr holl gelfyddydau a diwylliant yn hygyrch i bob preswylydd ac ymwelwyr. Bydd hyn yn sicrhau bod cyfeiriad strategol clir yn ei le ar gyfer datblygu'r celfyddydau ym Mro Morgannwg. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| **AC16** | | | | |
| RP/A038: Diogelu a gwella treftadaeth adeiledig, naturiol a diwylliannol Bro Morgannwg trwy benderfyniadau rheoli datblygu. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae pob penderfyniad cynllunio yn amddiffyn treftadaeth adeiledig, naturiol a diwylliannol Bro Morgannwg yn unol â Pholisïau'r CDLl; SP10, MG19, 20, 21 & 27, MD 1 & 2.<br><br>Yn ystod Ch4, penderfynwyd ar 274 o geisiadau cynllunio, gan gynnwys 7 Caniatâd Adeilad Rhestredig, a hefyd 31 o geisiadau Coed, 12 TCA (Gwaith ar goed mewn ardal gadwraeth) a 19 TPO (Gwaith ar goed a gwmpesir dan Orchymyn Cadw Coed). Mae hyn yn gynnydd ar y 253 o geisiadau cynllunio a benderfynwyd yn ystod chwarter 4 2016/17. |
| RP/A080: Parhau i hyrwyddo rhagoriaeth mewn adeiladu trwy wobrau LABC. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae gwaith paratoi ar y gweill ar gyfer Gwobrau Rheoleiddio Blynyddol LABC De Cymru blynyddol nesaf a gynhelir ar ddiwedd Ebrill 2018. Bydd Cyngor Bro Morgannwg yn cyflwyno ceisiadau ar gyfer nifer o gategorïau. Mae'r gwaith ar fin cael ei gwblhau ar ddogfen hyrwyddo newydd Rheoli Adeiladu sy'n hyrwyddo ein gwasanaethau, busnesau lleol a gwobrau LABC. |

## ATODIAD B: DANGOSYDDION PERFFORMIAD

**Amcan 5: Codi safonau cyffredinol cyflawniad**

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd Perfformiad** | | | | | | |
| CPM/165 (WO3/M001): Canran yr oedolion sydd â chymwysterau ar wahanol lefelau'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol. | 5% | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Mae'r data diweddaraf sydd ar gael o arolwg poblogaeth blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cwmpasu Ionawr 2017-Rhagfyr 2017 yn dangos bod gan 5.7% o Fro Morgannwg gymwysterau gwahanol i NVQ1, NVQ2, NVQ3, NVQ4 ac uwch, mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru o 6%. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CPM/166 (WO3/M002): Canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd trothwy lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a Mathemateg, gan gynnwys y bwlch rhwng y rhai sy'n gymwys neu nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Dangosydd Cenedlaethol Llesiant Blynyddol. Darperir data isod ar gyfer trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg ar gyfer FMS ac eFSM. (CPM/041, CPM/042, CPM0/92) |
| CPM/167c (WO3/M003): Canran y bobl ifanc sy'n gadael blwyddyn 13 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. | 3.07% | 2.85% | 2.80% | Oren | ↑ | Dangosydd Cenedlaethol Llesiant Blynyddol. Dyddiad swyddogol rhyddhau data cyrchfan yw 25 Ebrill 2018. Dyma'r data answyddogol cyn ei ryddhau. Mae gostyngiad pobl ifanc NEET ym mlwyddyn 13 yn ganlyniad i'r ddarpariaeth hyblyg a gynigir yn ystod amserau penodol o'r flwyddyn, darpariaeth haf i helpu pobl ifanc i benderfynu ar ba gyrsiau i gofrestru ar ôl mis Medi, mwy o gefnogaeth un i un i ymgysylltu â phobl ifanc mewn darpariaeth neu gyflogaeth yn y rhaglen Ysbrydoli i Waith. Mae'r data cyrchfan yn cael ei gwblhau yn brydlon gan ysgolion. |
| **Pa wahaniaeth wnaethom ni?** | | | | | | |
| CPM/092 (PAM/006): Canran disgyblion blwyddyn 11 sy'n cyrraedd trothwy lefel 2 gan gynnwys gradd TGAU A*-C mewn Saesneg, neu Iaith Gyntaf Cymraeg a Mathemateg mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol. | 67.06% | 60.4% | 69.90% | Coch | ↓ | Mae perfformiad yn y dangosydd L2+ wedi gostwng 6.7pc i 60.4% ond mae'n parhau i fod yr uchaf yng Nghonsortiwm Canolbarth y De (CSC) ac yn uwch na chyfartaledd Cymru o 54.6%. Fodd bynnag, fe wnaeth perfformiad y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (eFSM) ostwng yn sydyn ac mae'r bwlch wedi ehangu o 25.2pc i 35.8pc. Yn gyffredinol, mae Bro Morgannwg yn y pedwerydd safle o'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill yn y dangosydd allweddol hwn. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CPM/041: Canran y disgyblion FSM (eFSM) ym mlwyddyn 11, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd drothwy lefel 2 gan gynnwys graddau TGAU A*-C mewn Saesneg, Cymraeg Iaith Gyntaf a Mathemateg. | 42.70% | 27.89% | 47.10% | Coch | ↓ | Oherwydd y newid yn y mesurau perfformiad yn CA4, bu gostyngiad cenedlaethol yn yr L2+ ac yn arbennig, ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (eFSM). Er bod perfformiad 2017 ar gyfer y dangosydd hwn wedi gostwng o -6.7pc, mae'r awdurdod wedi cynnal ei safle uwchlaw'r Cyfartaledd Cenedlaethol ar y dangosydd hwn, er bod y bwlch rhwng eFSM a disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (nFSM) yn ehangach yn y Fro nag yn genedlaethol. |
| CPM/042: Canran y disgyblion nad ydynt yn FSM (nFSM) ym mlwyddyn 11, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd drothwy lefel 2 gan gynnwys graddau TGAU A*-C mewn Saesneg, Cymraeg Iaith Gyntaf a Mathemateg. | 70.43% | 65.49% | 73.90% | Coch | ↓ | Oherwydd y newid yn y mesurau perfformiad yn CA4, bu gostyngiad cenedlaethol yn L2+ er nad oedd y gostyngiad ar gyfer disgyblion nad oeddent yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (disgyblion nFSM) mor fawr â'r disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (disgyblion eFSM). |
| CPM/168a: Canran disgyblion blwyddyn 11 sy'n ennill 5 TGAU neu ragor ar raddau A* i A ar gyfer: a) pob disgybl | 21.89% | 24.79% | 23.50% | Gwyrdd | ↑ | Hwn oedd y perfformiad gorau erioed yn y dangosydd hwn a rhagorodd ar y targed cyfanredol. Yn y mesur hwn y gwelwyd y gwelliant cyffredinol uchaf o'r holl fesurau ar gyfer Bro Morgannwg. Dylid nodi'n arbennig y cynnydd yn y Bont-faen lle cyflawnodd 46.5% o ddisgyblion 5 gradd 5 A*-A. |
| CPM/168b: Canran disgyblion blwyddyn 11 sy'n ennill 5 TGAU neu ragor ar raddau A* i A ar gyfer: b) FSM | 3.78% | 3.16% | 4.80% | Coch | ↓ | Roedd hyn yn siomedig iawn ac yn ostyngiad cyffredinol ac yn anffodus, mae'r bwlch rhwng perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (eFSM) a disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (nFSM) wedi cynyddu ar y dangosydd hwn. Mewn 6 allan o 8 ysgol, ni chafodd yr un disgybl eFSM 5 gradd A* -A. |
| CPM/168c : Canran disgyblion blwyddyn 11 sy'n ennill 5 TGAU neu ragor ar raddau A* i A ar gyfer: c) nad ydynt yn FSM | 24.40% | 28.17% | 26.60% | Gwyrdd | ↑ | Roedd y perfformiad hwn yn uwch na'r targedau cyfanredol ac yn rhagori ar y perfformiad yn y flwyddyn flaenorol. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CPM/168d: Canran disgyblion blwyddyn 11 sy'n ennill 5 TGAU neu ragor ar raddau A* i A ar gyfer: d) Plant sy'n derbyn gofal (LAC) | 0% | 0% | 12.50% | Coch | ↔ | Mae hyn yn ymwneud â charfan fach o ddisgyblion ac rydym yn parhau i weithio gyda chydweithwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol i gefnogi a darparu cyfleoedd i bobl ifanc wella lefelau cyrhaeddiad. |
| CPM/049: Canran yr holl ddisgyblion (gan gynnwys LAC) mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan ALl ym mlwyddyn 11 sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu yn y gwaith heb gymhwyster allanol cymeradwy. | 0% | 0.36% | 0% | Coch | ↓ | Yn ystod y flwyddyn academaidd hon, gadawodd 5 disgybl addysg orfodol heb gymhwyster allanol cymeradwy, ac nid ydynt yn parhau mewn addysg, hyfforddiant na dysgu seiliedig ar waith. |
| CPM/093: Canran y disgyblion FSM (gan gynnwys LAC) mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan ALl ym mlwyddyn 11 sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu yn y gwaith heb gymhwyster allanol cymeradwy. | 2.70% | 1.05% | 1.10% | Gwyrdd | ↑ | Hwn oedd y perfformiad gorau erioed yn y dangosydd hwn a rhagorodd ar y targed cyfanredol. Dylid nodi'n arbennig y cynnydd yn y Bont-faen lle cyflawnodd 46.5% o ddisgyblion 5 gradd 5 A*-A. |
| CPM/094: Canran y disgyblion nad ydynt yn FSM (gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal) mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan ALl ym mlwyddyn 11 sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu yn y gwaith heb gymhwyster allanol cymeradwy. | 0.07% | 0.25% | 0.30% | Gwyrdd | ↓ | Roedd Bro Morgannwg yn 5ed yn gyffredinol ar gyfer y dangosydd hwn, a oedd yn welliant o 2017 ac yn rhagori ar dargedau cyfanredol. |
| CPM/050: Canran y disgyblion mewn gofal awdurdod lleol mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan ALl, ym mlwyddyn 11 sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu yn y gwaith heb gymhwyster allanol cymeradwy. | 0% | 0% | 0% | Gwyrdd | ↔ | Mae'r maes hwn yn parhau i fod yn gryfder ac yn flaenoriaeth bwysig gyda pherfformiad sy'n adlewyrchu un y llynedd, ar 0%. |
| CPM/043: Cyfradd llwyddiant canrannol dysgwyr blaenoriaeth ar gyrsiau achrededig. | 96% | 96% | 96% | Gwyrdd | ↔ | Cyflawnodd y Fro gyfradd lwyddiannus o 96% am yr ail flwyddyn yn olynol a hi yw'r darparwr dysgu sy'n perfformio orau yn y Rhanbarth. Cyflawnwyd hyn drwy ddulliau cyflenwi a gynlluniwyd yn dda a chasglu data da. |
| CPM/167a (PAM/009): Canran y rhai sy'n gadael Blwyddyn 11 y gwyddys nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth (NEET). | 1.61% | 1% | 1.60% | Gwyrdd | ↑ | Drwy ein dull cydlynol, mae'r perfformiad yn parhau i symud i gyfeiriad cadarnhaol. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CPM/167b: Canran y bobl ifanc sy'n gadael Blwyddyn 12 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. | 1.3% | 0.65% | 1.40% | Gwyrdd | ↑ | Drwy ein dull cydlynol, mae'r perfformiad yn parhau i symud i gyfeiriad cadarnhaol. |
| CPM/104: Canran y plant Dechrau'n Deg sy'n cyflenwi o leiaf y deilliannau disgwyliedig (canlyniad 5+) ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. | 88.31% | 85.04% | 60% | Gwyrdd | ↓ | Cyflawnodd 233 o blant allan o 274 y canlyniadau disgwyliedig (Canlyniad 5+) ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. |
| CPM/044: Canran yr holl ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 a gyflawnodd y safon ddisgwyliedig yn Saesneg. | 93.77% | 94.18% | 94% | Gwyrdd | ↑ | Mae perfformiad eleni wedi rhagori ar y targed cyfanredol. Roedd Bro Morgannwg yn yr ail safle drwy Gymru. |
| CPM/045: Canran y disgyblion FSM yng Nghyfnod Allweddol 2 a gyflawnodd y safon ddisgwyliedig yn Saesneg. | 85.07% | 85.29% | 87% | Oren | ↑ | Er bod y perfformiad hwn yn is na'r targed, mae'n cynrychioli cynnydd 0.2pc o 2016. Mae'r bwlch rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (eFSM) a disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (nFSM) yn culhau dros amser ac yn llai na'r bylchau rhanbarthol a chenedlaethol. |
| CPM/046: Canran y disgyblion nad ydynt yn FSM yng Nghyfnod Allweddol 2 a gyflawnodd y safon ddisgwyliedig yn Saesneg. | 95.08% | 95.44% | 95% | Gwyrdd | ↑ | Mae'r perfformiad hwn o 95.44% wedi rhagori ar y targed gosodedig o 95% ac yn cynrychioli gwelliant o un flwyddyn i'r llall. |
| CPM/047: Canran yr holl ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 a gyflawnodd y safon ddisgwyliedig mewn Mathemateg. | 93.97% | 94.78% | 94.64% | Gwyrdd | ↑ | Mae'r perfformiad hwn wedi rhagori ar y targed cyfanredol a pherfformiad y llynedd. Roedd Bro Morgannwg yn y safle uchaf drwy Gymru. |
| CPM/005: Canran y disgyblion FSM yng Nghyfnod Allweddol 2 a gyflawnodd y safon ddisgwyliedig mewn Mathemateg. | 84.08% | 85.29% | 87% | Oren | ↑ | Sicrhaodd perfformiad eleni bod Bro Morgannwg yn y safle uchaf drwy Gymru gyda'r dangosydd hwn, er bod perfformiad disgyblion eFSM ychydig yn is na'r targed. |
| CPM/048: Canran y disgyblion nad ydynt yn FSM yng Nghyfnod Allweddol 2 a gyflawnodd y safon ddisgwyliedig mewn Mathemateg. | 96.24% | 96.05% | 95.80% | Gwyrdd | ↓ | Mae'r perfformiad hwn wedi rhagori ar y targed cyfanredol. Roedd Bro Morgannwg yn y safle uchaf drwy Gymru gyda'r dangosydd hwn, er bod perfformiad disgyblion eFSM (plant sy'n gymwys am ginio ysgol am ddim) ychydig yn is na'r targed. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pa mor dda wnaethom ni berfformio?** | | | | | | |
| CPM/052: Nifer y canlyniadau achrededig a gyflawnwyd gan ddysgwyr drwy'r Gwasanaeth Ieuenctid. | 2284 | 3015 | 2500 | Gwyrdd | ↑ | Yn Ch4, cyflawnwyd 537 o dystysgrifau achrededig, roedd 53 o'r rhain ar gyfer cymwysterau mwy yn hytrach na thystysgrifau uned sengl, ynghyd â 372 o wobrau Dug Caeredin (DofE) ychwanegol a gwblhawyd, Efydd (298), Arian (54) ac Aur (20), ac 1508 o ddyfarniadau adrannol a enillwyd a 598 achrediad lleol: cyfanswm o 3015. Ar hyn o bryd mae 854 o bobl ifanc ychwanegol wedi'u cofrestru ar gyfer gwobr Dug Caeredin.<br><br>Adroddir y mesur hwn i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn fel rhan o'r archwiliad blynyddol o achrediadau a gyflawnir gan bobl ifanc ym Mro Morgannwg. Mae'r perfformiad hwn yn adlewyrchu'n well yr achrediadau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn academaidd.<br><br>Nid yw'r trefniadau adrodd chwarterol cyfredol yn rhoi adlewyrchiad cywir o'n perfformiad o ystyried nad oes data blwyddyn academaidd ar gael tan chwarter 3 ar y cynharaf. Wrth symud ymlaen, cynigir bod y mesur hwn yn cael ei adrodd yn flynyddol yn unol â'n hadroddiad blynyddol. |
| CPM/036 (PAM/007): Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion Cynradd. | 95.34% | 95.18% | 95.40% | Oren | ↓ | Mae'r Gwasanaeth Llesiant Addysg (EWS) yn targedu ysgolion penodol sydd â phresenoldeb gwael ac yn darparu cymorth ychwanegol. Mae EWS yn darparu hyfforddiant o safon dda mewn hysbysiadau cosb benodedig sy'n galluogi ysgolion i gymryd camau pellach i wella presenoldeb. Mae'r EWS yn ymateb yn gyflym i atgyfeiriadau gan ysgolion. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CPM/037 (PAM/008): Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd. | 95.05% | 95.07% | 95% | Gwyrdd | ↑ | Mae'r Gwasanaeth Llesiant Addysg (EWS) yn darparu hyfforddiant o safon dda mewn hysbysiadau cosb benodedig sy'n galluogi ysgolion i gymryd camau pellach i wella presenoldeb. Mae'r EWS yn ymateb yn gyflym i atgyfeiriadau gan ysgolion. |
| CPM/038: Canran y datganiadau terfynol o Anghenion Addysg Arbennig a gyhoeddwyd o fewn 26 wythnos gan gynnwys eithriadau. | 97.83% | 100% | 100% | Gwyrdd | ↑ | Gwnaed cynnydd positif o'i gymharu â'r llynedd, gyda 100% o'r 43 datganiad yn cael eu cyhoeddi o fewn 26 wythnos. |
| CPM/039: Canran y datganiadau terfynol o Anghenion Addysg Arbennig a gyhoeddwyd o fewn 26 wythnos ac eithrio eithriadau. | 95.65% | 100% | 100% | Gwyrdd | ↑ | Gwnaed cynnydd positif o'i gymharu â'r llynedd, gyda 100% o'r 43 datganiad yn cael eu cyhoeddi o fewn 26 wythnos. |
| CPM/091: Canran yr ysgolion a farnwyd yn dda neu'n well gan Estyn (yn y ddau ddyfarniad) | 100% | Amh. | 90% | Amh. | Amh. | Newidiwyd fframwaith Estyn ym mis Medi 2017 ac nid oes 2 farn drosfwaol bellach. Fodd bynnag, o'r fframwaith blaenorol, roedd 3 archwiliad craidd yn Ch1. Barnwyd bod 2 ysgol yn ddigonol neu'n well ar gyfer y ddau ddyfarniad a barnwyd bod y drydedd ysgol yn ddigonol mewn un maes ac yn dda yn y llall. Mae'r ysgol hon yn un o ddim ond 2 ysgol ym Mro Morgannwg sydd mewn categori camau dilynol. O dan y fframwaith newydd, mae ysgolion yn derbyn 5 dyfarniad ar gyfer 5 maes arolygu ar wahân (IA). Ers ei gyflwyno, mae 6 ysgol wedi cael eu harolygu yn Ch3 a Ch4. O'r 6 ysgol, barnwyd bod 5 yn dda neu well ym mhob un o'r IA a derbyniodd y chweched ysgol farn dda neu well mewn 4 allan o 5 IA. |
| CPM/034: Canran y dyddiau ysgol a gollwyd oherwydd gwaharddiadau tymor penodol yn ystod y flwyddyn academaidd mewn ysgolion cynradd. | 0.01% | 0.01% | 0.01% | Gwyrdd | ↔ | Mae perfformiad ar darged, sy'n adlewyrchu un y llynedd. Ar ôl pob gwaharddiad, mae disgyblion a gefnogir gan y tîm ymddygiad yn cael adolygiad yn syth o’u Cynlluniau Ymddygiad Unigol (IBP) er mwyn lleihau'r risg o gael eu gwahardd ymhellach. |
| CPM/035: Canran y dyddiau ysgol a gollwyd oherwydd gwaharddiadau tymor penodol yn ystod y flwyddyn academaidd mewn ysgolion uwchradd. | 0.06% | 0.03% | 0.03% | Gwyrdd | ↑ | Mae perfformiad ar darged. Craffa'r fforwm gwahardd yn rheolaidd ar ddata i sicrhau bod ysgolion yn darparu cefnogaeth i ddisgyblion sydd â gwaharddiadau hir ac/ neu ailadroddus. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CPM/170: Canran y defnyddwyr sy'n dangos bodlonrwydd gyda'r gwasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf y cafwyd mynediad ato. | 97% | 98.28% | 85% | Gwyrdd | ↑ | Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn darparu amrywiaeth o wasanaethau da a reolir yn dda sy'n parhau i roi darpariaeth gefnogol dda i blant, pobl ifanc, teuluoedd a'r staff sy'n gweithio gyda nhw. Mae perfformiad eleni yn parhau i fod yn debyg i flynyddoedd blaenorol ac mae'n dyst i'r ansawdd a'r gefnogaeth a roddir gan staff. |

**Amcan 6: Gwerthfawrogi diwylliant ac amrywiaeth.**

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad | | | | | | |
| CPM/171 (WO3/M004): Canran y bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cydweithio'n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch. (Canran yr oedolion 16+ yn cytuno â'r tri datganiad uchod) | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Dangosydd Cenedlaethol Llesiant Blynyddol. Nid oes data Llywodraeth Cymru ar gael. Mae'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael yn dod o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016/17 sy'n dangos bod 74% o ymatebwyr ym Mro Morgannwg yn cytuno eu bod yn perthyn i'w hardal leol, gyda 78% yn cytuno fod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cydweithio'n dda ac 85% yn cytuno bod pobl yn eu hardal leol yn trin ei gilydd â pharch. |
| CPM/172 (WO3/M005): Canran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg | 18.5% | 18.7% | Amh. | Amh. | ↑ | Dangosydd Cenedlaethol Llesiant Blynyddol. Mae'r data diweddaraf sydd ar gael o arolwg poblogaeth blynyddol y flwyddyn 2017 yn dangos bod 18.7% o ymatebwyr yn adroddiad Bro Morgannwg y gallant siarad Cymraeg. Mae hwn yn gynnydd bach ar y 18.5% o ymatebwyr ym Mro Morgannwg yn 2016. Mae'r ffigurau ar gyfer eleni yn is na chyfartaledd Cymru o 28.3%. |
| CPM/173 (WO3/M006): Canran yr asedau amgylchedd hanesyddol dynodedig sydd mewn amodau sefydlog neu well. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Dangosydd Cenedlaethol Llesiant Blynyddol. Nid oes data Llywodraeth Cymru ar gael. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pa wahaniaeth wnaethom ni?** | | | | | | |
| CPM/174: Canran y bobl sy'n mynychu neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth o leiaf 3 gwaith y flwyddyn | Amh. | 84% | Amh. | Amh. | Amh. | Eleni gofynnodd Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017/18 am y tro cyntaf a oedd pobl wedi mynychu neu gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf dair gwaith y flwyddyn. Ymatebodd 84% o ymatebwyr ym Mro Morgannwg yn dweud eu bod. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 75%. |
| CPM/175: Canran y bobl sy'n siarad Cymraeg bob dydd a gallant siarad mwy na dim ond ychydig o eiriau o'r Gymraeg. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Gofynnodd Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017/18 am ymatebion i amrywiaeth o gwestiynau am eu gallu a'u defnydd o'r Gymraeg. Roedd y cwestiynau hyn yn cynnwys pa mor aml yr oeddent yn siarad Cymraeg a'u gallu mewn Cymraeg llafar; fodd bynnag, roedd maint y sampl ar gyfer Bro Morgannwg yn rhy fach pan gafodd ei ddadansoddi gan yr Awdurdod Lleol. Ar gyfartaledd, dywedodd 12% o ymatebwyr yr arolwg ledled Cymru eu bod yn siarad Cymraeg yn ddyddiol, ac o'r rhai a holwyd, dywedodd 25% nad oeddent yn gallu siarad mwy nag ychydig o eiriau. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pa mor dda wnaethom ni berfformio?** | | | | | | |
| CPM/072: Cyflymder ateb cyfartalog ar gyfer galwadau ar y llinell Gymraeg (eiliadau). | 35 eiliad | 77 eiliad | 60 eiliad | Coch | ↓ | Er y methwyd y targed am y flwyddyn, perfformiodd y llinell yn well na'r ganolfan gyswllt, a oedd â chyflymder ateb cyfartalog o 123 eiliad. Derbyniodd y llinell gyfanswm o 998 o alwadau yn ystod y flwyddyn. Cafwyd y perfformiad hwn oherwydd y dygwyd ymlaen gyfradd swyddi gwag uchel er mwyn bodloni targedau arbedion gwasanaeth, cynnydd tymhorol yn y galw a lefelau uchel o salwch tymor byr oherwydd annwyd a ffliw yn Ch4. Rhagwelir y bydd yr oedi cyn ateb sy'n sylweddol hwy na’r perfformiad hanesyddol yn parhau i 2018/19, a hyd nes y gellir cyflenwi newid sianel sylweddol o ffôn i hunanwasanaeth digidol. Mae'n debygol y bydd effeithlonrwydd gweithredol yn cael ei wella yn Ch3 2018/19 gyda gweithredu technoleg canolfan gyswllt newydd a fydd yn hwyluso dull sianel gyfunol. |
| CPM/077: Canran yr ymatebwyr du, lleiafrifoedd ac ethnig i ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu corfforaethol. | 2% | 2% | Amh. | Amh. | Amh. | Mae hwn yn fesur bob dwy flynedd, yn seiliedig ar yr arolwg barn y cyhoedd a gynhelir bob dwy flynedd. Gosodwyd targedau cynyddrannol a fydd yn dod â'r ffigur yn unol â'r % o drigolion o leiafrifoedd du ethnig (BME) (fel y'u cofnodwyd yn y cyfrifiad diwethaf) ym Mro Morgannwg erbyn 2020. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CPM/080: Canran y cwsmeriaid sy'n fodlon â Pharciau Gwledig. | 98% | 99.76% | 98% | Gwyrdd | ↑ | Mae hwn yn ganlyniad eithriadol yn erbyn targed a oedd eisoes yn heriol, yn rhagori ar y perfformiad uchel o 98% a gyflawnwyd yn 2016/17. Mae'r gyfradd boddhad 99.76% o ganlyniad i 414 o 415 o ymatebwyr yn nodi eu bod yn fodlon â pharciau gwledig eleni. Cyflawnir boddhad eithriadol gan dîm ymroddgar ac angerddol, sydd ar y rhestr fer ar gyfer tîm y flwyddyn yng Ngwobrau Tîm cyfredol y Cyngor. Mae'r Gwasanaeth Cefn Gwlad wedi'i ailstrwythuro i dîm mwy hyblyg ac integredig yn y blynyddoedd diwethaf ac mae hyn wedi helpu. |
| CPM/088: Canran yr ymwelwyr sy'n fodlon â Phroject Arfordir Treftadaeth fel y'u pennwyd trwy arolwg boddhad. | 98% | 100% | 98% | Gwyrdd | ↑ | Mae hwn yn ganlyniad eithriadol yn erbyn targed sydd eisoes yn heriol, yn rhagori ar y perfformiad uchel o 98% a gyflawnwyd yn 2016/17. Mae'r gyfradd boddhad 100% o ganlyniad i bob un o’r 43 o ymatebwyr yn dweud eu bod yn fodlon â Phroject Arfordir Treftadaeth eleni. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Faint ydym ni wedi ei wneud?** | **(Data cyd-destunol)** | | | | | |
| CPM/051 (PAM/016): Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth. | 5217.34 | 4,901 | 5700 | Coch | ↓ | Ni chyrhaeddodd y gwasanaeth llyfrgell y targed ffigurau ymwelwyr mewn unrhyw chwarter yn ystod y flwyddyn, ac mae wedi gostwng 5% dros y flwyddyn flaenorol. Mae hwn yn nifer sylweddol am un flwyddyn. Amharwyd ar y flwyddyn oherwydd uwchraddio sylweddol ar y system gyfrifiadurol, a olygai nad oedd catalog y llyfrgell ar gael am rai misoedd, a chafwyd amhariad pellach oherwydd nad oedd y peiriannau hunanwasanaeth poblogaidd yn gweithio yn ystod y gwaith trosi. Bydd yr elfennau hyn i gyd wedi cyfrannu at i lawer o bobl benderfynu peidio ag ymweld â'r llyfrgell, a'r un pryd, ni allai cwsmeriaid archebu llyfrau i'w cadw iddynt na chanfod gwybodaeth am lyfrau newydd. Hefyd yn ystod y flwyddyn sefydlwyd rhai llyfrgelloedd cymunedol ac mae'n debyg na chafodd llawer o ymweliadau eu cofnodi yn y llyfrgelloedd cymunedol hyn am gyfnod, mater yr ymdriniwyd ag ef ers hynny. Ar nodyn cadarnhaol, lansiodd y gwasanaeth y cynllun mynediad allan o oriau, Open+, yn llyfrgell y Barri ym mis Mawrth ac edrychir ymlaen at y lansiad swyddogol ym mis Ebrill 2018. Bydd hyn yn dod â mwy o bobl dros y trothwy a gwelir dros amser a yw hyn yn gwrthbwyso'r gostyngiad mewn cwsmeriaid yn ystod oriau agor. |
| CPM/053: Nifer y llyfrau a roddwyd i gwsmeriaid yn y Gymraeg. | 9755 | 9935 | 11093 | Coch | ↑ | Syrthiodd y gwasanaeth yn brin o fwy na 9 wythnos o fenthyciadau ac wrth edrych yn ôl, mae'r targed yn edrych yn afrealistig. Mae'r DP hwn wedi'i ddileu a'i ddisodli gan safonau llyfrgell Cymru ar gyfer 2018/19 sy'n rhoi adlewyrchiad mwy cywir o'n perfformiad. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CPM/180: Canran o staff y Cyngor yn cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg i gynyddu dealltwriaeth o ddyletswyddau'r Cyngor o dan Safonau'r Gymraeg. | Amh. | 2.4% | 50% | Coch | Amh. | Yn wreiddiol, roeddem yn bwriadu darparu cwrs ar-lein a fyddai'n caniatáu i nifer fwy o staff gwblhau'r modiwl hyfforddi, fodd bynnag, canfuwyd bod hyn yn rhy ddrud. Yn lle hynny, darparwyd sesiynau ymwybyddiaeth iaith wyneb-yn-wyneb gan y cynllun Cymraeg Gwaith i staff yn dilyn eu hysbysebu ar Staffnet. Gohiriwyd y sesiwn olaf o dair oherwydd tywydd gwael a bydd yn digwydd yn awr ym mis Ebrill 2018. Mae ffigurau presenoldeb o'r 2 sesiwn a gynhaliwyd yn llwyddiannus eleni yn dangos bod 58 o bobl yn bresennol yn yr hyfforddiant. Bwriedir cynnal sesiynau pellach ar gyfer 2018/19 i gynyddu'r nifer o staff sy'n cwblhau'r hyfforddiant ymwybyddiaeth. |
| CPM/181: Nifer y dysgwyr sy'n oedolion yng Nghymru. | 191 | 380 | 350 | Gwyrdd | ↑ | Mae tystiolaeth o daflenni data anhysbys Cymraeg i Oedolion yn rhoi nifer y dysgwyr sydd wedi'u cofrestru ar bob cwrs Cymraeg. Dengys hyn gynnydd ar y flwyddyn flaenorol ac mae'n rhagori ar y targed. |
| CPM/233: Nifer y projectau celf a sicrhawyd trwy adran 106. | Amh. | 5 | Amh. | Amh. | Amh. | Er nad yw'r Cyngor wedi gwario unrhyw arian Adran 106 ar Gelf Gyhoeddus yn 2017/18, mae astudiaeth ddichonoldeb wedi bod yn mynd ymlaen mewn perthynas â phrojectau megis The Green, Fferm Goch, Llangan, a gwahanol brojectau ym Mhenarth. Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd nifer o brojectau yn cael eu gweithredu yn 2018/19. |

**Atodiad B – Dangosyddion Perfformiad Ychwanegol (Canlyniad Llesiant 3)**

**Amcan 5: Codi safonau cyffredinol cyflawniad**

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pa wahaniaeth wnaethom ni?** | | | | | | |
| PAM/004: Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, yn cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd, fel y'i pennwyd gan Asesiad Athrawon. | Amh. | 93.51% | 93.30% | Gwyrdd | Amh. | Dilëwyd y mesur PAM hwn bellach o fframwaith cenedlaethol 2017/18 yn dilyn ymgynghoriad 2018/19. Mae perfformiad yn y maes hwn yn gosod Bro Morgannwg fel yr awdurdod uchaf yng Nghymru ar y dangosydd hwn. |
| PAM/005: Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, yn cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd, fel y'i pennwyd gan Asesiad Athrawon. | Amh. | 91.77% | 92.70% | Oren | Amh. | Dilëwyd y mesur PAM hwn bellach o fframwaith cenedlaethol 2017/18 yn dilyn ymgynghoriad 2018/19. Mae perfformiad yn y maes hwn yn gosod Bro Morgannwg fel yr awdurdod pedwerydd uchaf yng Nghymru ar y dangosydd hwn. |
| **Pa mor dda wnaethom ni berfformio?** | | | | | | |
| PAM/003: Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, yn cyflawni Canlyniad 5, fel y'i pennwyd gan Asesiad Athrawon. | Amh. | 91.39% | 93.40% | Oren | Amh. | Mesur blynyddol i'w adrodd yn chwarter 3. Dilëwyd y mesur PAM cenedlaethol hwn bellach o fframwaith cenedlaethol 2017/18 yn dilyn ymgynghoriad 2018/19. Er bod y canlyniad terfynol ychydig yn is na'r targed, Bro Morgannwg oedd yr ail uchaf yng Nghymru ar y dangosydd hwn. |

**Amcan 6: Gwerthfawrogi diwylliant ac amrywiaeth**

Nid oes unrhyw fesurau yn bodoli ar hyn o bryd o dan yr adran hon.

# ATODIAD B: CAMAU GWEITHREDU'R CYNLLUN GWASANAETH

**Amcan 7: Annog a hyrwyddo ffyrdd o fyw actif ac iach**

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| **AH1** | | | | |
| VS/A034: Gweithio mewn partneriaeth i ddarparu ystod o weithgareddau trwy ein cyfleusterau hamdden, cymunedol a pharciau i gynyddu'r lefelau cyfranogiad a gweithgarwch corfforol | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Gwnaed cynnydd sylweddol i sicrhau bod cyfleoedd ar gael ym mhob rhan o Fro Morgannwg i blant, pobl ifanc ac oedolion gael mynediad at weithgarwch corfforol trwy gydol y flwyddyn. Yn dilyn yr adolygiad cynhwysfawr o gyfranogiad cyfredol ar draws y cyfleusterau sy'n eiddo i'r Cyngor, byddai'r Cyngor yn cael ei osod yn y safle uchaf yng Nghymru, yn ôl y dangosydd perfformiad swyddogol, yn seiliedig ar ddata'r flwyddyn flaenorol .<br>Mae cyflawniadau allweddol fel rhan o gynllun Chwaraeon y Fro yn cynnwys:<br>-Dros 357 o bartneriaid yn gysylltiedig â'r Tîm Datblygu Chwaraeon ac yn effeithio ar chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn y Fro.<br>- 2422 o gyfleoedd datblygu'r gweithlu i unigolion o 164 o sefydliadau.<br>- Mwy na 199,483 o gyfranogiadau wedi eu cofnodi gan Gyngor Chwaraeon y Fro yn ogystal â miloedd yn fwy heb eu cofnodi.<br>- Derbyniodd 60 o brojectau Cist Gymunedol gyfanswm o £76,100 yn cynnwys 28 o weithgareddau chwaraeon a chorfforol - gan roi budd i 1132 o gyfranogwyr newydd a 3944 o gyfranogwyr presennol gyda 43 o glybiau/ timau/ adrannau newydd wedi'u creu.<br>- Mae 546 o aelodau'r clwb anabl a 618 o aelodau'r sesiwn chwaraeon anabledd yn mynychu'r 50 o gyfleoedd cynhwysol ac anabledd penodol sy'n rheolaidd.<br>Gellir gweld uchafbwyntiau ychwanegol yng Nghiplun Chwaraeon y Fro, i gael trosolwg ehangach o'r projectau a gyflenwyd. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| VS/A035: Ceisio cyllid A106 a chyllid arall i ddarparu gwell mynediad i gerdded a beicio i barciau a chyfleusterau hamdden eraill. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Rydym wedi parhau i geisio cyllid A106 a chyllid arall i gyflawni gwelliannau yn y maes hwn trwy gydol y flwyddyn. Yn ystod chwarter 4, rhoddwyd cymeradwyaeth bellach ar gyfer mynediad i barc Llandochau trwy Adran 106 ym mis Mawrth 2018. O ganlyniad i'r cyllid adran 106 ychwanegol hwn mae gwell llwybrau troed/ cyfleusterau beicio i'r cyhoedd eu defnyddio. |
| VS/A037: Darparu gwasanaeth Patrôl Croesfan Ysgol mewn lleoliadau risg uchel i alluogi plant i gerdded yn ddiogel i'r ysgol ac oddi yno. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae pob safle yn parhau i gael ei gynnwys gan wasanaeth Patrôl Croesfan Ysgol. Bu'r gwaith yn galed eleni o ganlyniad i swydd wag, ond mae'r swydd yn cael ei hysbysebu ar hyn o bryd ar gyfer swydd symudol i ymdrin ag unrhyw absenoldeb fel salwch. |
| VS/A039: Cynorthwyo Clybiau Chwaraeon a sefydliadau addas eraill gyda Throsglwyddiadau Asedau Cymunedol posibl lle mae budd ariannol a chymunedol clir i'r ymgeisydd a'r Cyngor. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Rhoddwyd cyngor ac anogaeth i nifer o sefydliadau ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol (CATs) yn ystod y flwyddyn i helpu i fanteisio ar gyfleusterau cymunedol lleol a lleihau costau cynnal a chadw'r Cyngor. Bydd hyn yn parhau yn y dyfodol lle mae budd ariannol a chymunedol clir i'r ymgeisydd a'r Cyngor, gyda'r tebygolrwydd y bydd CAT yn cynyddu oherwydd polisïau newydd posibl megis cynigion adfer cost llawn ar gyfer rhai chwaraeon. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| VS/A043: Ymchwilio i welliannau pellach i Ganolfannau Cymunedol y Cyngor i'w galluogi i ddiwallu mwy o anghenion defnyddwyr presennol a darpar ddefnyddwyr. | 31/12/2017 | 100 | Gwyrdd | Gwnaed cynnydd sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gan sicrhau bod Canolfannau Cymunedol yn parhau i ddiwallu anghenion eu cymunedau. Bydd y gwasanaeth bob amser yn dibynnu ar wirfoddolwyr ymroddedig lleol sy'n gwneud y rhan fwyaf o'r weinyddiaeth, ac roedd eleni'n nodedig oherwydd y nifer o wirfoddolwyr newydd a ddaeth ymlaen, yn enwedig pan fo dyfodol dwy Ganolfan yn cael eu bygwth. Eleni ffurfiwyd 2 bwyllgor newydd; un yng Nghanolfan Gymunedol Parc Victoria ac un yng Nghanolfan Gymunedol Little Moors, Tregatwg. Mae cyfarfodydd rheolaidd yn dal i gael eu cynnal gyda holl Bwyllgorau Canolfannau Cymunedol i nodi cyfleoedd a materion. |
| VS/A073: Uwchraddio gwifrau trydanol a'r cyfleusterau newid yng Nghanolfannau Hamdden y Barri a Phenarth. | 31/03/2018 | 75 | Coch | Parhaodd y gwaith ar uwchraddio'r systemau trydanol trwy gydol y flwyddyn gyda'r gwaith trydanol nawr wedi'i gwblhau'n llawn yn Llanilltud Fawr a'r Bont-faen. Dyfarnwyd y contract i'r Barri a Phenarth ac mae'r gwaith i'w gychwyn yn fuan. Cafodd y gwaith Ystafell Newid ei dendro fel cynllun i chwe sefydliad dewisol yn unol â gweithdrefnau caffael. Yn anffodus, dim ond un tendr a dderbyniwyd ac ni ystyriwyd hwn yn addas. Felly, mae ymarfer tendro agored newydd ar gyfer gwaith yr ystafell newid bellach ar wefan GwerthwchiGymru gyda dyddiad cau o 25 Mai 2018. Nawr mae'r gwaith i fod i ddechrau ym mis Mehefin 2018 yn amodol ar gyflwyno tendr derbyniol. Bydd y buddsoddiad parhaus mewn canolfannau hamdden gan gynnwys yr uwchraddiadau hyn yn parhau fel yr amlinellwyd o dan NS/A035 yn y Cynllun Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth 2018/19. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| VS/A074: Cwblhau Strategaeth Hamdden i Fro Morgannwg. | 31/07/2017 | 95 | Coch | Cafwyd oedi gyda'r cyflwyniad i'r Cabinet oherwydd yr angen i ymgynghori ar yr asesiad effaith cydraddoldeb (EIA), materion cyfieithu a sylwadau a dderbyniwyd gan bartneriaid y bu'n rhaid eu hystyried ar gyfer eu cynnwys yn y strategaeth. Bellach mae'r ymatebion o'r ymgynghoriad wedi'u dadansoddi a'u defnyddio lle bo'n briodol er mwyn helpu i ddatblygu fersiwn derfynol y Strategaeth Hamdden. Bydd y Strategaeth yn awr yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet yn Chwarter 1 2018/2019. |
| VS/A075: Gweithredu Cytundeb Partneriaeth Awdurdod Lleol 2017/18 (LAPA) sy'n arwain at fwy o gyfleoedd gweithgarwch corfforol. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cymeradwywyd Cytundeb Partneriaeth yr Awdurdod Lleol (LAPA) gan Chwaraeon Cymru yn ystod chwarter 1 ac mae'r rhan fwyaf o'r projectau a nodwyd ar gyfer y flwyddyn wedi parhau i symud ymlaen yn dda fel yr amlinellir yn yr adroddiad cynnydd 6 mis a gymeradwywyd yn chwarter 3. Nid yw adroddiad cynnydd diwedd blwyddyn ar gyfer Cynllun Chwaraeon y Fro (LAPA) i fod i'w gyflwyno tan ganol mis Mai 2018. Nod y projectau i gyd yw cynyddu cyfranogiad ymhlith grwpiau a dargedir, gan gynnwys plant a phobl ifanc, menywod, pobl anabl a'r rheiny sydd â chyfraddau cyfranogiad isel, fel mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ac ardaloedd lle mae darpariaeth gyfyngedig ar hyn o bryd. Mae'r ystadegau a'r adborth sy'n ymwneud â phob un o'r projectau yn cael eu casglu ar hyn o bryd gan y gwahanol bartneriaid mewnol ac allanol sy'n gysylltiedig. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| VS/A075 Parhad | | | | Cyflwynir yr adroddiad terfynol i Fwrdd Rheoli Chwaraeon y Fro a Chwaraeon Cymru (corff cyllido). Cododd rhai problemau eleni mewn perthynas â staff fel prinder staff oherwydd salwch ac ymadawiad staff sydd wedi arwain at fwy o faich gwaith i'r aelodau staff sydd ar ôl, ac anhawster wrth recriwtio unigolion i'r swydd Cydlynydd Gweithgaredd Cymraeg (mae'r swydd hon yn cael ei hysbysebu ar hyn o bryd am y trydydd tro). Er gwaethaf y materion hyn, roedd gwariant cyllidebol ar y cynllun hwn ar darged a bydd y cynllun cyffredinol wedi cael ei gyflawni. |
| **AH2** | | | | |
| HS/A049: Gweithio gyda phartneriaid a'r Bwrdd Cynllunio Ardal i gyflawni'r camau gweithredu allweddol ar gyfer 2017/18 fel yr amlinellwyd yng nghynllun gweithredu Camddefnyddio Sylweddau Caerdydd a'r Fro. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cyflenwyd y mentrau allweddol ar gyfer 2017/18 yn llwyddiannus eleni, gan gynnwys diogelwch nodwyddau, gwella mynediad at wasanaethau a threialu gwasanaeth alcohol newydd. Cwblhawyd adolygiad o'r gwasanaethau ar draws y rhanbarth a bydd yn hysbysu'r Strategaeth Gomisiynu a fydd yn cael ei hadolygu gan y Bwrdd Cynllunio Ardal (APB) yn 2018/19. Mae'r tîm a gyflogir gan Iechyd y Cyhoedd sy'n cefnogi'r APB yn cael ei adolygu ar hyn o bryd i nodi unrhyw gyfleoedd ailstrwythuro. Rhagwelir y bydd adroddiad ar gael yn gynnar yn 2018/19. Dechreuodd projectau penodol y Fro yn chwarter 4, gan gynnwys adnabod/cefnogi a chyfeirio at wasanaethau perthnasol i gamddefnyddwyr sylweddau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bydd hyn yn cael ei werthuso yn 2018/19. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| **AH3** | | | | |
| VS/A047: Gweithio mewn partneriaeth i gyflwyno rhaglen chwarae gynhwysfawr sy'n gwella llesiant plant a'u teuluoedd. | 31/03/2017 | 100 | Gwyrdd | Sicrhawyd £75,026 o arian Llywodraeth Cymru yn chwarter olaf y flwyddyn i gynyddu'r cyfleoedd chwarae a chael effaith gadarnhaol ar y camau a nodwyd yn yr Asesiad Digonolrwydd Chwarae. Y gobaith yw y bydd yr arian yn effeithio ar 10,000+ o bobl. Defnyddiwyd yr arian ar gyfer<br>• Prynu offer ac adnoddau ar gyfer projectau chwarae, chwarae awyr agored a digwyddiadau awyr agored gan gynnwys darparu adnoddau i glwb y Tu Allan i Ysgol Palmerston, Oshi's World, Clwb Gwaith Cartref y Fro, Clwb ar ôl Ysgol Evenlode a Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.<br>• Prynu offer chwarae sefydlog<br>• Prynu offer TG<br>• Prynu offer i hwyluso cynnwys plant anabl mewn darpariaeth chwarae<br>• Datblygu Llwybr Coed rhyngweithiol ym Mharc Romilly<br>• Darparu cynllun chwarae yn ystod hanner tymor mis Chwefror ar gyfer plant anabl<br>• Argraffu llenyddiaeth gwybodaeth i rieni<br>Bu'r adborth ynglŷn â chynllun chwarae Anabledd Clwb Gwyliau Teuluoedd yn Gyntaf a phroject cynllun Ieuenctid 'Teen' yn gadarnhaol iawn. Mae galw am gael rhagor o'r ddarpariaeth hon. Lle bo angen gofal personol, darparwyd cymorth 1:2 neu 2:1 a rhoddwyd cymorth gyda thrafnidiaeth. Yn ystod rhai sesiynau, roedd problemau o ran nodi nyrs asiantaeth i weinyddu meddyginiaeth i'r plant/pobl ifanc hynny a oedd angen y gefnogaeth honno, a oedd yn golygu nad oeddent bob amser yn gallu manteisio ar y gwasanaeth hwn. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| VS/A047 Parhad | | | | Mae hwn yn faes sy'n cael ei ystyried mewn ymgais i atal problemau. Gwnaed cynnydd mewn perthynas â chofrestru gydag ASGC ar gyfer y Clwb Gwyliau. Y gobaith yw y bydd hyn ar waith ar gyfer y cynllun nesaf.<br><br>Mynychodd 16 o bobl AppL2 a mynychodd 15 o bobl hyfforddiant chwarae MAPS. Cynyddodd hyn y nifer y bobl sydd â chymwysterau chwarae, a bydd pob un ohonynt yn gweithio mewn gwahanol leoliadau ledled y Fro. Bydd hyn hefyd yn cynorthwyo gydag ymgyrch y Cyngor i gofrestru darpariaeth cynllun chwarae gydag ASGC. Mae prinder o staff cymwys, sydd wedi effeithio ar y gallu i gofrestru cynlluniau yn flaenorol. Golyga'r cynnydd mewn staff cymwys ein bod bellach mewn sefyllfa i ymgeisio am gofrestriad. Bydd hyn yn ei dro yn ein galluogi i gyflenwi darpariaeth lawn i blant anabl. Trefnwyd yr hyfforddiant gan y Rheolwr Partneriaeth Plant a'r Swyddog Datblygu Chwarae.<br><br>Mae'r Swyddog Datblygu Chwarae yn parhau i gefnogi grwpiau cymunedol megis Clwb Gwaith Cartref y Fro a Seren Gwyrdd a fydd yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu cyfleoedd chwarae yn ystod misoedd yr haf yn y Fro wledig. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| **AH4** | | | | |
| BM/A020: Archwilio ymhellach opsiynau ar gyfer datblygu cronfa ddata Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd bwrpasol a system rheoli cofnodion. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Trosglwyddwyd Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Bro Morgannwg i Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (FIS) Cymru ar 1 Ebrill fel y bwriadwyd. Cafodd contractau gyda'r cyn-gronfa ddata a chyflenwr rheoli cofnodion eu terfynu ar 31 Mawrth 2018, gan wireddu arbedion cost uniongyrchol. Mae'r trosglwyddiad wedi bod yn ddi-dor i aelodau'r cyhoedd, ac mae darparwyr gofal plant a staff o fewn FIS eisoes yn nodi gwelliannau i hwylustod a hyblygrwydd y system Genedlaethol newydd. Mae problemau cychwynnol (bach) yn cael eu hateb yn brydlon gan yr Uned Ddata ac mae materion 'Cenedlaethol' yn elwa o'r ysgogiad a roddir iddynt. |
| **AH5** | | | | |
| BM/A021: Gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i nodi sut y gall y Cyngor gyfrannu at ddatblygu a chyflenwi Cynllun Iechyd Cyhoeddus Lleol Caerdydd a'r Fro gan gynnwys blaenoriaethau perthnasol gwaith megis: rhoi'r gorau i dybaco, gordewdra, atal cwympiadau, gofal iechyd/ iechyd y cyhoedd (gan gynnwys cefnogaeth dementia). | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Rydym yn parhau â pherthynas dda pan fo angen â meysydd cynllun blaenoriaeth iechyd y cyhoedd. Gwneir gwaith sylweddol ar atal cwympo gan Wasanaeth Adnoddau Cymunedol y Fro (VCRS), wedi'i integreiddio ag Iechyd a gwaith clystyrau meddygon teulu i archwilio materion iechyd poblogaeth. Yn ogystal, mae ein Hyrwyddwr Dementia yn sicrhau cynrychiolaeth yng nghyfarfodydd Strategaeth Dementia y Rhanbarth, ac yn bwydo i waith yr awdurdod lleol a'r Bwrdd Project Rhanbarthol (RPB). Cytunwyd ar strategaeth tair blynedd newydd ar gyfer dementia a'r cynllun gweithredu cyfatebol y byddwn yn ymwneud â hi. Nodwyd camau newydd sy'n gysylltiedig â'r maes hwn yn y cynlluniau gwasanaeth/ tîm perthnasol yn 2018/19. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| **AH6** | | | | |
| VS/A048: Cynnal y 7 Baner Werdd bresennol mewn parciau trefol allweddol ledled Bro Morgannwg. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae Bro Morgannwg wedi cadw ei 7 gwobr Baner Werdd. Mae Gwobrau Baner Werdd yn cydnabod ac yn gwobrwyo parciau a mannau gwyrdd a reolir yn dda, gan osod y safon meincnod ar gyfer mannau awyr agored ar draws y DU ac o gwmpas y byd. |

**Amcan 8: Diogelu pobl sy'n agored i niwed a hyrwyddo byw'n annibynnol.**

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| **AH7** | | | | |
| BM/A005: Datblygu cydberthnasau ymhellach gyda'n partneriaid i weithredu modelau cyflenwi gwasanaeth amgen i gefnogi anghenion oedolion a phlant sydd mewn perygl | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae'r Fforwm Gwerth Cymdeithasol yn ei le ac yn cael ei gefnogi trwy'r Bartneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig. Bydd y Fforwm hwn yn datblygu o ran aeddfedrwydd, a disgwylir iddo ffurfio'r cyflenwad o wasanaethau yn y dyfodol trwy weithio gyda phartneriaid statudol i gwrdd ag anghenion Dinasyddion y Rhanbarth. Cwblhawyd y weithred hon ar gyfer 2017/18 ond mae camau gweithredu yn y dyfodol yn ymwneud â datblygu modelau cyflenwi amgen a chynlluniau comisiynu i'r dyfodol a throsi gwaith y Fforwm Gwerth Cymdeithasol yn arfer gweithredol. Cynhwyswyd y camau newydd yn y cynllun gwasanaeth perthnasol ar gyfer 2018/19. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| BM/A009: Sicrhau fod staff ac atgyfeirwyr posibl yn ymwybodol o'r gofynion o dan y canllawiau statudol sy'n ymwneud â'u dyletswydd i adrodd am bryderon diogelu. | 31/03/2017 | 100 | Gwyrdd | Cynhaliwyd ymgyrch lwyddiannus yn 2017/18 gan godi ymwybyddiaeth o'r ddyletswydd i adrodd fel yr adroddwyd trwy gydol y flwyddyn a darparwyd rhif dynodedig ar gyfer atgyfeiriadau. Yn ogystal, cyhoeddwyd posteri, taflenni a gwybodaeth ar y fewnrwyd i godi ymwybyddiaeth bellach. |
| AS/A012: Parhau i ddatblygu'r seilwaith TG i sicrhau y gallwn barhau i gydymffurfio â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Gweithredwyd System Wybodaeth Gofal Gymunedol Cymru (WCCIS) yn llwyddiannus yng Nghyngor Bro Morgannwg fel y cynlluniwyd ar 27 Tachwedd 2017 ac mae bellach yn weithredol. Gwneir gwaith parhaus i ddatblygu'r ymarferoldeb ariannol. Rydym yn parhau i gefnogi gweithredu ar sail Ranbarthol ac yn bwydo i'r tîm Cenedlaethol. |
| CS/A013: Darparu hyfforddiant fel sy'n briodol i staff i sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cynhaliwyd trafodaethau gyda'r Adran Hyfforddi i sicrhau bod y rhaglen hyfforddi yn ymateb yn briodol i anghenion hyfforddiant yr Isadran a nodwyd mewn perthynas â'r Ddeddf. Mae staff yn parhau i gael cefnogaeth i fynychu'r sesiynau hyn. Bydd y gwaith hwn yn sicrhau bod yr holl staff wedi'u hyfforddi ym mhedwar modiwl craidd y Ddeddf newydd. |
| CS/A014: Terfynu'r peilot ar ein Cynllun Maethu Therapiwtig a chynnal dadansoddiad cost/ budd. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Daeth y peilot ar gyfer y Cynllun Maethu Therapiwtig i ben yn ystod chwarter 3, sydd wedi cadarnhau rhinweddau'r gwasanaeth, ond rydym wedi nodi materion mewn perthynas â recriwtio a chadw staff Seicoleg mewn adran Gwasanaethau Cymdeithasol. Hysbysodd y cynllun peilot y gwaith presennol i ddatblygu cynnig ar gyfer partneriaeth â Bwrdd Iechyd y Brifysgol (BIP) i gyflenwi'r cynllun. Mae Adroddiad yn cael ei baratoi i'w gyflwyno i'r Cabinet ym mis Mai 2018. |

| Camau gweithredu’r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| CS/A015: Ymestyn y peilot ar gyfer Cymorth Uniongyrchol i Deuluoedd a Mwy a chynnal dadansoddiad cost/ budd. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Yn ystod chwarter 1, gwnaed cytundeb i ymestyn y peilot ar gyfer Cymorth Uniongyrchol i Deuluoedd a Mwy hyd at 31/03/2018. Atgyfnerthodd y peilot yr angen am wasanaethau cymorth y gellir eu defnyddio'n gyflym i gefnogi teuluoedd â phlant ar ymyl gofal. Adolygodd y Gwasanaeth ei gontractau o ran cymorth i deuluoedd ac mae wedi datblygu manyleb gwasanaeth sydd ar fin mynd allan i dendr ar hyn o bryd. |
| CS/A016: Cynyddu tryloywder y broses gofal iechyd parhaus a cheisio cael aelodaeth awdurdod lleol ar y panel. | 31/03/2018 | 75 | Coch | Mae gwaith yn mynd rhagddo i gynyddu tryloywder yn yr ardal hon, gydag ymweliadau yn cael eu cynnal gyda rhanddeiliaid allweddol i lywio'r adolygiad i'r trefniadau Gofal Iechyd Parhaus (CHC) ar draws y rhanbarth a gwneud argymhellion i'w hystyried gan Gynghorau Bro Morgannwg a Chaerdydd a Bwrdd Iechyd y Brifysgol. Disgwylir canlyniadau'r adolygiad a gomisiynwyd ar y cyd gan Gynghorau Bro Morgannwg a Chaerdydd, ynghyd â Bwrdd Iechyd y Brifysgol (BIP). |

| Camau gweithredu’r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| CS/A017: Monitro gweithrediad y Polisi Pontio diwygiedig trwy'r Grŵp Gwella Pontio amlasiantaeth. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Gweithredodd Bro Morgannwg y gwasanaethau trosglwyddo yn llwyddiannus, gyda’r Protocol Trawsnewid fel sail, yn cefnogi arfer gorau ar draws asiantaethau. Mae'r protocol bellach yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r newidiadau sy'n ofynnol gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Ar ôl ei gwblhau bydd yn dod yn ddogfen a rennir ar draws y Fro a Chaerdydd (Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg) ac Iechyd (Bwrdd Iechyd Prifysgol). Mae'r gynrychiolaeth amlasiantaeth yn TRIG yn parhau i ddatblygu gyda Gwasanaethau Oedolion, Gofal Iechyd Parhaus (CHC), Anabledd Dysgu (LD) ac Anabledd Corfforol (PD) bellach yn cael eu cynrychioli. Gan adlewyrchu ar drosolwg cadarnhaol dull y Fro, mae Caerdydd wedi datblygu ‘tîm pontio Iechyd ac Anabledd Plant (CHAD)' CS sy'n cyd-fynd â threfniadau pontio i blant yn y Fro, sy'n ein symud tuag at ddull mwy teg a rhanbarthol o gefnogi pobl ifanc trwy drosglwyddiad. |
| AS/A009: Gweithio gyda C1V i adolygu a diwygio prosesau yn y Ganolfan Gyswllt Cwsmeriaid (C1V) i gefnogi darparu cyngor a chymorth yn unol â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae’r prosesau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth wedi eu hymgorffori'n llawn o fewn y Ganolfan Gyswllt. Mae gennym fecanweithiau ar waith i adolygu a datblygu hyn ymhellach, ond mae'r gwasanaeth yn cydymffurfio â'r Ddeddf ac mae'n parhau i gael sylw gan sefydliadau eraill sy'n ceisio ailadrodd y model. Mae'r gwaith hwn yn galluogi defnyddwyr gwasanaethau i gael mynediad at wybodaeth/ cyngor mewn modd amserol sy'n galluogi cyfeirio effeithiol. |

| Camau gweithredu’r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| AS/A010: Cyflwyno peilot o system mesur a rheoli achosion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau o fewn y Gwasanaeth Gofal Hirdymor. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae'r dull Ffocws ar Ganlyniadau o ymdrin â pholisi rheoli achos 'Eich Dewis' wedi cael sylw sylweddol gan sefydliadau allanol sydd â diddordeb mewn ailadrodd y model yn dilyn llwyddiant y peilot, a oedd yn gallu dangos mesuriadau o’r canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth. Rydym yn bwriadu cyflwyno'r model hwn o fis Ebrill, 2018 gyda'r bwriad o’i weithredu'n llawn ar gyfer pob pecyn gofal cartref yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. |
| AS/A011: Datblygu Tîm Adolygu Gofal Hirdymor i sicrhau bod bob defnyddiwr gwasanaeth yn cael adolygiad blynyddol o'u gwasanaethau. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae Swyddogaeth Adolygu penodol yn weithredol o fewn y Gwasanaeth Gofal Tymor Hir. Cafodd pob defnyddiwr gwasanaeth sy'n derbyn Gofal a Chymorth adolygiad a gynhaliwyd o fewn yr amserlen. Bydd y gwaith hwn yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau yn cwrdd ag anghenion defnyddwyr gwasanaeth yn y modd gorau, er mwyn eu galluogi i gyflawni canlyniadau cadarnhaol. |
| BM/A022: Gweithio gyda phartneriaid ar y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol i gynllunio gwasanaethau mewn ymateb i'r Asesiad Anghenion Poblogaeth. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Yn dilyn yr ymarfer ymgynghori a gynhaliwyd yn gynharach yn y flwyddyn, mae'r Asesiad Anghenion Poblogaeth a'r Cynllun Ardal wedi cael eu llofnodi yn y Cyngor, gan gwrdd â'r ddyletswydd a roddir ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Gweler yr Asesiad Anghenion Poblogaeth yn http://www.cvihsc.co.uk/cy/amdanon-ni/yr-hyn-a-wnawn-ni/population-needs-assessment/ Bydd monitro parhaus yn digwydd drwy'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol (RPB). |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| BM/A023: Datblygu dull corfforaethol mwy cydgysylltiedig o ddatblygu gwasanaethau ataliol sy'n cyd-fynd â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i hyrwyddo byw'n annibynnol. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae'r ymarfer ymgynghori bellach wedi'i gwblhau a chafodd gymeradwyaeth gan bob partner o fis Ionawr 2018. Byddwn yn parhau i ddatblygu cynlluniau ar y cyd â meysydd gwasanaeth eraill mewn perthynas â gwasanaeth byw'n annibynnol ar sail ranbarthol. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu dull corfforaethol mwy cydgysylltiedig o ddatblygu gwasanaethau ataliol. Cynhwysir camau cysylltiedig newydd yn y cynlluniau gwasanaeth/ tîm perthnasol yn 2018/19. |
| BM/A024: Ymgymryd â datblygu porth DEWIS Cymru ymhellach i ehangu ac ymestyn ei ddefnydd. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Nodwyd cynlluniau parhaol i sicrhau bod goruchwyliaeth o weithrediad DEWIS ymhlith y partneriaid statudol gyda rôl benodol yn cael ei chynnal ym Mro Morgannwg, ond yn gweithredu ar draws y Rhanbarth. Gofynnwyd i'r trydydd sector gyflwyno cynnig ynghylch sut y gallant gefnogi ei weithredu ar draws y sector, a bydd hyn yn cael ei ariannu trwy arian a nodwyd yng nghyllideb y Grŵp Llywio Rhanbarthol (Grant Cyflawni Gweddnewid gynt). Cwblhawyd y camau ar gyfer y flwyddyn 2017/18 ond bydd hyn yn parhau i sicrhau cefnogaeth a datblygiad parhaus y porth DEWIS o fewn y rhanbarth fel ffynhonnell o ddarpariaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth ar gyfer gwasanaethau ataliol. |
| BM/A025: Adolygu llety gyda dewisiadau gofal i bobl hŷn a datblygu ein strategaeth gomisiynu ar gyfer y blynyddoedd i ddod. | 31/03/18 | 100 | Gwyrdd | Cwblhawyd yr arolwg Tai ac ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth a disgwylir i'r canfyddiadau gael eu hadrodd mewn gweithdy a drefnwyd ar gyfer 27 Ebrill 2018. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu'r ymatebion gan yr ymarferion ymgynghori a sicrhau eu bod wedi'u hymgorffori mewn strategaethau comisiynu i'r dyfodol. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| BM/A026: Nodi cyfleoedd ar gyfer comisiynu ar y cyd yn unol â dyletswyddau Rhan 9 (Cydweithio a Phartneriaethau) y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Parhaodd y gwaith trwy gydol y flwyddyn gyda datblygiad y trefniadau gorfodol gyda chyllidebau cyfun i leoliadau Cartrefi Gofal. Yn dilyn yr adroddiad i'r Cabinet ar gyllideb gyfun lleoliadau cartrefi gofal ym mis Ionawr, mae'r cytundeb ar gyfer cyllideb gyfun i leoliadau cartrefi gofal pobl hŷn ar draws y tri phartner statudol wedi ei sefydlu a bydd yn weithredol o fis Ebrill 2018. Er bod y camau hyn wedi eu cwblhau, nodwyd camau gweithredu yn y dyfodol mewn cynlluniau gwasanaeth/ tîm ar gyfer 2018/19. |
| LS/A012: Darparu cyngor a chymorth cyfreithiol ar faterion cyfreithiol mewn perthynas â gweithredu ffyrdd newydd o weithio sy'n deillio o Ddeddf Llesiant (Cymru) gyda ffocws penodol ar y ffrydiau gwaith blaenoriaeth o:<br>- Darparu gwybodaeth<br>- Gwasanaethau cyngor a chymorth<br>- Cymhwyster/ asesiad o angen<br>- Cynllunio a hyrwyddo gwasanaethau ataliol<br>- Gweithlu<br>- Mesurau perfformiad | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Yn ystod Ch4, parhaodd y gwaith o ddatblygu Cyllidebau Cyfun, gyda'r cytundeb Cyllideb Gyfun yn cael ei gwblhau yn ystod Mawrth 2018 i ddechrau o fis Ebrill 2018. Yn ystod y chwarter hwn cafwyd cyngor gan y Gwasanaethau Cyfreithiol mewn perthynas â drafftio polisi codi tâl diweddaraf yr Awdurdod ac mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo (daethpwyd â Pholisi Codi Tâl Interim yr Awdurdod ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 i ben, ac adroddwyd ar hyn i'r Cabinet a'i weithredu). Cynghorodd y Gwasanaethau Cyfreithiol hefyd ynglŷn â'r bartneriaeth arfaethedig gyda Chyngor Caerdydd mewn perthynas â sefydlu canolfan hyfforddi ranbarthol. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| **AH8** | | | | |
| AS/A005: Parhau i ddatblygu C1V (Canolfan Gyswllt Cwsmeriaid) fel y man mynediad sengl ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol trwy ehangu ystod y gwasanaethau. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Defnyddiwyd y cyfleoedd i ehangu gwasanaethau trwy gydol y flwyddyn, gyda'r ganolfan gyswllt i gwsmeriaid (CCC) yn cynnig mwy o wasanaethau nag a oedd yn eu lle ar ddechrau'r flwyddyn e.e. trosglwyddo gwasanaeth megis ECAS i C1V i gymryd galwadau, gan ddatblygu ymhellach y pwynt mynediad sengl. Er bod y camau gweithredu hyn yn cael eu hystyried yn gyflawn am y flwyddyn, mae datblygiadau yn y dyfodol yn cael eu harchwilio ar hyn o bryd. Bu oedi o ran y cyfarfodydd gyda'r Bwrdd Iechyd i gyflwyno canfyddiadau'r adolygiad o'r ganolfan gyswllt, ac ni chânt eu cynnal nawr tan 25ain Mai. Gall cyhoeddiad yr adolygiad Seneddol gynorthwyo i atgyfnerthu'r weledigaeth a fynegir yn yr achos busnes hwn ac rydym yn aros am wybodaeth bellach gan Lywodraeth Cymru ynglŷn ag unrhyw arian trawsnewid a allai gefnogi'r darn hwn o waith ymhellach. Mae cyfarfodydd Datblygu CCC yn parhau i gael eu cynnal bob pythefnos i adolygu a monitro'r swyddogaethau a ffrydiau busnes y Ganolfan Gyswllt yn y dyfodol. |
| AS/A013: Cynyddu'r ystod o weithgareddau sydd ar gael trwy New Horizons. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Er bod y peilot 'Arbenigwr trwy Brofiad' wedi methu fel yr amlinellir yn BM/A034, mae'r defnyddwyr gwasanaeth a'r staff wedi datblygu dulliau eraill o ddarparu gwasanaethau sydd wedi cynyddu'r mathau o weithgareddau sydd ar gael - gan gynnig cyfleoedd sesiynol ac ehangu'r cynnig gwasanaeth drwy weithgareddau a defnydd ychwanegol o'r gampfa ac offer arbenigol sy'n sicrhau bod cleientiaid gwasanaeth dydd yn gallu cael mynediad i ystod ehangach o weithgareddau. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| AS/A014: Ymgymryd ag ehangu ymhellach y gwasanaeth Lleoliadau Oedolion. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae 2 weithiwr project ICF wedi eu hariannu eleni ac mae'r swydd gweithiwr project a oedd yn wag bellach wedi'i llenwi. Bu cynnydd mewn lleoliadau seibiant a hirdymor. Lansiwyd ffilm hyrwyddo ac fe'i dangoswyd yn y Senedd ym mis Mehefin 2017. Rhoddwyd cyflwyniad i'r mynychwyr yng Nghynhadledd Parensfed ym mis Ebrill 2017. Mae papur briffio wedi'i ddrafftio i Gyfarwyddwr Caerdydd a'r Pennaeth Gwasanaeth yn amlinellu'r cynnig ar gyfer gwasanaeth rhanbarthol. Ar hyn o bryd rydym yn aros i'r papur terfynol gael ei anfon yn ôl gyda sylwadau'r Fro. Cymeradwywyd 10 o atgyfeiriadau newydd, un ymholiad gwesteiwr newydd, 3 chais fel gwesteion APS, a chafodd 71 o ddefnyddwyr gwasanaeth seibiant a 30 o ddefnyddwyr gwasanaeth fynediad at lety tymor hir. |

| Camau gweithredu’r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| AS/A015: Adolygiad o'n Strategaeth Anabledd Dysgu. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae IPC wedi ymgymryd ag Asesiad Anghenion Iechyd ac ymgysylltu â Rhanddeiliaid Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â hyn. Cwblhawyd casglu data'r Gwasanaethau Cymdeithasol (Caerdydd a'r Fro). Ar hyn o bryd mae IPC yn llunio'r adroddiad dadansoddi asesiad anghenion - erbyn dyddiad targed 27 Ebrill 2018.<br><br>Parha cyfarfodydd grŵp project misol i gael eu cynnal lle mae'r cofnod gweithredu'n cael ei adolygu ym mhob cyfarfod, a rhoddir adborth chwarterol i LDRPB. Disgwylir i'r strategaeth ddrafft gael ei chwblhau erbyn diwedd Mai 2018 gyda Strategaeth ddrafft, digwyddiadau ymgysylltu â Dinasyddion, 1 yng Nghaerdydd ac 1 yn y Fro, yn cael eu cynllunio ar gyfer diwedd mis Mehefin 2018.<br><br>Bydd Cyfleoedd Dydd yn rhan o Strategaeth Gomisiynu Anabledd Dysgu ar y Cyd. Mae trafodaethau ynglŷn â chyfleoedd dydd rhanbarthol yn parhau ar draws Caerdydd a'r Fro. Cynhwysodd gweithgaredd Ch4 gyfarfodydd misol i ddatblygu’r cynnig gweithredoedd dydd rhanbarthol , gyda’r drafft cyntaf wedi'i gwblhau ac yn cael ei ddiwygio ar hyn o bryd cyn ei gyflwyno i uwch reolwyr Caerdydd a'r Fro.<br><br>Mae'r holl weithgaredd uchod yn rhanbarthol, ac felly mae'n rhaid trafod graddfeydd amser, gweithgarwch a phrosesau rhwng yr holl bartneriaid. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| PD/A017: Parhau i edrych ar ffyrdd o wella opsiynau hunanwasanaeth a sicrhau bod ymholiadau cwsmeriaid yn cael eu datrys yn gyflym ac yn effeithiol yn unol â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. | 31/03/2018 | 80 | Coch | Lansiwyd ffurflen atgyfeirio ar-lein ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn ystod chwarter 1 eleni a chafodd gwefan y Cyngor ei hail-lunio i hyrwyddo defnydd y wefan Dewis fel y gall cwsmeriaid ddod o hyd i atebion i ddiwallu eu hanghenion eu hunain heb orfod cysylltu â'r cyngor. Ar gyfartaledd, mae 55% o ymholiadau i linell Gwasanaethau Oedolion yn C1V yn cael eu datrys heb angen am asesiad ffurfiol. Er bod hyn yn gyflawniad sylweddol, daliwyd y gwasanaeth yn ôl wrth ddarparu hyfforddiant pellach a darparu cefnogaeth goruchwylio a rheoli perfformiad oherwydd diffyg adnoddau. |
| PD/A018: Gweithio gyda'r Gwasanaethau Oedolion i adolygu a diwygio prosesau yn y Ganolfan Gyswllt Cwsmer (C1V) i gefnogi darparu cyngor a chymorth yn unol â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. | 31/03/2018 | 80 | Coch | Ar gyfartaledd, mae 55% o ymholiadau i linell Gwasanaethau Oedolion yn C1V yn cael eu datrys heb angen am asesiad ffurfiol. Er bod hyn yn gyflawniad sylweddol, daliwyd y gwasanaeth yn ôl wrth ddarparu hyfforddiant pellach a darparu cefnogaeth goruchwylio a rheoli perfformiad oherwydd diffyg adnoddau. |
| **AH9** | | | | |
| AS/A006: Manteisio ar y defnydd o arian Gofal Canolraddol (ICF) a Gofal Sylfaenol (PCF) i gefnogi datblygiad gwasanaethau integredig pellach. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Rydym yn recriwtio Gweithwyr Cefnogi Ail-alluogi ychwanegol o fewn VCRS. Fodd bynnag, mewn perthynas â'r camau ehangach, buom yn llwyddiannus o ran gwneud y defnydd gorau o arian ICF a PCF trwy ddatblygu integreiddio gwasanaethau ymhellach; mae'r Uned Ail-alluogi yn Nhŷ Dyfan yn un enghraifft, ac mae'r tîm Pontio yn y Gwasanaeth Adnoddau Cymunedol y Fro (VCRS) ac Atebion Llety yn rhai enghreifftiau pellach lle mae hyn wedi digwydd. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| AS/A016: Datblygu prosesau cadarn i wella rhannu gwybodaeth rhwng partneriaid allweddol i alluogi pontio llyfnach rhwng y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc a'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Oedolion. | 31/03/2018 | 75 | Coch | Yn anffodus, mae'r swydd uwch nyrs CAMHS yn parhau yn wag ac felly ni ellir symud ymlaen y camau gweithredu o ran presenoldeb CAMHS mewn cyfarfodydd TRIG – cafodd y cyfarfod diweddaraf ei ganslo ar 23/04/18 oherwydd nad oedd gan CAMHS neb ar gael i'w cynrychioli.<br><br>Mae cynrychiolaeth Iechyd Meddwl yn TRIG yn parhau yn y Fro i nodi pobl ifanc a fydd angen gofal iechyd meddwl a chymorth yn gynnar er mwyn sicrhau y cynhelir trosglwyddiadau meddygol/ gofal cymdeithasol priodol.<br><br>Cynhelir cyfarfodydd pontio ar y cyd ar draws Caerdydd a'r Fro bob mis i ddatblygu protocol pontio ar y cyd a fydd yn cynnwys cyfrifoldebau pob partner (gan gynnwys iechyd meddwl) o fewn y broses bontio. Bydd y gwaith hwn yn helpu i ddatblygu proses bontio symlach sy'n galluogi pontio fwy llyfn i bobl ifanc i wasanaethau iechyd meddwl i oedolion. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| AS/A017: Gweithredu Gwasanaeth Awtistiaeth newydd. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cafodd y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig newydd ei lansio'n gyhoeddus ar 27 Medi 2017 ac mae'r holl staff bellach mewn swydd. Mae'r gwasanaeth yn derbyn atgyfeiriadau ar gyfer diagnosis gan weithwyr proffesiynol ac am gymorth gan unigolion, teuluoedd a gwasanaethau eraill. Sefydlir perthnasoedd gydag asiantaethau eraill ac mae gweithio ac ymgynghori ar y cyd yn profi i fod yn arfer effeithiol. Mae hyn yn gwella perfformiad gwasanaethau eraill, yn benodol CMHT. Datblygwyd Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Caerdydd a'r Fro i ddarparu pwynt cyswllt sengl ar gyfer oedolion awtistig, teuluoedd â phlant a gofalwyr sy'n gofalu am oedolion neu blant ag awtistiaeth. Gellir cysylltu â Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Caerdydd a'r Fro naill ai trwy ffonio 029 2182 4240 neu drwy anfon e-bost at CAV.IAS@wales.nhs.uk . |
| **AH10** | | | | |
| BM/A027 Cefnogi gweithredu System Wybodaeth Gofal Gymunedol Cymru (WCCIS) ar gyfer y Gyfarwyddiaeth a'r Bartneriaeth Ranbarthol. | 31/03/2018 (project parhaus tan 31/3/18) | 100 | Gwyrdd | Gweithredwyd System Wybodaeth Gofal Gymunedol Cymru (WCCIS) yn llwyddiannus yng Nghyngor Bro Morgannwg fel y cynlluniwyd ar 27 Tachwedd 2017 ac mae bellach yn weithredol. Gwneir gwaith parhaus i ddatblygu'r ymarferoldeb ariannol. Rydym yn parhau i gefnogi gweithredu ar sail Ranbarthol ac yn bwydo i'r tîm Cenedlaethol a chael budd o'u cefnogaeth. Nodwyd gweithredu perthnasol i ddatblygu ymhellach yng nghynlluniau Gwasanaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol 2018/19. |

| Camau gweithredu’r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| BM/A011: Gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Integreiddio i nodi cyfleoedd i gyfuno cyllidebau neu ddatblygu bwriadau comisiynu ar y cyd. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Yn dilyn yr adroddiad i'r Cabinet ar gyllideb gyfun lleoliadau cartrefi gofal ym mis Ionawr, mae'r cytundeb ar gyfer cyllideb gyfun i leoliadau cartrefi gofal pobl hŷn ar draws y tri phartner statudol wedi ei sefydlu a bydd yn weithredol o fis Ebrill 2018. Er bod y camau hyn wedi eu cwblhau, nodwyd camau gweithredu yn y dyfodol mewn cynlluniau gwasanaeth/ tîm ar gyfer 2018/19. |
| AS/A018: Cefnogi'r gwaith o weithredu Ateb Gwybodaeth Gofal Gymunedol Cymru (WCCIS) ar gyfer Gwasanaethau Oedolion | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Aeth Ateb Gwybodaeth Gofal Gymunedol Cymru (WCCIS) yn fyw fel y cynlluniwyd ar 27 Tachwedd 2017 ac rydym bellach yn y cyfnod ôl-weithredu ac yn datrys materion sydd wedi deillio o ganlyniad i'w gweithredu. |
| AS/A019: Adolygu prosesau ar draws BIP a Gwasanaethau i Oedolion i gefnogi cyllidebau cyfun | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Yn dilyn yr adroddiad i'r Cabinet ar gyllideb gyfun lleoliadau cartrefi gofal ym mis Ionawr, mae'r cytundeb ar gyfer cyllideb gyfun i leoliadau cartrefi gofal pobl hŷn ar draws y tri phartner statudol wedi ei sefydlu a bydd yn weithredol o fis Ebrill 2018. Er bod y camau hyn wedi eu cwblhau, nodwyd camau gweithredu yn y dyfodol mewn cynlluniau gwasanaeth/ tîm ar gyfer 2018/19. |
| CS/A019: Cefnogi gweithrediad Ateb Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Gweithredwyd System Wybodaeth Gofal Gymunedol Cymru (WCCIS) yn llwyddiannus yng Nghyngor Bro Morgannwg fel y cynlluniwyd ar 27 Tachwedd 2017 ac mae bellach yn weithredol. Wrth i'r gweithrediad barhau, mae'r grŵp gweithredol yn ei le i godi a blaenoriaethu materion i'w datrys. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| **AH11** | | | | |
| HR/A002: Cefnogi a monitro'r defnydd o Bolisi Recriwtio Diogelach y Cyngor. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Parhawyd i gasglu data recriwtio trwy gydol y flwyddyn. Dengys yr alldro cyffredinol o ran blwyddyn lawn 2017/2018 gydymffurfiaeth o 95% ar draws y Cyngor sy'n gyson â'r flwyddyn flaenorol 2016/2017. Cynyddodd y gyfradd gydymffurfio mewn perthynas â phenodiadau cyflogaeth y Cyngor/Corfforaethol o 97% i 99% yn 2017/18. Fodd bynnag, cafwyd gostyngiad mewn alldro cydymffurfiaeth o 94% i 93% mewn ysgolion dros yr un cyfnod. Bydd y broses rheoli perfformiad wythnosol ac yn arbennig y broses ddyrchafu mewnol yn parhau i gael ei defnyddio yn yr ysgolion hynny lle y nodwyd toriadau o'r polisi recriwtio diogelach. Mae cydymffurfiaeth â'r polisi yn parhau i fod yn eitem sefydlog ar yr agenda ym mhob cyfarfod grŵp diogelu corfforaethol gyda ffocws ar sicrhau cydymffurfiad o 100% yn ogystal ag adolygu effeithiolrwydd y polisi yn barhaus a nodi gwelliannau posibl. |
| BM/A012: Monitro gweithrediad y polisi Diogelu Corfforaethol ar draws y Cyngor trwy archwiliad effeithiol. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cyfarfu'r Grŵp Diogelu Corfforaethol (CSG) bob chwarter a datblygodd gynllun gwaith ar gyfer 2018/19 a fydd yn helpu i fonitro gweithrediad y Polisi Diogelu Corfforaethol. Dyluniwyd tudalen ddiogelu ddynodedig a fydd yn dal holl fanylion y polisi CSG, personél â chysylltiadau â pholisi/gweithdrefnau perthnasol a chanllawiau eraill i gefnogi ymarfer ac ymwybyddiaeth diogelu. Bydd CSG yn gallu monitro defnydd a thraffig y safle trwy ein hadran Gyfathrebiadau. Bydd gweithio gyda'r CSG yn parhau i 2018/19 fel yr amlinellir dan RM/A010 yn y Cynllun Gwasanaeth Adnoddau, Rheoli a Diogelu. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| BM/A013: Datblygu offer i gynorthwyo staff i deimlo'n fwy hyderus i ddiogelu pobl agored i niwed trwy weithdrefnau effeithiol ar gyfer atgyfeirio, a hefyd defnyddio Gorchmynion Cymorth Amddiffyn Oedolion (lle bo'n berthnasol) yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. | 30/09/2017 | 100 | Gwyrdd | Mae'r bwrdd diogelu rhanbarthol wedi hwyluso'r cyfle i fynychu hyfforddiant diweddaru Gorchymyn Cymorth Amddiffyn Oedolion (APSO) i staff gwasanaethau oedolion enwebedig. Galluogodd yr hyfforddiant hwn i bersonél dynodedig gynnal eu hangen am hyfforddiant blynyddol. Mae System Wybodaeth Gofal Gymunedol Cymru (WCCIS) wedi symleiddio'r broses diogelu oedolion o ran cofnodi ymholiadau a gwneud penderfyniadau o fewn 7 diwrnod. Bydd archwiliad o hwn yn cael ei gynnal yn 2018/19 |
| SI/A032: Gweithio gydag ysgolion tuag at sicrhau cydymffurfiad llawn â Pholisi Recriwtio Diogelach y Cyngor. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae'r broses bellach wedi'i sefydlu'n llawn ac yn weithredol; fodd bynnag, bydd yn destun monitro ac adolygu parhaus i sicrhau bod cydymffurfiaeth lawn yn parhau, gan ddangos ein hymrwymiad i amddiffyniad, llesiant a diogelu plant ac oedolion bregus. |
| **AH12** | | | | |
| AS/A020: Datblygu Proses Cymeradwyo Pecyn Gofal i wella'r Gwasanaeth Rhyddhau Integredig ymhellach. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cytunwyd ar broses gymeradwyo y Pecyn Gofal ar y Cyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i'w defnyddio ar ryddhau cymhleth o ysbytai yn ystod chwarter 1 a bu'n weithredol ers hynny. Mae'r broses yn parhau i weithio'n dda ac mae'n cefnogi monitro oedi wrth drosglwyddo gofal (DToC); mae hefyd yn galluogi trafodaethau parhaus rhwng partneriaid ar y cyd. Nod y gwaith hwn yw lleihau nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| **AH13** | | | | |
| BM/A014: Parhau i weithio ar ddatblygu strategaeth gomisiynu effeithiol ar gyfer llety â gofal i fodloni'r galw cynyddol i bobl hŷn barhau'n annibynnol cyhyd ag y bo'n ymarferol. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae llety a'r Strategaeth Gofal ar hyn o bryd yn symud ymlaen gyda'r dyddiad cwblhau terfynol disgwyliedig ym mis Mehefin 2018. Oedwyd yr adroddiad hwn gan fod y cwmpas wedi'i ymestyn i gwblhau'r strategaeth hon ar sail ranbarthol yn hytrach na lleol. Ystyriwyd bod y cam hwn wedi'i gwblhau gan fod y gwaith wedi'i gomisiynu ac wedi ei gwblhau; fodd bynnag, nodwyd cyfnod o ymgynghori ehangach i sicrhau bod y strategaeth yn gadarn o ran bodloni'r galw cynyddol i bobl hŷn barhau i fod yn annibynnol. |
| **AH14** | | | | |
| BM/A028: Gweithredu Strategaeth Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant ar draws yr holl bartneriaid trwy ymgysylltu'n effeithiol â sefydliadau eraill. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cafodd y Strategaeth Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant ei sefydlu yn ystod y flwyddyn ariannol a bydd yn parhau i gael ei gweithredu'n effeithiol yn lleol. Mae'r Strategaeth wedi'i chadarnhau a chaiff ei hadolygu. Amlyga'r strategaeth sut mae'r Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau i nodi, lleihau a dileu'r risg o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE) o fewn ardal yr Awdurdod Lleol. |
| BM/A029 Sefydlu proses fonitro ar gyfer y Strategaeth Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae cyfarfodydd rheolaidd bellach yn hir-sefydledig a chânt eu cadeirio gan y Prif Swyddog diogelu plant. Mae gan y Prif Swyddog berthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda phartneriaid sy'n ymwneud â monitro Strategaeth Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE) ac maent yn ymgysylltu â rhannu gwybodaeth briodol er mwyn diogelu plant sydd mewn perygl o CSE. Mae'r gwaith hwn yn ein galluogi i fonitro'n effeithiol ein cynnydd yn erbyn y Strategaeth. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| **AH15** | | | | |
| BM/A030: Gweithredu'r camau gweithredu yng Nghynllun Gweithredu 'Operation Jasmine' | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae'r cynllun gweithredu wedi ei ddisodli gan y cynllun busnes 3 blynedd ar gyfer y Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol. Cwblhawyd yr holl gamau, er y bydd rhai yn parhau. Caiff hyn ei fonitro trwy Fwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol sy'n cwrdd bob chwarter ac sy'n cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol ar draws y rhanbarth. |
| **AH16** | | | | |
| SRS/A007: Datblygu a mabwysiadu Cynllun Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid 2017/18 sy'n nodi'r trefniadau sydd ar waith i gyflawni dyletswyddau diogelwch bwyd. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Datblygwyd a chymeradwywyd y Cynllun Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid ar y cydbwyllgor ar 26 Medi 2017. Mae cytundeb fframwaith yr asiantaeth safonau bwyd yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol Gynhyrchu FLESP bob blwyddyn yn nodi'r trefniadau i gyflawni eu dyletswyddau. Cynhyrchir y cynllun hwn mewn ymateb i'r gofyniad hwnnw ac fe'i dyluniwyd i hysbysu trigolion, busnesau Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Bro Morgannwg o'r trefniadau sydd gan yr SRS ar waith i orfodi deddfwriaeth Bwyd yn unol â Chod Ymarfer Cyfraith Bwyd. |

| Camau gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| SRS/A008: Datblygu a mabwysiadu Adran 18 Cynllun Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch Adran 2017/18 sy'n nodi'r trefniadau sydd ar waith i gyflawni dyletswyddau iechyd a diogelwch. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Datblygwyd Cynllun Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch Adran 18 2017/18 a chafodd ei gymeradwyo yn y Cydbwyllgor ar 27 Mehefin 2017. Mae Adran 18 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol lunio Cynllun Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch sy'n nodi'r trefniadau sydd yn eu lle i gyflawni'r dyletswyddau hyn. Cynhyrchir y Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Iechyd a Diogelwch hwn mewn ymateb i'r gofyniad hwnnw, ac fe'i cynlluniwyd i hysbysu trigolion, cymuned fusnes Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a'r Fro o'r trefniadau sydd gan y Cynghorau ar waith i reoleiddio iechyd a diogelwch. |
| SRS/A012: Lansio cynllun 'Prynu gyda Hyder' (masnachwr cyfrifol) ar draws y rhanbarth i roi tawelwch meddwl i drigolion wrth siopa neu ddewis crefftwr tra'n cefnogi busnesau dibynadwy gyda chymeradwyaeth 'Safonau Masnach a gymeradwywyd'. | 31/03/2018 | 75 | Coch | Golyga'r pwyslais ar y rhaglen arolygu yn ystod Chwarter 4 na fu'n bosib lansio'r cynllun Prynu gyda Hyder cyn diwedd 2017-18. Yn seiliedig ar ganlyniadau'r ymarfer peilot a gynhaliwyd, bydd y cynllun yn cael ei lansio cyn gynted ag y bo modd yn y flwyddyn ariannol 2018-19. Bydd y cynllun yn helpu i roi tawelwch meddwl i drigolion wrth siopa neu ddewis crefftwr, tra'n cefnogi busnesau dibynadwy gyda chymeradwyaeth. |

## ATODIAD B: DANGOSYDDION PERFFORMIAD

Noder: Trosglwyddwyd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn llwyddiannus i Ateb Gwybodaeth Gofal Gymunedol Cymru (WCCIS) ym mis Tachwedd 2017. Fodd bynnag, mae gwaith yn parhau i ddatblygu agweddau adrodd y system ac ar hyn o bryd ni allwn dynnu data ar nifer o ddangosyddion perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae tynnu data at ddibenion adrodd o fewn y system newydd yn fater cenedlaethol sy'n effeithio ar nifer o awdurdodau ac mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o hyn.

**Amcan 7: Annog a hyrwyddo ffyrdd o fyw actif ac iach.**

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion Poblogaeth** | | | | | | |
| CPM/182 (WO4/M001): Canran yr oedolion 16+ oed sydd â llai na dau ymddygiad ffordd iach o fyw (dim yn ysmygu, mynegai màs corff iach, yn bwyta pum dogn o ffrwythau neu lysiau, dim yn yfed uwchlaw'r canllawiau, yn bodloni canllawiau ar funudau wythnosol o weithgarwch corfforol). | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Mae'r data diweddaraf sydd ar gael gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer Bro Morgannwg yn cyfeirio at Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016/17. Dengys y canlyniadau bod 83.1% o oedolion yn dweud nad oeddent yn ysmygu, roedd gan 45% o'r ymatebwyr mynegai màs corff o dan 25, adroddodd 26.8% eu bod yn bwyta 5 dogn o ffrwythau neu lysiau y dydd, dywedodd 73.2% nad oeddent yn yfed dros y canllawiau a nododd 48.5% eu bod yn bodloni canllawiau gweithgarwch corfforol. Ar gyfer Bro Morgannwg, nododd 10% o ymatebwyr bod ganddynt un neu lai o ymddygiadau iach, gan adlewyrchu cyfartaledd Cymru. |
| CPM/183 (WO4/M002): Canran o blant sydd â llai na dau ymddygiad ffordd iach o fyw (dim yn ysmygu, yn bwyta pum dogn o ffrwythau neu lysiau, byth yn yfed neu'n yfed yn anaml, yn bodloni'r canllawiau gweithgarwch corfforol). | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Dangosydd Cenedlaethol Llesiant Blynyddol. Nid yw data Llywodraeth Cymru ar gael. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CPM/184 (WO4/M003): Plant 5 oed o bwysau iach. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Mae'r data diweddaraf sydd ar gael o'r Rhaglen Mesur Plant (CMP) i Gymru wedi'i seilio ar fesur plant sy'n mynychu dosbarth derbyn mewn ysgolion yng Nghymru. Daw'r data diweddaraf sydd ar gael o Raglen 2016/17 lle roedd 83.0% o blant o bwysau iach neu dan bwysau a 17.0% yn ordew neu'n rhy drwm, gellir cymharu'r olaf â chyfartaledd o 27.1% yng Nghymru ar gyfer yr un cyfnod |
| CPM/185 (WO4/M004): Y nifer o flynyddoedd ar gyfartaledd y gall baban newydd anedig ddisgwyl byw os yw cyfraddau marwolaethau cyfredol yn parhau. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Mae'r data diweddaraf sydd ar gael gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ar ddisgwyliad oes yng Nghymru a Lloegr yn cwmpasu'r cyfnod 2014-2012 lle mai disgwyliad oes cyfartalog bachgen newydd anedig yng Nghymru yw 78.43 o flynyddoedd ac i ferch newydd anedig yng Nghymru, mae'n 82.36 o flynyddoedd. |
| **Pa wahaniaeth wnaethom ni?** | | | | | | |
| CPM/186: Lleihad canrannol mewn camddefnyddio sylweddau problemus y cleientiaid hynny sy'n cael triniaeth camddefnyddio sylweddau. | 70.6% | 84.2% | 67% | Gwyrdd | ↓ | Y ganran wirioneddol o unigolion a adroddodd am ostyngiad, defnydd lefel isel/cynnal neu ymatal oedd 84.2% mewn gwirionedd. Mae perfformiad yn unol â'r llinell sylfaen newydd o 84% o'i gymharu â'r llinell sylfaen flaenorol o 67% fel y nodir o Ch4 ymlaen, bydd cleientiaid y mae gostyngiad, ymatal neu ddim newid yn cael eu cynnwys yn y cyfrifiad hwn fel canlyniad positif. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CPM/187: Gwelliant yn ansawdd bywyd cleientiaid sy'n cael triniaeth camddefnyddio sylweddau. | 60.9% | 79% | 56% | Gwyrdd | ↑ | Mae'r Proffil Canlyniad Triniaeth (TOP) yn holiadur canlyniadau y mae pawb sy'n cael triniaeth yn ei gwblhau wrth gael mynediad at y gwasanaeth, eto bob chwarter, ac wrth adael gwasanaethau.<br>Y ffigwr hwn yw cyfanswm yr unigolion yn y Fro sy'n cwblhau TOP y chwarter hwn, a adroddodd well ansawdd bywyd.<br>Perfformiad y Fro oedd 79% (82 o unigolion) sy'n fwy na'r meincnod cenedlaethol o 56%. |
| CPM/191: Canran yr oedolion sy'n dweud eu bod yn cymryd rhan mewn chwaraeon/ gweithgarwch corfforol dair gwaith neu fwy yr wythnos. | 29% | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Y data diweddaraf sydd ar gael o Arolwg Cenedlaethol Cymru yw data o arolwg 2017/18; fodd bynnag, nid oes dadansoddiad o ardaloedd awdurdodau lleol ar gael ar hyn o bryd. Mae'r data diweddaraf yn dangos bod cyfartaledd Cymru o oedolion a adroddodd eu bod yn cymryd rhan mewn chwaraeon dair gwaith neu fwy yr wythnos yn 32%.<br><br>Nododd canfyddiadau o'n Arolwg Barn y Cyhoedd diweddaraf (a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2016-Ionawr 2017) fod 46% o oedolion 16+ oed wedi cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol bob dydd; 17% o leiaf 2-3 gwaith yr wythnos (sydd o'i gyfuno yn rhoi ffigwr o 63% a nodwyd y llynedd); 9% o leiaf unwaith yr wythnos; 4% unwaith/ ddwywaith y mis; ac ni wnaeth 18% gyfranogi. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pa mor dda wnaethom ni berfformio?** | | | | | | |
| CPM/090: Canran y bobl sydd wedi cwblhau'r cynllun atgyfeirio ymarfer corff. | 28.49% | 46.89% | 40% | Gwyrdd | ↑ | Mae'r cynnydd canrannol yn y rhai sy'n cwblhau'r cynllun atgyfeirio, gan ragori ar y targed, yn dangos pa mor galed y mae'r tîm wedi bod yn gweithio i gwblhau cleientiaid sy'n ymuno â'r cynllun. Rydym wedi cynhyrchu dau chwarter da iawn ac rydym yn gobeithio adeiladu ar hyn ar gyfer y flwyddyn nesaf, fodd bynnag, mae gennym aelod o'r tîm sydd ar fin gadael ar gyfnod Mamolaeth, a fydd yn achosi rhai problemau gan nad yw'r grantiau'n cynnwys yr holl oriau ac efallai na fydd gan yr unigolyn sy'n dod i mewn yn ei lle gyda'r un profiad â'r person sydd wedi gadael. Mae'r data hwn yn parhau i fod yn fyw. |
| CPM/111: Canran y plant Dechrau'n Deg cymwys sy'n cymryd y cynnig gofal plant. | 89.4% | 84.38% | 80% | Gwyrdd | ↓ | Cymerodd 54 o blant allan o 64 y cynnig o ofal plant, gyda 2 yn gwrthod, 4 wedi symud allan o'r ardal a 4 DNA. Mae hyn wedi arwain at berfformiad sy'n fwy na'r targed o 80% a osodwyd ar gyfer y flwyddyn. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CPM/096: Canran presenoldeb yng ngofal plant Dechrau'n Deg. | 75.5% | 79.9% | 65% | Gwyrdd | ↑ | Mae'r ffigwr yn seiliedig ar "bresenoldeb yn y sesiynau dewisedig" (y rhai sydd wedi cymryd sesiynau rhan-amser/llawn-amser neu'r rhai sydd wedi gostwng eu sesiynau trwy ddewis rhieni. Mae'r elfen Canlyniad 5+ y Cyfnod Sylfaen yn seiliedig ar blant sydd wedi cael cefnogaeth Dechrau'n Deg yn y gorffennol ac sydd bellach yn yr Ysgol Gynradd. Mae perfformiad yn uwch na'r flwyddyn flaenorol a'r targed a bennwyd ar gyfer 2017/18. |
| CPM/170: Canran y defnyddwyr sy'n dangos bodlonrwydd gyda'r gwasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf y cafwyd mynediad ato. | 97% | 98.28% | 85% | Gwyrdd | ↑ | Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn darparu amrywiaeth o wasanaethau da a reolir yn dda sy'n parhau i ddarparu darpariaeth gefnogol dda i blant, pobl ifanc, teuluoedd a'r staff sy'n gweithio gyda nhw. Parha perfformiad eleni yn fras yr un fath â blynyddoedd blaenorol ac mae'n dyst i'r ansawdd a'r gefnogaeth a roddir gan staff. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CPM/192: Nifer y cyfranogiadau gan blant a phobl ifanc yn y cynllun 5x60. | 43,687 | 50,477 | 44,000 | Gwyrdd | ↑ | Yn ystod y flwyddyn roedd prinder staff a effeithiodd ar lefelau cyfranogiad yn y rhaglen ysgolion. Hefyd bu gostyngiadau cyllideb ar gyfer y cynllun a oedd yn golygu defnyddio dull â mwy o ffocws wrth gyflenwi'r gweithgareddau o fewn lleoliad yr ysgol. Nodwyd grwpiau targed ar gyfer elfen yr ysgol o'r project a oedd yn canolbwyntio ar y rheiny sydd â chyfranogiad isel neu ddim cyfranogiad ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn anoddach i'w hymgysylltu felly roedd cyfranogiad yr ysgol yn is na'r targed i ddechrau, cyn y newidiadau hyn. Fodd bynnag, rydym yn dal i ragori ar y targed wrth i ni sicrhau bod yr holl ystadegau o brojectau a effeithiwyd gan y cynllun 5x60 o fewn y gymuned wedi'u cynnwys yn y ffigurau, na ddigwyddodd o'r blaen. |
| CPM/195: Canran yr unigolion sy'n cwblhau triniaeth camddefnyddio sylweddau. | 83.8% | 75.86% | 72% | Gwyrdd | ↓ | Ymadawodd 75% o'r holl gleientiaid â'r gwasanaeth camddefnyddio sylweddau yn ystod chwarter 4 mewn modd cynlluniedig (serch bod y driniaeth wedi ei chwblhau neu y cawsant eu hatgyfeirio ymlaen i wasanaeth cefnogi cynlluniedig ychwanegol), gan ragori ar y targed o 72%. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CPM/196: Canran yr ysgolion lle mae’r Cyngor yn arlwyo sy'n cynnig opsiynau bwyd iach. | 100% | 100% | 100% | Gwyrdd | ↔ | Cynigir bwyd iach i ddisgyblion a staff ym mhob un (100%) o’r ysgolion sy’n derbyn cytundeb dan gontract â’r Awdurdod Lleol. Mae pob ysgol gynradd yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion ac mae pob ysgol uwchradd yn dilyn safonau bwyd y Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion. |
| **Faint ydym ni wedi ei wneud (data cyd-destunol)** | | | | | | |
| CPM/028: Nifer y clybiau chwaraeon sy'n cynnig cyfleoedd anabledd naill ai gynhwysol neu benodol. | 50 | 50 | 50 | Gwyrdd | ↔ | Parhaodd Swyddog Datblygu Chwaraeon Anabledd Cymru y Fro i gysylltu â'r 50 o glybiau/ sefydliadau lleol sy'n cynnig cyfleoedd i bobl anabl ac mae wedi parhau i hyrwyddo eu darpariaeth i bobl anabl. Yn ddiweddar cynorthwyodd Clwb Bowlio Dan Do Sili i ennill achrediad Insport ac mae hefyd wedi bod yn cysylltu â Chlwb Pêl-droed Cogan Coronation sydd bellach wedi'u cynnwys yn y cyfeiriadur Chwaraeon Anabledd. |
| CPM/197: Nifer y Parciau Baner Werdd. | 7 | 7 | 7 | Gwyrdd | ↔ | Mae’r perfformiad yn adlewyrchu un y llynedd gyda dyfarniad o 7 gwobr Baner Werdd yn cydnabod y parciau a mannau gwyrdd a reolir yn dda ar draws y Fro. Rydym yn anelu at gynyddu hyn i 8 Baner Werdd yn 2018/19. Gyda Pharciau Cosmeston a Phorthceri hefyd yn cael eu cyflwyno gan yr adran Cefn Gwlad, dylem anelu at gynyddu nifer yr holl safleoedd a ddyfarnwyd â Baner Werdd i 10 yn 2018/19. |

**Amcan 8: Diogelu pobl sy'n agored i niwed a hyrwyddo byw'n annibynnol.**

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion poblogaeth** | | | | | | |
| CPM/203 (WO4/M004): Canran yr oedolion mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso yr adroddwyd amdanynt fwy nag unwaith yn ystod y flwyddyn. | Amh. | 10.79% | 10% | Oren | Amh. | Mae gwaith yn parhau i fonitro oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso mwy nag unwaith yn ystod y flwyddyn. |
| CPM/060 (SSM/027): Canran ail-gofrestriadau plant ar Gofrestrau Amddiffyn Plant awdurdod lleol (CPR) | 10.27% | 3.62% | Amh. | Amh. | ↑ | Dangosodd y mesur hwn welliant mewn plant a gafodd eu hail-gofrestru ar y CPR yn ystod y flwyddyn o'i gymharu â 2016/17. Atgyfnertha hyn y broses o wneud penderfyniadau ar gyfer cofrestru/ dadgofrestru plant i/ o'r CPR. |
| CPM/098: Canran y defnyddwyr gwasanaeth oedolion sy'n derbyn taliad uniongyrchol. | 14.78% | Dim data | Amh. | Amh. | Amh. | Nid yw'r data ar gael ar hyn o bryd ac nid yw'n cael ei adrodd i Lywodraeth Cymru ar gyfer 2017/18. |
| **Pa wahaniaeth wnaethom ni?** | | | | | | |
| CPM/050: Canran y disgyblion mewn gofal awdurdod lleol mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan ALI, 15 oed ar y 31 Awst blaenorol sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu yn y gwaith heb gymhwyster allanol cymeradwy. | 0% | 0% | 0% | Gwyrdd | ↔ | Mae'r perfformiad yn ailadrodd yr hyn a adroddwyd yn y flwyddyn flaenorol, gan gyrraedd y targed o 0%. Nid oedd unrhyw ddisgyblion mewn gofal awdurdod lleol ym Mlwyddyn 11 wedi gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu yn y gwaith heb gymhwyster cymeradwy. |
| CPM/057 (SSM/019) (PAM/025): Cyfradd yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu hŷn. | 2.59% | 2.85% | 2.5% | Coch | ↓ | Er gwaethaf yr heriau a wynebir gan y Timau Rheoli Gofal wrth hwyluso rhyddhau pobl â chymhlethdodau cynyddol, mae perfformiad yn gyson â 2016/17. |
| CPM/058 (SSM/020a): Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod o ail-alluogi) ac sydd â phecyn gofal a chymorth llai 6 mis yn ddiweddarach. | 10% | Dim data | Amh. | Amh. | Amh. | Nid yw'r data ar gael ar hyn o bryd ac nid yw'n cael ei adrodd i Lywodraeth Cymru ar gyfer 2017/18. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CPM/059 (SSM/020b): Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod o ail-alluogi b) ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach. | 68.755 | Dim data | Amh. | Amh. | Amh. | Nid yw'r data ar gael ar hyn o bryd ac nid yw'n cael ei adrodd i Lywodraeth Cymru ar gyfer 2017/18. |
| CPM/107: Canran y defnyddwyr gwasanaeth Cefnogi Pobl sy'n cadarnhau bod y gefnogaeth a gawsant wedi eu cynorthwyo i gynnal eu hannibyniaeth. | 96.15% | 82.93% | 100% | Coch | ↓ | Comisiynwyd y gwasanaethau cefnogi gan y Cyngor oddi wrth sefydliadau trydydd sector allanol. Derbyniwyd yr adborth hwn yn ystod yr adolygiadau gwasanaeth a gynhaliwyd gan y Tîm Cefnogi Pobl a chaiff yr holl sylwadau negyddol eu harchwilio a gwneir argymhellion ar gyfer unrhyw welliannau gwasanaeth angenrheidiol. Er mwyn ceisio gwella annibyniaeth cleientiaid bydd y gwaith o gwblhau'r argymhellion yn cael ei fonitro. Fodd bynnag, ni ddisgwylir i lawer o bobl fregus sy'n cael eu cefnogi allu dod yn gwbl annibynnol e.e. pobl hŷn a fydd yn parhau i fod angen cymorth i barhau i fyw gartref neu gleientiaid â chyflwr meddygol sy'n dirywio. |
| CPM/026: Canran y bobl sydd wedi derbyn Grant Cyfleusterau i'r Anabl sy'n teimlo bod y cymorth wedi eu gwneud yn fwy diogel ac yn fwy annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. | 99.34% | 100% | 97% | Gwyrdd | ↑ | Er bod y ffigwr hwn wedi ei gymryd o grŵp sampl bach o 50 o ymatebwyr, mae cyfradd o 100% yn ganlyniad cadarnhaol iawn. Er bod perfformiad yn uwch na'r llynedd, roedd 102 o ymatebwyr ychwanegol yn ystod 2016/17. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pa mor dda wnaethom ni berfformio?** | | | | | | |
| CPM/056 (SSM/018): Canran yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn yr amserlenni statudol. | 98.32% | 99.75% | 98% | Gwyrdd | ↑ | Yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru (SSWA), mae'r gwaith yn parhau i sicrhau bod yr holl ymholiadau amddiffyn oedolion yn cael eu cwblhau o fewn 7 niwrnod gwaith. |
| CPM/112: Canran y cleientiaid Cefnogi Pobl yn fodlon gyda'r cymorth a ddarparwyd. | 100% | 94.59% | 100% | Oren | ↓ | Comisiynwyd y gwasanaethau cefnogi gan y Cyngor oddi wrth sefydliadau trydydd sector allanol. Derbyniwyd yr adborth hwn yn ystod yr adolygiadau gwasanaeth a gynhaliwyd gan y Tîm Cefnogi Pobl a chaiff yr holl sylwadau negyddol eu harchwilio a gwneir argymhellion ar gyfer unrhyw welliannau gwasanaeth angenrheidiol. Bydd cwblhau'r argymhellion hyn yn cael ei fonitro er mwyn gwella boddhad y gwasanaeth. |
| CPM/206: Canran y cwsmeriaid teleofal sy'n fodlon gyda'r gwasanaeth monitro teleofal. | Amh. | 98.9% | 90% | Gwyrdd | Amh. | O'r 96.9% o ymatebwyr a oedd yn fodlon â'r monitro Teleofal, dywedodd 81% o gwsmeriaid eu bod yn Eithaf Bodlon neu'n Fodlon Iawn o'r ymateb gan y tîm monitro. |
| CPM/207: Canran y cynlluniau gofal a chymorth i oedolion a gafodd eu hadolygu o fewn graddfeydd amser y cytunwyd arnynt (set ddata interim LIC). | 85.93% | Dim data | 85% | Amh. | Amh. | Nid yw'r data ar gyfer y mesur lleol hwn ar gael ar hyn o bryd ers Ch2 gan nad yw'n bosib ar hyn o bryd dethol y data ar gyfer y DP hwn o'r system WCCIS a lansiwyd yn ddiweddar |
| CPM/208: Canran y cynlluniau gofal a chymorth i blant a gafodd eu hadolygu o fewn graddfeydd amser y cytunwyd arnynt (set ddata interim LIC). | Amh. | Dim data | 95% | Amh. | Amh. | Nid yw'r data ar gyfer y mesur lleol hwn ar gael ar hyn o bryd ers Ch2 gan nad yw'n bosib ar hyn o bryd dethol y data ar gyfer y DP hwn o'r system WCCIS a lansiwyd yn ddiweddar |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Faint ydym ni wedi ei wneud (data cyd-destunol)** | | | | | | |
| CPM/209: Nifer y defnyddwyr Teleofal newydd. | 363 | 330 | 330 | Gwyrdd | ↓ | Yn ystod 2017/18 roedd 249 o ddefnyddwyr TeleV a 81 o ddefnyddwyr TeleV+, mae hyn yn cyfateb i 330 o ddefnyddwyr teleofal, gan gwrdd â'r targed am y flwyddyn. |

**Atodiad B – Dangosyddion Perfformiad Ychwanegol (Canlyniad Llesiant 4)**

**Amcan 7: Annog a hyrwyddo ffyrdd o fyw actif ac iach**

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pa mor dda wnaethom ni berfformio?** | | | | | | |
| PAM/017: Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn lle cymerodd yr ymwelydd ran mewn gweithgarwch corfforol fesul 1,000 o'r boblogaeth. | 6056.33 | 11,368 | 6100 | Gwyrdd | ↑ | Cafwyd casglu data sylweddol dros y flwyddyn gyda defnydd addysg y tu allan i oriau nad oedd wedi ei gyfrif yn flaenorol wedi cael ei gynnwys eleni, sydd wedi gweld cynnydd sylweddol yn y ffigwr a adroddwyd o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. O ganlyniad, mae perfformiad chwarter 4 wedi rhagori ar y ddau berfformiad yn 2016/17 a'r targed a osodwyd. |

**Amcan 8: Diogelu pobl sy'n agored i niwed a hyrwyddo byw'n annibynnol.**

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pa wahaniaeth wnaethom ni?** | | | | | | |
| SSM/025: Canran y plant a gefnogir i barhau i fyw yn eu teulu. | 97.62% | 85.46% | Amh. | Amh. | ↓ | Mae'r ffigwr hwn yn seiliedig ar ddata dros dro. Nid yw'n briodol gosod targed ar gyfer y dangosydd hwn felly nid oes statws COG ar gael. |
| SSM/034a: Canran yr holl bobl sy'n gadael gofal sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ymhen 12 mis ar ôl gadael gofal. | 42.63% | 49.25% | 45% | Gwyrdd | ↑ | Mae perfformiad yma wedi cynyddu o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac mae wedi rhagori ar y targed o 45% ar gyfer y flwyddyn. |
| SSM/034b: Canran yr holl bobl sy'n gadael gofal sydd mewn Addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ymhen 24 mis ar ôl gadael gofal. | 50% | 48.65% | 50% | Oren | ↓ | Mae'r tîm yn parhau i weithio'n rhagweithiol gydag ystod o sefydliadau gan gynnwys Gyrfa Cymru i gael cyngor gyrfa arbenigol a chymorth ynghylch opsiynau hyfforddi, addysg neu gyflogaeth. O'r 19 NEETS, mae 6 sydd â phroblemau iechyd meddwl sylweddol ac yn methu â gweithio, mae 2 Berson Ifanc yn feichiog, 1 person ifanc yn rhiant plentyn bach, nid yw 10 person ifanc yn ymgysylltu o ran chwilio am gyfleoedd addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. |
| **Pa mor dda wnaethom ni berfformio?** | | | | | | |
| SSM/023: Canran yr Oedolion sydd wedi cael cymorth gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth ac nad ydynt wedi cysylltu â'r gwasanaeth eto yn ystod y flwyddyn. | 84.78% | Dim data | 85% | Amh. | Amh. | Ddim ar gael ar hyn o bryd ac nid yw'n cael ei adrodd i Lywodraeth Cymru ar gyfer 2017/18. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| SSM/024 (PAM/028): Canran yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant o fewn graddfeydd amser statudol. | 71.76% | 65.46% | 85% | Coch | ↓ | Mae cyflwyno WCCIS yn newid dyddiad cofnodi dechrau'r asesiad i ddyddiad yr atgyfeiriad, nid dyddiad y dyraniad. Caiff yr holl atgyfeiriadau eu sgrinio er mwyn sicrhau dyraniad amserol o'r rhai sydd â blaenoriaeth uchaf. Nid yw'r dyddiadau cwblhau chwaith yn adlewyrchu diwedd yr asesiad, yn hytrach y dyddiad y cânt eu hysgrifennu i fyny. Er y gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y dyddiadau'n cyd-fynd, weithiau mae oedi o ran mewnbynnu asesiadau i'r system. Mae mecanweithiau'n cael eu gweithredu i ymdrin â hyn. |
| SSM/033 (PAM/029): Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri neu fwy o leoliadau yn ystod y flwyddyn. | 8.93% | 11.48% | 9% | Coch | ↓ | Yn unol â'r cyd-destun cenedlaethol, mae lleoli plant sy'n derbyn gofal yn heriol i'r Cyngor. Mae hyn yn adlewyrchu cymhlethdod anghenion plant a phrinder lleoliadau mewn rhai meysydd angen. |
| SSM/026: Canran y plant sy'n derbyn gofal a ddychwelodd adref o ofal yn ystod y flwyddyn. | 6.14% | 3.79% | 6% | Amh. | Amh. | Mae'r ffigwr hwn yn seiliedig ar ddata dros dro. Mae perfformiad islaw'r llynedd a'r targed o 6%, ond ni wyddys p'un a ddylai perfformiad fod yn uchel ynteu'n isel. |
| SSM/030: Canran y plant a welwyd gan ddeintydd cofrestredig o fewn 3 mis i dderbyn gofal. | 42.62% | 40.63% | 60% | Coch | Amh. | Mae'r Gyfarwyddiaeth wedi ymrwymo i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn mynd at y deintydd i gwrdd â'u hanghenion dannedd. Mae'r DP hwn yn adlewyrchu plant a 'welwyd', nid dim ond eu cofrestru'n unig. Yr hyn a ddywed ein gwybodaeth wrthym, fodd bynnag, yw y gwelwyd y rhan fwyaf o blant hyd yn oed os oedd hynny ar ôl yr amserlen. Mae'r nifer fechan nas gwelwyd yn destun dilyniant i sicrhau y cyflawnir hyn. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| SSM/021: Hyd yr amser cyfartalog y mae pobl hŷn (65 oed neu drosodd) yn cael cymorth mewn cartrefi gofal preswyl | 818.95 diwrnod | 769.06 diwrnod | Dim targed | Amh. | ↑ | Defnyddir y ffigurau hyn fel canllaw yn unig ac maent yn unol â'r strategaeth gyffredinol i gefnogi pobl sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain. Y swm o ddiwrnodau yn ystod chwarter 4 oedd 148429 o ddiwrnodau, cymharir hyn â'r 818.945 yn y flwyddyn flaenorol. |
| SSM/022: Oedran gyfartalog oedolion sy'n mynd i gartrefi gofal preswyl. | 81 | 79.87 | Dim targed | Amh. | ↓ | Defnyddir y ffigurau hyn fel canllaw yn unig ac maent yn unol â'r strategaeth gyffredinol i gefnogi pobl sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain. Y swm o ddiwrnodau yn ystod chwarter 4 oedd 9025 diwrnod, o'i gymharu â'r 8802 yn y flwyddyn flaenorol. |
| SSM/031: Canran y plant sy'n derbyn gofal a gofrestrwyd gyda meddyg teulu. | 99.16% | 98.39% | 98% | Gwyrdd | ↓ | Mae'r Isadran yn falch o ddweud ei bod wedi rhagori ar ei tharged perfformiad yn y maes hwn gyda 122/124 o blant sy'n derbyn gofal wedi eu cofrestru gyda meddyg teulu. Mae'n ffocws gan y Tîm Lleoliadau i sicrhau bod gofalwyr yn cofrestru plant yn brydlon. |
| SSM/035: Canran yr ymadawyr gofal sydd wedi dioddef digartrefedd yn ystod y flwyddyn. | 14.68% | 5.6% | 14% | Gwyrdd | ↑ | Mae 8 o'r 142 o ymadawyr gofal rhwng 16 a 24 oed ar 31ain Mawrth wedi profi digartrefedd yn ystod y flwyddyn, o'u cymharu â 16 o 109 yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r Adran wedi gweithio'n galed gydag asiantaethau partner a thai i ehangu argaeledd opsiynau llety addas ar gyfer pobl ifanc 16-21 oed. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| SSM/028: Hyd amser cyfartalog pob plentyn a oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn. | 238 diwrnod | 247.52 diwrnod | Dim targed | Amh. | ↓ | Er na osodir targed, mae'r mesur hwn yn cynnal ei gysondeb â pherfformiad 2016/17 a Chymru Gyfan. Mae cyfanswm y cyfnod o ddiwrnodau y mae pob plentyn wedi bod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant os cawsant eu tynnu o'r gofrestr yn ystod y flwyddyn yw 32920 diwrnod, cymharir hyn â'r 35913 diwrnod yn y flwyddyn flaenorol. |
| SSM/029a: Canran y plant sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2. | 70.83% | 55.56% | Amh. | Amh. | ↓ | Mae'r data'n adlewyrchu perfformiad addysg carfan fach o blant (18 o blant) sy'n derbyn gofal yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r mesur angen perfformiad cyson ar draws pob pwnc craidd, os nad yw, yna ni chyflawnir y targed. Perfformiodd y garfan arbennig hon o blant yn gadarnhaol mewn rhai meysydd ond nid mewn eraill. |
| SSM/029b: Canran y plant sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 4. | 26.67% | 0% | Amh. | Amh. | Amh. | Mae'r data'n adlewyrchu perfformiad addysg carfan fach o blant (19 o blant) sy'n derbyn gofal yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r mesur angen perfformiad cyson ar draws pob pwnc craidd, os nad yw, yna ni chyflawnir y targed. Perfformiodd y garfan arbennig hon o blant yn gadarnhaol mewn rhai meysydd ond nid mewn eraill. |
| SSM/032: Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi profi (1) neu fwy o newidiadau ysgol, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, nad oeddent yn ganlyniad i drefniadau trosiannol, yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth. | 19.93% | 15% | 12% | Coch | ↑ | Yn unol â'r cyd-destun cenedlaethol, mae lleoli plant sy'n derbyn gofal yn heriol i'r Cyngor. Mae hyn yn adlewyrchu cymhlethdod anghenion plant a phrinder lleoliadau mewn rhai meysydd angen. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| PAM/026: Canran y gofalwyr sy'n adrodd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i barhau yn eu rôl ofalu. | Amh. | 84% | Amh. | Amh. | Amh. | Ar gyfer mesurau perfformiad 2017/18, datblygwyd Holiaduron gan Lywodraeth Cymru a'u hanfon at yr holl Ofalwyr a oedd wedi derbyn gofal a chymorth ar 1 Tachwedd 2017. Anfonwyd holiaduron drwy'r post gydag amlenni dychwelyd am ddim at bob gofalwr a oedd wedi derbyn asesiad gofalwyr (126 o ofalwyr). Datblygwyd holiaduron yn Gymraeg a Saesneg, ac roedd fersiynau 'Hawdd eu Darllen' ar gael.<br>O'r 126 o ofalwyr, ymatebodd 26 o ofalwyr i'r arolwg (mae hyn yn gyfradd ymateb o 20%). O'r 26, atebodd 25 y cwestiwn cysylltiedig ynghylch a ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i barhau â'u rôl ofalu - teimlai 84% eu bod yn cael cefnogaeth (15 o ofalwyr yn ymateb "ie" eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gyda 6 yn ateb "weithiau"), atebodd 8% "na" a dywedodd yr 8% arall "ddim yn gwybod". Dywedodd Gofalwyr fod ganddynt eu problemau iechyd eu hunain, felly mae rhai yn ei chael hi'n anodd cyflawni eu rôl ofalu. Mae eraill yn ei chael hi'n drafferthus iawn, ac yn ei chael hi'n anodd yn emosiynol. Teimla eraill eu bod yn cael eu cefnogi gan y mewnbwn a gawsant gan rai asiantaethau yn ychwanegol at wasanaethau gofalwyr.<br>Er mwyn sicrhau bod gofalwyr yn parhau i deimlo eu bod yn cael eu cefnogi, adolygwyd yr argymhellion o'r sylwadau a'r awgrymiadau a wnaed gan ymatebwyr, eu hadrodd a'u dosbarthu i bob cynrychiolydd gwasanaeth perthnasol. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| PAM/024: Canran yr oedolion sy'n fodlon â'r gofal a'r gefnogaeth a dderbyniwyd ganddynt. | Amh. | 97.1% | Amh. | Amh. | Amh. | Ar gyfer mesurau perfformiad 2017/18, datblygwyd Holiaduron gan Lywodraeth Cymru a'u hanfon at yr holl oedolion oedd â chynllun gofal a chefnogaeth ar 1 Tachwedd 2017. Anfonwyd holiaduron drwy'r post gydag amlenni dychwelyd am ddim at bawb. Cynhaliwyd cyfweliadau lle bo'n briodol dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. Datblygwyd holiaduron yn Gymraeg a Saesneg, ac anfonwyd fersiynau 'Hawdd eu Darllen' lle bo'n briodol.<br>Roedd cyfanswm o 553 o ymatebwyr ar draws pob holiadur i oedolion. O'r 553, ymatebodd 537 o ymatebwyr "ie" eu bod yn fodlon neu "weithiau" yn fodlon gyda'r gofal a'r gefnogaeth a gawsant. Rhoddodd llawer ohonynt sylwadau cadarnhaol iawn am y staff yn y lleoliadau y maent yn eu mynychu (lle bo'n berthnasol). Roedd llawer hefyd yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a gânt gan staff teulu a gofal.<br>Derbyniodd nifer o ymatebwyr gyfweliadau wyneb yn wyneb a ffôn fel dewis amgen i'r holiadur ysgrifenedig. Gall defnyddio mwy o'r dulliau hyn gynyddu cyfraddau ymateb o bosib; roedd y gyfradd ymateb ar gyfer yr holiadur oedolion eleni yn 40%.<br>Adolygwyd yr argymhellion o'r sylwadau a'r awgrymiadau a wnaed gan ymatebwyr, eu hadrodd a'u dosbarthu i bob cynrychiolydd gwasanaeth perthnasol. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| PAM/027: Canran y plant sy'n fodlon â'r gofal a'r gefnogaeth a dderbyniwyd ganddynt. | Amh. | 92.31% | Amh. | Amh. | Amh. | Ar gyfer mesurau perfformiad 2017/18, datblygwyd Holiaduron gan Lywodraeth Cymru a'u hanfon at bob plentyn a pherson ifanc rhwng 7 a 17 oed gyda chynllun gofal a chymorth ar 1 Tachwedd 2017.<br>O'r 250 o holiaduron a anfonwyd, ymatebodd 26 o bobl ifanc, gan roi cyfradd ymateb o 10%. O'r 26 ymateb; roedd 92.31% yn teimlo'n fodlon (ymatebodd 23 "ie" eu bod yn hapus gyda'r gofal a'r gefnogaeth a dderbyniwyd ac ymatebodd 1 eu bod "weithiau" yn teimlo'n fodlon). O'r ymatebwyr sy'n weddill, ymatebodd 3.8% (1) "na" ac roedd y 3.8% (1) sy'n weddill wedi nodi "ddim yn gwybod".<br>Gofynnwyd i bobl ifanc hefyd beth oeddent yn ei deimlo yr oedd y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ei wneud yn dda. Rhoddodd pobl ifanc lawer o sylwadau cadarnhaol ac roeddent yn ymddangos yn fodlon â'r gofal a'r gefnogaeth a dderbyniwyd ganddynt. Teimlai llawer fod cael eu rhoi gyda'u gofalwyr maeth yn gadarnhaol, a dywedodd rhai bod eu gweithiwr cymdeithasol yn gefnogol iawn, er enghraifft gyda gwaith stori bywyd. Roedd cael rhywun i sicrhau eu bod yn cael y gefnogaeth gywir yn ddefnyddiol, fel yr oedd cael rhywun i esbonio pethau iddynt pan fo angen. |

# ATODIAD B: CAMAU GWEITHREDU'R CYNLLUN GWASANAETH

| Camau Gweithredu Integredig y Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| **CP1** | | | | |
| PD/F021: Symud ymlaen y cynigion trwy'r Rhaglen Ail-Lunio, gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer achosion busnes yn ôl yr angen a gweithredu projectau a gymeradwywyd lle bo'n briodol. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae'r Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau wedi parhau i symud ymlaen, gyda chynlluniau ar waith i gyflwyno projectau 2017/18 ac i ymdrin ag unrhyw broblemau gyda phrojectau unigol, er bod gwaith wedi cymryd mwy o amser nag a ragwelir ac, felly, mae rhai arbedion wedi cael eu gohirio. Cwblhawyd y gwaith datblygu ar gyfer projectau Haen 3 a dargedir i gyflawni arbedion yn 2018/19 ac a fydd yn canolbwyntio ar ddigidol, incwm, adolygiad sefydliad a gwariant trydydd parti. Mae'r tîm rhaglen hefyd yn sicrhau bod cefnogaeth yn parhau i fod ar gael ar gyfer projectau sy'n seiliedig ar wasanaethau. |
| PD/F023: Dechrau ystyried cynigion haen 3 y rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau a gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer achosion busnes yn ôl yr angen. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Nodwyd projectau Haen 3, a chynhwyswyd arbedion yn y cynigion refeniw ar gyfer cyllidebau 2018/19 a 2019/20. Mae gwaith ar y gweill gyda'r noddwyr project perthnasol i roi prosesau yn eu lle ar gyfer eu cyflenwi cyn y flwyddyn ariannol nesaf. |
| PD/C003: Parhau i ddatblygu a chyfrannu at y ffrydiau gwaith projectau corfforaethol gan gynnwys; Cynghorau Tref a Chymuned, Rheoli Galw, Effeithiolrwydd Gwariant a Bro Ddigidol. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Yn chwarter 4, cyfarfu'r ail banel gwerthuso y gronfa Grant Cymunedau Cryf a chefnogodd y Cabinet ddyfarniadau cyllido pellach i amrywiaeth o fentrau cymunedol fel rhan o effeithiolrwydd y project gwariant. Mae gwaith ar y gweill i hyrwyddo'r gronfa a fydd yn cefnogi projectau cymunedol a Chynghorau Tref/ Cymuned ymhellach.<br><br>Mae nifer o geisiadau Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn cael eu datblygu. Parha'r gwaith o fonitro'r Compact Sector Gwirfoddol diwygiedig a darparu ffocws newydd ar gyfer gwaith yn y maes hwn. Hefyd cychwynnodd gwaith ar y rhestr wirio a argymhellir i bob Cyngor gan SAC, i weithio'n effeithiol gyda'r sector gwirfoddol. Mae gwaith yn parhau i gyfrannu at y projectau hyn a bydd yn parhau i 2018/19 fel yr amlinellir yn y Cynllun Gwasanaeth Perfformiad a Datblygiad. |

| Camau Gweithredu Integredig y Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| PD/F022: Datblygu project caffael ar gyfer Haen 3 y rhaglen Gwasanaeth Ail-lunio. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Sefyfdlwyd targedau Gwariant Trydydd Parti ar gyfer meysydd gwasanaeth fel rhan o Gynigion Cyllideb Refeniw Terfynol y Cyngor am 2018/19. Darperir arweiniad yn ystod Ch1 y flwyddyn newydd a rhoddir trefniadau monitro ar waith. |
| **Cyfraniadau gwasanaeth eraill i CP1: Cyflenwi Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau'r Cyngor i'w alluogi i ddiwallu anghenion dinasyddion y Fro yn y dyfodol. Mae'r canlynol yn cynrychioli trosolwg o gyfraniadau gwasanaeth eraill i Raglen Gwasanaeth Ail-lunio'r Cyngor yn Ch4. Derbynia'r holl aelodau etholedig ddiweddariad manwl yn rheolaidd ar y cynnydd a wneir ar y Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau a'r projectau cysylltiedig. Ystyrir y cynnydd ar brojectau unigol gan y Pwyllgorau Craffu perthnasol sydd â'r cylch gwaith ar gyfer y meysydd gwasanaeth hynny.** | | | | |
| HS/F001: Adolygu Gwasanaethau Tai (cyfrifoldebau landlord (Haen 2). | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cwblhawyd ystod o fentrau i sicrhau gwell effeithlonrwydd mewn tai, gan gynnwys: meddalwedd gweithio symudol (Photobook) sy'n galluogi staff i gwblhau mwy o waith ar y safle ac yn lleihau'r baich gweinyddol; mae archwiliadau diogelwch o ardaloedd cymunedol ac arolygiadau ystad bellach yn cael eu cwblhau ar ddyfeisiadau symudol ac adroddiadau'n cael eu rhannu'n awtomatig gyda thimau eraill fel y gellir gweithredu materion, gan alluogi staff i dreulio mwy o amser ar ystadau ac mewn cartrefi tenantiaid; datblygu gwasanaethau ar-lein i denantiaid; y ffurflen gais Homes4U bellach ar gael ar-lein a bydd y defnydd o geisiadau papur yn cael ei ddiddymu cyn diwedd Ebrill 2018. Mae hyn wedi lleihau'n sylweddol faint o fewnbynnu data sydd ei angen ar staff y Cyngor (a oedd yn flaenorol yn gorfod mewnbynnu'r holl wybodaeth o ffurflenni papur). O gofio bod dros 40 o ffurflenni newydd yn cael eu derbyn bob wythnos a bod bob ffurflen yn cymryd tua 20 munud i'w mewnbynnu, mae hyn wedi gwella effeithlonrwydd gwasanaeth. Gwneir datblygiadau pellach i symud mwy o wasanaethau ar-lein a chyflawni arbedion pellach, mae'r rhain yn cynnwys; cynnig ar-lein ar gyfer cartrefi, gwirio balansau cyfrif rhent, diweddaru manylion y cartref ayb. Hefyd cwblhaodd y tîm rheoli Tai ac Adeiladu weithdai i nodi arbedion effeithlonrwydd pellach a meysydd posibl ar gyfer cynhyrchu incwm. Defnyddiodd y gweithdy dechneg meddwl creadigol i gynhyrchu ystod o faterion a mentrau a fydd yn cael eu codi a'u datblygu ymhellach yn y cynllun gwasanaeth nesaf. |

| Camau Gweithredu Integredig y Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| HS/F019: Cwblhau'r Adolygiad o Lanhau a Diogelwch Adeiladau a chyflawni'r arbedion gofynnol. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Bu gwaith yn mynd rhagddo drwy'r flwyddyn i nodi meysydd ar gyfer arbedion, fodd bynnag, gan fod glanhau adeiladau a diogelwch yn rhan o'r gyfran gyntaf o ail-lunio gwasanaethau ac y lleihawyd gwasanaethau'n sylweddol, mae dod o hyd i gyfleoedd i ail-lunio'r gwasanaeth ymhellach wedi profi'n anodd fel yr adroddwyd yn flaenorol. Gan na ellir cyflawni arbedion gwasanaeth trwy'r cyfrif masnachu contractwyr, nodwyd arbedion i'w cyflenwi drwy gyllidebau gwasanaeth cleientiaid yn lle hynny. |
| SL/F026: Gweithredu ailstrwythuro'r timau Strategaeth ac Adnoddau yn unol â'r model gwasanaeth a gytunwyd ar ôl ail-lunio. | 31/07/2017 | 90 | Coch | Bellach mae'r ailstrwythuro bron wedi'i gwblhau i'r maes gwasanaeth hwn. Mae peth recriwtio i'w gwblhau er mwyn creu'r tîm Ysgolion yr 21ain Ganrif a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Ionawr 2018. Oherwydd cyngor recriwtio mewn perthynas â recriwtio hyfforddeion, bydd hyn yn digwydd yn chwarter 2 18/19. |
| SL/F024: Gweithredu'r model gwasanaeth cytunedig ar gyfer darparu gwasanaethau Arlwyo. | 31/03/2018 (parhaus tan 2019) | 100 | Gwyrdd | Cwblhawyd yr holl waith a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn gan gynnwys: cyfathrebu ac ymgysylltu â staff ac undebau; diweddariadau parhaus o'r cynllun ariannol; ymgysylltu ag adrannau ynglŷn â chostau ail-dalu canolog a'r gwasanaethau y gellir eu cynnig ar ôl dyddiad 'mynd yn fyw'; archwilio system ariannol bwrpasol; creu rhestr asedau arlwyo; cyngor gan PSTAX; a chyngor ynglŷn â'r Gorchymyn Addasu Diswyddo (RMO) gan wasanaethau cyfreithiol. Mae cynllun gweithredu clir ar waith er mwyn bodloni terfynau amser ar gyfer sefydlu'r LATC, Erthyglau Cymdeithas, TUPE a sesiynau cyfathrebu ac ymgysylltu pellach gyda staff ac undebau. Mae'r tîm project wrthi'n cwblhau'r Adroddiad Cabinet diweddaraf ar gyfer ei gyflwyno ym mis Mai 2018. |

| Camau Gweithredu Integredig y Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| DS/C002: Cefnogi cyflenwi projectau ffrwd gwaith Corfforaethol sy'n cynnwys Cynghorau Tref a Chymuned fel rhan o'r rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae swyddog o'r Adran yn parhau i fod yn rhan o'r project sy'n rheoli project CynghorauTref a Chymuned a'r Sector Gwirfoddol y Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau, ac mae'n gweithredu fel cydlynydd Gweithgor Trosglwyddo Asedau Cymunedol (CAT). Yn ystod y flwyddyn, mabwysiadwyd Compact diwygiedig gyda'r Sector Gwirfoddol a drafftiwyd rhaglen waith flynyddol i helpu i ganolbwyntio a monitro gweithgarwch yn y maes hwn. Adroddir ar y wybodaeth ddiweddaraf am y project hwn i'r Pwyllgor Cyswllt Cymunedol ym mhob cyfarfod, ac adroddir i'r Sector Gwirfoddol. Yn ddiweddar, mae'r Pwyllgor Cyswllt Cymunedol wedi cytuno ar y gynrychiolaeth ar gyfer y Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau, y tîm project a hefyd y panel gwerthuso sy'n cefnogi gwneud penderfyniadau ariannu i'r Gronfa Grantiau Cymunedau Cryf newydd a lansiwyd yn ystod y flwyddyn. Mae trafodaethau yn mynd ymlaen gyda chynghorau unigol yn ôl yr angen ac mae chwe chymhwysiad Trosglwyddo Asedau Cymunedol ar hyn o bryd ar wahanol gamau o'r broses. Hefyd mae trafodaethau yn mynd ymlaen gyda Chynghorau unigol yn ôl yr angen, ac mae chwe chymhwysiad Trosglwyddo Asedau Cymunedol ar hyn o bryd ar wahanol gamau o'r broses. |
| LS/C002: Darparu cefnogaeth gyfreithiol i alluogi cadw at amserlen Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau'r Cyngor a'r Cynlluniau Project cysylltiedig. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cafwyd cyngor cyfreithiol trwy gydol y flwyddyn yn ôl yr angen, er mwyn hysbysu penderfyniadau ar brojectau ail-lunio. Yn ystod chwarter 4, parhaodd y gwasanaeth i ddarparu cyngor ar nifer o brojectau, gan gynnwys; cydweithrediad y Rhaglen Waith o'r Gwasanaethau Cymdeithasol (Uned Hyfforddi Ranbarthol), adolygiad o wasanaethau dydd Anabledd Dysgu, Uned Cyfeirio Disgyblion (PRU) ac Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS), ail-lunio gwasanaethau ieuenctid a Thŷ Deri. Byddwn yn parhau i ddarparu cymorth cyfreithiol i alluogi Rhaglen Ail-Lunio Gwasanaethau yn 2018/19, fel yr amlinellwyd yng Nghynllun Gwasanaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol. |

| Camau Gweithredu Integredig y Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| IT/F002: Parhau i gefnogi projectau Ail-lunio Gwasanaethau sydd angen cyngor, datblygiad a chefnogaeth TGCh. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae gwaith yn parhau i alluogi trawsnewid busnes gwasanaethau'r Cyngor. Yn ychwanegol at y gefnogaeth a roddir i wahanol brojectau/mentrau megis Arlwyo, Gwasanaethau Gweladwy, SRS, Archwilio a Rennir, Mabwysiadu a Rennir, ayb. a amlygwyd mewn diweddariadau blaenorol (y mae eu gweithgareddau'n parhau), mae TGCh bellach yn hwyluso a chefnogi camau gweithredu sy'n gysylltiedig â TGCh fel y nodwyd yn y gwahanol themâu o fewn Strategaethau Ail-lunio a Digidol y Cyngor. |
| IT/F003: Adolygu systemau a meddalwedd TGCh sy'n cael eu defnyddio ar draws y Cyngor i sicrhau eu bod yn addas i'r pwrpas. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae gwaith o dan y weithred hon yn parhau, gyda systemau yn cael eu hadolygu wrth i Wasanaethau 'ail-lunio' i sicrhau eu bod yn addas i'r pwrpas ac yn cefnogi'r gwasanaethau newydd sy'n mynd rhagddynt. Bydd allbynnau o'r Strategaeth Ddigidol a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 31ain Gorffennaf hefyd yn hysbysu'r broses hon a dylid sicrhau arbedion trwy ddisodli, cyfuno neu integreiddio systemau penodol. Mae'r Bwrdd Rhaglen Ddigidol bellach wedi cymeradwyo'r rhaglen waith Ddigidol a bydd systemau yn cael eu cyfuno wrth symud ymlaen fel bo projectau unigol yn cael eu gweithredu. Dylai'r ymarfer cyfuno hwn wireddu arbedion ariannol i'r Cyngor ar drwyddedau meddalwedd, cefnogaeth a chynnal a chadw, a gofynion caledwedd a phŵer. |
| IT/IT022: Ymchwilio a gweithredu darpariaeth ail gysylltiad rhyngrwyd â'r Cyngor i ddarparu gwydnwch gwasanaeth ychwanegol. | 30/06/2017 | | | Yr arwyddion ar hyn o bryd yw y bydd y symudiad i rwydwaith Cyfuno Band Eang y Sector Cyhoeddus (PSBA) yn cael ei gwblhau erbyn Ch3 2018/19 yn dilyn cwblhau'r trefniadau cytundebol a chadarnhau cynllun gweithredu. Neilltuwyd dyraniad cyfalaf i ddarparu cyfran o'r project hwn, gyda'r Llywodraeth yn derbyn y costau sy'n weddill fel rhan o'u Grant LiDW 2 ar gyfer gwelliannau band eang ysgol. Bydd y projectau hyn yn hwyluso gweithio ystwyth ac o bell, gwell perfformiad rhwydwaith i staff sydd wedi'u lleoli mewn adeiladau'r cyngor, a darparu cyflymder rhyngrwyd ychwanegol i bob ysgol yn y Fro. |

| Camau Gweithredu Integredig y Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| FS/F044: Cefnogi projectau ail-lunio gyda chyngor ariannol a chyngor asedau eiddo. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae'r tîm Ystadau/ Eiddo yn parhau i fynychu grwpiau project ail-lunio gwasanaethau a darparu cyngor asedau/eiddo lle bo angen mewn modd amserol i lywio penderfyniadau yn effeithiol fel rhan o'r projectau ail-lunio gwasanaethau. |
| BM/F001: Gweithio gyda darparwyr annibynnol er mwyn archwilio sut rydym yn comisiynu gwasanaethau i sicrhau'r gwerth gorau am arian gyda chanlyniadau gwell i ddinasyddion. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Adolygwyd y Peilot Ffocysu ar Ganlyniadau 'Eich Dewis' a chafodd dderbyniad da gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, y darparwr peilot a phroffesiynau partner. Datblygwyd Polisi Eich Dewis (sy'n aros i gael ei gadarnhau), er mwyn galluogi amrywio contract i gael ei gyflwyno fesul cam i'r holl Asiantaethau Gofal Cartref o fis Ebrill 2018 i bob dinesydd ac ar draws pob grŵp oedran a grŵp cleient. Mae'r gwaith hwn yn gysylltiedig â'r hyn a adroddwyd o dan AS/A010. Bydd camau gweithredu newydd sy'n ymwneud â datblygiad parhaus hyn yn cael eu cynnwys yn y cynlluniau Gwasanaeth / Tîm perthnasol. |
| AS/F013: Ymgymryd ag ymarferion ail-lunio Trefniadau Gofal Seibiant Anabledd Dysgu, ein gofal preswyl mewnol a'n Gwasanaeth Pryd ar Glud. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae'r ddau broject ail-lunio wedi dod i ben yn llwyddiannus gyda'r ymarfer ail-lunio Pryd ar Glud yn dod i ben fel yr adroddwyd yn ystod chwarter 1 gyda'r Cabinet yn cymeradwyo'r cynnig i roi'r gorau i weithredu gwasanaeth mewnol. Daeth y gwaith o ail-lunio'r trefniadau Gofal Seibiant i ben yn ystod chwarter 3. O ganlyniad i wneud y gwaith hwn, ceir darpariaeth seibiant mwy priodol, hygyrch ar gyfer y rhai hynny sydd ag anghenion cymhleth lefel uchel (cynnydd o 1 - 2 wely). Hefyd, mae mwy o ddefnydd o'r Gwasanaeth Lleoli Oedolion ar gyfer seibiant i'r rhai nad oes angen darpariaeth breswyl arnynt, gan arwain at arbediad cyffredinol o £80K ym mlwyddyn 2017-18. |
| AS/F015: Cynyddu'r defnydd o ofal ail-alluogi i helpu pobl i gyflawni eu potensial am annibyniaeth a lleihau'r angen am ofal a drefnir gan y cyngor. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Yn dilyn yr oedi mewn recriwtio a adroddwyd yn y chwarter blaenorol, bellach adferwyd recriwtio gweithredol. Bydd hyn nawr yn rhaglen dreigl er mwyn sicrhau bod gwytnwch y gwasanaeth yn parhau drwy'r capasiti cynyddol. |
| AS/W007: Datblygu swyddogaeth adolygu achos gwell i wella perfformiad a sicrhau bod pobl yn derbyn lefelau gofal priodol. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae Swyddogaeth Adolygu benodol yn weithredol o fewn y Gwasanaeth Gofal Tymor Hir. Cafodd pob defnyddiwr gwasanaeth sy'n derbyn Gofal a Chymorth adolygiad a gynhaliwyd o fewn yr amserlen. Bydd y gwaith hwn yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau yn diwallu anghenion defnyddwyr y |

| Camau Gweithredu Integredig y Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | gwasanaeth orau er mwyn eu galluogi i gyflawni canlyniadau cadarnhaol. |
| SI/F012: Gweithredu trawsnewid busnes ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn unol â'r modelau cyflenwi gwasanaeth newydd. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Datblygwyd y prosesau a'r gweithdrefnau i gefnogi'r model newydd o ddarparu gwasanaethau allgymorth ac maent yn weithredol. Bellach mae gweithdrefnau atgyfeirio diwygiedig yn eu lle a meini prawf mynediad ac ymadael ar gyfer pob darpariaeth. Bydd y gwaith hwn yn helpu i sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau. |
| SL/F025: Cwblhau adolygiad o wasanaethau o dan gylch gorchwyl Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau a gweithredu'r model gwasanaeth cytunedig. | 31/07/2017 | 100 | Gwyrdd | Cymeradwywyd adroddiad y Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau gan nodi newidiadau arbedion a gwasanaethau gan y Bwrdd Ail-lunio Gwasanaethau ym mis Mehefin 2017. Ail-broffiliwyd y targed arbedion erbyn hyn gyda tharged arbedion o £250k wedi ei nodi ar gyfer 2017/18 a 350k o arbedion wedi eu dynodi ar gyfer 2018/19. Dynodwyd yr holl arbedion ar gyfer 2017/18 trwy gyfuniad o ailbroffilio gwasanaethau, dileu swyddi diangen ac effeithlonrwydd gweithredol. |
| IT/F018: Parhau i adolygu gwasanaethau a phrojectau TGCh fel rhan o Haen 1 a 2 y rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cynhyrchwyd y diweddariad diweddaraf ar y rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau ar weithredu yn Ebrill 2018. Cafodd y project ail-lunio TGCh diweddaraf sgôr COG Oren, sef gwelliant ar y statws COG Coch a briodolwyd i'r project yn Ionawr 2018. Parha'r gwaith i nodi unrhyw gontractau cynnal a chadw y codir tâl ar TGCh amdanynt ar hyn o bryd i ganfod a ddylid eu hail-godi ar feysydd busnes. Edrychodd y gwasanaeth ar opsiynau pellach ar gyfer y ffordd y mae'n cyflenwi cefnogaeth a gallodd wneud arbedion ariannol o ganlyniad. Bydd y gwaith yn parhau yn y flwyddyn ariannol nesaf i adolygu gwasanaethau a phrojectau TGCh fel rhan o Haen 2. |

| Camau Gweithredu Integredig y Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| IT/F005: Gwerthuso defnyddioldeb a chyflwyno cyfrifiadura cwmwl a storfa gwmwl i'r Cyngor. | 31/03/2018 (parhaus tan 31/12/2018) | 100 | Gwyrdd | Daeth y cam hwn i ben gyda chwblhau'r Peilot Microsoft Office 365 yn llwyddiannus. Hysbysodd hwn y cyfeiriad strategol o ran cynhyrchion Microsoft Office am y 3 blynedd nesaf. Rhagwelir y bydd y strategaeth yn cyd-fynd ac yn cael ei chydlynu dan rhaglen waith y Strategaeth Ddigidol, a fydd yn cynnwys gwerthusiad parhaus o gyfrifiadura cwmwl a gaiff ei fonitro yn erbyn FIT/F009 yn 2018/19. |
| HR/W001: Darparu cefnogaeth rheoli newid i reolwyr mewn perthynas â phrojectau ail-lunio penodol. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae Partneriaid Busnes AD a phartneriaid Busnes Cynorthwyol yn parhau i gefnogi rheolwyr yn Adolygiadau Rheoli Newid. Parheir i roi cefnogaeth mewn perthynas â phroject Ysgolion Cyd-addysgol y Barri a'r ymarfer rheoli newid gweladwy a chludiant. Bydd AD yn parhau i ddarparu cefnogaeth ail-lunio yn 2018/19 fel yr amlinellir yn y Cynllun Gwasanaeth Adnoddau Dynol. |
| HR/W015: Cyfrannu at gyflwyno newid sefydliadol fel rhan o'r agenda Ail-lunio Gwasanaethau ac unrhyw oblygiadau AD sy'n codi o ganlyniad. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cynhaliwyd cefnogaeth AD trwy gydol y flwyddyn ar bob project ail-lunio. Mae hyn wedi cynnwys gweithredu ailstrwythuro'r Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth yn barod i'w gweithredu ar 1 Ebrill 2018. Parhaodd cefnogaeth mewn perthynas ag Ysgol Gyfun y Barri a darpariaeth gydaddysgol Bryn Hafren. Cynhaliwyd sesiynau briffio a sesiynau datblygu rheolwyr Prif Swyddogion yn ystod Chwarter 4 i gefnogi ail-lunio a thrafod canlyniadau staff. Bydd y gefnogaeth hon yn parhau i 2018/19 fel yr amlinellir yn y Cynllun Gwasanaeth Adnoddau Dynol i gefnogi darparu gwasanaethau cost-effeithiol a chynaliadwy am y tymor hir. |

| Camau Gweithredu Integredig y Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| HR/C018: Parhad a gwerthuso dull ymgysylltu â staff a rheoli'r rhaglen waith gysylltiedig 2017/18 (yn cynnwys gwerthusiad o effeithiolrwydd Siarter Staff a'r cynnydd a wnaed). | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cyhoeddwyd canlyniadau'r arolwg staff yn ystod C4 a chawsant eu hystyried yn y gwahanol sesiynau datblygu, i gymharu â chanlyniadau arolwg y flwyddyn flaenorol a'u defnyddio i helpu i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n cwsmeriaid drwy ymgysylltu a chefnogaeth gan ein staff. Gweler y canlyniadau ar Staffnet.<br><br>Mae rhai uchafbwyntiau allweddol o arolwg 2017 yn cynnwys; derbyniodd yr honiad 'ymddiriedir ynof i gael ymlaen â'm swydd' yr ymateb mwyaf positif i'r cyngor gyda 92.50% o ymatebwyr yn dweud eu bod yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad (mae hyn yn welliant pellach ar y 91.50% yn 2016) a gwellodd ymatebion i 15 allan o'r 20 datganiad o'i gymharu â chanlyniadau 2016. Yn seiliedig ar ganfyddiadau Arolwg Staff 2017, datblygwyd cynllun gweithredu ar gyfer 2018 i sicrhau ein bod yn parhau i wella ymgysylltiad staff. |
| HR/F019: Ymgymryd â'r gwaith paratoi i sicrhau bod y gwasanaeth yn cyfrannu at ganfod arbedion o £800,000 sy'n ofynnol gan y Gyfarwyddiaeth Adnoddau yn 2017/18 yn Haen 2. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Yn ystod 2017/18, mae'r gwasanaeth wedi ymateb i dargedau arbedion y Gyfarwyddiaeth yn dilyn ailstrwythuro'r swyddogaeth AD. Gwnaed gwaith yn ystod Ch4 i archwilio cyfleoedd i wneud rhagor o arbedion yn y dyfodol. Bydd y gwasanaeth yn canolbwyntio ar gyfrannu tuag at targed arbedion o £600,000 yn y Cyfarwyddiaethau yn 2018/19. |
| FS/F043: Ymgymryd â'r gwaith paratoi i sicrhau bod y gwasanaeth yn cyfrannu at ganfod arbedion o £800,000 sy'n ofynnol gan y Gyfarwyddiaeth Adnoddau yn 2017/18. (Haen 2). | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Nodwyd yr holl arbedion gwasanaeth ar gyfer 2017/18, gan gyfrannu tuag at arbedion Cyfarwyddiaethau o £800,000 ar gyfer 2017/18. |
| PD/F027: Ymgymryd â'r gwaith paratoi i sicrhau bod y gwasanaeth yn cyfrannu at ganfod arbedion o £800,000 sy'n ofynnol gan y Gyfarwyddiaeth Adnoddau yn 2017/18. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae'r holl wasanaethau o fewn y Gyfarwyddiaeth Adnoddau yn gweithio tuag at gyrraedd y targed arbedion o £800,000 ar gyfer 2017/18 ac maent yn rhagweld y byddant yn cyflawni hyn yn llawn. |

| Camau Gweithredu Integredig y Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| DS/F016: Ymgymryd â'r gwaith paratoi i sicrhau bod y gwasanaeth yn cyfrannu at ganfod arbedion o £800,000 sy'n ofynnol gan y Gyfarwyddiaeth Adnoddau yn 2017/18. (Haen 2). | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Ers mis Rhagfyr 2017, mae'r gwasanaeth wedi cyfrannu at arbedion y gyfarwyddiaeth trwy gyflwyno gwahanol wasanaethau newydd sydd wedi cynhyrchu incwm. |
| LS/F012: Ymgymryd â'r gwaith paratoi i sicrhau bod y gwasanaeth yn cyfrannu at ganfod arbedion o £800,000 sy'n ofynnol gan y Gyfarwyddiaeth Adnoddau yn 2017/18. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Bodlonwyd y targed arbedion a osodwyd ar gyfer y Gwasanaethau Cyfreithiol i gyfrannu at y targed arbedion o £800,000 i'r Cyfarwyddiaethau Adnoddau yn 2017/18. |
| FS/F021: Ymgymryd ag Ymgynghoriad Cyllideb ar gyfer cyllideb 2018/19 gyda phreswylwyr a phartneriaid allweddol. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cynhaliwyd ymgynghoriad cyllideb 2018/19 o 8fed Rhagfyr 2017 tan 19eg Ionawr 2018 gan groesawu ymatebion gan drigolion a rhanddeiliaid allweddol eraill i ddweud eu dweud. Derbyniodd yr ymgynghoriad 310 o ymatebion, a chafodd y canfyddiadau eu hadrodd i'r Cabinet ar 18fed Chwefror 2018 fel rhan o'r broses gosod cyllidebau. Mae'r canfyddiadau i'w gweld ar wefan y cyngor yn http://www.bromorgannwg.gov.uk. |
| FS/F017: Parhau i ymateb i arbedion cyllidebol fel y mae targedau ei angen. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Bodlonwyd yr holl arbedion cyllideb a nodwyd ar gyfer Cyllid yn 2017/18 gan gyfrannu tuag at darged arbedion y Gyfadran Adnoddau o £800,000 am y flwyddyn. |
| PD/F025: Parhau i ymateb i arbedion cyllideb ar gyfer 2017/18. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae trafodaethau yn parhau o fewn Perfformiad a Datblygiad er mwyn nodi arbedion cyllidebol pellach yn ôl yr angen. |
| FS/F019: Cydlynu adolygiad o gyfleoedd cynhyrchu incwm yn gorfforaethol a gweithredu Strategaeth Cynhyrchu Incwm. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cymeradwywyd y Strategaeth Cyfleoedd Incwm a Masnachol 2017-2020 gan y Cabinet ar 23ain Hydref 2017 i gefnogi cyflenwi blaenoriaethau a gweledigaeth y Cyngor ac fe'u trafodwyd ymhellach yn y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2017 i sicrhau bod gennym ddull cydlynol a chyson o sicrhau cynhyrchu incwm. Bellach sefydlwyd Bwrdd Rhaglen Cynhyrchu Incwm sy'n cwrdd yn rheolaidd i edrych ar syniadau a dewisiadau sy'n dod i'r amlwg a fydd yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Cabinet. |

| Camau Gweithredu Integredig y Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| CS/F001: Cydymffurfio â Rhaglen Gyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol a thargedau cysylltiedig. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc (CYPS) yn rhan o raglen gyllideb y Gyfarwyddiaeth ac yn sicrhau bod monitro’r gyllideb yn cael ei flaenoriaethu i gefnogi cyflenwi’r gwasanaeth yn y gyllideb. Nodwyd pwysau costau ac mae'r rhain yn cael eu hystyried fel rhan o broses gyllidebol y Cyngor. |
| VS/F022: Gweithredu'r newidiadau sy'n gysylltiedig â thrawsnewid busnes Gwasanaethau Gweledol a Thrafnidiaeth a chyflawni arbedion gwerth cyfanswm o £525k yn 2017/18. | 31/12/2017 | 100 | Gwyrdd | Yn dilyn yr ymgynghoriad gyda'r staff a'r undebau llafur a gynhaliwyd yn y chwarter blaenorol ar y Model Gwasanaeth Cymdogaeth a Thrafnidiaeth newydd a oedd yn cynnwys yr holl ddisgrifiadau swyddi newydd, cymeradwywyd y strwythur diwygiedig gan aelodau'r Cabinet ar 6 Tachwedd 2017 ac fe'i gweithredwyd yn llwyddiannus ar 1 Ebrill 2018 fel y cynlluniwyd. |
| FS/AM022: Cynnal adolygiad o lety swyddfa/ llety di-swyddfa, rheoli cyfleusterau ac adeiladau corfforaethol yn cynnwys sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth adeiladu cyhoeddus. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cwblhawyd yr holl gamau a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn. Mae project SPACE y Swyddfeydd Dinesig i'w gwblhau ar 4 Mai 2018 gyda'r materion cydymffurfio trydanol sy'n weddill wedi'u datrys (fel y nodwyd yn FS/AM023). Byddwn yn parhau i adolygu swyddfeydd a llety di-swyddfa, rheoli cyfleusterau ac adeiladau corfforaethol fel rhan o broject SPACE yn 2018/19 fel yr amlinellir yn y Cynllun Gwasanaeth Cyllid a TGCh. |
| PD/F024: Cyfrannu at ddatblygu rhaglen o hyfforddiant i gefnogi rheolwyr wrth gyflenwi'r Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cynhaliwyd sesiynau rhaglen datblygu rheolaeth trwy gydol y flwyddyn – y rhai diweddaraf oedd sesiynau’r gwanwyn, a gyflwynwyd i oddeutu 300 o arweinwyr tîm a rheolwyr ac yn canolbwyntio ar elfen "Rheoli fy Hun" o'r fframwaith cymhwysedd gyda phwyslais ar gyfathrebu, ymgysylltu a newid. Mae cefnogaeth benodol i dimau project Ail-lunio yn parhau i gael ei nodi a'i chyflenwi yn ôl yr angen. |

| Camau Gweithredu Integredig y Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| AS/F014: Datblygu ymhellach y defnydd o daliadau uniongyrchol gyda phwyslais penodol ar anabledd dysgu. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | O'r pecynnau talu uniongyrchol newydd yn 2016/17, roedd 8 pecyn Anableddau Dysgu, ac yn 2017/18 roedd 10 pecyn. Bu rhaid i'r swyddog Taliadau Uniongyrchol roi blaenoriaeth i dderbynwyr Cronfa Byw'n Annibynnol Cymru (WILG) yn Ch4 (roedd gan lawer ohonynt eisoes elfen o'u pecyn a dalwyd fel taliadau uniongyrchol) dros y 54 atgyfeiriad newydd arall, ac felly gostyngodd y nifer ychydig. Byddwn yn parhau i gynyddu'r ddarpariaeth a'r nifer sy'n manteisio ar daliadau uniongyrchol yn 2018/19 fel yr amlinellwyd yng Nghynllun Gwasanaeth Gwasanaethau Oedolion. |
| CS/F008: Gweithio gydag Addysg i gefnogi eu rhaglen waith i gytuno ar fodel o flaenoriaethau gwasanaeth a chomisiynu ar gyfer Tŷ Deri. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cyfrannodd y Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc (CYPS) at yr adolygiad cyfredol a wneir gan Dysgu a Sgiliau a gyflwynwyd i'r Cabinet ym mis Chwefror 2018. |
| IT/F017: Mireinio'r Strategaeth TGCh ymhellach i sicrhau bod ganddi weledigaeth ac amcanion clir y gellir eu halinio i'r Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau ac sy'n ein galluogi i gyflawni ein rôl fel galluogydd corfforaethol. | 31/03/2018 | 80 | Coch | Eisoes roedd canlyniadau project yn ymwneud â'r Strategaeth Ddigidol wedi'u cymeradwyo gan y Bwrdd Project Digidol ac mae arweinwyr thema ddigidol yn datblygu Cynlluniau Gweithredu. Unwaith y bydd y rhain wedi'u cwblhau, byddant yn manylu ar y gofynion busnes y bydd angen rhoi cyfrif amdanynt yn y Strategaeth TGCh wedi'i diweddaru. Mae'r 'Cynlluniau Gweithredu' Digidol yn dal i gael eu mireinio a bydd y strategaeth TGCh yn cael ei diweddaru pan gaiff y rhain eu cymeradwyo. Mae'r Strategaeth Ddigidol i fod i gael ei lansio'n swyddogol i staff yn Ch1 2018/19. |

| Camau Gweithredu Integredig y Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| IT/IT019: Cefnogi gweithrediad Strategaeth Ddigidol y Cyngor. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae gwaith yn parhau i gefnogi cyflenwi Strategaeth Ddigidol y Cyngor (2017-2020). Cymeradwywyd y canlyniadau project sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth Ddigidol gan y Tīm Rheoli Corfforaethol a'r Bwrdd Project Digidol. Mae arweinwyr thema digidol wrthi'n drafftio cynlluniau gweithredu. Bydd y cynlluniau hyn yn esblygu ac yn ehangu wrth i gyfleoedd 'Digidol' eraill gynnig eu hunain yn y blynyddoedd i ddod ar draws y Busnes. Bydd y gofynion yn parhau i fwydo i Strategaeth TGCh wedi'i diweddaru a fydd yn ei thro yn hysbysu cynllun o waith i'w gweithredu. Mae'r Strategaeth Ddigidol i fod i gael ei lansio yn ffurfiol i staff yn Ch1 2018/19.<br><br>Mae'r gwaith penodol a wnaed o dan y Strategaeth Ddigidol yn y chwarter hwn yn cynnwys:<br>• Cynrychiolaeth CT ar y Bwrdd Digidol, Bwrdd Thema'r Gwasanaeth Cwsmeriaid Digidol, Bwrdd Thema'r Gweithlu Digidol;<br>• Penderfyniad ar gaffael Office 365 i hwyluso mwy o weithio symudol ac ystwyth (mae tendr allan ar hyn o bryd ar hyn);<br>• Dechrau'r project i uwchraddio Rhwydwaith Ardal Eang y Cyngor a gwella'r lled band ar gyfer pob ysgol yn y Fro;<br>• Cwblhau'r ymarfer tendro i nodi'r cyflenwr a ffefrir i ddarparu Dyfeisiau Aml-Swyddogaeth i gefnogi Strategaeth Argraffu y Cyngor. |

| Camau Gweithredu Integredig y Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| IT/W020: Parhau i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i weithio'n ystwyth o fewn y gwasanaeth ac ar draws y Cyngor. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Bydd y gwaith dan y weithred hon yn cyd-fynd yn agos â chamau o dan y thema 'Gweithlu Digidol' a chefnogir yr holl allbynnau a nodwyd yn y thema honno. Mae projectau a datrysiadau TGCh eleni wedi llwyddo i hyrwyddo Aelodau Etholedig, Staff Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir, ayb, ac wedi hwyluso symud staff o dan y Project SPACE. Mae nifer o brojectau Ail-lunio Gwasanaethau ar hyn o bryd yn y cam cynllunio sydd â gofyniad i ysgogi staff.<br><br>Cafwyd cyfarfodydd cychwynnol y project yn Ch4 i reoli gweithrediad a chyflwyno fesul cam weithio symudol ar draws y Cyngor yn ôl yr angen. Mae'r graddfeydd amser dangosol ar hyn o bryd yn rhagweld cwblhau project yn Ch2 neu Ch3 2018/19. |
| IT/F021: Cyflawni'r arbedion angenrheidiol o £400k ar gyfer y Gwasanaeth TGCh yn 2017/18. | 31/03/2018 | 80 | Coch | Parha'r weithred hon i fod yn her fawr i'r gwasanaeth. Hyd yma, mae’r cyfrifwyr eto i gadarnhau'r ffigwr diffygion gwirioneddol ond bydd y gwaith yn parhau yn 2018/19 i gyflawni'r arbedion angenrheidiol. Parha’r gwaith i gael ei gynnal i adolygu'r holl gontractau o fewn y gwasanaeth i sicrhau bod y gwasanaeth yn dal yn ofynnol a'r costau'n rhesymol. |
| IT/C023: Datblygu CLGau gydag ysgolion i wneud y mwyaf o gydweithio a chyfleoedd ar gyfer cynhyrchu incwm. | 31/03/2018 | | | Mae'r cwestiwn ynghylch a fydd TGCh yn cymryd drosodd y gefnogaeth TGCh i ysgolion wedi'i adolygu a gwnaed penderfyniad strategol y bydd TGCh yn parhau i aros gydag ysgolion. Gweithredir gwasanaeth cymorth newydd ym mis Ebrill 2019. |
| IT/F024: Parhau i gefnogi ail-leoli staff, fel rhan o'r Project SPACE sydd wedi cynnwys ail-geblu/rhwydweithio'r Swyddfeydd Dinesig. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae TGCh yn parhau i gefnogi symudiad staff o dan y Project SPACE fel bo'r angen. Dros y flwyddyn, bu TGCh yn cefnogi symudiadau SPACE ar gyfer yr holl staff yng Ngham 2 y project. |

| Camau Gweithredu Integredig y Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| IT/W025: Parhau i gyflwyno'r rhaglen adnewyddu technoleg ar gyfer staff ac aelodau etholedig. | 31/05/2017 i aelodau etholedig 31/03/2018 i staff | 100 | Gwyrdd | Yn dilyn adnewyddiad technoleg yr Aelodau a gwblhawyd yn llwyddiannus yn gynharach yn y flwyddyn, mae hwn bellach yn fusnes fel arfer gyda cefnogaeth yn cael ei rhoi i'r aelodau yn ôl yr angen. Gwnaed gwaith hefyd yn yr adnewyddiad technoleg ehangach ar gyfer staff. Adolygir y gofynion TGCh ar gyfer staff yn unigol er mwyn sicrhau bod ganddynt yr offer priodol i ymgymryd â'u rôl. |
| IT/IT026: Dadgomisiynu caledwedd gweinydd ffisegol a mudo ceisiadau i ganolfan ddata newydd o Ystafell Gweinydd y Dwyrain i gefnogi'r Project SPACE. | 31/03/2018 (parhaus tan 31/05/2018) | 100 | Gwyrdd | Mae mudo'r data i'r ganolfan ddata newydd bellach wedi'i gwblhau ac mae Ystafell Gweinydd y Dwyrain wedi cael ei rhoi yn ôl i'r Project SPACE i'w Hailddefnyddio. Mae'r caledwedd newydd bellach ar waith yn y Ganolfan Ddata TGCh a leolir yn islawr y Swyddfa Ddinesig. |
| IT/W027: Gweithredu ailstrwythuro'r gwasanaeth TGCh. | 30/06/2017 | 100 | Gwyrdd | Cwblhawyd yr Ailstrwythuro TGCh eleni a chyda dyddiad gweithredu ar 1 Mehefin 2017. Ers ei weithredu, rydym wedi parhau i weithio tuag at recriwtio i lenwi unrhyw swyddi gwag yn dilyn yr ailstrwythuro. |
| SL/F037: Cyflwyno cardiau credyd i ysgolion. | 30/09/2017 | 15 | Coch | Ni all cyllid canolog ond hwyluso cyflwyno 6 ysgol ar y tro trwy beilot, sy'n gohirio cyflwyno'r cardiau credyd i ysgolion. Mae'r broses ymuno yn un hir, sydd hefyd wedi achosi oedi o ran y nifer a fanteisiodd ar y cynllun. Ar hyn o bryd, dim ond 3 ysgol sydd wedi'u llofnodi'n llwyr i'r cynllun, ond mae 4 arall yn cael eu gweinyddu ar hyn o bryd a byddant yn eu lle erbyn Ebrill 2018. Mae oedi o ran cael adrannau eraill i gytuno ar y cynllun wedi oedi'r project cyfan, a fydd nawr yn llithro'i mewn i'r flwyddyn ariannol nesaf. |
| SL/F038: Adolygu contractau ar draws y gwasanaeth. | 31/03/2018 (parhaus) | 100 | Gwyrdd | Yn dilyn yr adolygiad o gontractau a'r ddarpariaeth gwasanaeth allanol a gynhaliwyd, gwnaed newidiadau mewn contract o ran caffael i gontractau i sicrhau eu bod bellach yn cyd-fynd â pholisi corfforaethol. Mae'r gwaith hwn wedi sicrhau y dangosir gwerth am arian gyda chontractau ar draws y gwasanaeth. |

| Camau Gweithredu Integredig y Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| SRS/F029: Adolygu contractau cyfredol gyda'r holl gyfleusterau darparwyr llety cŵn gyda'r bwriad o sicrhau darpariaeth barhaus ar draws y rhanbarth. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Daeth contractau newydd gyda darparwyr llety cŵn i rym ar 1 Ebrill 2018. Cyflawnodd y trefniadau newydd effeithlonrwydd a chysondeb wrth ddarparu'r gwasanaeth cŵn crwydr ar draws y rhanbarth SRS. Yn benodol mewn perthynas â Bro Morgannwg, mae Rescue Hope yn Llanharan yn gofalu am gŵn sy'n crwydro yn rhan orllewinol y sir, tra bod y rhai sy'n crwydro yn rhan ddwyreiniol y sir yn cael eu cludo i Gartref Cŵn Caerdydd. Mae cyfleusterau derbyn cŵn y tu allan i oriau arferol ar waith yn y ddau le. |
| **CP2** | | | | |
| HR/W020: Adolygu Cynllun Gweithlu Corfforaethol y Cyngor. | 30/09/2017 | 100 | Gwyrdd | Cynhaliwyd adolygiad o flaenoriaethau'r gweithlu corfforaethol fel rhan o'r sesiwn datblygu uwch reolwyr yn chwarter 3 a bydd nawr yn sail i adnewyddu'r Cynllun Gweithlu Corfforaethol yn 2018/19. |
| HR/W021: Gweithredu Strategaeth Hyfforddi a Datblygu ddiwygiedig. | 31/03/2018 | | | Bellach, cwblhawyd Penodiadau'r Ymgynghorydd Datblygiad Sefydliadol (OD) a'r Swyddog OD, gyda'r recriwtiaid newydd yn dechrau ym mis Ebrill/Mai 2018. Ail-ddyluniwyd System Rheoli Dysgu i gefnogi symud tuag at ddysgu cyfunol – trrefnwyd y dyddiad rhyddhau ar 16 Ebrill 2018.<br>Mae angen rhywfaint o waith pellach i greu dangosyddion perfformiad allweddol (KPIs) ac i gofnodi'r Polisi Dysgu a Datblygu (L&D) a Chymwysterau. Caiff y cam hwn ei ddwyn ymlaen i 2018/19. |
| HR/W023: Gwerthuso'r cynllun cynllunio olyniaeth a chynllun rheoli talentau ac ymestyn y model cynllunio olyniaeth hwn ledled y Cyngor. | 31/03/2018 | | | Yn ddiweddar, penododd y Gwasanaeth ddau aelod o staff sydd i ddechrau yn ystod Ch1 2018/19 ac felly bydd yr adolygiad o'r broses cynllunio olyniaeth a'r cynllun rheoli talentau yn cael ei wneud yn ystod 2018/19, ynghyd â gwaith parhaus i wella'r prosesau fel yr amlinellwyd o dan AD/W038 yn y Cynllun Gwasanaeth Adnoddau Dynol. |
| HR/W026: Archwilio'r trefniant ar gyfer gweithredu'r gwasanaeth Iechyd a Diogelwch a rennir gyda Chyngor Pen-y-bont ar Ogwr. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Bellach, cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd gyda Phen-y-bont ar Ogwr i archwilio'r opsiwn o wasanaeth a rennir ar iechyd a diogelwch a fyddai'n arwain at bwysau llai o ran costau a mwy o wydnwch wrth gyflenwi gwasanaethau. Cwblhawyd dadansoddiad gweithgarwch cymharol ac rydym bellach yn y broses o orffen y Dewisiadau a |

| Camau Gweithredu Integredig y Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Safonau. Mae penderfyniad ar gydweithio i'w wneud erbyn diwedd Ebrill 2018. |
| HR/W008: Parhau â Chaffi Arweinyddiaeth y Cyngor i gefnogi datblygu arweinyddiaeth a'r Strategaeth Ail-lunio Gwasanaethau. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae calendr Caffi Arweinyddiaeth 2018 wedi'i sefydlu ac mae'n rhedeg yn effeithiol gyda digwyddiadau yn chwarter olaf y flwyddyn yn seiliedig ar 'Dysgu i Ddysgu', ' Y Clogwyn Gwydr' a 'Gweithio mewn Timau'. Byddwn yn parhau i werthuso pob digwyddiad, ac yn adolygu'r cynnydd gyda'r pwyllgor caffi arweinyddiaeth i wella digwyddiadau yn y dyfodol. Bu ymatebion gan y rhai a fynychodd yn bositif yn 2017/18 fel y nodwyd yn chwarter 3, gyda 73% o'r rhai a fu'n bresennol yn sgorio'r digwyddiad fel naill ai 4* neu 5*. Bellach, cyhoeddwyd rhaglen o ddigwyddiadau ar gyfer 2018 ar StaffNet yn hysbysebu pob digwyddiad misol a gynlluniwyd trwy gydol y flwyddyn. |
| HR/W025: Cychwyn gweithrediad y model Gweithredu Adnoddau Dynol newydd (Canolfan Gwasanaeth a Rennir Adnoddau Dynol a dull partneriaeth busnes). | 31/12/2017 | 100 | Gwyrdd | Lansiwyd y Strwythur Adnoddau Dynol newydd ar 6 Tachwedd 2017 ac mae'r holl swyddi o fewn y timau Partneriaeth Busnes a Gwasanaethau Gweithwyr wedi'u llenwi erbyn hyn. Mae trefniadau pontio yn parhau, fel ag y mae'r rhaglen o symleiddio prosesau ac archwilio cyfleoedd digidol. Cynorthwya'r model Adnoddau Dynol newydd i symleiddio'r broses o gyflenwi gwasanaethau Adnoddau Dynol i ddarparu fframwaith ar gyfer uwchsgilio staff a rhannu sgiliau. |
| HR/W024: Lansio a gweithredu'r Fframwaith Cymhwysedd Rheoli. | 31/03/2018 (parhaus tan 30/09/2018) | 100 | Gwyrdd | Lansiwyd y Fframwaith Cymhwysedd Rheoli newydd ym mis Ebrill 2017. Mae'r fframwaith yn nodi 5 maes allweddol; rheoli fy ngwaith, rheoli'r tîm, rheoli'r dyfodol, rheoli fy hun a rheoli perthnasoedd. Dros y flwyddyn, cynhaliwyd nifer o sesiynau datblygu rheolwyr, gyda’r rheolwyr yn canolbwyntio ar reoli'r dyfodol, y Strategaeth Ddigidol a masnacheiddio. Cynhaliwyd sesiynau briffio a sesiynau datblygu rheolwyr i Brif Swyddogion yn ystod Chwarter 4 yn unol â'r Fframwaith Cymhwysedd Rheoli newydd. Mae'r gwaith hwn wedi helpu i sicrhau bod rheolwyr yn cael eu huwchsgilio i gyflawni eu rolau yn effeithiol ac i gwrdd â'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor a'r ffyrdd newydd o weithio fel rhan o'r rhaglen Ail-lunio Gwasanaeth. Symudir y gwaith parhaus ar y Fframwaith ymlaen gyda chymorth y Rheolwr Datblygu |

| Camau Gweithredu Integredig y Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Sefydliadol a Hyfforddiant. |
| HR/W022: Cynnal adnewyddiad o raglen sefydlu'r Cyngor i gryfhau gwybodaeth a dealltwriaeth o weledigaeth a gwerthoedd y Cyngor a sut mae hyn yn ymwneud â'r gweithiwr. | 30/09/2017 | 100 | Gwyrdd | Lansiwyd y rhaglen ymsefydlu "Croeso i'r Fro" newydd ym mis Ebrill 2017 gyda chanlyniadau gwerthuso rhagorol. Cynhaliwyd yr adnewyddiad sefydlu corfforaethol i sicrhau ein bod yn adeiladu gweithlu gwydn, yn cryfhau gwybodaeth a dealltwriaeth staff o weledigaeth a gwerthoedd y Cyngor a sut y gall staff gyfrannu at gyflawni ein hamcanion corfforaethol. |
| HR/W009: Parhau i adolygu a chryfhau'r trefniadau rheoli perfformiad a chymorth mewn perthynas â rheoli presenoldeb. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae'r trefniadau rheoli perfformiad cadarn a gytunwyd gan y Cabinet wedi parhau trwy gydol y flwyddyn. Parheir i adolygu lefelau absenoldeb bob mis yn y CMT a phob DMT. Yn ôl chwarter 4 ac i'r dyfodol, bydd adroddiadau misol yn cael eu dosbarthu i reolwyr perthnasol eu gweithredu. Darparwyd hyfforddiant ychwanegol i reolwyr, a rhoddwyd trefniadau yn eu lle i fonitro cydymffurfiaeth â pholisi. Adolygwyd y polisi wedyn gyda'r Undebau Llafur a'i ddiwygio i adlewyrchu'r model gweithredu AD newydd.<br><br>Yn achos y Gwasanaeth Adnoddau Dynol, yn ystod chwarter 4, collodd y gwasanaeth 3.78 diwrnod fesul CALI oherwydd absenoldeb salwch, mae hyn yn rhwydd o fewn targed y Gyfarwyddiaeth o 6.00 diwrnod ar gyfer y cyfnod. |
| **Cyfraniadau gwasanaeth eraill i CP2: Alinio'r Cynllun Gweithlu i'r Strategaeth Ail-lunio Gwasanaethau, gan sicrhau bod gan staff y sgiliau a'r hyfforddiant angenrheidiol i addasu i'r newidiadau yn y modd y caiff gwasanaethau eu cynllunio a'u cyflenwi. Mae'r canlynol yn cynrychioli trosolwg o gyfraniadau gwasanaethau eraill i alinio'r Cynllun Gweithlu gyda'r Strategaeth Ail-lunio Gwasanaeth'r Cyngor yn Ch4. Derbynia'r holl aelodau etholedig ddiweddariad manwl rheolaidd ar y cynnydd a wneir ar y Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau a'r projectau cysylltiedig. Ystyrir y cynnydd ar brojectau unigol gan y Pwyllgorau Craffu perthnasol sydd â'r cylch gwaith ar gyfer y meysydd gwasanaeth hynny.** | | | | |
| VS/W003: Adolygu a chryfhau'r trefniadau rheoli perfformiad mewn perthynas ag absenoldeb salwch gyda'r gwasanaeth. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Ystyrir salwch ym mhob agenda tîm rheoli. Am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018, collodd yr Is-adran gyfanswm o 15.75 diwrnod ar gyfer pob CALI. Mae'r mwyafrif o ddyddiau a gollir yn cael eu priodoli i salwch hirdymor sy'n cyfrif am 12.51 fesul CALI. Mae hyn yn gynnydd sylweddol o tua 25% dros y flwyddyn flaenorol. |

| Camau Gweithredu Integredig y Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| FS/W031: Parhau i adolygu a chryfhau'r trefniadau rheoli perfformiad a chymorth mewn perthynas â rheoli presenoldeb. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Parha'r gwasanaeth i fonitro lefelau absenoldeb a darparu cefnogaeth briodol i staff. Yn ystod chwarter 4, collodd y gwasanaeth Cyllid (gan gynnwys Swyddfa'r Cyfarwyddwr) gyfanswm o 7.06 diwrnod fesul CALI sy'n fwy na'r targed Cyfarwyddiaeth o 5.40 diwrnod. |
| SL/W023: Adolygu a chryfhau'r trefniadau rheoli perfformiad a chymorth mewn perthynas ag absenoldeb salwch yn y gwasanaeth. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Parheir i weithredu’r trefniadau rheoli perfformiad a'u gwreiddio trwy gyfarfodydd tîm a Gwasanaeth. Yn chwarter 4, collodd y gwasanaeth Cyflawniad i Bawb gyfanswm o 9.31 diwrnod ar gyfer pob CALI, y mwyafrif yn deillio o salwch hirdymor (6.29 diwrnod), gan fethu targed y Gyfadran o 8.30 diwrnod. |
| BM/W002: Adolygu a chryfhau'r trefniadau rheoli perfformiad mewn perthynas ag absenoldeb salwch yn y gwasanaeth. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Parha'r Adran i reoli staff yn rhagweithiol yn effeithiol drwy'r polisi hwn. Mae’n parhau i fod ar bob agenda DMT a thrafodaethau goruchwylio. Yn ystod chwarter 4, collodd y Gwasanaeth Rheoli Adnoddau a Diogelu (gan gynnwys Swyddfa'r Cyfarwyddwr) gyfanswm o 14.20 diwrnod fesul CALI oherwydd salwch, a phriodolir y mwyafrif i salwch hirdymor (10.31 diwrnod). Gwelir bod y gwasanaeth yn methu targed y Gyfadran o 8.78 diwrnod. |
| SI/W011: Adolygu a chryfhau'r trefniadau rheoli perfformiad a chymorth mewn perthynas ag absenoldeb salwch yn y gwasanaeth. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Parha’r trefniadau rheoli perfformiad i gael eu gweithredu a’u gwreiddio trwy gyfarfodydd tîm a Gwasanaeth. Yn chwarter 4, collodd y gwasanaeth Cyrhaeddiad i Bawb gyfanswm o 11.46 diwrnod fesul CALI, y mwyafrif yn deillio o salwch hirdymor (8.86 diwrnod), gan fethu targed y Gyfadran o 8.30 diwrnod. |
| PD/W007: Adolygu a chryfhau'r trefniadau rheoli perfformiad mewn perthynas ag absenoldeb salwch yn y gwasanaeth. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Yn chwarter 4, collodd y Gwasanaeth Perfformiad a Datblygu gyfanswm o 12.96 diwrnod fesul CALI oherwydd salwch, gan fethu targed y Gyfadran o 5.80 diwrnod. Gellir dadansoddi'r absenoldeb salwch ar gyfer y gwasanaeth i 5.74 o ddiwrnodau a gollwyd oherwydd salwch tymor byr a 7.22 o ddiwrnodau oherwydd salwch hirdymor. Bydd rheolaeth absenoldeb yn parhau i gael ei fonitro. |

| Camau Gweithredu Integredig y Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| DS/W003: Adolygu a chryfhau'r trefniadau rheoli perfformiad mewn perthynas ag absenoldeb salwch yn y gwasanaeth. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Dros y flwyddyn, collodd y Gwasanaethau Democrataidd 17.90 diwrnod fesul CALI oherwydd absenoldeb salwch. Yn bennaf, roedd hyn yn cynnwys absenoldebau salwch hirdymor, a oedd yn cyfrif am 13.92 o'r dyddiau a gollwyd, gan fethu targed y Gyfadran o 5.80 diwrnod ar gyfer y cyfnod. Ar ddiwedd y flwyddyn, nid oedd unrhyw weithwyr ar absenoldeb salwch hirdymor. |
| RP/W002: Adolygu a chryfhau'r trefniadau rheoli perfformiad mewn perthynas ag absenoldeb salwch yn y gwasanaeth. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Parheir i fonitro rheolaeth absenoldeb yn fanwl gan yr holl reolwyr gyda'r nod o sicrhau gostyngiad cyffredinol mewn salwch sy'n effeithio ar y gwasanaeth. Canolbwyntiodd rheolwyr yn benodol ar nifer fechan o achosion salwch hirdymor lle mae staff wedi cael cymorth yn ôl i'r gwaith.Yn ystod 2017/18, collwyd 9.87 diwrnod fesul CALI, gan fethu targed y Gyfadran o 5.80 diwrnod ar gyfer y cyfnod. |
| HS/W020: Adolygu a chryfhau'r trefniadau rheoli perfformiad a chymorth mewn perthynas ag absenoldeb salwch yn y Gwasanaeth Tai. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Bellach, adolygir absenoldeb salwch ym mhob tîm rheoli a chyfarfodydd tîm gwasanaeth. Mae meysydd gwasanaeth wedi gwreiddio prosesau i sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisi salwch. Yn chwarter 4, collodd y Gwasanaethau Tai 9.89 diwrnod fesul CALI oherwydd absenoldeb salwch gan arwain at i'r gwasanaeth aros o fewn targed y Gyfadran o 11.70 diwrnod. Gellir dadansoddi salwch y gwasanaeth fel 4.10 diwrnod oherwydd salwch tymor byr a 5.79 oherwydd salwch hirdymor. Collodd gwasanaethau adeiladu 12.49 diwrnod fesul CALI yn ystod y flwyddyn, gyda'r mwyafrif o absenoldebau salwch yn cael eu priodoli i salwch hirdymor (9.05 diwrnod), gan arwain at fethu'r targed o 11.70 diwrnod. |
| LS/W013: Adolygu a chryfhau'r trefniadau rheoli perfformiad a chymorth mewn perthynas ag absenoldeb salwch yn y gwasanaeth. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Yn ystod chwarter 4, collodd y Gwasanaethau Cyfreithiol 2.25 diwrnod fesul CALI oherwydd absenoldeb salwch - dim ond absenoldeb salwch tymor byr a gafwyd. Mae hyn yn rhwydd o fewn targed y Gyfadran o 5.80 diwrnod am y cyfnod. |

| Camau Gweithredu Integredig y Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| IT/W015: Adolygu a chryfhau'r trefniadau rheoli perfformiad a chymorth mewn perthynas ag absenoldeb salwch yn y gwasanaeth. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Fel rhan o'r ailstrwythuro TGCh, cyflwynwyd Tîm Cymorth Busnes newydd i reoli ac adrodd ar berfformiad a threfniadau salwch fel rhan o'u cylch gorchwyl llawer ehangach, a bydd y gwaith hwn yn parhau trwy gydol y flwyddyn. Yn ystod chwarter 4, collodd y Gwasanaeth TGCh gyfanswm o 9.23 diwrnod fesul CALl oherwydd absenoldeb salwch, gan fethu targed y Gyfarwyddiaeth o 5.80 diwrnod fesul CALl. Gellir dadansoddi'r absenoldeb salwch ar gyfer y gwasanaeth fel 6.08 diwrnod fesul CALl oherwydd salwch tymor byr a 3.15 diwrnod fesul CALl am salwch hirdymor. |
| AS/W016: Adolygu a chryfhau'r trefniadau rheoli perfformiad a chymorth. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Ar ddiwedd y flwyddyn, collodd y Gwasanaethau Oedolion gyfanswm o 15.79 diwrnod fesul CALl oherwydd absenoldeb salwch, y gellir priodoli'r mwyafrif ohonynt i absenoldeb salwch hirdymor a arweiniodd at golli 11.63 diwrnod fesul CALl yn ystod y cyfnod. Mae'r gyfradd salwch hon yn arwain at i'r gwasanaeth fethu'r targed o 8.70 diwrnod a gollwyd fesul CALl a osodwyd ar gyfer y Gyfarwyddiaeth. |
| CS/W002: Adolygu a chryfhau ein trefniadau rheoli perfformiad mewn perthynas ag absenoldeb salwch gyda'r gwasanaeth. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc yn cydymffurfio â rheoli'r polisi presenoldeb. Defnyddia'r rheolwyr adroddiadau 'tynnu sylw' yn effeithiol i sicrhau cydymffurfiaeth â phwyntiau sbarduno'r polisi. Yn chwarter 4, collodd y gwasanaeth 13.35 diwrnod fesul CALl oherwydd absenoldeb salwch, gan fethu targed y Gyfadran o 8.70 diwrnod a gollwyd fesul CALl am y cyfnod. |
| SRS/W030: Adolygu a chryfhau ein trefniadau rheoli perfformiad mewn perthynas ag absenoldeb salwch gyda'r gwasanaeth. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae'r holl reolwyr wedi cael hyfforddiant ar y polisi salwch ac absenoldeb. Yn ystod chwarter 4, collodd y Gwasanaeth Rheoleiddio a Rennir 6.89 diwrnod fesul CALl oherwydd absenoldeb salwch, mae hyn o fewn targed y Gyfadran o 11.70 diwrnod ar gyfer pob CALl am y flwyddyn. |
| PD/W016: Trosglwyddo arbenigedd a sgiliau mewn rhai meysydd corfforaethol (e.e. ymgynghori/ymgysylltu) i wella trawsgilio ar draws timau. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Rydym yn parhau i weithredu mentrau o amgylch cysgodi a mentora mewn gwahanol rolau ar draws y gwasanaeth, er enghraifft, trwy gydol y flwyddyn mae gwaith ein FMA wedi cynnwys strategaeth, partneriaethau, gwella busnes, cabinet a gwaith swyddfa maer. |

| Camau Gweithredu Integredig y Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| PD/W017: Parhau i gynyddu hyblygrwydd rôl o fewn timau Perfformiad a Datblygu. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae gwaith i gynyddu hyblygrwydd yn mynd rhagddo'n dda, yn enwedig o fewn y tîm Perfformiad lle mae'r dull partneriaeth busnes o ddatblygu cynlluniau gwasanaeth ac adroddiadau perfformiad wedi bod o fudd sylweddol yn ystod cylch cynllunio gwasanaethau ac wrth gynhyrchu'r cynllun gwella blynyddol (rhan un). Mae cyfleoedd i rannu arbenigedd ar draws timau (er enghraifft, rhwng y timau Strategaeth a Phartneriaeth a Thimau Gwella a Datblygu) yn mynd rhagddo o gwmpas y trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer Cynllun Llesiant y BGC. |
| PD/W026: Gweithio gyda Datblygu Sefydliadol i ddatblygu ymhellach sgiliau Arweinydd Tîm, yn enwedig mewn perthynas â rheoli perfformiad, rheoli risg, caffael a rheoli contractau. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Roedd y rhaglen datblygu rheoli yng ngwanwyn 2017 yn canolbwyntio ar berfformiad, risg, caffael a rheoli contractau ac fe'i cyflwynwyd i 300+ o reolwyr ac arweinwyr tîm y Cyngor. Roedd sesiynau'r hydref yn canolbwyntio ar gynhyrchu incwm a chyfleoedd digidol yn unol â'r rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau. Mae sesiynau Mawrth 2018 wedi bod ar 'Reoli Fy Hun' a sut i wella cyfathrebu ac ymgysylltu mewnol ymhellach. |
| PD/C028: Cryfhau ac ymestyn gweithio a rennir rhwng C1V a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Bydd ymestyn gwaith a rennir rhwng C1V a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn broject hirdymor, a bydd y gwaith yn parhau yn 2018/19 i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd. Yn ystod y flwyddyn, cyflwynwyd papur trafod i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP) a chytunwyd yn gyffredinol fod gweithio agosach ac integredig yn ddymunol ac yn ofynnol i ddarparu buddion llawn iechyd a gofal cymdeithasol integredig. Cariwyd y gwaith ymlaen i 2018/19 gan geisio awdurdod i ddechrau ymgysylltu ag Iechyd a staff Cynghorau ynghylch y materion a'r cyfleoedd a wynebir ac i ganfod eu syniadau ar gyfer eu datrys. Os derbynnir cymeradwyaeth, mae'n debyg y bydd y gwaith hwn yn digwydd ym mis Gorffennaf 2018. Defnyddir y gwaith hwn i lunio argymhellion i'r ddau sefydliad. |

| Camau Gweithredu Integredig y Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| PD/W029: Datblygu cefnogaeth i reolwyr ar fasnacheiddio a chynhyrchu incwm. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae'r tîm project a'r bwrdd project cynhyrchu incwm a chyfleoedd masnachol yn parhau i nodi cyfleoedd ar gyfer cynhyrchu incwm ac mae gwaith ar y gweill ar ystod o gynigion sy'n cynnwys nodi goblygiadau adnoddau, gan gynnwys hyfforddiant, gallu a chymorth. Er enghraifft, mae gwaith i gefnogi'r tîm project sy'n datblygu cynigion Cwmni Arlwyo yn cynnwys nodi'r hyfforddiant a sgiliau angenrheidiol ar gyfer y tîm. |
| DS/W014: Cynnal a/neu gynyddu maint y gronfa bresennol o Gofrestryddion Wrth Gefn. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Rhoddwyd hysbyseb ar gyfer cofrestryddion wrth gefn ddiwedd mis Mawrth 2018 (gyda dyddiad cau ar gyfer ceisiadau o 10fed Ebrill). Rhagwelir y bydd cyfweliadau yn digwydd ddiwedd mis Mai. Y bwriad yw y bydd y gronfa bresennol o staff wrth gefn yn cynyddu ychydig i ddarparu gwydnwch gwasanaeth ychwanegol. |
| DS/W009: Parhau i ddatblygu sgiliau staff penodol o fewn y timau Craffu a Gwasanaethau Democrataidd er mwyn galluogi rhyngwyneb lawn ar draws y swyddogaethau Craffu a Gwasanaethau Pwyllgorau. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae hon yn broses barhaus, gyda'r nod o sicrhau bod staff ar draws y tîm yn gallu cynyddu eu sylfaen gwybodaeth a sgiliau ac, o ganlyniad, sicrhau'r gwydnwch mwyaf posibl yn y tîm. Dangoswyd effeithiolrwydd staff o ran ehangu setiau sgiliau eleni gan fod y tîm wedi gweithio'n hynod o dda er gwaethaf gweithio'r rhan fwyaf o'r flwyddyn gyda swydd wag. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2018/19 fel yr amlinellir yng Nghynllun Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd. |
| DS/W010: Parhau i ddatblygu trefniadau cynllunio olyniaeth ar lefel reoli. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Hysbysebwyd y swydd Rheolwr Gweithredol ddiwedd mis Mawrth 2018 yn dilyn bwriad y deiliad presennol i ymddeol ddiwedd Mai a bwriedir cynnal cyfweliadau tua diwedd Ebrill 2018. |
| CS/W009: Cwblhau'r broses i adolygu llinellau adrodd yn y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc ar lefel OM a HoS. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cytunwyd ar y llinellau adrodd diwygiedig o fewn y gwasanaeth ac maent wedi dod i rym nawr fod y swydd OM wag wedi'i llenwi. Bydd y gwaith hwn yn sicrhau bod strwythur yr adran yn addas i'r diben er mwyn bodloni gofynion a heriau statudol orau o fewn gofal cymdeithasol. |
| CS/W010: Parhau i gynnig cyfleoedd i staff perthnasol gwblhau'r rhaglen Datblygu Rheoli Tîm. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae cyfleoedd i gwblhau'r rhaglen Datblygu Rheoli Tîm yn parhau i gael eu cynnig i staff i ganiatáu i reolwyr presennol a rhai'r dyfodol feddu ar sgiliau i reoli'n effeithiol. Bydd y gwaith hwn yn parhau ar y gweill gan fod y ffocws wedi ei amlygu fel blaenoriaeth gweithlu allweddol ar gyfer 2018/19 o fewn Cynllun Gwasanaeth y |

| Camau Gweithredu Integredig y Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc. |
| CS/W011: Archwilio opsiynau ar gyfer cynllunio olyniaeth mewn perthynas yn arbennig â'r oedran 55-64. | 31/03/2018 | 50 | Coch | Ar hyn o bryd mae'r Adran yn ymwneud â dwy broses gysylltiedig - un gyda ffocws ar ddatblygu gwasanaethau a chynnig i wneud newidiadau i strwythur rhai timau, a dau, i ymestyn ein recriwtio i swyddi gwag presennol. Mae'r gwaith hwn yn anochel yn cynnwys ffocws ar gynllunio olyniaeth. |
| CS/W012: Mwyafu'r cyfleoedd i ddefnyddio staff ar raddau is i ymgymryd â gwaith arferol. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae'r gwaith i gynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio staff gradd is yn symud ymlaen fel rhan o waith datblygu gwasanaeth cyfredol. Drafftiwyd cynigion i fwyafu'r gwaith hwn ar gyfer ymgynghori â staff. |
| CS/W013: Nodi'r swyddi hanfodol yn y busnes lle mae diffygion recriwtio yn bodoli. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda'r Pennaeth Adnoddau Dynol i ddatblygu achos busnes ar gyfer gwella ein cynnig recriwtio a chadw staff i weithwyr cymdeithasol. Bydd y gwaith hwn yn helpu i sicrhau bod swyddi busnes hanfodol yn cael eu nodi i alluogi recriwtio mwy effeithiol a thargededig. |
| CS/W014: Gweithio gyda Hyfforddiant a Datblygu Corfforaethol i wella sgiliau Staff Cymorth Busnes. | 31/03/2018 | 75 | Coch | Fel rhan o'i waith datblygu gwasanaeth cyfredol, mae'r Isadran wedi ystyried y strwythur ar gyfer cymorth busnes gyda'r bwriad o gynyddu capasiti ac i ychwanegu unrhyw haen ychwanegol. Bydd hyn yn cynyddu gwydnwch ac yn ymateb i'r heriau presennol wrth gyflawni'r cymysgedd o sgiliau perthnasol. Bydd recriwtio i'r swyddi ychwanegol hyn yn digwydd yn Ch1, 2018/19. |
| SL/W028: Cynorthwyo gweithwyr i ddatblygu'r sgiliau eang sydd eu hangen i gefnogi ffyrdd newydd o weithio. | 31/03/2018 (parhaus) | 100 | Gwyrdd | Parhaodd TGCh a Data i gyflwyno hyfforddiant MI cyffredinol ar draws y gyfarwyddiaeth, gan gynnwys cefnogi mwy o staff gyda mudo cofnodion i'r System MI, Un, ar gyfer llwythiadau uniongyrchol a dogfennau cysylltiedig i sicrhau fod gan y staff y sgiliau sydd eu hangen. Bydd y mudo hwn yn parhau i'r flwyddyn ariannol newydd fel yr amlinellir yn y Cynllun Gwasanaeth Strategaeth, Gwasanaeth Dysgu Cymunedol ac Adnoddau. |
| SRS/W027: Darparu hyfforddiant i aelodau etholedig ar draws y cynghorau partner ar drwyddedu a swyddogaethau'r SRS. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Drwy gydol y flwyddyn, mae'r SRS wedi ymgysylltu ag aelodau ac wedi darparu hyfforddiant i'w helpu i ymgymryd â'u rolau yn effeithiol.Ymgymerodd tîm Rheoli'r SRS ag Aelodau cyn y Cyngor Llawn yng nghyfarfod cynghorau Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a'r Fro a gynhaliwyd yn ystod chwarter 3 a chwaraeodd fideo hyrwyddo yn ogystal â darparu copïau o'r Cynllun Busnes SRS. |

| Camau Gweithredu Integredig y Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn o ran aelodau ac Uwch Swyddogion. Yn ddiweddar, rhoddwyd hyfforddiant i'r aelod newydd o Bwyllgor Trwyddedu Caerdydd. |
| **CP3** | | | | |
| FS/F020: Adolygu'r fframwaith monitro ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf a gwella amseroldeb adrodd er mwyn lleihau'r llithriad rhwng blynyddoedd ariannol. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cyflwynwyd y pedwerydd adroddiad Monitro Cyfalaf i'r Cabinet ar 5 Mawrth 2018. Mae'n nodi'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn ar raglen Gyfalaf 2017/18, y defnydd o awdurdod dirprwyedig, pwerau brys a cheisio cymeradwyaeth i newidiadau i Raglen 2017/18 a 2018/19, i ganiatáu i gynlluniau fynd rhagddynt. Mae hyn yn gweithio ar gyfer cyflenwi ein Rhaglen Gyfalaf gynlluniedig yn effeithiol, o fewn lefelau goddefgarwch cytunedig. |
| **CP4** | | | | |
| PD/A024: Datblygu a chytuno ar Gynllun Llesiant yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cymeradwywyd y Cynllun Llesiant gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) i'w gyhoeddi ar 18 Ebrill, ar ôl ei gymeradwyo gan fyrddau perthnasol y partneriaid statudol. Hysbyswyd y Cynllun gan yr Asesiad Llesiant manwl a gyhoeddwyd yn 2017 ac mae'n nodi sut y bydd partneriaid yn cydweithio i wella llesiant ar draws y Fro. Ymgymerwyd ag ymgynghori helaeth ar y Cynllun i sicrhau bod y cyhoedd a rhanddeiliaid wedi cael cyfle i hysbysu'r Cynllun a rhoi sylwadau ar gynigion y BGC. Mae trafodaethau'n parhau ynglŷn â gweithredu'r Cynllun a threfniadau rheoli perfformiad. |
| **CP5** | | | | |
| PD/C032: Gweithredu cynllun gweithredu'r Fframwaith Ymgysylltu â'r Cyhoedd. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cadarnhaodd y Cabinet y Fframwaith Ymgysylltu Cyhoeddus 2017-2020 a'r cynllun gweithredu ategol yn dilyn yr ymgynghoriad ar 18 Rhagfyr 2017, i sicrhau bod yr ymrwymiad parhaus i wella'r ffordd y mae'r Cyngor yn ymgysylltu â phreswylwyr a rhanddeiliaid eraill i lywio penderfyniadau a gweithredu bellach ar y gweill. Cwblhawyd yr holl gamau gweithredu ar gyfer 2017/18. Gellir dod o hyd i'r Fframwaith a'r cynllun gweithredu ar wefan y cyngor. |

| Camau Gweithredu Integredig y Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| PD/C011: Adnewyddu’r canllawiau ar ymgysylltiad cyhoeddus effeithiol gyda mwy o bwyslais ar yr egwyddorion cyfreithiol sy'n diffinio ymgynghoriad 'da'. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cadarnhaodd y Cabinet y Fframwaith Ymgysylltu Cyhoeddus 2017-2020 a'r cynllun gweithredu ategol yn dilyn ymgynghori ar 18 Rhagfyr 2017, ac mae bellach wedi'i gyhoeddi ar-lein i sicrhau ymrwymiad parhaus i wella'r ffordd y mae'r Cyngor yn ymgysylltu â phreswylwyr a rhanddeiliaid eraill i lywio gwneud penderfyniadau. Bydd y canllawiau mewnol wedi'u diweddaru yn cael eu cyhoeddi ar StaffNet fel rhan o ail-lansiad o'r cymorth corfforaethol sydd ar gael ar gyfer gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd yn dilyn cymeradwyaeth y Bwrdd Cipolwg ym mis Ebrill 2018. |
| PD/C030: Gweithio gyda TGCh i ddatblygu cronfa ddata ymgysylltu ar-lein. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Datblygwyd y gronfa ddata ymgysylltu ar-lein yn llwyddiannus mewn cysylltiad â TGCh i helpu i fonitro a thracio gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd yn effeithiol gan weithredu fel cofnod canolog o'r holl waith ymgysylltu sy'n digwydd yn y Cyngor. Hysbysir y gronfa ddata ymgysylltu gan waith ymgysylltu ym mhob cyfarwyddiaeth gwasanaeth gan sicrhau cynnal trosolwg corfforaethol o'r holl weithgareddau ymgysylltu. Mae'r gronfa ddata bellach yn fyw ar StaffNet i holl staff y Cyngor gael mynediad ati. |
| PD/C031: Cryfhau rhwydweithiau mewnol trwy greu pwyntiau cyswllt ym mhob cyfarwyddiaeth. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Bu'r rhwydwaith mewnol yn rhedeg yn llwyddiannus ers chwarter 2 ac eisoes mae tystiolaeth i’w gweld o’r cydweithio agosach rhwng adrannau. Enghraifft o hyn yw'r ymgynghoriad sydd ar y gweill ar arian y Rhws A106. Roedd y project yn cael ei gynllunio i ddechrau gan y timau cyfathrebu a chynllunio, ond yn dilyn trafodaethau yn y cyfarfod rhwydwaith cyntaf, daeth y gwasanaeth gwybodaeth i deuluoedd a'r timau datblygu chwaraeon a chwarae yn rhan ohono hefyd. Arweiniodd eu hymwneud â’r project at ddigwyddiad 'diwrnod hwyl i'r teulu' ar yr 2il o Dachwedd 2017 a oedd yn cynnig cyfle i bob tîm ymgysylltu â'r gymuned leol a thrwy hynny, gynyddu'n sylweddol y gwerth i'r Cyngor. Mae ystyriaeth nawr i ymestyn y rhwydwaith i gynnwys y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus (BGC) a phartneriaid y trydydd sector. |

| Camau Gweithredu Integredig y Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| **CP6** | | | | |
| PD/A020: Parhau i weithio gydag aelodau etholedig a swyddogion i ddatblygu trefniadau adrodd perfformiad sy'n cyd-fynd â Chanlyniadau Llesiant y Cynllun Corfforaethol. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Yn seiliedig ar yr adborth a gafwyd gan y gweithgor aelodau trwy gydol y flwyddyn gan gynnwys chwarter 4, darparwyd adroddiadau eto yn y fformat diwygiedig, a gyflwynwyd i wella hygyrchedd adrodd am berfformiad, ac ymhellach sy’n cynnwys gwybodaeth o amrywiaeth ehangach o ffynonellau. Cafodd hyn ei ymestyn i gynnwys hefyd cyflwyno hunanasesiad blynyddol a Chynllun Gwella Rhan Un, i ddarparu cysondeb. |
| PD/A021: Adolygu gweithrediad y Bwrdd Cipolwg ar gyfer cefnogi cynllunio integredig. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Mae'r rhaglen waith ar gyfer y Bwrdd Cipolwg wedi'i sefydlu'n dda ac mae’n parhau i weithredu'n effeithiol. Ymgymerwyd ag adolygiad ffurfiol o’r Bwrdd ac mae wedi canolbwyntio ar sut mae'r Bwrdd yn monitro ac yn tracio gwaith, yn goruchwylio camau rheoleiddiol a strategol, a fformat y cyfarfodydd. Yn y flwyddyn newydd ceir Traciwr Cipolwg diwygiedig, a ffyrdd newydd o weithio (er enghraifft, mwy o weithdai). |
| PD/A022: Ymgorffori'r broses o adolygu'r Amcanion Llesiant presennol fel rhan o'n proses hunanasesu flynyddol. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cynhaliwyd hyn fel rhan o'r broses hunanasesiad blynyddol, fel cyfle i sicrhau bod yr amcanion llesiant yn parhau i fod yn berthnasol wrth gyfrannu at y modd y mae’r Cyngor yn cyflenwi ein blaenoriaethau corfforaethol a chyfrannu at nodau llesiant cenedlaethol. Adroddwyd am hyn i'r Cabinet yn ystod y chwarter. Gellir gweld yr hunanasesiad blynyddol ar wefan y cyngor. |
| PD/A023: Cynhyrchu Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor sy'n ymgorffori asesiad perfformiad ac adroddiad Llesiant blynyddol yn unol â gofynion statudol. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Cynhaliwyd hyn fel rhan o'r broses hunanasesiad blynyddol, fel cyfle i sicrhau bod yr amcanion llesiant yn parhau i fod yn berthnasol wrth gyfrannu at y modd y mae’r Cyngor yn cyflenwi ein blaenoriaethau corfforaethol a chyfrannu at nodau llesiant cenedlaethol. Adroddwyd am hyn i'r Cabinet ar 5 Mawrth 2018. |

| Camau Gweithredu Integredig y Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| PD/F033: Caffael system rheoli perfformiad newydd. | 31/03/2018 | 30 | Coch | Gwnaethpwyd gwaith sylweddol yn ystod y flwyddyn i gynhyrchu'r adroddiadau perfformiad yn y fformat newydd diwygiedig. Trwy wneud hynny mewn partneriaeth â'r gweithgor aelodau, galluogwyd y tîm i ddynodi gofynion system rheoli perfformiad newydd. Drafftiwyd manyleb, a chynigir bod y system newydd hon yn cael ei chaffael yn y flwyddyn ariannol newydd. |
| **CP7** | | | | |
| DS/C015: Parhau i weithredu trefniadau craffu ar y cyd ar gyfer datganoli cyfrifoldeb i'r rhanbarthau am y Gwasanaeth Rheoleiddio a Rennir (SRS). | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Fel y nodwyd yn Chwarter 3, ni ystyrir y byddai cael Cyd-Bwyllgor Craffu o unrhyw fudd o ran llywodraethu. Yn wir, mae'n debyg (o ystyried y trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd) y byddai hyn mewn gwirionedd yn arwain at ddyblygu a gwaith ychwanegol i swyddogion. O'r herwydd, ni ddylid cymryd unrhyw gamau pellach, felly ystyrir bod y cam penodol hwn yn "Gyflawn". |
| DS/A005: Parhau i weithredu'r Cynllun Gweithredu Craffu. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Fel yr adroddwyd yn flaenorol, mae gwaith o dan y Cynllun hwn yn parhau heb unrhyw gamau o bwys yn weddill. Gwnaethpwyd cryn dipyn o waith wrth gyflwyno'r rhaglen Sefydlu Aelodau/Datblygu Aelodau yn ystod 2017/18. Ymgorfforodd y Rhaglen Sefydlu a Datblygiad Aelodau gychwynnol 26 o bynciau hyfforddi, gyda 12 o'r pynciau hyfforddi a drefnwyd yn cael eu labelu'n orfodol, gan gyfateb i 46% o'r Rhaglen. Er mwyn gwneud y mwyaf o bresenoldeb a chan gydymdeimlo ag ymrwymiadau personol yr Aelodau, trefnwyd sesiynau ychwanegol ar sail 1:1 neu grŵp bach. Cafwyd 100% o bresenoldeb ar bob un o'r 12 pwnc gorfodol. Gofynnwyd am adborth gan Aelodau, yn dilyn pob sesiwn, gan ddefnyddio'r offeryn arolwg ar-lein Survey Monkey. Hyd yma, bu'r adborth yn gadarnhaol i raddau helaeth a bydd yn cael ei ddadansoddi i lywio anghenion datblygu a chyflenwi i'r dyfodol. |

| Camau Gweithredu Integredig y Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| **CP8** | | | | |
| HR/W027: Adolygu effeithiolrwydd y cynllun gwerthuso staff #itsaboutme. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Gweithredwyd mân newidiadau i'r broses yn dilyn adolygiad i'r cynllun gwerthuso staff, i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn berthnasol i staff, yn cysylltu gweithgareddau staff i amcanion corfforaethol ac yn cyfrannu at y Siarter Staff a blaenoriaethau Ail-lunio Gwasanaethau cyn y lansiad yn 2017/18. Ymgymerwyd â'r broses newydd yn llwyddiannus ar gyfer 2017/18 gyda 97.38% o werthusiadau staff yn cael eu cwblhau. Gellir dod o hyd i wybodaeth am y cynllun ar StaffNet. |
| **CP9** | | | | |
| PD/R039: Adolygu ein dull o fonitro risg corfforaethol (gan ymgorffori risgiau'r Cynllun Gwasanaeth). | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Diweddarwyd proses rheoli risg y Cyngor i gynnwys dadansoddiad mwy soffistigedig o risg a dulliau gwahanol o adrodd. Yn dilyn adborth gan y pwyllgor Archwilio, gwnaed gwelliannau pellach ac mae'r Cabinet wedi ystyried y gofrestr risg fformat newydd yn ystod y chwarter. Dechreuodd y gwaith i adnewyddu'r Strategaeth Rheoli Risg a bydd hyn yn cael ei adrodd i'r Cabinet a'r Pwyllgor Archwilio ym mis Mai 2018. |
| **CP10** | | | | |
| FS/F008: Adolygu lefel y defnydd a wneir o fframweithiau NPS ar draws gwasanaethau. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Lle bo'n briodol, mae'r Cyngor yn defnyddio fframwaith yr NPS pan fydd yr opsiwn hwn ar gael. Wrth dendro am unrhyw nwyddau a gwasanaethau, mae'r opsiwn o ddefnyddio fframwaith NPS bob amser yn cael ei ystyried yn gyntaf ac, lle bo'n briodol, caiff ei ddefnyddio. Mantais hyn yw bod y profion diwydrwydd dyladwy eisoes wedi'u cwblhau ar y sefydliadau hynny a gynhwysir mewn unrhyw fframwaith. |

| Camau Gweithredu Integredig y Cynllun Gwasanaeth | Dyddiad Cwblhau yn Ystod y Flwyddyn | % a gwblhawyd | Statws COG | Disgrifiad o Gynnydd a Chanlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| **CP11** | | | | |
| FS/AM026: Cynhyrchu diweddariad blynyddol ar y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol i asesu cynnydd yn erbyn targedau. | 31/03/2018 | 100 | Gwyrdd | Fel yr adroddwyd yn flaenorol, daw'r cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol presennol i ben ym mis Gorffennaf 2018. Felly, rhoddwyd ffocws ar weithio ar adnewyddu'r cynllun newydd yn hytrach na chynhyrchu diweddariad blynyddol eleni ac o ganlyniad gwnaed y gwaith yn unol â ffocws amgen mwy priodol eleni. Yn unol â'r Camau Cynllunio Integredig yn y Cynllun Corfforaethol 2016-2020, cynhyrchir cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol newydd yn 2018/19. Darparwyd diweddariadau cynnydd rheolaidd i'r Bwrdd Cipolwg ac mae sylwadau rhanddeiliaid mewnol yn cael eu casglu ar hyn o bryd gyda'r bwriad o gyflwyno'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol newydd i'r Cabinet yn ystod 2018/19. |

# Atodiad B: Gwybodaeth Dangosyddion Perfformiad Manwl

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pobl** | | | | | | |
| CPM/210: Trosiant gweithwyr (gwirfoddol). | 7.49% | 6.68% | 7.5% | Gwyrdd | ↑ | Mae perfformiad ar ddiwedd y flwyddyn ar 6.68% sydd yn is na targed Ch4 o 7.5% ac yn is na pherfformiad 2016/2017 o 7.49%. Parha’r gwaith i gynyddu'r nifer o holiaduron ymadael a ddychwelir i'r awdurdod. Gwneir dadansoddiad o drosiant yn yr adroddiad trosiant blynyddol sy’n mynd i'r Pwyllgor Craffu. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CPM/211: Canran y gwerthusiadau staff a gwblhawyd. | Amh. | 97.34% | 95% | Gwyrdd | Amh. | Roedd y gyfradd ymateb i gwblhau'r rhaglen arfarnu staff newydd #itsaboutme yn uwch na'r targed ar 97.34%, sy'n ymwneud â 1744/1791 o werthusiadau staff wedi eu cwblhau eleni. |
| CPM/019 (PAM/001): Nifer y diwrnodau/shifftiau gwaith y gweithiwr awdurdod lleol cyfwerth ag amser llawn (CALI) a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch. | 8.8 | 10.14 | 8.90 | Coch | ↓ | Parha’r gwaith i adrodd am absenoldeb salwch yn fisol i Uwch Reolwyr a Meysydd Gwasanaeth. Gweithredwyd trefniadau i gylchu absenoldeb salwch ac unrhyw gamau gofynnol i reolwyr perthnasol lle mae gweithwyr wedi ysgogi sbardun, a fydd yn cefnogi cydymffurfiaeth a chysondeb cymhwyso'r polisi.<br><br>Dengys ffigurau Ch4 bod perfformiad absenoldeb yn 10.14 diwrnod cyfwerth ag amser llawn (CALI) sy'n sylweddol uwch na tharged Ch4 o 8.90 diwrnod fesul CALI. |
| CPM/212: Nifer y diwrnodau/shifftiau gwaith fesul gweithiwr awdurdod lleol cyfwerth ag amser llawn (CALI) a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch | 2.99 | 3.16 | | Amh. | ↓ | Ni osodir targed ar gyfer absenoldeb salwch tymor byr felly nid yw statws perfformiad yn bosibl. Ar gyfartaledd, collwyd 3.16 diwrnod cyfwerth ag amser llawn (CALI) oherwydd absenoldeb salwch tymor byr yn ystod chwarter 4. Mae hyn ychydig yn waeth na pherfformiad Ch3 y llynedd o 2.99 diwrnod fesul CALI. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CPM/213: Nifer y diwrnodau/shifftiau gwaith fesul gweithiwr awdurdod lleol cyfwerth ag amser llawn (CALI) a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch hirdymor. | 5.81 | 6.98 | | Amh. | ↓ | Ni osodir targed ar gyfer absenoldeb salwch hirdymor felly nid yw statws perfformiad yn bosibl. Ar gyfartaledd, collwyd 6.98 diwrnod cyfwerth ag amser llawn (CALI) oherwydd absenoldeb salwch hirdymor yn ystod chwarter 4. Mae hyn yn gynnydd o'i gymharu â pherfformiad yn ystod yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol (5.81 diwrnod fesul CALI). |
| **Ariannol** | | | | | | |
| CPM/214: Gwariant yn erbyn rhaglen refeniw gymeradwy y Cyngor. | 100% | 100% | 100% | Gwyrdd | ↔ | Cyflwynwyd gwybodaeth am gau cyfrifon i'r Cabinet ar 2 Gorffennaf 2018. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd y gwariant gwirioneddol yn £215.720 miliwn, sy'n sefyllfa ad-ennill costau ar ôl trosglwyddo £675,000 o gronfa'r Cyngor. |
| CPM/215: Gwariant yn erbyn rhaglen gyfalaf gymeradwy y Cyngor. | 84% | 86% | 100% | Coch | ↑ | Adroddwyd am y gwariant gwirioneddol yn erbyn y rhaglen Gyfalaf a gymeradwywyd ar 31 Mawrth 2018 i'r Cabinet ar 2 Gorffennaf 2018. Dengys hyn mai’r sefyllfa gyffredinol yn Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig 2017/18 oedd amrywiad o £7.071m. Er mwyn caniatáu i reolwyr project gael cyllidebau cyfalaf a gymeradwywyd yn llawn, cymeradwywyd llithriad cyfalaf o 2017/18 i 2018/19 trwy Bwerau Argyfwng y Rheolwr Gyfarwyddwr. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CPM/216: Perfformiad yn erbyn targedau arbedion. | 94% | 75% | 100% | Coch | ↓ | Llwyddodd y gwasanaethau i ddod o hyd i arbedion gwerth £2.998m sef 75% o'r targed gofynnol gyda diffyg o £1,019,000. Cyflawnwyd rhai o'r arbedion trwy wahanol ffyrdd i'r hyn a gynlluniwyd. |
| CPM/217: Perfformiad yn erbyn targedau Ail-lunio Gwasanaethau cytunedig. | 86% | 70% | 100% | Coch | ↓ | Cyflawnwyd 70% o'r arbedion ar gyfer Ail-lunio Gwasanaethau eleni gyda £2,326m yn cael ei arbed yn erbyn y targed blwyddyn lawn o £3,345m. Byddwn yn parhau i weithio tuag at gyflawni arbedion trwy barhad y project Ail-lunio Gwasanaethau. |
| CPM/219: Canran o gontractau'r Cyngor y cymerwyd rhan ynddynt drwy'r fframwaith Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol | Amh. | 90.32% | | Amh. | Amh. | Noda'r Adroddiad Gwybodaeth Busnes diweddaraf bod y Cyngor yn defnyddio 28 allan o'r 31 fframweithiau sydd ar gael ar hyn o bryd. Dylid nodi bod data Ysgolion yn cael ei gyfrifo ar wahân, ond pe bai hyn yn cael ei gynnwys yna byddai'r ffigurau yn 30 o fframweithiau yn cael eu defnyddio allan o gyfanswm o 31, a fyddai'n cynhyrchu canran o 96.77%. Gostyngodd y cyfanswm o Fframweithiau sydd ar gael trwy NPS o 38 yn y chwarter diwethaf oherwydd ail-dendro. |
| **Asedau** | | | | | | |
| CPM/153: Newid canran (gostyngiad) mewn allyriadau carbon deuocsid yn y stoc adeiladau cyhoeddus annomestig. | -1.96 | 5.2% | 3% | Gwyrdd | ↑ | Addaswyd y perfformiad diwedd blwyddyn i roi cyfrif am y tywydd eithriadol o oer yn ystod Ch4. Pe na gwnaed unrhyw addasiad, yna byddai gostyngiad o 2.9% o hyd. Roedd trosi'r Swyddfeydd Dociau i fiomas o gymorth, tra bod cyfarwyddiaethau |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | eraill wedi lleihau'r defnydd o nwy a thrydan. |
| CPM/221: Nifer yr asedau a drosglwyddir i'r gymuned. | 3 | 0 | 1 | Coch | ↓ | Ni chafwyd unrhyw CAT (Trosglwyddiad Asedau Cymunedol) ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Ystyriwyd adroddiad mewn perthynas â dau gais cam 2 gan y Cabinet ar 26 Mawrth 2018 yn amlinellu'r ceisiadau a dderbyniwyd a thrafodaethau cysylltiedig yn y Bwrdd Cipolwg. |
| **Cwsmer** | | | | | | |
| CPM/001: Canran o ymholiadau cwsmeriaid i C1V a ddatryswyd ar y cyswllt cyntaf. | 68.07% | 77% | 75% | Gwyrdd | ↑ | Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar ymholiadau a gofnodwyd ar Oracle CRM ac maent yn dangos gwelliant parhaus mewn FCR yn ystod y flwyddyn. Mae perfformiad eleni yn welliant ar 2016/17 ac yn rhagori ar y targed a osodwyd o 75%, gyda 101030/131192 o ymholiadau i'r ganolfan gyswllt yn cael ei datrys yn ystod y cyswllt cyntaf. |
| CPM/231: Nid yw'r cyflymder ateb cyfartalog ar gyfer galwadau sy'n dod i mewn i'r Ganolfan Gyswllt Cwsmeriaid yn fwy na 60 eiliad. | Amh. | 123 eiliad | 60 eiliad | Coch | Amh. | Mae perfformiad wedi amrywio'n sylweddol trwy gydol y flwyddyn gyda'r amser aros cyfartalog byrraf o 50 eiliad ym Medi 2017 a'r hiraf o 297 eiliad ym mis Ionawr 2018. Gwelwyd yr amseroedd aros hiraf yn Chwarter 4, sef cyfartaledd o 266 eiliad. Roedd hyn oherwydd bod y gwasanaeth yn cario cyfradd swyddi gwag uchel er mwyn bodloni targedau arbedion gwasanaeth, cynnydd tymhorol yn y galw a lefelau uchel o salwch tymor byr oherwydd annwyd a ffliw. Rhagwelir y |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | bydd oedi cyn ateb sy'n sylweddol hwy na pherfformiad hanesyddol yn parhau i 2018/19, hyd nes y gellir cyflawni shifft sianel sylweddol o ffôn i hunanwasanaeth ddigidol. Mae'n debygol y bydd effeithlonrwydd gweithredol yn cael ei wella yn Ch3 2018/19 gyda gweithredu technoleg canolfan gyswllt newydd, a fydd yn hwyluso dull sianel gyfun. |
| CPM/002: Canran cwsmeriaid sy'n fodlon â mynediad i wasanaethau'r Cyngor ar draws pob sianel | 98.69% | 99.06% | 95% | Gwyrdd | ↑ | Mae nifer y cwsmeriaid sy'n fodlon ar lefel y gwasanaeth a dderbyniwyd yn C1V yn parhau i fod yn gyson ar 99.06%. Rhoddodd 81.6% o gwsmeriaid y sgôr uchaf bosibl ac 11.4% yr ail uchaf. Mae'r perfformiad ym mhob chwarter eleni wedi parhau dros 99% o foddhad. |
| CPM/222: Canran y cwsmeriaid sy'n fodlon ar y cyfan gyda'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. | 92% | 92% | Amh. | Amh. | Amh. | Mae hwn yn fesur yn seiliedig ar yr arolwg barn y cyhoedd bob dwy flynedd. Daw'r data diweddaraf o arolwg 2016/17. Mae'r perfformiad presennol o 92% yn dangos cynnydd o 8% mewn boddhad a adroddwyd o'r arolwg blaenorol (84%). Dylid ystyried y dangosydd hwn yng nghyd-destun ehangach canlyniadau'r arolwg llawn sydd ar gael ar-lein. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CPM/223: Canran y cwynion Corfforaethol yr ymdriniwyd â hwy o fewn graddfeydd amser targed. | 73.5% | 55.3% | 85% | Coch | ↓ | Arhosodd perfformiad yn wastad yn ystod Ch3 (56.65%) a Ch4 (55.3%). Atgoffwyd y gwasanaethau i sicrhau bod CRM yn cael ei ddiweddaru'n brydlon er mwyn sicrhau bod yr union berfformiad yn cael ei asesu'n gywir. O'r 135 o gwynion a fethodd y targed; methodd 50 o rhwng 1 a 5 diwrnod gwaith, methodd 33 o darged o 20 diwrnod neu fwy a methodd 1 gŵyn o 100 diwrnod. Dylid nodi bod cyfran o gwynion sy'n methu'r targed wedi gwneud hynny gyda chytundeb yr achwynydd er mwyn cyflawni ymchwiliad cyflawn a chywir. |
| CPM/224: Canran y cwynion Corfforaethol a ddatryswyd ar Gam 1 | 87.8% | 86.6% | 85% | Gwyrdd | ↓ | Llwyddodd perfformiad y flwyddyn i gyrraedd y targed o 85%. Mae'r canran uchel o gwynion a ddatryswyd yng nghyfnod 1 yn dangos bod trin cwynion yn y Cyngor yn gyffredinol dda. Mae'r 86.6% yn gysylltiedig â 258 o'r 298 o gwynion a dderbyniwyd eleni yn cael eu datrys ar Gam 1. |
| CPM/225: Canran y cwynion Corfforaethol a ddatryswyd ar Gam 2 | 12.3% | 13.4 | 15% | Gwyrdd | ↓ | Archwiliwyd cyfanswm o 40 o gwynion Cam 2 yn ystod y flwyddyn allan o gyfanswm o 298 o gwynion, 12 o'r rhain yn Ch4. Bu'r perfformiad yn well na'r targed o 15%. |
| CPM/226: Nifer o gwynion yr Ombwdsmon a gadarnhawyd yn erbyn y Cyngor (gan gynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol). | 0 | 0 | 0 | Gwyrdd | ↔ | O'r 5 adroddiad dan ymchwiliad yn ystod blwyddyn 1 a benderfynwyd fel rhai Na Chadarnhawyd, roedd 4 heb eu penderfynu ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r perfformiad o 0 (sero) fel y llynedd. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CPM/073: Safle Sitemorse (safle ansawdd gwefannau) yng Nghymru. | 6ed | 11eg | 2il | Coch | ↓ | Yn yr adroddiad diweddaraf hwn, gwelwyd bod gynnydd o ran dolenni i wefannau allanol sydd wedi torri. Rhoddir mynediad i offer hygyrchedd CMS a gwirwyr cyswllt i'r Tîm Cyfathrebu i gywiro'r materion hyn. Mae llawer o'r gwefannau sy'n perfformio'n uchel wedi cwblhau adolygiadau ac ailgynllunio safleoedd yn ddiweddar. Cychwynnodd y Fro ar ei phroject Cwsmer Digidol i adolygu'r gwasanaethau ar-lein a gwella templedi a dylunio ar gyfer pob dyfais. Ar hyn o bryd, mae'r grŵp project yn rhedeg gweithdai wythnosol i wneud diweddariadau rheolaidd i safle'r Fro. |
| CPM/074: Safle Sitemorse (safle ansawdd gwefannau) yng Nghymru a Lloegr. | 106ed | 148fed | 10fed | Coch | ↓ | Yn yr adroddiad diweddaraf hwn, gwelwyd bod gynnydd o ran dolenni i wefannau allanol sydd wedi torri. Rhoddir mynediad i offer hygyrchedd CMS a gwirwyr cyswllt i'r Tîm Cyfathrebu i gywiro'r materion hyn. Mae llawer o'r gwefannau sy'n perfformio'n uchel wedi cwblhau adolygiadau ac ailgynllunio safleoedd yn ddiweddar. Cychwynnodd y Fro ar ei phroject Cwsmer Digidol i adolygu'r gwasanaethau ar-lein a gwella templedi a dylunio ar gyfer pob dyfais. Ar hyn o bryd, mae'r grŵp project yn rhedeg gweithdai wythnosol i wneud diweddariadau rheolaidd i safle'r Fro. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CPM/227: Bodlonrwydd â'r broses ar gyfer siarad cyhoeddus mewn pwyllgorau. | 52.5% | 64.5% | 60% | Gwyrdd | ↑ | Nododd 22 o'r 30 ymateb a dderbyniwyd yn ystod chwarter 4 eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn â siarad mewn pwyllgorau, gan fynd â chyfanswm y flwyddyn i 71 allan o 110. Mae'r cyfanswm o 30 a adroddir yn ymwneud â 6 ymatebydd a chyfanswm o 5 ymateb yr un. |
| CPM/228: Canran y cyfarfodydd pwyllgorau a we-ddarlledir. | 12.23% | 14.4% | 10% | Gwyrdd | ↑ | Polisi cyfredol y Cyngor yw bod cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a'r Cyngor Llawn yn cael eu gwe-ddarlledu. O ganlyniad, darlledwyd 17 o 118 o gyfarfodydd pwyllgorau a gynhaliwyd ar draws y Cyngor. Mae hyn yn galluogi aelodau'r cyhoedd i wylio'r cyfarfodydd o bell a phan maent yn dewis gwneud ar ôl iddynt gael eu gwe-ddarlledu trwy eu cyhoeddi ar ein gwefan. |
| CPM/076: Canran y trigolion sy'n fodlon â chyfathrebiadau'r Cyngor. | 88% | 88% | Amh. | Amh. | Amh. | Mae hwn yn fesur sy'n seiliedig ar arolwg barn y cyhoedd bob dwy flynedd ac mae'r data diweddaraf o 2016/17. Dengys arolwg 2016/17 welliant o ran lefel boddhad a gofnodwyd yn yr arolwg blaenorol 84%. Dylid ystyried y dangosydd hwn yng nghyd-destun ehangach canlyniadau'r arolwg llawn sydd ar gael ar-lein. |
| CPM/077: Canran yr ymatebwyr du, lleiafrifoedd ac ethnig i ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu corfforaethol. | 2% | 2% | Amh. | Amh. | Amh. | Mae hwn yn fesur bob dwy flynedd sy'n seiliedig ar yr arolwg barn y cyhoedd a gynhelir bob dwy flynedd. Gosodwyd targedau cynyddol a fydd yn dod â'r ffigwr yn unol â % y trigolion lleiafrifoedd ethnig du (BME) (fel y'u |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | cofnodwyd yn y cyfrifiad diwethaf) ym Mro Morgannwg erbyn 2020. |
| CPM/085: Cynnydd yn y ganran sy'n 'hoffi' ar Facebook (Bywyd Bro Morgannwg) | 3.36% | 14.37% | 6% | Gwyrdd | ↑ | Roedd y nifer o diciau 'Hoffi' Facebook a dderbyniwyd ar dudalen Facebook y Cyngor ar ddiwedd chwarter 4 yn 11,523, sef cynnydd o 14% o'i gymharu â'r 10,075 'Hoffi' a dderbyniwyd yn ystod chwarter 3. Mae'r tîm cyfathrebu yn parhau i ymgysylltu'n weithredol â thrigolion dros gyfryngau cymdeithasol ac yn monitro eu defnydd. |
| CPM/086: Cyrhaeddiad dyddiol cyfartalog tudalen Facebook Bywyd Bro Morgannwg. | 5,086 | 1,318 | 15,900 | Coch | ↓ | Gyda newidiadau algorithm diweddar Facebook, mae aelodau'r llwyfan bellach yn gweld llai o gynnwys cyhoeddus fel postio gan fusnesau, brandiau a chyfryngau. Gwelwyd gostyngiad enfawr yn ein cyrhaeddiad postio er gwaethaf bod y nifer gyfartalog o diciau 'hoffi' a chyfran y post wedi para yr un fath. Mae hyn yn rhywbeth y mae'r Tîm Cyfathrebu yn parhau i'w fonitro. Ar ddiwedd y flwyddyn, nodwyd bod y targed wedi'i adrodd yn anghywir ac wedi ei osod yn rhy uchel ar gyfer 2017/18. Mae perfformiad chwarter 4 yn 1318 yn seiliedig ar gyfrifo 119,945 o gyraeddiadau/ 91 diwrnod am y cyfnod, gan nad yw'r DP hwn yn gronnus a dylid edrych ar bob chwarter yn unigol. Ar ddiwedd y flwyddyn methodd y perfformiad y targed ac adroddir statws COG coch. |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CPM/083: Cynnydd yn y ganran o ddilynwyr Twitter ar gyfrif Twitter Cyngor y Fro. | 2.43% | 9.71% | 3.20% | Gwyrdd | ↑ | Y nifer o ddilynwyr Twitter ar gyfrif Twitter y Cyngor oedd 16,730, sef cynnydd o 9.7% ar y chwarter blaenorol. Mae'r cynnydd hwn yn dilyn y duedd a welir yn ein DP Twitter arall, er bod nifer y dilynwyr yn parhau i gynyddu bob chwarter. Mae'r tîm cyfathrebu yn parhau i ymgysylltu'n weithredol â thrigolion dros gyfryngau cymdeithasol ac yn monitro eu ddefnydd. |
| CPM/084: Argraffiadau dyddiol cyfartalog a gyflawnwyd gan gyfrif Twitter @VOGCouncil. | 7,400 | 17,100 | 7,700 | Gwyrdd | ↑ | Dros y chwarter, enillodd cyfrif Twitter y Cyngor 1.5 miliwn argraff, gan ddarparu cyfartaledd o 17,100k y dydd. Mae ein cyrhaeddiad Twitter wedi cynyddu dros y cyfnod diwethaf oherwydd eira mawr yn ystod Chwefror/Mawrth. Defnyddiwyd Twitter fel offeryn allweddol i drydaru'n fyw am ffyrdd/sefydliadau ar gau, newid mewn gwasanaethau a chyfathrebu gydag ysgolion ynglŷn â chau. Mae'r tîm cyfathrebu yn parhau i ymgysylltu'n weithredol â thrigolion dros gyfryngau cymdeithasol ac yn monitro eu ddefnydd. |
| **TGCh** | | | | | | |
| CPM/008: Canran argaeledd gwasanaeth yr 20 system TGCh uchaf. | 99.97% | 99.19% | 99.95% | Oren | ↓ | Mae'r argaeledd ychydig yn is na'r targed o 99.95% ar ddiwedd y flwyddyn oherwydd yn Ch4 cafwyd llawer o fudo data a dadgomisiynu gweinydd fel rhan derfynol o adael ystafell Gweinydd y Dwyrain (project SPACE). Mae adolygiad o'r 20 system uchaf ar y |

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | gweill ar hyn o bryd. |
| CPM/007: Canran galwadau/ tocynnau desg gwasanaeth a gaiff eu datrys o fewn amserlenni cytunedig. | 97.3% | 92.84% | 98% | Oren | ↓ | Ar ddiwedd y flwyddyn, datryswyd 7405 o alwadau (tocynnau) allan o 7976 a broseswyd gydag amserlenni cytunedig. Ar ddechrau Chwarter 4, diweddarwyd meddalwedd y ddesg gwasanaeth. Yn ystod yr uwchraddiad hwn, cafwyd ychydig o broblemau a gafodd effaith negyddol ar yr amser oedd ei angen ar staff i greu digwyddiadau. O ganlyniad, crëwyd llai o docynnau ac roedd gan y rhai a grëwyd lai o amser i'w datrys o fewn eu CLG. |

## Atodiad B – Dangosyddion Perfformiad Ychwanegol (Iechyd Corfforaethol)

| Dangosydd Perfformiad | Diwedd Blwyddyn 2016/2017 | Diwedd Blwyddyn 2017/2018 | Diwedd Blwyddyn Darged 2017/2018 | Statws COG | Cyfeiriad Teithio | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwsmer** | | | | | | |
| PAM/002: Canran y bobl sy'n cytuno bod eu Cyngor lleol yn darparu gwasanaethau o safon uchel | Amh. | Amh. | | Amh. | Amh. | Nid yw'r data ar gael (Arolwg Cenedlaethol Cymru). Ers hynny, dilëwyd y mesur PAM hwn o fframwaith cenedlaethol 2017/18 yn dilyn ymgynghoriad 2018/19. |

## Atodiad C: Cynnydd o ran ein Hadroddiad Gwella Blynyddol 2017-18 a Thraciwr Gweithgor Dirnad

Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, mae gofyn i Archwilydd Cyffredinol Cymru lunio adroddiad blynyddol am gynghorau Cymru a chyrff cyhoeddus eraill o'r enw 'Adroddiad Gwella Blynyddol', sy'n crynhoi'r gwaith archwilio a wnaed yn ystod y cyfnod rhwng 2017 a 2018. Mae'r adroddiad hwn yn trafod yr holl waith a wnaeth cyrff ymchwilio a rheoleiddio eraill megis Estyn (arolygiaeth ysgolion EM yng Nghymru) ac Arolygiaeth Gwasanaethau Gofal a Chymdeithasol Cymru.

Roedd canfyddiadau adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru'n gadarnhaol ar y cyfan a'r casgliad oedd bod y Cyngor yn cyflawni'r gofynion statudol sydd arno ar y cyfan o ran gwella parhaus. Y prif bwyntiau a nodwyd oedd:

- Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau o ran adrodd ariannol a defnyddio adnoddau;
- Mae Swyddfa Archwilio Cymru'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol i ddiogelu'r economi, ac effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau.
- Cydymffurfiodd y Cyngor â'i ddyletswyddau gwella ac adrodd statudol.

Gwnaed nifer o gynigion ar gyfer gwella, yn canolbwyntio'n benodol ar atgyfnerthu trefniadau craffu yn y Cyngor i roi'r gallu i ni ymateb i heriau yn y dyfodol a chael effaith fwy. Erys atgyfnerthu ein trefniadau ar gyfer Craffu yn flaenoriaeth gan y Cyngor, fel y nodwyd yn Hunan-asesiad Blynyddol y Cyngor ac mae gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â hyn. Ceir manylion y gwaith archwilio ar gyfer 2017/18 isod. Gallwch hefyd weld ein Hadroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer 2017/18 yn: http://www.archwilio.cymru/cy

| Disgrifiad o'r gwaith | Casgliad ar hyn o bryd | Cynigon er mwyn Gwella (PI) |
|---|---|---|
| **'Craffu: Addas at y Dyfodol?' Adolygiad**<br>Adolygiad sy'n mesur pa mor dda yw sefyllfa trefniadau trosolwg a chraffu'r Cyngor er mwyn ymateb i heriau heddiw a'r dyfodol. | **Dylai ystyried cyfleoedd i'w drefniant craffu i weithio'n wahanol ac ymateb i heriau'r presennol a'r dyfodol a chael effaith fwy.** Deuthum i'r casgliad hwn oherwydd y canfyddiadau canlynol:<br>• Mae rôl craffu yn llywodraethiant y Cyngor wedi ei diffinio'n glir, ond yn ymarferol nid yw'r pwyllgorau craffu'n dwyn y cabinet i gyfrif mor effeithiol ag y gallent ac mae'n bosibl adolygu math y cymorth craffu;<br>• Ar y cyfan, cynhelir cyfarfodydd y pwyllgorau craffu'n dda, ond gellid atgyfnerthu ffocws y gweithgareddau a dulliau craffu i ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithiol; ac<br>• Mae'r Cyngor yn monitro | P1 **Sgiliau a Datblygu:** Dylai'r Cyngor ystyried ymhellach y sgiliau a'r hyfforddiant y gallai bod eu hangen ar aelodau craffu i'w paratoi'n well at heriau presennol a'r dyfodol ac i ddarparu rhaglen hyfforddi briodol.<br><br>P2 **Ffurf a Llywodraethiant:** Dylai pwyllgorau craffu'r Cyngor sicrhau bod aelodau Cabinet priodol yn hytrach na swyddogion y cyngor yn cael eu dal yn gyfrifol dros ddefnyddio'r swyddogaethau llywodraethol yn unol â chanllaw statudol, pan fo hynny'n addas.<br><br>P3 **Trefniant:** Dylai'r Cyngor adolygu math y cymorth craffu y mae ei angen er mwyn galluogi'r trefniant craffu i ymateb i heriau presennol a'r dyfodol. |

| Disgrifiad o'r gwaith | Casgliad ar hyn o bryd | Cynigon er mwyn Gwella (PI) |
|---|---|---|
| | ac yn adrodd ar waith ei drefniant craffu, ond nid yw'r gwerthusiad yn canolbwyntio'n llawn ar yr effaith a'r gwerth y gallai ei ychwanegu. | P4 **Trefniant:** Dylai'r Cyngor archwilio dulliau gwahanol a mwy arloesol o gynnal gweithgareddau craffu.<br><br>P5 **Trefniant:** Dylai'r Cyngor ystyried sut gall ei weithgareddau craffu ganolbwyntio ar y meysydd lle câi'r gwerth gorau.<br><br>P6 **Trefniant:** Dylai'r Cyngor fod yn fwy arloesol o ran sut y mae'n ymgysylltu â'r cyhoedd yn ei weithgareddau craffu.<br><br>P7 **Gwerthuso:** Dylai'r Cyngor atgyfnerthu sut mae'n gwerthuso effaith a chanlyniadau ei weithgareddau craffu a dysgu o hyn er mwyn llywio gwaith ei drefniant craffu yn y dyfodol. |
| Crynhodd **llythyr archwilio blynyddol 2016-17** y prif negeseuon a gododd o gyfrifoldebau statudol yr Archwiliwr Cyffredinol dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'i gyfrifoldebau adrodd dan God Ymarfer Archwilio. | • Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau o ran adrodd ariannol a defnyddio adnoddau;<br>• Rydym yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol i ddiogelu'r economi, ac effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau; ac<br>• Nid yw ein gwaith hyd yn hyn ar ddilysu hawliadau a ffurflenni grant wedi darganfod problemau mawr a fyddai'n effeithio ar y datganiadau ariannol neu'r systemau ariannol allweddol. | Dim |
| **Archwiliad blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru ar y Cynllun Gwella:**<br>Adolygiad ar gynlluniau cyhoeddedig y Cyngor ar gyfer cyflawni'r amcanion gwella. | Cydymffurfiodd y Cyngor â'i ddyletswyddau cynllunio gwella statudol. | Dim |
| **Asesiad blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru o'r** | Cydymffurfiodd y Cyngor â'i ddyletswyddau adrodd ar wella | Dim |

| Disgrifiad o'r gwaith | Casgliad ar hyn o bryd | Cynigon er mwyn Gwella (PI) |
|---|---|---|
| **archwiliad perfformio:** Adolygiad ar asesiad perfformio cyhoeddedig y Cyngor. | statudol. | |
| **Adolygiadau gan gyrff arolygu a rheoleiddio eraill.** | | |
| Ni fu adolygiad gan gyrff arolygu a rheoleiddio eraill yn ystod y cyfnod hwn. | | |

## Traciwr Dirnad 2017-18

Caiff cynnydd o ran ein meysydd gwella ei fonitro trwy'r Bwrdd Dirnad bob mis a'i adrodd wrth y Tîm Rheoli Corfforaethol. Mae Traciwr Gweithredu'r Bwrdd Dirnad yn ymgorffori ein holl gynigion rheoleiddiol ar gyfer gwella yn ogystal â meysydd ar gyfer datblygu pellach a nodwyd gan y Cyngor. Mae'r tabl isod yn dangos crynodeb o'r cynnydd a wnaed erbyn mis Ebrill 2018 mewn perthynas â Thraciwr Gweithredu Dirnad. Ar y cyfan, bu'r cynnydd yn gadarnhaol, ac mae 30 o'r 62 cam gweithredu ar y traciwr wedi eu cyflawni. O blith y 32 sy'n weddill, mae 17 wedi cael statws cynnydd gwyrdd, 17 wedi cael statws oren ac 1 wedi cael statws coch. Mae 1 cam gweithredu yn newydd a heb gael statws cynnydd ar amser ysgrifennu'r adroddiad.

| Cyf. | Thema | Cyfanswm y Camau Gweithredu | Camau Coch | Camau Oren | Camau Gwyrdd | Newydd/Heb symud | Camau a Gwblhawyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PM | Gwella Corfforaethol a Rheoli Perfformiad | 6 | 0 | 2 | 1 | 0 | 3 |
| F | Cynllunio Ariannol | 11 | 1 | 3 | 1 | 0 | 6 |
| W | Cynllunio'r Gweithlu, Datblygu Gweithdrefn ac Ymgysylltu â Staff | 8 | 0 | 2 | 3 | 0 | 3 |
| PC | Partneriaeth a Chydweithio | 3 | 0 | 0 | 2 | 0 | 1 |
| P | Caffael a Rheoli Contractau | 4 | 0 | 2 | 0 | 0 | 2 |
| R | Rheoli Risg | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| A | Rheoli Asedau | 2 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 |
| IM | Rheoli Gwybodaeth a TGCh | 3 | 0 | 2 | 0 | 0 | 1 |
| L | Cyfreithiol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| C | Cyfathrebu Allanol, Ymgynghori, Ymgysylltu a Pherthnasau â Chwsmeriaid | 4 | 0 | 1 | 0 | 0 | 3 |
| M | Perthnasau ag Aelodau a Llywodraethu | 16 | 0 | 1 | 4 | 1 | 10 |

| Cyf. | Thema | Cyfanswm y Camau Gweithredu | Camau Coch | Camau Oren | Camau Gwyrdd | Newydd/Heb symud | Camau a Gwblhawyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| E | Cydraddoldeb | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| EX | Cynaliadwyedd Amgylcheddol | 3 | 0 | 2 | 1 | 0 | 0 |
| | **Cyfanswm** | **62** | **1** | **17** | **13** | **1** | **30** |

## Traciwr Rheoliadol 2011-2015

Cyn sefydlu'r Bwrdd Dirnad yn 2016, y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Craffu perthnasol a'r Cabinet fyddai'n ystyried yr holl adroddiadau Rheoliadol. Câi'r camau gweithredu a ddeilliai o'r adroddiadau rheoliadol eu cynnwys yn y Cynlluniau Gwasanaeth ac adroddid ar gynnydd bob tri mis wrth y Pwyllgorau Craffu perthnasol. Câi hyn ei ategu gan adroddiad Tracio Rheoliadol a ystyriai'r Pwyllgor Archwilio ac yna'r Cabinet ddwywaith y flwyddyn. Cyfunai'r adroddiad Tracio Rheoliadol wybodaeth am gynnydd y Cyngor hyd hynny o ran mynd i'r afael â'r holl argymhellion rheoliadol a chynigion gwella cyfredol, mewn un adroddiad.

Crëwyd y Bwrdd Dirnad i wella'r trefniadau llywodraethu corfforaethol sy'n berthnasol i weithgareddau cynllunio integredig a'u gwneud yn fwy uniongyrchol, ac mae'n adrodd wrth y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Cabinet. Pan gafodd ei greu, cytunwyd y cynhelid adolygiad ar yr holl argymhellion/cynigion ar gyfer gwella rheoliadol ac y cynhwysid y rhai heb eu cyflawni yn y Traciwr Gweithredu Dirnad newydd i sicrhau adolygu a monitro parhaus. Cynhaliwyd yr arolwg ym mis Rhagfyr 2017 fel rhan o broses Asesu Blynyddol y Cyngor a'i adrodd wrth yr holl Bwyllgorau Craffu ym mis Chwefror 2018 a'r Cabinet ar 5 Mawrth 2018.

Gan fod gwella a pherfformiad corfforaethol yn agwedd allweddol ar gyfrifoldeb y Bwrdd, cynhelir adolygiadau a monitro misol o ran blaenoriaethau gwella corfforaethol i sicrhau y cwblheir camau gweithredu, yr adroddir arnynt ac y cânt eu cau yn amserol. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn parhau i dderbyn gwybodaeth am gynnydd ar yr holl argymhellion rheoliadol/cynigion ar gyfer gwella trwy'r dull hwn, sy'n fwy cyfunol ac â mwy o ffocws, gan y Bwrdd Dirnad ac mae nawr yn derbyn dau adroddiad, adroddiad newyddion 6 mis (hanner blwyddyn) a ategir gan yr adolygiad blynyddol ar gynnydd trwy Hunan-asesiad Blynyddol y Cyngor. Ystyrir yr un adroddiad gan y Pwyllgorau Craffu Perthnasol a'r Cabinet cyn adrodd wrth y Pwyllgor Archwilio ar gyfer y trosolwg terfynol. Bydd y dull hwn yn parhau i sicrhau bod y Pwyllgorau perthnasol yn adolygu a chraffu ar y cynnydd, ac yn gwneud argymhellion priodol i'r Cabinet er mwyn gallu cau camau gweithredu'n amserol ac adrodd am unrhyw broblemau yn rheolaidd.

Wrth ddechrau'r flwyddyn hon (adolygiad 2017/18), mae adolygiad blynyddol ar yr argymhellion rheoliadol/cynigion ar gyfer gwella nawr yn rhan o broses Hunan-asesu Flynyddol y Cyngor, sy'n rhoi'r gallu i ni ddangos cynnydd o ran gweithredu'r rhain yn unol â'n dyletswyddau gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Isod mae crynodeb lefel uchel o'r Traciwr Rheoliadol ar gyfer 2017/18. Ar y cyfan, cwblhawyd rhan fwyaf y camau gweithredu (61 o'r 62) a ddeilliodd o'r argymhellion/cynigion ar gyfer gwella rhwng 2011 a 2015 ac mae'r rhain bellach wedi eu tynnu o'r traciwr rheoliadol. Mae nifer wedi eu disodli gan gynigion newydd mewn gwaith craffu mwy diweddar ac mae'r rhain wedi eu hymgorffori yn Nhraciwr Gweithredu Dirnad y Cyngor, ac eithrio'r gwaith sy'n berthnasol i Gyd Gonsortiwm Addysg Canol De Cymru, sy'n cael ei fonitro trwy'r Cydbwyllgor a'r Gweithgor bob tymor.

| Corff Rheoleiddio | Adolygiad | Nifer y Cynigon ar gyfer Gwella (IP) | Statws | Pwyllgor Craffu |
|---|---|---|---|---|
| Swyddfa Archwilio Cymru | *Llwyddo â Llai* – Gwasanaethau Hamdden (Rhagfyr 2015) | 4 | 2 wedi eu cwblhau. 2 yn parhau, wedi eu disodli gan Gyfeirnod Traciwr Gweithredu Dirnad: ES3 | Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol |
| Swyddfa Archwilio Cymru ac Estyn | Adolygiadau Estyn a S.A.C ar y Consortia Addysg Rhanbarthol (Mehefin 2015). | 5 | 4 wedi eu cwblhau. 1 wedi ei ddisodli gan Estyn R4 2016 (Cydbwyllgor) | Dysgu a diwylliant |
| Swyddfa Archwilio Cymru | Adolygiad ar ddull strategol y Cyngor o ail-siapio gwasanaethau (Ebrill 2015) | 5 | 5 wedi eu cwblhau. Disodlwyd gan Gyfeirnod Traciwr Gweithredu Dirnad: F8 | Perfformio Corfforaethol ac Adnoddau |
| Swyddfa Archwilio Cymru | Rheoli effaith newidiadau diwygio Lles ar denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru (Ionawr 2015) | 6 | 6 wedi eu cwblhau. | Tai a Chymunedau Diogel |
| Swyddfa Archwilio Cymru | Trefniadau'r Awdurdod Lleol i gefnogi Diogelu Plant (Tachwedd 2014) | 3 | 3 wedi eu cwblhau. | Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol |
| Swyddfa Archwilio Cymru | Adolygiad S.A.C: *Llwyddo â Llai* – Yr Effaith ar Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Dinasyddion (Hydref 2014) | 5 | 5 wedi eu cwblhau. | Tai a Chymunedau Diogel<br><br>Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol |
| Swyddfa Archwilio Cymru | Adroddiad Gwella Blynyddol y Fro 2013 – 2014 (Medi 2014) | 3 | 3 wedi eu cwblhau. | Perfformio Corfforaethol ac Adnoddau |
| Swyddfa Archwilio Cymru | Pobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant – Canfyddiadau adolygiad ar gynghorau yng Nghymru (Gorffennaf 2014) | 5 | 5 wedi eu cwblhau. | Dysgu a diwylliant |
| Swyddfa Archwilio Cymru | Craffu Da, Cwestiwn Da (Mai 2014) | 8 | 8 wedi eu cwblhau. Disodlwyd gan Gyfeirnod Traciwr Gweithredu Dirnad Cyf:M2 | Perfformio Corfforaethol ac Adnoddau |
| Swyddfa Archwilio | Arolwg Estyn – Gwasanaeth Addysg | 6 | 6 wedi eu cwblhau. | Dysgu a diwylliant |

| Corff Rheoleiddio | Adolygiad | Nifer y Cynigon ar gyfer Gwella (IP) | Statws | Pwyllgor Craffu |
|---|---|---|---|---|
| Cymru | Awdurdod Lleol (Medi 2013) | | | |
| Estyn | Arolwg Estyn – Dysgu Oedolion a'r Gymuned (Chwefror 2013) yn cynnwys arolwg dilynol (Ionawr 2015) | 5 | 5 wedi eu cwblhau. | Dysgu a diwylliant |
| Swyddfa Archwilio Cymru | Adolygiad ar Drefniadau Llywodraethu'r Cyd-Wasanaeth Addysg (Mehefin 2013) | 4 | 4 wedi eu cwblhau. | Dysgu a diwylliant |
| AGGCC | Adolygiad Blynyddol Arolygiaeth Gwasanaethau Gofal a Chymdeithasol a Gwerthusiad Perfformiad 2010-2011 (Hydref 2011) | 2 | 2 wedi eu cwblhau. | Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol |
| Swyddfa Archwilio Cymru | Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Dechnoleg (Hydref 2011) | 1 | 1 wedi eu cwblhau. Disodlwyd gan Gyfeirnod Traciwr Gweithredu Dirnad Cyf: IMM1 ac IMM2 | Perfformio Corfforaethol ac Adnoddau |

# RHESTR TERMAU

**Canlyniad Llesiant:** Y Canlyniad Llesiant perthnasol a osodir gan y Cyngor ac sydd yng Nghynllun Corfforaethol 2016-20.

**Amcan Llesiant:** Yr Amcan Llesiant perthnasol a osodir gan y Cyngor ac sydd yng Nghynllun Corfforaethol 2016-20.

**Dangosyddion Perfformiad Lefel y Boblogaeth:** Mae’r dangosyddion perfformiad hyn yn dangos cynnydd o ran cyflawni canlyniadau ar lefel gymunedol yn lle lefel unigol. Bydd y Cyngor yn sicr yn cyfrannu at ddangosyddion y boblogaeth trwy ei waith, ond, nid yw’n gyfan gwbl gyfrifol amdanynt a bydd cyflawni gwelliant o ran y dangosyddion hyn yn cynnwys ystod eang o sefydliadau yn gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol.

**Dangosyddion Perfformiad Cyngor Lleol:** Dyma’r dangosyddion perfformiad sy’n dweud wrthym pa mor dda rydym yn darparu ein gwasanaethau neu weithgareddau a byddant yn canfod sut mae'r rhain yn cyfrannu at yr effaith gyffredinol ar y gymuned gyfan. Mae’r canolbwynt ar a yw cwsmeriaid yn fwy ffodus o ganlyniad i’r hyn rydym yn ei wneud. Er mwyn canfod y mesurau perfformiad pwysicaf i ddangos ein cynnydd mae angen i ni wybod: Faint rydym yn ei wneud? Pa mor dda rydym yn ei wneud a; Pa wahaniaeth rydym wedi'i wneud?

| Pa Wahaniaeth Rydym Wedi’i Wneud? | Pa Mor Dda Rydym Wedi Perfformio? | Faint? (data cyd-destunol) |
|---|---|---|
| Bydd y mesurau perfformiad hyn yn ein helpu i ddangos a yw Cwsmeriaid yn y Fro yn fwy ffodus. Byddant yn ceisio mesur swm/ansawdd newid er gwell i gwsmeriaid. | Mae’r dangosyddion perfformiad hyn yn ansoddol a chânt eu defnyddio i ddangos pa mor dda mae’r Cyngor wedi perfformio o ran ei weithgareddau. | Mae’r dangosyddion perfformiad hyn yn fesurol a chânt eu defnyddio i fesur faint a/neu beth mae’r Cyngor wedi’i ddarparu. |

**Statws RAG cyffredinol**

**Statws Cyffredinol y Canlyniad Llesiant:** Yn gwneud gwiriad iechyd RAG cyffredinol sy'n dangos statws ein perfformiad yn erbyn y Canlyniad Llesiant. Mae’r statws RAG yn adlewyrchu perfformiad cyfunol yr holl weithrediadau a mesurau perfformiad sy’n gysylltiedig â’r Canlyniad.

| Mesurau a Chamau Gweithredu (RAG) | | Cyfeiriad Teithio (CT) | | Canlyniad Statws Cyffredinol (RAG) | |
|---|---|---|---|---|---|
| G | Gwyrdd: Cyfanswm cyfunedig o 85% neu fwy o gamau gweithredu a mesurau Gwyrdd | | Mae perfformiad wedi gwella ac â statws RAG gwell o’i gymharu â’r chwarter diwethaf | G | Gwyrdd: yn nodi ein bod ni’n gwneud y gwaith sydd ei angen er mwyn cyflawni’r prif ganlyniadau a dangosyddion perfformiad sy’n ymwneud â'r Amcanion fel y nodir yn y Cynllun Corfforaethol. |

| Mesurau a Chamau Gweithredu (RAG) | | Cyfeiriad Teithio (CT) | | Canlyniad Statws Cyffredinol (RAG) | |
|---|---|---|---|---|---|
| O | Oren: Cyfanswm cyfunedig o 50% neu fwy o gamau gweithredu a mesurau Oren | ↔ | Nid yw perfformiad na statws RAG wedi newid o'u cymharu â'r chwarter diwethaf | O | Oren: yn nodi ein bod ni'n gwneud y gwaith sydd ei angen ar y cam hwn i gyflawni'r Amcanion ond bod angen mynd i'r afael â rhai agweddau er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i wneud y gwaith i gyflawni'r Canlyniad yn llawn. |
| C | Coch: Cyfanswm cyfunedig o 50% o gamau gweithredu a mesurau Coch | ↓ | Mae perfformiad wedi gostwng ac mae ei statws RAG wedi lleihau o'i gymharu â'r chwarter diwethaf | C | Coch: yn nodi nad ydyn ni'n gwneud y gwaith sydd ei angen er mwyn cyflawni'r prif ganlyniadau a dangosyddion perfformiad sy'n ymwneud â'r Amcanion fel y nodir yn y Cynllun Corfforaethol. |

**Statws Ciplun o Berfformiad y Canlyniad Llesiant:** Yn gwneud gwiriad iechyd RAG cyffredinol sy'n dangos statws ein perfformiad yn erbyn y Canlyniad Llesiant o ran gweithrediadau a mesurau perfformiad. Mae statws RAG pob un yn berthnasol i berfformiad cyfunol yr holl weithrediadau neu fesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â'r Canlyniad.

| Mesurau | | | Camau Gweithredu | Cyfeiriad Teithio (CT) | | Statws Cyffredinol (RAG) Gweithrediadau neu Fesurau | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| G | Gwyrdd: Cyfanswm cyfunedig o 85% neu fwy o fesurau Gwyrdd | G | Gwyrdd: Cyfanswm cyfunedig o 85% neu fwy o weithrediadau Gwyrdd | ↑ | Mae perfformiad wedi gwella ac â statws RAG gwell o'i gymharu â'r chwarter diwethaf | G | Gwyrdd: yn nodi ein bod ni'n gwneud y gwaith sydd ei angen er mwyn cyflawni'r prif ganlyniadau a dangosyddion perfformiad sy'n ymwneud â'r Amcanion fel y nodir yn y Cynllun Corfforaethol. |
| O | Oren: Cyfanswm cyfunedig o 50% neu fwy o fesurau Oren | O | Oren: Cyfanswm cyfunedig o 50% neu fwy o weithrediadau Oren | ↔ | Nid yw perfformiad na statws RAG wedi newid o'u cymharu â'r chwarter diwethaf | O | Oren: yn nodi ein bod ni'n gwneud y gwaith sydd ei angen ar y cam hwn i gyflawni'r Amcanion ond bod angen mynd i'r afael â rhai agweddau er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i wneud y gwaith i gyflawni'r Canlyniad yn llawn. |

| Mesurau | | | Camau Gweithredu | Cyfeiriad Teithio (CT) | | Statws Cyffredinol (RAG) Gweithrediadau neu Fesurau | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| C | Coch: Cyfanswm cyfunedig o 50% o fesurau Coch | C | Coch: Cyfanswm cyfunedig o 50% o weithrediadau Coch | ↓ | Mae perfformiad wedi gostwng ac mae ei statws RAG wedi lleihau o'u cymharu â'r chwarter diwethaf | C | Coch: yn nodi nad ydyn ni'n gwneud y gwaith sydd ei angen er mwyn cyflawni'r prif ganlyniadau a dangosyddion perfformiad sy'n ymwneud â'r Amcanion fel y nodir yn y Cynllun Corfforaethol. |

**Amcan Llesiant:** Yn gwneud gwiriad iechyd RAG cyffredinol sy'n dangos statws ein perfformiad yn erbyn y Canlyniad Llesiant.

| Mesurau (RAG) | | Cyfeiriad Teithio (CT) | | Camau Gweithredu (RAG) | | Amcan Statws Cyffredinol (RAG) | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| G | Perfformiad yn bwrw'r targed neu'n gwneud yn well nag ef | ↑ | Mae'r dangosyddion perfformiad hyn yn ansoddol a chânt eu defnyddio i ddangos pa mor dda mae'r Cyngor wedi perfformio o ran ei weithgareddau. | G | Gwyrdd: Cam gweithredu wedi'i gwblhau neu ar y trywydd iawn i gael ei gwblhau erbyn y dyddiad terfyn. | G | Gwyrdd: yn nodi ein bod ni'n gwneud y gwaith sydd ei angen er mwyn cyflawni'r prif ganlyniadau sy'n ymwneud â'r Amcanion fel y nodir yn y Cynllun Corfforaethol. |
| O | Oren: Perfformiad o fewn 10% o'r targed | ↔ | Mae perfformiad yr un peth â'r un chwarter y llynedd. | O | Oren: Mân oedi ond mae camau yn cael eu cymryd i wneud y gwaith sydd ei angen. | O | Oren: yn nodi ein bod ni'n gwneud y gwaith sydd ei angen ar y cam hwn i gyflawni'r Amcan ond bod angen mynd i'r afael â rhai agweddau er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i wneud y gwaith i gyflawni'r Amcan yn llawn. |

| Mesurau (RAG) | | Cyfeiriad Teithio (CT) | | Camau Gweithredu (RAG) | | Amcan Statws Cyffredinol (RAG) | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| C | Coch: Perfformiad heb fwrw'r targed gan 10% neu fwy. | ↓ | Mae perfformiad wedi gostwng o'i gymharu â'r un chwarter y llynedd. | C | Coch: Nid oes llawer o gynnydd wedi'i wneud o ran camau gweithredu ac mae'n rhaid rhoi esboniad gan gynnwys unrhyw gamau adferol cynlluniedig a lle bo'n briodol, ddyddiad cwblhau diwygiedig. | C | Coch: yn nodi nad ydyn ni'n gwneud y gwaith sydd ei angen ar y cam hwn er mwyn cyflawni'r prif ganlyniadau sy'n ymwneud â'r Amcan fel y nodir yn y Cynllun Corfforaethol. |

## CAMAU GWEITHREDU CYNLLUN GWASANAETH

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **GC:** Gwasanaeth Cymdogaeth a Thrafnidiaeth | **GP:** Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc | **GO:** Gwasanaethau Oedolion | **RhA:** Rheoli Adnoddau a Diogelu | **AD:** Adnoddau Dynol |
| **GT:** Gwasanaethau Tai ac Adeiladu | **PD:** Perfformio a Datblygu | **GD:** Gwasanaethau Democrataidd | **GTG:** Gwasanaethau Cyllid a TGCh | **GC:** Gwasanaethau Cyfreithiol |
| **GRhR:** Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir | **AC:** Adfywio a Chynllunio | **SD:** Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau | **CB:** Cyflawniad i Bawb | |

## MATRICS RISG

Mae'r **Risg Cynhenid** yn diffinio'r sgôr risg mewn amgylchedd cyn rheoliadau h.y. beth fyddai'r risg (sgôr) heb roi unrhyw reoliadau ar waith i reoli'r risg.

Gellir diffinio **Risg Gweddilliol** fel sgôr risg sylweddol o ganlyniad i roi rheoliadau ar waith i leihau'r risg hwn.

| Effaith neu Faint Posibl y Risg | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Catastroffi g | 4 *CANOLIG* | 8 CANOLIG/UCH EL | 12 UCHEL | 16 UCHEL IAWN |
| | Uchel | 3 *CANOLIG/IS EL* | *6* *CANOLIG* | 9 CANOLIG/UCH EL | 12 UCHEL |
| | Canolig | 2 ISEL | 4 *CANOLIG* | *6* *CANOLIG* | 8 CANOLIG/UCH EL |
| | Isel | 1 ISEL IAWN | 2 ISEL | 3 *CANOLIG/ISEL* | *4* *CANOLIG* |
| Isel 1-2<br>Isel/Canolig 3<br>Canolig 4-6<br>Canolig/Uchel 8-10<br>Uchel 12-16 | | **Annhebygol Iawn** | **Posibl** | **Tebygol** | **Bron yn Bendant** |
| | | **Tebygrwydd y Bydd y Risg yn Digwydd** | | | |

Mae **cyfeiriad teithio**'n cymharu sgôr risg gweddilliol ar gyfer y chwarter cyfredol â'r chwarter blaenorol i ganfod a yw'r risg yn cynyddu/lleihau neu ddim yn newid.

Mae **Rhagolwg o gyfeiriad teithio**'n rhagweld cyfeiriad y risg yn y dyfodol gan ystyried ffactorau sy'n debygol o effeithio arno.

## Eglurhad o Risgiau

| | |
|---|---|
|  | Lefel risg wedi **cynyddu** yn yr adolygiad diwethaf |
|  | Lefel risg wedi **gostwng** yn yr adolygiad diwethaf |
|  | Lefel risg **heb newid** yn yr adolygiad diwethaf |